Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

# TRAETHODAU

AC

# AREITHIAU

AR

Y GWAHANOL FATERION CANLYNOL;—

CYMDEITHASAU LLENYDDOL.
ENWOGION CYMRU. AR DDERBYNIAD TYSTEB. ARAETH.
GWERSI'R CYFYNGDER. ARAETH.
PERYGLON Y CYSTADLU. ACHOSION SEISNIG YN NGHYMRU.
SUT I GAEL PRIF ATHROFA I GYMRU.
DYSGU CYMRAEG. DYLEDSWYDD YR IEUAINC.
CADWRAETH YR IAITH GYMRAEG.
YR EISTEDDFOD. PAPUR NEWYDD DYDDIOL CYMREIG.
ENLLIBWYR EIN GWLAD.
ADDYSG I FERCHED IEUAINC. GWLADGARWCH Y CYMRY.
PETHAU WNAWN PE BAE GENYF ARIAN.
EISIEU DYNION MAWR.
Y MODD GOREU I WARADWYDDO CYMRU.
TROI AT Y SEISON. PETHAU WNAWN PE GALLWN.

GAN

ROBERT JONES DERFEL,

MANCHESTER.

BANGOR:
ARGRAFFWYD GAN J. MENDUS JONES.

1864.

PRIS HANER CORON.

Digitized by Google

Digitized by Google

I

972 K 41

# TRAETHODAU

AC

# AREITHIAU

AR

## Y GWAHANOL FATERION CANLYNOL;—

Cymdeithasau Llenyddol.
Enwogion Cymru. Ar dderbyniad Tysteb. Araeth.
Gwersi'r Cyfyngder. Araeth.
Peryglon y Cystadlu. Achosion Seisnig yn Nghymru.
Sut i gael Prif Athrofa i Gymru.
Dysgu Cymraeg. Dyledswydd yr Ieuainc.
Cadwraeth yr Iaith Gymraeg.
Yr Eisteddfod. Papur Newydd Dyddiol Cymreig.
Enllibwyr ein Gwlad.
Addysg i Ferched ieuainc. Gwladgarwch y Cymry.
Pethau wnawn pe bae genyf arian.
Eisieu Dynion Mawr.
Y modd goreu i waradwyddo Cymru.
Troi at y Seison. Pethau wnawn pe gallwn.

GAN

ROBERT JONES DERFEL,

MANCHESTER.

BANGOR:
ARGRAFFWYD GAN J. MENDUS JONES.

1864.

Digitized by Google

## GWELLIANT GWALL.

Tudalen 52, yn y paragraph am **Arthur Frenin,** yn lle y *bumed* ganrif, darllen y *chweched.*

BRITISH MUSEUM

Digitized by Google

III

I

WILLIAM WILLIAMS,
(CREUDDYNFAB,)

Ysgrifenydd yr Eisteddfod,

FEL ARWYDD O BARCH IDDO FEL LLENOR
A GWLADGARWR,

AC YN ENWEDIG

FEL CYDNABYDDIAETH O GYFEILLGARWCH DIDWYLL
A PHROFEDIG,

Y CYFLWYNIR Y GYFROL HON,

GAN EI GYFAILL DIFFUANT,

YR AWDWR.

Digitized by Google

Digitized by Google

# RHAGYMADRODD.

BYDD y darllenydd yn dysgwyl rhyw air yn nghylch y llyfr newydd hwn—gair am ei gynwysiad, a gair am ei gyhoeddiad. Mae rhai darnau o'r llyfr wedi eu hysgrifenu er ys blynyddoedd, a darnau ereill newydd ddyfod o'r bathdy. Y traethawd cyntaf yn y llyfr ydoedd yr un buddugol yn Eisteddfod Bethesda, yn 1854; o leiaf, mae rywbeth yn debyg iddo. Methais gael gafael ar yr eilun yrwyd i'r gystadleuaeth, er holi droion amdano; ac yr oeddwn yn meddwl unwaith na welwn ef byth allan o'r wasg; ond wrth chwilota yn mysg fy llyfrau, deuais ar draws yr ysgrif wreiddiol, adysgrif o ba un a anfonwyd i'r gystadleuaeth. Buwyd yn son am ei gyhoeddi yn llyfr yn union ar ol yr Eisteddfod, ac ymddangosodd hysbysiadau yn ei gylch yn y newyddiaduron; ond son a wnaed, a dim arall. Heb ei gyhoeddi y buasai byth, oni buasai i mi yn ddamweiniol daraw ar yr ysgrif wreiddiol. Nid allaf beidio â myned oddiwrth fy mhwnc dipyn bach yn y fan yma i ddyweyd fod awduron a chyhoeddwyr yn rhy ofnus o lawer. Os ceir llyfr da am bris rhesymol, ac os defnyddir moddion priodol at ei ledaenu, mae yn sicr o werthu. Oferedd yw dysgwyl cael digon a enwau at lyfr yn y byd braidd i sicrhau elw cyn i'r llyfr gael ei gyhoeddi. Y ffordd i werthu llyfr i'r Cymry ydyw ei gyhoeddi a'i gymeryd atynt, ac wedi ei gael yn eu hymyl hwy a i prynant. Camgy-

Digitized by Google

meriad hefyd ydyw i'r awdwr gyhoeddi ei waith ei hun: y cyhoeddwr yw yr un priodol at y gwaith. Gallai ef wneyd i lyfr dalu ag a fyddai yn golled i bawb arall. Ond y mae ar awduron rywfodd gymaint o ofn i'r cyhoeddwr fyned yn gyfoethog ar eu traul, fel y cyhoeddant eu gwaith eu hun, pan gânt esboniad ar yr elw trwy golli arian. Mae gan y dyn ddigon o ysgrifau i wneyd llyfr swllt o bosibl. Carai eu cyhoeddi, ond y mae arno ofn y canlyniad, ac ni fyn y cyhoeddwr mo'r gwaith am ddim: er hyny, os ewch at yr awdwr gyda bwriad i'w gynorthwyo i gael ei lyfr allan, mae yn dechreu pryderu yn y fan yn nghylch y *copyright*. Dygwyddais daro ar ŵr unwaith oedd mewn meddiant o ganoedd o lyfrau a gyhoeddwyd er ys blynyddau yn ol, a dywedais wrtho y dylasai geisio eu gwerthu yn awr am fod mwy o brynu ar lyfrau Cymreig nag a fu erioed; ac yn y fan dechreuodd siarad yn nghylch gwerthu y llyfr, a'r *copyright* i'w ganlyn. Faint tybed ydyw gwerth *copyright* llyfr nad ellir ei werthu? Fy nghynghor i i bob awdwr ieuanc, a hen hefyd, o ran hyny, fyddai hyn: Os oes genych waith eisieu ei gyhoeddi, gwerthwch ef i gyhoeddwr, os gellwch gael un; oblegid gwnant well cyfiawnder â'ch gwaith o lawer nag y gwnaech chwi â'ch gwaith eich hun. Ond yn ol at y pwnc. Yr achos na chyhoeddwyd y traethawd ar y Cymdeithasau Llenyddol, yn ol yr hysbysiad, mae yn debygol, ydoedd, na ddaeth digon o enwau i law amdano. Nid yw y feirniadaeth ar y traethawd yn fy meddiant; ond llefarai y beirniad, sef y diweddar Eben Fardd, yn uchel iawn amdano; ac os wyf yn cofio yn dda, dywedai y byddai yn debyg o ffurfio cyfnod newydd yn llenyddiaeth y Cymry, neu eiriau i'r perwyl yna. Os oedd y traethawd yn haeddu haner y ganmoliaeth a dderbyniodd, mae yn gywilydd ei fod wedi cael ei gadw mor hir heb ei gyhoeddi; ond haeddu neu beidio, wele ef, a gobeithiaf ei fod yn werth i'w ddarllen, er nad allaf ddysgwyl i bawb feddwl mor uchel ohono ag y meddyliai y beirniad.

Ofered fyddai i mi roddi hanes pob traethawd ac araeth sydd yn y llyfr. Mae rhai ohonynt yn egluro eu hunain; ac y mae y cwbl yn eithaf dealladwy heb unrhyw esboniad. Digoned i mi ddyweyd fod rhyw ddygwyddiad, neu egwyddor, neu syniad, wedi bod yn achlysur i ysgrifeniad pob ysgrif yn y llyfr hwn.

Digitized by Google

Nid wyf heb amheuaeth yn nghylch y derbyniad a gaiff y llyfr gan lawer o'm cydwladwyr. Mae yn fwy na thebygol y caf lawer dyrnod a hergwd o'i achos, yn herwydd rhai erthyglau ynddo; ond er hyny ni fynwn ei alw yn ol pe byddai yn bosibl, oblegid nid wyf yn ei gyhoeddi heb reswm tros hyny.

Yr oedd ei gyhoeddiad wedi dyfod yn angenrheidiol i mi, er fy nghysur fy hun. Yr oedd y gwirioneddau a'r syniadau a gynwysir yn amryw o'r traethodau wedi bod yn croni yn fy enaid am flynyddau, nes o'r diwedd yr oeddent yn fwy nag a allwn gynwys. Yr oedd yn rhaid i mi eu gollwng allan, neu adael iddynt niweidio fy nghyfansoddiad. Yr oedd rhai pethau sydd yn y llyfr yn ysu fel tân yn fy enaid, ac yn bwyta tyllau yn fy nghalon—yr oeddent yn fy ngwneyd yn sâl, ac oblegid hyny penderfynais eu cael allan; a dyma hwy yn y ffurf o lyfr. Os na wnaiff y llyfr les i neb arall, gwnaiff les i mi trwy fy rhyddhau oddiwrth lawer o bethau oeddent yn fy mlino o eisieu cael eu dyweyd.

Heblaw hyna, yr wyf yn gobeithio y gall y traethodau hyn fod fel had yn nghalon eu darllenwyr, ac y bydd iddynt dyfu a ffrwytho ar eu canfed yn y dyfodol. Carwn yn fawr i'r llyfr fod yn foddion i ladd yr *ysbryd bradwrus* sydd yn llechian mewn llawer congl o'n gwlad; ac yn enwedig carwn iddo fod yn foddion i fagu ysbryd gwladgarol yn mhawb a'i darllenant. Fel hyn cyflwynaf fy llyfr i ofal a nodded fy nghydwladwyr, gan obeithio y rhydd ychydig o fwynhâd a llesiant i bawb a'i darllenant.

*Chwefror*, 1864.

Digitized by Google

# CYNWYSIAD.


| | Tudal. |
|---|---|
| Cymdeithasau Llenyddol | 1 |
| Enwogion Cymru | 51 |
| Ar dderbyniad Tysteb | 106 |
| Araeth | 109 |
| Gwersi'r Cyfyngder | 113 |
| Araeth | 118 |
| Peryglon y cystadlu | 121 |
| Achosion Seisnig yn Nghymru | 126 |
| Sut i gael Prif Athrofa i Gymru | 133 |
| Dysgu Cymraeg | 138 |
| Dyledswydd yr Ieuainc | 142 |
| Cadwraeth yr Iaith Gymraeg | 151 |
| Yr Eisteddfod | 168 |
| Papur Newydd Dyddiol Cymreig | 189 |
| Enllibwyr ein gwlad | 192 |
| Addysg i Ferched ieuainc | 204 |
| Gwladgarwch y Cymry | 217 |
| Pethau wnawn pe bae genyf arian | 227 |
| Eisieu dynion mawr | 232 |
| Y modd goreu i waradwyddo Cymru | 238 |
| Troi at y Seison | 242 |
| Pethau wnawn pe gallwn | 249 |


Digitized by Google

# Traethodau ac Areithiau.

## CYMDEITHASAU LLENYDDOL.

### BUDDUGOL YN EISTEDDFOD BETHESDA, 1854.

YN awr, pan y mae Cymdeithasau Llenyddol yn derbyn cymaint o sylw gan genedl y Cymry, mae angen mawr am ledaenu ar hyd y wlad yn gyffredinol syniadau cywir ac eglur o berthynas iddynt, o ran eu natur, y sylfeini ar ba rai y dylid eu sefydlu, y dybenion y bwriedir eu hateb trwyddynt, yr offerynau i'w harferyd yn eu dygiad yn mlaen, yn nghyda'u galluogrwydd i gynyrchu daioni cyffredinol.

Nis gellir dwyn unrhyw anturiaeth yn anrhydeddus i fuddugoliaeth heb yn gyntaf ei deall yn drwyadl yn ei holl gysylltiadau. Pan fyddo adeiladydd yn myned i adeiladu palas, y peth cyntaf a wna fydd ei gynllunio. Bydd arddull yr adeilad, nifer a mesur yr ystafelloedd, drysau, mynedfeydd, ffenestri, a phob peth perthynol iddo, wedi eu penderfynu, cyn y gosodir y gareg sylfaen i lawr. Bydd llygad ei feddwl yn canfod y palas fel pe wedi ei orphen, cyn iddo gael ei ddechreu; ac wedi ei gwblhau, ni bydd ond sylweddoliad manwl o'r cynllun ohono a dynwyd yn flaenorol. Felly hefyd gyda golwg ar Gymdeithasau Llenyddol; os ydys am eu gwneyd yn sefydliadau a fyddant yn addurn a bendith parhaol i'n gwlad, rhaid iddynt gael eu deall yn drwyadl, eu gosod ar sylfeini cedyrn, a'u hamgylchu gyda phob defnydd ac offeryn ag ydynt yn angenrheidiol i ddadblygu yn gynyddol eu holl alluoedd. Os deuparth gwaith yw ei ddechreu, deuparth ei lwyddiant yw ei ddechreu yn iawn. Pan fyddys yn myned i daith i le penodol, y peth pwysicaf ar ei dechreuad ydyw cychwyn ar yr iawn ffordd ac yn yr iawn gyfeiriad. Gwell peidio cychwyn oll, na

chychwyn ar ffordd gyfeiliornus. Yn y dechreu bob amser y mae hawddaf gosod pethau yn iawn. Arferiadau drygionus, a sefydliadau anmherffaith, megys rhai da, ydynt yn casglu nerth chwanegol bob dydd; o wythnos i wythnos mae yn fwy anhawdd eu cyfnewid, neu eu di-ddymu, a dwyn rhai ereill yn eu lle. Maent fel y dderwen, yr hon sydd yn taflu ei gwraidd yn bellach a dyfnach yn barhaus, yn gweithio ei ffordd o dan y graig, ac yn gafaelyd ynddi, ac yn ymgylymu â phob peth ag y delo i gysylltiad â hwynt, nes y bydd mor gadarn a diysgog a'r ddaear yn yr hon y tyfa. Edrychwch ar y ffrwd fechan sydd yn ymlusgo yn araf a chloff wrth odreu y bryn. Gydag ychydig drafferth gellid ei throi y ffordd a fynid; ond ychydig yn mlaen cyferfydd â ffrwd fechan arall, ac mae y ddwy yn ymbriodi; y ddwy ffrwd unedig drachefn cyn hir a gyfarfyddant âg un arall, ac felly eilwaith ac eil-waith, nes bydd y ffrwd fechan, wan, a chloff, yn afon gref a mawreddog, yr hon nad ellir ei hattal na chyfnewid cyfeiriad ei gyrfa. Gellir llawio y gareg yn ddigon diber-ygl pan ar ben y bryn, a'i symud yma neu acw yn ol fel y mynir; ond ar ol iddi gael ei chychwyn i lawr yr ochr serth, cyflyma ei threigliadau—neidia i fyny—disgyna i lawr—rhuthra tua'r gwastadedd, gan daranu dinystr i bawb a gynygiont ei hattal. Felly hefyd y mae arferiadau a sefydliadau dynol, pa un bynag ai da, anmherffaith, ynte drwg a fyddont; ymwreiddiant yn ddyfnach, ddyfnach, casglant nerth chwanegol yn barhaus, ac ymgylymant mewn rhyw ddull neu gilydd â holl gysylltiadau cym-deithas. Pethau ag oeddent yn fychain a dibwys mewn cymhariaeth, a hawdd i'w dinystrio yn eu dechreuad, yn awr, ar ol cael eu meithrin am ganrifoedd ar fronau am-ser, ydynt ddigon cedyrn i herio pob gwrthwynebiad, fel mynydd yn herio tymestl.

Dengys y sylwadau blaenorol y pwysigrwydd o sefydlu Cymdeithasau Llenyddol, fel cymdeithasau ereill, ar egwyddorion cywir, a gwneuthur eu holl drefniadau yn y modd sicraf i ateb y dybenion yr ymgyraeddir atynt drwyddynt; oblegid os sylfaenir hwynt ar dywod, ac os bydd eu trefniadau yn ddiffygiol, byddant mewn perygl parhaus o gael eu dymchwelyd. Ni wneir cymaint o ddaioni trwyddynt ag a ddysgwylir, ac fe fydd yn fwy anhawdd eu diwygio nag ydoedd eu sefydlu ar y cyntaf.

Er mwyn cael golygiad eglur a chynwysfawr ar y pwnc

Digitized by Google

o dan ystyriaeth, bydd yn angenrheidiol sylwi ar y materion canlynol:—

I. CYMDEITHASAU LLENYDDOL FEL Y MAENT.
II. FEL Y DYLENT FOD.
III. EU BUDDIOLDEB.
IV. Y GEFNOGAETH A DEILYNGANT.

I. *Cymdeithasau Llenyddol fel y maent.*—Nis gall dim fod yn fwy syml na pheirianiaeth y rhan fwyaf o'r Cymdeithasau Llenyddol a fodolant yn bresenol yn Nhywysogaeth Cymru. Mewn llawer o engreifftiau, nid ydynt yn ddim amgen nag ymgomfa. Meddylia rhyw ddyn ieuanc darllengar ac awyddus am wybodaeth y byddai yn dra buddiol i ieuenctid yr ardal gyfarfod â'u gilydd yn awr ac eilwaith i gynorthwyo y naill y llall i gasglu gwybodaeth, a diwyllio eu meddyliau. Crybwylla ei feddyliau wrth ei gyfeillion. Ymresymir yn nghylch y peth. Penderfynir cael cyfarfod o'r ieuenctid i'w ystyried. Ymgynullant yn nghyd. Cytunant yn frwdfrydig i gyfarfod â'u gilydd yn wythnosol, fe ddichon. Rhoddant i'r Cyfarfodydd hyn yr enw "Cymdeithas y Gwŷr Ieuainc," neu, fe allai, yr enw mwy urddasol, "Cymdeithas Lenyddol." Rhaid iddynt gael y cyfarfod cyntaf yr wythnos ddylynol. Maent yn llawn gwres, ac nid ydynt yn foddlon i golli dim amser. Penodir dau neu dri o'r rhai gwyddfodol i ddarparu traethodau neu areithiau ar wahanol bynciau erbyn y cyfarfod cyntaf, ac ymwasgarir. Yn y cyfwng rhwng y ddau gyfarfod, bydd y rhai mwyaf selog yn cymhell eu cydieuenctid i ddyfod yno, a llawer yn addaw cydsynio. Ond mae y noswaith ddysgwyliedig wedi dyfod, a llawer o'r ieuenctid wedi ymgasglu yn nghyd. O blith y gwyddfodolion dewisir yr un a ystyrir yn fwyaf cymhwys i weithredu fel Cadeirydd. Gelwir ar y brodyr apwyntiedig i ddarllen neu draddodi eu sylwadau ar y pynciau a ymddiriedwyd iddynt. Dylynir hyn âg ymddyddan cyffredinol ar y pynciau a driniwyd yn yr areithiau, neu ynte ar ryw destynau ereill. Yna penderfynir testynau ac areithwyr erbyn y cyfarfod nesaf, ac ymwasgarir. Mae llawer o'r cymdeithasau a gyfenwir yn Llenyddol yn Nghymru heb fod yn ddim amgen na mynychiad parhaus o'r cyfarfod a ddarluniwyd. Nis gellir cael drychfeddwl mwy syml ac isel o gymdeithas nag a welir yn sylweddol yn y cymdeithasau hyn. Mae'r testynau hefyd yr ymdrinir â hwynt, fel y cymdeithasau

Digitized by Google

eu hunain, o'r fath mwyaf syml a chyffredin. Anfynych iawn y cyffyrddir âg unrhyw bwnc sydd yn gofyn darlleniad helaeth, ymchwiliad manwl, myfyrdod dwys, ymegniad hirfaith, ymroddiad anturiaethus, a phenderfyniad didroi yn ol, er ei ddeall a'i egluro. Chwareuir gyda theganau plant. Ymfoddlonir ar bethau arwynebol, pethau y gall pawb eu gweled, eu deall, a'u hegluro, a gadewir trysorau mawrion a dyfnion y dealltwriaeth yn eu cuddfanau, heb amcanu eu tynu allan.

Mae yn ein gwlad hefyd ddosbarth arall o Gymdeithasau Llenyddol, cyffelyb mewn llawer o bethau i'r rhai ag y rhoddwyd darluniad byr ohonynt yn barod, ond yn ymddyrchafu yn uwch na hwy mewn coethder, ac yn meddu mwy o deithi Cymdeithasau o honiadau uchel. Mae gan y rhai hyn Lywydd ac Ysgrifenydd rheolaidd. Rhaid i bob un a ymuno â hwynt gymeryd ei aelodaeth ynddynt wrth reol, cofnodir eu holl weithrediadau, a dygir pob peth ynddynt, hyd y gellir, yn mlaen yn weddaidd ac mewn trefn. Maent yn rhagori ar y lleill hefyd yn mhwysigrwydd a gorucheledd y testynau a ddewisant i ymdrin â hwynt; a dangosir mwy o ymchwiliad, dealltwriaeth, a medrusrwydd yn eu dadleniad.

At y ddau a nodwyd, gellid chwanegu dosbarth arall o Gymdeithasau Llenyddol ag sydd yn rhagori ar y ddau flaenorol yn nghyd; ond gan nad yw eu nifer yn ddigonol i effeithio nemawr ddim ar gymeriad cyffredinol Cymdeithasau Llenyddol ein gwlad, gellir eu gadael yn bresenol heb wneuthur un sylw chwanegol ohonynt.

Mae agos yr oll o'r Cymdeithasau Llenyddol a sefydlwyd hyd yn hyn yn cael eu cymeryd i mewn gan y ddau ddosbarth a ddarluniwyd. Fod llawer ohonynt yn dra anmherffaith, a'r cwbl bron yn syrthio lawer yn fyr o ateb i honiadau yr enw a gymerant arnynt eu hunain, sydd yn ddiamheuol; er hyny ni ddylid mewn un modd eu dirmygu. Os nad ydynt yn dyfod i fyny â'r nod proffesedig, maent yn gam pwysig yn yr iawn gyfeiriad tuag ato. "Na ddiystyrwch ddydd y pethau bychain." Er eu holl ddiffygion, maent yn symudiad a ellir ei droi i effeithio y canlyniadau mwyaf goruchel a bendithlawn. Deffroant lawer meddwl o'i gysgadrwydd dealltwriaethol; cynyrchant awydd angerddol yn yr enaid am wybodaeth; symbylant yr ieuenctid i ddarllen, chwilio, a meddwl drostynt eu hunain; rhoddant fodolaeth i deimladau a

Digitized by Google

chymhelliadau mewn llawer o engreifftiau na fodolent byth, mae yn fwy na thebygol, ond trwy eu hofferynoliaeth hwy; dygant holl gyneddfau yr enaid i weithrediad; agorant lygaid y deall i ganfod yr eangderau sydd ganddo i'w meddianu; anadlant fywyd newydd mewn llawer mynwes, gwisgant y meddwl â phrydferthwch gwybodaeth, dygant lawer i deimlo eu bod yn ddynion na theimlasant hyny erioed o'r blaen, diwylliant y dyn oddifewn, coethant y chwaeth, cywirant y farn, a rhoddant i'r meddwl y bywiogrwydd hwnw ag sydd yn anhebgorol angenrheidiol er gwerthfawrogi addysg, a chwilio am wybodaeth. Mae yr oll o'r pethau hyn yn cael eu cyflawni, i raddau mwy neu lai, gan bob Cymdeithas Lenyddol, pa mor anmherffaith bynag a fyddo. Yn wir, nid ellir dychymygu maint y daioni a weithredir drwyddynt; oblegid galwant i fod deimladau a chymhelliadau ag sydd yn debygol o effeithio daioni am oesau a chenedlaethau i ddyfod.

Nid pethau i'w diystyru yw y rhai hyn; O nage, ond pethau a ddylent gael eu meithrin a'u cefnogi, er iddynt fod mor wan a chorsen ysig neu lin yn mygu. Dyweded pawb, Duw yn rhwydd iddynt. Ond er na ddylid eu dirmygu, na cheisio digaloni eu cefnogwyr, fe ellir, ac fe ddylid, ymdrechu eu diwygio, a'u gwneuthur yn fwy effeithiol. "Nid da dim lle gellir gwell," medd yr hen air; ac os gellir gwell Cymdeithasau Llenyddol na'r rhan fwyaf o'r rhai a fodolant yn bresenol, nid oes un rheswm paham na ddylai y rhai gwael roddi eu lle i rai gwell. Y gellir ffurfio rhai gwell a brofir pan ddeuir i sylwi ar y Cymdeithasau Llenyddol fel y dylent fod; ac er mwyn darparu meddwl y darllenydd i dderbyn y sylwadau hyny yn fwy ffafriol, ymdrechir dangos yn bresenol, mewn ysbryd caredig, y diffygion a berthyn iddynt fel y maent yn awr. Y cam cyntaf mewn diwygiad ydyw, gweled a theimlo fod diffygion yn bod. Heb hyn ni bydd gan neb duedd nac ewyllys i gyfnewid y gwall am y gwelliant. O ganlyniad, ni ddylai na pherson na chymdeithas o bersonau dramgwyddo wrth neb a ddangoso, mewn ysbryd caredig a brawdol, fod ganddynt le i ddiwygio.

Y diffygion mwyaf pwysig yn ein Cymdeithasau Llenyddol fel y maent ydynt y rhai canlynol:—

1. *Maent heb adeiladau cyfleus at eu gwasanaeth.*—Cynaliant eu cyfarfodydd yn gyffredin mewn capelydd; ac oherwydd

Digitized by Google

nad oes ynddynt ystafelloedd gwahanol, nid all y Gymdeithas ymranu yn ddosbarthiadau, i ddylyn gwahanol gangenau o wybodaeth ar yr un pryd, yn ol natur eu chwaeth a'u cymhwysderau. Rhaid i bawb ymwneyd â'r un pwnc, pa un bynag a fyddant yn ymhyfrydu ynddo ai peidio. Os danteithion Barddoniaeth fydd ar y bwrdd, rhaid i bawb eu bwyta neu fyned adref â'u cylla yn weigion. Felly hefyd gyda phob testyn arall. Mae tuedd niweidiol yn hyn; trwy fod yr holl aelodau yn gwybod yn mlaen llaw pa destyn a fydd o dan ystyriaeth y cyfarfod, mae y rhai na feddant ddyddordeb neillduol yn y testyn yn agored i adael i bethau dibwys eu cadw o'r cyfarfod, pan y buasent yn myned, pe cawsent ddylyn y wybodaeth hono ag y maent yn ymhyfrydu ynddi.

2. *Mae gormod o siarad, a rhy fach o addysgu, ynddynt.*—Mewn gwirionedd nid yw llawer ohonynt ddim yn y byd ond cymdeithasau i areithio. Darllen traethodau a phryddestau, a thraddodi areithiau a darlithoedd, yw y cwbl bron a wneir ynddynt. Mae bod yn alluog i draddodi y meddwl yn beth dymunol a gwerthfawr; er hyny, fe ddylai fod gan Gymdeithasau Llenyddol rywbeth uwch mewn golwg na dysgu dynion i siarad. Gall dynion dysgedig a gwybodus gyfranu llawer o wybodaeth ac addysg trwy eu darlithoedd, ond y mae hyn yn fwy nag a ellir ddysgwyl gan rai nad ydynt ond newyddian eu hunain yn y wybodaeth y ceisiant draethu arni. Wrth ddarllen, chwilio, a myfyrio, ac nid wrth siarad, y mae cael gafael ar wybodaeth. A siarad yn briodol, nid oes dim dysgu mewn nemawr un ohonynt. Os tybia neb eu bod yn dylyn addysg, yn cyfarfod wythnos ar ol wythnos i efrydu a meistroli unrhyw gangen o wybodaeth, mae yn camgymeryd—siarad yw y cwbl. Ni ddeuai dyn byth yn Hanesydd, Serydd, Henafiaethydd, nac yn unrhyw ydd arall, trwy yr addysg a gyfrenir yn y rhai hyn.

3. *Rhoddant ormod o le i Farddoniaeth.*—Mae naill haner eu testynau agos, ac weithiau chwaneg, yn destynau barddonol; Englynion, Awdlau, Cywyddau, Penillion, Marwnadau, a Phryddestau, a dryfrithant eu hadroddiadau. Byddai Cymdeithas y Beirdd yn enw mwy priodol ar lawer ohonynt, na Chymdeithas Lenyddol. Gallai dyn dyeithr dybied nad yw y Cymry yn ymhyfrydu mewn dim bron heblaw Barddoniaeth, oblegid y mae yn cael cymaint o le agos yn ein Cymdeithasau Llenyddol a phob

Digitized by Google

peth arall yn nghyd. Mae yn ddigon hawdd rhodd cyfrif am hyn hefyd: mae y Cymry fel cenedl yn ddiarebol am eu cariad at farddoniaeth, ac wedi cynyrchu, mae yn debygol, fwy o feirdd, yn ol cyfartaledd ei rhifedi, nag un genedl arall. Ond y mae achos arall mwy uniongyrchol na hwn: beirdd yn gyffredin ydynt eu sylfaenwyr; hwy ydynt eu prif golofnau a'u haddurn; mae eu llywodraethiad bron yn gwbl yn eu dwylaw; edrychir arnynt fel eu hangylion gwarcheidiol. Hyn yw yr achos uniongyrchol yn ddiddadl fod Barddoniaeth yn cael cymaint o le ynddynt. Ond os yw yn hawdd rhoddi cyfrif am hyn, nid yw mor hawdd ei gyfiawnhau: mae yn debyg o effeithio yn niweidiol ar y Cymdeithasau eu hunain yn y diwedd. Nid Beirdd pawb, ac nid yw pawb yn dewis efrydu barddoniaeth; a phan y byddo yn cael mwy na'i rhan briodol o le yn ein Cymdeithasau Llenyddol, mae yn dueddol i gadw llawer draw a fuasent hob hyny yn bleidwyr selog a gwerthfawr iddynt. Ond y mae yr effaith ar y wlad yn fwy niweidiol na hyny. Achosant i lawer ymgeisio bod yn feirdd nad oes ganddynt ddim cymhwysder at y gwaith, ac i lawer ystyried eu hunain yn feirdd na arddelir mohonynt byth gan yr Awen. Wrth geisio dyrchafu barddoniaeth, llanwant y wlad â chrach-feirdd, ac yn y diwedd dygir hithau i warth. Yn wir, mae y drwg yn barod yn dechreu ymddangos. Yr ymhonwyr barddonol, bob amser yn lluosog yn Nghymru, ydynt yn amlhau wrth y canoedd. Cyfodant i fyny fel bwyd barcud, ac os na cheir gwaredigaeth yn fuan, rhoddir clwyf peryglus i'r Awen yn nhŷ ei charedigion. Yr unig feddyginiaeth effeithiol rhag yr anhwylder hwn ydyw, rhoddi i bob gwybodaeth ei chyfiawn ran o amser a sylw, a dim ond hyny i farddoniaeth; yna gellir dysgwyl y bydd i lawer a ymboenant yn bresenol i enill serch yr Awen, ond yn aneffeithiol, gynyddu yn anrhydeddus, a rhagori hefyd mewn rhyw wybodaeth arall. Mae yn golled i'r wlad fod dynion o dalent yn ymboeni gyda phethau nad oes ganddynt gymhwysder i ragori ynddynt.

4. *Maent yn amddifad o foddion addysg.*—Byddai dyweyd nad oes dim gwybodaeth yn cael ei chyfranu ynddynt yn fwy nag a ellid ei brofi; er hyny, gellir haeru, heb ofni gwrthwynebiad, nad ydynt yn cyfranu unrhyw wybodaeth yn gyflawn a thrwyadl. Yr holl wybodaeth a gyfrenir, a gyfrenir yn ddamweiniol ac ar antur; cymysgir

Digitized by Google

gwybodaethau blith draphlith â'u gilydd: symudant oddiwrth y naill destyn at y llall mor gyflym a phe byddent yn ofni gwybod gormod am yr un un: nid oes un wybodaeth yn cael ei dylyn wythnos ar ol wythnos nes ei deall a'i meistroli oll. Gellid meddwl, a barnu oddiwrth eu gweithrediadau, mai eu rheol ydyw profi pob peth, a pheidio bwyta dim; oblegid pigir adran o'r wybodaeth hon, ac adran o'r wybodaeth acw, ac ymfoddlonir ar hyny, gan adael y corff heb ei gyffwrdd. Tra byddo ein Cymdeithasau Llenyddol yn y cyflwr hwn, nid ellir dysgwyl i'r aelodau feddu gwybodaeth drwyadl a chyflawn o unrhyw destyn; er hyny, mae yn well eu cael na bod hebddynt. Mae peth gwybodaeth yn cael ei chyfranu; ac y mae peth yn well na dim. Ond os oes peth gwybodaeth yn cael ei chyfranu ynddynt, a siarad yn briodol, maent yn hollol amddifad o foddion addysg; nid ydynt yn rhoddi cyfleusterau i efrydu unrhyw wybodaeth, yr hyn, fe ymddengys i mi, fel y caf sylwi eto, a ddylai fod eu prif amcan. Ymddangosant yn fwy o gyfleustra i arddangos y wybodaeth a feddir, nag o gyfryngau i gasglu gwybodaeth newydd.

5. *Maent yn amddifad o lyfrgelloedd.*—Mae llyfrau mor angenrheidiol i gynyddu mewn gwybodaeth ag ydyw bwyd i gynyddu mewn corff. Mae yn rhaid eu cael, neu fod yn gorynod; a rhaid cael cryn lawer ohonynt hefyd, neu ymfoddloni ar wybodaeth dra bylchog. Ond er mor angenrheidiol ydynt, mae y mwyafrif o'r bobl gyffredin yn mhob ardal yn analluog i'w meddianu, oblegid uchder pris y llyfrau, a gwagder eu llogellau eu hunain. Oblegid hyn, y peth cyntaf y dylai Cymdeithasau Llenyddol amcanu ato ydyw cael llyfrau i gyraedd y bobl. Os oes un peth yn fwy angenrheidiol iddynt na pheth arall, llyfrgell yw hwnw. Os eu dyben ydyw dwyn gwybodaeth ac addysg i gyraedd y werin, ni ddylent orphwys nes cael digon o lyfrau iddynt. Mae hyn mor amlwg, fel y mae yn syndod fod yn bosibl i gymdeithas o ddynion edrych drosto heb ei weled; ond syndod neu beidio, mae yn ffaith fod llawer, ie, y mwyafrif o Gymdeithasau Llenyddol ein gwlad, hyd yn hyn, heb feddwl fod llyfrgell yn angenrheidiol! Fe werir ganddynt, mewn ychydig flynyddoedd, ar gyfarfodydd i ddynwared Eisteddfodau, ddigon o arian i osod digonedd o lyfrau da yn nghyraedd pawb. Fe fyddai llyfrgell rydd mewn ardal yn fwy o werth na chant

Digitized by Google

o Gymdeithasau Llenyddol; ac y mae daioni yr olaf yn rhwym o fod yn dra chyfyngedig heb wasanaeth y blaenaf. Mae codi Cymdeithasau Llenyddol, heb ddarparu llyfrgelloedd, yr un fath a rhoddi cymhellai i'r cylla heb ddarparu bwyd iddo mewn cysylltiad â hyny. Cynyrchir awydd am wybodaeth, a gadewir iddo drengi o ddiffyg moddion i'w ddiwallu.

6. *Maent heb un ddarpariaeth ar gyfer y menywod.*—Byddai ysgrifenu yn fanwl a helaeth ar hyn, fe ddichon, yn anmherthynasol i'r pwnc o dan ystyriaeth, a chwyddai y traethawd hefyd allan o derfynau; er hyny, nid allaf fyned heibio iddo heb wneuthur rhai sylwadau, oblegid ymddengys i mi yn ddiffyg mawr a phwysig. Paham, ddarllenydd, y mae y merched yn mhob man yn cael eu hesgeuluso? Paham yr esgeulusir hwynt yn Nghymru? Pa ddrwg a wnaethant, pan y gadewir hwynt mor ddisylw o'r neilldu? Beth yw yr achos na ddarperid moddion iddynt hwy, yn gystal ag i'r dynion, i gasglu gwybodaeth, a diwyllio eu meddyliau? Oes arnynt hwy ddim angen am wybodaeth? A ydynt hwy yn ddigon diwylledig eisoes? Pa atebion bynag a roddir i'r gofyniadau hyn, mae y ffaith yn amlwg fod y merched yn cael edrych heibio iddynt gan ein holl Gymdeithasau Llenyddol. Mae yn ffaith hefyd mor amlwg ag un ffaith i lygad ystyriaeth, fod ar y menywod gymaint o angen am foddion gwybodaeth a'r dynion, os nad mwy. Derbyniant lai o addysg yn eu plentyndod, yn gyffredin, na'r dynion. Mae ganddynt lai o foddion i brynu llyfrau, a chwaneg o ddylanwad ar gymdeithas, nag sydd gan y dynion. Mae y pethau hyn yn dangos fod arnynt gymaint o angen gwybodaeth a'r dynion. Chwaneger at hyn eu dyledswyddau pwysig fel mamau, ac y mae yr angenrheidrwydd yn ymddangos yn fwy drachefn. Mae diwylliad a dadblygiad y meddwl ieuanc yn ymddibynu i raddau helaeth arnynt hwy. Fe ddylent gael eu cymhwyso i fod yn alluog i arwain, i feithrin, ac i amgeleddu meddyliau eu plant. Er hyn i gyd, esgeulusir y merched gan ein holl Gymdeithasau Llenyddol, fel pe byddai gwybodaeth y dynion yn ddigon iddynt hwythau hefyd. Pa ryfeddod yw fod cynifer o'r ieuenctid yn anwybodus ac annysgedig, gan fod y mamau felly hefyd? Byddai yn afresymol dysgwyl iddynt fod yn amgen, tra yr esgeulusir darparu moddion addysg a gwybodaeth i'r merched. Pa mor berffaith

bynag y byddo unrhyw gymdeithas fel moddion addysg a gwybodaeth i'r dynion, tra yn amddifad o'r unrhyw gyfleusterau i'r merched hefyd, mae yn rhwym o fod yn anmherffaith fel cymdeithas, yn gyfyngedig yn ei dylanwad, ac yn hollol annigonol i gyflawni angenion cymdeithas.

7. *Mae eu cyfarfodydd yn rhy anaml.*—Mae un pryd o fwyd yn yr wythnos yn rhy fach i ddyn fyw arno; mae un diwrnod o ysgol bob wythnos yn rhy fach hefyd i wneyd plentyn yn ysgolaig da; ac y mae un cyfarfod bob wythnos yn rhy fach i feithrin addysg a gwybodaeth. Mae mynych ymwneyd, yn gystal a dyfal barhâd, yn anhebgorol angenrheidiol i feistroli unrhyw gangen o wybodaeth. Os oes neb am efrydu unrhyw destyn, rhaid iddo ei ddylyn yn hwy ac yn amlach nag am awr a haner neu ddwyawr unwaith yn yr wythnos, neu ymfoddloni ar adnabyddiaeth arwynebol ohono; er hyny, nid yw ein Cymdeithasau Llenyddol yn proffesu rhoddi cyfleusterau i'r aelodau i ddylyn gwybodaeth yn amlach nag unwaith yn yr wythnos. Os ydynt yn cael eu bwriadu i fod yn sefydliadau addysgiadol, mae hyn yn sicr o fod yn ddiffyg mawr a phwysig; ond os sefydliadau i areithio, darlithio, a siarad ydynt i fod, mae unwaith yn yr wythnos yn hen ddigon aml i gyfarfod, ac, fe ddichon, yn rhy aml hefyd iddynt allu bod yn ddyddorol ac adeiladol am unrhyw dymor maith.

8. *Maent yn ymddangos fel pe byddent heb unrhyw ddyben neillduol yn eu gweithrediadau; o leiaf, fel pe byddent heb wybod pa beth sydd ganddynt mewn golwg.*—Y peth cyntaf a ddylid wneyd gan bob cymdeithas ydyw penderfynu ar y dyben a fyddo ganddynt mewn golwg, ac yna trefnu eu holl weithrediadau yn y modd mwyaf effeithiol i ateb y dyben hwnw. Ond gellid meddwl fod llawer o Gymdeithasau Llenyddol wedi cael eu sefydlu yn Nghymru heb fod neb yn gwybod i ba ddyben. Clywsant rywrai yn son amdanynt, ac yn eu canmol, fod llawer ohonynt yn cael eu sefydlu, a theimlasant hwythau awydd am ymuno yn y symudiad. Fel hyn, mae arnaf ofn, y sefydlwyd Cymdeithasau Llenyddol mewn llawer ardal, heb fod neb yn ystyried na gofyn pa ddyben sydd iddynt. Fe ddylai dyben pob sefydliad fod yn amlwg yn eu holl weithrediadau; ond nid ymddengys i mi fod dyben Cymdeithasau Llenyddol Cymreig yn amlwg yn eu gweithrediadau

Digitized by Google

hwynt. Gellid meddwl weithiau mai coleddu barddoniaeth; bryd arall, meithrin gwybodaeth gyffredinol; eilwaith, efrydu duwinyddiaeth; ar ol hyny, dysgu cyfansoddi; a thrachefn, dysgu siarad ac areithio, yw eu dyben; ac y mae hyn yn awgrymu yn gryf nad oes ganddynt un dyben neillduol o gwbl. Os dwyn addysg i gyraedd y cyffredin yw eu dyben, rhesymol yw dysgwyl iddynt ddarparu cyfleusterau i'r bobl i efrydu ei gwahanol ranau yn ol eu chwaeth a'u tueddiadau; ond nid ydynt yn gwneyd hyny. Os cyfranu gwybodaeth gyffredinol yw eu dyben, fe ddylent feithrin ei holl gangenau yn rheolaidd, heb esgeuluso un, gan dalu sylw i'r cysylltiad sydd rhwng y naill a'r llall; ond nid ydynt yn gwneyd hyny. Ymddangosant fel rhai yn curo yr awyr. Tramwyant ar faesydd gwybodaeth, mae yn wir, ond gwnant hyny ar draws ac ar hyd, yn hollol afreolaidd: cyn iddynt gael amser digonol i ddeall ac adnabod y gwrthddrych hwn, symudant yn frysiog at y gwrthddrych acw; ac felly o hyd, o un i un, heb na rheol na threfn. Os nad yw hyn yn profi diffyg dyben, mae yn profi rhywbeth sydd waeth. Ond beth bynag yw y dyben a broffesir ganddynt, os ydynt yn proffesu unrhyw ddyben o gwbl, mae yn hollol amlwg i bob meddwl sylwgar, mai dysgu siarad ac areithio yw y dyben penaf a atebir drwyddynt fel y maent yn awr.

Er mwyn crynhoi holl rym y sylwadau blaenorol i bwynt, gadawer i ni yn bresenol holi pa bethau ydynt yn angenrheidiol i unrhyw gymdeithas mewn trefn i fod yn effeithiol a llwyddianus. Gellir eu nodi yn fyr fel y canlyn:—1. Dylai fod ganddi ddyben neillduol mewn golwg, a'r dyben hwnw yn amlwg a dealladwy. 2. Dylai ei holl drefniadau a'i gweithrediadau fod â thuedd ynddynt i ateb y dyben hwnw. 3. Dylai fod ganddi adeilad gyfleus at ei gwasanaeth. 4. Dylai fod ganddi offerynau priodol wrth law i ddwyn ei hamcanion i ben. 5. Dylai fod ganddi ddarpariaeth ar gyfer pawb sydd mewn angen am ei gwasanaeth. 6. Dylai pob peth a berthyn iddi gael ei gyfiawn ran o le ac amser.

Pa beth a ddywedwn yn ngwyneb hyn am ein Cymdeithasau Llenyddol, oblegid y maent, gydag ychydig eithriadau, yn amddifad o bob un o'r anhebgorion hyn? Maent heb adeiladau cyfleus at eu gwasanaeth—ni feddant lyfrgelloedd—rhoddir gormod o le i farddoniaeth—mae eu dyben yn amheus—dygant eu gweithrediadau yn

Digitized by Google

mlaen yn ddamweiniol ac ar antur—ac nid oes ganddynt un ddarpariaeth ar gyfer y menywod. Mae bellach yn hollol amlwg, dybygaf, nad yw ein Cymdeithasau Llenyddol, fel y maent, y rhai goreu a ellir gael i genedl y Cymry. O ganlyniad, mi a symudaf yn mlaen i sylwi ar yr ail ran:—

*Cymdeithasau Llenyddol fel y dylent fod.*—Cyn gwneuthur unrhyw sylwadau neillduol ar yr adran hon, fe fydd yn fanteisiol i ni gael golwg gyffredinol ar y pwnc yn gyntaf.

Yn flaenaf. Ystyriwn yr angenrheidrwydd amdanynt. Yn ail. Y dyben neu ddybenion a ddylai fod ganddynt mewn golwg; ac yna fe fydd ein llwybr yn rhydd i sylwi yn fwy neillduol ar y dull goreu i'w sefydlu a'u trefnu yn y modd effeithiolaf i gyfarfod angenion y wlad, ac i ateb y dybenion a fyddo ganddynt mewn golwg.

1. Yr angenrheidrwydd am Gymdeithasau Llenyddol. —Fod angen amdanynt sydd yn ffaith nad oes neb, fe ddichon, a feiddia ei gwadu. Mae mor fawr ac amlwg, fel nad oes neb â llygad yn ei ben yn analluog i'w weled. Mae canoedd yn mhob ardal bron yn dystion byw ohoni.

Wrth edrych ar y gymdeithas ddynol yn ei gwahanol ranau, ni a ganfyddwn ddosbarth lluosog yn hollol anllythyrenog ac anwybodus—dynion a merched heb dderbyn dim addysg pan yn blant. Yr oedd eu rhieni naill ai yn rhy dlawd neu yn rhy ddifater i roddi ysgol iddynt. Cawsant dyfu i fyny fel llysiau gwylltion, heb i neb gynyg eu diwyllio. Maent yn analluog i ddarllen ac i ysgrifenu—y ddwy gelfyddyd mwyaf cyffredin mewn bod; ac, oblegid hyn, mae mwyniant moesol a dealltwriaethol, i raddau pell, allan o'u cyraedd, a gorfodir hwynt i gyflawni y gorchwylion mwyaf isel, heb ganddynt fodd na chyfleustra i wella eu hunain, ac ymddyrchafu mewn cymdeithas. Mae angen am Gymdeithasau Llenyddol i liniaru ychydig ar sefyllfa galed a thorcalonus y rhai hyn, i ddwyn moddion addysg a gwybodaeth i'w cyraedd, ac i roddi iddynt gyfleusterau i enill ychydig, drwy lafur a diwydrwydd, o'r addysg a'r wybodaeth a ddylasent gael pan yn blant.

Gwelwn ddosbarth arall drachefn, llawer mwy lluosog yn Nghymru na'r blaenorol, o rai ag ydynt wedi derbyn ychydig o addysg yn eu plentyndod, a dim ond ychydig. Maent yn alluog i ddarllen iaith eu mam, ac i ysgrifenu

Digitized by Google

tipyn; ond nid yw hyn ond A, B, C, gwybodaeth: o bob gwybodaeth arall maent mor amddifad bron ag anifeiliaid. Oherwydd tlodi, difaterwch, neu gybydd-dod eu rhieni, gyrwyd hwynt i wasanaeth cyn iddynt gael digon o ysgol i ddysgu nemawr o ddim heblaw darllen, ysgrifenu, ac, fe ddichon, ychydig o rifyddiaeth. Ni amcanwyd dysgu dim arall iddynt gan neb, oddigerth duwinyddiaeth gan yr Ysgol Sul. Oblegid hyn, mae y wybodaeth a gynwysir mewn llyfrau, pe byddai ganddynt fodd i'w prynu, i raddau pell, fel trysorau cuddiedig iddynt hwy. Gorfodir hwynt i fyw yn nghanol tywyllwch a thrueni dealltwriaethol, mewn byd islaw i eiddo eu cyfoedion mwy ffodus a breintiedig. Mae angen am Gymdeithasau Llenyddol i wella sefyllfa y rhai hyn—i ddwyn gwybodaethau mwy gwerthfawr a goruchel i'w cyraedd, ac i roddi cyfleusterau iddynt i addysgu eu hunain drwy efrydu gramadegiaeth, peroriaeth, barddoniaeth, hanesiaeth, daearyddiaeth, a phob gwybodaeth arall yn ol eu chwaeth a'u tueddiadau.

Gwelwn ddosbarth arall eto o rai ag ydynt wedi derbyn addysg gymedrol yn eu hieuenctid, ond llai nag a ddymunent, a llai nag a ddylent gael. Hoffent ddylyn addysg yn mhellach, ac efrydu yr hyn a ddysgasant yn fwy trwyadl; ac y mae llawer ohonynt yn ewyllysio cysegru eu hoes i efrydu rhyw wybodaeth neillduol yn fanwl a thrwyadl yn ei holl gysylltiadau, ond nid oes ganddynt foddion i gario eu tueddiadau i weithrediad; maent yn dlodion, ac yn analluog i brynu digon o lyfrau cyfaddas at eu gwasanaeth, ac, oherwydd yr un rheswm, nid allant dalu i athrawon am eu haddysgu. Mae angen am Gymdeithasau Llenyddol i gyflawni angenion y rhai hyn, i ddwyn moddion hunanddiwylliant i'w cyraedd, ac i roddi iddynt gyfleusterau a chymhorth i ddylyn y gwahanol wybodaethau ag y maent yn eu hoffi.

Gwelwn ddosbarth lluosog o rai hollol ddifraw a didaro am bob gwybodaeth ac addysg. Nid oes ganddynt yr hyfrydwch lleiaf ynddynt, na'r awydd gwanaf am eu meddianu. Maent yn hollol annheimladwy i'w dylanwad, trigant yn dawel a boddlon yn nghanol caddug anwybodaeth. Nid oes ganddynt hyfrydwch mewn dim os nad yw yn tueddu i foddio eu nwydau anifeilaidd; maent yn caru difyrwch fel ereill; ac oherwydd nad allant fwynhau difyrwch diniwaid gartref, neu yn mysg cyfeillion

Digitized by Google

deallgar, na'r pleser goruchel sydd mewn gwybodaeth, ânt i'r dafarn i chwilio amdanynt yn y gwydraid hudol, y cwmni anfoesol, yr iaith fasweddog, a'r chwedlau ffiaidd. Os bydd rhedegfeydd ceffylau, neu unrhyw chwareuon barbaraidd ereill mewn cyraedd, maent hwy bron yn sicr o fod yno. Os bydd rhyw annuwioldeb mwy rhyfygus na'r cyffredin yn cael ei gyflawni, maent hwy bron yn sicr o fod yn gyfranog ynddo. Os bydd gwrthwynebiad yn cael ei gynyg i ryw sefydliad neu symudiad tuag at foesoli y wlad, byddant hwy yn mhlith y gwrthwynebwyr. Os bydd arferion drwg a gwarthus yn ffynu yn y wlad, maent hwy yn sicr o fod yn ysglyfaeth iddynt. Dynion yw y rhai hyn ag ydynt yn gweithredu fel anifeiliaid, oddiar gynhyrfiad yn unig. Nid ydynt yn alluog i ddeall dybenion nac i werthfawrogi rhesymau. Maent yn hollol annheimladwy i bob dylanwad, ond yr anianol a'r amgylchiadol. Mae llawer ohonynt yn rhieni plant, ac fe fydd y lleill yn rhieni cyn hir, a dygant eu plant i fyny yn haner barbariaid fel hwy eu hunain. Nid ydynt yn gweled gwerth addysg, o ganlyniad, esgeulusant ei rhoddi i'w plant. Fel hyn mae anwybodaeth yn cael ei gynal i fyny o oes i oes, a'r wlad yn gorfod teimlo ei ddylanwad niweidiol. Mae angen am Gymdeithasau Llenyddol i gyfarfod sefyllfa y rhai hyn, i ddwyn moddion addysg a gwybodaeth i ddylanwadu arnynt, ac i geisio enill ambell un ohonynt i ymhyfrydu mewn gwybodaeth a rhinwedd. Gallem luosogi llawer o ystyriaethau ereill, ond y mae yr hyn a ysgrifenwyd yn ddigonol. Mae miloedd yn cyfodi eu lleisiau yn unedig i waeddi, "Sefydlwch i ni Gymdeithasau Llenyddol: dygwch foddion addysg a gwybodaeth i'n cyraedd: yr ydym yn marw o eisieu gwybodaeth."

2. Y dybenion a ddylai fod ganddynt mewn golwg.—Gan fod fy ngolygiadau ar y rhai hyn i raddau yn rhagweledig yn y sylwadau blaenorol, nid oes angen am sylwadau meithion arnynt yn bresenol. Gellir eu nodi yn fyr fel y canlyn:—

1. Dwyn moddion addysg i gyraedd y rhai sydd yn amddifad ohoni, ac yn analluog i'w darparu iddynt eu hunain. 2. Darparu cyfleusterau i'r bobl gyffredin i efrydu gwahanol gangenau gwybodaeth yn ol eu chwaeth a'u tueddiadau. 3. Cymhwyso yr aelodau i lenwi eu lle yn anrhydeddus yn mhob cylch ag y byddont yn troi

Digitized by Google

ynddo. 4. Lledaenu gwybodaeth gyffredinol yn mhlith yr aelodau a'r bobl yn gyffredinol drwy ddarlithoedd, cyfarfodydd cyhoeddus, a phob moddion ereill a farnont yn angenrheidiol. Mae sefyllfa cymdeithas yn Nghymru yn galw am i'r holl bethau hyn gael eu cymeryd i mewn. Nid allant gyflawni diffygion sefydliadau presenol hebddynt. Sefydliadau *Addysgiadol* sydd ar y wlad angen amdanynt; ac os ydym am wneyd ein Cymdeithasau Llenyddol yn effeithiol i ddyrchafu ein cenedl mewn dealltwriaeth a gwybodaeth, ac yn gysylltiedig â hyny, mewn rhinwedd a dedwyddwch, Sefydliadau Addysgiadol sydd raid iddynt fod.

Yn awr, symudaf yn mlaen i ddangos y modd y dylid eu sefydlu a'u trefnu yn y dull goreu ac effeithiolaf i ateb y dybenion a nodwyd. Nid wyf yn gweled y gallaf wneyd hyn yn well na thrwy sylwi ar y gwahanol bethau angenrheidiol iddynt bob un ar ei ben ei hun, a hyny yn syml ac yn eglur; oblegid y mae symlrwydd ac eglurder mewn rhaniad ac arddull y pethau mwyaf angenrheidiol mewn traethawd a fwriedir i'w ddarllen gan y bobl gyffredin. Er mwyn gochelyd meithder afreidiol, bydd raid i mi adael amrywiol bethau heb eu cyffwrdd, cymeryd llawer o bethau yn ganiataol, a gadael pethau ereill yn ngofal synwyr cyffredin y cymdeithasau eu hunain. Y pethau a ystyriaf yn angenrheidiol sylwi arnynt ydynt y rhai canlynol:—

1. *Adeiladau cyfaddas.*—Byddaf yn golygu yn y sylwadau canlynol fy mod yn ystyried y pwnc yn ei gysylltiad âg ardaloedd poblog; caf sylwi arno yn ei berthynas â lleoedd bychain mewn rhan ddylynol o'r traethawd. Mae Cymdeithas Lenyddol heb adeilad yn ei meddiant, ar lawer o ystyriaethau, yn wan ac ansefydlog. Nid oes digon o feddianau yn gysylltiedig â hi i grynhoi o'i hamgylch y gefnogaeth a'r cydweithrediad angenrheidiol i sicrhau ei pharhâd. Mae megys teulu yn byw mewn llety, yn agored unrhyw ddiwrnod i fyned ymaith, na ŵyr neb i ba le; ond pan fyddo ganddi Neuadd gyfaddas i gyfarfod ynddi, mae gormod o feddianau yn gysylltiedig â hi iddi gael ei gollwng i lawr heb arfer pob moddion yn gyntaf i'w dal i fyny. Mae y gwerth sydd ynddi yn wystl dros ei pharhâd. Ond yr ystyriaeth bwysicaf mewn cysylltiad â hyn ydyw, fod yn anmhosibl iddi ateb y dybenion a nodwyd heb adeilad gyfaddas i gyfarfod ynddi; oblegid

Digitized by Google

nid all ymranu yn ddosbarthiadau i efrydu gwahanol gangenau o wybodaeth, yr hyn sydd yn angenrheidiol i'w gwneuthur mewn gwirionedd yn Sefydliad Addysgiadol. Pan fyddys yn myned i adeiladu Neuadd Lenyddol, dylid arfer gofal yn newisiad ei safle; dylai gael ei hadeiladu mewn lle glân ac iach, ac hyd y gellir yn y man mwyaf cyfleus i'r holl gymydogaeth. Gellid ei hadeiladu yn ddau neu dri uchder, fel y byddo amgylchiadau yn gofyn, a moddion yn caniatau. Yn y rhan isaf byddai yn ddymunol cael amrywiol ystafelloedd at wasanaeth y dosbarthiadau i efrydu gwahanol gangenau gwybodaeth ar wahân. Er engraifft, ystafell i ddysgu gramadeg, peroriaeth, ieithyddiaeth, hanesiaeth, gwyddoniaeth, &c. Dylid hefyd cael un ystafell lled helaeth i fod yn llyfrgell a darllenfa. Uwchben y rhai hyn, gellid cael un ystafell eang a chyfaddas at wasanaeth y gymdeithas, i gynal cyfarfodydd cyhoeddus, traddodi darlithoedd, ac unrhyw ddyben arall a fernid yn angenrheidiol. Byddai Cymdeithas Lenyddol gydag adeilad o'r fath yn ei meddiant o werth annhraethol i'r holl gymydogaeth; byddai yn alluog i gynyrchu daioni tuhwnt i bob dychymyg; atebai y dybenion mwyaf bendithlawn: mewn gair, byddai yn goleg i'r bobl weithgar. Ond heb adeilad o'r fath, nid all y gymdeithas ragoraf, drwy unrhyw ymdrech, gyflawni diffygion sefydliadau presenol, trwy ddwyn moddion addysg a gwybodaeth i gyraedd y bobl gyffredin.

2. *Llyfrgelloedd.*—Mae Cymdeithas Lenyddol heb lyfrgell megys crefftwr heb offerynau i weithio ei grefft. Analluogrwydd y bobl gyffredin i brynu digon o lyfrau iddynt eu hunain yw un o'r achosion sydd yn galw am Gymdeithasau Llenyddol; ac oni sefydlir llyfrgelloedd iddynt, fe fydd yr achos yn aros, er i'r cymdeithasau gael eu sefydlu. Heb lyfrgell, fe fydd y gwaith o addysgu yn anhawdd, a'r cynydd yn fach; ond wedi ei chael, bydd cyfranu addysg yn beth hawdd, a'r cynydd, fe ellir dysgwyl, yn amlwg i bawb. Wedi hyny gallai yr aelodau ddysgu, nid yn unig yn y gymdeithas, ond allan ohoni hefyd, drwy gymeryd llyfrau ar y wybodaeth a efrydant gyda hwynt i'w darllen a'u myfyrio adref. Byddai yn ddymunol hefyd cael darllenfa at wasanaeth yr aelodau mewn cysylltiad â'r llyfrgell, lle gallont ddarllen Newyddiaduron y dydd, misolion a chwarterolion, drwy dalu rhyw swm yn wythnosol, neu ar unrhyw delerau ereill a

Digitized by Google

farno y gymdeithas yn fwyaf doeth. Byddai llyfrgell a darllenfa yn foddion effeithiol i wasgaru gwybodaeth, ar wahân oddiwrth bob cymdeithas; ond ni byddai y gymdeithas ragoraf heb lyfrgell yn alluog i gyflawni angenion y wlad.

3. *Athrawon.*—Mae dynion o athrylith yn gyffredin yn alluog i orchfygu pob rhwystr fyddo ar eu ffordd i gasglu gwybodaeth, ohonynt eu hunain. Ond nid meibion athrylith pawb. Mae ar y nifer luosocaf angen am ddysgawdwyr i'w cyfarwyddo a'u cynorthwyo yn eu hefrydiaeth. Heb athrawon fe fydd llawer yn analluog i feistroli unrhyw wybodaeth byth. Dylid bod yn ofalus am ddewis athrawon cymhwys, dynion cyfarwydd a meistrolgar yn y wybodaeth a broffesant. Os na fydd yr athraw ond ychydig uwchlaw ei ddysgyblion mewn gwybodaeth, fe fydd megys dall yn tywys y dall, ac fe syrthiant yn barhaus i ffosydd ynfydrwydd a chyfeiliornad. Os gellir, bydd yn well talu i'r athrawon am eu gwasanaeth, oblegid felly, gellir dysgwyl cael athrawon cymhwys, a rhai a ymdrechant yn egniol i gyflawni y gwaith a ymddiriedir iddynt. Mae yn afresymol dysgwyl i neb aberthu cymaint o amser a llafur gydag unrhyw beth am ddim, ag a wnaent pe telid iddynt am eu gwasanaeth.

4. *Dosbarthiadau.*—Ar ol i'r neuadd gael ei hadeiladu, ac i'r Gymdeithas gael ei sefydlu, y peth cyntaf mewn trefn fydd ffurfio dosbarthiadau. Fe ddichon mai y ffordd rwyddaf i hyn fydd i'r aelodau hysbysu i'r ysgrifenydd, neu unrhyw swyddog arall a apwyntir gan y Gymdeithas i'r perwyl hyny, pa destyn a ewyllysiant efrydu, ac iddo yntau, mor fuan ag y ceir nifer digonol o rai yn ewyllysio efrydu yr un testyn, eu ffurfio yn ddosbarth, a'u gosod i ddechreu ar eu hefrydiaeth yn ddioedi. Fel hyn, tra bydd un dosbarth yn dysgu Seisneg, bydd dosbarth arall yn dysgu peroriaeth, a'r trydydd hanesiaeth, &c. Os bydd un o'r aelodau yn awyddus am efrydu rhyw wybodaeth ag na bydd neb ar y pryd yn ewyllysio ei hefrydu gydag ef, nid oes dim iddo i'w wneyd ond ymosod arni wrtho ei hunan, neu efrydu rhyw destyn arall hyd oni chaffo nifer ddigonol i ffurfio dosbarth o rai o'r un awydd ag yntau. Fel y byddo y Gymdeithas yn cynyddu mewn rhifedi, a'r hen aelodau yn gorphen dysgu un wybodaeth, ac yn barod i ail ddechreu ar un arall, gellir ffurfio dosbarthiadau newyddion yn barhaus, i ddylyn addysg i faesydd



Digitized by Google

newyddion. Nid oes angen, dybygaf, am unrhyw sylw i ddangos buddioldeb y dosbarthiadau hyn, oblegid y mae mor amlwg fel nad oes eisieu ond ei grybwyll mewn trefn i bawb ei weled. Fe chwerthai pawb am ben ysgol Sul heb ddosbarthiadau o'i mewn, ond pawb blith draphlith â'u gilydd, yn un dosbarth mawr a chyffredinol, ond ni fyddai ysgol felly ddim yn fwy gwrthun na Chymdeithas Lenyddol heb ddosbarthiadau yn perthyn iddi.

5. *Darlithoedd.*—Mae llawer o fanteision yn perthyn i ddarlithoedd nad ydynt yn meddiant efrydiaeth unigol na dosbarthiadol. Mae llais, edrychiad, ac ysgogiadau y darlithydd yn rhoddi bywyd a dyddordeb yn y testyn ag nad yw yn ddichonadwy eu cyfleu mewn ysgrifen. Bydd darlithoedd yn awr ac eilwaith, gan ddynion cymhwys i ddarlithio, yn foddion i roddi bywyd newydd yn y Gymdeithas, i dynu sylw mwy cyffredinol tuag ati, ac i greu mwy o ddyddordeb mewn addysg a gwybodaeth yn mhlith y trigolion. Ond y mae amrywiol bethau ag y dylid talu sylw iddynt mewn cysylltiad â darlithoedd. Ni ddylent fod yn rhy aml, rhag ymyraeth yn ormodol âg amser yr aelodau i efrydu; nac yn rhy anaml, rhag i'r dyddordeb ynddynt ddarfod. Mae yn ofynol hefyd i nifer y darlithoedd gyfateb i fawredd y testyn. Mae rhoddi un ddarlith ar destyn nad ellir ei egluro yn drwyadl mewn llai na deg, yn sarhâd ar y testyn, ac yn annghyfiawnder, nid yn unig â'r darlithydd, ond â'r gwrandawyr hefyd. Byddai yn well cael cyfres gyflawn o ddarlithoedd manwl ar un pwnc, na mil o rai arwynebol ar gynifer a hyny o destynau. Er mwyn cael darlithiau gwerth eu gwrando, rhaid cael dynion cymhwys i'w traddodi—dynion ag ydynt yn deall eu testyn, ac yn alluog i roddi bywyd a dyddordeb ynddo. Mae codi dynion annghymhwys i ddynwared darlithio, yn annhraethol fwy o niwaid nag o lesâd i achos dysgeidiaeth. Os bydd ar yr aelodau eisieu cyfleusderau i arfer eu dawn, ffurfiant ddosbarth i'r perwyl hyny yn eu plith eu hunain; ond na oddefer i un ohonynt wisgo amdano gymeriad darlithydd, hyd oni phrofo ei hunan yn athraw mewn gwybodaeth yn gyntaf. Mewn trefn i gael dynion cymhwys i ddarlithio, bydd yn angenrheidiol talu iddynt am eu gwasanaeth. Mae yn afresymol i'r eithaf dysgwyl i ddynion aberthu amser a llafur i gyfansoddi, ac amser a llafur drachefn i draddodi eu darlithoedd, heb dderbyn dim am

Digitized by Google

eu gwasanaeth. Mae yn amser i Gymru ddysgu, fod y darlithydd mor deilwng o'i gyflog ag unrhyw lafurwr arall. Nid wyf yn gwybod beth yw yr achos, ond yr wyf yn gwybod fod llawer yn Nghymru yn ymddwyn fel pe byddent yn meddwl fod rhwymau ar bawb a fedrant ddarlithio, ddarlithio am ddim er eu lles hwy, y pryd, ac yn y lle a welont hwy yn dda, a'i bod yn fraint fawr hefyd iddynt gael gwneuthur hyny. Mae tuedd uniongyrchol yn hyn i gadw talent ac athrylith i lawr, neu i'w gyru yn alltud allan o'n gwlad, i geisio gan estroniaid y gefnogaeth a naceir roddi iddynt yn eu gwlad eu hun. Bydd un ddarlith dda mewn tymor, er talu amdani, yn well na darlith wael bob wythnos, er eu cael am ddim.

6. *Cyfarfodydd Cyhoeddus.*—Mae amryw o ddybenion pwysig i'w hateb drwy gyfarfodydd cyhoeddus. Un o'r dybenion hyn ydyw profi ac arddangos cynydd yr aelodau mewn addysg a gwybodaeth: i ateb y dyben hwn bydd yn ddymunol i'r cyfarfodydd cyhoeddus fod mewn rhan yn arholiadol. Rhoddai hyn gyfleusdra i ddangos buddioldeb Cymdeithasau Llenyddol i'r gwrandawyr. Dyben arall ydyw adfywio y gymdeithas drwy roddi bywyd ac yni newydd yn yr holl aelodau; ac mewn cysylltiad â hyn tynu sylw cyffredinol tuag ati, cymhell yr ieuenctid i ymuno â hi, ac anog y gwrandawyr i roddi iddi y gefnogaeth a deilynga. I effeithio hyn, bydd yn angenrheidiol cael rhyw foddion i roddi dyddordeb cynhyrfus yn y cyfarfodydd, ac nid ellir gwneyd hyn heb draul. O ganlyniad, ni ddylent fod yn rhy aml. Bydd un yn flynyddol, fe ddichon, yn ddigon mynych. Ond wrth gwrs, fe fydd amlder a natur y cyfarfodydd yn ymddibynu i raddau helaeth ar amgylchiadau, a rhaid eu gadael, o ganlyniad, yn ngofal synwyr cyffredin y cymdeithasau eu hunain.

Yr wyf yn awr wedi crybwyll y prif ranau angenrheidiol mewn Cymdeithasau Llenyddol er eu gwneyd yn sefydliadau buddiol a chyfaddasol i gyflwr cymdeithas yn Nghymru. Ond yr wyf yn teimlo, er hyny, nad allaf adael y rhan hon o'r traethawd heb chwanegu rhai sylwadau eto ar amrywiol bethau ag nad ydynt yn dyfod yn uniongyrchol o dan y dosranau blaenorol.

*Pa mor aml y dylid cyfarfod?* Os sefydliadau addysgiadol yw ein Cymdeithasau Llenyddol i fod, mae yn angenrheidiol iddynt gael cyfarfod yn amlach nag unwaith yn yr wythnos. Mae amgylchiadau, mor belled ag y maent

Digitized by Google

yn dwyn cysylltiad â rhagolwg dynol, mor ansicr yn eu dygwyddiad, fel y dichon y bydd llawer o'r aelodau yn analluog i fod yn bresenol ar y noson benodedig i gyfarfod, pan y gallent fod ar ryw noson arall. Drwy hyn fe gollant dir, a gadewir hwynt ar ol gan eu cyfeillion mwy ffodus ar yrfa gwybodaeth.

I ragflaenu hyn, dylai pob neuadd lenyddol fod yn agored dair neu bedair noswaith o bob wythnos o leiaf; ac fe ddichon mai doethaf fydd eu hagoryd bob nos. Gallai y bydd rhai yn ewyllysio efrydu mwy nag un wybodaeth mewn cysylltiad â'u gilydd, yr hyn nid allant wneyd yn rhwydd gydag un cyfarfod yn yr wythnos; ond gyda chyfarfod dair neu bedair gwaith yn yr wythnos, gallent wneyd hyny yn hwylus, drwy efrydu y wybodaeth hon un noson, a'r wybodaeth acw y noson arall. Yr un pryd yr wyf yn meddwl mai doethaf fydd i bawb gyfyngu eu hefrydiaeth i ryw un wybodaeth nes ei meistroli, ac yna gallant ymosod ar un arall gydag awch ac yni adnewyddol. Modd bynag, mae cyfarfod yn amlach nag unwaith yn yr wythnos yn angenrheidiol i gyfarfod sefyllfa y bobl weithgar yn Nghymru.

*Cyfleusterau i ddysgu Seisneg.* Pa mor anwyl bynag yw y Gymraeg gan ein calon, pa mor werthfawr a phrydferth bynag yn ein golwg, pa mor angerddol bynag yw ein sêl dros ei harferiad a'i pharhâd, mae yn rhaid i ni addef nad yw yn alluog, yn ol sefyllfa cymdeithas yn Mhrydain yn bresenol, i godi ei phlant, mewn ystyr dymorol a chymdeithasol, mor uchel ag y gall y Seisneg gyfodi ei phlant mabwysiedig hi. Mae yr angenrheidrwydd am gydnabyddiaeth â'r Seisneg yn dyfod yn fwy amlwg yn barhaus, ac y mae yn awr yn dechreu cael ei deimlo gan y bobl yn lled gyffredinol. O ganlyniad, mae yn gweddu i bob cymdeithas a fyddo yn golygu lles tymorol a chymdeithasol y Cymry, yn enwedig Cymdeithasau Llenyddol, ddarparu moddion chwanegol iddynt er ei dysgu. Yr wyf yn ysgrifenu hyn oddiar ystyriaeth o'r manteision tymorol a chymdeithasol cysylltiedig â gwybodaeth o'r Seisneg, ac nid oddiar unrhyw dybiaeth fod y Gymraeg yn glaf ar ei gwely angeu. O'm rhan fy hun, nid wyf yn gallu gweled fod y Gymraeg o angenrheidrwydd yn rhwym o farw; yn hytrach, yr wyf yn meddwl fod ei pharhâd yn hollol alluadwy. Yr wyf yn meddwl hefyd y dylai ein Cymdeithasau Llenyddol, yn nghyd a phob Cym-

Digitized by Google

deithas Gymreig arall, fod yn golofnau o dani, drwy ei choleddu, ei choethi, a'i harferyd yn eu holl weithrediadau. Mae yn wir fod genym yn barod lawer o gymdeithasau yn proffesu coleddu yr iaith Gymraeg; ond yr wyf yn meddwl fod y dull a gymerant i gyflawni hyny yn fwy effeithiol i'w nychu, nag ydyw i ddim arall; odid fawr, nad yw eu llywyddion i gyd yn Seison—cyhoeddant eu cylchlythyrau yn Seisneg—cyhoeddant eu testynau cystadleuol yn Seisneg—argraffant eu hadroddiadau yn Seisneg—ysgrifenant eu beirniadaeth yn Seisneg—traddodant eu hareithiau yn Seisneg. Coleddant y Gymraeg drwy ei gwneuthur yn stol droed i'r Seisneg. Mewn gair, fel y sylwa un o'r dirprwywyr bythgofiadwy, yn wawdlyd, proffesant bleidio parhâd yr iaith Gymraeg drwy draddodi areithiau Seisneg unwaith yn y flwyddyn. Mae peth fel hyn yn ynfydrwydd teilwng o'r gwallgofdy, yn ddirmyg ar Gymro, Cymru, a Chymraeg, ac yn destyn gwawd i genedloedd y byd. Mae bloeddio, "Oes y byd i'r Iaith Gymraeg," yn nghanol areithiau Seisneg, i dyrfa o Gymry, yr un fath a gwaeddi, "Bydd fyw byth," uwchben dyn wedi iddo syrthio i'r afon, a'i ddal o dan y dwfr yr un pryd. Os yw y Gymraeg yn werth ei choleddu, mae yn werth i'w harferyd hefyd. Bydded yn iaith ein Cymdeithasau, cyhoedder y cylchlythyrau a'r testynau, ysgrifener yr adroddiadau a'r beirniadaethau, traddoder yr anerchiadau, a dyger eu holl weithrediadau yn mlaen ynddi, neu ynte tawer â son amdani, a gadawer iddi gael yr hyn a ganiateir i bawb—ychydig seibiant a llonyddwch i farw.

Yn ddiweddar daeth cylchlythyr i'm llaw, yn hysbysu sefydliad Cymdeithas a elwir, "The Cambrian Institute." Dyben proffesedig y Gymdeithas ydyw cefnogi a gwasgaru gwybodaeth o'r celfyddydau, gwyddonau, a llenyddiaeth, yn fwy neillduol yn eu cysylltiad â Chymru, yn mhlith y genedl Gymreig. Ond pa fodd y cyflawnant y dyben hwn? Ai trwy gyhoeddi a gwasgaru llyfrau a thraethodau da a rhad yn iaith y Cymry—yr unig iaith a ddeallir gan y mwyafrif ohonynt? O nage fawr, ond drwy gyhoeddi traethodau ar y gwahanol wybodaethau a broffesant, unwaith yn y chwarter blwyddyn, yn yr iaith Seisneg!! Os eu dyben ydyw gweithio y Gymraeg allan o arferiad, yr hyn yr wyf yn ei ofni, fe ddichon y bydd y Gymdeithas o ryw wasanaeth tuag at effeithio hyny; ond os eu dyben ydyw gwasgaru gwybodaeth yn mhlith

y Cymry, bydd mor anobeithiol a Choleg Arabig yn Birmingham, chwedl y Llyfrau Gleision. Byddai Cymdeithas o'r fath o werth annhraethol, ac yn teilyngu cefnogaeth gyffredinol, pe gwasgarai wybodaeth yn mhlith y Cymry drwy gyfrwng y Gymraeg; ac os ydynt yn ddidwyll yn yr hyn a broffesant, paham, yn enw pob rheswm, y mabwysiant iaith estron i gyflawni eu hamcanion, gan wneuthur eu hunain yn ffyliaid drwy geisio cyflawni yr hyn sydd yn anmhosibl? Mae yn wir fod gan y Gymdeithas grybwylledig ryw ddarpariaeth fechan ar gyfer y "Cymro uniaith," fel y dywedant, ond nid wyf yn ystyried hyny ond chwanegu sarhâd at annghyfiawnder.

Mae bod yn selog dros arferiad a pharhâd y Gymraeg yn hollol gydweddol â rhoddi cyfleusderau hefyd i'r Cymro uniaith i ddysgu Seisneg. Nid oes achos esgeuluso y Gymraeg wrth wneuthur hyny. Dysger Seisneg i'r bobl drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yna, wrth ddysgu Seisneg, fe goleddir y Gymraeg yr un pryd. Nid wyf mewn un modd yn ofni y bydd i wybodaeth o'r Seisneg oeri cariad Cymro at iaith ei fam, ond yn y gwrthwyneb, yr wyf yn credu y bydd i wybodaeth fanol o'r ddwy angerddoli serch y Cymro at ei eiddo ei hun. Mae ein dysgedigion, heb eithriad, fe ddichon, yn bleidwyr selog i arferiad a pharhâd yr iaith a siaredid gan y Derwyddon dair mil o flynyddoedd yn ol.

*Testynau Dadleuol.*—Gan fod angenrheidrwydd am gefnogaeth pob blaid, yn grefyddol a gwladol, i'w gwneuthur yn effeithiol a llwyddianus, dylid cau allan ohonynt bob testyn tueddol i greu annghydfod rhwng yr aelodau; megys etholedigaeth, a thestynau ereill o gyffelyb natur. Mae rhai yn meddwl y dylid cau gwladyddiaeth a duwinyddiaeth allan o gwbl; ond yr wyf yn methu gweled y byddai hyny yn ddoeth, yn enwedig yn Ngymru; oblegid y mae y Cymry yn ymhyfrydu mwy mewn duwinyddiaeth nag mewn unrhyw wybodaeth arall, ac os cauir duwinyddiaeth allan, fe gauir allan un cymhelliad cryf i ymuno â hwynt. Mae mewn gwladyddiaeth a duwinyddiaeth ddigon o destynau angenrheidiol i'w gwybod, ag y gall pawb gyduno i'w hefrydu heb unrhyw berygl iddynt ymrafaelio â'u gilydd wrth wneuthur hyny.

*Meithriner y gwybodaethau mwyaf goruchel, mwyaf esgeulusedig, a mwyaf cyfaddasol i chwaeth ac amgylchiadau y Cymry.*—Dylai swyddogion ein Cymdeithasau Llenyddol

Digitized by Google

arwain yr aelodau at y gwybodaethau mwyaf effeithiol i ddylanwadu yn ddaionus ar eu meddyliau, i gryfhau eu cariad a'u parch at Dduw, ac i feithrin santeiddrwydd yn y galon, a phurdeb yn y fuchedd; cyfeira eu sylw at y gwybodaethau ag ydynt hyd yn hyn wedi cael eu llwyr esgeuluso o'r bron. Mae y rhai hyn yn lluosog, mae y celfyddydau a'r gwyddonau heb gael eu cyffwrdd prin: mae ambell un ohonynt, mae yn wir, fel baban newydd eni, yn cael eu henwi, y dyddiau hyn, ac yr wyf yn hyderu fod llawer eto yn yr esgoreddfa; ond am y mwyafrif ohonynt, maent hyd yn hyn yn ddifywyd yn y groth, ac yno y byddant am amser maith, oni wneir ymdrech i gyflawni amser eu tymp. Mae rhai ardaloedd yn meddu cyfleusderau nodedig i efrydu rhyw wybodaethau neillduol—gwybodaethau ag ydynt yn dwyn cysylltiad agos â gorchwylion dyddiol y rhan fwyaf o'r trigolion. Rhodder sylw priodol i'r rhai hyn. Er engraifft, mae gan drigolion Bethesda, a Ffestiniog, a lleoedd ereill, fanteision mawrion i efrydu daeareg a chyfansoddiad creigiau; Merthyr, Dowlais, a'r cylchynoedd, i efrydu mwnyddiaeth; a lleoedd ereill i efrydu henafiaeth. Nac esgeuluser amaethyddiaeth. Hyfforddder yr amaethwyr yn egwyddorion eu celfyddyd; dysger iddynt ddeall natur tiroedd, a'u cyfaddasrwydd i gynyrchu gwahanol ffrwythydd, ac athroniaeth gwrteithiad a thriniad y tir; cyfarwydder hwynt i fagu a thrin eu hanifeiliaid yn y dull goreu a mwyaf enillgar; gwneler hwynt yn gymhwys i gystadlu âg amaethwyr unrhyw wlad arall, os nad i ragori arnynt. Mae y ffaith mai gwlad amaethyddol, gydag ychydig eithriadau, yw Cymru, yn galw am hyn.

*Fel Cymry, dylid talu cryn sylw i bethau Cymreig.*—Hanesiaeth gwladol a chrefyddol, llenyddiaeth hen a diweddar, henafiaethau, traddodiadau, enwogion, arferiadau a neillduolion y Cymry, yn nghyda phob peth arall perthynol iddynt, a ddylent gael eu hefrydu. Caffed athroniaeth y meddwl dynol, ffurfiad cymeriadau, a rhwymau cymdeithasol, eu lle priodol ynddynt. Rhodder yr ieuenctid ar ben y ffordd i enwogrwydd ac anrhydedd yn y celfyddydau, gwyddonau, a'r holl wybodaethau. Ymdrecher i enyn pob athrylith, ac i ddwyn pob talent i weithrediad. Cefnoger gwreiddioldeb a dyfais. Gwneler ein hieuenctid yn gymhwys i gyflawni rhywbeth uwch na dynwared a chyfieithu; cenedler yn eu mynwesau

Digitized by Google

hyder yn eu galluoedd eu hunain; cynghorwn hwynt i beidio ymfoddloni ar lyfrau yn unig, fel ffynonellau gwybodaeth; symbyler hwynt yn mlaen i deml anian i chwilio ei rhyfeddodau drostynt eu hunain; argraffer ar eu meddyliau, fod eto drysorau mawrion yn aros yn gudd-iedig yn nghloddfeydd gwybodaeth, ac y gallant hwy, drwy ymroddiad a diwydrwydd, gael gafael ar lawer ohonynt. Dyma sydd arnom eisieu—efrydwyr annibynol, gwreiddiol, ymroddgar, penderfynol, a gwladgarol. Ond i ni gael y rhai hyn, nid hir y byddwn heb enwogion teil-wng i'w cystadlu âg enwogion penaf y ddaear. Pa ryfedd fod Cymry a Chymraeg mor ddinod yn bresenol, gan fod pawb, pan dybiant eu bod wedi cael rhyw drysor, yn annghofio iaith eu mam, ac yn brysio i'w hysbysu i'r byd drwy gyfrwng y Seisneg? Nid felly y gwneir pan lenwir ein gwlad âg efrydwyr gwreiddiol a gwladgarol. O nage; y Gymraeg fydd eu hiaith hwy; gosodir pob gem i add-urno ei phen hi yn gyntaf. Os darganfyddir seren newydd, fe roddir iddi enw Cymreig, ac mewn newydd-iadur Cymreig yr hysbysir ei darganfyddiad gyntaf. Fe gaiff cyhoeddwyr newyddiaduron Seisnig y fraint o ysgrifenu, "*The discovery of a new star—From a Welsh paper.*" Felly, mi a hyderaf, gyda llu o bethau ereill. Pan ddaw ein cenedl i ddylyn gwybodaeth yn annibynol, ac yn ymwybodol o'i chryfder, heb geisio dynwared unrhyw genedl arall, fe gynyrcha gyfansodd-iadau a enillant sylw y byd—cyfansoddiadau ag y bydd yn werth gan ryw un eu cyfieithu i brif ieithoedd y ddaear. Dylai ein Cymdeithasau Llenyddol ddyrchafu eu golygon yn uchel, ac amcanu pethau mawrion. Eu harwyddair fyddo, "Awn rhagom at berffeithrwydd." Cofia, ddarllenydd, nad wyf yn golygu y sylwadau blaen-orol ond yn unig fel crybwylliadau i arwain sylw ein Cymdeithasau Llenyddol at y ffordd fwyaf effeithiol i lenwi ein gwlad â gwybodaeth sylweddol.

*Gwneler pob Cymdeithas Lenyddol yn hunan-gynaliol.*—Gan nad ellir cario y cynllun a ddadleuaf i weithrediad heb draul, bydd yn angenrheidiol trefnu moddion i godi cyllid i gyfarfod y draul. Fe fydd traul ar yr adeilad, llyfrau, offerynau, athrawon, darlithoedd, a llawer o bethau ereill ag a fyddant yn gofyn am gyllid rheolaidd i'w cyfarfod. I godi y cyllid angenrheidiol, mae amryw fodd-ion yn arferadwy.

Digitized by Google

1. Os bydd llyfrgell a darllenfa, gellir codi oddiar y rhai na fyddant yn aelodau ryw swm yn wythnosol, neu unrhyw ffordd arall, am fynediad i'r ddarllenfa, ac am fenthyg llyfrau o'r llyfrgell i'w darllen.

2. Gellir erfyn tanysgrifiadau gan rai ag nad ydynt mewn angen am wasanaeth y sefydliad eu hunain; ac ymae llawer ohonynt yn ddiau a atebant yn haelionus i'r alwad.

3. Gellir codi rhyw swm yn flynyddol, chwarterol, neu wythnosol, fel y bernir ddoethaf, am aelodiaeth a hawl i fwynhau holl fanteision y sefydliad. Nid wyf yn meddwl y bydd hyn, ond i'r pris fod yn ddigon isel i gyfarfod amgylchiadau y cyffredin o'r gweithwyr diwyd a sobr, yn un rhwystr iddynt i ymuno â hwynt; yn hytrach, bydd yn ganmoliaeth i'r sefydliad yn eu golwg. Mae yn well ganddynt dalu am addysg na'i gael am ddim. Pan roddir addysg fel elusen, mae y gweithiwr annibynol yn dueddol i'w wrthod.

4. Os na bydd y moddion blaenorol yn effeithiol i godi cyllid digonol, gellir eu cynorthwyo drwy gynal cyfarfodydd tê, cyngherddau, darlithoedd, casgliadau, neu unrhyw foddion ereill a fernir yn angenrheidiol. Fe ddichon y profir ychydig anhawsder i gael cyllid digonol ar y dechreu, ond na ddigaloner. Cyfynger y draul i ateb i'r cyllid. Dalier ati nes y cenedlir dyddordeb yn y sefydliad yn mhlith y trigolion, ac yna fe fydd y cyllid yn helaeth a diogel.

*Gofaler am ddarpariaeth ar gyfer y menywod.*—Ni buaswn yn crybwyll hyn oni bae fod y merched yn bresenol yn cael eu hesgeuluso yn hollol gan ein holl Gymdeithasau Llenyddol. Yn ngwyneb yr esgeulusdod hwn, buaswn yn hoffi gwneuthur amryw sylwadau i ddangos yr angenrheidrwydd o'u cymeryd hwy i mewn yn gystal a'r dynion; ond gan fod y traethawd yn myned yn faith er fy ngwaethaf, rhaid i mi ymfoddloni ar alw sylw at y mater, gan hyderu y bydd hyny yn ddigon i gynhyrfu pob Cymdeithas Lenyddol i wneuthur rhyw ddarpariaeth ar eu cyfer.

Wrth ddarllen y sylwadau blaenorol, fe wêl y darllenydd fy fod am wneuthur ein Cymdeithasau Llenyddol yn sefydliadau addysgiadol i'r bobl weithgar, cyffelyb i'r hyn yw *Mechanics Institutions* yn mhlith y Seison. Yr wyf am iddynt feddu adeiladau cyfaddas, llyfrau, offerynau, athrawon, a phob peth arall angenrheidiol mewn sefydliad addysgiadol, at eu gwasanaeth, fel y gallo y gweithwyr

Digitized by Google

diwyd a sobr, ar ol darfod eu diwrnod gwaith, gysegru eu nosweithiau i ddylyn addysg a gwybodaeth ynddynt. Mai Cymdeithasau Llenyddol o'r fath ag a ddarluniwyd yw y rhai goreu a mwyaf buddiol sydd, fe ymddengys i mi, tuhwnt i bob dadl. Yr un pryd, fe ddichon y bydd rhai gwrthddadleuon o bwys yn cyfodi yn meddwl y darllenydd yn eu herbyn. Yr wrthddadl gyntaf, fe ddichon, fydd, *yr anhawsder i godi trysorfa ddigonol i adeiladu y neuadd.*

Mewn ardaloedd poblog nid wyf yn ystyried fod nemawr o rym yn yr wrthddadl hon ; nid oes dim ond difaterwch, diogi, neu falchder yn alluog i'w hattal rhag cyfodi yr adeilad angenrheidiol yr amser a fynont, os peidiant âg ymgynghori â balchder y galon a'r llygad. Os ymfoddlonant ar adeilad syml, ond cyfaddas a defnyddiol, fe allant ei chael yn rhwydd, trwy ymdrech a chydweithrediad, mewn ychydig amser. Golyger fod tref neu ardal yn cynwys o ddeg i ugain mil o drigolion, pa beth yw neuadd lenyddol rhwng cynifer ? Ymosoder arni i gasglu tanysgrifiadau : dechreuer gyda'r cyfoethogion, a disgyner i lawr hyd at y gweithiwr cyffredin ; ymweler â phob un yn bersonol, gwnaer ymdrech i gael ganddynt addaw yn haelionus, ac yr wyf yn tybied y bydd i'r addewidion gyfateb o leiaf i'r daflen ganlynol :—

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deg ar gyfartaledd yn rhoddi pum punt yr un | | | | ... | £50 | 0 | 0 |
| 100 | do. | do. | £1 0 0 | ... | 100 | 0 | 0 |
| 200 | do. | do. | 0 10 0 | ... | 100 | 0 | 0 |
| 400 | do. | do. | 0 5 0 | ... | 100 | 0 | 0 |
| 1000 | do. | do. | 0 1 0 | ... | 50 | 0 | 0 |
| Yr hyn a wna y swm hardd o | | | | ... | £400 | 0 | 0 |

Swm digonol i adeiladu neuadd a ateba y dyben cystal ag un, ac, fe ddichon, i weddill ychydig tuag at y llyfrgell. Nid wyf yn meddwl fod y swm uchod yn fwy nag ellir gasglu mewn unrhyw ardal boblogaidd ond cael dynion cymhwys i ymosod ar y gwaith o ddifrif. Cenedler dyddordeb yn yr achos, a dangoser yr angenrheidrwydd am y fath sefydliadau, a'r buddioldeb mawr a ddeilliai drwyddynt, ac yna fe fydd yn hawdd cael trysorfa i'w dwyn i weithrediad. Mae anhawsderau yn diflanu o flaen ymroddiad a phenderfyniad. Fe ddichon mai nid dull annoeth i roddi cychwyniad i'r gwaith fyddai y canlynol :—Galwer cyfarfod cyhoeddus i ddadleu y priodoldeb o sefydlu Cymdeithasau Llenyddol i fod yn sefydliad

Digitized by Google

addysiadol i'r bobl weithgar—cymheller holl oreuon yr ardal i fod yn bresenol—myner dynion cymhwys i ddwyn hawliau y sefydliad amcanedig o flaen y cyfarfod—dangoser yr angenrheidrwydd amdanynt, yn nghyda'r lles mawr a ddeilliai drwyddynt. Drwy hyn cenedlir dyddordeb yn yr achos, a bydd yn hawdd cael penderfyniad brwdfrydig o'i blaid. Wedi enyn gwres yn y gynulleidfa, cymheller y gwyddfodolion i danysgrifio tuag at ddwyn amcanion y cyfarfod i weithrediad, ac fe ddaw rhyw un yn mlaen, mae yn lled debygol, i flaenori y rhestr gydag addewid am ddeg punt, mwy neu lai. Dylynir ef gan ereill, ac mewn ychydig funudau bydd yr addewidion yn dylifo i mewn; fe fydd pob un yn awyddus am fwrw ei hatling i'r drysorfa, tuag at ddwyn i ben amcanion mor ganmoladwy. Os gwelir fod rhai yn rhy wan i ddyfod yn mlaen, anfoner nifer o ddynion o amgylch gyda darnau bychain o bapur gwyn i'w rhoddi i bob un yn bersonol, fel y gallont ysgrifenu arnynt eu henwau, yn nghyda'r swm a roddant at yr achos. Trwy arfer moddion fel hyn, mae yn ddigon tebygol y cesglir can punt neu fwy cyn terfyniad y cyfarfod. Fe ddichon hefyd y bydd i ryw foneddwr haelionus roddi tir i adeiladu arno am ddim: rhydd yr ail y ceryg yn rhad: daw ereill yn mlaen i gario y ceryg a'r defnyddiau at yr adeilad, heb dderbyn na dysgwyl unrhyw wobr am eu gwasanaeth: ac fe fydd pawb yn ymawyddu i wneyd a allant i ddwyn y gwaith i ben. Nid yw hyn yn fwy nag a ellir yn rhesymol ei ddysgwyl ond i'r achos gael ei osod yn deg yn ei holl gysylltiadau o flaen y trigolion. Ond heb ymddibynu dim ar yr ystyriaeth ddiweddaf, y mae cyflawniad yr amcan yn hollol alluadwy. Ie, hefyd, a chaniatau fod y symiau a nodwyd yn fwy o'r haner neu chwaneg nag a ellir eu sylweddoli, nid yw mewn un modd yn canlyn fod y cynllun a ddadleuaf yn anarferadwy. Caffed amynedd ei pherffaith waith. Cymerer amser i ddwyn y cynllun i weithrediad. Nid mewn un diwrnod yr adeiladwyd Rhufain. Os methir cael digon o gefnogaeth y tro cyntaf, nid oes achos digaloni. Ymgeisier drachefn a thrachefn, ac na rodder i fyny nes llwyddo. Peidier â dysgwyl perffeithrwydd wrth ddechreu, ond ymfoddloner ar yr hyn sydd yn alluadwy. Cyfaddaser y moddion a'r gweithrediadau i ateb i'w gilydd. Fe brofir anhawsderau, mae yn wir—byddai yn afresymol peidio â'u dysgwyl; ond fe

Digitized by Google

ddiflanant i gyd mewn amser o flaen ymroddiad a chydweithrediad.

Bydd ereill yn gofyn, "*Pa fodd y ceir llyfrgell?*" Mae yr wrthddadl hon yn un hawdd i'w hateb. Pan fyddo dau beth yn angenrheidiol, ac nad ellir cael ond un ohonynt ar y pryd, rhaid ymfoddloni ar yr un. Os nad ellir cael trysorfa ddigonol i adeiladu y neuadd, ac i brynu y llyfrgell yr un pryd, rhaid ymfoddloni ar y neuadd i ddechreu, a gohirio pryniad y llyfrgell hyd oni cheir trysorfa ddigonol i'r dyben hyny; ond nid oes angen am ryw swm mawr o arian i brynu digon o lyfrau i ddiwallu angen y gymdeithas ar y dechreu. Os nad ellir cael llyfrgell fawr, ymfoddloner ar lyfrgell fechan. Pe na chynwysai ond cant o gyfrolau ar y dechreu, drwy chwanegu ati o fis i fis, a blwyddyn i flwyddyn, fe ddaw mewn ychydig o flynyddoedd yn llyfrgell gynwysfawr a gwerthfawr. Mae rhyw olud rhyfeddol yn dylyn aml chwanegiad, er i bob chwanegiad ar ei ben ei hun fod yn fychan. Heblaw hyn, gellir cyfrif ar rai ugeiniau o gyfrolau yn anrhegion i'r gymdeithas gan ddynion a deimlant ddyddordeb ynddi, a dymuniad am ei llwyddiant. Nid oes dim yn angenrheidiol i gael llyfrgell, yn gystal a neuadd, ond calon i'r bobl i weithio.

Yr wrthddadl nesaf yw, *yr anhawsder i gael athrawon, a modd i dalu iddynt.*—Mae llai o rym yn yr wrthddadl hon, ar ol edrych i mewn iddi, nag a ellir dybied ar y golwg cyntaf. Nid oes unrhyw ardal boblogaidd yn Nghymru, fe ddichon, nad oes ynddi rai ag ydynt yn alluog i roddi gwersi i ddechreuwyr newydd yn y rhan fwyaf o gangenau gwybodaeth; un yn y wybodaeth hon, a'r llall yn y wybodaeth arall. Mae un yn ysgrifenydd prydferth; un arall yn ramadegwr craff; y trydydd yn Seisnigwr da; y pedwerydd yn rhifyddwr cyflym; y pumed yn gerddor cywrain, &c. Sicrhaer gwasanaeth y rhai hyn; fe rydd y rhan fwyaf ohonynt eu gwasanaeth yn ewyllysgar. Mae hefyd athrawon ysgolion dyddiol—rhai ag ydynt wedi eu hyfforddi i fod yn athrawon, ac o ganlyniad, yn alluog i addysgu amrywiol wybodaethau; sicrhaer eu gwasanaeth hwythau hefyd. At y rhai hyn gellir chwanegu gweinidogion y gwahanol enwadau crefyddol; i gyd, fe ddichon, wedi derbyn addysg athrofaol, ac yn gymhwys yn mhob ystyr i hyfforddi yr annysgedig. Nid oes un amheuaeth na roddant hwythau eu cynorthwy yn

Digitized by Google

llawen i gyfranu addysg mewn gwahanol wybodaethau. Mae yn amlwg, o ganlyniad, y bydd yn hawdd cael digon o athrawon; ond pa un a ellir cael moddion i dalu iddynt am eu gwasanaeth, ai nad ellir, sydd ychydig yn fwy tywyll. Ond hyn sydd sicr, gellir cael rhai i fod yn athrawon, ag na dderbynient dâl pe cynygid tâl iddynt, ac fe fydd y lleill yn foddlon ar ychydig o gydnabyddiaeth, os gwelant fod yr ychydig hwnw, yn ol amgylchiadau y gymdeithas ar y pryd, yn gymaint ag a ellir ei roddi iddynt.

Mae Cymdeithasau Llenyddol yn ol y cynllun a ddadleuaf, yn yr oll ohono, mor bell ag y mae yn dwyn cysylltiad âg ardaloedd poblog, yn gwbl arferadwy; ac, fel yr ysgrifenwyd yn barod, nid oes dim ond difaterwch, diogi, neu falchder, yn alluog i'w hattal i'w roddi mewn gweithrediad yr amser a fynont.

Ond y mae un wrthddadl eto, mwy pwysig nag un o'r rhai blaenorol, yn sicr o ymgynyg i bob meddwl deallgar. "*Dylid llunio Cymdeithasau Llenyddol yn y fath fodd ag y byddont yn arferadwy yn mhob man. Fe allai fod eich cynllun chwi yn burion i ardaloedd poblog, ond nid ellir ei roddi mewn gweithrediad mewn lleoedd bychain.*" Cydnabyddaf fod mwy o rym yn yr wrthddadl hon nag yn un o'r lleill, ond nid digon i ddinystrio hawliau y cynllun a ddadleuaf. Pe gellid profi ei fod yn anarferadwy mewn lleoedd bychain, ni wnai hyny mewn un modd brofi y dylid ei wrthod mewn ardaloedd poblog; yn hytrach, y casgliad naturiol fyddai, y dylid ei fabwysiadu mewn lleoedd poblog, a'i efelychu mor agos ag y gellir mewn lleoedd bychain. Mae llawer o anfanteision mewn lleoedd bychain yn gysylltiedig â llu o bethau heblaw Cymdeithasau Llenyddol, ond nid oes neb mor ffol a thybied, oblegid hyny, y dylai ardaloedd poblog ddyoddef yr un anfanteision tra gallant beidio. Mae anfanteision lleoedd bychain yn cyfodi o angenrheidrwydd oddiar natur yr amgylchiadau y maent ynddynt. Oferedd ydyw meddwl am eu symud. Mae yn anmhosibl eu gwneyd yn gydradd â lleoedd poblog mewn manteision, o ganlyniad, rhaid iddynt ymfoddloni ar efelychu ardaloedd poblog mor agos ag y gallant. Felly y gwneir gyda phob peth arall. Yn ol yr egwyddor hon, yr ydym yn gweled y pentrefydd a'r llanau yn efelychu y trefydd a'r dinasoedd, a'r trefydd a'r dinasoedd yn efelychu y brif-ddinas. Mae y tlodion yn dynwared y cy-

Digitized by Google

foethogion, a'r cyfoethogion hwythau yn dynwared y llys-breninol. Gwnaer yr un modd gyda Chymdeithasau Llenyddol. Gan nad ellir eu cynysgaethu â manteision trefydd mawrion ac ardaloedd poblog, nid oes dim arall iddynt i'w wneyd. Ond er nad ellir cael Cymdeithasau Llenyddol, mwy nag un peth arall, mor effeithiol mewn lleoedd bychain ag a ellir gael mewn ardaloedd poblog, mae yn bosibl eu cael yn mhob man mewn graddau mwy neu lai o berffeithrwydd. Os yw y trigolion yn ychydig, a'u hamgylchiadau yn gyffredin yn isel, mae eu hangenion yn llai i ateb i hyny. Nid oes angen am gymaint o arian i roddi y cynllun mewn gweithrediad, na chyllid mor helaeth i'w gario yn mlaen. Heblaw hyny, mae y maes yn agored iddynt i geisio cynorthwy gan eu cymydogion mwy lluosog a goludog; ac y mae pob lle i gredu na ddiystyrid eu cais. Ond y ffordd oreu, fe ddichon, i gyfarfod angenion lleoedd bychain yw ffurfio undeb Sirol neu ran Sirol, fel y byddont oll megys aelodau o'r un teulu, ac fel y gallo y rhai cryfion gynorthwyo y gweiniaid. Mae digon o ysbryd brawdgarwch, hyderaf, yn mhlith y Cymry i ddibrisio hunanoldeb er mwyn lles y cyffredin. Pa un bynag am hyny, mae yr yni a'r cydweithrediad a dryfrithodd ein gwlad â chapelydd yn ddigon galluog i'w thryfritho eto â neuaddau llenyddol. Dyger y bobl i weled a theimlo yr angenrheidrwydd amdanynt, a dangoser iddynt mai rhai a fyddant yn sefydliadau addysgiadol yw y rhai goreu, ac fe fynant eu cael. Nid allant fyw hebddynt; fe ddeuant yn angenrheidrwydd iddynt, ac angenrheidrwydd yw mam dyfais: fe ddyfeisiant gynllun i'w cael, ac fe'i cariant i weithrediad. Gwyn fyd y dydd pan fyddo Cymdeithas Lenyddol, yn ol y cynllun a ddadleuwyd yn rhanau blaenorol y traethawd, wedi cael ei sefydlu yn mhob ardal yn Nghymru. *Ond pa ddaioni a wnant?* Fe fydd traul mawr arnynt—traul arianol, traul amser, a thraul yni, corff, a meddwl; a fydd y llesiant a gynyrchant yn ateb i'r draul? Mae arian, amser, a llafur yn bethau rhy werthfawr i'w gwastraffu ar fanteision dychymygol; a oes sicrwydd y bydd iddynt dalu? Mae synwyr cyffredin yn dysgu i bawb fod gwario arian, amser, a llafur, neu un ohonynt ar wahân, ar orchwyl nad ellir gwneyd iddo dalu, yn ynfydrwydd hollol. A dyweyd y goreu amdano, mae yr un peth a pheidio â gwneyd dim. Ond y mae dyweyd hyn yn

Digitized by Google

rhy fach; mae yn golled noeth. Wrth eu hiawn ddefnyddio, fe gynyrchent elw; o ganlyniad, mae y neb a'u gwastraffo ar bethau anfuddiol yn golledwr o'r elw a gynyrchent pe defnyddid hwynt i gyflawni rhyw orchwyl enillgar. Mae yr ystyriaethau hyn yn galw ar bleidwyr Cymdeithasau Llenyddol, cyn y gallant ddysgwyl am gefnogaeth gyffredinol, i ddangos yn amlwg y bydd y daioni a weithredir drwyddynt yn ddigonol i gyfiawnhau y draul angenrheidiol i'w rhoddi mewn gweithrediad. Mae hyny yn hawdd i'w wneuthur. Mae yn wir nad ellir gosod eu buddioldeb a'u gwerth i lawr mewn punoedd, sylltau, a cheiniogau; ond nid ydynt oblegid hyny yn llai amlwg nac yn llai sicr. Nid arian yw yr unig bethau sydd â gwerth ynddynt; pe felly, fe fuasai ein daear ni yn annhraethol dlotach nag ydyw. Er na thalant yn ol mewn arian, fe dalant mewn pethau cydwerth, ïe, gwerthfawrocach nag arian—pethau nad oes digon o arian yn y byd i'w prynu. Fe fydd y pethau hyny yn amlwg, a'u cysylltiad â'r Cymdeithasau Llenyddol yn agored i gael ei brofi.

*Buddioldeb Cymdeithasau Llenyddol.*—Mae buddioldeb sefydliadau addysgiadol yn gyffredin yn perthyn i Gymdeithasau Llenyddol hefyd. Os yw ysgolion dyddiol a cholegau yn fuddiol, maent hwythau yn fuddiol am yr un rhesymau. Os oes buddioldeb mewn dysgeidiaeth a gwybodaeth, mae buddioldeb ynddynt hwythau, oblegid maent yn eu cyfranu. Mae hyn yn ddigon o ddadl drostynt, pe na fyddai genym ddim arall i'w ysgrifenu o'u plaid. Os addefir fod ysgolion, a sefydliadau ereill i gyfranu addysg a gwybodaeth, yn llesol a theilwng o gael eu cefnogi, nid ellir gwadu nad yw Cymdeithasau Llenyddol felly hefyd. Rhaid i'r naill a'r llall sefyll neu syrthio gyda'u gilydd. Mae yr un rhesymau ag a brofant fuddioldeb y naill yn profi buddioldeb y lleill hefyd. Mae y cyntaf yn cael ei addef gan bawb yn bresenol, o ganlyniad, i fod yn gyson, rhaid addef yr ail hefyd. Ond nid oes achos i ni aros ar hyn; mae genym ddigon o ystyriaethau ereill wrth law; mae y manteision a berthyn iddynt yn llu. Yn bresenol enwaf rai ohonynt:—

1. *Magant ysbryd brawdol.*—Gellir ei gosod i lawr fel rheol, fod rhagfarn anffafriol am bersonau, a chasineb tuag atynt, yn y cyffredin, yn tarddu oddiar ddiffyg adnabyddiaeth ohonynt. Oni adwaenom ddynion ag ydynt

yn llawn rhagfarn a chasineb at un o'n cyfeillion; er na fuont erioed yn ei gwmni am un haner awr, maent yn llawn o ddrwg-dybiaethau amdano, ac yn barod i'w ddifrio a'i ddrygu yn mhob dull ac yn mhob man. Yr ydym yn rhyfeddu atynt, oblegid ein bod yn gwybod, oddiar adnabyddiaeth bersonol a manwl, eu bod yn camsynied am ein cyfaill; ceisiwn eu darbwyllo i gyfnewid eu golygiadau, ond yn aneffeithiol. Ni fynant eu hargyhoeddi. Tosturiwn wrthynt, a rhyfeddwn beth allai fod yr achos o'u rhagfarn a'u casineb. Pe gellid dwyn y dynion hyn i gysylltiad personol â gwrthddrych eu rhagfarn a'u casineb, fe gyfnewidient yn dra buan eu golygiadau amdano—fe welent nad ydyw yr adyn drygionus a dybient ei fod—difodid eu rhagfarn a'u casineb—a chenedlid yn eu mynwesau barch a chariad tuag ato yn eu lle. Wrth edrych ar ein gweithrediadau yn gyffredinol bron, canfyddwn ein bod yn dra agored i ffurfio gau syniadau am unrhyw wrthddrych a fyddo yn ddyeithriol i ni. Felly yr ydym gyda golwg ar ein cyd-ddyn. Fe ddichon ein bod yn gwybod ei enw, pa le mae yn byw, ac yn adnabod ffurf ei wynebpryd, ond nid yw, er hyny, ond dyn dyeithr i mi; mae rhyw gyfriniaeth o'i amgylch ag sydd yn cynhyrfu ein cywreinder—mae ei ymddygiadau, ei dymer, ei egwyddorion gweithredol, a thôn ei ymddyddanion, a'i ymddygiadau yn gyffredinol yn guddiedig oddiwrthym—ond nid ydym yn gallu ymfoddloni ar ryw esgrud felly. Dechreuwn ei wisgo â giau a chnawd dychymygol o'n heiddo ein hunain—rhoddwn iaith i bob edrychiad ac ysgogiad o'i eiddo—tybiwn ein bod yn clywed ei olwg yn llefaru rhywbeth wrthym—dychymygwn ein bod yn gallu darllen ei hanes ar ei wynebpryd—anturiwn edrych i mewn i'w galon, i chwilio am y gallu sydd yn ei symud, a'r dybenion sydd yn ei lywodraethu; os gwelwn rywun yn ysgwyd ei ben pan sonir amdano, neu os clywwn rywun yn sibrwd annghymeradwyaeth iddo, meddienir ni âg amheuaeth amdano, ac yn raddol fe'i gwisgir yn ein golwg âg erchyllder, gan hudoliaeth dyeithrwch. Mae hyn i'w weled yn amlwg iawn yn y byd crefyddol. Os bydd dyn ag sydd i raddau yn ddyeithriol i ni, ac yn wahanol i ni yn ei farn dduwinyddol, mor dueddol ydym i farnu yn galed amdano, ac i'w ddirmygu? ïe, mor wahanol yw ein barn amdano, a'n teimladau tuag ato, i'r hyn ydynt tuag at ddyn arall gyda'r hwn yr ydym yn cyfeillachu yn aml, er

Digitized by Google

ei fod yr un farn yn union ag yntau! Edrychwn arno fel ar gyfeiliornwr. Os byddwn yn selog iawn dros ein tybiau ein hunain, nid oes dim yn ormod genym i'w wneuthur er ei wrthwynebu a'i boeni. Nid allwn oddef y drychfeddwl fod dim daioni yn perthyn iddo; methwn gael geiriau digon cryfion i ddangos ein diystyrwch tuag ato. Pa gyfrif bynag a roddwn am hyn, rhaid addef ei fod yn cymeryd lle yn dra mynych, ac wrth fyned heibio, gallwn dynu gwers bwysig oddiwrth y ffaith hon,—Peidiwn â barnu dynion cyn eu hadnabod: mae adnabyddiaeth bersonol, o leiaf adnabyddiaeth i raddau o fywyd ac arferiadau annghyhoedd dyn, yn angenrheidiol i ffurfio barn deg am ei syniadau a'i weithrediadau cyhoeddus. Mae peidio â barnu dyn cyn ei adnabod yn wers a ddylai gael ei hargraffu ar feddyliau pawb. Ond i ddychwelyd at y pwnc. Y fath chwyldroad a effeithir yn ein syniadau a'n teimladau gan adnabyddiaeth bersonol o wrthddrychau ein rhagfarn! Yn yr engraifft gyntaf, deuwn i weled ein bod wedi camsynied yn waradwyddus amdano; gwelwn ei fod yn hollol wahanol i'r hyn a dybiasom, a rhyfeddwn yn edifeiriol at ein camsyniad gwaradwyddus. Yn yr ail engraifft, argyhoeddir ni fod yn bosibl i ddynion wahaniaethu yn eu barn oddiwrthym ni, a bod yn ddynion da yr un pryd. Er na ddeuwn i gydweled â'n gilydd, fe ddysgwn barchu ein gilydd: os ymddadleuwn, fe wnawn hyny yn frawdol, heb geisio dolurio teimladau ein gilydd; fe gollwn bob grym i ddifrïo a chollfarnu y naill y llall. Yn awr, mewn Cymdeithasau Llenyddol, dygir dynion o wahanol farnau, yn wleidyddol a duwinyddol, aelodau a gwrandawyr perthynol i'r gwahanol enwadau crefyddol, i gysylltiad personol â'u gilydd; ac wrth gydefrydu a chydgyfeillachu, deuant i adnabod ac i ddeall eu gilydd—cenedlir parch a chariad yn y naill tuag at y llall, ac mewn llawer o amgylchiadau, troir adnabyddiaeth yn gyfeillgarwch. Caria hyn ei ddylanwad i holl gylchoedd cymdeithas. Difodir rhagfarn a sel ddallbleidiol—analluogir dynion, gan barch i'w gilydd, i ddifrïo y naill y llall, a bydd hyn yn ddiddadl yn fendith fawr i'n gwlad. Mae yn wir nad yw y llesiant hwn yn cael ei olygu yn uniongyrchol yn sefydliad unrhyw Gymdeithas Lenyddol, ond nid ydyw oblegid hyny ddim yn llai ei werth, na dymunol ei ganlyniadau.

2. *Chwanegant lawer at fwyniant deallturiaethol a chym-*

*deithasol yr aelodau.*—Mae hyn yn hunan-amlwg, yn ganlyniad angenrheidiol. Cynysgaethant y meddwl â defnyddiau mwyniant newydd yn barhaus. Mae mwyniant y dyn annysgedig ac anwybodus, i raddau helaeth, yn gyfyngedig i'w nwydau anifeilaidd. Nid ydyw yn alluog i weled a deall y prydferth a'r goruchel, o ganlyniad, nid all eu mwynhau; ond nid felly y rhai sydd yn dylyn addysg a gwybodaeth. Mae maes eu mwyniant hwy yn eang, ac yn eangu, a ffynonellau eu hyfrydwch yn lluosog, ac yn lluosogi. Mae mwyniant y deall yn rhagori yn annhraethol ar yr anianol—mae y cyntaf yn barhaus, ond yr olaf yn ddarfodedig—mae y cyntaf yn cynyddu mewn angerddoldeb wrth ei fwynhau, ond yr olaf, drwy fynych arferiad, yn diweddu mewn diflasdod. Nid ellir mwynhau dim yn drwyadl heb ei ddeall yn gyntaf. A ddichon Cymro uniaith fwynhau y bregeth fwyaf hyawdl ac adeiladol mewn iaith estronol? Na ddichon byth; y dyn sydd yn ei deall yn unig a ddichon ei mwynhau. Felly gyda phob peth. Gall rhyfeddodau anian gynyrchu syndod yn mynwes yr anwybodus, ond i'r deallgar yn unig y rhoddant wir fwyniant. Mae Cymdeithasau Llenyddol yn galluogi yr aelodau, drwy gyfranu addysg a gwybodaeth iddynt, i borthi y deall â gwir fwyniant—anrhegir hwynt a chareg yr athronydd, yr hon sydd yn alluog i droi pob peth yn hyfrydwch; fe sugnant bleser o bob peth: bydd y ffurfafen yn gwlawio manna, a'r creigiau yn ffrydio dwfr iddynt: bydd nid yn unig yr ednod yn canu, ond gwellt y maes yn gwenu, y bryniau yn llamu, a'r coedydd yn curo dwylaw iddynt hwy; mewn gair, bydd pob peth yn barod i weinyddu pleser iddynt hwy. Yr un modd mae dysgeidiaeth a gwybodaeth yn sicr o chwanegu at eu mwyniant cymdeithasol. Fe fydd ganddynt ddigon o destynau dyddorol i ymddyddan amdanynt, ac fe allant roddi dyddordeb a bywyd yn eu hymddyddanion. Gadawant siarad bach y byd i'r gwrach ac i'r plant; ymbleserant gyda gwrthddrychau a enynant awen y bardd, a gynhyrfant athrylith yr athronydd, ac a daflant angylion Duw i lewyg o orfoledd.

3. *Byddant yn attalfur i gadw yr ieuenctid rhag syrthio yn ysglyfaeth i arferiadau llygredig.* O! gynifer o ieuenctid ein gwlad ynt yn ysglyfaeth i arferiadau llygredig! Treuliant y rhan oreu o'u hoes i ddylyn gwagedd ac annuwioldeb. Mae eu chwaeth yn isel, eu hiaith yn

Digitized by Google

ffiaidd, a'u gweithredoedd yn annuwiol; maent yn dyngwyr a rhegwyr, diotwyr ac oferwyr: mae teimlad moesol eu mynwesau wedi ei ladd, eu cydwybodau ydynt wedi eu serio â haiarn poeth: nid ydynt byth yn meddwl am weithredu oddiar egwyddor, cymerant eu llywodraethu yn gwbl gan eu nwydau: maent wedi colli pob hyfrydwch mewn rhinwedd a daioni—mewn drwg yn unig yr ymblesérant: mae deddfau Duw, fel yr amlygir hwynt yn ei waith ac yn ei air, yn cael eu sathru ganddynt o dan eu traed: teimladau eu perthynasau a'u cydnabod rhinweddol a rwygir ganddynt yn barhaus: mae rheswm, gwyleidddra, moesgarwch, teimlad, dynoliaeth, crefydd, a phob peth sydd dda o'r bron, yn cael eu mathru ganddynt fel pe byddent dom: nid oes dim ond ofn cyfraith ac ofn dyn yn attal llawer ohonynt rhag cyflawni pob pechod yn un chwant: maent fel haint, yn peryglu moesoldeb pob ardal: mae yn resyn edrych arnynt, ac yn dorcalonus i feddwl amdanynt. Pa gyfrif a roddir am hyn? Pa fodd y gwnaed dynion yn gythreuliaid? Mae yr ateb yn barod,—y cnawd sydd wan, a'r temtasiynau yn gryfion. Ni chafodd y rhan fwyaf ohonynt eu cymhwyso i fwynhau pleserau gwybodaeth a rhinwedd, ac mewn canlyniad, syrthiasant yn ysglyfaeth i ddifyrwch pechadurus. Gan nad oedd ganddynt ddim sydd dda i'w wneyd, dysgasant wneyd drwg. Pe cawsent eu dysgu i ymhyfrydu mewn gwybodaeth, mae yn debygol y buasai y rhan fwyaf ohonynt heddyw yn ddynion cyfrifol a defnyddiol; ond gan i'w meddyliau gael eu hesgeuluso, syrthiasant i ddyfnderoedd anfoesoldeb; ond er mor isel y mae llawer ohonynt wedi syrthio, gallwn ddysgwyl yr adferir ambell un ohonynt drwy offerynoliaeth Cymdeithasau Llenyddol. Ond pa un bynag am hyny, mae yn sicr yr attaliant lawer rhag dylyn eu llwybrau. Os nad adferant lawer o'r rhai a syrthiasant, fe gadwant lawer rhag syrthio; ac y mae rhagflaeniad, ar lawer o ystyriaethau, yn well nag adferiad. Rhoddant waith i'r meddwl. Creadur gweithgar ydyw dyn. Mae ei ddedwyddwch yn ymddibynu ar weithgarwch. Nid oes dim gwir fwyniant mewn dim ond gweithgarwch. Mae hyfrydwch y llygad mewn gweled, y glust mewn clywed, y ffroenau mewn arogli, y traed mewn cerdded, a'r meddwl mewn myfyrdod. Nid ellir cael dirnadaeth am bleser a mwyniant mewn dim ar wahân oddiwrth fywiogrwydd a

gweithgarwch. Pe yr ewyllysiem, nid allem fod yn llonydd yn hir. Hyn yw un o'r achosion fod cynifer o ieuenctid ein gwlad yn syrthio yn ysglyfaeth i arferiadau llygredig—maent heb ddim sydd dda i'w gyflawni, a chan nad allant fod yn llonydd, cyflawnant yr hyn sydd ddrwg; ond fe fydd i Gymdeithasau Llenyddol ragflaenu hyn drwy roddi gwaith i'r meddwl. Bydd gan yr aelodau eu gwersi i'w dysgu, eu llyfrau i'w darllen, a'u cyfarfodydd i fyned iddynt. Diwalla hyn eu newyn meddyliol am hyfrydwch, ac ni theimlant awydd am hudoliaethau y dafarn, ac oferedd y cwmni annuwiol; cedwir eu meddyliau ar waith, ac ni bydd ynddynt le i hudoliaethau y gelyn: cenedlir serch cryf yn eu mynwesau at wybodaeth, ac yn raddol daw darllen, myfyrio, dysgu, a gwneyd daioni yn arferiad naturiol iddynt—yn angenrheidrwydd yn eu bywyd.

4. *Byddant yn foddion i ledaenu addysg a gwybodaeth yn mysg ein cydwladwyr.*—Mae enwogrwydd, gallu a dylanwad, cyfoeth a llwyddiant, yn wrthddrychau cyfreithlon i bob cenedl i ymgeisio amdanynt; ond nid all unrhyw bobl eu meddianu yn helaeth, heb fod yn feddianol ar ddysgeidiaeth a gwybodaeth yn gyntaf. Mae y naill yn gysylltiedig â'r llall. Os ydym am i'r Cymry fod yn genedl enwog, alluog, ddylanwadol, gyfoethog, lwyddianus, a rhinweddol, rhaid rhoddi dysgeidiaeth a gwybodaeth i gorff y bobl. Ond pa fodd y cyflawnir hyn? Mae y bobl weithgar, yn y cyffredin, yn analluog, gan gyfyngder eu hamgylchiadau, i adael eu plant mewn ysgol am amser digonol i'w effeithio. Gyda bod y plant yn dechreu cael blas ar addysg, gorfodir hwynt i adael yr ysgol, i fyned i wasanaeth, lle na chânt, fe ddichon, unrhyw gyfleustra i barhau eu hefrydiaeth; ac mewn ychydig flynyddoedd, mewn llawer o engreifftiau, fe annghofiant y cwbl a ddysgasant. Heblaw hyny, nid ydynt yn alluog i wneuthur y defnydd goreu a allent o'r cyfleusterau a gânt pan mewn ysgol, oblegid nid allant weled a deall yr angenrheidrwydd am addysg, na'r manteision cysylltiedig â hi: pe caent yr un cyfleusterau wedi dyfod yn llanciau a llancesi, fe wnaent ddefnydd llawer gwell ohonynt, oherwydd gwelent a theimlent yr angenrheidrwydd am addysg, a'r manteision cysylltiedig â hi, byddent yn fwy galluog i'w dylyn yn llwyddianus, a derbynient lawer chwaneg o bleser wrth wneyd hyny.

Digitized by Google

Yn awr, bydd i Gymdeithasau Llenyddol yn ol y cynllun a ddadleuaf, roddi y cyfleusterau hyn iddynt—dygant foddion addysg a gwybodaeth i'w cyraedd—rhoddir iddynt le cyfleus i gysegru eu nosweithiau a'u horiau segur i ddiwyllio eu meddyliau, ac i gasglu gwybodaeth. Ond enill yr ieuenctid i wneuthur defnydd ohonynt, er gwaethaf diffygion eu haddysg foreuol, a chyfyngder eu hamgylchiadau presenol, fe ddaw llawer yn ddynion ac yn ferched dysgedig a gwybodus yn ngwir ystyr y geiriau, ac mewn amser, gallwn fod yn hyderus y llanwant ein gwlad â dysgeidiaeth ac â gwybodaeth. Wedi hyny, ni raid ofni am y canlyniadau; fe ddaw ein cenedl yn naturiol yn enwog, dylanwadol, a galluog, o leiaf mewn ystyr foesol, ac nid oes genyf un amheuaeth na ddaw hefyd yn fwy cyfoethog a llwyddianus yn mhob ystyr.

5. *Cymhwysant yr aelodau i lenwi sefyllfaoedd uwch mewn cymdeithas.*—Mae graddau yn perthyn i bob peth ag y gwyddom ni amdanynt, ac felly i'r gymdeithas ddynol. Rhenir y bobl yn gyffredin yn ein gwlad ni i dri dosbarth, —yr isel, y canol, a'r uchel. Cyflawnir y gorchwylion caletaf a lleiaf enillgar gan y dosbarth isel, a'r rhai mwyaf anrhydeddus, esmwyth, ac enillgar, gan y dosbarth canol. Am y dosbarth uchel, maent hwy, yn gyffredin, heb ddim i'w wneyd. Mewn sefyllfa fel hyn, nid yw ond naturiol i'r rhai a gyfansoddant y dosbarth isel i geisio ymddyrchafu, a gwella eu hamgylchiadau; ac nid ydynt yn amddifad o gyfleusterau i wneuthur hyny. Mae llawer o'r rhai a lanwant sefyllfaoedd anrhydeddus a phwysig, yn ymneillduo yn barhaus i fyw ar eu golud; ereill yn myned yn analluog drwy henaint i gyflawni eu gorchwylion; y lleill yn marw; rhai yn cael eu dyrchafu o un sefyllfa uchel i sefyllfa uwch; ac ereill yn colli eu lleoedd drwy ddiofalwch a chamymddygiad. Heblaw hyn, mae masnach yn cynyddu, a lleoedd a gorchwylion yn amlhau. Mae yn rhaid cael dynion i lenwi yr oll o'r lleoedd hyn, ac ond i'r ieuenctid a droant yn awr mewn cylch isel fod yn gymhwys i'w llenwi, nid yw yn anmhosibl iddynt hwy gael eu dyrchafu i rai ohonynt Mae llawer o orchwylion a sefyllfaoedd anrhydeddus ac enillgar yn Nghymru ag a ddylent, ar lawer o ystyriaethau, gael eu dal gan Gymry; ond pwy, yn y cyffredin, sydd yn eu llenwi? Onid Seison ac Ysgotiaid? Gorfodir y Cymry i gyflawni y gorchwylion mwyaf caled am gyflogau

Digitized by Google

bychain, tra y mae estroniaid yn derbyn cyflogau mawrion am arglwyddiaethu arnynt. Nid wyf yn gwybod am un rheswm dros hyn, ond diffyg y Cymry o'r ddysgeidiaeth angenrheidiol i'w cymhwyso i lenwi y lleoedd hyny. Nid oes nemawr o Gymry wedi gweled ychydig o'r byd na welsant hefyd y golled o fod yn annysgedig. Mae canoedd yn ein gwlad, ac allan ohoni, a allasent gael sefyllfaoedd anrhydeddus ac enillgar pe buasent yn gymhwys i'w llenwi. O ddiffyg dysgeidiaeth, gorfodir hwynt i gyflawni y gorchwylion iselaf, ac nid oes ganddynt obaith i'w gadael tra y byddant yn alluog i weithio. Fe fydd Cymdeithasau Llenyddol yn foddion cyfaddas i gyflawni y diffygion hyn. Ynddynt gall yr ieuenctid gymhwyso eu hunain i lenwi unrhyw sefyllfa a ddymunant, ac hyd yn nod pe methent yn eu hamcan, ni fyddent yn golledwyr—mae addysg yn werth i'w chael er ei mwyn ei hun.

6. *Meithrinant dalent ac athrylith.*—Fod llawer o ddynion a merched o dalent ac athrylith yn ein gwlad, sydd yn ddiamheuol, er y dichon fod llawer ohonynt heb wybod hyny: daw Cymdeithasau Llenyddol â'r cyfryw rai i'r golwg. Disgyna gwybodaeth ar eu calonau fel tân ar bylor, nes enyn talent ac athrylith yn fflam angerddol nad ellir ei diffodd. Dysgir iddynt deimlo eu nerth—symbylir hwynt i weithgarwch a diwydrwydd—cenedlir ysbryd annibynol a dyrchafedig yn eu mynwesau—cynyrchir awydd ynddynt am gyflawni pethau mawrion—magant ddynion a merched a fyddant yn anrhydedd bythol i'n gwlad a'n cenedl, rhai a gariant ddylanwad daionus ar gymdeithas, rhai fyddant yn athrawon ac yn arweinwyr i'r genedl, a rhai digon galluog i'w dyrchafu mewn dealltwriaeth, dysgeidiaeth, gwybodaeth, a moesau.

Gellid chwanegu llawer o ystyriaethau ereill, ond yr wyf yn tybied fod yr hyn a ysgrifenwyd yn ddigonol i osod eu buddioldeb tuhwnt i bob dadl. Yr un pryd, dylid cofio fod yn anmhosibl cyfleu eu holl fuddioldeb mewn geiriau. Fe ddylanwadant yn anuniongyrchol mewn mil o ffyrdd. Bydd y canlyniadau a enwyd yn eu tro yn troi yn achosion, ac yn cynyrchu ffrwythau cyfatebol i'w natur—rhoddant fodolaeth i deimladau, cymhelliadau, meddyliau, a dybenion a effeithiant, er yn ddirgelaidd, yn rymus a daionus mewn mil o gysylltiadau. Gwnant y plant yn fwy ufudd, rhieni yn fwy doeth, gweision a

Digitized by Google

morwynion yn fwy ffyddlon, meistriaid a meistresi yn fwy caredig, a'r bobl yn gyffredinol yn fwy diwyd, sobr, a rhinweddol.

Ond fe ddichon fod rhai dynion yn ein gwlad ag a ddibrisiant yr holl bethau hyn. Addolwyr Mamon yw y rhai hyny. Nid oes dim yn werthfawr yn eu golwg hwy os na bydd rhyw elw arianol yn gysylltiedig âg ef. Er mwyn y creaduriaid sychion hyn, gellir dyweyd nad yw Cymdeithasau Llenyddol yn hollol anfuddiol mewn ystyr arianol. Drwy arwain yr ieuenctid i fyfyrio, a chwilio yn ddyfal am wybodaeth, i wneuthur prawfiadau annibynol mewn celfyddyd a gwyddoniaeth, ac i geisio darganfod galluoedd a gweithredyddion newyddion, nid yw yn annhebygol y gwneir darganfyddiadau gan rai ohonynt a effeithiant chwyldroad mewn cymdeithas, ac a fyddant yn fwnglawdd o olud parhaus i'n gwlad. Fod llawer o drysorau mawrion yn aros yn guddiedig yn nghloddfeydd gwybodaeth, sydd yn sicr; ac ond i'r Cymry gael eu cynhyrfu i chwilio yn ddyfal amdanynt, gallwn fod yn hyderus y darganfyddant gynifer ohonynt ag unrhyw genedl arall.

Heblaw hyny, mae cysylltiad agos rhwng troseddau ac anwybodaeth. Dynion anwybodus ac annysgedig, yn y cyffredin, sydd yn troseddu cyfreithiau ein gwlad, drwy ymosod ar bersonau, lladrata meddianau, a chyflawni pob drygau ereill. Gellid yn hawdd ddwyn ystadegau yn mlaen i brofi hyn; ond nid yw yn angenrheidiol, oblegid mae y ffaith yn cael ei haddef yn lled gyffredinol; o ganlyniad, gellir bod yn hyderus y bydd i ledaeniad addysg leihau troseddau, ac mewn canlyniad, lleiheir y draul gysylltiedig â'u cospedigaeth, a bydd hyn yn enill i'r trethdalwyr yn gyffredinol. Bydd lleihâd troseddwyr hefyd yn rhwym o chwanegu at dawelwch y trigolion, ac at ddiogelwch meddianau, ac fe fydd hyn yn fendith fawr, yn enwedig i gybyddion ac addolwyr Mamon. Nid wyf am roddi gormod o bwys ar yr ystyriaeth ddiweddaf chwaith, oblegid gwn fod yn bosibl i ddyn fod yn wybodus a dysgedig, ac yn ddyhiryn melldigedig yr un pryd. Rhaid cael egwyddor santaidd yn y galon i gadw dynion rhag troseddu, ac y mae yn bosibl iddynt fod yn wybodus a dysgedig iawn heb fod yn feddianol ar hono. Er hyny, gan fod gwybodaeth a dysgeidiaeth sylweddol yn tueddu i buro y galon, nid yw yr ystyriaeth o dan sylw yn hollol ddibwys. Mae

Digitized by Google

un ystyriaeth eto yn teilyngu sylw mewn cysylltiad â buddioldeb Cymdeithasau Llenyddol mewn ystyr arianol, sef y cysylltiad sydd rhwng anwybodaeth â thlodi. Mae yr ystadegau perthynol i'r tlodion a dderbyniant gymhorth plwyfol, yn dangos fod agos yr oll ohonynt yn rhai hollol anllythyrenog, a'r rhan fwyaf ohonynt wedi dwyn eu hunain i'w sefyllfa isel drwy annghymedroldeb. Gellir casglu oddiwrth hyn, gyda gradd o debygolrwydd, fod eu hannghymedroldeb yn ffrwyth eu hanwybodaeth, fel ag y mae eu tlodi yn ffrwyth eu hoferedd. Yn awr, gan y bydd i Gymdeithasau Llenyddol ledaenu addysg a gwybodaeth yn mhlith y werin, gellir bod yn hyderus, fel y dangoswyd mewn rhan flaenorol o'r traethawd, y bydd i annghymedroldeb ac oferedd leihau, ac mewn canlyniad, ysgafnheir treth y tlodion, a bydd hyn eilwaith yn elw i'r trethdalwyr yn gyffredinol.

Mae bellach, dybygaf, yn hollol amlwg y bydd Cymdeithasau Llenyddol yn ol y cynllun a ddadleuir yn y traethawd hwn, yn orlawn o fuddioldeb yn ngwir ystyr y gair. O ganlyniad, symudaf yn mlaen i sylwi ar y rhan olaf.

*Y gefnogaeth ag y mae Cymdeithasau Llenyddol yn ei theilyngu.*—Y dylent gael eu cefnogi, a ddangosir gan yr angenrheidrwydd amdanynt, yn nghyda'r buddioldeb cysylltiedig â hwynt. Os addefir eu bod yn sefydliadau angenrheidiol a buddiol, nid ellir gwadu y dylent gael eu cefnogi; o ganlyniad, ni raid myned i'r drafferth o *brofi* y dylent gael eu pleidio, gan fod hyny yn codi yn naturiol oddiar yr angenrheidrwydd amdanynt, yn nghyda'r buddioldeb sydd ynddynt. Felly, mi a gyfyngaf fy sylwadau i ddangos y modd i'w cefnogi yn effeithiol ac i ddyben; ond fe ddichon fod ychydig eiriau yn angenrheidiol yn gyntaf ar yr angenrheidrwydd iddynt gael cefnogiad cyffredinol. Ychydig o ardaloedd na threfydd poblog iawn sydd yn Nghymru—maent yn y cyffredin yn deneu eu trigolion; o ganlyniad, nid ellir cael Cymdeithasau Llenyddol effeithiol a chyfaddasol i sefyllfa y wlad heb gefnogaeth a chydweithrediad cyffredinol o'u plaid. Os gadewir iddynt ymddibynu ar gefnogaeth rhyw un blaid, y tebygolrwydd yw y bydd iddynt fethu; ond os cefnogir hwynt gan bob plaid yn gyffredinol, gellir bod yn gwbl hyderus y bydd iddynt lwyddo. Ac nid oes dim ynddynt a ddylai achosi i neb gadw eu cefnogaeth oddiwrthynt. Sefydl-

Digitized by Google

iadau cenedlaethol ydynt, ac fel y cyfryw, gall yr Annibynwyr, Bedyddwyr, Methodistiaid, Eglwyswyr, a phawb gyduno yn frawdol i'w cefnogi. Cefnoger hwy gan weinidogion y gwahanol enwadau, a chan yr aelodau hefyd. Rhodded hen ac ieuainc, cyfoethogion, masnachwyr, gweithwyr, a phawb gymhorth llaw i'w cario yn mlaen. Nid oes dim wedi bod yn fwy dinystriol i'r Cymry nag annghytundeb. Diffyg undeb oedd yr achos iddynt gael eu gorchfygu gan eu gelynion yn yr hen amseroedd, a cholli eu coron a'u tiriogaethau; ac annghydfod yn eu plith eu hunain fu yn achos iddynt fethu â'u hadenill lawer tro ar ol hyny. Mae rhai yn meddwl ac yn haeru fod y diffyg dinystriol hwn yn reddfol rywfodd yn yr holl lwythau Celtaidd, ac mai hyn yw yr achos eu bod wedi colli yr awdurdod lywodraethol yn mhob man, a chael eu darostwng i gyd o dan arglwyddiaeth estroniaid. Bydded i ni, gan hyny, ddysgu gwers oddiwrth hyn. Gorchfygwn y pechod sydd barod i'n hamgylchu; rhoddwn heibio ein gwahaniaethau bychain a dibwys ein hunain, er mwyn cydweithredu â'n gilydd i ddyrchafu ein cenedl mewn dealltwriaeth a rhinwedd; aberthwn ein lles a'n hawliau personol, hyd y mae yn bosibl, ar allor lles y cyffredin; mynwn wneuthur ein Cymdeithasau Llenyddol yn sefydliadau buddiol mewn gwirionedd, yr hyn a fyddant, yn ddiau, ond i bawb eu cefnogi yn ol eu teilyngdod. Ond pa fodd y dylid, a phwy a ddylai eu cefnogi? Mae yn naturiol i ni gyfeirio ein golwg yn gyntaf at weinidogion y gwahanol enwadau crefyddol: maent hwy yn llenwi swydd uchel a phwysig, ac yn cario dylanwad mawr ar y trigolion; maent yn athrawon ac arweinwyr i'r bobl wrth eu swydd. Os gwelir hwy yn cadw draw, ac yn gwrthod eu cefnogi, fe fydd hyny yn achos i ereill beidio â'u cefnogi hefyd; ond os rhoddant hwy gefnogaeth galonog iddynt, daw lluoedd o rai ereill i'w pleidio gyda hwy. Mae y bobl yn edrych i fyny atynt am gyfarwyddyd i fyned yn mlaen; dylynir eu siampl gan luoedd; mae pob gair ac ymddygiad o'u heiddo yn dylanwadu ar eu cynulleidfaoedd. Nid oes gan neb gynifer o gyfleusderau, a chymaint o rym i bleidio Cymdeithasau daionus ag sydd ganddynt hwy. Gall gweinidogion eu cefnogi mewn lluaws o foddau, megys, drwy ddangos eu buddioldeb, a chymhell eu gwrandawyr, yn enwedig yr ieuenctid, i ymuno â hwynt, drwy roddi eu presenoldeb ynddynt,

Digitized by Google

drwy gynorthwyo i gyfranu addysg a gwybodaeth i'r aelodau, a thrwy ddadleu yn gyfrinachol a chyhoeddus o'u plaid. Ond cael y gweinidogion i'w cefnogi yn ddyladwy, mae eu llwyddiant yn sicr, ac nid oes genyf un amheuaeth na fydd y rhan fwyaf ohonynt yn barod i roddi iddynt bob cefnogaeth a allant. Yn nesaf at y gweinidogion, daw athrawon ac athrawesau yr Ysgol Sabbothol. Mae ganddynt hwythau gyfleusderau lluosog i gefnogi Cymdeithasau Llenyddol mewn amrywiol ddulliau; maent yn dwyn cysylltiad agos ac anwyl â'r ieuenctid, ac yn meddu dylanwad mawr arnynt. Cyfeillachant yn fynych â hwy, ac o ganlyniad, cânt gyfleusderau aml i wasgu ar eu meddyliau yr angenrheidrwydd a'r buddioldeb o fod yn aelodau mewn Cymdeithasau Llenyddol; ond fe fydd ganddynt chwaneg o ddylanwad a grym i'w pleidio ond iddynt ddyfod yn aelodau ohonynt eu hunain yn gyntaf, ac y mae ganddynt anogaethau lluosog a chryfion i hyny. Fe fyddant yn fwy cymhwys eu hunain i gyfranu addysg ysgrythyrol i'w dysgyblion, ac os bydd eu hysgolorion yn aelodau ynddynt gyda hwy, fe fydd y gwaith o'u haddysgu yn llawer mwy rhwydd a phleserus. Bydd yn naturiol edrych am gymhorth oddiwrth y cyfoethogion hefyd. Mae ganddynt hwy allu mawr i wneyd daioni oherwydd eu sefyllfa uchel, eu golud helaeth, a'u dylanwad cymdeithasol, ac fe fydd ganddynt gyfrif pwysig i'w roddi i'r Barnwr mawr am y defnydd a wnant o'r gallu a roddwyd iddynt. Y dull mwyaf uniongyrchol iddynt hwy i'w cefnogi ydyw, cyfranu yn helaeth tuag at eu cynal. Mae boneddigion ein gwlad yn ddyledwyr i'r bobl weithgar—mae eu golud a'u cysuron yn ymddibynu i raddau helaeth ar lafur y gweithwyr. Ar dir llafur y mae y brenin yn byw; o ganlyniad, nid yw ond rhesymol iddynt gyfranu o'u golud tuag at sefydliadau i ddiwallu eu hangenion moesol. Ond yn chwanegol at gyfranu, gallant wneuthur llawer o ddaioni drwy roddi eu presenoldeb yn awr ac eilwaith yn eu cyfarfodydd. Byddai hyn yn galondid i'r aelodau, ac fe roddai ffafr i'r gymdeithas yn ngolwg llawer na edrychent arni oni bae hyny. Mae ganddynt ddylanwad uniongyrchol hefyd ar lawer o'r bobl weithgar, oblegid eu bod mewn rhyw ddull neu gilydd yn ymddibynu i raddau arnynt, ac fe allant gefnogi ein Cymdeithasau Llenyddol, a llesau y cyfryw rai yr un pryd, drwy eu hanog i ymuno â hwynt. Gall

Digitized by Google

y boneddigesau hefyd gyflawni gyffelyb wasanaeth yn y cymdeithasau, ac allan ohonynt yn mhlith y merched. Ni fydd ein cyfoethogion yn golledwyr chwaith, drwy roddi cefnogaeth deilwng ohonynt eu hunain, ac o'r sefydliadau iddynt. Yn chwanegol at y cydwybodolrwydd a'r pleser o wneyd daioni a fwynhânt yn eu mynwesau eu hunain, fe gynyrchant barch a chariad yn y bobl weithgar tuag atynt, ac nid yw yn annhebygol y cenedlir mwy o serch ynddynt hwythau hefyd at y bobl weithgar. Deuant i weled fod llawer o ragoriaethau yn perthyn i'r tlodion na freuddwydiasant amdanynt erioed o'r blaen; a thangnefedd ac ewyllys da rhwng y tlodion a'r cyfoethogion fydd y canlyniad. Eto, fe all ac fe ddylai masnachwyr gefnogi ein Cymdeithasau Llenyddol. Gallant eu cefnogi drwy gyfranu at eu cynaliaeth, drwy eu gwasanaethu, a thrwy anog eu gweision a'u morwynion i ymaelodi ynddynt. Ond y ffordd fwyaf uniongyrchol iddynt hwy i'w cefnogi ydyw, cau eu masnachdai yn gynar, fel y gallo y dynion ieuainc yn eu gwasanaeth gael mwynhau y manteision cysylltiedig â hwynt. Os cedwir y masnachdai yn agored hyd naw a deg o'r gloch y nos, fe fydd Cymdeithasau Llenyddol yn hollol ddiwerth i'r rhai a weithiant yn y masnachdai hyny. Mae oriau hirion yn niweidiol i iechyd, moesau, a meddwl dyn. Ar ol i yni y corff gael ei dreulio drwy lafur caled am amser hir, mae y meddwl yn annghymhwys i ddarllen a myfyrio. Ond ar wahân i'r ystyriaethau hyn, mae cadw masnachdai yn agored hyd oriau hwyrion yn orlawn o niwaid. Nid yw ddim amgen, mewn llawer o amgylchiadau, na gorfodi dynion i ladd eu cyrff wrth enill moddion i'w cadw. Fe haua hâd y darfodedigaeth, yr hwn sydd yn cario cynifer i'r bedd yn anamserol, mewn llawer cyfansoddiad. Mae deddfau y cyfansoddiad dynol, a deddfau y meddwl yn ogystal, yn gofyn am orphwysdra oddiwrth lafur, ac am ddifyrwch, i'w cadw mewn cyflwr iach ac effeithiol; ond yn ol yr arferiad bresenol, mewn llawer man, o gadw y masnachdai yn agored hyd amser gwely o'r bron, mae gorphwysdra a difyrwch yn anmhosibl i'r rhai a weithiant ynddynt. Mae y dynion ieuainc a weithiant yn y cyfryw fasnachdai mor gaeth a chaethion o'r bron. Nid ydynt yn cael amser i ddiwyllio eu meddyliau. Ymddygir tuag atynt fel pe byddent heb enaid i ofalu amdano. Gan hyny, pa ryfedd fod llawer o'r dynion ieuainc a weith-

Digitized by Google

iant, pan gânt ddydd gŵyl neu noson i fod allan, yn rhedeg i'r dafarn fel yr unig le i gael y difyrwch ag y maent mewn cymaint angen amdano? Nid yw yn rhyfeddod oll. Yn ol amgylchiadau pethau yn bresenol, mae yn ganlyniad naturiol; oblegid mae llafur caled ac oriau hirion yn lladd pob chwaeth ac hyfrydwch mewn gwybodaeth. Y gwirionedd yw, mae yn rhaid i'r meddwl gael ei esgeuluso, neu ynte rhaid i oriau llafur gael eu lleihau. Nid yw dysgwyl i ddynion a lafuriant yn galed hyd naw neu ddeg o'r gloch y nos, ddarllen, myfyrio, a dysgu, amgen na dysgwyl iddynt ladd eu hunain. Nid oes un rheswm chwaith paham na ddylai pob masnachdy gael ei gau yn gynar. Pe cydunai meistriaid i gau eu masnachdai am chwech neu saith o'r gloch bob nos, fe allent orphen eu gwaith erbyn yr amser hwnw, ond iddynt ei gael yn ei amser priodol. Ond y mae llwyddiant y cau cynar yn ymddibynu i raddau helaeth ar y cyhoedd. Peidied y meibion a'r merched â myned i'r siopau i brynu ar ol chwech o'r gloch yn y prydnawn, ac fe fydd y meistriaid yn sicr o gau eu siopau yn fuan ar ol hyny. Dangoser i'r merched a'r gwragedd, a phawb, y niwaid maent hwy yn ei achosi wrth fyned yn hwyr i brynu. Nid oes achos iddynt fyned, oblegid mae ganddynt ddigon o amser yn y dydd. Mae eisieu codi teimlad yn y wlad yn erbyn yr oriau hwyrion. Cymheller y masnachwyr i gau eu masnachdai yn gynar, a rhodder cefnogaeth amlwg i'r rhai hyny a wnant, ac yna nid hir y bydd cau cynar heb ddyfod yn arferiad gyffredinol. Mae y sylwadau hyn yn deilwng o sylw yr amaethwyr hefyd. Bydd Cymdeithasau Llenyddol yn ddifudd i weision a morwynion, oni cheir rhyw gyfnewidiad yn amser llafur. Mae yn syndod pa fodd y mae llawer llafurwr yn Nghymru yn gallu byw, ac yntau heb un awr yn eiddo iddo ei hunan, oddigerth rhyw ran o'r Sabboth. Yr ydym yn cydymdeimlo â'r caethion yn America, neu ryw wlad arall, ac yn barod i aberthu ein bywyd bron er eu rhyddhàd, heb ystyried fod llawer o weision a morwynion amaethwyr, ar lawer ystyr, mor gaethion a chaled eu sefyllfa a hwythau.

Y ffordd i'r ieuenctid i'w cefnogi ydyw ymaelodi ynddynt. Eu lles hwy yn fwyaf uniongyrchol sydd ganddynt mewn golwg, o ganlyniad, pwy bynag a ddylai eu cefnogi, fe ddylent hwy yn fwy. Os na cheir y bobl

Digitized by Google

weithgar i gymeryd dyddordeb ynddynt i'w gwerthfawrogi a'u defnyddio, fe fyddant yn sefydliadau ofer, ac fe syrthiant i'r llawr. Nid oes ar y dosbarth canol a'r uchel angen amdanynt. Sefydliadau i'r bobl weithgar ydynt yn neillduol, ac oni bydd iddynt hwy fod yn ffyddlon drostynt, nid allant yn rhesymol ddysgwyl i'r cyfoethogion eu cynorthwyo.

Yn chwanegol at y sylwadau blaenorol, fe ddichon na fydd y rhai canlynol yn hollol anfuddiol.

Mae eisieu llyfrgelloedd, ac y mae y neb a gyflwyna lyfr tuag at gael un yn gefnogwr gwirioneddol i'r sefydliad. Os nad wyt yn alluog i gyfranu arian, fe ddichon fod genyt lyfr da ag y gellit ei arbed: cyflwyna hwnw yn offrwm ewyllysgar, ac fe fydd yn wir dderbyniol. Pe ceid ond un llyfr o bob tŷ yn yr ardal, ar gyfartaledd, fe geid llyfrgell yn fuan a fyddai yn deilwng o'r ardal. Mae eisieu swyddogion ac athrawon, ac fe all rhai cymhwys eu cefnogi trwy roddi eu gwasanaeth yn ewyllysgar iddynt. Os ceisir genyt fod yn llywydd neu ysgrifenydd, cydsynia yn ewyllysgar. Os wyt yn alluog i fod yn athraw mewn unrhyw wyddon, celfyddyd, neu wybodaeth, bydded i ti fod yn barod i'w gwasanaethu. Ymfoddlona i gymeryd unrhyw swydd, neu i gyflawni unrhyw orchwyl, os gelli trwy hyny fod o ryw ddaioni i'r gymdeithas. Ni byddi yn golledwr chwaith trwy hyny. Mae pob gwaith a gyflawni yn sicr o fod yn lles i ti dy hun. Os yn addysgu ereill y byddi, ti a'th ddysgi dy hunan hefyd yr un pryd. "Haiarn a hoga haiarn, ac felly gŵr wyneb ei gyfaill." "A ddyfrhao, dyfrheir yntau hefyd."

O gylch yr aelwyd gartref, ac yn mysg cyfeillion, y gellir cefnogi pob sefydliad yn fwyaf effeithiol. Gall dynion amddiffyn y sefydliad hwn neu hwnacw yn gyhoeddus i amryw ddybenion, heb fod yn egwyddorol a difrifol yn eu hamddiffyniad; ond pan wnant hyny gartref, gallwn fod yn lled sicr eu bod yn gwneyd hyny o galon. Os ydwyt tithau, ddarllenydd, yn ffyddlon a selog dros y Gymdeithas Lenyddol yn dy ardal, cofia amdani gartref, ac yn mysg dy gydnabod. Dadleu ei hawliau, dangos ei buddioldeb, cymhella dy holl gydnabod i ymuno â hi, ac ymdrecha hyd y mae ynot enill pawb i fod yn bleidwyr selog iddi. Ond i'r dull hwn gael ei arferyd yn gydwybodol, fe ddaw Cymdeithasau Llenyddol yn dra buan yn wrthddrychau serch i'r trigolion yn gyffredinol.

Digitized by Google

Nid yw perffeithrwydd yn gyraeddadwy ar unwaith. Ar ol cael y Gymdeithas Lenyddol fwyaf perffaith ag sydd yn ddichonadwy yn ol amgylchiadau pethau ar y pryd, mae llawer o wallau ac o ddiffygion yn sicr o fod yn perthyn iddi; o ganlyniad, dylai pawb ag sydd yn ewyllysio ei llwyddiant, gadw golwg parhaus ar ei gwelliant. Os gwelir rhyw wall ynddi ag y gellir ei wella, os gwelir unrhyw beth yn ddiffygiol ynddi, os tybir y byddai rhyw chwanegiad neu gyfnewidiad yn fuddiol, neu os meddylir am gynllun gwell i weithredu yn ei ol, gosoder y cyfryw bethau o dan ystyriaeth y swyddogion. Yn y dull hwn, ac mewn llawer o ddulliau ereill, gall y mwyaf isel ei amgylchiadau, os yn feddylgar a gweithgar, gyflawni llawer o wasanaeth tuag at wneuthur ein Cymdeithasau Llenyddol yn sefydliadau effeithiol i ddyrchafu cenedl y Cymry mewn gwybodaeth a rhinwedd.

Yn awr, dychymyger fod Cymdeithasau Llenyddol, y rhai a fyddant yn SEFYDLIADAU ADDYSGIADOL i'r bobl weithgar, wedi cael eu sefydlu yn mhob ardal trwy y Dywysogaeth, y fath beiriant nerthol a fyddent i wasgaru dysgeidiaeth a gwybodaeth, ac i ddyrchafu cenedl y Cymry i sefyllfa anrhydeddus yn mysg cenedloedd y ddaear! Ynddynt ceid digon o lyfrau da i'w darllen, a phob cymhorth angenrheidiol i feistroli unrhyw wybodaeth: fel yr ysgrifenwyd o'r blaen, byddent yn *Golegau i'r bobl weithgar.* Mae gwir angen amdanynt. Gellir dysgwyl yn hyderus y bydd iddynt effeithio y canlyniadau mwyaf dymunol. Mae y wlad hefyd yn addfed i'w derbyn, ac yn awyddus am eu cael, ac o ganlyniad, mae i'w ddymuno fod i ymdrech egniol gael ei wneyd i'w sefydlu, ac i gefnogiad cyffredinol gael ei roddi iddynt. Ysgydwed pob ardal ei syrthni ymaith. Rhodder cychwyniad i'r gwaith yn ddioedi trwy Gymru oll. Beiddier pob anhawsder a gwrthwynebiad yn galonog a phenderfynol, ac na rodder i fyny nes eu gorchfygu, a sefydlu y Cymdeithasau Llenyddol ar sylfeini cedyrn a pharhaol, a'u gwneuthur yn sefydliadau a fyddant yn fendithiol i ni ac i'n hiliogaeth, ac yn anrhydedd i'r oes hon yn mhen oesau eto i ddyfod.

## OL-YSTYRIAETHAU.

### DIWYDRWYDD YW DIRGELWCH LLWYDDIANT.

AR ol cael y Cymdeithasau Llenyddol mwyaf perffaith

Digitized by Google

ag sydd yn ddichonadwy, fe fydd eu heffeithioldeb yn ymddibynu i raddau helaeth ar y defnydd a wneir ohonynt gan yr aelodau. Rhaid i'r llyfrau gael eu darllen, addysg ei derbyn, a'r darlithoedd eu treulio gan gylla myfyrdod. Os eir i edrych arnynt fel y dyben, yn hytrach na moddion i'w ateb, fe wnant fwy o niwaid nag o lesâd. Bydd eu gwerth yn ymddibynu ar lafur yr aelodau. Gallant fod yn werthfawr iawn i rai, ac yn ddiwerth iawn i ereill. Mae hyn yn tarddu oddiar yr anmhosibilrwydd i neb ond ni ein hunain wneuthur ein hunain yn wybodus a dysgedig. Nid all neb weled, gwrando, darllen, myfyrio, a deall yn ein lle. Fe ellir ein hyfforddi a'n cynorthwyo, a dyna y cwbl. Ffolineb ydyw ceisio llenwi meddwl dyn â gwybodaeth fel llenwi sach â blawd. Os ydym am fod yn ddynion deallgar, gwybodus, a dysgedig, rhaid i ni ddarllen yn aml, a myfyrio llawer; rhaid i ni ymroddi ac ymegnio yn ddiwyd a pharhaus. Heb ymdrech a llafur, mae yn anmhosibl cael gafael ar wybodaeth helaeth. Ni ragorodd neb erioed ar ei gyd-ddyn, mewn unrhyw ystyr, wrth ddiogi. Os nad allwn ymwadu à gwag ddifyrwch, caethiwo ein hunain noson ar ol noson yn ein hystafell gyda'n llyfrau i ddylyn ein hefrydiaeth, neu yn ein dosbarth yn y Gymdeithas Lenyddol, a gwneuthur egni meddyliol, nid am ychydig funudiau, ond am oriau yn ddylynol, i geisio deall pwnc ein myfyrdod yn drwyadl, ac i gael allan ei holl ddirgelion, oferedd i ni ddysgwyl gallu rhagori ar ein cyd-ddynion mewn unrhyw wybodaeth. Llaw y diwyd a gyfoethoga gyda hyn, fel pob peth arall. Mae eisieu argraffu y gwirioneddau hyn ar feddyliau yr ieuenctid yn gyffredinol. Rhaid eu dwyn i ymddibynu ar eu galluoedd a'u hymroddiad eu hunain. Mae rhai yn meddwl nad oes dim yn eisieu i fod yn ddysgedig heblaw ysgol, ond fe siomir y cyfryw rai. Gellir cyffelybu caffaeliad gwybodaeth i daith ag y mae yn rhaid i ni ei theithio ein hunain, neu ynte aros yn ein hunman. Ein cyfarwyddo ar y ffordd, ac nid ei theithio yn ein lle, fydd y cwbl a wneir gan ysgol. Mae casglu gwybodaeth a dysgeidiaeth yn *waith* ag nad all neb ei gyflawni drosom. Mae ysgol yn rhoddi y cyfarwyddyd angenrheidiol i weithio, ond nid yw yn bosibl iddi wneuthur y gwaith yn ein lle, a dealled ieuenctid Cymru hyn. Llanwer hwynt âg ysbryd gweithgar, ymroddgar, a diwyd. Bydded iddynt

Digitized by Google

ddefnyddio pob awr segur a phob cyfleustra a gaffont i ddiwyllio eu meddyliau. Cofier o hyd mai diwydrwydd yw dirgelwch llwyddiant.

*Mae cenedl y Cymry yn feddianol ar holl elfenau gwir fawredd.*—Os edrychwn am adnoddau mawredd cenedloedd ereill, gwelwn eu bod yn gynwysedig mewn diwydrwydd, ymwybyddiaeth o nerth, ymawyddiad i ragori, undeb ysbryd a gweithrediad i ddwyn eu hamcanion i ben, eiddigedd dros eu hawliau a'u hanrhydedd, cariad at ryddid a dysgeidiaeth, bywiogrwydd a gweithgarwch corfforol a meddyliol, yn nghyda gwroldeb a phenderfyniad i ddwyn eu cynlluniau oddiamgylch er gwaethaf pob anhawsder a gwrthwynebiad. Mae y pethau hyn yn gwneyd rhai yn wladyddwyr enwog, rhai yn athronwyr dwfndreiddiol, rhai yn haneswyr craff, rhai yn feirdd godidog, rhai yn ddiwygwyr penderfynol, rhai yn ddyfeiswyr ymroddgar, rhai yn gelfyddwyr cywrain, rhai yn fasnachwyr llwyddianus, a'r lluaws cyffredin yn weithgar a defnyddiol yn eu gwahanol gylchoedd. Mae gweithredyddion ereill, mae yn wir, wedi bod ar waith yn dyrchafu pob cenedl enwog, ac ar waith yn barhaus yn eu cynal i fyny; eto, y pethau a enwyd ydynt y gweithredyddion mwyaf grymus ac amlwg. Yn awr, mae yr holl adnoddau hyn yn meddiant cenedl y Cymry. Er gwaethaf yr ymdrech a wnaed gan y personiaid a'r dirprwywyr, ychydig o flynyddoedd yn ol, i'w gosod allan fel pobl ddiog ac annarbodus, mae yn aros yn ffaith ansigledig, fod y genedl Gymreig y genedl fwyaf diwyd mewn bod. Mae y gwaith a gyflawnodd yn yr haner canrif diweddaf wedi ei gwneyd yn ymwybodol o'i nerth. Profir ei hymawyddiad i ragori gan y nifer mawr geir i gystadlu ar bob testyn a gynygir gan ein gwahanol gymdeithasau. Mae yn amheus iawn a ellid cael cynifer, yn ol cyfartaledd rhif y trigolion, mewn unrhyw wlad arall. Mae adeiladiad capelydd, cynaliad Eisteddfodau, a phethau ereill, yn dangos fod ganddynt ddigon o undeb ysbryd i gydweithredu i gael amcanion mawrion i ben. Mae eu cariad at ryddid wedi bod yn gryf bob amser, ac y mae eu cariad at ddysgeidiaeth yn awr yr un mor gryf ag yntau. Fe fuom yn llawer rhy ddifraw gyda golwg ar ein hawliau a'n hanrhydedd fel cenedl, ond nid ydym felly mwyach. Mae y teimlad a ddangoswyd yn erbyn y cableddau uffernol a daeuwyd gan y personiaid a'r dir-

Digitized by Google

prwywyr amser yn ol wedi profi i'r byd fod eiddigedd y genedl Gymreig dros ei hawliau a'i hanrhydedd yn rhy gryf i'w ddiystyru. O ran gweithgarwch a bywiogrwydd meddyliol, mae o leiaf mor uchel ei phen ag un genedl arall, ac nid yw yn ol chwaith mewn gwroldeb a phenderfyniad. Gallem ddysgwyl yn naturiol i genedl ag sydd yn feddianol ar yr elfenau hyn, fod yn uchel ei phen yn mysg cenedloedd y ddaear; iddi gynyrchu dynion hynod, dynion digon galluog i ddylanwadu ar galon y byd, ac iddi gael sylw a pharch y gwledydd o'i hamgylch. Mewn un ystyr, mae y genedl Gymreig yn ateb i'n dysgwyliad yn hyn. O ran ei gwybodaeth Ysgrythyrol, a'i hymddygiadau moesol, nid yw yn ail i un genedl. Yn wir, mae ysgrifenwyr diweddar yn mysg y Seison yn haeru ei bod yn rhagori ar bob cenedl yn hyn; ond ar y cyfan, er ei holl ragoriaethau, mae yn rhaid addef ei bod yn bell iawn yn ol. Ond y mae yn awr wedi cael ei dwyn i'r sefyllfa hono ag y gellir dysgwyl pethau mawrion ganddi. Mae yn ymgodi yn gawraidd, mae ei chynydd yn amlwg i bawb. Mae yn amheus a wnaed cymaint o gynydd mewn cyn lleied o amser gan un genedl erioed, ag a wnaed gan y Cymry yn yr haner canrif diweddaf: gallwn fod yn hyderus bellach y bydd iddi ymgodi, ac ymgodi nes bod mor uchel a'r uchaf. Mae wedi cael ei llenwi â bywyd ac â gweithgarwch, ac nid oes dim yn eisieu yn awr ond tywysogion i'w harwain i enwogrwydd. Ceir y tywysogion hyn yn y Cymdeithasau Llenyddol; agorant y drysau ar bob tu o flaen golygon athrylith; rhoddant draed y genedl ar ffordd anrhydedd, ac fe hwyliant ei cherddediad. Cyn pen hir eto, fe ffurfir yr *ysgol Gymreig*, a hono mor wreiddiol ag un ysgol arall. Daw y genedl i ganfod â'i llygaid ei hun, ac i ddeall â'i meddwl ei hun, ac yna nid all lai na chanfod a meddwl rhywbeth newydd, a gosod hen bethau allan mewn dull neillduol iddi ei hun. Yna ceir gweithiau teilwng i'w cyfieithu i brif ieithoedd y ddaear, gwneir yr Ysgol Gymreig a'i syniadau yn adnabyddus, ac fe fydd myned heibio iddi heb sylwi arni, fel y gwneir yn bresenol, rhagllaw, yn arwydd o anwybodaeth ddygn.

*Pa beth a wneir â'r cyfansoddiadau buddugol?*—Mae y gofyniad hwn y dyddiau presenol yn deilwng o sylw Cymru ben baladr. Yn y blynyddoedd diweddaf, mae llwythi gwageni o Draethodau, Awdlau, Englynion, Marwnadau, Pryddestau, &c., wedi cael eu hysgrifenu,



Digitized by Google

ond mor lleied ohonynt ynt wedi cael eu hargraffu! Ac y mae y cystadlu yn cynyddu beunydd. Gellir gweled ardaloedd teneu eu trigolion, a'r rhan fwyaf o'r cyfryw yn dlodion, yn cynyg gwobrwyon lled dda yn ol eu hamgylchiadau, am y cyfansoddiadau goreu ar restr ddigon hir o destynau i fod yn anrhydedd i Eisteddfod Daleithiol. Ysgrifenir arnynt gan ugeiniau, ac enillir y gwobrwyon i gyd gan ryw rai, ond deg i un na cha y cyhoedd byth weled cynifer ag un o'r cyfansoddiadau. Pa ddaioni bynag a wneir drwy gystadleuaeth o'r fath, mae yn amheus iawn ai ni ellid defnyddio yr arian i ateb gwell dyben nag a atebir drwyddynt wrth wobrwyo ysgrifenwyr am gyfansoddiadau ag na wnant byth eu hymddangosiad yn argraffedig. Ai onid gwell fyddai i Eisteddfodau a Chymdeithasau Llenyddol beidio cynyg gwobrwyon am fwy o gyfansoddiadau nag y gallant gael arian i'w hargraffu? Ar ol cael tanysgrifiadau a rhoddion tuag at gynyg gwobrwyon am y cyfansoddiadau goreu ar y testyn hwn neu y testyn acw, cadwer digon o'r arian mewn llaw i'w hargraffu ar ol eu cael. Os gellir rhoddi dwy wobr am ddau gyfansoddiad, heb eu hargraffu, pryd nad ellir rhoddi ond un wobr am un cyfansoddiad, a'i argraffu hefyd, dewiser yr olaf fel y goreu o'r ddau; mae un cyfansoddiad argraffedig yn well na mil heb eu hargraffu. Os bydd y cyfansoddiadau yn deilwng i'w gwobrwyo, byddant yn deilwng i gael eu hargraffu hefyd; ond os byddant yn annheilwng i ymddangos yn argraffedig, attalier y wobr, a chynygier hi eilwaith. Mae Cymdeithas gwŷr ieuainc Salem, Llynlleifiad, wedi rhoddi siampl yn hyn deilwng iawn i'w hefelychu, trwy fynu y cyfansoddiadau buddugol yn argraffedig erbyn y noson benodedig i wobrwyo yr ymgeiswyr llwyddianus. Pa un a yw y dull hwn yn arferadwy yn mhob man ai nad yw, ni chymeraf arnaf benderfynu, ond dywedaf fod y dull hwn neu ryw ddull effeithiol arall yn llwyr angenrheidiol i droi y gwobrwyo aml a gymer le yn Nghymru yn bresenol, i ateb y dybenion ag y maent yn alluog i'w cyflawni. Gan mai Cymdeithasau Llenyddol yn fwyaf mynych sydd yn cyhoeddi testynau cystadleuol, yr wyf yn tybied nad yw y sylwadau hyn yn anmherthynasol, nac allan o le mewn cysylltiad â'r traethawd hwn.

Digitized by Google

## ENWOGION CYMRU.

*(O'r Traethodydd.)*

YSGRIFENWYD y sylwadau dylynol ar y testyn uchod, heb un golwg, yn ddechreuol, ar iddynt ymddangos yn y TRAETHODYDD; hyny yw y rheswm eu bod yn fwy ar ffurf darlith neu draethawd nag eiddo erthygl wedi ei bwriadu i gyhoeddiad chwarterol o'r fath. Ond er na fwriadwyd hwy yn arbenig iddo ef, tybiwn fod ynddynt rai pethau teilwng o sylw ei ddarllenwyr, ac oblegid hyny y cynygir hwy yn awr i'w hystyriaethau. Yr oeddem wedi darparu rhagarweiniad i'r traethawd unwaith; ond y mae amgylchiadau wedi gwneyd hwnw, i raddau, yn anmhwrpasol; ac felly caiff y nodiad hwn wasanaethu yn ei le; a disgynwn ninau, fel y dywedir, ar unwaith i sylwi ar y testyn sydd uwchben ein hysgrif.

Bydd i ni holi yn y *lle cyntaf,* A oes genym ni rai ag y gellir eu galw yn enwogion? *Yn ail,* A ydym ni mewn enwogion ar ol i genedloedd ereill? *Yn drydydd,* Os ceir fod y Cymry yn dlotach o enwogion ac enwogrwydd na rhai cenedloedd ereill, ymdrechwn ddangos yr achos o hyny; ac *Yn bedwerydd,* Cynygiwn i sylw foddion a ymddangosant i ni yn effeithiol i symud y cyfryw achos ymaith; *Yn bumed,* Gwnawn rai sylwadau amrywiol cysylltiadol â'r testyn, ag nad allwn eu dwyn i mewn yn drefnus o dan un o'r penranau blaenorol. Yr ymholiad cyntaf yw:—

A OES GENYM NI, Y CYMRY, DDYNION AG Y GALLWN EU GALW YN ENWOGION?

Gellir ateb yr ymholiad yn gadarnhaol, Oes. "Yn mhob gwlad y megir glew." Mae glewion nid ychydig wedi cael eu magu yn Nghymru. Er mwyn gwneyd hyn yn amlwg, mae yn angenrheidiol dwyn ychydig ohonynt mewn byr grybwylliadau gerbron y darllenydd.

Caswallon, yr hwn a ddewiswyd yn Benlluyddwr i wrthwynebu y Rhufeiniaid o dan arweiniad Julius Cæsar, ydoedd yn gadlywydd bron mor fedrus a'r penrhyfelwr hwnw; a thra byddo hanes y goresgyniad Rhufeinig ar gael, mae enwogrwydd Caswallon yn ddiogel.

Caradog hefyd a saif yn uchel fel rhyfelwr dewr a medrus. Gwrthsafodd holl rym y Rhufeiniaid yn yr ynys hon yn llwyddianus am naw mlynedd; ac ar ol cael ei

Digitized by Google

fradychu i ddwylaw y Rhufeiniaid gan Aregwedd Föeddawg, brenines y Brigantwys, a'i gymeryd yn garcharor i Rufain, y fath oedd ei wroldeb a'i ymagweddiad dyrchafedig, a'i araeth synwyrlawn a nodedig i'r amherawdwr, fel yr effeithiwyd cymaint ar galon y teyrn balch hwnw nes y caniataodd ei ryddid iddo ef a'i deulu. Mae yr haneswyr Rhufeinig yn haelionus o glod iddo, ac yn sicr galiwn ninau, ei genedl, fod yr un modd.

Buddug sydd enw ag y gallwn fod yn falch ohono. Er nad oedd ond benyw, hi a arweiniodd fyddin o'i chydwladwyr yn erbyn y Rhufeiniaid; ac er na lwyddodd i dori eu hiau haiarnaidd, gwnaeth adwyau yn eu mysg ag y cymerwyd blynyddoedd i'w cau i fyny.

Cymro ydoedd Morgan, neu fel y gelwir ef yn gyffredin, Pelagius. Blodeuai yn y bedwaredd ganrif. Beth bynag a ddywedir am yr athrawiaethau a ddysgai, mae yn ddiddadl ei fod yn un o'r dynion galluocaf a dysgedicaf yn ei oes; ac fel y cyfryw gallwn ei restru yn mhlith ein henwogion.

Aneurin, Taliesin, a Llywarch hen, oeddent yn feirdd; ac nid all Gwyddelod, Ysgotiaid, na Seison, ymffrostio yn eu cyffelyb o'r un oes a hwy. Mae rhanau o'u gweithiau ar gael eto, ac y mae y rhanau hyny yn ddigon i gynal eu henwogrwydd i fyny.

Arthur Frenin ydoedd Gymro. Blodeuai yn nechreu y bumed ganrif. Mae yn ddiddadl ei fod ef y rhyfelwr enwocaf yn ei oes. Nid ellir rhoddi cyfrif am y ffugchwedlau cysylltiedig â'i enw ar un tir arall. Mae ei enw yn adnabyddus i holl genedloedd gwareiddiedig y byd, a'i hanes wedi cael ei wneyd yn sylfaen i ffugchwedlau heb rifedi. Nid yw enw Cyrus nac Alexander yn fwy adnabyddus nag enw Arthur y Cymry.

Asser Menevensis ydoedd Gymro dysgedig a flodeuai yn y nawfed ganrif. Cymaint oedd y son am ei ddysgeidiaeth, fel y gwahoddwyd ef gan y Brenin Allfred i'w lys; derbyniwyd ef gyda phob parch, a deisyfai y brenin arno gyda thaerineb drigo yn ei freninllys; ond gan y gwrthodai gydsynio, ceisiai y brenin ganddo ranu ei amser rhwng yr Athrofa yn Nhŷ Ddewi a'i lys yntau; â'r hyn, wedi cydymgynghori â'i frodyr, y cydsyniodd. Dywed rhai iddo gyfieithu cyfreithiau yr hen Gymry i'r Seisneg, wrth ba rai mewn rhan y ffurfiodd Allfred ddeddflyfr i'r Seison; ac yn ol rhai, efe ydoedd sefydlydd ac un o

Digitized by Google

athrawon cyntaf prif ysgol Rhydychain. Mae un peth yn lled agos i fod yn ddiymwad:—Nid ellir cael hanes am brawf trwy reithwyr yn mysg y Seison cyn amser y brenin Alffred. Yr oedd prawf trwy reithwyr yn sefydliad cyfreithiol yn mysg y Cymry er amser Dyfnwal Moelmud o'r man diweddaraf. Yr oedd y Cymro Asser yn gyfaill mynwesol, ac yn brif gynghorwr, i'r brenin Alffred; a'r casgliad naturiol, gallwn dybied, yw, mai oddiwrth y Cymry, trwy Asser, y cafodd y Seison y sefydliad gwerthfawr o brawf trwy reithwyr.

Hywel Dda ydoedd frenin y Cymry yn y ddegfed ganrif. Gyda chynorthwy prif ddynion ein cenedl yr amser hwnw, efe a gasglodd, a drefnodd, ac a gynlluniodd gyfreithiau a sefydliadau y Cymry, ar sylfaen eiddo Dyfnwal Moelmud. Mae y cyfreithiau hyn eto ar gael, a phrofant mai nid heb sail y galwyd Hywel ab Cadell ab Rhodri Mawr yn Hywel Dda.

Dafydd ab Gwilym a flodeuai yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yr oedd yn fardd llawn o athrylith. Er fod llawer o'i weithiau wedi myned ar goll, mae cyfrol lled fawr ohonynt eto ar gael, yr hon a gyhoeddwyd dan olygiad Dr. W. O. Pughe ac Owain Myfyr; a thra byddo y gweithiau cynwysedig ynddi ar gael, nid oes achos ofni am ei enwogrwydd. Yn ei ddosbarth ef o feirdd, nid ydym yn meddwl fod llawer yn rhagori arno yn mysg beirdd unrhyw genedl arall. Yn wir, y mae ysgrifenydd Seisnig diweddar, yr hwn oedd wedi darllen Dafydd ab Gwilym yn yr iaith Gymraeg, yn ei restru gyda phrif feirdd y byd.

Giraldus Cambrensis ydoedd ddyn tra dysgedig yn ei oes, a thra theilwng hefyd o enwogrwydd gan ei gydwladwyr.

Syr Hugh Myddleton ydoedd Gymro, ac iddo ef yr ydys yn ddyledus am yr afon sydd yn diwallu trigolion Llundain â dwfr. Mae yr orchest hono, a'r dull y cyflawnwyd hi, yn ddigon i gadw ei goffadwriaeth yn fyw tra bydd Llundain ei hun, neu gof amdani, yn aros.

John Williams, archesgob York, ac Arglwydd Geidwad y Sêl Fawr, ydoedd Gymro a anwyd yn Aberconwy, yn y fl. 1582. Mae y ffaith ei fod wedi cael ei ddyrchafu i'r swyddau uchaf yn y deyrnas, heb ddim ond ei alluoedd i'w orchymyn i sylw, yn llefaru digon drosto ef,

John Owen, D.D., ydoedd Gymro o genedl, ond a

Digitized by Google

anwyd yn Stadham. Blodeuai yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Ystyrir ef yn un o'r duwinyddion enwocaf yn mysg y Seison.

Daniel Williams, D.D., ydoedd Gymro o Wrecsam, lle y ganwyd ef yn y fl. 1644. Gadawodd etifeddiaethau i gynal chwech o efrydwyr Presbyteraidd yn Mhrifysgol Glasgow; a'i lyfrgell, gyda swm o arian i'w chwanegu, gyda y bwriad i sefydlu llyfrgell rydd yn Llundain, y rhai a arweiniasant i sefydliad y *Red Cross Street Institution*. Gadawodd amrywiol weithiau, y rhai a gyhoeddwyd mewn chwech o gyfrolau wythplyg.

William Jones, y gwyddonydd, ydoedd Gymro o Sir Fôn. Blodeuai yn niwedd yr eilfed ar bymtheg a dechreu y ddeunawfed ganrif. Yr oedd yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol. Cyfansoddodd amrywiol bapurau gwerthfawr ar wyddoniaeth; ac yr oedd yn mwynhau cyfeillgarwch prif wyddonwyr ei oes.

Syr William Jones ydoedd fab i'r blaenorol. Fel ieithydd ac ysgolor dwyreiniol, mae yn sefyll hyd y dydd hwn ar ben yr ysgol. Yr oedd yn ddyn gwir fawr; ac er mai yn Llundain y ganwyd ef, mae yn eithaf cyfiawn i Gymru ei hawlio fel un o'i phlant. Mae yn wir fod y Seison yn honi hawl yn mhob dyn enwog a anwyd yn Lloegr, ond nid yw hyny mewn un modd yn eu gwneyd yn Seison. Yn yr Iwerddon y ganwyd y Deon Swift, o rieni Seisnig, ac oblegid hyny myn y Gwyddelod mai Gwyddel oedd ef; ond fel y sylwa Thackeray yn ei "Lectures on the English Humourists," nid allwn ni gredu fod Swift yn Wyddel am iddo gael ei eni yn yr Iwerddon, mwy nag y gallwn gredu fod plentyn rhieni o Seison wedi cael ei eni yn Calcutta yn Hindŵad. Eiddo Cæsar i Cæsar. Enwogion Cymreig i Gymru, ac enwogion cenedloedd ereill iddynt hwythau. Nid ystyriem ni enwogrwydd unrhyw ddyn pa bynag yn anrhydedd i Gymru, ar ol gwybod nad oes un dyferyn o waed Cymreig yn ei wythenau, er iddo fod yn enedigol o Gymru, ddim pellach nag y bydd yn ddyledus iddi am yr enwogrwydd a feddiana.

Cymro oedd William Edwards, y pensaer hunanddysgol enwog o Sir Forganwg. Ar ol dau fethiant, fe adeiladodd bont dros yr afon Tâf o un bŵa cant a phedwar deg o droedfeddi, Mae y bont yn aros eto yn gofgolofn o'i athrylith; ac hyd yn ddiweddar yr oedd yr orchest benaf mewn pont-adeiladaeth, fe ddichon, yn y byd.

Digitized by Google

Thomas Pennant, a anwyd yn Bychton, Sir Fflint, yn y fl. 1726. Yr oedd yn henafiaethydd ac anianydd o'r dosbarth blaenaf, ac y mae wedi gadael digon o weithiau ar ei ol i brofi ei hawl i enwogrwydd.

Thomas Charles o'r Bala ydoedd ddyn a fuasai yn enwog yn mysg y genedl fwyaf gyfoethog o enwogion. Pe na buasai wedi gwneyd dim ond bod yn un o'r offerynau i sefydlu y Feibl Gymdeithas, fe sicrhasai hyny anfarwoldeb i'w enw; ond ar wahan i hyny, mae ei lafur a'i wasanaeth i'w genedl mewn amrywiol ffyrdd yn teilyngu iddo enwogrwydd diddarfod.

David Williams, ysgrifenydd enwog, ydoedd Gymro o Sir Aberteifi. Mae yn awdwr llawer o lyfrau, amryw o ba rai, meddir, a gyfieithwyd i'r Ellmynaeg; ond yr hyn sydd yn ei wneyd yn fwyaf adnabyddus yw y ffaith mai efe ydoedd sylfaenydd y *Literary Fund Society.*

Edward Williams (Iolo Morganwg), a anwyd yn Sir Forganwg, yn mis Mawrth, 1745. Yr oedd yn fardd Cymreig a Seisnig, yn henafiaethydd cywrain, yn llenor cyflawn, ac yn wladgarwr diffuant. Os magodd un genedl ddyn erioed a deilyngai enwogrwydd, yr oedd Iolo Morganwg yn un ohonynt.

William Owen Pughe, D.C.L., a anwyd yn mhlwyf Llanfihangel y Pennant, Sir Feirionydd, ar y 7fed o Awst, 1759. Pe na wnaethai ddim ond y Geiriadur sydd yn dwyn ei enw, buasai hyny yn ddigon o sylfaen i enwogrwydd iddo tra bydd y genedl Gymreig mewn bod; ond yn chwanegol at hyny, yr oedd ganddo law yn nghyhoeddiad y *Myvyrian Archaiology of Wales;* cyhoeddodd y *Cambrian Biography;* cyfieithodd weithiau Llywarch Hen i'r Seisneg; golygodd y *Cambrian Register*, y Greal, a Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym; cyfranodd bapurau i *Rees's Encyclopaedia, Warrington's History of Wales, Hoare's History of Wiltshire, Britton's Beauties of England and Wales, Campbell's Books on Wales, Gunn's Tracts, Meyrick's Cardiganshire, Lore, Chalmers's Caledonia*, ac ereill. Cyfieithodd *Milton's Paradise Lost, Heber's Palestine*, a llawer o ganeuon Mrs. Hemans, i'r Gymraeg, a'r Mabinogion i'r Seisneg, heblaw cyfansoddi gweithiau gwreiddiol ei hunan.

Edward Jones a anwyd yn yr Henblas, Sir Feirionydd, (yn ymyl Llandderfel, mae yn debyg,) ar Sul y Pasc, 1752. Telynor ydoedd wrth ei alwedigaeth; ac yn 1783, penodwyd ef yn delynor i Dywysog Cymru. Yn 1794,

Digitized by Google

mewn cysylltiad â'r Dr. W. O. Pughe, ac ereill, cyhoeddodd gyfrol o hen farddoniaeth ac alawon Cymreig. Yn mhen y pedair blynedd ar ol hyny, cyhoeddodd ail gyfrol; ac yn 1830, y rhan gyntaf o gyfrol y drydedd; ond ni fu byw i orphen y gwaith. Mae ei *Relics of the Welsh Bards* yn ddigon o drwydded iddo i deml enwogrwydd.

Y diweddar Mr. J. Parry hefyd a enillodd iddo ei hun radd dda o enwogrwydd, nid yn unig fel cyfansoddydd alawon, amryw o ba rai sydd yn hynod boblog, ond fel casglydd ac adolygydd hen alawon Cymreig, ac mewn amryw o ffyrdd ereill. Gellir dyweyd nad oedd un cerddor mwy parchus ac anwyl yn ei ddydd na Mr. Parry.

Abram Rees, D.D., a anwyd yn Sir Drefaldwyn, yn y fl. 1743. Mae y *Cyclopædia* sydd yn dwyn ei enw yn ddigon o golofn goffadwriaethol iddo.

Ac heblaw y rhai a nodwyd, y mae genym lu mawr eto o rai ag y mae eu henwau yn eithaf adnabyddus i bob llenor Cymreig—rhai ag y mae eu gweithiau i gyd, neu mewn rhan, ar gael, ac felly yn sylfaen o dan eu henwogrwydd, a rhai y byddai yn hawdd profi eu bod mor deilwng o enwogrwydd a lluaws o'r rhai a ystyrir yn enwogion gan genedloedd ereill. Mae genym ein Gildas a'n Nenius, Caradog o Lancarfan a Gruffydd ab Arthur, Carnhuanawc ac ereill, fel haneswyr; Gwalchmai ab Meilir, Dafydd Ddu Hiraddug, Iolo Goch, Lewis Glyn Cothi, Dafydd ab Edmwnt, Tudur Aled, William Llŷn, Lewis Morus, Goronwy Owain, Ieuan Brydydd Hir, Williams o Bantycelyn, Dafydd Ionawr, John Blackwell, R. ab G. Ddu, Dewi Wyn, Bardd Nantglyn, Gwallter Mechain, Tegid, Ieuan Glan Geirionydd, a lluaws mawr o rai ereill, fel beirdd; Richard Wilson fel parthluniedydd; Inigo Jones, yn ol rhai, fel archadeiladydd, er y dylid crybwyll fod bywgraffwyr Seisnig yn dyweyd mai yn Llundain y ganwyd ef, tra yr haera y Cymry mai yn Llanrwst; John Gibson, fel maengerfiwr; Simon Llwyd, y Doctoriaid Jenkins a Lewis, Peter Williams, James Hughes, ac ereill, fel esbonwyr; Wmffre Llwyd, Edward Llwyd, Rowlands, Powel, Peter Roberts, ac ereill, fel henafiaethwyr enwog; Ellis Wyn, fel ffugchwedlydd; Walter Caradog, Hywel Harries, John Penry, Daniel Rowlands, ac amryw ereill, fel annghydffurfwyr enwog; John Elias, Christmas Evans, a Williams o'r Wern, fel pregethwyr o'r dosbarth blaenaf; William Salisbury, a

Digitized by Google

Dr. Morgan, ac ereill, fel cyfieithwyr yr ysgrythyrau; a llawer yn chwaneg o ysgrifenwyr galluog ar wahanol wybodaethau. Am y rhan luosocaf ohonynt, byddai yn hawdd profi fod ganddynt hawl wirioneddol i enwogrwydd ar dir cadarnach na balchder eu cydwladwyr. Ac nid ydym wedi nodi y cyfan. Mae rhai ag ydynt o ran eu henwau o leiaf yn adnabyddus i ni, ac ereill mae yn ddiau nad ydys yn gwybod dim amdanynt, ag ydynt mor deilwng o gael eu henwi ag un a enwyd genym yn barod, wedi cael eu gadael allan, am nad allem gael amser na gofod i wneyd sylw ohonynt oll. Gan fod yn rhaid gwneyd dewisiad, dewisasom y rhai ag y gallem gyfeirio at eu hanes rwyddaf. Nid ydym yn gwbl amddifad chwaith o fenywod a ragorasant ar eu rhyw ar faes llenyddiaeth; gwasanaethed enwau Ann Williams y farddones ddall, a Mrs. Piozzi, dwy gyfeilles mynwesol y Dr. Johnson, yn nghyda Mrs. Campbell, fel engraifft. Mae llawer iawn o'n cydgenedl wedi bod yn gymeriadau enwog yn mysg cenedloedd ereill, ac yn enwedig yn mysg y Seison. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, cawn Morris Clynog yn brif lywydd y Coleg Seisnig yn Rhufain; ac yn ol yr hanes, dangosai mai Cymro ydoedd drwy ei bleidgarwch i'w genedl. Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, yr oedd Dr. Dolben yn Archesgob Caerefrog, Dr. Lloyd yn Esgob Llanelwy, Syr George Jeffries yn Arglwydd Gangellwr, Syr Leoline Jenkins yn Ysgrifenydd y Llywodraeth, Syr Thomas Jones yn Arglwydd Brif Farnwr, Syr John Trevor yn Feistr y Rhestrfa, a Syr William Williams yn Llefarydd Tŷ y Cyffredin. Roger Williams, sefydlydd tref Providence yn America, ydoedd Gymro; ac efe oedd y cyntaf, mae yn debyg, i ganiatau rhyddid cydwybod perffaith i'r dinasyddion.

Yn y dyddiau presenol, mae genym bregethwyr luaws o ran doniau areithyddol, gwybodaeth ysgrythyrol a chyffredinol, ac o ran dylanwad grymus eu gweinidogaeth ar eu cydwladwyr, a ddalient eu cymharu â goreuon y Seison neu yr Ysgotiaid. Ac heblaw hyny, mae amryw o'n cydwladwyr yn llenwi rhai o'r sefyllfaoedd mwyaf anrhydeddus yn mysg y Seison, ac yn gymeriadau adnabyddus a pharchus yn eu mysg. Ond y mae ein terfynau a'n hamser yn ein rhwymo i beidio ymhelaethu ar y pen hwn. Ac heblaw hyny, nid ellir dysgwyl i draethawd fel yr un presenol gynwys pob enw mawr yn ein

Digitized by Google

hanesyddiaeth, na bod yn Eiriadur Bywgraffyddol o'r rhai a enwir; na dysgwyl chwaith iddo gynwys sylwadau helaeth i egluro a phrofi athrylith a theilyngdod neb yn neillduol; oblegid gwnai dull felly o drin y pwnc chwyddo y traethawd i gyfrolau. Yr ydym wedi dangos fod genym luaws mawr o ddynion a ragorasant ar eu cyd-ddynion mewn amrywiol ddulliau, a godasant eu hunain drwy eu hathrylith i enwogrwydd yn mysg ein cenedl ein hunain, ac yn mysg cenedloedd ereill hefyd, ac a wnaethant wasanaeth llesfawr i'n cenedl; ac y mae dangos nad ydym ni, mwy na chenedloedd ereill, yn amddifad o'r cyfryw, yn ddigonol i ateb y dyben sydd genym mewn golwg yn y nodiadau hyn.

Gall y rhai sydd yn awyddus am wybod chwaneg yn nghylch ein henwogion gael eu hanes mewn Geiriaduron Bywgraffyddol, er na ddylid meddwl fod pob un y ceir ei enw yn y rhai hyny yn enwog mewn gwirionedd: na, byddai yn hawdd eu nithio. Mae rhywbeth mwy na bod wedi cael dysgeidiaeth yn Nghaergrawnt neu Rhydychen, bod yn beriglor mewn un man, yn archddiacon yn yr ail, yn ddeon yn y trydydd, ac wedi marw yn esgob yn y pedwerydd lle, yn angenrheidiol i wneyd dyn yn enwog. Oes, mae rhywbeth mwy yn angenrheidiol i roddi trwydded i ddyn i fyned i mewn i deml enwogrwydd, na'i fod wedi llenwi swyddau uchel mewn gwlad neu eglwys; oblegid, yn gyntaf, Nid yw pawb a lenwasant swyddau uchel yn enwog. Yn ail, Nid yw pawb a ddaliant swyddau uchel yn deilwng ohonynt. Yn drydydd, Mae yn dygwydd, ac nid yn anfynych, fod dynion cyffredin o ran eu galluoedd a'u cyraeddiadau, ac weithiau dynion islaw y cyffredin, yn cael eu dyrchafu o uchel i uwch, nes cyraedd y swydd uchaf, pan y mae dynion gwir fawr ac annghyffredin yn cael eu hesgeuluso a'u gadael yn y sefyllfa iselaf: er engraifft,—Ieuan Glan Geirionydd, a'r Esgob a ysgrifenodd ato, mewn atebiad i'w lythyr yn gofyn am fywioliaeth yn ngwlad ei enedigaeth, yr epistol maith, boneddigaidd, brawdol, a gorgristionogol a ganlyn:—

"SYR,
Derbyniais eich llythyr.
Ac wyf, &c."

Yn bedwerydd, Mae swyddau uchel yn cael eu llenwi gan ryw rai o hyd, ond nid o hyd y ceir enwogion. Amgylch-

Digitized by Google

iad cyffredin—gwaith pob dydd—yw y cyntaf, ond peth annghyffredin ac anaml yw yr olaf. Yn bumed, Mater o raid yw dyrchafu rhywun i bob swydd; ac y mae gan gyfeillgarwch personol, perthynas gnawdol, ac ystyriaethau hunanol, law helaeth ambell dro yn y dyrchafiadau hyny; ond y mae cyfodiad enwogion, a llefaru yn ddynol, yn ddygwyddiadol. Yn chweched, Gwaith a wneir gan arall dros y dyn yw ei ddyrchafu i swydd; ond peth a weithia y dyn iddo ei hun yw enwogrwydd. Rhaid i'r dyn ei hun, drwy ei athrylith ei hun, enill enwogrwydd iddo ei hun, neu fod yn amddifad ohono, am nas gall neb ei feddianu drosto. Yn seithfed, Mae yn bosibl difeddianu dyn o'r swydd uchaf, ond nid yw yn bosibl difeddianu neb o enwogrwydd haeddianol a gwirioneddol. Mae pob ymdrech at hyny yn sicr o chwanegu ei enwogrwydd, yn lle ei leihau. Yn wythfed, Pe byddai pob un a ddyrchefir i swydd uchel yn enwog, ni byddai Cymru, nac un wlad arall, byth yn brin o enwogion. Yn hytrach, byddai eu hamlder yn ddigon i ddychrynu pob un a fwriadai ysgrifenu Geiriadur Bywgraffyddol ohonynt, a phob un hefyd a fwriadai wneyd ei hunan yn hyddysg yn eu hanes. Ond nid pethau aml a chyffredin felly yw dynion mawr ac enwog. Yn nawfed, Nid y swyddi a ddelir gan ddynion, ond yr hyn a wnant ynddynt, neu allan ohonynt, sydd yn eu gwneyd yn enwog. Mae drysor teml enwogrwydd yn gofyn, nid—"Beth yw dy ditlau? i bwy yr wyt ti yn perthyn? yn mha ysgol y derbyniaist ti dy ddysgeidiaeth? pa swyddau yr wyt yn eu dal?" &c., ond—"Beth ydyw dy honiadau? ar ba beth y maent yn seiliedig? pa orchest a gyflawnaist? pa le y mae dy drwydded i ddyfod i mewn?" Oferedd yw ceisio cael neb i mewn trwy orfod, oblegid nid â i mewn yno neb cyffredin a dinod. Gadawer i'r rhai na wnaethant unrhyw wasanaeth gwerth son amdano, er iddynt gael cynorthwy dylanwad swyddau anrhydeddus tuag at hyny, gysgu yn dawel gyda'r cyffredin yn nghysgodion tir ebargofiant.

Ond i fyned yn mlaen. Wrth ddarllen hanes y dynion, yn yr oesau a aethant heibio, a anfarwolasant eu henwau trwy ddefnyddio eu hathrylith i lesau eu cydddynion, o'r rhai y mae genym, fel y dangoswyd, nid ychydig, y mae amrywiol ystyriaethau yn ymgynyg i'r meddwl.

Digitized by Google

Yn gyntaf, Mae rhyw lais yn sibrwd wrth glust y galon fod rhai Cymry yn cyfrif ein cenedl yn îs nag y mae mewn gwirionedd. Wrth ddarllen ambell ysgrif yn y misolion, ac wrth wrando ar gwynion rhai mewn ymddyddanion cyfrinachol, gellid tybied na fagodd Cymru neb erioed gwerth son amdano; hwy eu hunain o angenrheidrwydd yn eithriaid. Mae rhai yn gofyn yn feiddgar, yn enwedig os byddant wedi bod yn byw yn Lloegr dros ychydig amser, a dysgu tipyn o Seisneg trwy ddirfawr drafferth, pa le y mae ein henwogion. Rhyw gwyno a glywir o hyd nad yw ein gwlad wedi magu ond ychydig o ddynion mawr. Cyfeirir yn ddibaid bron at y Seison a'r Ysgotiaid, fel pe na byddai gan neb arall enw gwerth son amdano. Gofidir a chwynir ein bod gymaint ar ol i genedloedd ereill. Rhoddir Cymru yn droedfainc o dan draed hogiau i ddyrchafu ein cymydogion. Braidd nad yw wedi myned yn rheol i ddyrchafu ereill er mwyn darostwng y Cymry. Gosodir ni yn îs na phawb. Edrychwn arnom ein hunain, rai ohonom o leiaf, fel cenedl na wnaethom ddim erioed i deilyngu enwogrwydd, ac fel cenedl na fagodd na mab na merch galluog i daflu dysgleirdeb ar ei henw. Ond y mae y cyfryw yn gwneyd cam dirfawr â'n cenedl. Mae ganddi hawliau lawer i gael ei hanrhydeddu. Magodd ddegau o feibion ag y buasai y cenedloedd enwocaf yn y byd yn falch ohonynt, ac yn sicr o roddi iddynt le uchel yn mysg eu henwogion. Gallwn fod yn falch o'n cenedl, a rhoddi rheswm dros hyny, os bydd galw amdano. Gan hyny, ymaith â'r ysbryd anwladgarol ag sydd beunydd yn dibrisio ac yn iselhau gwlad ein genedigaeth.

Yn ail, Derbynir awgrymiad lled groew mai anwybodaeth o hanes Cymru, ac o hanes ei henwogion, yw yr achos yn fwyaf cyffredin fod rhai o'i phlant yn ei diystyru. Yn gyntaf, Wrth ddarllen hanes y Cymry, a bywgraffiadau ein henwogion, ac wrth fyfyrio ar yr adgofion sydd yn nglŷn â hwy ac â thraddodiadau y genedl, teimlir yn fywiog mai nid heb achos y mae y Cymro gwladgarol yn ymffrostio yn ei genedl; a theimlir hefyd fod bron yn anmhosibl i neb cyfarwydd â hwy ddibrisio ac iselhau cenedl y Cymry. Yn ail, Os pwysir ychydig ar wynt y rhai sydd yn arfer gosod Cymru yn isel, ceir gweled yn fuan, yn y cyffredin, fod hanes Cymru mor anadnabyddus iddynt a hanes teyrnasoedd y cynfyd, a bod enwau ei henwogion mor

Digitized by Google

ddyeithrol iddynt ag enwau trigolion y bydoedd fry. Os oes eithriadau i hyn, maent yn ychydig iawn mewn nifer. Yn drydydd, Mae y rhai sydd yn gyfarwydd â hanes ein cenedl, wedi efrydu ei henafiaethau, a gwneyd eu hunain yn hyddysg yn hanes ei henwogion, yn meddwl yn fawr ohoni, yn siarad yn barchus amdani, ac yn rhoddi iddi anrhydedd diamheuol. Y rhai sydd yn gwybod mwyaf amdani sydd yn ei hanrhydeddu fwyaf. Nid oes dim yn hawddach i'w brofi na hyn, os bydd rhyw un yn dewis ei ameu. Cymerer engraifft o rai ag y dylai pawb yn yr oes hon wybod amdanynt, neu feddu digon o synwyr cyffredin, heb son am wyleidd-dra, i "dewi â son" pan fyddo Cymru yn bwnc yr ymddyddan—Owain Myfyr, Iolo Morganwg, Dr. W. O. Pughe, Carnhuanawc, Tegid, a Gwallter Mechain; a wyddent hwy rywfaint o hanes Cymru? Gwyddent yn ddiau gymaint a neb pwy bynag; ac er hyny, nid oedd ac nid oes neb a dybient yn well am genedl y Cymry na hwy. Ymffrostient ynddi; dadleuent drosti; arddelent eu perthynas â hi fel peth i'w ddymuno, yn hytrach na'i ofidio. Ac y mae dysgedigion yr oes hon, fel pob oes arall, yr un mor wresog a hwythau yn eu cariad a'u parch i wlad eu genedigaeth. O ran hyny, pa ddyn dysgedig a chyfarwydd â hanes ein cenedl, a fu erioed yn euog o'i gwadu neu o'i diystyru? Dynion y meddyliau bychain, a'r penau gweigion, cynddrychiolwyr anwybodaeth a digywilydd-dra, fydd yn arfer gwneyd peth diystyrllyd felly. Gan hyny, yn bedwerydd, pan glywir Cymro, Sais, neu unrhyw ddyn arall, yn gosod y Cymry yn îs na phawb, gellir bod yn lled benderfynol mai mewn anwybodaeth y maent yn siarad, ac oblegid hyny yn ofer y ceisir ymresymu â hwy. Mae pob gair a ddywedant yn wirionedd diymwad yn eu cyfrif eu hunain; ac fel anwybodusion yn gyffredin, ni fynant eu hargyhoeddi. Nid oes dim i'w wneyd iddynt ond eu cynghori i ddarllen hanes y Cymry gan ryw haneswr cyfrifol, efrydu eu henafiaethau, a gwneyd eu hunain yn hyddysg yn mywgraffiadau eu henwogion; ac ond iddynt hwy wneyd hyn, fe agorir eu llygaid, a gwelant eu camgymeriad, ac ni chlywir hwy mwyach yn llefaru yn wawdlyd am eu cydgenedl.

Yn drydydd, Meddianir ni â thybiaeth lled gryf mai prin y gwneir cyfiawnder â ni gan ein cymydogion. Lled dueddol ydynt i grybwyll yn ysgafn amdanom. Ym-

Digitized by Google

ddangosant fel pe byddent yn ystyriod eu hunain yn gewri, ac y rhaid iddynt ostwng eu penau cyn y gallant ganfod ryw gorynod fel y Cymry. Mae arnynt ofn yn eu calon draethu dim a fyddo yn anrhydedd i ni. Maent yn hwyrfrydig i gydnabod y rhagoriaethau anwadadwy a berthyn i ni. Yn y cyffredin ânt heibio i ni mor ddisylw a phe na byddem yn bod. Ac y mae yn bosibl rhoddi rheswm paham yr ymddygant fel hyn tuag atom. Yn gyntaf, Y mae yn amheus ai nid ydynt yn ddig wrthym am lynu wrth ein hiaith a'n defodau cenedlaethol, ac am barhau yn genedl wahanol er yr holl ymdrech a wnaed ganddynt i'n llyncu i fyny iddynt eu hunain. Yn ail, Maent yn tybied, fe ddichon, eu bod yn uwch annhraethol na ni, ac y byddai yn ormod o ymddarostyngiad ynddynt i lefaru yn barchus amdanom, nac i ymddwyn yn gartrefol tuag atom. Yn drydydd, Maent yn ein hystyried yn ffol iawn am nad ymgymerem âg iaith a defodau y Seison, gan ymwrthod â'n cenedloldeb, ac ymgolli yn llwyr ac am byth ynddynt hwy. Yn bedwerydd, Meddyliant, o bosibl, nad all dim da fod yn perthyn i genedl a ymddengys iddynt hwy yn ystyfnig a hunandybiol. Maent yn eu hymddygiad yn gofyn,—"A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?" Os dywedwch wrthynt fod llawer o ddynion rhagorol wedi cyfodi yn Nghymru, chwi ellwch ddarllen yn union, os nid ar eu tafod, ar eu ffroen,—"A wyt tithau o Galilea? chwilia a gwel na chododd proffwyd o Galilea." Yn bumed, Mae ganddynt olwg ar ein difodi fel cenedl wahanol, o leiaf ar ein dwyn i ddefnyddio iaith y Seison, ac i fod yn Seison hollol yn mhob peth ond enw. Ac yn chweched, Golygant, fe allai, mai y llwybr goreu i gael hyny oddiamgylch ydyw gwneyd ychydig ohonom; peidio crybwyll amdanom o gwbl, os gellir, neu grybwyll yn ysgafn a gwawdlyd, os rhaid crybwyll oll. Ond beth bynag yw y rheswm, golygwn nad ydym yn teilyngu triniaeth mor wael oddiar eu llaw. Nid pawb o'r Seison, mae yn wir, sydd yn euog o edrych yn isel arnom, ond y mae llawer ohonynt; ac fe fyddai yn werth i'r cyfryw gofio, tra maent hwy yn breuddwydio am ddiddymiad yr iaith Gymraeg, ac ymgolliad y genedl Gymreig yn y Seison, fod y wasg Gymreig yn esgor ar weithiau pwysig yn fil amlach nag erioed, fod llenyddiaeth y Cymry yn ymgyfoethogi yn gyflym iawn, a'n cenedl esgeulusedig yn dyfod allan o'i hystafell fel cawr i redeg gyrfa.

Digitized by Google

Yn bedwerydd, Gwelir achos i synu fod Cymru wedi cynyrchu cynifer o enwogion ag a wnaeth. Gorchfygwyd a gorthrymwyd hi gan y Rhufeiniaid. Anrheithiwyd hi gan ryfeloedd cartrefol, a chan ryfeloedd gwaedlyd â'r Seison, am ganrifoedd lawer. Gorchfygwyd hi ganddynt hwythau, a bwriasant orthrwm arni. Gwnaed cyfreithiau gorthrymus i geisio difodi ei hiaith a'i llenyddiaeth. Cyfyngwyd arni mewn lle bychan. Esgeuluswyd hi gan y llywodraeth. Trôdd y rhan amlaf o'i gwŷr mawrion ei hunan ei chefn arni. Cymerasant iaith y Seison; defnyddiasant eu talent i gyfoethogi llenyddiaeth y Seison; a gadawent i drigolion Cymru farw o eisieu gwybodaeth. Ni bu erioed yn gyfoethog, ac nid yw yn gyfoethog eto. Ni bu erioed yn lluosog ei thrigolion, ac nid yw yn lluosog eto. Mae rhyfeloedd yn yr hen oesau, ac ymfudiaeth yn yr oesau diweddaf, wedi cadw eu nifer i lawr. Yn awr, wrth ystyried y pethau hyn, ac ereill a allesid eu nodi, ni buasai neb yn synu pe darllenasai yn Alison, Hallam, neu Macaulay, ryw sylwadau fel y canlyn ar drancedigaeth cenedl y Cymry:—"Ond cenedl y Cymry nid yw mwy. Wedi ymladd yn ddewr ganrifoedd lawer dros ei rhyddid a'i hiawnderau cenedlaethol, a glynu wrth ei hiaith, a choleddu ei llenyddiaeth, o dan yr anfanteision mwyaf, o dan bwysau cynyddol gorthrwm ac esgeulusdod, hi a gollodd ei hysbryd annibynol, a esgeulusodd ei hiaith, a adawodd ei llenyddiaeth yn ymborth i ddinystr, a ymollyngodd o dan ei baich, ac a fu farw; fel pe buasai yn penderfynu peidio goroesi ei hannibyniaeth a'i hanrhydedd cenedlaethol. Nid oes yn aros mwyach o hiliogaeth yr hen Brydeiniaid dewr ac enwog ond ychydig yma ac ychydig acw o rai ag y mae traddodiad yn eu cysylltu â'u henafiaid. Ni bu cenedl ddewrach erioed, na chenedl chwaith mwy caredig a rhyddgalon. Teilyngodd dynged gwell. O dan amgylchiadau mwy ffafriol, gallasai chwareu rhan bwysig yn amgylchiadau y byd. Ond tynged ni fynai i hyny fod. Mynai ei rhestru ymhlith y pethau a fu, ac fe wnaeth hyny. Ond er ei bod wedi marw, fe bery ei henw yn anrhydeddus hyd oesau diweddaf y ddaear." Pe hyna a fuasai gan yr hanesydd i'w ysgrifenu am genedl y Cymry, ni buasai neb yn synu wrth ei ddarllen; ond yn lle hyny, mae y Cymry yn aros yn genedl wahanol eto; mae cariad at ryddid ac ysbryd annibynol yn nodweddiad ynddi eto; mae wedi glynu wrth ei hiaith, a chadw ei

Digitized by Google

defodau; mae wedi cynyrchu swm mawr o lenyddiaeth yn ei hiaith ei hun, ac wedi magu llawer o feibion a gyfoethogasant lenyddiaeth y Seison, a hyny i gyd o dan yr anfanteision mwyaf ag y mae yn hawdd dychymygu amdanynt. Ni chafodd ddim cefnogaeth gan y llywodraeth wladol; nac, ar ol iddi gael ei llwyr uno â choron Lloegr, ond ychydig iawn gan ei phendefigion ei hun. Er hyny mae wedi cyflawni digon i enill iddi le anrhydeddus yn mysg cenedloedd gwareiddiedig y byd. Ac felly dylid synu, nid fod cyn lleied o enwogion wedi cyfodi ar y mynyddau, ond fod nifer mor fawr wedi cyfodi o dan gymaint o anhawsderau.

Yn bumed, Derbynir rhyw haner meddwl weithiau mai ein hanffawd ni yw ein bod yn byw yn rhy agos i'n cymydogion. I egluro hyn, galwn genedl ddychymygol i fodolaeth. Gosodwn hi i breswylio ar gwr o ynys fechan mewn rhan bellenig o'r byd. Mewn rhifedi mae yn fechan; dim ond ychydig dros fyrddiwn. Tua dwy fil o flynyddoedd yn ol, pan y ceir crybwylliadau eglur gyntaf amdani mewn hanesyddiaeth, yr oedd yn meddianu yr holl ynys, a chenedloedd yn llefaru yr un iaith, yn cadw yr un defodau, ac yn proffesu yr un grefydd; mewn gair, brodyr iddi yn meddianu yr holl wledydd o amgylch iddi ar y cyfandir. Ond hi ydoedd y genedl fwyaf enwog a dysgedig, fel y mae yr hanes fod pendefigion y gwledydd cylchynol yn anfon eu plant at ei hathrawon i gael eu haddysgu, yn amlwg ddangos. Yn mhell oddiwrthi yr oedd cenedl ryfelgar yn byw, ac yr oedd y genedl hono yn amcanu at ddarostwng yr holl fyd adnabyddus o dan ei llywodraeth, ac yr oedd llwyddiant yn gwenu arnynt. Ymosodasant ar drigolion y cyfandir, a gorchfygasant hwy. Wedi hyny ymosodasant ar yr ynyswyr, ac wedi llawer o frwydro am amser lled faith, gorchfygasant hwythau. Parhasant i'w gorthrymu am tua phedwar can mlynedd, pan orfu arnynt ymadael er mwyn amddiffyn eu gwlad eu hunain rhag eu gelynion. Ar ol eu hymadawiad hwy, daeth cenedl arall i mewn fel cyfeillion i ddechreu, drwy wahoddiad yr ynyswyr eu hunain, i ymladd drostynt, yn erbyn eu gelynion; ond yn lle ymladd drostynt, pan welsant gryfder y genedl wedi cael ei gymeryd ymaith gan ei gorthrymwyr ymadawedig, ymladdasant yn eu herbyn, a gosodasant eu bryd ar feddianu yr holl ynys. Daeth adgyfnerthiad ar ol adgyf-

Digitized by Google

nerthiad o'u cydwladwyr drosodd i'w cynorthwyo, a buont lwyddianus i sefydlu eu hunain yn y cwr mwyaf dymunol o'r ynys. Bu brwydrau gwaedlyd heb rifedi rhyngddynt hwy a'r ynyswyr am ganrifoedd meithion ar ol hyny, a buddugoliaeth yn gwenu weithiau, ar y naill, ac weithiau ar y llall; ond ar y cyfan y goresgynwyr oeddent yn enill tir. Gorfu i'r ynyswyr gilio i ran gyfyng a mynyddig o'r wlad, ac wedi amddiffyn eu hunain yno gyda gradd o lwyddiant am amser lled faith, ymostyngasant, trwy ryw fath o gytundeb, mae yn wir, i dderbyn iau yr estroniaid ar eu gwarau. Ond nid cynt y gwnaethant hyny nag y dechreuodd eu gorchfygwyr eu gorthrymu. Gwnaethant gyfreithiau yn erbyn eu hiaith a'u llenyddiaeth, ac amcanasant eu difodi fel cenedl, drwy eu llyncu i fyny iddynt eu hunain. Ond er yr holl orthrwm a'r esgeulusdod a brofasant, maent eto yn genedl wahanol. Siaradant iaith eu henafiaid bron yn ddilwgr. Mae ganddynt yn eu hiaith weithiau llenyddol o henafiaeth mawr. Maent wedi magu dynion a gyfoethogasant lenyddiaeth y byd; ac wedi cynyrchu llenyddiaeth werthfawr yn eu hiaith eu hunain. Ac er eu bod yn dlodion yn gyffredin, ac yn ychydig mewn rhifedi, fe lanwasant eu rhan hwy o'r ynys âg addoldai lle gallant gydymgasglu i addoli y Duw byw—y Duw a addolid gan eu tadau filoedd o flynyddoedd yn ol. Mewn gwybodaeth ysgrythyrol, cydnabyddir gan lawer eu bod yn rhagori ar bob cenedl arall; ac yn y dyddiau presenol maent yn gweithio yn egniol i amlhau moddion addysg, ac i sefydlu Cymdeithasau Llenyddol er cyfleusdra i'r bobl weithgar berffeithio eu hunain mewn gwybodaeth a dysgeidiaeth. Yn awr, pe buasai cenedl o'r fath ag a ddarluniwyd yn trigianu mewn rhan bellenig o'r byd, yr ydym yn meddwl y cymerasai y Seison ddyddordeb annghyffredin ynddi. Ymwelasid â hi gan eu teithwyr; darluniasent ei harferiadau gyda gofal; cyfieithasent ei llyfrau i'w hiaith; ysgrifenasent ei hanes yn fanwl; a buasent yn haelionus mewn molawd arni. Wel, cenedl felly yw cenedl y Cymry; ac eto mae llawer o Seison yn fwy parod i'w diystyru na dim arall. Maent yn ddig wrthi am gadw ei hiaith, ac am feiddio cynyrchu llenyddiaeth iddi ei hun. Ein hanffawd, mae yn amlwg, yw, ein bod yn byw yn rhy agos i'n cymydogion.

Yn chweched, Canfyddir y byddai yn ddichonadwy gwneyd mwy o ddefnydd nag a wneir o'r anrhydedd sydd



Digitized by Google

genym; hyny yw, gallem honi mwy o anrhydedd, sefyll yn uwch, ac ymwisgo yn well, ar bwys yr enwogion sydd genym, nag a wnawn. Mae rhai yn gallu gwneyd i ychydig gyraedd yn bell—yn gallu ymddangos yn fonedd-igaidd mewn tlodi cymharol, tra y mae ereill yn methu gwneyd i lawer gyraedd ond ychydig, ac mewn cyfoeth cymharol yn ymddangos yn dlawd. Yr ydym ni, i ryw raddau, yn debyg i'r olaf. Nid ydym yn cymeryd ond ychydig o fantais ar yr enwogion a feddwn, nac yn gwneyd ond ychydig o egni i wneyd eu henwau a'u gweithiau yn adnabyddus. Gadawn i lifeiriant annghof eu gorchuddio, os na waredir hwy gan ryw estron a ddichon fod yn eu mawrygu. Nid ydym ond yn anaml iawn yn meddwl am ddangos eu rhagoroldeb, nac amwisgo eu hathrylith yn ei gwisg oreu. Prin y gofalwn am ddarn o faen i ddynodi y fan lle gorweddant. Mor wahanol i hyn yr ymddyga y Seison a'r Ysgotiaid at gofladwriaeth a gweithiau eu henwogion hwy! Ystyriant yr anedd lle ganwyd hwy, a'r llanerch lle yr hunant, yn gysegredig. Cedwir pob hanesyn amdanynt, a dywediad o'u heiddo, gyda y gofal mwyaf. Ysgrifenir traethodau manwl ar eu gweithiau a'u hathrylith gan y naill ysgrifenydd ar ol y llall yn olynol. Gwneir hwynt yn destynau darlithoedd heb rif-edi. Mae dynion yn enill enwogrwydd eu hunain wrth ysgrifenu eu bywgraffiadau. Cedwir eu henwau, eu hanes, a'u gweithiau, i nofio yn barhaus ar wyneb cym-deithas. Pe gwnaethem ni yr un modd gyda ein henwog-ion ninau, fe fuasent hwy a'u gweithiau yn llawer mwy adnabyddus nag ydynt yn awr, a ninau, fel cenedl, yn fwy enwog yn ngolwg y byd. Pe cawsem ryw Macpher-son i droi gweithiau ein hen feirdd i'r Seisneg, a rhyw Scott i ddwyn adnoddau llenyddol ein cenedl i oleuni dydd, ac i wisgo ei henafiaethau a'i thraddodiadau â bywyd, a rhyw athrylith gref i berarogli enwau ein dysg-edigion, mae yn ddiau y buasai Cymru yn sefyll yn uwch mewn llawer ystyr nag y saif yn awr. Ond yn awr, awn at yr ail ofyniad,—

A YDYW Y CYMRY MEWN ENWOGION AR OL I GENEDL-OEDD EREILL?

Mewn trefn i benderfynu yr ymholiad hwn yn gywir, mae yn angenrheidiol ei ystyried mewn amrywiol gysyllt-iadau.

Yn gyntaf, Rhaid ei ystyried mewn cysylltiad âg amser.

Digitized by Google

Dylai y genedl a gafodd fil o flynyddoedd i gynyrchu enwogion feddu chwaneg ohonynt na chenedl ag na chafodd ond pum cant, os bydd pob peth arall yn eu sefyllfa yn gyfartal. Yn yr ystyr hon, mae y Cymry wedi cael chwaneg o amser na'u cymydogion; oblegid eu bod wedi eu dwyn o dan ddylanwad Cristionogaeth a chelfyddydau gwareiddiad yn llawer cynt na hwy.

Yn ail, Rhaid ei ystyried mewn cysylltiad âg amgylchiadau y genedl. Os bydd sefyllfa y naill genedl yn fwy ffafriol i gyfodiad enwogion nag eiddo y llall, mae yn rhaid i'r gyntaf gyfodi chwaneg o enwogion na'r olaf cyn y bydd mewn gwirionedd wedi cyfodi cynifer a hi. Rhoddodd y wraig weddw a fwriodd ei dwy hatling i'r drysorfa fwy na'r cyfoethogion a fwriasant eu harian a'u haur i mewn, oblegid hi a roddodd yr oll oedd ganddi, tra na roddasent hwy ond ychydig o'u gweddill. Yn yr ystyr yma, mae y fantais o du ein cymydogion. Maent, nid yn unig yn lluosocach, ond yn well eu hamgylchiadau na ni, ac felly mewn sefyllfa fwy fanteisiol i feithrin talent ac athrylith.

Yn drydydd, Rhaid ei ystyried mewn cysylltiad â nifer y genedl. Ychydig a llawer ydynt eiriau cymhariaethol; yr hyn sydd yn llawer i rai sydd yn ychydig i ereill. Nid yw llawer plentyn ond ychydig i ddyn. Yn yr ystyr yma eto mae y fantais o du ein cymydogion. Dylai yr Ysgotiaid fod wedi cyfodi dau, a'r Seison ddeg, o leiaf, o wŷr enwog am bob un a gyfododd y Cymry, er pan y maent yn cydredeg ar yr yrfa lenyddol, cyn y gellir dyweyd eu bod wedi codi cynifer a'r Cymry.

Yn bedwerydd, Rhaid ei ystyried mewn cysylltiad â'r manteision ac â'r gefnogaeth a gafodd y genedl. Nid ellir dysgwyl i genedl esgeulusedig a gorthrymedig—cenedl na chafodd, nid yn unig ddim cefnogaeth, ond y taflwyd rhwystrau yn fwriadol ar lwybr ei dyrchafiad—gynyrchu cynifer o enwogion a chenedl ffafredig—cenedl ag y mae y llywodraeth a'r cyfoethogion yn ei symbylu yn mlaen—ac un ag y mae ganddi bob manteision i dynu allan ac i berffeithio athrylith ei meibion: yn yr ystyr hon, drachefn, mae y fantais o du ein cymydogion. Ni chafodd y Cymry gefnogaeth gan eu pendefigion eu hunain, heb son am y llywodraeth wladol. Gynt yr oedd pendefigion y cyfandir yn anfon eu plant i Brydain i gael eu haddysgu; ond yn yr oesoedd diweddaf, yr oedd y

Cymry, druain, heb foddion addysg iddynt eu hunain, ac felly o dan orfod i anfon eu plant i Loegr neu Ysgotland i gael eu haddysgu, neu fod heb addysg o gwbl. Nid oedd genym un athrofa i feithrin athrylith, i noddi talent, ac i symbylu ein cenedl i geisio dyrchafiad. Nid yw felly yn awr, mae yn wir. Ond nid i'r llywodraeth, ac nid i'n pendefigion chwaith, yr ydym i ddiolch am athrofeydd Cymru.

Yn awr, ond i ni gymeryd yr holl bethau hyn i ystyriaeth, yr ydym yn meddwl y gwelir achos i newid y "cyn lleied" i "cyn gymaint." Nid ydym yn dyweyd ein bod wedi cyfodi cynifer o enwogion ag a allasem, neu a ddylasem; ond fod Cymru wedi magu cynifer o enwogion yn ol ei rhif a'i hamgylchiadau ag a fagodd Ysgotland neu Loegr. Yn y cyfrif hwn yr ydym yn cymeryd y Cymry y rhai a ragorasant fel llenorion Seisnig i mewn. Bid sicr, ni fydd gan neb wrthwynebiad i ni gyfrif ein cydwladwyr y rhai a fuont yn cyfoethogi llenyddiaeth y Seison; oblegid pe buasai ein holl enwogion wedi ysgrifenu yn Seisneg, ni buasem ond yr un sefyllfa a'r Ysgotiaid, yn yr hon iaith y mae eu holl enwogion hwy wedi ysgrifenu. O ddechreuad y cyfnod Cristionogol, hyd tua dechreu y bymthegfed ganrif, yr ydym yn fwy cyfoethog o enwau anrhydeddus nag un o'n cymydogion. Pwy sydd ganddynt i gystadlu âg Aneurin, Taliesin, a Llywarch Hen, oddigerth Ossian gan yr Ysgotiaid? Pwy a ddeil ei gymharu âg Arthur o'r un oes ag ef? Pwy mor adnabyddus a Morgan, ac yn gydoeswyr iddo? Pwy fel haneswyr i'w gosod ar gyfer y ddau Gildas, Nenius, Caradog, Giraldus, a Sieffre o Fynwy? O'r bymthegfed ganrif i lawr wedi hyny, gallwn nodi degau o Gymry a safent yn y dosbarth blaenaf yn eu hoes. Yn wir, nid hawdd dangos cenedl mor fechan a chyfyng ei hamgylchiadau, wedi magu cynifer o enwogion, a chynyrchu cymaint o lenyddiaeth yn ei hiaith ei hun, ag a wnaeth cenedl y Cymry.

Ond dichon y bydd rhai, er y cwbl, yn barod i haeru nad yw y Cymry, fel cenedl, mor enwog a'u cymydogion yr Ysgotiaid a'r Seison, ac nad ydynt mewn gwirionedd mor uchel a hwy; ac y mae hyny i raddau yn wirionedd. Nid ydym mor adnabyddus a hwy yn y byd. Ni thelir cymaint o sylw i ni ag a wneir iddynt hwy. Yn ddigon mynych eir heibio i ni mor ddisylw a phe na byddem yn

Digitized by Google

bodoli. Nid yw ein henwogion a'u gweithiau mor adnabyddus yn y byd llenyddol a'r eiddynt hwy. Gallwn ymddyddan â dynion goleuedig yn mhob man am Locke, Newton, Milton, Shakespeare, a'u cyffelyb; ond pe soniem am Dafydd ab Gwilym, Dewi Wyn, Dr. W. O. Pugh, John Elias, a'u cyffelyb, wrth neb ond Cymry, deg i un na wyddant ddim amdanynt. Ychydig o weithiau a gyfansoddwyd gan Gymry sydd yn adnabyddus i neb ond ychydig o ddysgedigion. Er fod llawer o weithiau Cymreig yn gyfieithiedig i'r Seisneg, megys Gododin, Aneurin, Hanes y Cymry gan Caradog o Langarfan, Canwyll y Cymry, y Bardd Cwsg, a llawer ereill; ac er fod amryw o'n beirdd wedi cyfansoddi yn Seisneg—Richard Llwyd, a Iolo Morganwg, er engraifft—rywfodd nid oes bron neb o'r Seison yn gwybod dim am eu gweithiau, nac yn wir fod eu hawdwyr erioed wedi byw dan haul. Nid yw yn ymddangos fod yr un ohonynt wedi gwneyd argraff yn y byd ar genedl y Seison. Yr unig eithriadau i hyn yw y rhai hyny a ysgrifenasant yn y Seisneg yn unig, a'r rhai y mae y Seison yn eu hystyried fel yn eiddo iddynt eu hunain, ac nid i ni. Ac nid oes ond ychydig o'r rhai hyny, os un, yn boblog adnabyddus; hyny yw, a'u henwau yn gynefin i glustiau ac ar dafodau y bobl yn gyffredin, fel y mae enwau rhai o ddynion mawrion y ddaear. Mae genym ddau enw, mae yn wir, a ystyrir yn deilwng o'u rhestru yn mysg beirdd clasurol y Seison. Un ohonynt yw Henry Vaughan, yr hwn a anwyd yn Mrycheiniog, yn y flwyddyn 1621, yr hwn, meddir, a ddylai gael chwaneg o le yn mharch y cyhoedd. Y llall yw George Herbert, yr hwn a anwyd Ebrill y trydydd, 1593, yn Nghastell Trefaldwyn. Ysgrifenir yn uchel iawn am ei alluoedd fel bardd ac ysgolor, a rhoddir iddo air da fel cristion, duwinydd, a boneddwr. Ond beth bynag yw teilyngdod y ddau uchod, nid ydynt i'w golygu yn mysg y cymeriadau mwyaf adnabyddus mewn llenyddiaeth. Fe fu genym fardd arall lled enwog ac adnabyddus unwaith, sef John Owen, y penilliwr, yr hwn a anwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn mhlwyf Llanarmon, Sir Ddinbych. Yr oedd mewn bri mawr yn mysg llenorion ei oes; ac fe gyfieithiwyd ei benillion i amryw ieithoedd. Ond yn y Lladinaeg y cyfansoddodd efe, ac nid ydym yn gwybod fod dim o'i benillion yn gyfieithedig i'r Gymraeg. Heblaw hyny, nid oes ond ychydig o Gymry

Digitized by Google

yn gwybod fod y fath Gymro wedi oesi erioed. Gwelsom lythyr amser yn ol yn y *Carnarvon Herald*, oddiwrth un o lenorion Cymru, yn gofyn a oedd neb o ddarllenwyr y newyddyr hwnw yn alluog i roddi ychydig o'i hanes. Ac hyd yn nod pe buasai yn adnabyddus i bob Cymro, ac wedi para yn ei enwogrwydd yn mysg cenedloedd ereill, nid allesid ei ystyried yn un o'r meddyliau galluog sydd yn ffurfio nodweddau cymdeithas, ac yn creu cyfnod newydd yn llenyddiaeth y gwledydd; oblegid dewisodd ymroddi at ddosbarth israddol o farddoniaeth.

Bellach, awn yn mlaen i ystyried

YR ACHOSION NA FUASAI ENWOGRWYDD CYMRU YN FWY, A'I HENWOGION YN AMLACH NAG YDYNT.

Er mwyn cael golwg mor eang ag sydd bosibl mewn gofod byr, ar yr achosion hyn, bydd i ni, yn gyntaf, ddangos yr achos na byddem yn fwy enwog oddicartref ar bwys yr enwogion sydd genym; ac yn ail, yr achosion na byddai chwaneg o enwogion gwirioneddol yn cyfodi yn ein mysg.

Beth yw yr achos na byddem yn fwy enwog oddicartref ar bwys yr enwogion sydd genym? Yr ydym wedi crybwyll o'r blaen mai prin y gwneir cyfiawnder â'r Cymry gan eu cymydogion. Beth yw yr achos o hyny? Paham na thelid iddynt y sylw a deilyngant? Paham na byddai eu henwogion a'u gweithiau yn fwy adnabyddus? Dyna yr ymofynion ag y ceisiwn yn awr eu hateb. Ac

Yn gyntaf, Y mae un achos yn gorwedd wrth ein drws ni ein hunain. Yr ydym yn gosod ein hunain yn isel; ac fel canlyniad naturiol, gosodir ni yn isel gan ein cymydogion hefyd. Nid allwn ddysgwyl i neb dalu i ni fwy o barch nag a dalwn i ni ein hunain. Byddai hyny yn annaturiol. Os dywed neb yn ddrwg am ei dŷ ei hun, pa fodd y gall ddysgwyl i ereill ddyweyd yn dda amdano? Os bydd cenedl yn gwneyd yn fach ohoni ei hun, gellir bod yn sicr mai yn fach y gwneir ohoni gan genedloedd ereill. A chenedl yn gwneyd yn fach ohoni ei hun yw cenedl y Cymry. Ond fe ddichon y bydd rhai yn methu gweled hyn, ac yn barod i gyfeirio at yr areithiau o ganmoliaeth a wneir iddi mewn Eisteddfodau a Chyfarfodydd Llenyddol, fel pe byddent yn ddigonol i'w wrthbrofi. I hyn gellir ateb, fod rhai yn talu teyrnged o barch i'w gwlad oddiar argyhoeddiad ei bod yn ei deilyngu; ond

Digitized by Google

nid yw y rhai hyn ond ychydig o wŷr dysgedig a gwladgarol. Am y lleill, mae lle i ofni eu bod yn ei wneyd oddiar arferiad, neu er mwyn siarad a boddhau y werin; oblegid dyrchafant y Dywysogaeth hyd y ser, gosodant y Cymry yn uwch na phob cenedl dan y nefoedd, gorfolant eu hiaith a'u llenyddiaeth; ond yn ddigon mynych, yn lle tynu ardeb gogoneddus a chywir, maent yn gwneyd digriflun ohono. Cariant eu haeriadau mor bell nes eu gwneyd yn wrthyn. Haerant gymaint fel nad all neb eu credu. Mae canmoliaeth fel hyn yn gwneyd mwy o niwaid nag o les. Ac hyd yn nod yn yr areithiau sydd yn proffesu dyrchafu mwyaf arnom, yn aml mae rhyw un gair, crybwylliad neu addefiad, ag sydd yn tynu mwy arnom i lawr nag y mae yr holl araeth, ond hyny, yn ei godi arnom i fyny. Mewn cysylltiad â hyn, mae un ffaith yn llefaru llawer iawn. Wrth foli a dyrchafu llenyddion Cymreig, y ganmoliaeth uchaf iddynt yn gyffredin fydd eu galw ar enw rhai o enwogion cenedloedd ereill. Os bardd a ganmolir, gelwir ef yn Filton; os cerddor, gelwir ef yn Handel; ac felly yn y blaen; ac y mae hyn cystal ag addefiad nad oes genym ni yr un enw a gyfranai ddim anrhydedd wrth ei roddi i arall. Ac heblaw hyny, nid pob Cymro sydd yn dyrchafu Cymru. Mae llawer ohonynt yn ei gosod, mewn rhai ystyriaethau, mor isel fel y mae yn anhawdd ei gosod yn îs; ac y mae y dynion hyn, yn y cyffredin, y rhai tebycaf o gael eu credu gan estroniaid; nid am eu bod yn gwybod mwy nag ereill am Gymru, ond am eu bod yn fwy o Seison, ac yn llai o Gymry. Y Cymry boneddigaidd a Seisnig yw y rhai hyny. Ie, hwy ydynt y rhai sydd yn ein gwaradwyddo yn mysg ein cymydogion. Nid pawb ohonynt, ond y rhan luosocaf, ar ol eithro yr ychydig ddynion dysgedig sydd yn eu mysg. Os oes eisieu ffaith i brofi y pethau hyn, mae un i'w chael yn eithaf didrafferth. Trowch i'r "Llyfrau Gleision," a darllenwch y cymeriad a roddir i Gymru gan Gymry a ddylasent fod yn gwybod ei gwir sefyllfa. Y gwirionedd yw, fod mwy o Gymry nag a feddyliodd rhai yn arfer gosod eu cenedl yn isel, a hyny yn ngŵydd ei chymydogion. Pa ryfedd, gan hyny, ein bod yn anenwog yn y byd? A phaham y cwynwn fod ereill yn talu ychydig o sylw i ni, gan mai ni ein hunain sydd yn eu dysgu i wneyd hyny? Dysgwn barchu ein hunain, ac fe gawn barch gan ein cymydogion.

Digitized by Google

Yn ail, Nid ydym ond cenedl fechan o ran rhifedi a phwysigrwydd yn mysg cenedloedd y byd. Mae yn ddigon naturiol i genedl fawr fod yn fwy adnabyddus a pharchus na chenedl fach, ac i enwogion y gyntaf gael mwy o sylw nag eiddo yr olaf; oblegid y maent yn cynddrychioli mwy o allu, mawredd, a dylanwad. Yn yr ystyr hon yr ydym ni yn llafurio o dan anfanteision dirfawr. Nid ydym yn llenwi ond lle bychan yn y gymdeithas ddynol. Pe difodolid ni fel cenedl, prin y gwyddai y byd ein colli. Mae y mynydd mawr, yr afon fawr, a'r môr mawr, yn tynu sylw pawb; ond prin y gŵyr neb am y bryn, y nant, a'r llyn, hyd yn nod yn yr ardal nesaf atynt. Yr ydym ni yn debycach i'r bryn nag i'r mynydd; ac nid yw yn rhyfedd fod y byd yn gwybod ychydig amdanom. Heblaw hyny, nid oes genym frenin na llywodraeth i'n cynddrychioli fel cenedl. Mae ein cysylltiad uniongyrchol â gwledydd y ddaear wedi ei dori ymaith. Yn anaml y mae neb o dan angenrheidrwydd i ymwneyd â ni, neu i son amdanom. Yr ydym wedi cael ein gyru i dir neillduedd, lle nad yw yn hawdd i neb ein canfod. Mae ein lle mewn hanesyddiaeth wedi cael ei ddwyn oddiarnom. Edrychir arnom fel cenedl wedi marw; a'r cwbl a wneir gan haneswyr, yn gyffredin, yw crybwyll ychydig amdanom yn yr oesau gynt.

Yn drydydd, Mae ein hiaith, ar rai ystyriaethau, yn ein cuddio o olwg y byd. Ychydig sydd yn alluog i siarad â ni, neu i ddarllen ein llyfrau, yn ein hiaith ein hunain. Ni feddwn gymhellion digon cryfion i ddenu y lluaws i'w hefrydu. Nid oes digon o drysorau llenyddol ynddi i ofyn lle iddi yn yr ysgolion dyddiol, nac yn yr athrofeydd, mewn un man ond Cymru. Nid yw masnach chwaith yn rhwymo neb i'w dysgu. Gall y byd fyned yn ei flaen o'r goreu hebddi. Nid yn aml y teimlir angen am ei gwasanaeth. Mae dynion yn gallu gwneyd hebddi o'r goreu hyd yn nod yn Nghymru. Er hyny, mae ein llenorion yn ysgrifenu eu meddyliau ynddi; a'r canlyniad yw, nad oes neb o'r tu allan i'w chylch yn adnabod eu henwau, nac yn teimlo eu dylanwad. Pe gallesid dwyn y byd i gysylltiad uniongyrchol â meddyliau bywiog Dewi Wyn, mae yn dra thebyg y teimlasid ei allu, ac y gwasgaresid ei glod yn mhell. Ond yr oedd iaith Dewi yn wahanfur rhyngddo a phawb ond y Cymry, ac fe fu yntau farw heb i'r byd deimlo dim oddiwrtho, na gwybod dim amdano.

Digitized by Google

Pe buasai digon o bwys yn y Gymraeg i dynu estroniaid i'w dysgu, gallasai fod yn wahanol; ond nid oes: mae pawb yn ei gosod i farw. Oni bae ei henafiaeth a'i chysylltiad â ieithoedd ereill y byd, prin y meddyliai neb am ei hefrydu. Hyd yn hyn y mae ei phwysigrwydd yn ymddibynu bron yn gwbl, a llefaru yn gymharol, ar ei gwaedoliaeth a'i hoedran. Ond mor wahanol yw cenedl y Seison, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod, y rhai ydynt wedi syrthio i iaith y Seison, yr hon iaith a lefarir gan ran fawr o drigolion y byd. Pan gyfyd gŵr enwog yn eu mysg hwy, melltenir ei enw yn y fan dros wyneb yr holl ddaear bron, darllenir ei weithiau gan ddegau o filoedd, cyhoeddir ei enw yn uchel, a daw y miloedd estroniaid a ddeallant ei iaith i wybod amdano, a chydunant i ddyrchafu ei glod.

Yn bedwerydd, Nid yw hanes y Cymry yn cael ei wneyd yn rhan o addysg mewn ysgolion. Nid ydym yn meddwl fod un ysgol yn Lloegr lle mae hanes y Cymry yn mysg rhestr y testynau a ddysgir ynddi. Gall dyn gael ei ystyried yn ysgolor perffaith heb wybod dim am y Cymry, oddigerth ychydig o ffeithiau cyffredinol yn eu cylch hyd ddyfodiad y Seison i'r ynys. Nid yw anwybodaeth lwyr ohonom yn un sarhâd i'r ysgolor penaf yn ngolwg y byd. Y canlyniad naturiol o hyn ydyw anwybodaeth o deilyngdod ein cenedl, a rhagdybiaeth nad oes dim teilyngdod yn perthyn iddi. Felly, nid yw yn rhyfedd fod Cymru yn ddinod. Pe yr ymddygid at Loegr fel yr ymddyga hi at Gymru, dinod fyddai hithau hefyd; a phe ymddygid at Gymru fel yr ymddygir at rai cenedloedd ereill—hyny yw, pe efrydid ei hanes—fe fyddai yn llawer mwy enwog yn y byd nag yw yn awr. Ond y peth rhyfeddaf a mwyaf anesboniadwy mewn cysylltiad â hyn ydyw, fod hanes y Cymry yn cael ei esgeuluso yn Nghymru. Yn ein hysgolion fe hyfforddir ein plant yn hanes a llenyddiaeth y Seison, a chenedloedd ereill, ond ni feddwn un ysgol lle yr hyfforddir hwynt yn eiddo ein cenedl ein hunain. Fel canlyniad naturiol i hyn, mae llawer o Gymry yn gwybod mwy am bob cenedl nag am genedl y Cymry, ac yn tybied fod pob un yn annhraethol uwch na'u cenedl eu hunain. Ac i hyn, mae yn ddiddadl, y rhaid priodoli yr iselhâd a'r dirmyg a daflwyd ar Gymru gan rai o'i phlant, ac a deflir arni eto hyd oni symudir ymaith yr esgeulusdod gwarthus hwn. Mae y ffaith nad

Digitized by Google

yw plant y Cymry yn cael eu hyfforddi yn hanes a llenyddiaeth eu cenedl eu hunain, y dirmyg penaf ar ein gwlad ag y mae yn hawdd meddwl amdano. Hunan-sarhâd o'r fath wrthunaf ydyw. Nid yw ddim amgen mewn effaith na dysgu y plant i gasau, i feddwl yn fach, ac i ddirmygu eu cenedl. Mae yn anmhosibl i genedl, tra bydd yn euog o esgeulusdod gwrthyn fel hwn, fod yn enwog.

Yn bumed, Yr ydym wedi bod yn rhy esgeulus o goffadwriaeth ac o weithiau ein henwogion. Mae cenedloedd ereill yn gwneyd egni i ddal i fyny yn barhaus enwau a gweithiau eu dynion mawr ar wyneb cymdeithas. Gwneir hwynt yn wastadol yn destyn darlithiau, adolygiadau, a bywgraffiadau. Dygir argraffiad ar ol argraffiad o'u gweithiau drwy y wasg. Cymerir poen a thrafferth i ddwyn eu teilyngdod a'u rhagorion i olwg y bobl. Ond nid felly y gwnawn ni. Mae canoedd o gyfrolau o waith ein beirdd a'n llenorion wedi myned yn ymborth i ddinystr trwy ddiofalwch ein cenedl; ac y mae canoedd lawer eto yn aros mewn ysgrifen o ddiffyg cefnogaeth ddigonol i'w cyhoeddi. Mae rhai o'n cenedl yn hoffach o ddarlithio ar enwogion cenedloedd ereill nag ar eiddo ein cenedl ein hunain. Mae gweithiau ein beirdd mor brin ac anhawdd eu cael bron a bathodau Cunobelin. Mae rhai o'r llyfrau mwyaf gwerthfawr mewn cysylltiad â Chymru mewn iaith nad yw y bobl yn ei deall, ac o ran eu pris allan o gyraedd y bobl gyffredin, ac nid oes un ymdrech yn cael ei gwneyd i lenwi y diffyg i fyny. Nid oes yr un cynllun eang ar droed i ddwyn gweithiau ein henwogion i gyraedd y bobl; ac nid yw yn ymddangos fod awydd mawr am eu cael chwaith. Maent yn ddigon boddlawn i'w henw a'u gweithiau fyned ar goll yn dragywydd. Nid ydynt yn ymddangos fel yn cymeryd unrhyw ddyddordeb ynddynt, yr hyn a ddengys eu bod mewn perffaith anwybodaeth ohonynt. Ond y mae yr achos o hyn yn gorwedd i gryn raddau wrth ddrysau ein cyhoeddwyr a'n llenorion. Mae y cyntaf yn meddu rhy fach o ysbryd anturiaethus, onidê fe ddygent ein hen drysorau allan o'u cuddfanau, fe gyhoeddent eu gwerth i'r byd, fe ddangosent eu rhagoriaethau, ac fe gynyrchent ddigon o ddyddordeb ynddynt i sicrhau llwyddiant ar yr anturiaeth. Mae yr olaf yn esgeuluso eu dyledswydd at y cyhoedd, ac at ein henwogion a'u gweithiau, trwy beidio gwneyd ymdrech i'w

Digitized by Google

gwneuthur yn adnabyddus. Mae rhai, mae yn wir, wedi gwneyd gwasanaeth mawr i'n cenedl trwy gasglu hen ysgriflyfrau, a dwyn gweithiau hen a phrin i oleu dydd; megys Ieuan Brydydd Hir, Owain Myfyr, Iolo Morganwg, Dr. W. O. Pughe, ac ereill; anrhydedd i'w henwau am hyny; ond nid oeddent hwy ond eithriaid; eu hesgeuluso yw y rheol gyffredin. Heblaw hyny, nid oes ond ychydig o'r ysgriflyfrau a gasglwyd gan y rhai a nodwyd, ac ereill, wedi cael eu cyhoeddi, nac un golwg chwaith am iddynt gael eu cyhoeddi yn fuan, os byth. Ychydig iawn o ymdrech sydd wedi cael ei wneyd i gadw hanes a choffadwriaeth ein henwogion yn fyw. Gellir dyweyd yn ngeiriau y Dr. Pughe, yn ei fraslun o fywyd Dafydd ab Gwilym,—"The personal history of the most eminent poets has been known only to their contemporaries, or at most survived a few years after their decease in the loose and uncertain report of oral tradition." Yn nghanol y fath esgeulusdod a diofalwch a hwn, pa fodd y mae yn bosibl i genedl fod yn enwog? Tra byddom yn anadnabyddus o hanes a gweithiau ein henwogion ein hunain, pa fodd y gallwn ddysgwyl iddynt fod yn adnabyddus i genedloedd ereill? Ac heb iddynt fod yn adnabyddus, pa fodd y gallwn fod yn enwog?

Yn chweched, Mae y Seison, rai gweithiau, yn trawsfeddianu enwogrwydd a berthyn yn wirioneddol i ni. Mewn un cyfieithiad o hanes rhyfeloedd Julius Cæsar yn Gaul a Phrydain, ganddo ei hun, rhoddir y gair Seison yn mhob man yn lle y gair Prydeiniaid, neu Gymry, fel pe byddai y gair Seison a'r gair Prydeiniaid yr un ystyr, pan, mewn gwirionedd, na ddaeth y Seison i'r ynys hon am yn agos i bum can mlynedd ar ol amser Cæsar. Gosodir ein henafiaid allan gan y nifer amlaf o'u haneswyr fel barbariaid hollol, er fod yn hawdd profi, fel y dangosa Whittaker, eu bod wedi cyraedd gradd uchel o wareiddiad. Mae awdwr y *Pictorial History of England* fel yn ofni yn ei galon rhag iddo wneyd un sylw ffafriol i'r Cymry, ac yn amcanu hyd y mae ynddo, daflu amheuaeth i feddwl y darllenydd mai nid disgynyddion yr hen Frydeiniaid, fel y tybir yn gyffredin, yw y Cymry, ond disgynyddion y Pictiaid; ac y mae yn gwneyd hyny, nid yn unig heb un ddadl debygol o fod yn wir o'i blaid, ond yn groes i'r ffeithiau a'r profion mwyaf diamheuol. Trowch i Eiriaduron Bywgraff-

Digitized by Google

yddol y Seison, a gwelwch yn union mai ychydig iawn o le a roddant i enwogion Cymreig; a gwelwch hefyd, os yn lled gyfarwydd mewn pethau o'r natur yma, fod gan y Cymry, er hyny, gryn nifer a deilyngant gael bod i mewn, neu fod ynddynt hwy amryw a ddylent fod allan. Heblaw hyny, galwant rai yn Seison pan y dylent eu galw yn Gymry. Am fod Syr William Jones yn enedigol yn Llundain, galwant ef yn "Sais dysgedig." Yr un modd y gwnant gyda John Owen, D.D., ac amryw ereill. Gan eu bod yn ddynion dysgedig a gwir fawr, cymerant yr anrhydedd a berthyn iddynt yn feddiant iddynt eu hunain. Esgeulusant yn fynych hysbysu fod gwaed Cymreig yn eu gwythenau. Maent am lyncu y Cymry i fyny ynddynt eu hunain, os gallant; ac am hyny ni chlywir hwy ond yn anfynych yn son am "*Wales*" a "*Welsh*," gan y rhoddant y naill a'r llall o'r golwg yn "*England*" a'r "*English*." Paham na wnaent yr un modd gyda yr Ysgotiaid a'r Gwyddelod, nis gwyddom, oddigerth eu bod yn tybied fod y Cymry yn ddigon llyweth a mulaidd i ddyoddef pob sarhâd a deflir arnynt yn ddirwgnach, pan y gwyddant nad yw y lleill felly yn y gradd lleiaf.

Fel hyn, trwy y naill achos a'r llall, y mae enw Cymru yn cael ei gadw yn îs nag y dymunai Cymro gwresog iddo fod, ac yn îs hefyd nag y dylai fod. Fe ellid nodi amrywiol achosion ereill; ond y mae y rhai a nodwyd yn barod yn ddigon i ateb pob dyben buddiol mewn traethawd brysiog fel yr un hwn.

Gan hyny, awn yn mlaen i sylwi ar yr achosion fod cyn lleied o enwogion yn cyfodi yn Nghymru. Wrth ddefnyddio y geiriau hyn, nid ydym mewn un modd yn addef mai ychydig o enwogion a fagwyd yn Nghymru, ac ystyried ei bychanrwydd a'i hamgylchiadau; ond addefwn yn rhwydd y gallasai, o dan amgylchiadau mwy ffafriol, gynyrchu chwaneg; ac y mae yn werth i ni ymholi beth a'i rhwystrodd i wneyd hyny. Yr ydym wedi dangos, mewn cysylltiad arall, fod ei hiaith, a bychanrwydd ei nifer, yn achosion fod cyn lleied o enwogion yn cyfodi yn mysg cenedl y Cymry; ac am hyny awn heibio iddynt yn y cysylltiad hwn. Ond rhag i ni gael ein camddeall, bydd yn well i ni hysbysu nad ydym, wrth ddefnyddio y gair *achos*, yn golygu *angenrheidrwydd*. Mae y tân yn llosgi o angenrheidrwydd—nid all beidio llosgi pob

Digitized by Google

peth llosgadwy a ddygir i gysylltiad âg ef. Ond nid yw bychanrwydd ein nifer fel cenedl, na'n hiaith, na dim arall, o angenrheidrwydd yn attal cyfodiad enwogion yn Nghymru. Mae yn bosibl eu gwrthweithio. Er hyny, y maent yr hyn a ellir ei alw yn ail achosion.

Yr achos cyntaf a nodwn na fuasai chwaneg o enwogion wedi cyfodi yn Nghymru ydyw, Diffyg moddion addysg. Wrth ddarllen hanes ein henwogion, canfyddwn fod llawer iawn ohonynt wedi derbyn eu dysgeidiaeth allan o Gymru. Yn Westminster, Rhydychen, Caergrawnt, Glasgow, neu Edinburgh, y cafodd y nifer amlaf ohonynt eu haddysgu. Cyfarfyddir âg enw ambell un a addysgwyd yn Ysgol Ramadegol Rhuthyn, a manau ereill, yn Nghymru. Yr achos o hyn oedd fod ysgolion da yn brinion yn Nghymru. Yr oeddem, hyd yn ddiweddar, heb athrofa o fath yn y byd; ac yr ydym heb brifysgol hyd y dydd hwn. Y canlyniad yw, fod y rhai a allant, yn anfon eu plant allan o Gymru i dderbyn eu dysgeidiaeth, yn enwedig dysgeidiaeth o'r radd uchaf; a'r canlyniad o hyny yw, fod llawer o'r cyfryw blant yn cael eu colli i Gymru yn gyfangwbl. Deuant i hoffi iaith a llenyddiaeth y Seison, ac weithiau i edrych yn ddirmygus ar eiddo eu cenedl eu hunain. Gosodant eu hunain i fod yn Seison hollol hyd y gallant. Ac y mae hyn yn ddigon naturiol. Anfonwch ddyn ieuanc i Ffrainc i dderbyn ei ddysgeidiaeth, ac y mae yn ddeg i un y bydd yn haner Ffrancwr pan ddaw yn ol. Yr oedd ei feddwl yn wag pan aeth yno. Yr oedd yn amddifad o gydnabyddiaeth agos â nemawr ddim heblaw teganau plant. Ond yn yr ysgol yn Paris llenwir gwagle ei feddwl i fyny; dygir ef i gydnabyddiaeth â meddyliau mawr y genedl. Yno y cafodd olwg eglur gyntaf ar y byd a'i wrthddrychau; a phrin y gall gredu y gallasai byth weled na gwybod cymaint mewn un wlad arall. Ac wedi hyny, rhywbeth Ffrancaidd, ond odid fawr, fydd yn ei feddwl ac ar ei dafod amlaf dros weddill ei oes. Ac yr un effaith a ddylynai ei fynediad i unrhyw wlad arall, i ryw raddau o leiaf. Pe anfonid gŵr ieuanc o Loegr i Gymru i dderbyn ei ddysgeidiaeth, nid allai lai na derbyn ychydig o ysbryd a delw y Cymry cyn yr âi yn ol; yn enwedig os Cymro dysgedig a gwladgarol a fyddai ei athraw. Fe fu Mrs. Hemans, enw yr hon a ddylai fod yn anwyl gan bob Cymro, yn byw am amser yn Ngogledd Cymru, ac fe yfodd yn hel-

Digitized by Google

aeth o ysbryd y Cymry. Do, a hi a roddodd iaith i draddodiadau ac amgylchiadau ein cenedl nad allasai neb heb ysbryd a theimladau y Cymro ei rhoddi. Fe welodd fel â llygaid, fe glywodd fel â chlustiau, fe deimlodd fel â chalon, Cymraes; ac fe ddarluniodd y pethau a welodd, a glywodd, ac a deimlodd, mor naturiol ac ysplenydd yn ei chaniadau, nad allai y Cymro gwresocaf ddymuno iddynt gael eu darlunio yn well.

Pe buasai genym ysgolion yn Nghymru cyfartal o ran eu gwerth âg eiddo y Seison a'r Ysgotiaid, nid yw yn debygol yr anfonasai yr uchel a'r canolradd eu plant allan o Gymru i gael eu haddysgu; a phe buasai plant ein pendefigion ac ereill wedi derbyn eu dysgeidiaeth yn Nghymru, fe fuasent, mae yn dra thebygol, yn fwy gwladgarol; fe wnaethent fwy dros Gymru; buasai sefyllfa ein cenedl yn agosach at eu calon; noddasent chwaneg ar ein llenorion; cyfoethogasent ein llenyddaeth Gymreig yn lle eiddo y Seison; ac mewn canlyniad, buasai genym chwaneg o enwogion gwir Gymreig i ymffrostio ynddynt. Heblaw hyny, buasai bodolaeth ysgolion uchel, a phresenoldeb dynion dysgedig, yn ein mysg, yn nghyda dylanwad yr anrhydedd a delir i berchenogion athrylith a dysgeidiaeth, yn sicr o effeithio ar yr iselradd, ac o dynu athrylith canoedd ohonynt allan. Buasent yn tynu sylw y trigolion at ddysgeidiaeth; rhoddasent symbyliad i efrydwyr tlodion yn eu hymofyniad am wybodaeth; a gwnaethent i lawer bachgen tlawd, ond athrylithlawn, osod ei nod yn uchel, a phenderfynu ei gael er gwaethaf pob anfanteision. Ond nid oedd yn Nghymru na phrifysgol, nac athrofa, na nemawr o ysgolion cyffredin gwerth son amdanynt. Yr oedd hyn yn annghyfleusdra i'r uchel a'r canolradd; ond i'r tlodion yr oedd yn golled annhraethadwy. Nid allent hwy anfon eu plant i Loegr i gael eu haddysgu. Yn gyffredin, nid oedd y rhai a ddylasent gymeryd dyddordeb yn eu dysgeidiaeth, yn gofalu am un peth ond am ddegwm y tir yn gyflog am wneyd dim; ac felly gorfodid y tlodion gan amgylchiadau i fyw mewn dygn anwybodaeth. Ac nid oedd ond rhyw un yn awr ac yn y man yn amcanu dwyn moddion addysg i gyraedd y tlodion, megys Rhys Prichard, Gouge, Griffith Jones, a Mrs. Bevan. Yr oedd ein boneddigion, yn llëyg a llên, yn gallu edrych yn eithaf didaro ar anwybodaeth y bobl. Nid oedd nemawr neb yn tosturio wrthynt. Yr

Digitized by Google

oedd y rhai a ddylasent wybod am eu sefyllfa, a theimlo drostynt, yn gallu gadael miloedd o bunau at helaethu moddion addysg yn Lloegr ac Ysgotland, heb roddi dimai goch at ddwyn moddion addysg i Gymru, lle yr oedd cymaint o angen amdanynt. Chwaneger at hyn eto, fod llawer o'r cymunroddion gadawedig at gynal ysgolion yn cael eu hysbeilio gan offeiriaid bydol a gwancus; a gwelir fod sefyllfa Cymro, o ran moddion addysg, yn wir druenus; ac nid yw yn syndod fod rhifedi ei henwogion yn llai nag y dymunai ambell Gymro gwresog iddynt fod. Ond y mae amgylchiadau ein cenedl, fel yr awgrymasom o'r blaen, wedi newid er gwell: mae genym athrofeydd ac ysgolion da lawer; ac yn y man fe fydd ein henwogion yn llawer amlach nag ydynt yn awr.

Yn ail, Diffyg cefnogaeth. Yn yr hen amseroedd, yr oedd ein llenorion o dan nodded uniongyrchol y gyfraith. Wedi hyny cefnogid hwy gan y tywysogion a'r pendefigion. Ond pa gefnogaeth a roddir i lenor ieuanc Cymreig, na hen chwaith, pa mor deilwng bynag a fyddont, y dyddiau hyn? Pan wnelo dyn ieuanc gobeithiol ei ymddangosiad yn mysg y Seison, sicrheir iddo, yn dra chyffredin, ryw swydd ag y gallo gael hamdden ynddi i ddylyn ei hoff efrydiaeth, os bydd o ran ei amgylchiadau mewn angen am y cyfryw. Nid oes ond ychydig o amser er pan wnaeth Alexander Smith ei ymddangosiad yn gyhoeddus trwy gyhoeddi ei *Drama of Life*, ac yn barod y mae wedi cael dwy swydd yn y rhai y gall gael hamdden a manteision i fyned rhagddo yn ei yrfa lenyddol. Ond pa lenor ieuanc Cymreig a gefnogwyd felly gan frenines, pendefig, na chymdeithas? Gadewir i'r Cymro athrylithlawn ddihoeni ei ysbryd mewn tlodi, heb amdden, manteision, na moddion i berffeithio ei hunan yn ei hoff efrydiaeth. Mae cefnogaeth y cyffredin yn Lloegr yn ddigon ei hun i osod awdwr o deilyngdod diamheuol mewn sefyllfa annibynol, hyd yn nod pe na byddai un gefnogaeth arall iddo i'w dysgwyl. Ond yn Nghymru mae cefnogaeth y wlad yn yr ystyr hon yn aneffeithiol i sicrhau hamdden na moddion i'r mwyaf athrylithlawn gysegru ei oes i wasanaethu llenyddiaeth ei genedl. Mae y Cymry yn prynu ac yn darllen cynifer o lyfrau ag unrhyw genedl, yn ol eu rhif a'u hamgylchiadau; ond gan fod y mwyafrif ohonynt yn dlodion, maent yn analluog i brynu llawer, yn enwedig o lyfrau uchelbris. Mae llawer o'r canolradd, drachefn, yn

Digitized by Google

hollol ddidaro am feddianu llyfrau Cymreig; ac am yr uchelradd, maent hwy o ran eu hiaith wedi myned yn Seison bron i gyd, fel nad ydynt yn alluog i ddarllen llyfrau Cymreig, hyd yn nod pe byddent yn awyddus i gefnogi ein llenyddiaeth, yr hyn, ar ol gwneyd ychydig o eithriadau, nid ydynt. Fel hyn, mae darllenwyr llyfrau Cymreig ag ydynt yn alluog i gefnogi awdwyr gobeithiol yn effeithiol, yn hynod brin—mor brin fel nad ellir gwneyd i lyfr Cymreig ddwyn ond ychydig o elw i'r cyhoeddwr. Fe fydd yn dda weithiau os gellir gwneyd i lyfr dalu traul ei gyhoeddiad. Pan fyddo dyn athrylithlawn wedi ymbriodi âg unrhyw wybodaeth, y nod ag y mae ei enaid yn dyheu amdano ydyw rhyw sefyllfa lle gall gael hamdden a manteision i ddylyn ei efrydiaethau. Ond yn Nghymru nid oes ond un ffordd ag y gall gyraedd ei nod ar hyd-ddi, sef ffordd y weinidogaeth. Yn ofer y trŷ ei wyneb at y llywodraeth wladol; mae hono heb wybod eto fod llenor Cymreig yn deilwng o gefnogaeth. Yn ofer yr edrych i fyny at ein pendefigion; maent hwythau wedi penderfynu mai eu dyledswydd hwy ydyw ei esgeuluso. Hwyrach ei fod wedi darllen neu glywed fod y Seison wedi codi trysorfa i wneyd rhyw fardd hoff ganddynt yn annibynol ar waith; ond yn ofer y dysgwylia i'w gydwladwyr wneyd dim felly iddo ef. Mae meddwl wedi hyny am enill annibyniaeth trwy gyhoeddi cynyrchion ei fyfyrdodau, mor ofer ag un o'r lleill. Felly, nid oes dim ond y weinidogaeth yn alluog i roddi y gefnogaeth leiaf iddo. Os nad all gael myned yn "berson" neu yn weinidog, neu os na fyn fod y naill na'r llall, mae pob drws wedi cau arno ar unwaith. Gymry, os yw eich enwogion yn brin, pa syndod sydd yn hyny? Ar bwy y mae y bai? Pa sawl athrylith a lofruddiasoch trwy eich oerni a'ch diofalwch? A ydych chwi yn dysgwyl i athrylith fyw heb fwyd? A wyddoch chwi pa sawl meddwl mawr a gollwyd am nad ydych chwi wedi dysgu fod rhwymau arnoch i'w cefnogi? Cofiwch fod y genedl nad yw yn gofalu am, nac yn cefnogi ei llenorion, yn annheilwng o enwogion.

Yn drydydd, Amddifadrwydd o gymhellion digon cryfion i dynu yr ieuenctid yn mlaen yn ngwyneb anfanteision. Mae yr achos hwn yn rhan o'r un a eglurwyd ddiweddaf; ond gan ei fod yn alluog o eglurhâd gwahanol, tybiasom y byddai yn well ei nodi ar wahân. Mae yr ymdrech a wna dyn mewn unrhyw beth yn rhwym o

Digitized by Google

fod yn gyfartal i amledd a grym y cymhellion fydd yn ei dynu. Y cymhellion a dynant ddynion yn gyffredin i dreulio eu hamser, i lafurio yn galed, ac i ymwadu â llawer o fwynderau cyffredin bywyd—yr hyn bethau ydynt yn angenrheidiol er cyflawni gorchestion llenyddol, ac enill enwogrwydd na bydd perygl ei golli—ydynt,—hoffder at wybodaeth, ymawyddiad am wneyd daioni, dymuniad am ragori, cariad at glod ac enwogrwydd, a gobaith am elw a dyrchafiad. Mae yn bosibl i rai o'r cymhellion hyn weithredu ar y llenor Cymreig, ac y maent yn gweithredu, pe amgen, ni buasai y fath gymeriad mewn bod; ond rhai ohonynt sydd yn gweithredu, ac y mae anobaith am unrhyw les neu ddyrchafiad personol yn gwrthweithio y rhai hyny. Beth all gymhell Cymro i dreulio ei oes i efrydu seryddiaeth yn ei mawredd eithaf, ac i ysgrifenu llyfrau dysgedig arni yn yr iaith Gymraeg? Pe byddai iddo wneyd hyny, nid yw yn sicr y gallai byth eu cyhoeddi; a phe gallai eu cyhoeddi, prin y gallai ddigolledu ei hunan yn yr anturiaeth, heb son am gael elw i dalu iddo am ei lafur yn eu cyfansoddi. Mae y rhagolygiant ar lwyddiant yn rhy dywyll i gymhell nemawr neb i dreiddio i ddyfnderoedd unrhyw wyddor ddysgedig ac uchel. Oblegid hyn, mae y gwyddorau uchel a dysgedig yn cael eu hesgeuluso, ac yr ydym heb nemawr o weithiau gwreiddiol a dysgedig arnynt. Yr achos yw, fod y cymhellion yn rhy weinion i ddenu meddyliau y Cymry i ymgymeryd â hwy; ac fel canlyniad, mae ein henwogion ynddynt yn brin, a phrin hefyd a fyddant, hyd oni ellir rhoddi gwell rhagolygiant i efrydwyr yn mha wybodaeth bynag y dewisont ymaflyd.

Yn bedwerydd, Mae y cyfleusderau i efrydu gwahanol wybodaethau yn brin. Yr oedd moddion addysg yn ddiffygiol iawn, ond yn awr mae y diffygion yn cael eu gwneyd i fyny yn brysur. Mae ysgolion dyddiol o ryw fath bron yn mhob ardal, ac ysgolion Sul yn mhob man. Mae ysgolion nosol a chymdeithasau llenyddol hefyd yn barod i roddi llaw o gymhorth i bob un awyddus am ddysgeidiaeth a gwybodaeth, fel nad oes achos i neb fod yn hollol anniwylliedig a diddysg. Er hyny, mae cyfleusderau a moddion i efrydu amryw o gangenau gwybodaeth yn brin ac anhawdd eu cael i'r Cymro uniaith ar y mynyddau. Golyger fod gan Gymro ieuanc dalent a thuedd i efrydu henafiaethau, yn enwedig henafiaethau



Digitized by Google

Cymreig, i ba le y try ei wyneb am ddefnyddiau i weithio ei dalent a'i duedd allan? Nid llawer o lyfrau dysgedig ar henafiaethau Cymreig sydd yn ein hiaith, ac y mae yr ychydig mewn cymhariaeth sydd ynddi yn brinion ac anhawdd eu cael. Nid allai efrydu y wybodaeth hon yn llwyddianus heb gyfle i chwilio neu i feddianu gweithiau ein hen feirdd, a chroniclau ac olion yr oesau gynt. Dylai gweithiau Aneurin, Taliesin, Llywarch Hen, cyfreithiau Dyfnwal Moelmud a Hywel Dda, y Trioedd, Mabinogion, Brut y Breninoedd, Achau y Saint, a lluaws ereill, fod yn gyraeddadwy iddo yn Gymraeg. Nid allai wneyd yn dda heb y *Myvyrian Archaiology*, a llawer o lyfrau ereill a gyhoeddwyd o dan nodded Cymry dysgedig a gwladgarol. Ond pa fodd y gall Cymro uniaith, nac yn wir Cymro dwyiaith, ar y mynyddau, gael gafael ar y rhai hyn, er iddo fod mor athrylithlawn ag angel? Os yw yn dlawd, gall ganu yn iach i bob meddwl am eu meddianu, oblegid eu pris; ac hyd yn nod pe byddai ganddo fodd i'w prynu, gallai dreulio haner ei oes cyn llwyddo i gael gafael arnynt. Ond y mae y gweithiau mwyaf dysgedig ar henafiaethau Cymreig yn yr iaith Lladin a'r Seisneg, ac nid allai fyned yn mlaen yn llwyddianus hebddynt. Ond pa fodd y gallai ef eu meddianu? Mae y rhan amlaf ohonynt yn uchelbris, ac amryw y nesaf peth i fod yn annghaffaeladwy. Y gwirionedd yw, eu bod, yn mhob ystyr ymarferol, allan o gyraedd y bobl gyffredin. Ond ni byddai meddianu y rhai hyn yn ddigon i alluogi y Cymro i gyraedd y radd flaenaf fel henafiaethydd. Byddai arno eisieu chwilio hen awduron y Groegiaid, ac yn neillduol hen awduron y Rhufeiniaid, i edrych beth sydd ganddynt hwy i'w draethu am ein henafiaid. Wedi hyny deuai croniclau y Seison, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod i gael eu chwilio ganddo; oblegid gan eu bod yn dwyn cysylltiad mor agos â ni, nid allwn fyned heibio iddynt yn ddisylw. A chan mai brodyr i ni yn ol y cnawd oedd gynt yn preswylio yn Ffrainc, a bod brodyr diamheuol i ni yn preswylio rhan ohoni hyd y dydd hwn, byddai arno awydd cryf i wybod a oes dim yn henafiaethau y wlad hono i daflu goleuni ar henafiaethau Cymreig. Ond leied o'r holl bethau hyn, a llawer yn chwaneg a allesid enwi, sydd yn nghyraedd y Cymro ar y mynyddau! Ac y mae cyfleusderau a moddion i efrydu amryw ereill o gangenau gwybodaeth yr un mor brin yn Nghymru. Pa fodd y

Digitized by Google

gellir dysgwyl i enwogion gyfodi ar fynyddau Cymru, yn ngwyneb y fath anfanteision? Mae y cyfleusderau a'r moddion yn eisieu; ac hyd oni wneir yr eisieu i fyny, fe fydd yr enwogion yn y gwybodaethau hyny yn eisieu hefyd.

Yn bumed, Diffyg siamplau nodedig i ddylanwadu ar yr ieuenctid er eu symbylu i weithgarwch. Mae grym mawr mewn siampl. Mae beirdd yn gwneyd beirdd, henafiaethwyr yn gwneyd henafiaethwyr, a duwinyddion yn gwneyd duwinyddion. Mae hyn yn tarddu oddiar y duedd sydd mewn dyn i efelychu gweithredoedd rhinweddol, clodfawr, neu feiddgar dynion ereill, a'i awydd i geisio rhagori arnynt. Dringed un bachgen i ben coeden uchel, ac fe geir dwsin ereill a ddringai iddi yn y fan, pa faint bynag o berygl fyddai yn nglŷn â hyny. Eled un teithiwr i ben yr Alpau, ac y mae yn ddeg i un y ceisia y teithiwr nesaf fyned i fyny hefyd. Tored unrhyw un dir newydd mewn llenyddiaeth, ac enilled iddo ei hun enwogrwydd mawr drwy hyny, ac y mae rhywun yn sicr o fyned dros yr un tir ar ei ol. Oblegid hyn, mae bywgraffiadau teilwng o enwogion o bwys a gwerth dirfawr. Heblaw y byddant yn gyfarwyddyd i efrydwyr ieuainc, ac yn ffynonell cymhelliadau dirif i fyned yn mlaen, fe fyddant yn foddion i gychwyn llawer ar yr yrfa lenyddol. Pe buasai bywgraffiadau talentog o brif enwogion y byd, a thraethodau grymus ar eu hathrylith a'u gweithiau, yn nghyraedd y Cymry mynyddig, mae yn dra thebyg y buasai llawer ohonynt yn ymgystadleuwyr â'r enwogion hyny am enwogrwydd. Ond y mae bywgraffyddiaeth hyd yn ddiweddar wedi cael ei hesgeuluso yn Nghymru. Ychydig o enwogion ein cenedl ein hunain, heb son am eiddo cenedloedd ereill, sydd yn adnabyddus o ran eu hanes i'r bobl gyffredin. Nid oedd moddion yn y Gymraeg i ddyfod yn adnabyddus â meddyliau mawr y byd; ac oblegid hyny yr oedd eu dylanwad grymus i gyfodi enwogion yn cael ei golli bron yn llwyr.

Yn chweched, Mae gan ein cenedl ry fach o ysbryd anturiaethus. Mae ein cymeriad masnachol a llenyddol yn profi hyny. Boddlonwn ar yr hen drefn a'r hen bethau yn barhaus. Nid oes dim yn ein gyru i chwilio am bethau newyddion. Preswyliwn yn dlawd, ond tawel, yn nghanol trysorau dihyspydd, heb chwilio na meddwl amdanynt, nes i ryw estron anturiaethus eu meddianu. Trwy hyny

Digitized by Google

yr ydym wedi colli y clod a allasem gael fel darganfyddwyr y trysorau oedd yn guddiedig yn ein mynyddau, a'r cyfoeth tywysogol a allasem gael fel eu meddianwyr. Nid ydym ond ychydig yn well mewn ystyr lenyddol. Ychydig iawn, os neb, sydd yn dangos ysbryd beiddgar ac anturiaethus. Nid oes nemawr o ddarganfyddiad, offeryn damcaniaeth, cyfundraeth, na symudiad newydd o eiddo Cymro byth yn synu y byd. Yn lle tori llwybrau newyddion i ni ein hunain, rhodiwn ar hyd yr un llwybrau a'r rhai a aethant o'n blaen. Oblegid hyn, ychydig iawn o weithiau gwreiddiol gwirioneddol a feddwn yn ein hiaith. Mae rhyw nod ar y rhan amlaf ohonynt yn dangos eu bod yn perthyn o bell i ryw waith oedd yn bod o'r blaen. Pa wahaniaeth bynag a ddichon fod rhwng ein beirdd, mae yn hawdd canfod eu bod i gyd yn perthyn i'r un teulu. Yr achos yw, diffyg digon o ysbryd beiddgar ac anturiaethus. Mae cynefindod â pheth yn analluogi y peth hwnw i raddau i gyffroi y galon. Os bydd cynyrchion awen y bardd o'r un natur a chymeriad ag eiddo beirdd oeddent yn adnabyddus o'r blaen, heb fod ynddynt ddim yn newydd neu annghyffredin, maent yn sicr o siomi y cyffredin, a cholla y bardd y clod a gawsai pe na buasai barddoniaeth o gyffelyb natur, a chystal a'r eiddo yntau, yn meddiant y bobl o'r blaen. Wrth gerdded llwybrau ag y tramwywyd ar hyd-ddynt o'r blaen, mae yn rhaid i awduron ragori ar eu holl ragflaenwyr cyn y gallant enill cymaint o enwogrwydd a hwy; tra byddai llai o deilyngdod, ar dir newydd, yn ddigon i anfarwoli eu henwau. Pan fyddo dyn yn gyntaf ar faes newydd, mae ei enwogrwydd yn ddiogel—mae yn anmhosibl ei ddwyn oddiarno; ac y mae yn rhaid i'r rhai a ddeuant ar ei ol gyflawni mwy o orchestion cyn y gallant fod mor enwog ag ef. Pe buasai genym ni chwaneg o awdwyr wedi tori llwybrau newyddion iddynt eu hunain, buasai genym chwaneg o enwogion; ond yn lle hyny, mae llawer ohonynt, o ddiffyg ysbryd anturiaethus a beiddgar, wedi dewis teithio ar hyd yr hen lwybrau; ac am y rheswm hwn, y mae amryw wedi methu enill enwogrwydd gwirioneddol o gwbl.

Yn seithfed, Mae llawer o'n hawduron wedi amcanu rhy fach i fod yn wir fawr ac enwog. Ymfoddlona llawer ar fod yn llenorion cystal a'u rhagflaenwyr. Ychydig sydd yn gosod eu nod yn uchel, ac yn ceisio cyflawni

Digitized by Google

pethau mawrion. Pwy o'n beirdd, heblaw Dafyd d Ionawr, a dreuliodd ei oes mewn ymgais i gynyrchu gwaith gorchestol a phwysig? Rhyw ddarnau byrion ydym wedi gael gan bawb bron. Mae llawer ohonynt yn dda, mae yn wir, ond nid ellir eu galw yn orchestion. Mae rhy fach o bwys ynddynt i'n dyrchafu yn ngolwg cenedloedd y byd. Ychydig a welir yn rhedeg yn egniol am y nod o gamp uchel, ac yn dangos yn amlwg, drwy yr hyn a wnant, fod ganddynt olwg ar fod yn fawr ac uchel. Yn wir, nid ellir yn hawdd osgoi y penderfyniad fod *uchelgais* y Cymry yn wan. Ychydig a gyflawnant, ac nid allant, o ganlyniad, ddysgwyl ond ychydig o enw amdano. Hyd yn nod y dyddiau hyn, nid oes ond ychydig yn hedeg trwy yr wybrenydd fel eryr mawr, a'i olwg o hyd ar i fyny. Ymfoddlona y cyffredin ar ychydig o benillion, englynion, cywyddau, a thraethodau byrion, fel pe byddai hyny yn ddigon i wneyd dyn yn enwog; ac y mae rhai, fe ddichon, yn ei ystyried yn ddigon, yn enwedig os byddant wedi cael ychydig wobrwyon mewn Eisteddfod neu ddwy am rai ohonynt. Ond druain oeddent! ni welant enwogrwydd byth heb yn gyntaf weled y camgymeriad mawr y maent ynddo.

Yn wythfed, Mae yn ymddangos i ni fod y gynghanedd Gymreig, ac hyd yn nod yr Eisteddfodau, yn anuniongyrchol yn attal cyfodiad enwogion Cymreig. Yr ydym yn awr yn cyffwrdd â thir cysegredig, ac o ganlyniad, ni wnawn ond egluro ein meddwl ar y peth mor fyr ag y gallwn. Gyda golwg ar y gynghanedd, y mae dau beth yn ddiamheuol: mae yn dueddol i dynu sylw y cyfansoddydd a'r darllenydd yn fwy at y geiriau nag at y meddwl, ac y mae yn attal cyflymder wrth gyfansoddi. Byddai mor hawdd i aderyn hedeg â phwysau wrth ei adenydd, neu i ddyn redeg â llyfetheiriau am ei draed, ag i fardd gyfansoddi yn gyflym a medrus yn y gynghanedd. A hyn yw yr achos, gellir tybied, nad oes ond Dafydd Ionawr, fel y nodwyd, wedi amcanu cynyrchu gwaith mawr yn ol rheolau y gynghanedd Gymreig. Byddai y llafur mor fawr, fel nad oes nemawr neb â digon o benderfyniad i ymosod ar y gorchwyl. Os felly, mae yn amlwg fod y gynghanedd, mewn modd anuniongyrchol, yn cadw ein beirdd i lawr, yn eu digaloni rhag ymgymeryd â gweithiau mawr a phwysig, ac yn eu cadw at fesur oedran a chyflawnder beirdd y canol oesau. Pe na

Digitized by Google

buasai y gynghanedd mewn bod, mae yn anhawdd meddwl na fuasai chwaneg o gynydd yn weladwy yn ein barddoniaeth, ac na buasai genym ychydig o weithiau barddonol cymhwys i'w gosod ochr yn ochr â gweithiau prif-feirdd y byd. Ond a oes dim manteision yn nglŷn â'r gynghanedd ag ydynt yn ddigon pwysig i wrthbwyso yr anfanteision a enwyd? Dim! Fe ellir rhoddi cymaint o feddwl mewn llinell heb gynghanedd ag a ellir roddi gyda hi, a chwaneg hefyd yn ddigon mynych. Gellir gosod pob meddwl allan mor oleu, grymus, ac effeithiol hebddi, ag a ellir osod allan gyda hi, ac o ganlyniad, gellir treulio yr amser a ddefnyddir yn gyffredin i chwilio am eiriau i gynghaneddu, i lawer mwy o ddyben i chwilio am feddyliau, ac i osod y meddyliau hyny allan yn y dull goreu. Pan yr oedd y beirdd yn gallu hawlio eu cynaliaeth gan y wlad, heb wneyd dim ond clera tuag at fyw, hwyrach mai doeth oedd eu caethiwo â llyffetheiriau y gynghanedd, er mwyn cadw eu nifer i lawr; ond y mae yr amseroedd hyny wedi myned heibio, a goreu pa gyntaf yr â y gynghanedd ar eu hol.

Ond, pa fodd y gall yr Eisteddfodau fod yn anffafriol i gyfodiad enwogion ar y mynyddau? Y dyb gyffredin yw, ein bod yn fwy dyledus i'r Eisteddfodau nag i un sefydliad arall; ac mewn rhai ystyron, mae y dyb hon yn gywir. Er hyny, mae lle i ofni eu bod hefyd, ar ystyriaethau ereill, wedi bod yn foddion i guddio athrylith, yn hytrach nag i'w dwyn allan. Fel hyn:—Yn gyntaf, Trwy fod y prif wobrwyon a'r prif anrhydedd mewn Eisteddfodau yn perthyn i'r beirdd, mae lle i ofni fod llawer yn cael eu cymhell i farddoni heb ddim dawn barddonol. Achosir i rai, fe ddichon, geisio bod yn feirdd nad allant byth fod felly mewn gwirionedd, pan y gallent ragori mewn rhyw wyddor arall. Yn ail, Nid y beirdd goreu, bob amser, sydd yn llwyddianus mewn Eisteddfodau. Heblaw y gall y beirniad fod yn analluog i wneyd cyfiawnder, ac yn bleidgar gyda hyny, mae rhywbeth mewn cynyrchion athrylith yn ddigon aml ag sydd yn debyg iawn o'u gwneyd yn aflwyddianus mewn cystadleuaeth. Dacw ddyn ieuanc llawn o awen yn anfon cywydd neu bryddest i'r gystadleuaeth; mae yn colli y dydd, yn digaloni, ac yn dechreu meddwl ei fod yn amddifad o awen, er ei bod yn llosgi fel fflam nefol yn ei fynwes yr un pryd; a phenderfyna roddi terfyn ar un-

Digitized by Google

waith ar ei yrfa farddonol. Y cwbl a geir ganddo wedi hyny fydd penill yn awr ac yn y man, fel i ddangos y fath fardd da a fuasai pe gwnaethai farddoniaeth yn orchwyl ei oes. Ond yn gydymgeisiwr iddo yr oedd dyn arall, a hwnw mor amddifad o awen ag y gall dyn fod. Ond y mae yn enill y gamp. Bid sicr, gwneir iddo ystyried ei hun yn fardd. Gelwir ef yn fardd gan ereill. Symbylir ef yn mlaen i geisio mwy o anrhydedd yn llwybrau yr Eisteddfodau. Ond casgler ei gynyrchion yn nghyd, darllener hwynt, os gellir, a cheir gweled eu bod yn hollol amddifaid o awen. Ni feddant deimlad, darfelydd, na chrebwyll. Nid ydynt ddim ond rhyddiaith o'r fath sychaf ar odl; a'r unig syndod fydd, fod un beirniad, na neb arall, erioed wedi tybied fod peth felly yn farddoniaeth. Byddai yn hawdd nodi dynion yn Nghymru ag ydynt wedi enill llawer o wobrwyon heb y radd leiaf o awen mewn dim a wnaethant. Yn drydydd, Ar ol i fardd enill ychydig o brif wobrwyon ac anrhydedd yr Eisteddfodau, mae yn gyffredin yn rhoddi i fyny farddoni. Pe heb yr Eisteddfodau, y tebygolrwydd yw y parasai i farddoni trwy ei oes, ac y buasai pob cyfansoddiad yn rhagori ar ei flaenorydd. Yn bedwerydd, Maent yn gwneyd ein barddoniaeth yn rhy ymddibynol ar amgylchiadau allanol. Os na bydd Eisteddfod yn rhywle, nid ydym yn cael dim barddoniaeth ddim gwerth son amdano; ac y mae hyn yn awgrymu mai y gwobrwyon sydd yn cynhyrfu y beirdd, ac nid yr awen. Yn bumed, Maent yn gwneyd ein barddoniaeth yn rhy unrhywiol. Pe dylynai y beirdd eu tueddiadau, fe fyddai cymaint o wahaniaeth rhwng eu barddoniaeth ag sydd rhwng eu personau. Nid yn aml y cyfansoddent ar yr un testyna'u gilydd; byddai eu barddoniaeth yn nodweddiadol—gwelid calon y bardd yn ei farddoniaeth. Ond y mae yr Eisteddfodau yn gwneyd i'r beirdd ruthro yn un llu i ganu ar yr un testynau; a'r canlyniad yw, mai ychydig iawn o gymeriad sydd yn ein barddoniaeth. Yn chweched, Maent yn tynu beirdd i ganu ar destynau na buasent byth yn meddwl am ganu arnynt, oni bae yr Eisteddfodau; ac nid all neb gyfansoddi cystal ar destyn felly ag ar destyn y byddo ei awen yn ei gynhyrfu i gyfansoddi arno. Yn seithfed, Maent yn attal i'r beirdd ymgymeryd â gweithiau fydd yn gofyn amser a llafur mawr i'w cwblhau. Os dygwydd i un feddwl am gyfansoddi gwaith gorchestol, fe ddaw rhyw wobr hudol i'w

Digitized by Google

ddenu oddiwrtho yn y fan, ac felly o flwyddyn i flwyddyn, nes bydd ei oes wedi darfod, ac yntau heb wneuthur un gwaith pwysig a gorchestol. Pan gofir fod *un* pencampwaith yn dwyn mwy o anrhydedd i genedl na *mil* o gyfansoddiadau cyffredin, mae hyn yn golled nad all neb ddyweyd ei maint.

Ond gadawn y pwnc yn awr, gan ei gyflwyno i sylw Eisteddfodwyr, ac awn yn mlaen i ddwyn y rhan hon o'r traethawd i derfyn. Gwelir fod y rhan amlaf o'r achosion yn symudadwy; ac ond iddynt gael eu symud, y bydd i chwaneg o enwogion gyfodi yn Ngwyllt Walia. Nid oes ond un achos yn gwbl allan o'n cyraedd, sef bychanrwydd ein nifer, a chyfyngrwydd y cylch lle deallir ein hiaith, yn nghyda'r anfanteision anwahanol gysylltiedig â hwy. Am yr holl achosion ereill, maent i raddau mwy neu lai o dan ein hawdurdod ni. Os mynwn, gallwn wneyd ein diffygion i fyny, amlhau ein manteision, a symud yr anhawsderau sydd ar ffordd ein dyrchafiad. Ac y mae hyn yn ein harwain at y rhan olaf o'r testyn, sef,

Y MODDION GOREU I DYNU ALLAN ATHRYLITH Y CYMRY, AC I DDYRCHAFU Y DYWYSOGAETH.

Gellid gollwng y rhan yma heibio gydag ychydig o eiriau, trwy ddangos mai y ffordd i dynu allan athrylith y Cymry yw, symud yr achosion sydd wedi bod hyd yma yn cadw eu hathrylith o'r golwg, pa achosion a eglurwyd yn rhanau blaenorol y traethawd. Ond gan mai hwn yw y rhan bwysicaf o'r testyn, mae yn angenrheidiol bod dipyn yn fanwl, er mwyn troi y sylwadau blaenorol i ryw ddyben buddiol ac ymarferol. Ond cyn myned yn mlaen i gyflawni hyny, nid yw ond cyfiawnder i ni hysbysu fod llawer o'r achosion oeddent yn cadw y Cymry i lawr wedi cael eu symud yn barod, a bod offerynau yn awr ar waith ag ydynt yn sicr o gyfodi Cymru yn uwch nag y bu erioed, pe na chwanegid un offeryn arall atynt. Mae y genedl wedi cyflawni gorchestion, yn yr haner canrif diweddaf, ag sydd yn wystl na bydd iddi orphwys nes y bydd yn alluog i roddi taw ar eneuau y rhai a hoffant ei gwaradwyddo. Er hyny, nid all fod dim drwg mewn dangos y ffordd i dynu allan athrylith y Cymry; yn hytrach, gall, a dylai fod yn llesol. O dan ystyriaeth o hyn, ymdrechwn grynhoi nifer o'r cyfarwyddiadau pwysicaf ar y pwnc, a gwnawn amryw gynygion a ymddangosant i ni yn deilwng o sylw.

Digitized by Google

Yn gyntaf, Meithriner teimlad cryf o genedloldeb a hunan-barch. Mae Mrs. Stowe, o'r America, yn gwneyd sylw, wrth son am yr hyn a ddyoddefodd y Cyfamodiaid yn Ysgotland, ag y byddai yn werth i bob Cymro gael golwg arno; a dyma fe:—"Mae enwogrwydd llenyddol Ysgotland wedi tarddu allan o'u beddau; ac y mae llenyddiaeth rymus a gwreiddiol yn anmhosibl, oddieithr i bobl wrol, rydd, a hunan-barchol. Mae yn rhaid i lenyddiaeth cenedl darddu oddiar deimlad o'i chenedloldeb; ac y mae cenedloldeb yn anmhosibl heb hunan-barch; ac y mae hunan-barch yn anmhosibl heb ryddid."* Lle bynag y byddo Cymro â theimlad byw ac angerddol o genedloldeb yn llosgi yn ei fynwes, mae yn sicr o fod yn eiddigeddus dros anrhydedd ei genedl, o fod yn noddwr i'w llenyddiaeth, ac o geisio ei dyrchafiad trwy bob moddion cyraeddadwy iddo. Fe gynllunia fesurau o lesâd iddi—fe edrych allan am lwybrau newyddion i wneyd daioni iddi—fe ymawydda am fod yn alluog ei hunan, naill ai fel awdwr, neu fel gwladgarwr, i osod enwogrwydd bythol ar ei henw. Ac fel hyn, fe fydd ei gariad gwresog at ei wlad a'i genedl fel atynfaen grymus i dynu allan ei athrylith. Dylem fel hyn, yn gyntaf oll, ymdrechu trydanu meddyliau yr ieuenctid â theimlad bywiog o genedloldeb a hunan-barch, a rhoddi cyfeiriad ymarferol i'r teimlad hwnw, trwy eu hanog i geisio gwneyd rhywbeth a fyddo o lesâd ac anrhydedd i'w gwlad a'u cenedl.

Yn ail, Dyger moddion addysg i gyraedd y bobl. Lluosoger Ysgolion Dyddiol. Na fydded un ardal heb ysgol. Bydded yr ysgolion hyny o'r fath oreu, ar y cynllun mwyaf cymeradwy, ac yn gyraeddadwy i'r tlotaf. Myner athrawon hyfforddedig i gyfranu addysg ynddynt. Na fydded na mab na merch trwy Gymru heb dderbyn elfenau cyntaf dysgeidiaeth. Agorer deall yr ieuenctid. Dysger hwynt i feddwl. Gwneler iddynt deimlo eu traed danynt. Dangoser iddynt mai bodau rhesymol ydynt. Ar ddechreu eu taith trwy y byd, gosoder eu traed ar ffordd dyrchafiad. Galluoger hwy i gychwyn gyrfa eu hoes â'u llygaid yn agored. Amcaner rhoddi cyfeiriad uchel i'w meddyliau. Anadler cariad at wybodaeth a dysgeidiaeth i'w heneidiau. Taener trysorau y dealltwriaeth yn eu gogoniant a'u lluosogrwydd o'u blaen. Dodrefner eu meddyliau â'r offerynau angenrheidiol i hunan-

* Sunny Memories, Letter 9.

Digitized by Google

ddiwylliant. Gwneler ymdrech i enyn athrylith yn fflam yn eu mynwesau. Mewn gair, myned y Cymry osod eu plant, yn gyfoethog a thlawd, ar dir cydwastad, o ran moddion dysgeidiaeth, âg eiddo unrhyw genedl arall. Ond i hyn gael ei wneyd, nid oes achos i ameu y dygir athrylith llawer Cymro a Chymraes i'r golwg, ac y gwneir aml i fryn, mynydd, a chwm yn enwog, am iddynt fod yn lle genedigol i ddynion mawrion. Os gallodd y Cymry osod eu hunain, mewn ychydig o flynyddoedd, mor uchel a'r uchaf o ran manteision crefyddol, fe allant yn sicr, ond cael yr ewyllys, osod eu hunain yn gydwastad âg ereill o ran manteision addysg hefyd; o ganlyniad, dylem osod ein hunain yn un frawdoliaeth o'r holl genedl, fel y gallo y cryf gynorthwyo y gwan—yr ardaloedd poblog a chyfoethog gynorthwyo y cymydogaethau ag y mae eu trigolion yn rhy deneu i'w galluogi i gynal ysgolion priodol iddynt eu hunain; a mabwysiadu rhyw gynllun o addysg ag y gallo pawb gydweithredu yn ei ddygiad yn mlaen; a threfnu mesurau i lenwi i fyny y diffyg yn moddion addysg yn mhob treflan a chwm trwy y Dywysogaeth. Gellid meddwl fod cynllun yr Ysgolion Brytanaidd yn hynod gyfaddas at sefyllfa y Cymry; ond os nad yw, na orphwyser nes cael cynllun hollol wreiddiol a Chymreig—cynllun wedi ei drefnu yn Nghymru, ar gyfer amgylchiadau neillduol y genedl Gymreig—a chynllun galluog i gylymu yr holl genedl yn rhwymyn undeb a brawdoliaeth, i sefydlu ac i gynal sefydliadau addysgol digonol i gyfarfod angenion y genedl yn mhob ardal trwy Gymru. Mae digon o dalent yn Nghymru, bid sicr, i gynyrchu y cyfryw gynllun; ac y mae i'w obeithio fod gwirioneddau mawrion y grefydd Gristionogol wedi magu ynom ddigon o ysbryd brawdol, rhyddfrydig, a hunanymwadol, i'n dysgu i roddi teganau plaid heibio, er mwyn ei ddwyn i ben, a'i gynal mewn gweithrediad. Gall cenedl fawr fforddio ymranu yn ddosbarthiadau, a dwyn gorchwylion mawrion yn mlaen yn llwyddianus wedi hyny; ond nis gallwn ni. Mewn undeb yn unig y gallwn fod yn gryfion. Os ymranwn yn bleidiau, yr ydym yn rhwym o fod yn weinion. Mae bod a chynydd pobpeth Cymreig, fel y cyfryw, yn ymddibynu ar ein hundeb a'n hymlyniad wrth ein gilydd. Os rhanwn ein moddion, ein hadnoddau, a'n nerth, ni wnawn ddim byth a wna ein cenedl yn barchedig ac enwog; ond os byddwn yn un â'n gilydd,

Digitized by Google

ac os cydweithredwn i ddwyn yn mlaen bob symudiad angenrheidiol i lwyddiant a dyrchafiad y Dywysogaeth, mae yn ddichonadwy i ni, er lleied ydym, ddyrchafu ein gwlad a'n cenedl yn ddigon uchel i hawlio sylw a pharch gan holl genedloedd gwareiddiedig y byd.

Cyn gadael y pwnc o ddwyn moddion addysg i gyraedd y bobl, mae yn angenrheidiol sylwi ar un peth neu ddau eto. Yr ydym wedi sylwi o'r blaen fod yr angenrheidrwydd oedd ar y Cymry, oblegid diffyg ysgolion da yn Nghymru, i anfon eu plant allan o Gymru i dderbyn eu dysgeidiaeth, wedi bod yn golled fawr i'r Dywysogaeth, ac wedi bod yn foddion i Seisnigeiddio ein pendefigion, ac i oeri eu cariad at iaith, arferion, a llenyddiaeth y Cymry, ac hyd yn nod at y genedl ei hun. O ganlyniad, os ydym am roddi terfyn ar y dihyspyddiad parhaus hwn o oreuon ein cenedl, mae yn rhaid i ni fynu ysgolion cymhwys i'w derbyn. Hwyrach mai gormod fyddai dysgwyl gallu adferu teuluoedd ein pendefigion i roddi eu plant i gael eu dwyn i fyny o dan ddylanwad Cymreig; ond yn sicr, gallwn fod yn hyderus o blant y canolradd, ond i ni allu eu hargyhoeddi y cânt gystal dysgeidiaeth yn Nghymru ag a gaent mewn unrhyw wlad arall; ac mewn amser, fe fydd rhai ohonynt wedi ymddyrchafu i fysg y pendefigion, ac yn debyg o barhau, hwy a'u plant, yn Gymry mewn gwirionedd. Mae llawer o'r canolradd yn dewis rhoddi dysgeidiaeth uwch i'w plant nag a ellir gael yn yr ysgolion cyffredin, yn enwedig yr ysgolion lle yr addysgir plant y werin bobl—yr unig ysgolion a ellir gael mewn ardaloedd teneu o drigolion; ac fe ddylem gadw ein llygaid yn agored, a gofalu am ysgolion priodol ar eu cyfer. Mae yn wir fod yn rhaid gadael peth fel hwn, i raddau, ar ysbryd anturiaethus ysgolfeistriaid, ac ereill ag y mae eu lles tymorol yn gysylltiedig âg ef. Os cau eu llygaid a wna y Cymry, fe wna ereill agor eu llygaid. Os bydd prinder o ysgolion uwchraddol yn Nghymru, fe ofala cenedloedd ereill am gyflawnder ohonynt. Mae yn ymddangos i ni, er hyny, y gellid gwneyd rhywfaint tuag ato gan gymdeithasau crefyddol a gwladol. Mae gan y Bedyddwyr Athrofeydd yn Mhont-y-pŵl a Hwlffordd, yr Annibynwyr yn Aberhonddu a'r Bala, a'r Methodistiaid Calfinaidd yn y Bala a Threfecca: ac oni ellid trefnu mesurau, mewn cysylltiad â phob un o'r rhai hyn, i dderbyn dynion ieuainc yn gyff-

redinol i mewn iddynt i orphen eu dysgeidiaeth, ar delerau mor rhesymol ag unrhyw ysgolion ereill pa bynag, a hyny heb niweidio yr un ohonynt fel sefydliadau i ddarparu dynion ieuainc i'r weinidogaeth ? Byddai cymeriad uchel yr athrawon, a natur y sefydliadau, yn debyg iawn o gymhell y rhai a allent i anfon eu plant iddynt, ar ol myned trwy eu cylch o addysg mewn ysgolion israddol ; a gellid tybied y chwanegai hyny lawer ar drysorfa yr Athrofäau, ac y galluogid eu pwyllgorau i'w gwneyd yn sefydliadau mwy defnyddiol ac effeithiol i ddyrchafu achos dysgeidiaeth a chrefydd yn y Dywysogaeth. Y mae yn rhaid i ni gael ysgolion a ddaliant eu cymharu â goreuon eiddo cenedloedd ereill, neu foddloni gweled plant ein cyfoethogion yn myned at estroniaid i gael eu haddysgu, ac i golli eu hysbryd Cymreig, a boddloni hefyd i fod ar ol i genedloedd ereill yn yr enwogrwydd ag yr ymddangoswn mor awyddus am ei gael. Yn mha ystyr bynag yr edrychwn ar y pwnc, canfyddwn yr angenrheidrwydd o wneyd ymdrech dioed i lenwi ein gwlad âg ysgolion o'r fath oreu. Ac ar ol cael y rhai hyn, fe fydd un peth yn eisieu wedi hyny, sef prifysgol i Gymru. Mae yn gywilydd na fuasai genym un cyn yn awr, ac nis dylem fod yn foddlawn nes ei chael. Nid prifysgol i fod o dan reolaeth gwŷr eglwysig, fel yr un ag y mae rhai yn gwaeddi amdani, a wna y tro i Gymru ; ond prifysgol rydd, ar sylfeini eang ac agored, ac un a gynwys yr holl genedl yn ddiwahaniaeth yn ei mynwes. Ni fyddwn byth ar dir cydwastad â'n cymydogion nes y byddom yn feddianol arni. Byddai cael prifysgol yn Nghymru yn anrhydedd i'r Dywysogaeth, yn symbyliad grymus i achos dysgeidiaeth, ac yn foddion effeithiol i dynu allan athrylith y Cymry, ac i gyfodi enwogion ar y mynyddau : ac fel y cyfryw, dylid cynhyrfu y Dywysogaeth am ei chael.

Yn drydydd, Gwneler hanes a llenyddiaeth y Cymry yn rhan o addysg yn ein holl ysgolion. Mae y ffaith fod plant y Cymry yn cael eu hyfforddi yn hanes cenedloedd ereill, tra yr esgeulusir eu hyfforddi yn hanes eu cenedl eu hunain, fel y nodwyd eisoes genym, yn ddirmyg o'r fath fwyaf arnom fel cenedl. Mae gweithredoedd a wnaed gan rywrai yn ein teulu ein hunain yn sicr o fod yn fwy dyddorol i ni na dim a wnaed gan neb mewn teuluoedd ereill, ac o gario mwy o ddylanwad arnom er

ein symbylu i'w hefelychu; ac yr un modd y gellir dyweyd am genedl. Mae hanes y Cymry yn rhwym o fod yn fwy dyddorol i Gymro na hanes unrhyw genedl arall; ac y mae bywgraffiadau a gweithiau enwogion Cymreig yn sicr o ddylanwadu yn rymusach arno, ac yn debycach o enyn tân athrylith yn ei enaid, nag eiddo cenedloedd ereill. Ac y mae hyfforddi yr ieuenctid yn hanes a llenyddiaeth eu cenedl yn sicr o wneyd iddynt ei charu yn ddeallgar, a chymeryd dyddordeb neillduol yn ei hachos. I ba le bynag yr â, fe fydd yn eiddigeddus dros ei hanrhydedd. Anwybodaeth yw tad Dic Siôn Dafydd. Anwybodaeth sydd yn ei gadw yn fyw. Gwneler ieuenctid Cymry yn gyfarwydd yn hanes a llenyddiaeth eu cenedl, ac fe glywir yn fuan am farwolaeth yr olaf o'i deulu dirmygus. Ond yr ystyriaeth bwysicaf mewn cysylltiad â hyn yw, y byddai i gydnabyddiaeth â hanes ac â llenyddiaeth ein cenedl, trwy gynyrchu cariad atynt, mewn llawer o amgylchiadau, gynhyrfu yr ieuenctid i geisio gwneyd rhywbeth a osodai enwogrwydd chwanegol arnynt. Cynhyrfai rai i fod yn haneswyr, rhai yn hen-afiaethwyr, rhai yn feirdd, rhai yn ieithwyr, rhai yn gerddorion, y lleill yn ddysgawdwyr ac yn broffeswyr mewn gwyddorau a chelfyddydau ereill, a'r oll bron yn wladgarwyr gwresog a ffyddlawn. Rhodded y Cymry mwyaf gwladgarol gychwyniad i'r symudiad, trwy wneyd amod â'r ysgolfeistriaid yn nghylch y peth. O radd i radd fe ddylynid ei siampl gan ereill; deuai llais y wlad i alw amdano; ac yn mhen ychydig amser, byddai wedi ei sefydlu fel rhan angenrheidiol o addysg yn holl ysgolion Cymru.

Yn bedwerydd, Sefydler Cymdeithasau Llenyddol yn mhob ardal, er cyfleustra i'r dosbarth gweithiol berffeithio eu hunain mewn dysgeidiaeth a gwybodaeth. Er ateb y dyben hwn, mae yn angenrheidiol iddynt fod yn sefydl-iadau addysgol, lle gallo y bobl gael dysgeidiaeth elfenol, yn gystal a gwybodaeth gyffredinol. Felly, rhaid cael athrawon i gyfranu addysg, a dosbarthiadau i'w derbyn, fel mewn ysgolion yn gyffredinol. Nid ellir myned yn mlaen yn hwylus chwaith heb adeilad gyfaddas at eu gwasanaeth, y rhai a ellid enwi yn Neuaddau Llenyddol. Byddai yn angenrheidiol hefyd cael llyfrgell mewn cys-ylltiad â hwy, fel y gallai yr aelodau gael cyflawnder o'r llyfrau goreu i'w darllen, a chyfleustra i ymgynghori âg

Digitized by Google

awduron nad allent eu meddianu eu hunain, oherwydd eu hamgylchiadau. Ond iddynt gael eu gwneyd yn sefydliadau addysgol, gyda neuadd, llyfrgell, a phob peth angenrheidiol er galluogi y bobl weithgar i gyraedd dysgeidiaeth ynddynt yn ystod eu horiau segur, mae yn ddiau y dygid llawer o athrylith i'r golwg trwyddynt.

Yn bumed, Lluosoger manteision preswylwyr y mynyddau i efrydu gwahanol wybodaethau. Dangosasom, mewn lle arall, fod prinder o'r cyfryw fanteision yn un achos na byddai chwaneg o enwogion yn cyfodi yn Nghymru. Felly, os ydym am weled enwogion yn amlhau, rhaid symud ymaith yr achos. Y manteision angenrheidiol ydynt, helaethrwydd o lyfrau da ar bob rhan o wybodaeth yn iaith y bobl, a'r rhai hyny, o ran eu pris, yn gyraeddadwy i'r dosbarth diwyd, sobr, o'r bobl weithgar. Dylid cyhoeddi gweithiau yr hen feirdd, a chroniclau yr oesau aethant heibio, fel y gallo pawb a fynont eu meddianu. Fe ddywedir fod canoedd o gyfrolau o ysgrifiyfrau Cymreig mewn llyfrgelloedd cyhoeddus a phersonol ag a fyddent o werth mawr i'n llenyddiaeth pe cyhoeddid hwy. A phaham na wneid hyny? Mae yn ein llenyddiaeth lawer o adwyau ag y dylid eu llenwi i fyny. Mewn rhai dosbarthiadau, yr ydym heb un gwaith o ddim pwys yn ein meddiant, ac ni ddylem fod yn foddlawn nes cael gweithiau teilwng yn mhob un. Ac heblaw hyny, mae rhai gweithiau o bwys mewn ieithoedd ereill yn dwyn agos gysylltiad â Chymru, neu yn ymdrin â phethau Cymreig, ag y dylid eu cyfieithu i'r Gymraeg, er budd i'r Cymry uniaith. Tra byddo manteision preswylwyr y mynyddau i efrydu gwahanol wybodaethau mor brin, prin fydd eu henwogion hefyd; ond lluosoger eu manteision, trwy ddwyn cyflawnder o lyfrau da i'w cyraedd, ac fe gyfyd chwaneg o enwogion o'u mysg.

Yn chweched, Gosoder cyflawnder o siamplau teilwng gerbron yr ieuenctid i'w hefelychu. Nid yw bywgraffiaeth hyd yma wedi cael genym y sylw ag y mae yn deilyngu, yn enwedig bywgraffiaeth gyffredinol; ac y mae effaith y golled hon yn ganfyddadwy arnom fel cenedl. Mae llawer o fywgraffiadau wedi cael eu cyhoeddi yn y blynyddoedd diweddaf, mae yn wir, ond y maent bron i gyd yn perthyn i'r dosbarth duwinyddol,

Digitized by Google

ac nid ydynt yn cynwys neb ond enwogion diweddar. Nid oes ond ychydig o ymdrech yn cael ei wneyd i godi enwau a hanes hen enwogion Cymru o'r dinodedd a'r anghof ag y maent wedi syrthio iddo. Am fywgraffiadau enwogion cenedloedd ereill, yr ydym yn fwy amddifad fyth ohonynt. Mae yr ychydig hyny ag ydynt yn ymgodi fel cewri yn nghanol mawrion y byd yn guddiedig o olwg y Cymry uniaith. Adsain eu henwau yn unig sydd yn cyraedd atynt; a dyna y cwbl ag y mae ganddynt fantais i'w wybod amdanynt. Rhaid myned i'r Seisneg yn gyffredin cyn y gellir gwybod ond ychydig am ein prif enwogion ein hunain, er fod defnyddiau eu bywgraffiaeth yn Gymraeg. Dylid cael bywgraffiadau enwogion Cymreig yn neillduol, a phrif enwogion y byd yn ogystal, i'w gosod yn nwylaw yr ieuenctid yn ddioed, i fod yn siamplau iddynt i'w hefelychu. Mae y lles a ddeilliai o hyny yn fawr, a hawdd i'w ganfod. Wrth ddarllen hanes enwogion, enillid y meddwl i sylwi ar wybodaeth a dysgeidiaeth—canfyddid helaethrwydd cyraeddiadau lluaws ohonynt—gwelid gymaint sydd i'w ddysgu a'i gyraedd cyn bod yn gydradd â'r lleiaf ohonynt—deallid fod modd goresgyn yr anhawsderau mwyaf—gwelid y llwybr ar hyd pa un y cyraeddasant eu henwogrwydd—ac wrth eu dylyn o gam i gam yn eu gyrfa lenyddol, cynyrchid cariad yn y meddwl at wybodaeth a dysgeidiaeth, a phenderfyniad hefyd, mewn llawer o amgylchiadau, i geisio enwogrwydd, fel hwythau, ar faesydd llenyddiaeth. Ond pa fodd y cyflawnir yr holl bethau hyn? Pa fodd y cyflenwir angenion llenyddol ein cenedl â llyfrau o dalent a gwir deilyngdod? Yn mha ddull y gellid cael bywgraffiadau teilwng o brif enwogion y Cymry, a chenedloedd ereill y byd, i'w gosod yn nghyraedd pob Cymro a ddymuno eu cael? Mae anturiaeth bersonol wedi cael amser hir i lenwi y diffygion i fyny, ond nid yw wedi llwyddo ond yn rhanol. Mae ystafelloedd eang yn llys ein llenyddiaeth yn weigion, heb gynifer ag un dodrefnyn o'u mewn. Yn ngwyneb hyn, yr ydym yn meddwl mai ein dyledswydd, fel Cymry, ydyw galw rhyw weithredydd grymusach nag anturiaeth bersonol i fod, gydag amcan neillduol i gyflenwi holl angenion llenyddiaeth Gymreig. Byddai cymdeithas gyffelyb i Gymdeithas y Traethodau Crefyddol yn hynod gyfaddas at y gorchwyl. Gellid ei galw, "Y Gymdeithas

Digitized by Google

er cyhoeddi a gwasgaru llyfrau buddiol am bris isel yn iaith y Cymry." Cymdeithas felly a allai, trwy gyhoeddi llyfrau angenrheidiol yn rheolaidd a pharhaus, gyflenwi angenion ein llenyddiaeth mewn ychydig flynyddoedd.

Yn seithfed, Rhodder parch dyladwy i'r rhai sydd wedi enwogi eu hunain. Buasai y cynghor hwn yn afreidiol i rai cenedloedd, oblegid eu bod yn fwy tueddol i roddi gormod, yn hytrach na rhy fach, o barch i'w henwogion. Ond am y Cymry, maent hwy mewn angen amdano. Maent yn hynod grintachlyd o barch sylweddol i'r rhai a hynodasant eu hunain yn eu mysg. Ychydig bach o sylw sydd yn ddigonol i argyhoeddi pob un fod a fyno clod a pharch sylweddol gryn lawer â gwneyd i ddynion ymorchestu a dyfal-barhau i gyflawni y gorchestion angenrheidiol i enill enwogrwydd. Wrth glywed enwau rhai ag ydynt wedi huno er ys miloedd o flynyddoedd yn cael eu galw mor gynefin a chyffredin a phe bodolent yn awr—wrth ganfod eu gweithiau yn mhob llyfrdŷ a llyfrgell mor aml a gweithiau prif awduron yr oes bresenol—wrth ddarllen traethodau dysgedig ar eu gweithiau a'u hathrylith—wrth feddwl am amledd y bywgraffiadau a wnaed ohonynt—wrth ddeall fod gwledydd a chymydogaethau yn dadleu â'u gilydd am yr anrhydedd o fod yn lle genedigol iddynt—wrth olygu yr adeiladau heirdd a gyfodwyd i'w coffadwriaeth—wrth ganfod dylanwad dynion mawr ar y byd, a'r gwarogaeth a delir iddynt hyd yn nod gan fawrion y ddaear, nid all llawer lai nag ymawyddu a phenderfynu ymgeisio myned i'w mysg. Ond pan fyddo cenedl yn esgeuluso rhoddi parch dyledus i'w henwogion—yn gadael i'w gweithiau fyned yn fwyd i ddinystr, am nad oes neb yn ddigon anturiaethus i'w cyhoeddi—yn gadael i'w hanes syrthio i annghof, am na chymer neb y drafferth i'w ysgrifenu—ac yn rhy grintachlyd a diofal i roddi tipyn o gareg ar eu bedd,—pa fodd y gellir dysgwyl i neb yn eu mysg ymgeisio am enwogrwydd? Mae rhai yn Nghymru, mwy duwiol hwyrach na doeth, yn lled hoff o feio y Seison am dreulio cymaint o arian i gyfodi cofadeiladau i'w henwogion. Amser yn ol, ceisiai un gan ŵr o'n cydnabyddiaeth ysgrifenu llythyr i ddangos ynfydrwydd pobl Manchester yn treulio cymaint o arian i gael delw gyhoeddus yn eu tref o'r diweddar Syr Robert Peel; ond pe deallasai y gŵr y peth yn iawn, fe welsai fod llawer ffordd

Digitized by Google

waeth i dreulio arian na hon. Mae delw Syr Robert wedi ei gosod i fyny; ac y mae yr olwg arni yn tueddu i gymhell ieuenctyd Manchester i geisio hynodi eu hunain trwy wasanaethu eu cenedlaeth, fel y byddo iddynt hwythau enill rhyw arwydd o gymeradwyaeth eu cenedl. Ni byddai dim llawer o niwaid yn y peth pe cymerai cenedl y Cymry siampl oddiwrth y Seison i dalu ychydig mwy o barch sylweddol i'w henwogion. Pe cyfodai ambell i feddfaen hardd a chofgolofn olygus i ambell o'i henwogion, fe fyddai ganddi well sail i ddysgwyl am weled y cyfryw yn amlhau; ac ni byddai achos iddi ofni y gwnai presenoldeb y beddfeini a'r cofgolofnau dynu anfoddlonrwydd Duw ar ein gwlad: yn hytrach, byddai yn fwy rhesymol tybied y parent i'r nefoedd wenu arnom.

Yn wythfed, Trefner rhyw foddion i gefnogi a noddi perchenogion athrylith tra yn fyw. Yr oedd yr Iuddewon, ar ol lladd y proffwydi, yn adeiladu ac yn gwyngalchu eu beddau. Yn ddigon tebyg yr ymddygir at feibion athrylith mewn llawer man eto. Esgeulusir hwy tra yn fyw, a gwneir duwiau ohonynt ar ol iddynt farw. Dywedir fod Homer, er yn ddall, o dan angenrheidrwydd i gardota ei fara o dŷ i dŷ; ond ar ol iddo farw, ymgystadleuai saith o ddinasoedd am yr anrhydedd o fod yn lle genedigol iddo. Mae dangos parch i enwogion ar ol iddynt farw nid yn unig yn rhesymol, ond yn ddyledswydd; ond y mae gwneyd hyny ar ol eu lladd trwy esgeulusdod, os nad yn rhagrith cywilyddus, yn annghysonedd o'r fath wrthunaf. Yr amser goreu i barchu plant athrylith yw amser eu bywyd. Mae esgeulusdod yn eu lladd. Mae wedi lladd llawer yn Nghymru—wedi cadw llawer un galluog i ddysgleirio fel yr haul yn ffurfafen llenyddiaeth yn llwyr o'r golwg—wedi digaloni llawer o'r rhai mwyaf gobeithiol—ac wedi attal llawer rhag cyflawni haner yr hyn a allasent er llesau eu cydgenedl a chyfoethogi llenyddiaeth eu gwlad. Pa mor iach a chryf bynag a fyddo baban pan enir ef, mae yn rhaid ei amgeleddu a'i feithrin, os mynir iddo fyw. Gadawer ef ar y maes heb lygaid yn tosturio wrtho, ac fe fydd yn fuan wedi darfod amdano. Yn gyffelyb i raddau y gellir dyweyd am feibion athrylith. Er hyny mae cenedl y Cymry yn eu gadael i ofal dygwyddiad, yn nghanol anialwch tlodi a helbulon y byd, ac yn dysgwyl iddynt fyw a chynyddu heb lyfrau na manteision gwybodaeth, na modd i'w cael. Mae llawer, ie, y nifer mwyaf, o

feibion athrylith yn dlodion, yn enwedig mewn gwlad fel Cymru, ac oblegid hyny dylid trefnu moddion i'w cefnogi yn effeithiol ar eu gyrfa lenyddol. Mae eisieu moddion i osod y tlawd athrylithlawn, hyd y gellir, mewn sefyllfa ag y gall gael hamdden a manteision ynddi i weithio allan ei athrylith. Os oes neb yn Nghymru yn awr, neu os cyfyd neb yn y dyfodiant, yn alluog o ran talent a doniau i anrhegu y byd â gweithiau gorchestol, ac i dallu ffrwd o glaerder oesol ar ein henw fel cenedl. oni fyddai yn resyn i'r cyfryw orfod treulio ei oes i gyflawni gorchwylion ag y gallai pob llafurwr eu cyflawni gystal ag yntau, er mwyn enill cynaliaeth i'r corff? Ond pa fodd y gellir cefnogi neb yn Nghymru yn y dull sylweddol hwn? Mae anhawsderau ar y ffordd, yr ydym yn addef, ond nid ydynt yn anorfod. Os nad ellir cael un cynllun arall i gefnogi dynion o athrylith ddiamheuol, fe ellid ffurfio cymdeithas i'r perwyl hyny. Mae genym gymdeithas i wasgaru Beiblau, cymdeithasau i gynal cenadon i bregethu yr efengyl gartref ac oddicartref, a chymdeithasau i luaws o ddybenion ereill; a phaham nad ellir cael cymdeithas i noddi dynion o athrylith yn Nghymru?

Yn nawfed, Rhodder cefnogaeth briodol i weithiau gwreiddiol yn yr iaith Gymraeg. Mae gwreiddioldeb yn anhebgorol angenrheidiol i enill enwogrwydd llenyddol. Nid â un genedl byth yn enwog wrth gyfieithu gweithiau cenedl arall yn unig. Rhaid i bob un gynyrchu gweithiau gwreiddiol a nodedig ei hunan, neu foddloni bod yn ddim yn y byd meddyliol. Yn y peth hwn yr ydym ni fwyaf ar ol. Aroswn ar gyfieithu llyfrau Seisnig, yn lle cynyrchu gweithiau gwreiddiol a dysgedig ein hunain. Boddlonwn ar nwyddau ail law. Bwytawn yn helaeth o ymborth dealltwriaethol y Seison, heb roddi nemawr ddim yn gyfnewid iddynt amdano. Nid oes dim niwaid, mae yn wir, mewn cyfieithu llyfrau da o'r Seisneg i'r Gymraeg, yn hytrach daioni; er hyny pan nad ellir cefnogi llenyddiaeth dwy genedl, fe ddylai eiddo ein cenedl ein hunain gael y flaenoriaeth—dylai, er iddi fod yn israddol i eiddo y Seison, ar y pryd presenol; oblegid heb gefnogaeth ddigonol, ni ddaw byth yn gydraddol â'r eiddynt hwy; ac heb fod yn gydraddol â'r eiddynt hwy, nid all fod yn sylfaen cymaint o enwogrwydd i ni fel cenedl. Haerir yn y "Llyfrau Gleision" nad yw yn ddiogel cy-

Digitized by Google

hoeddi llyfr o fwy gwerth na swllt neu ddau yn Gymraeg; ac hwyrach fod ychydig o wir yn yr haeriad, mor bell ag y mae yn perthyn i lyfrau gwreiddiol o waith Cymry. Ond os cymerir pob llyfr a gyhoeddir yn Gymraeg i mewn i'r cyfrif, mae yr haeriad yn annghywir hollol. Mae lluaws o lyfrau drudfawr, cyfieithiadau o lyfrau Seisnig, wedi cael eu cyhoeddi yn ein hiaith; ac os bernir oddiwrth y ffaith fod cyfieithiadau o lyfrau Seisnig yn parhau i ddylifo i mewn, fe benderfynir fod yr anturiaeth o'u cyhoeddi yn lled ddiogel. Os gellir cyhoeddi cyfieithiadau o lyfrau Seisnig uchelbris yn Gymraeg, paham, yn enw gwladgarwch a synwyr cyffredin, nad ellir cyhoeddi llyfrau dysgedig a drudfawr o waith Cymry yn iaith y Cymry hefyd? A oes rhyw achos neu reswm paham, heblaw diffyg cefnogaeth? Os dywedir nad yw y Cymry yn cyfansoddi llyfrau dysgedig, gwreiddiol, a mawrion, mae y ffaith nad ydynt yn cael eu cefnogi yn ddigon o reswm paham. Nid yw y lle ond bychan; llenwir y lle hwnw i fyny â chyfieithiadau; ac felly cedwir y Cymry allan o lys eu llenyddiaeth eu hunain. Rheoleiddir y cyflenwad gan y gofyn. Bydded galw am weithiau gwreiddiol yn lle cyfieithiadau; rhodder cefnogaeth iddynt pan wnant eu hymddangosiad, ac fe geir gweled yn fuan y bydd y cyflenwad yn gymaint a'r gofyn. Dylem fod yn rhy falch i fyw o hyd ar draul cenedloedd ereill. Dylai hunanbarch ein symbylu ni i ddarparu allan o'n hadnoddau ein hunain ar gyfer ein hangenrheidiau meddyliol. Os derbyniwn weithiau llenyddol gan y Seison, neu unrhyw genedl arall, dylem ymorchestu i roddi iddynt weithiau cydwerth yn gyfnewid amdanynt. Beth all fod yn fwy darostyngol i genedl na'i bod yn ddyledus i bawb heb fod neb yn ddyledus iddi hi? Na fydded i genedl y Cymry fod felly. Dangosed y gall fyw arni ei hun mewn ystyr lênyddol. Casgled ddigon o gyfoeth i'w galluogi i roddi anrhegion i genedloedd y byd. Bydded ei thrysorau mor aml nes denu miloedd ati i ymofyn amdanynt. Mae hyn yn ddichonadwy; ond cofier, nid heb gefnogi gweithiau gwreiddiol, dysgedig, a mawrion yn yr iaith Gymraeg.

Yn ddegfed, Gwneler egni i gyfoethogi ein hiaith â phrif-weithiau—pen campweithiau—llyfrau a fyddant yn rhagori cymaint ar y llyfrau cyffredin goreu, nes rhoddi iddynt hawl i gael eu ffurfio yn ddosbarth uwchraddol ar eu pen eu hunain. Y rheswm paham y dylid amcanu

Digitized by Google

cael y cyfryw yw, am y rhoddai un ohonynt fwy o yni, grym, a bywyd yn ein llenyddiaeth, a mwy o anrhydedd i ninau fel cenedl, na mil o gyfansoddiadau cyffredin. Gwnai ei ymddangosiad wefreiddio holl awyrgylch feddyliol ein gwlad. Creai gyfnod newydd ar ein llenyddiaeth. A gosodai hefyd fwy o enwogrwydd arnom na llonaid byd o weithiau israddol. Mae un Milton yn fwy o anrhydedd i Genedl na mil o feirdd cyffredin. Pe na fuasai y Groegiaid wedi cynyrchu neb ond Homer, buasai ef ei hun yn ddigon i osod enwogrwydd oesol ar eu henw. Nid oes dim mor effeithiol i wneyd cenedl yn adnabyddus ac enwog ag ychydig o ddynion a gweithiau annghyffredin. Ond pa fodd y ceir prifweithiau yn iaith y Cymry? Mae hyny yn fwy, fe ddichon, nag y gellir ei ateb; oblegid y mae ymddangosiad cewri meddyliol, mewn rhai ystyrion, yn ddygwyddiadol. Er hyny, os gellir darbwyllo nifer o ieuenctyd meddylgar ein gwlad i gysegru eu hoes mewn ymgais i gynyrchu gweithiau gorchestol, nid yw yn annhebyg y ceir prifweithiau gan rai ohonynt. Mae yn anhawdd genym gredu nad oes yn Nghymru y dydd hwn rai dynion galluog i ddyrchafu llenyddiaeth ein gwlad yn gyfuwch ag eiddo unrhyw genedl arall, ond iddynt geisio. Yr achos na buasai genym ddegau o weithiau gorchestol yw, mai ychydig, os neb, sydd wedi amcanu eu cynyrchu. Ymfoddlonai pawb ar y cywydd chwe'deg llinell o hyd, ar gyfansoddiadau yr un dydd a blwyddyn. Nid oedd neb yn gosod nod uchel o'i flaen, ac yn treulio ei oes i'w gyraedd—neb yn treulio blynyddoedd goreu ei oes i gynyrchu gwaith mawr a phwysig—neb, mewn gair, yn meddwl dim yn y byd am beth felly. Yn awr, goleuer meddyliau ieuenctyd darllengar ein gwlad am y peth hwn; darbwyller hwynt i ymgymeryd â gweithiau mawr, ac i dreulio blynyddoedd yn amyneddgar i'w perffeithio; ac y mae yn sicr genym na fyddwn yn hir heb weithiau llenyddol gwreiddiol yn yr iaith Gymraeg, teilwng i'w cymharu â phrif weithiau y byd. Nid wrth grwydro o'r naill wybodaeth i'r llall yr â neb yn fawr. Dynion yr un pwnc sydd yn rhagori.

Yn unfed ar ddeg, Rhodder y fath fod a ffurf i ymdrechiadau y Cymry gyda phob dim, ag a sicrhao iddynt yr anrhydedd priodol o'u plegid. Mae llawer o'n hanrhydedd yn cael ei fwynhau gan y Seison, am fod y

Digitized by Google

Cymry yn cydweithredu â hwy mewn llawer o bethau, heb roddi ffurf na bodolaeth Gymreig i'w gweithrediadau. Dyna y Cymdeithasau Cenadol Tramor, er engraifft. Mae cyfraniadau y Cymry yn foddion i gynal rhai cenadon i bregethu yr efengyl i'r paganiaid; ond pwy sydd yn cael yr anrhydedd? Y Seison, wrth gwrs; oblegid y mae cynorthwy y Cymry, yn y cyffredin, yn cael ei golli yn yr eiddynt hwy. Pa les bynag a wneir gan y gymdeithas, nid oes neb yn meddwl am roddi dim o'r clod i genedl y Cymry. Ond pe buasai y Cymry yn cydymuno i gynal Cymdeithas Genadol o'u heiddo eu hunain, fe gawsent, fel cenedl, yr holl glod perthynol iddi. Ac felly y gellid dyweyd am lawer o bethau ereill. Oblegid hyn, mae yn destyn llawenydd i bob Cymro gwresog fod gan y Methodistiaid Calfinaidd Gymdeithas Genadol Gymreig; a'u bod, gyda hyny, yn cynal cenadwr i egluro gwirioneddau yr efengyl i'r Iuddewon yn y Brifddinas. Mae y rhai hyn yn fwy o anrhydedd gwirioneddol i Gymru na holl ymdrechiadau ein cenedl mewn cysylltiad â'r Seison yn nghyd. Ac heblaw y rhoddai ffurf a bodolaeth Gymreig i ymdrechiadau y Cymry fwy o anrhydedd arnom fel cenedl, fe wnai hyny yr ymdrechiadau eu hunain yn fwy helaeth a chyffredinol. Byddai ein hanrhydedd cenedlaethol yn gysylltiedig â hwy. Byddai ganddynt afael cryfach ar ein cariad, ac nid allent lai nag enill chwaneg o gydweithrediad a chynorthwy er eu dwyn yn mlaen.

Yn ddeuddegfed, Dyger y Cymry yn mhob man i gydnabyddiaeth ddeallgar â sefyllfa ein cenedl. Ond pa fath yw ein sefyllfa? Yr ydym yn trigo mewn lle cyfyng, fel nad allwn obeithio dyfod yn genedl gref a lluosog. Mae y rhan helaethaf o'n gwlad yn meddiant y Seison, y rhai sydd yn bygwth mewn ystyr ein llyncu iddynt eu hunain. Yr ydym yn ychydig mewn nifer, ac o ganlyniad ychydig sydd yn deall ein hiaith. Mae llawer ohonom wedi mabwysiadu yr iaith Seisneg, ac felly wedi eu colli i'r Cymry. Yn ngwyneb hyn, y mae yn anhawdd i ni ar lawer ystyr gadw i fyny â chynydd yr oes. Mae marwolaeth a difodiant yn edrych yn fygythiol arnom. Mae yn annichonadwy i ni gael llênyddiaeth mor fawr o ran maint ag eiddo y Seison, na chael cymaint o amrywiaeth o fanteision dysgeidiaeth a gwybodaeth. Nid oes dim ond egni a chydweithrediad a ddichon sicrhau i ni

Digitized by Google

lênyddiaeth o'r dosbarth blaenaf. Nid ydym wedi cynyrchu digon o weithiau uwchraddol i wneyd nemawr o argraff ar y byd; ac os nad allwn yn y dyfodol wneyd ein llenyddiaeth yn rhywbeth amgen nag yw, gallwn ganu yn iach i bob dysgwyliad am enwogrwydd diddarfod i lenyddiaeth y Cymry. Y cyfryw yw ein sefyllfa. Ond er yr holl anfanteision sydd ar ein ffordd, yr ydym yn ddigon lluosog a galluog eto i gynyrchu llenyddiaeth anfarwol, ond i ni ddefnyddio ein holl adnoddau, a chyfeirio ein holl alluoedd tuag at hyny. Ond beth sydd a fyno cydnabyddiaeth ddeallgar â'n sefyllfa â'r pwnc o dan sylw? Llawer: nid allai lai na deffro teimlad o'u dyledswyddau tuag at eu cenedl mewn llawer mynwes—dygid y Cymry i weled eu rheidiau, a'r hyn sydd raid iddynt ei aberthu er mwyn eu diwallu—cynyrchai deimlad o ofid oblegid yr anfanteision sydd yn pwyso arnom, ac awydd i'w symud—a llanwai lawer mynwes â phenderfyniad i wneyd yr oll a allent tuag at wrthweithio yr anfanteision a berthynant o angenrheidrwydd i'w sefyllfa. Nid yw yn anhawdd genym dybied y gwnai golwg ddeallgar ar sefyllfa ein cenedl beri i lawer dyn ieuanc gobeithiol ymresymu âg ef ei hun fel hyn:—"Mae hunan-les yn fy nghymhell i fwrw fy nghoelbren yn mysg y Seison, ac i fabwysiadu eu hiaith; ond pe gwnawn hyny, a phe gwnai pawb ereill yr un modd, beth a ddeuai o iaith a llenyddiaeth fy nghenedl fy hun? Nid all fforddio colli fy ngwasanaeth, er lleied yw. Pe darfyddai ein hiaith a'n cenedl yn awr, prin y mae genym ddigon o ddefnyddiau i godi cofgolofn dragwyddol ar ei bedd; ac fe fyddai hyny yn resyn mawr. Ar ol cael oes mor hir, byddai yn drueni iddynt farw heb allu gadael etifeddiaeth gwerth ei derbyn i'r byd ar eu hol. Os oes modd, dylem sicrhau oes y byd i'r iaith Gymraeg: ond os yw hyny yn annichonadwy—os rhaid i'n haith farw, ac i ninau beidio bod fel cenedl wahanol, dylem ymegnio i osod anfarwoldeb ar ei henw cyn i hyny gymeryd lle. Mae y Roeg a'r Lladinaeg wedi marw, ond yn llefaru eto. Pe gallem obeithio yr un peth am y Gymraeg, byddai yn haws boddloni iddi hithau gael ei rhifo yn mysg y meirw; ac hyd onid ellir gobeithio hyny ar dir cadarn, dylai pob Cymro wneyd ei oreu er ei chadw yn fyw. Mae yn amlwg felly, mai fy nyledswydd i ydyw coleddu iaith a llenyddiaeth fy nghenedl, er fod lles per-

Digitized by Google

sonol yn fy nghymhell i fabwysiadu eiddo y Seison yn eu lle. Gan hyny, beth bynag, a pha faint bynag, a allaf fi wneyd, mi a'i gwnaf i fy nghenedl fy hun. Mi a gysegraf fy oes i wneyd a allaf i ddyrchafu fy nghenedl, a chyfoethogi llenyddiaeth fy ngwlad."

Ond y mae yn bryd i ni dynu tua therfyniad, ac ni a wnawn hyny gyda rhai sylwadau cymhwysiadol.

Gymry! mae eich dyrchafiad a'ch enwogrwydd cenedlaethol yn gorphwys arnoch chwi eich hunain. A fynech chwi fod yn fawr ac enwog? Byddwch felly. Nid oes neb na dim a ddichon eich lluddias. Mae y moddion yn gyraeddadwy i chwi. Mae myrdd o leisiau yn eich anog yn mlaen. Mae enwogrwydd yn dal coronau anrhydedd yn ei llaw, yn barod i'w rhoddi ar eich pen; ac os hebddynt y byddwch, arnoch chwi y bydd y bai.

Gyfoethogion Cymru! rhoddwch help llaw i ddyrchafu eich cydgenedl. Cofiwch mai brodyr i chwi yw y Cymry. Maent yn llawer mwy teilwng o amgeledd na chwn hela. Defnyddiwch eich dylanwad i wneyd lles iddynt—cynorthwywch i ddarparu moddion addysg ar eu cyfer—noddwch eu llenyddiaeth—edrychwch yn dosturiol ar eu hawduron sydd yn ymgodymu â thlodi. Os nad all cariad atynt eich cynhyrfu i wneyd a alloch drostynt, rhoddwch le i falchder siarad a gweithredu. Mae holl ddiffygion y Cymry, cofiwch, yn ddianrhydedd i chwi, ac fe fydd eu dyrchafiad yn ddyrchafiad i chwithau. Cyfodwch eich cydwladwyr i fyny, a chwi a gyfodwch eich hunain i fyny gyda hwy.

Rieni Cymru, o bob gradd a sefyllfa! gwnewch eich rhan i ddyrchafu eich gwlad a'ch cenedl. Mae eich rhwymedigaeth chwi yn fawr. Ni fedd neb y fath gyfleustra ag a feddwch chwi. Arferwch eich dylanwad ar eich plant yn y modd tebycaf i ddadlenu eu dealltwriaeth. Rhoddwch gyfeiriad union i'w tueddiadau a'u gobeithion. Gwyliwch rhag iddynt ddechreu tyfu yn geirnion. Amcanwch enyn athrylith yn eu calon. Cenedlwch serch ynddynt at wybodaeth. Dysgwch iddynt fod yn hoff o lyfrau. Pan fyddai Syr William Jones, pan yn blentyn, yn gofyn rhywbeth i'w fam, ei hateb yn gyffredin fyddai, "Darllen, a thi a gei wybod." Trwy hyny daeth yn hoff o lyfrau, ac yn ddyn mawr mewn gwirionedd. Rieni, meithrinwch gariad yn eich plant at lyfrau. Anogwch hwynt i ddarllen. Peidiwch byth â cheryddu yr un ohon-

Digitized by Google

ynt am fod yn hoff o'i lyfr; yn hytrach gwnewch yn fawr o'r plant darllengar. Mae yn ddichonadwy y bydd y bachgen bach llwydfoch yna, ag sydd beunydd uwchben ei lyfr, yn offeryn i anfarwoli eich enwau, ac i osod enwogrwydd bythol ar wlad ei enedigaeth. Peidiwch â'i ddigaloni. Os gwelwch dân athrylith yn dechreu cyneu, gofelwch rhag ei ddiffodd. Os lleddwch athrylith, fe fyddwch yn euog o gymaint pechod a phe llofruddiech seraff. Gosodwch draed eich plant ar y ffordd i fawredd ac anrhydedd. Amcanwch genedlu awydd ynddynt am fod yn fawr. Rhoddwch gyfeiriad uchel i'w golygon. Anogwch hwynt i fyned yn mlaen. Mewn gair, gwnewch eich goreu i wneyd dynion ohonynt; ac mewn lluaws o amgylchiadau, fe wobrwyir eich llafur â llwyddiant mwy na'ch dysgwyliad.

Weinidogion y gair! parhewch i arfer eich dylanwad er dyrchafiad eich gwlad. Yr ydych wedi gwneyd llawer yn barod, ac yn gwneyd llawer yn awr; ond braidd na feddyliai un weithiau y gallai rhai ohonoch wneyd llawer mwy nag a wnewch yn bresenol. Mae eich gallu a'ch dylanwad yn fawr, a'ch cyfleusterau i wneyd daioni yn lluosog; arferwch hwy i ddadlenu galluoedd deallol eich cydgenedl. Ymdrechwch ddeffroi meddyliau eich gwrandawyr. Gwnewch ymdrech i dynu allan eu hathrylith. Bydded yr areithfa yn feithrinfa athrylith, fel ag y mae yn feithrinfa duwioldeb. Gellwch ei gwneyd felly heb niweidio dim ar ei chymeriad crefyddol. Agorwch ddeall eich gwrandawyr. Rhoddwch iddynt olwg ar eangder cyfandiroedd gwybodaeth. Dyrchefwch hwynt i fyny. Gafaelwch yn eu llaw, ac arweiniwch hwynt yn mlaen i balasau dedwyddwch ac anrhydedd.

Athrawon yr Ysgol Sabbothol! deuwch chwithau yn mlaen i gynorthwyo gyda'r gwaith da. Defnyddiwch y cyfleusterau a gewch bob Sabboth i geisio enyn doniau y rhai sydd dan eich gofal. Porthwch hwy â gwybodaeth sylweddol. Peidiwch âg ymfoddloni ar draethu geiriau heb wybodaeth wrthynt. Mynwch feddyliau i'w rhoddi iddynt. Chwiliwch. Meddyliwch. Treiddiwch yn ddwfn i bethau. Peidiwch âg ymfoddloni nes cael gafael ar y trysorau sydd yn mhob testyn. Deuwch i gyfarfod eich dosbarthiadau yn gyfoethog o drysorau i'w rhoddi iddynt. Dysgwch hwy i chwilio ac i feddwl drostynt eu hunain. Cymerwch hwy gyda chwi trwy bob

Digitized by Google

anhawsder, hyd at ddyfnder y pwnc. Ac ond i chwi wneyd hyny, fe gyfoethogwch eu deall â gwybodaeth ysgrythyrol, ac a dynwch allan eu hathrylith ar yr un pryd.

Ieuenctid Cymru! cyfodwch chwithau at eich gwaith. Yn nechreu eich oes, penderfynwch gysegru yr oll a feddwch ac a ellwch i wasanaeth eich gwlad; gwnewch amod â chwi eich hunain i ymdrechu bod yn offerynau i'w dyrchafu; meddyliwch am ryw foddion i'w hanrhydeddu. Dechreuwch yn ddioed ar rywbeth ag a fydd yn debyg o osod enwogrwydd arni. Penderfynwch wneyd a alloch yn mhob dull i osod Cymru yn gyfuwch yn mhob ystyr a chenedloedd mwyaf gwareiddiedig y byd; ac i'r dyben hyny, tanied uchelgais eich mynwesau. Gosodwch eich nod yn uchel. Dyrchefwch eich penau tua'r nefoedd. Gafaelwch â'r ddwy law mewn gwybodaeth a dysgeidiaeth. Yfwch afonydd gwybodaeth fel y mae y môr yn yfed afonydd dyfroedd. Diosgwch amdanoch, a gweithiwch. Darllenwch. Astudiwch. Ymosodwch ar eich gwaith o ddifrif. Byddwch ddiwyd, ymroddgar, a phenderfynol. Sethrwch fynyddoedd o anhawsderau dan eich traed. Ewch yn mlaen er gwaethaf pob gwrthwynebiad. Cymerwch eich mesur oddiwrth y dynion mwyaf a fagodd y byd. Rhoddwch hyder yn eich galluoedd eich hunain. Diystyrwch bob meddwl am fod yn enwog ar draul dynion ereill. Ymwasgerwch, rhai y ffordd hon, a rhai y ffordd acw, i faesydd llenyddiaeth, ac ymgeisied pob un am fod yn gymaint a'r mwyaf yn ei faes ei hun. Pa faes bynag a ddewiswch, byddwch yn ddynion trwyadl yn y maes hwnw. Torwch lwybrau newyddion i chwi eich hunain. Byddwch yn wreiddiol. Gosodwch eich bryd ar gyflawni gorchestion. Cymerwch waith mawr mewn llaw. Treuliwch flynyddoedd i'w berffeithio. Amcenwch ei wneyd yn deilwng o anfarwoldeb. I ba le bynag yr arweinir chwi gan Ragluniaeth, peidiwch, er dim, âg annghofio gwlad eich genedigaeth. Os dyrchefwch i afael mawredd bydol, cofiwch am eich gwlad. Cedwch ei choffadwriaeth yn anwyl yn eich teuluoedd. Cyflwynwch eich perthynas â hi yn draddodiadol fel etifeddiaeth i'ch hiliogaeth ar eich hol; fel, os dygwydd i rai ohonynt gyfodi i enwogrwydd mewn unrhyw wlad, y bydd iddynt adael i'r byd wybod eu perthynas â chenedl y Cymry. Ymdrechwch yn mhob man y bydd-

Digitized by Google

och, ac yn mhob dull a alloch, chwanegu dedwyddwch, llwyddiant, ac anrhydedd y wlad a'ch magodd.

Yn awr, ond i ni fel cenedl wneyd cyfiawnder â ni ein hunain—ond i bob un wneyd ei ran yn gydwybodol, mae ein dyrchafiad dealltwriaethol yn sicr, er cymaint o anfanteision sydd yn pwyso arnom. Rhodded Awdwr pob daioni galon i ni i weithio. Bydded ei wênau dwyfol ar ein hymdrechiadau. Bydded cenedl y Cymry, er yn fechan mewn rhifedi, yn fawr mewn dysgeidiaeth a gwybodaeth. Ymddysgleiried athrylith ei meibion; lluosoged ei henwogion; ymgyfoethoged ei llenyddiaeth.

"TRA MÔR TRA BRYTHON." "OES Y BYD I'R IAITH GYMRAEG."

---

## AR DDERBYNIAD TYSTEB

### GAN GYFEILLION CREFYDDOL GRANBY RAW, MANCHESTER, RHAGFYR 25, 1861.

MR. CADEIRYDD,—Yr wyf yn wir ddiolchgar i'r eglwys a'r gynulleidfa, ac i chwithau fel eu cynddrychiolydd, am yr arwydd hwn o'ch cymeradwyaeth o fy ngwasanaeth a'ch parch tuag ataf. Gallwch yn hawdd fy nghredu, fod y rhodd, nid oblegid ei gwerth marchnadol yn gymaint, ond oblegid rhywbeth nad ellir gosod gwerth felly arni, yn werthfawr yn fy ngolwg, ac yn wir dderbyniol genyf. Mae amryw bethau ag ydynt yn rhoddi gwerth neillduol ar y rhodd hon yn fy ngolwg. Ac

Yn un peth, Mae yn awgrymu i mi fod fy llafur yn cael ei weled a'i werthfawrogi gan rywrai o leiaf, os nad gan bawb. Peth digon annghysurus i ddyn ydyw llafurio mewn amser, ac allan o amser, heb fod neb yn canfod y llafur nac yn ei werthfawrogi. Mae llawer yn gorfod gwneyd hyny. Llafur bach fu fy eiddo i, ar y goraf. Ychydig fu fy manteision a fy nghyfleusderau, ac o ganlyniad, ychydig allais wneyd. Ond er lleied fu fy llafur, mae rhywun wedi ei weled, ac yn ei werthfawrogi, fel y mae y dysteb hon yn dangos; ac y mae ystyriaeth o hyny yn gwneyd y rhodd yn werthfawr ac yn dderbyniol genyf.

Digitized by Google

Yr wyf wedi bod yn amheus yn fy meddwl o hyd er pan glywais amdani gyntaf, pa un a ddylaswn ei derbyn ai peidio. Mae yr amheuaeth yn codi oddiar ymwybodolrwydd o fychander fy llafur. Ychydig wyf wedi wneyd wrth a wnaeth llawer ereill yn fy oed—ychydig wrth yr hyn a allaswn wneyd; a gallaf chwanegu, yr hyn a ddylaswn wneyd hefyd. Ychydig fanteision a gefais, mae yn wir, ac ychydig o gyfleusderau; ac o'r ychydig hyny, er fy ngofid rhaid dyweyd, gadewais i lawer ohonynt ddianc ymaith heb eu defnyddio. Mae edrych yn ol ar fy oes yn peri gofid i mi, am na buaswn wedi gwneyd mwy. Ond gan mai ychydig a wnaethym, ychydig, wrth gwrs, ydyw fy nheilyngdod i gael fy nghydnabod am hyny. Ond yr un pryd, mae bychanrwydd y llafur yn gosod mwy o werth ar y gymeradwyaeth. Ac os gofynir, paham, yn ngwyneb y cyfryw syniadau, yr wyf yn ei derbyn, atebaf, nid am fy mod yn meddwl fy mod yn ei theilyngu, ond am fy mod yn gobeithio ac yn hyderu y gall fod yn foddion i'm calonogi i dynu yn y blaen—i amcanu ac ymdrechu gwneuthur mwy rhagllaw—ac hefyd i roddi bywyd newydd ynwyf, fel ag y bydd y nos hon yn ddechreu cyfnod newydd yn fy oes, os gwel Duw yn dda estyn fy nyddiau ar y ddaear.

Peth arall sydd yn gwneyd y rhodd yn werthfawr a derbyniol genyf ydyw, cofio pwy sydd yn ei rhoddi. Rhodd cyfeillion gartref ydyw. Nid bob amser y mae llafur dyn gartref yn cael ei gydnabod. Mae dywediad gan ein cymydogion, nad oes neb yn arwr yn ngolwg ei ystafellydd neu ei was. Gall fod dyeithriaid yn meddwl ei fod yn ddyn mawr ac enwog, ond y dyn sydd yn ei weled bob dydd, ac yn ei glywed ar bob adeg, nid yw yn gweled dim ynddo rhagor dynion ereill. Mae yr un syniad i'w gael mewn ymadrodd ysgrythyrol,—"Nid oes i broffwyd anrhydedd yn ei wlad ei hun." Rhaid dyfod i ymyl rhai pethau er mwyn eu gweled i fuddioldeb, tra mae pellder yn angenrheidiol i weled pethau ereill. Ac y mae llawer dyn yn ymddangos yn well wrth ei weled o bell; o leiaf, mae ymddygiadau dynion yn aml yn gwneyd canwyll yn y *pellder* yn haul, a haul yn *ymyl* yn ganwyll frwyn. Ond rhodd brodyr a chwiorydd, cyfeillion a chydnabod, ydyw y dysteb hon; ac y mae cofio hyny yn gosod gwerth arni yn fy ngolwg.

Drachefn, rhodd heb ei dysgwyl ydyw. Pe buasai

Digitized by Google

genyf ryw law yn nghychwyniad y dysteb—pe buaswn wedi cynllwyn yn ddirgelaidd, neu ryw ffordd arall, er mwyn ei chael, ychydig iawn o werth a fuasai ynddi. Ond ni ddysgwyliais amdani—ni ddaeth y fath beth erioed i fy meddwl. Mae fy llafur i gyd wedi bod yn llafur cariad. Yr wyf yn pregethu am fy mod yn caru y gwaith; ac yr wyf yn cyfansoddi am fy mod yn cael pleser wrth wneyd hyny. Ni bu genyf erioed olwg am gael un gydnabyddiaeth am wneyd dim a wnaethym. Felly, mae y rhodd hon wedi dyfod yn hollol annysgwyliadwy i mi; ac y mae hyny yn ei gwneyd yn werthfawr yn fy ngolwg.

Ac nid yr elfen leiaf sydd yn cyfansoddi ei gwerth ydyw y cariad, y parodrwydd, y parch, a'r ewyllysgarwch, a ddangosir yn ei chyflwyniad. Mae yn cael ei rhoddi mor llawen a chynhes fel y gwelir ar unwaith ei bod yn cael ei chyflwyno o wirfodd calon. A dyma sydd yn gwneyd y rhodd yn werthfawr ydyw, y parch sydd yn ei chanlyn. Peth hawdd yw rhoddi pris ar y rhodd; ond y mae y cariad sydd yn ei rhoddi yn anmhrisiadwy. Nid wyf yn dibrisio y rhodd, ond yr wyf yn gwerthfawrogi y gymeradwyaeth sydd yn ei chanlyn yn llawer mwy; ac y mae y rhodd yn werthfawr yn benaf fel arwyddlun o'r parch a'r cariad sydd yn ei chyflwyno.

Ac y mae ystyriaeth arall hefyd yn peri i mi werthfawrogi y rhodd, pa un bynag a wyf fi yn haeddu y rhodd, ai nad wyf; a pha un bynag a fydd y dysteb o ryw les i mi yn bersonol, ai na bydd. Mae yn bosibl y gall fod yn foddion i dueddu rhywun sydd yma yn edrych, i ddylyn llwybr rhinwedd a dyledswydd, ac i amcanu gwneuthur rhywbeth er llesau eu cyd-ddynion, haeddu eu parch a'u cymeradwyaeth.

Felly, yr wyf yn derbyn y rhodd gyda diolchgarwch; ac yr wyf yn hyderu y bydd, er lleied yw, yn gwlwm undeb a chariad parhaus rhyngwyf a'r rhai sydd yn ei rhoddi. Yn wir, y mae y gymeradwyaeth, o ba un y mae yn arwyddlun, wedi ei chynysgaethu yn barod â llygaid i weled, ac â thafod i lefaru; mewn ystyr, wedi ei gwisgo â bywyd. Os byth y bydd i fy nghariad oeri, ac i'm dwylaw laesu gyda'r gwaith, fe edrych gyda llygad ceryddol arnaf, ac a'm hadgofia o'r dyddiau a'r amser gynt. A phob tro yr edrychaf finau arni hi, fe gwyd ei hysbryd, ei llygaid, a'i bys tuag i fyny, gan ddyweyd, yn uwch, yn uwch, "Na ddiffygia ar dy daith; amcana

Digitized by Google

bethau mwy; paid â boddloni nes cyraedd pen y bryn—bryn uchel enwogrwydd a defnyddioldeb—ar ei gopa yn ddigon uchel i'r byd dy weled a dy fawrhau. Ac fe fydd ysbryd y rhodd yn fy nylyn i bob man, ac yn llefaru wrthyf am y maes mawr sydd genyf eto i'w feddianu, a'r llafur a'r diwydrwydd sydd yn angenrheidiol tuag at hyny. Diolchaf i chwi oll am eich caredigrwydd, a gweddiaf ar Dduw am roddi i mi bob gras a doethineb, fel na'ch siomer yn eich meddyliau caredig amdanaf, a'ch dymuniadau daionus ar fy rhan.

---

## ARAETH

### A FWRIADWYD EI THRADDODI MEWN CINIAW YMADAWOL I GYFAILL.

MR. CADEIRYDD,—Mae yn dda genyf gael y cyfle hwn i amlygu fy syniadau uchel am ein cyfaill dysgedig a doniol, ac i'w lon-gyfarch ar ei ddyrchafiad i'r swydd bwysig y mae ynddi; a dymuno, gyda hyny, am lawer o gysur iddo yn ei gysylltiadau newydd, a llawer o lwyddiant ar ei ymdrechiadau i ddyrchafu ei wlad ac enwogi ei genedl. Yr wyf yn ei adnabod er ys llawer blwyddyn bellach, a gallaf dystio fy mod wedi ei gael yn ddyn a chyfaill yn ystyr lawnaf y geiriau. Yn sicr nid allesid cael ei gymhwysach i'r swydd. Os oes rhyw *ry* yn y mater, *rhy* dda i'r swydd ydyw y *rhy* hwnw. Mae ei benodiad i'r swydd yn un dedwydd—mae ef yn ffitio y swydd, ac y mae y swydd yn ei ffitio yntau. Buasai yn anhawdd cael swydd fwy addas iddo ef, a buasai yn anhawdd iawn cael neb mwy addas nag yntau i'r swydd.

Mae ei benodiad i'r swydd hon yn destyn llon-gyfarchiad iddo ef, ac i ninau fel Cymry. Mae yn anrhydedd iddo ef. Dengys fod gan ei genedl feddwl mawr ohono. Goreuwyr ei wlad a'i dewisodd. Dynion o ddysg, a dawn, a dylanwad sydd wedi ei osod lle mae; ac y mae meddwl uchel y cyfryw rai amdano yn anrhydedd mawr i'w enw. Mae gair da pawb yn well na'u cas; ond mae yn bosibl cael gair da heb fod fawr o werth ynddo, oblegid distadlrwydd y rhai fydd yn ei roddi: ond pan mae y dysgedig,

Digitized by Google

y talentog, a'r da yn canmol, mae gwerth a phwys yn y ganmoliaeth. A chanmoliaeth felly mae ein cyfaill wedi gael yn ei ddewisiad, allan o nifer mor fawr o ymgeiswyr teilwng, i lenwi y swydd bwysig y mae ynddi yn awr.

Yn y swydd hon caiff ein cyfaill fwy o hamdden a manteision i weithio allan y syniadau uchel sydd yn ac wedi bod yn cynhyrfu ei enaid mewn awydd cryf i lesau ac enwogi ei genedl. Mae llawer bardd a llenor yn Nghymru wedi bod yn hiraethu am gael rhyw alwedigaeth i'w chyflawni lle gallent gael mwy o amser, a chwaneg o gyfleusderau, i roddi ffurf a bywyd i'w meddyliau, ac i weithio allan gynlluniau eu calon gynhes tuag at ddyrchafiad eu gwlad; ond ofer fu eu dysgwyliad—siomwyd eu gobeithion—cuddiwyd eu talentau gwych, gan dlodi a chyfyngder, allan o olwg y byd. Mae llawer un eto yn Nghymru a garai gysegru ei ddawn i enwogi ei wlad; ond mwy na thebyg yw mai siomedigaeth fydd eu rhan, fel llawer o'u brodyr o'u blaen. Diau genyf fod yr awydd hwn wedi cael ei deimlo gan ein cyfaill hefyd. Bu ei galon lawer gwaith yn dyweyd, "O na chawn fy amser i gyd i mi fy hun, fel y gallwn ddarllen, myfyrio, ysgrifenu, a gwneyd rhywbeth o bwys a gwerth er anrhydeddu fy ngwlad." Nid wyf yn ameu nad oedd gan yr awydd hwn ran fawr yn nhueddiad ei galon i ymofyn am y swydd. Ond pa un bynag am hyny, er y bydd ganddo lawer o ddyledswyddau pwysig i'w cyflawni, bydd ganddo fwy o hamdden a manteision i ymwneyd â llenyddiaeth; yr hyn a fydd, yr wyf yn dra sicr, yn bleser mawr i'w feddwl ef.

Dygir ef i gydnabyddiaeth a chyfeillgarwch â phrif wŷr ein cenedl. Nid peth bach yw hyn. Nid peth i'w ddiystyru. Mae manteision lawer mewn cysylltiad â hyn i feddwl llenorol. Caiff gyfle i wybod syniadau ereill ar faterion pwysig ei alwedigaeth, a chyfle i ledaenu ei eiddo ei hun. Rhydd ei swydd fantais iddo i ysgrifenu ei enw yn annileadwy ar ddalenau cyfrolau hanesiaeth—i sicrhau iddo ei hun le amlwg yn nheml enwogrwydd—ac i anfarwoli ei enw. Ac yr wyf yn sicr nad yw ein cyfaill yn un a geisiai ddibrisio y manteision gwerthfawr hyn. Mae yr holl bethau hyn a llawer ereill a allesid enwi yn gwneuthur penodiad ein cyfaill i'w swydd bwysig yn anrhydedd gwirioneddol iddo ef; nid allasai ei genedl fel y cyfryw roddi arwydd uwch o'i chymeradwyaeth iddo;

Digitized by Google

dengys fod ganddi feddwl mawr am ei allu, a hyder yn ei lwyddiant. Ac felly, gallwn lon-gyfarch ein cydwladwr talentog ar ei ddyrchafiad calonog i'r swydd bwysig hon.

Ond y mae ei benodiad ef i'r swydd hon nid yn unig yn anrhydedd iddo ef, ond yn anrhydedd i ninau a'n gwlad. Dylem lon-gyfarch ein gwlad am iddi lwyddo i sicrhau un mor deilwng i'w gwasanaethu. Os yw y swydd yn anrhydedd iddo ef, mae yntau yn anrhydedd i'w swydd. Mae yn mhob ystyr o'r gair yn gymhwys i'w llanw. Hwyrach y buasai yn bosibl cael ei gystal, ond yn sicr nid yn hawdd y gallesid cael ei well. Mae holl elfenau cymhwysder yn cydgyfarfod ynddo ef.

Mae yn ddyn o feddwl. Mae ganddo lygaid i weled, calon i deimlo, a beiddgarwch i wneyd. Mae ganddo lygad craff. Nid yn aml y cyfarfyddir âg un craffach nag ef. Os bydd gwall a diffyg, mae ef yn dra sicr o'u weled, ac os bydd modd eu gwella, mae yn dra sicr o weled y ffordd i wneyd hyny. Os oes modd gwella yr Eisteddfod, nid wyf yn gwybod am neb tebycach o ddeall arwyddion y clefyd, a gwybod am y feddyginiaeth effeithiol, na'r ysgrifenydd dewisedig. Mae natur wedi ei gymhwyso â chraffder neillduol o gymhwys at y gwaith sydd ganddo mewn llaw. Ac y mae yn ddyn all deimlo. Nid all yr wyf yn sicr wrando yn ddigyffro ar neb yn dirmygu ein gwlad; na chlywed ei chanmol, heb i'w galon lawenhau. Mae y teimladrwydd hwn yn gymhwysder neillduol iddo ef yn ei swydd newydd. Mae yn ei wneyd yn un ag y gellir ymddiried anrhydedd ein gwlad a chymeriad ein llenyddiaeth o dan ei ofal. Hefyd mae ganddo wroldeb i wneyd, i gyflawni. Mae yn gallu meddwl drosto ei hun, ac y mae ganddo wroldeb i draethu ei feddwl a medrusrwydd i'w amddiffyn. Pan wêl efe rywbeth yn eisieu, mae yn meddu ar y gallu a'r gwroldeb i'w gyflawni; ac fel un sydd yn meddu ar y priodoleddau gwerthfawr hyn, mae yn un cymhwys, yn mhob ystyr o'r gair, i lenwi y swydd y dewiswyd ef iddi.

Mae efe yn llenor, ac yn llenor profedig. Yr oedd yn angenrheidiol cael dyn nid yn unig o allu, ond o brofiad a chyraeddiadau—nid un yn meddu ar allu i wneyd rhywbeth yn unig, ond un wedi gwneyd rhywbeth yn barod. Yn ein cyfaill yr ydym yn cael un felly. Nid yw yn anhyddysg o lenyddiaeth ein cymydogion y Seison, ac nid yw yn anwybodus o adnoddau llenyddol

Digitized by Google

ein cenedl ein hunain. Mae ei ysgrifeniadau, ei feirniadaethau, a'i farddoniaeth, wedi ei brofi er ys amser bellach yn un o dywysogion llenyddiaeth ein gwlad. Ac fel y cyfryw, mae yn gosod urddas ar y swydd y dewiswyd ef iddi

Mewn swydd fel hon deuir i gyfarfyddiad â llawer o wahanol bersonau mewn opiniynau, tueddiadau, a chyraeddiadau. Cyfarfyddir a gwrthwynebwyr o bob gradd. Bydd rhai yn gwgu, rhai yn gwawdio, rhai yn groes, rhai yn beio, ac ambell un yn canmol ac yn gwenu. Bydd rhai hefyd mor bendew a chyndyn a mulod. Ac i ymwneyd yn llwyddianus â chynifer o wahanol gymeriadau, mae yn ofynol cael dyn oer, pwyllog, amyneddgar, a hunan-feddianol; a dyn felly yn gymhwys yw ein cyfaill yr ysgrifenydd. Mae wedi cael ei fendithio â llawer iawn o bwyll a hunan-feddiant. Os gall neb ddal heb wylltio, gall ef wneyd; ac os yw bosibl gwneyd i fulod ddeall, efe yw y dyn at hyny. Mae ei arafwch, ei allu mawr i wneyd pethau yn eglur, a'i hunan-feddiant, yn ei wneyd mewn modd arbenig yn un cymhwys i'r swydd.

Ond anfuddiol yw pob cymhwysder heb ymroddiad a dyfal-barhâd. Rhaid cael dyn uwchlaw anhawsderau a rhwystrau—dyn all ymroddi, a pharhau i ymroddi, cyn y gellir dysgwyl am lwyddiant. Ac yn hyn eto mae ein cyfaill yn gymhwys iawn i'r swydd y dewiswyd ef iddi. Mae yn ddiwyd ac yn benderfynol. Nid oes rwystrau a'i digalonant. Nid oes arno ofn gwaith. Mae yn gallu cael pleser mewn gweithio trwy rwystrau; ac fel y cyfryw, mae yn un cymhwys iawn i'w swydd newydd. Ac y mae yn ddyn sydd yn deall busnes—wedi arfer â masnach a gwaith—yn deall y dull o gario gweithoedd mawr yn mlaen; ac felly yn gwybod gwerth amser, pwysigrwydd prydlondeb, a gallu dyfal-barhâd; a bydd y wybodaeth ymarferol sydd ganddo o egwyddorion masnach yn llawer o gynorthwy iddo weithio yn llwyddianus yn ei sefyllfa newydd.

Ond uwchlaw pob cymhwysder arall, mae yn caru ein cenedl ni; mae yn deyrngarol i'n hiaith ni; mae yn awyddus i ddyrchafu ein llenyddiaeth ni. Ni buaswn yn ystyried pob cymhwysder arall yn ddigonol heb y cymhwysder hwn. Mae y cymhwysder yma ynddo ef—mae ei galon yn caru ei wlad—mae yn cymeryd dyddordeb yn ei hachos—ac y mae yn awyddus i wneuthur a

Digitized by Google

allo er ei hanrhydeddu. Dyma sydd yn ei wneuthur yn gymhwys i'w swydd. Ni raid i ni ofni i'n gwlad a'n hiaith gael cam ganddo ef. Yr hyn a all efe er anrhydedd gwlad ein tadau, efe a'i gwna. Dylai ein gwlad fod yn falch ddarfod iddi sicrhau gwasanaeth un mor gywir a galluog i'w gwasanaethu. Bydded i ni fawrhau ein cyfaill—cynorthwywn ef—byddwn yn gefn iddo. Peidiwn â dysgwyl gormod wrtho ef yn unig: mewn llu mae nerth. Bydded pob Cymro gwladgarol â'i law a'i arian yn barod i'w helpio i gario allan ei gynlluniau tuag at ddyrchafiad ei wlad, a chyfoethogiad ei llenyddiaeth.

Gwna dithau, gyfaill, gyfiawnder â thi dy hun, a chyfiawnder â dy swydd. Dyna y cwbl sydd yn angenrheidiol er dy lwyddiant. Yr wyt wedi cael gallu; defnyddia ef. Ac yn awr yr wyt wedi cael y cyfleustra yn ogystal a'r gallu; dangos dy hun yn deilwng o'r ymddiried. Nid wyf yn ameu na wnai; a dyna pa'm yr wyf yn rhoddi i ti y cynghor. Bydded anrhydedd ein gwlad yn nod ein bywyd. Bydd di, a byddwn ninau i gyd, yn deyrngarol i'n gwlad a'n hiaith. Bydd barod i amddiffyn dy wlad, a gwna dy oreu i'w gwneyd yn enwog. Mae yn dda genyf, gyfaill, gael y cyfle hwn i dy lon-gyfarch ar dy ddyrchafiad i'r swydd bwysig, a'm dymuniad yw, ar dy fod yn llwyddianus iawn ynddi. Yr Arglwydd a dy fendithio, ac a'th wnelo yn fendith.

---

## GWERSI'R CYFYNGDER.

### ARAETH A DRADDODWYD YN GRANBY ROW, MANCHESTER, RHAGFYR 25, 1862.

MR. CADEIRYDD,—Mae dygwyddiadau mawr yn ffurfio cyfnodau yn mywyd cenedloedd, ac yn hanes y byd. Maent yn bethau i edrych arnynt yn y presenol a'r dyfodol fel pethau pwysig yn eu natur a'u canlyniadau, ac fel y cyfryw maent yn llawn o addysgiadau i drigolion oesau lawer. Dygwyddiad felly ydyw y cyfyngder presenol yn y gweithfeydd Cotwm. Mae yn gyfyngder mawr, ac felly yn tynu sylw mawr. Mae rhyw beth yn arswyd-



Digitized by Google

lawn yn y meddwl, fod haner miliwn o drigolion yn cael eu cadw o'r bedd gan law elusen. Ond felly y mae. Mae yn amlwg y bydd son am y cyfyngder hwn am oesau. Bydd yn gyfnod yn hanes ein cenedl. Ac fel y cyfryw, mae yn drysorfa o wersi ac addysgiadau i ni. Edrychwn arno am ychydig funudau; trown ei ddalenau; darllenwn ei wersi; a manteisiwn, os gellir, o'r cyfyngder ei hun.

Mae y sylw lleiaf ar y cyfyngder yn dysgu yr angenrheidrwydd a'r pwysigrwydd o ragddarbodi erbyn cyfyngderau bywyd. Mae rhyw amgylchiadau cyfyng yn cyfarfod pawb—selni, damweiniau, diffyg gwaith, marwolaeth yn y teulu, neu rywbeth arall. Mor dda mewn amgylchiadau felly ydyw fod gan ddyn ychydig wrth gefn. Diffyg rhagddarbod ydyw yr achos fod llawer yn dyoddef y cyfyngder presenol. Yr oeddent yn cael cyflogau da, gwaith cyson, iechyd da, ond gwarient y cwbl fel pe buasai eu llwyddiant i bara byth. Ni roddent ddim heibio erbyn y dydd du. Dyma y dydd drwg wedi dyfod, ac y maent heb ddim ond a roddir iddynt gan elusen. Mae ereill oeddent yn yr un sefyllfa a hwy wedi rhagbarotoi, a thrwy y rhagbarotoad hwnw, maent yn gallu byw yn y cyfyngder, heb bwyso ar neb. Diffyg rhagofal ydyw achos mawr y cyfyngder. Dibynodd ein gwlad mewn dallineb ar lafur a marchnad gaethwasiol yn unig i gyflenwi ei heisieu â chotwm. Rhybuddiwyd hi lawer gwaith o'r perygl cysylltiedig â hyny. Proffwydwyd am yr hyn sydd wedi cymeryd lle. Ond ni chymerodd hi y rhybudd. Daeth yr attaliad ar gotwm gwaedlyd y Negro—a chyda 'r newyn am gotwm, daeth y cyfyngder mawr presenol—i gyd o ddiffyg rhagofal. Gan hyny cymerwn rybudd. Dysgwn wers oddiwrth y cyfyngder. Dysgwn ragbarotoi. Dysgwn gynilo. Rhoddwn heibio erbyn amgylchiadau cyfyng ein hoes. Mae rhagluniaeth yn ffafriol i ragddarbodaeth. Mae hi wedi gwneyd ein heisieu yn fach a'n bendithion yn fawr. Ychydig yw ein hangenion, ac y mae ein derbyniadau yn lluosog. Mae hi yn rhoi tipyn yn ormod i bawb, ac y mae y tipyn gormod wedi cael ei fwriadu ganddi i gael ei drysori erbyn y dyfodol. Ieuenctyd, da chwi, dysgwch oddiwrth y cyfyngder presenol y wers bwysig o ragddarbodaeth.

Eilwaith, mae y cyfyngder yn dysgu i ni y gwerth a'r mawredd sydd mewn pethau bach. Mae y ddwy ochr—ochr y cyfyngder ac ochr yr elusen—yn cyd-ddysgu y wers

hon. Llawer o gyfyngderau bach, mewn cymhariaeth, sydd yn gwneyd i fyny y cyfyngder mawr; a llawer o elusenau bach sydd yn gwneyd i fyny yr elusen mawr. Dysgwn ninau oddiwrth y cyfyngder ofalu am, a gwerthfawrogi y pethau bach. Gronynau bach o oleuni sydd yn gwneyd i fyny y corff ohono sydd yn goleuo y byd. Gronynau bach o dywod gyda'u gilydd sydd yn dal y môr ar eu mynwes. Dyferynau bach o ddwfr sydd yn gwneyd i fyny y môr. Mae gwerth a mawredd yn y pethau bach. Mae gwastraff bach bob dydd yn wastraff mawr mewn blwyddyn; a chynildeb bach yn feunyddiol yn gynildeb mawr iawn mewn oes. Gofalwch am y ddimai a'r geiniog, ac ni fydd eisieu gofalu am y penadur.

Eto, mae y cyfyngder yn dysgu fod cysylltiad agos iawn rhwng meddwdod a throseddau gwladol. Gallasem dybio hyn o'r blaen; ond yn awr mae ffeithiau yn ei brofi. Pan ddaeth y cyfyngder, yr oedd pawb yn ofni y buasai troseddau yn amlhau; ond yn lle amlhau, maent wedi lleihau yn ddirfawr. Yn y chwarter a ddiweddai Hydref 30, 1862, yr oedd nifer y troseddwyr yn swydd Caer wedi lleihau 222; ac o'r nifer yna yr oedd lleihâd o 181 yn y gweithfeydd Cotwm. Mae troseddau wedi lleihau hefyd yr un modd yn y sir hon. Yn awr, beth yw yr achos o'r lleihâd? Nid oes genyf ddim ofn dyweyd, mai yr achos yw, fod gweithwyr y parthau hyn yn awr yn analluog i brynu diodydd meddwol. Cadwer y bobl o'r tafarndai, ac fe'u cedwir o'r carcharau ar yr un pryd.

Drachefn, mae y cyfyngder yn dysgu i ni y buddioldeb o ddwyn cyfryngau gwybodaeth i gyraedd y bobl yn gyffredinol. Mewn adegau o gyfyngder, hen arfer y gweithwyr ydoedd codi terfysg—cyhuddo y meistriaid a'r mawrion o gydfwriadu yn eu herbyn; ac mewn canlyniad, rhoddent y bai o'u caledi wrth eu drws—codent yn eu herbyn—dinystrient eu heiddo—a chaent eu hunain o'r diwedd yn y carchar. Ond nid oes dim o'r fath yn cymeryd lle yn awr. A beth yw yr achos? Yr achos yw, fod y gweithwyr yn awr yn gwybod yr achos o'r cyfyngder. Gwyddant nad yw y bai ar eu meistriaid, nac ar y llywodraeth. Gwyddant na wnai terfysgu ddim daioni iddynt; ac y maent yn meddu y wybodaeth hon trwy fod cyfryngau gwybodaeth yn gyraeddadwy iddynt. I'r wasg rydd a rhad yr ydym i ddiolch am y peth hyn. Mae y wasg wedi gwneyd y bobl yn wleidiadwyr rhy dda

Digitized by Google

i fod yn derfysgwyr. Trwy y wasg maent yn cael eu cadw yn hysbys o amgylchiadau y rhyfel, ac yn gweled prawfiadau parhaus o gydymdeimlad eu meistriaid, a chyfoethogion y wlad, â hwy yn eu caledi. Wel, peth da yw dwyn cyfryngau gwybodaeth ac addysg i gyraedd y bobl yn gyffredin. Mae dynion wedi bod yn ofni, os addysgid y bobl na wnaent weithio, nad ellid eu trin, na gwneyd dim ohonynt; ond yr oeddent yn ofni heb achos. Nid yw gwybodaeth yn gwneyd drwg i neb, yn hytrach daioni. Mae y cyfyngder yn dysgu y wers hon i ni.

Gwers arall a ddysgir i ni trwy y cyfyngder mawr ydyw, nad all pechodau personol, cymdeithasol, na gwladol, ddianc yn hir heb gael eu dial. Mae yr Unol Dalaethau wedi bod yn masnachu mewn gwaed dynol am flynyddau; ac wrth wneuthur hyny, yr oeddent yn pechu yn erbyn dynoliaeth ac yn erbyn Duw. Os ydyw gwerthu dyn gwyn, os yw cadwyno dyn gwyn, yn bechod, mae gwerthu a chadwyno dyn du yn bechod. Os oes gwerth mewn gwaed dyn gwyn, mae gwerth yn ngwaed y dyn du. Ond y mae y dyn du wedi cael ei gyfrif gan ddynion gwynion America fel anifail, a'i drin fel y mynai calon ellyllaidd ei feistr. Hawdd oedd gwneyd hyny. O ie, hawdd iawn; ond nid hawdd yw attal y digofaint. Mae gwaed y Negro wedi llenwi y ffiolau â dialedd, ac y mae y dyn gwyn yn awr yn gorfod profi y gwae a ddyoddefodd y Negro, druan, flynyddau hirion. Dyoddef mawr oedd dyoddef y Negro, cam mawr oedd ei gam, a dial mawr yw y dial hefyd. Mae yr oes bresenol yn gorfod dwyn ei phechodau ei hun, a phechodau yr oes o'r blaen yn ogystal. Nid rhyw ddyoddef bach sydd yn ddigon i ad-dalu camwri oesau. Os mawr oedd cam a dyoddefaint y Negro, bydd dyoddefaint ei ormeswyr gwynion yn llawer mwy. Gellir edrych ar y rhyfel cartrefol yn America fel ffrwyth dialeddol oesau o gam a gormes ar y Negro tlawd. Ac nid oedd ein gwlad ein hunain yn ddieuog. Trwy gyfyngu ein masnach bron yn llwyr i'r Americaniaid, yr oeddem yn tynhau y gadwen am y caethwas, ac yn gwneyd ei faich yn drymach. Ac y mae y gosp wedi ein cyraedd. Mae y cyfyngder presenol yn gerydd i ni fel gwlad am y gefnogaeth a roisom i'r rhai oeddent yn masnachu mewn gwaed dynol. Dysgwn, gan hyny, y wers hon trwy y cyfyngder,—fod cosp yn sicr o oddiweddyd y pechadur. Ti elli bechu—peth hawdd

Digitized by Google

iawn yw pechu; gelli barhau mewn pechod hwyrach am flynyddau; ond mor sicr a dy fod yn pechu, fe ddaw y dialedd, ac nid ellir ei attal.

Hefyd, mae y cyfyngder yn dysgu i ni y cysylltiadau agos sydd rhwng y naill a'r llall, a'r ffaith fawr fod y naill berson a'r naill wlad yn dibynu i raddau pell ar bersonau a gwledydd ereill. Nid allwn wneyd heb ein gilydd. Mae y tlawd yn dibynu ar y cyfoethog, a'r cyfoethog yn dibynu ar y tlawd. Mae y wlad yn ddyledus i'r dref, a'r dref yn derbyn gan y wlad. Os bydd y naill ran yn teimlo, mae y rhan arall yn dyoddef yr un pryd. Ac y mae hyn yn wir nid yn unig am un wlad ynddi ei hun, ond am wledydd mewn cysylltiad â'u gilydd. Mae rhyfel cartrefol yn rhwygo yn America, ac y mae Lancashire yn y fan mewn newyn. Nid allwn fyw arnom ein hunain; yr ydym yn dibynu ar genedloedd ereill am lawer iawn o ddefnyddiau ein cysur a'n llwyddiant. Gan hyny, dylem fod yn barchus ein hymddygiadau tuag at ein gilydd. Dylem beidio â difrio cenedloedd ereill, yn enwedig peidio â gwneyd cam â hwy. Yn hytrach, ein dyledswydd ydyw magu a meithrin teimladau brawdol rhwng y naill wlad a'r llall, yn gystal a rhwng gwahanol raniadau cymdeithas yn ein gwlad ein hunain.

Eto, mae y cyfyngder yn dysgu fod llawer iawn o haelioni a thosturi yn y wlad. Hawdd iawn yw gan y tlodion gollfarnu y cyfoethogion, a dyweyd eu bod yn galongaled, ac yn ddiofal o'r tlawd. Ond wrth edrych ar y miloedd sydd yn dylifo o logellau y cyfoethogion i dori eisieu y dyn tlawd, mae yn rhaid cydnabod fod yn mysg y cyfoethogion lawer iawn o dosturi tuag at y tlodion. Ac o'r ochr arall, mae mwy o hunanymwadiad yn mysg y tlodion nag y mae llawer yn foddlawn i gyfaddef. Mae y symiau a gyfrenir, hyd yn nod gan y gweithwyr tlotaf, yn teilyngu canmoliaeth uchel i'w haelfrydedd. Hyderaf y bydd y cyfyngder yn gwlwm undeb rhwng y tlawd a'r cyfoethog am lawer blwyddyn i dd'od.

Yn olaf, mae y cyfyngder yn dysgu i ni ein hymddibyniaeth ar ragluniaeth Duw. Mor hawdd y gallai Duw ein hamddifadu ni o bob peth. Nid rhaid iddo ddim ond llefaru wrth y cwmwl, yr haul, neu y ddaear, na byddai ein hymborth yn pallu yn y fan. Nid rhaid iddo ddim ond gollwng i ddyn raff ei gynddaredd na ddinystrid ein cyfoeth, ein llwyddiant, a'n dedwyddwch yn y fan. Ac

Digitized by Google

wedi i ryw un peth ballu, neu i ryw un peiriant ddyrysu. mor ddirym ydym i wneyd y diffyg i fyny! Er cymaint o eisieu cotwm sydd arnom yn bresenol, nid allwn ei wneyd, rhaid i ni aros a dysgwyl wrth ragluniaeth Duw. Ac er mor dda fyddai genym glywed am heddwch rhwng y pleidiau yn America, nid oes genym allu i'w gael. Ond y mae calonau breninoedd a llywodraethwyr yn llaw Duw. Gall ef attal cynddaredd dyn pan y myn, a pheri i'r gweddill ohono ei folianu. Ac nid oes neb ond Duw yn alluog i lywodraethu ein hamgylchiadau. Gan hyny cofiwn ein dibyniaeth ar y Goruchaf. Rhoddwn y gogoniant i'w enw am yr oll a fwynhawn oddiar ei law. Ac yn ein cyfyngder trown ein gwyneb at Dduw, cyffeswn ein pechodau ger ei fron, gofynwn iddo dosturio wrthym, a throi ei ddigofaint draw; am iddo wasgar y bobl sydd dda ganddynt ryfel, a llenwi y ddaear â heddwch, ac â santeiddrwydd i enw yr Arglwydd.

---

## ARAETH A DRADDODWYD MEWN CWRDD TE.

Mae gan y Seison ddiareb yn dyweyd, "Lle mae ewyllys mae ffordd." Ac y mae y Dysgawdwr mawr wedi dyweyd wrth un arall, "Bydded i ti fel yr wyt yn ewyllysio." Mae y ddau ymadrodd yma yn llawn o awgrymiadau gwerthfawr iawn i ni. Yr ydych chwi yma, fel eglwys a chynulleidfa, wedi bod yn ewyllysio yn hir cael lle i chwi eich hunain i gyfarfod â'ch Duw a'i addoli; ac yr oedd genych achos a rheswm i ewyllysio. Pan y mae mab a merch ieuanc yn myned i'w priodi, mae rhai o ddewisiad, a rhai o angenrheidrwydd yn myned i fyw i lety, ond y mae y nifer amlaf yn dodrefnu tŷ iddynt eu hunain, ac yn myned yno i fyw. A'r rhai sydd mewn llety, ewyllysio y maent i gyd am gael tŷ iddynt eu hunain. Mae hyny yn ddigon naturiol hefyd. Pa mor gysurus bynag yw y lle, mae rhyw beth mewn cartref, er iddo fod yn gartref gwael, ag sydd yn rhagori ar y llety goraf. Mewn llety yr ydych chwithau wedi byw er ys tro, ac fel braidd i bawb mewn llety, yr ydych wedi bod yn ewyllysio am gartref i chwi eich hunain. Ac y mae y ddiareb wedi

Digitized by Google

profi ei hunan yn wir yn eich achos chwi, fel mewn miloedd o achosion ereill. Mor wir a'ch bod wedi ewyllysio cael addoldy, yr ydych wedi cael ffordd i'w gael, a'i gael braidd yn well nag y gallasech ddysgwyl. Yr ydych chwi yn llawen yn y rhagolwg ar y dydd y cewch fyned yno, ac yr ydym ninau yn cydlawenhau â chwi. Rhwydd hynt i chwi wedi myned yno. Ond nid ydych chwithau wedi gorphen ar ewyllysio eto. Wedi ewyllysio cael capel, chwi a'i cawsoch. Yn awr yr ydych yn ewyllysio, fel pobl onest, talu am yr addoldy a gawsoch. Nid ydych yn foddlawn i fyw mewn dyled, a gresyn mawr na fyddai pawb yr un fath a chwi. Peth cysurus iawn ydyw cael byw mewn tŷ o'n heiddo ein hunain, yn enwedig mewn tŷ heb ddim dyled arno; ac y mae ewyllysio talu yn llawer iawn o help i dalu. Gan hyny, ewyllysiwch i gyd, ewyllysiwch yn gryf, ewyllysiwch yn barhaus. Cyd-ewyllysiwch. Ac ond i chwi ewyllysio yn gryf ac yn onest, fe fydd yr ewyllys hono yn fywyd yn eich calon, yn allu yn eich enaid, yn llygaid yn eich pen, ac yn ddylanwad yn eich gweithrediadau. Ond i chwi ewyllysio talu, mae yr ewyllys yma yn sicr o'ch gweithio i edrych am y moddion i wneyd hyny. Ni chewch lonydd ganddi nes y byddwch wedi llwyddo. Yr ydych yn ewyllysio, ac yr ydych yn arfer moddion i gael eich ewyllys; a dywedwn ninau wrthych, "Bydded i chwi fel yr y'ch yn ewyllysio."

Byddai yn dda i bawb ohonom gymeryd awgrym oddiwrth yr ymadroddion a ddefnyddiwyd genyf ar y dechreu. Mae yma lawer o feibion a merched ieuainc ger fy mron, rhai yn dechreu eu byd mewn ystyr, a rhai yn dechreu heb ddim ar eu helw ond corff iach a chryf. Byddai yn eithaf i chwi oll gofio, "*Lle mae ewyllys mae ffordd.*" Os felly, ewyllysiwch wella eich amgylchiadau—peidiwch â boddloni ar eich sefyllfa bresenol—codwch eich golwg i fyny—dymunwch fod yn rhywbeth gwell nag y'ch; ewyllysiwch gael tipyn o gyfoeth, a chyda 'r cyfoeth chwi gewch lawer iawn o bethau ereill hynod o werthfawr yn y byd; ac wedi i chwi fagu ewyllys i godi, fe rydd yr ewyllys i chwi lygaid i weled y ffordd i godi, a chalon i ddefnyddio y moddion angenrheidiol i godi; chwi ddysgwch wedi cael yr ewyllys i fod yn weithgar, yn ddiwyd, yn gynil, ac yn benderfynol, ac fe ddywed rhagluniaeth Duw wrthych, "Bydded i ti fel yr wyt yn ewyllysio."

Digitized by Google

Mae miloedd yn ein gwlad â moddion dyrchafiad yn eu dwylaw; ond y maent yn aros yn yr un fan, yn unig am nad ydynt yn ewyllysio cyfodi; ac nid oes nemawr un nad ydynt yn cael cyfle i wella eu hunain rywbryd neu gilydd, pe gwnaent ddefnydd ohono. Ewyllysiwch gan hyny, "a bydded i chwi fel yr y'ch yn ewyllysio."

Mae yma lawer o rai na chawsant fawr o foddion addysg, heblaw addysg yr Ysgol Sul a'r areithfa. Ac wrth y cyfryw dywedaf, Ewyllysiwch goethi a diwyllio eich hunain. Yr ydych mewn manteision mawrion i wneyd hyny. Mae yma lyfrgelloedd rhad, lle gallwch gael eich dewis o lyfrau i'w darllen a'u hefrydu. Mae yma ysgolion nos mewn cyflawnder, lle gallwch, ar ol noswylio, gael i chwi eich hunain yr addysg a ddylasech gael pan yn blant. Mae moddion gwybodaeth yn aml a mawr o'ch amgylch. Mewn lle fel hyn mae eich dyrchafiad yn beth posibl. Nid oes dim yn eisieu ond yr ewyllysio. Wel, ewyllysiwch, fechgyn a genethod Cymru—gosodwch eich nod yn uchel—ceisiwch fod yn rhai dysgedig a gwybodus—amcanwch at fod yn ddefnyddiol; ac ond i chwi ewyllysio diwyllo eich meddwl, chwi welwch bob yn dipyn y ffordd i wneyd hyny, ac fe ddywed y Llywydd mawr wrthych, "Bydded i chwi fel yr y'ch yn ewyllysio."

Mae yma ereill wedi cyraedd sefyllfa dda—wedi enill iddynt eu hunain safle bwysig yn mysg eu cenedl—wedi cyraedd gradd helaeth o wybodaeth—wedi meistroli digon o hyawdledd a medrusrwydd i fod yn ddefnyddiol; ond eto heb gyraedd y pwynt pellaf y gallent ei gyraedd—heb wneyd cyfiawnder â hwy eu hunain—ac heb wneyd agos gymaint ag a ddylasent wneuthur. Wrth y cyfryw dywedaf, Ewyllysiwch wneuthur mwy—gwelwch y tir sydd o'ch amgylch heb ei feddianu—meddyliwch leied a wnaethoch, a chymaint o'r ochr arall a allech wneyd, pe ceisiech. Nid oes dim yn eisieu arnoch i dori eich cylchau a lledu maes eich defnyddioldeb ond yr ewyllysio. Ewyllysiwn i gyd; ac ond i ni ewyllysio gwneyd mwy, fe welwn fwy i'w wneyd. Cawn nerth o'r ewyllys i weithio, cawn ddylanwad ohoni i lwyddo, a chawn glywed rhyw lais yn dyweyd, "Bydded i ti fel yr wyt yn ewyllysio."

Mae llawer iawn yn dlawd yn y byd, heb un rheswm dros hyny ond nad ydynt yn ewyllysio dim arall. Mae llawer iawn hefyd mewn dygn anwybodaeth, yn unig am

Digitized by Google

nad oes ganddynt ewyllys i wybod; ac y mae llawer iawn hefyd yn hynod ddilos, am nad ydynt yn ewyllysio gwneyd dim. Gan hyny ewyllysiwch—ewyllysiwch gael—ewyllysiwch wybod—ewyllysiwch wneyd. Bydded genych ewyllys fawr, oblegid mae Duw yn rhoi yn ol maint yr ewyllys. Y dynion sydd yn llwyddo yn y byd, yn mhob dosbarth, ydyw y rhai sydd yn ewyllysio. Dynion di-ewyllys sydd yn llanw y tlotty, ac yn myned i'r bedd yn dlawd a dibarch. Beth bynag sydd resymol i ddyn gael, ewyllysiwch ef, ac fe egyr Rhagluniaeth y ffordd i'w gael, ac fe ddywed Duw wrthych, "Bydded i chwi fel yr y'ch yn ewyllysio."

---

## ARAETH A DRADDODWYD MEWN CYFARFOD LLENYDDOL.

### Y PERYGLON MEWN CYSYLLTIAD A'R CYFARFODYDD LLENYDDOL A'R EISTEDDFODAU.

Mae dwy ochr yn perthyn i bob peth. Nid oes dim heb ei anfanteision yn gystal a'i fanteision; ac y mae yr un mor angenrheidiol edrych ar y pethau sydd yn erbyn yn ogystal a'r pethau sydd dros. Felly y cystadlu. Faint bynag o fudd sydd mewn cysylltiad â'r gwaith, mae yn bosibl iddo fod yn achos o niwaid. Mae llawer iawn o siarad ac ysgrifenu ar y buddioldeb o gystadlu, ond ychydig iawn a ddywedir ar y perygl sydd yn nglŷn â'r gwaith. Gan hyny, nid allan o le mewn cyfarfod fel hwn fyddai bwrw golwg yn fyr ar y peryglon i'w gochelyd mewn cysylltiad â chystadleuaeth.

Wrth gystadlu, yn enwedig wrth golli mewn cystadleuaeth, mae perygl mawr i chwi fagu ysbryd amheus a drwgdybus am bawb a phobpeth. Mae llawer iawn o'r cymeriadau hyn yn ein gwlad. Maent yn cael cam mawr gan rywun o hyd. Maent yn siarad fel pe bae nefoedd a daear mewn cydfradwriaeth yn eu herbyn. Yr achos eu bod yn colli ydyw, am fod y beirniaid wedi digio wrthynt. Tybiant mai ffafraeth sydd yn peri i'w cydymgeisydd gael y wobr. Gresyn mawr fod cynifer o ddynion amheus a

Digitized by Google

drwgdybus yn ein mysg ni. Nid all dynion fel hyn byth fod yn fawr nac yn ddefnyddiol. Mae yr ysbryd sydd ynddynt yn eu lladd. Ieuenctyd, gwyliwch rhag magu yn eich mynwesau ysbryd amheus a drwgdybus.

Wrth gystadlu a cholli, mae perygl i chwi ddigaloni, a rhoi heibio ymdrechu yn gyfangwbl. Sonir yn fynych fod yr Eisteddfod a'r Cyfarfod Llenyddol yn codi dynion i fyny, ond ni sonir byth am y rhai y mae hi yn eu lladd. Nid y bachgen mwyaf ei athrylith, bob amser, yw y tebycaf o enill mewn cystadleuaeth; ond efe, yn gyffredin, yw yr hawddaf i'w ddigaloni. Mae yn fwy na thebygol genyf fod llawer un o blant athrylith wedi crogi eu telyn ar yr helyg am eu bod wedi colli mewn cystadleuaeth. Ond peidiwch chwi, ieuenctyd, â digaloni, er i chwi golli. Mae yn bosibl i chwi ddyfod yn ddynion gwir fawr heb fod byth yn fuddugol mewn Eisteddfod na Chyfarfod Llenyddol.

Wrth gystadlu a cholli, mae perygl i chwi ddigio wrth bawb a phobpeth—digio wrth y beirniaid—digio wrth y buddugwr—digio wrth y gymdeithas—digio wrth y capel—digio wrth y testyn—digio wrth bawb a phobpeth. Wedi digio fel hyn, bydd y bachgen yn cael ei lywodraethu gan gasineb a chenfigen. Mae yn gosod ei hunan ar ffordd pob symudiad da. Nid oes ganddo air da i neb na dim. Mae ei aflwyddiant wedi ei wneyd yn rhyw haner ellyll yn y byd llenyddol. Mae llawer o'r rhai hyn, yr wyf yn ofni, yn ein gwlad ni. Ieuenctyd anwyl, gwyliwch rhag bod yn debyg iddynt.

Wrth gystadlu ac enill, drachefn, mae perygl i chwi ymchwyddo yn hunanol gan falchder dall ac ynfyd. Mae yn ofidus gweled bechgyn, wedi enill ychydig sylltau mewn Cyfarfodydd Llenyddol, yn myned mor chwyddedig. Maent yn meddwl eu bod wedi gwneyd gorchestion a ddylent synu y byd. Mae pawb arall yn ddim mewn cymhariaeth iddynt hwy. Eu gwaith bellach fydd diystyru ereill, a dyrchafu eu hunain. Os oedd y beirniaid yn lled brin o ganmoliaeth i'w cyfansoddiad, bychanrwydd eu galluoedd yw yr achos o hyny. Mae llygaid y beirniaid yn rhy fach i ganfod mawredd eu drychfeddyliau. Dysgwyliant, bellach, i bawb dalu gwarogaeth iddynt; a synant braidd na bae y ddaear ei hunan yn rhoi rhyw arwydd ei bod yn teimlo eu presenoldeb. Mae enill yn anrhydeddus mewn cystadleuaeth

Digitized by Google

yn achos o foddhâd cymedrol i bob dyn; ond gellir dyweyd yn gadarn, mai enill mewn cystadleuaeth i ambell un oedd yr anffawd fwyaf a'i cyfarfyddodd yn ei oes. Nid yw enill mewn Cyfarfodydd Llenyddol yn beth i edrych arno fel gorchest; yn hytrach, dylid ei olygu fel cydymdrech mewn ysgol, yn rhagoriaeth i'w ganmol, ac yn arwydd o'r hyn ellir ddysgwyl yn ol llaw. Os dygwydd i chwi enill, peidiwch ymchwyddo, a pheidiwch siarad am eich llwyddiant fel rhyw orchest a ddylai anfarwoli eich enw.

Wrth gystadlu ac enill, mae perygl i chwi ymfoddloni ar y clod a enillwch trwy orchfygu ychydig droion mewn cystadleuaeth. Yr wyf yn ofni fod rhai wedi gwneyd hyny. Ar ol enill ddwywaith neu dair mewn Eisteddfod, tybiasant eu bod wedi gwneyd digon; gorphwysasant ,ar eu rhwyfau; aethant i fyw ar eu moddion: a druain ohonynt, byw gwael ryfeddol ydoedd. Annghofiwyd hwynt cyn haner eu dyddiau. Os yw dyn am fod yn fawr ac enwog, mae yn rhaid iddo barhau i weithio, a marw yn ei waith. Os bydd dyn fyw yn hwy na'i ddefnyddioldeb, mae yn fwy na thebyg y bydd ef hefyd fyw yn hwy na'i enw. Os dygwydd i chwi enill, ieuenctyd, peidiwch ymfoddloni ar hyny. Daliwch i lafurio. Ewch rhagoch. Yn hyn, fel gyda chrefydd, byddwch ffyddlon hyd angeu, os ydych am enill coron enwogrwydd.

Wrth dalu gormod o sylw a gwarogaeth i gystadleuaeth, mae perygl i chwi gael eich gwneyd yn rhy ansefydlog i fod yn fawr ac enwog. Nid all dyn ragori mewn llawer o bethau; o leiaf, nid all dynion cyffredin ragori. Rhaid iddynt ddewis eu pwnc; rhaid iddynt lynu a pharhau i chwilio a chasglu mewn rhyw un dosbarth. Bai dynion, yn gyffredin, ydyw ceisio bod yn ormod o bethau ar unwaith. Mae llawer yn cael eu hudo gan wobrwyon o'u maes eu hunain. Mae y bachgen am geisio bod yn fardd, yn draethodwr, yn gerddor; ac mewn gair, yn bob peth. Mae yn diweddu trwy fod yn ddim. Pe buasai yn cyfyngu ei hunan at ryw un peth, gallasai ragori; ond trwy ei fod yn rhanu yr ychydig allu sydd ganddo ar lawer o bethau, nid yw yn gallu rhagori mewn dim. Mae cystadleuaeth, i lawer o ddynion, fel canwyll y gors—mae yn eu hudo at y wobr yma a'r wobr acw, ac yn eu gadael yn y diwedd mewn llaid a dyrysni, heb wobr, enw, na dim. Dewiswch eich dosbarth. Cadwch yn

Digitized by Google

eich dosbarth. Os daw rhyw wobr yn eich dosbarth eich hun i'ch cyraedd, goreu oll, ond peidiwch â cheisio am wobr mewn dosbarth arall. Os ydych am fod yn fawr ac yn enwog, rhaid i chwi beidio crwydro. Fel y dywed y ddiareb Seisnig, "Nid yw y gareg sydd yn treiglo byth yn casglu mwsogl." Dynion yr un pwnc yw y rhai llwyddianus yn mhob oes a gwlad.

Wrth gystadlu yn ormodol, mae perygl i chwi ysgrifenu gormod, a darllen a myfyrio rhy fach. Rhaid i'r llusern gael olew cyn y gall ddal i oleuo. Rhaid i'r gweithiwr gael bwyd cyn y gall ddal i weithio. Waeth pa mor iach a chryf y bydd efe, fe â yn wan ac analluog, oni bydd iddo fwyta. Waeth faint o athrylith fyddo gan ddyn, na pha mor gref fyddo ei dalent yn naturiol, nid all wneuthur ond ychydig, a'r ychydig hwnw yn hynod o egwan, heb iddo gryfhau a choethi ei hunan trwy ddarllen a myfyrio. Cyfansoddiadau egwan ydyw rhai buddugol yn gyffredin; a'r achos, ond odid, ydyw, eu bod yn cael eu parotoi yn frysiog, ac heb ddigon o ddarlleniad a myfyrdod. Os ydych am fod yn awduron teilwng o'r enw, cymerwch amser i gyfansoddi, ystyriwch eich pwnc yn dda, darllenwch lawer arno, a meddianwch ei gynwysiad yn drwyadl trwy fyfyrdod cyn meddwl am osod eich meddyliau i lawr ar bapur.

Wrth gystadlu llawer mae perygl i chwi fyned yn ddynion arwynebol. Felly y mae llawer yn myned. Dynion bâs ydynt. Nid oes ganddynt wybodaeth am ddim ond ychydig o'r hyn sydd tu allan. Nid all dynion fel hyn byth fod yn fawr, yn enwog, nac yn ddefnyddiol. Mae rhy fach o nerth ynddynt i sefyll ymosodiad, a rhy fach o ddylanwad i wneyd eu hargraff ar y byd. Yr achos o'u bychanrwydd ydyw eu gwaith yn rhedeg tros bethau er mwyn cael defnyddiau i ysgrifenu traethodau a barddoniaeth am wobr. Gochelwch y perygl hwn. Treiddiwch yn ddwfn i bethau; mynwch wybodaeth drwyadl o bob peth. Bydd yn well i chwi fod yn ddynion dwfn a thrwyadl heb ennill gwobr byth, na bod yn rhai bâs, arwynebol, er i chwi enill gwobr bob mis o'ch oes.

Wrth gystadlu yn ormodol mae perygl i chwi fod yn anffyddlawn fel llenorion. Mae yn gofyn i lenor fod yn ffyddlawn iddo ei hunan, yn ffyddlawn i'w wlad, ac yn ffyddlawn i lenyddiaeth. Dylai ysgrifenu ei feddwl ei hunan, ac nid meddwl arall. Dylai ofyn beth sydd wir-

Digitized by Google

ionedd, ac nid beth sydd yn debyg o gael ei dderbyn gan y beirniaid; a dylai ymorol beth a wna les, ac nid beth a foddhâ hwn neu arall. Yn awr, mae perygl i gystadleuwyr edrych dros yr ystyriaethau hyn. Ant i holi beth yw meddwl y beirniad, yn lle beth sydd wir; a beth sydd debycaf o enill y wobr, yn lle beth a wna les i'r rhai a ddarllenant. Gochelwch y peryglon, ieuenctyd. Byddwch ffyddlawn i'r gwirionedd, ac i argyhoeddiad eich cydwybod; yn ffyddlawn i'ch gwlad, ac yn ffyddlawn i'n llenyddiaeth, hyd yn nod pe byddai i chwi, trwy hyny, fethu enill gwobr byth.

Wrth gystadlu yn ormodol mae perygl i chwi ddarostwng llenyddiaeth o'i safle briodol ei hun. Mae llenyddiaeth i fod yn uchel ac yn anrhydeddus. Mae i'w charu a'i dylyn er ei mwyn ei hun. Cyn y gall dyn fod yn llwyddianus fel llenor, rhaid i'w lafur fod yn llafur cariad. A dyma lle mae y perygl. Gall dyn, trwy gystadlu, droi i edrych ar lenyddiaeth fel modd i gael arian yn unig. Darostwng llenyddiaeth yw hyny o'i lle priodol ei hun. Mae yn rhy anrhydeddus i gael ei gwneyd yn erfyn elw. Os ydych am fod yn llenorion, byddwch felly nid er mwyn y gwobrwyon, ond er mwyn y gwaith ei hun—er mwyn y pleser sydd yn y gwaith—er mwyn y lles a ellir trwy y gwaith—ac er mwyn y gogoniant cysylltiedig â'r gwaith. Yr wyf yn cyfeirio eich sylw at y peryglon hyn, nid er mwyn eich digaloni, ond fel na niweidier chwi ganddynt. Os collwch mewn cystadleuaeth, peidiwch magu yn eich mynwes ysbryd amheus a drwgdybus am y beirniaid. Peidiwch digaloni hefyd. Hwyrach y llwyddwch y tro nesaf. Ac yn enwedig peidiwch â digio wrth bawb a phobpeth o'r herwydd. Os enillwch wrth gystadlu, peidiwch ymchwyddo o'r herwydd; a pheidiwch â gorphwys yn eich gyrfa lenyddol ar ryw ychydig o wobrwyon wedi eu henill mewn cystadleuaeth. Peidiwch crwydro ar ol gwobrwyon Eisteddfod ol. Byddwch sefydlog gydag un peth. Peidiwch esgeuluso y llyfr a'r fyfyrgell. Gwyliwch rhag bod yn ddynion arwynebol. Byddwch ffyddlawn i chwi eich hunain ac i'n llenyddiaeth. Cadwch lenyddiaeth yn ei lle ei hunan. Ac ond i chwi ochelyd y peryglon hyn a'u cyffelyb, mae yn bosibl i'r Cyfarfodydd Llenyddol ac Eisteddfodol fod o les i chwi. Ewch rhagoch; a boed i'r Nefoedd fawr adael ei bendith arnoch.

Digitized by Google

## ACHOSION SEISNIG YN NGHYMRU.

MAE llawer o son y dyddiau hyn am achosion Seisnig yn Nghymru, a dyna yw fy rheswm dros alw sylw at y pwnc. Ac i ddechreu, yr wyf yn meddwl fod yn eithaf teg i'r Seison gael lle i addoli Duw yn eu hiaith eu hunain yn Nghymru. Mae y Cymru yn cael capelydd Cymreig yn Lloegr, a phaham na chaiff y Seison gapelydd Seisnig yn Nghymru? Mae rhai personau yn siarad fel pe byddai y Cymry yn anfoddlon i'r Sais gael capel Seisnig yn Nghymru; ond mae y cyfryw rai yn siarad naill ai mewn anwybodaeth, neu mewn malais a rhagfarn; oblegid mae y Cymry yn bobl rhy gall a charedig i warafun i'r Sais yr hyn a geisiant iddynt eu hunain, sef rhyddid i addoli Duw yn eu hiaith eu hunain; ond er hyny, mae gan y Cymry achos i gwyno, ac achos i wrthwynebu, oblegid codiad llawer capel Seisnig yn ei wlad.

Achos rhesymol o gŵyn i'r Cymry ydyw cael eu gorfodi i godi capelydd i'r Seison. Pan aiff y Cymry i Loegr, rhaid iddynt godi capelydd iddynt eu hunain, neu fod hebddynt, neu ynte fyned at y Seison i addoli. Pwy glywodd erioed son am Seison yn pryderu am godi capel Cymreig i'r Cymry yn Lloegr? A raid i'r Cymry gael bod yn ffolach na phawb? Mae rheswm yn dyweyd, os rhaid i'r Seison gael capel Seisnig yn Nghymru, y dylent ei godi eu hunain. Ac onid ydynt yn ddigon lluosog, ac yn ddigon cyfoethog i wneyd hyny? ac onid ydyw yn ddigon o waith i'r Cymry druain ofalu am gapelydd iddynt eu hunain? Yn ddiau y mae yn ddigon. Er hyny, mae rhai Cymry yn ymddwyn fel pe byddai y Nefoedd yn dysgwyl iddynt hwy, y dyrnaid Cymry, godi addoldai i'r holl fyd. Bydded y Cymry yn barod bod amser, fel y maent wedi arfer bod, i gynorthwyo pawb i gael lle i addoli Duw yn eu hiaith eu hunain; ond cofied y Cymry yr un pryd, fod yn ddigon o waith i'r Cymry godi capelydd iddynt eu hunain, heb geisio codi rhai i'r Seison hefyd.

Achos o gŵyn rhesymol i'r Cymry ydyw, fod dynion sydd yn Gymry eu hunain yn gwneyd eu goreu i lesau yr estron yn lle eu cenedl eu hun. O Galatiaid ynfyd! Beth yn enw rheswm a phob peth sydd gu, sydd ar y

Digitized by Google

bobl; a ydyw ddim yn bosibl i Gymro godi yn y byd, heb i'w ben gael ei droi a'i hollti, a'i synwyr golli? Paham y rhaid i Gymro, can gynted ag y caiff benadur yn ei logell, fod yn ormod o ddyn, na, yn ormod o ffwl, ddylaswn ddyweyd, i fod yn Gymro? Fel hyn y mae yn dygwydd. Mae y bachgen yn cael ei eni o deulu tlawd, ond gonest. Rhydd ei rieni bob cynorthwy iddo ag sydd yn eu gallu. Gwena Rhagluniaeth arnynt, a gwrendy eu gweddiau ar ran eu bachgen. Egyr Rhagluniaeth ddor dyrchafiad o'i flaen. Dechreua fasnachu ar ei gyfrifoldeb ei hun. Bendithir ef â llwyddiant. Mae yn casglu arian ac yn ymgyfoethogi, a'r cwbl yn Nghymru. Wel, meddai rhyw un, fe wna yn fawr o'i wlad, a'i iaith, a'i genedl, yn offrwm diolch i Ragluniaeth am ei lwyddo. Na choelia i fawr. Mae yn myned yn ormod gŵr i siarad Cymraeg, nac i gymysgu â'r Cymry trwy gymhorth y rhai yr ymgyfoethogodd. Nid yw yn gallu darllen llyfrau Cymreig. Mae pob peth Cymreig yn troi yn ffiaidd yn ei olwg. Seisneg iddo ef bellach. Rhaid codi capel Seisnig yn ddiddadl yn y fan, lle na bydd mwy ei eisieu nag ar ben yr Wyddfa yn y gauaf. Yr wyf yn dweyd fod gan y Cymry achos i gŵyno oherwydd ynfydrwydd o'r fath hyn: ac o na bae yn bosibl magu digon o hunan barch yn mynwesau y Cymry yn gyffredinol, nes gwneyd iddynt ymddwyn at y Cymry anwladgar hyny yn y fath fodd, ag a'u gorfodai naill ai i guddio eu hynfydrwydd o'r golwg, neu ynte fyned â'u hynfydrwydd gyda hwy at y Seison yr addolant gymaint arnynt.

Achos o gŵyn rhesymol i'r Cymry ydyw gweled Cymry yn codi addoldai gorwych i'r Seison, ac yn gadael y Cymry yn y cefn, mewn lleoedd ac adeiladau diolwg, i addoli eu Duw. Hwyrach fod creaduriaid mor ynfyd a'r rhai hyn yn rhywle, pe baem ni yn gwybod; ond os oes, Duw a'u helpo; oblegid mae gallu dyn yn llawer rhy fach i drin a meddyginiaethu clwyf mor ddrwg. Buasai creadur rhesymol o ryw fyd heblaw ein daear ni, neu, yn wir, o ryw wlad heblaw Cymru, yn dysgwyl i bawb anrhydeddu ei wlad, ei iaith, a'i genedl ei hun yn gyntaf. Os buasai rhywun yn fwy dysgedig, yn fwy hyawdl, neu yn fwy goludog na'i gyd-ddynion, buasai creadur rhesymol o ryw fyd arall yn dysgwyl i'r un hwnw ddefnyddio ei allu a'i dalent i gyd i godi ei wlad a'i genedl—i gael cystal capel, mewn cystal lle i'r Cymry a neb pwy bynag. Ond ei

siomi gawsai y bod da yn Nghymru. Pan dybio rhywun gyda ni ei fod ychydig yn uwch na'i gymydogion, mae yn y fan, dan effaith y bendro, yn chwilio am le a chyfle i anrhydeddu yr estron. Gymry anwyl, byddwch yn bobl gall. Cymraeg yn gyntaf yn Nghymru. Os rhaid cael gwell capel na'u gilydd, y capel goreu i'r Cymry, yn eu gwlad eu hunain, beth bynag am wledydd ereill. Cyn meddwl am gapelydd hardd a mawreddog i'r Seison, meddyliwch am rai felly i chwi eich hunain yn gyntaf. Bydd yn ddigon buan meddwl am rai i'r Seison ar ol i angenion y Cymry eu hunain gael eu diwallu.

Achos o gŵyn rhesymol i'r Cymry ydyw codi capelydd Seisnig i Gymry addoli ynddynt, yn Nghymru. Mae capelydd Seisnig i Seison yn beth naturiol a rhesymol; 'ond y mae capelydd Seisnig i Gymry yn wrthun ac yn ynfyd. Mae pob peth yn naturiol yn ei wisg a'i le ei hunan. Mae y mul yn ddifai fel mul, ond mae mul mewn croen llew yn chwerthinllyd i edrych arno. Nid oes dim yn neillduol i'w ddyweyd yn erbyn mulod Cymru fel y maent ynddynt eu hunain, mwy nag yn erbyn teirw Seisnig; ond y mae gweled mulod Cymru yn ceisio bod yn deirw Seisnig, yn olwg ddigon gwrthun i yru mulod i chwerthin. Lle mae digon o Seison i gynal addoliad yn Seisneg, mae yn iawn iddynt gael capel Seisnig, os dewisant. Ond lle nad oes digon o Seison i gynal addoliad heb wasanaeth Cymry i'w cynorthwyo, nid oes angen am gapel Seisnig yno. O dan y cyfryw amgylchiadau, dysged y Sais siarad Cymraeg, a deued at y Cymry i addoli Duw yn yr iaith Gymraeg. Paham, atolwg, y codir capelydd Seisnig mewn lleoedd nad oes yno ddigon o Seison i wneyd cynulleidfa? Felly y gwneir mewn llawer man. Ac y mae gweled Cymry yn trethu tref a gwlad i godi capelydd Seisnig lle nad oes Seison i'w llenwi, yn achos o gŵyn rhesymol i'r Cymry. Pwy ond Cymry allai byth fod yn euog o wrthuni fel hyn? A pha ryfeddod yw fod ambell Sais yn edrych arnom yn wawdlyd? Mae y fath waseiddiwch ag a welir ynom yn ddigon braidd i beri i'r ceryg o dan ein traed fwrw dirmyg arnom.

Achos o gŵyn rhesymol i'r Cymry ydyw codi adeiladau gorwych dan yr enw Capelydd Seisnig i fod yn nythod balchder i benweiniaid. Beth ond balchder neu ynfydrwydd sydd yn gyru Cymry i addoli, neu i gymeryd arnynt addoli Duw, mewn capel Seisnig yn lle y capel

Cymreig? Mae yn ddigon hawdd profi mai y ffol a'r balch sydd yn gwneyd hyny. Mae y naill yn gwisgo modrwy wedi ei gwneyd yn debyg i aur am ei fys—mae yn gwisgo bob amser yn yr arddull newyddaf allan—mae ei gerddediad, ei olwg, a thôn ei lais, yn tystio ei fod yn meddwl ei hunan yn rhy dda i gydaddoli â'r Cymry yn Gymraeg; a'r cyfle cyntaf a gaiff, mae yn myned at y Seison, lle dysgwylia gyfarfod â rhai ereill o'r un ysbryd ag yntau:—mae y llall wedi colli ei synwyr wrth ddysgu Seisneg—yn hytrach, wrth geisio ei dysgu. Byth er pan gyntaf y gwyntiodd air o Seisneg, mae yr anhwyl a elwir yn "Wallgofrwydd Seisnig" wedi cadw meddiant o'i ben; ac nid oes dim a wyddom amdano hyd yn hyn yn alluog i'w wella. Mae yn deall Cymraeg, ac o ganlyniad, nid yw yn cael, meddai ef, ddim llesâd wrth ei gwrando; ac y mae y Seisneg, heblaw ychydig eiriau cyffredin, yn annealladwy iddo, ac felly mae yn cael adeiladaeth mawr wrth ei gwrando. Dynion fel hyn, y rhan amlaf, sydd yn gadael y Cymry, ac yn troi at y Seison. Gellir chwanegu at y rhai hyn y dynion hyny sydd yn methu byw yn ddigon da i gael bod yn aelodau gyda'r Cymry. Wedi cael eu bwrw allan gan y Cymry, oblegid eu drygioni, maent yn ddigon da i gael eu derbyn gan y Seison, yn enwedig y Seison Cymreig. Mae yn sarhâd ar reswm braidd i fyned i ddadleu â dynion fel hyn; er hyny, hwyrach mai gwell gwneyd, er mwyn y rhai sydd o'r tu allan. Gan mai lle i addoli yw capel, rhaid ystyried y pwnc mewn cysylltiad âg addoliad; ac yn y cysylltiad hwn, mae yn amlwg ddigon, fod Duw, yr hwn a addolir, yn deall Cymraeg. Paid â synu, paid â gwrido, frawd, mae y peth yn eithaf gwir. Ac y mae Duw yn ddigon gostyngedig i wrando ar Gymro yn gweddio yn Gymraeg, ac nid yw gywilydd ganddo siarad â Chymry yn eu hiaith eu hunain. Os yw dynion yn edrych ar siarad Cymraeg yn beth isel, mae Duw yn ei gyfrif yn anrhydeddus. Mae yn wir ei fod yn siarad Seisneg hefyd, oblegid mae Efe yn siarad pob iaith; ond gyda Seison y mae Duw yn siarad Seisneg, ac nid gyda Chymry. Mae y Beibl yn gofalu bod yn fanwl ar y pwnc hwn. Ar ddydd y Pentecost yr oedd yr Ysbryd yn siarad â phob un yn ei iaith ei hun, yn yr hon y ganed ef. A phan gyfarfyddodd efe â Saul ar ei ffordd i Damascus, nid yn Groeg, ac nid yn Lladin yr anerchwyd Saul gan yr Iesu, ond yn Hebraeg.



Digitized by Google

Braidd na ddywedwn i fod y ffaith flaenorol yn awgrym u un arall, sef fod Duw yn dysgwyl i ddynion addoli yn eu hiaith eu hunain. Lle i addoli yw capel, ac nid lle i ddangos balchder. Ond faint o addoliad a ddichon fod yn ngwasanaeth dyn rhy falch neu ry ffol i addoli ei Dduw yn Gymraeg? Yr wyf yn ofni nad yw ymgais y rhai hyn at addoli yn ddim gwell na gwatwar Duw, a diystyru dynion.

Achos o gŵyn rhesymol i'r Cymry ydyw codi capelydd Seisnig, er mwyn rhoi cyfle i Judasiaid werthu a bradychu anrhydedd eu gwlad. Mae cymeriad y bradwr yn dal yr un fath o hyd. Am ychydig iawn y gwnant eu budrwaith. Mae llawer Cymro a werthai ei wlad am lawer llai na deg-ar-ugain o arian. Mae y bradwr o hyd yn gwneyd ei frad gyda chusan. Lles y Cymry sydd gan Dic Sion Dafydd mewn golwg. Fel hyn y mae Judasiaid Cymry yn gwneyd—proffesant gariad mawr at eu gwlad, ac awydd cryf i'w dyrchafu, ac yna tynant goron ei hanrhydedd oddiar ei phen, a rhoddant hi o dan eu traed, er mwyn eu codi hwy yn uwch i ddyrchafu yr estron. Yr wyf yn gwybod fod llawer drwg yn cael ei wneyd yn ddifeddwl ac yn anfwriadol, ond nid yw hyny yn lleihau dim ar y drwg; ac yr wyf yn ceisio meddwl fod llawer Cymro yn bradychu ei wlad fel plentyn yn ddifeddwl ac yn anfwriadol—ond nid yw hyny yn newid dim ar y sarhâd. Fod eu hymddygiad yn ein sarhau sydd yn ddiddadl. Waeth yn y byd beth yw y broffes sydd ar eu tafod, ar eu hymddygiad y mae gwrando; mae yr ymddygiad yn well esboniwr ar y galon o ddigon nag yw y geiriau. Os bydd arnoch eisieu cael golwg ar galon dyn, peidiwch byth âg edrych amdani yn ei eiriau —oblegid yn ei gyflawniadau yn unig y gellir ei gweled. Yn awr, mae ymddygiad y rhai sydd yn myned at y Seison i addoli yn Nghymru, a hwythau yn Gymry eu hunain, yn sarhâd cyhoeddus ar ein hiaith, ar ein gweinidogaeth, ac arnom ninau fel cenedl. Mae eu hymddygiad yn dyweyd yn groew eu bod yn ein casau. Pe buasent yn ein caru, arosasent gyda ni. Mae yn dyweyd eu bod yn ein dirmygu. Os nad ŷnt, paham y gadawant ni? Mae yn dyweyd eu bod yn ystyried eu hunain a'r Seison yn well na ni, neu ni byddai reswm tros fyned atynt. Mae yn dyweyd nad oes genym weinidogaeth gwerth i'w gwrando, heb hyny nid oes achos i'w gadael. Yn

Digitized by Google

awr, gŵyr y rhan luosocaf o'r Cymry sydd wedi cael mantais i brofi y peth, mai nid y goreuon, ond y gwehilion sydd yn gadael y Cymry, ac yn troi at y Seison. Dynion balch, a'u penglogau wedi hollti ydynt; a lle bynag y mae dyn balch, mae yno ddyn heb fawr o fenydd yn ei benglog. Gŵyr y Cymry hefyd, y rhai sydd wedi cael mantais i gymharu, fod y weinidogaeth mor uchel, a'r gwasanaeth mor bur, gan y Cymry, ag ydyw gan y Seison, ac nad oes gan neb achos digonol i wadu eu cenedl yn y mater hwn. Gan hyny, mae yn eithaf amlwg fod y dynion hyny sydd yn troi oddiwrth eu cenedl at y Seison yn bradychu eu gwlad wrth wneyd hyny. Rhoddant anair i'w cenedl; tynant waradwydd ar y wlad a'u magodd; rhoddant achlysur i'n gelynion i'n dirmygu; a gwnant ni, hyd y gallant hwy, yn destyn gwawd i genedloedd y ddaear. Ond y mae rhyw ychydig o gysur i'w gael hyd yn nod o ganol eu bradwriaeth: a dyma yw y cysur,—Wrth ddirmygu eu gwlad a'u cenedl dirmygant eu hunain ar yr un pryd. Ac y mae Seison call yn ddigon llygadog i ganfod hyny. Mae yn anmhosibl i Seison â llygaid yn eu penau, a deall yn eu calon, barchu dynion sydd yn ceisio dyrchafu eu hunain ar draul darostwng eu gwlad.

Achos o gŵyn rhesymol i'r Cymry ydyw codi capelydd Seisnig gyda bwriad i Seisnigo y Cymry. Yr wyf yn ofni mai dyma yw dirgelwch codiad llawer capel Seisnig yn Nghymru—awydd i ladd yr hen iaith Gymraeg. Beth a wnaeth yr hen iaith i chwi? Mae rheswm yn dyweyd y dylai y Cymry garu eu hiaith, a gwneyd eu goreu i'w choethi a'i chadw yn fyw. Ond y mae llawer o Gymry am ei lladd. Mae Duw wedi arddel a bendithio ein hiaith yn helaeth ac yn amlwg iawn; ond y mae llawer Cymro yn dyweyd mai melldith ydyw; ac yn lle noddi ein hiaith a'n llenyddiaeth, codant gapelydd Seisnig gyda bwriad i'w lladd. Mae peth fel hyn yn gam â chrefydd, yn gabledd o fewn y cysegr. Troi teml yr Arglwydd yn deml i Satan ydyw, gwatwar Duw a dirmygu dyn ar yr un pryd. Os yw ymdrech i Seisnigo Cymru yn angenrheidiol i'ch cysur, defnyddiwch ryw offeryn arall, yn lle cysegr Duw, i ateb eich dyben. Peidiwch iselhau crefydd trwy ei throi yn foddion i gyraedd eich amcanion anwladgar eich hun. Gwnewch ni yn Seison yn gyntaf, ac yna codwch i ni gapelydd Seisnig: ac y mae yn dda

genyf eich hysbysu, er eich cysur, na bydd ar y genedl eisieu cynifer o gapelydd y pryd hyny ag sydd arni eisieu yn awr. Ond y gwaethaf yw, ac y mae yn ddrwg ryfeddol genyf drosoch, y bydd raid i chwi, druain bach ohonoch, farw, er cymaint dynion ydych, oesau lawer cyn i hyny gymeryd lle.

Ond beth a wnawn ni yn ngwyneb y "Gwallgofrwydd Seisnig"—y clefyd heintus ag sydd yn awr yn anrheithio ein gwlad? Mi a ddywedaf i chwi. Dyma a wnewch, os gwnewch yn gall:—

Peidiwch â goddef i ddynion balch, gwenieithus, trahaus, ac anwladgar eich sarhau. Peidiwch â bod yn fulod. Gwrthodwch y baich a geisir ei osod arnoch gyda dirmyg. Peidiwch â gadael i garnladron eich ysbeilio. Eich muleiddiwch chwi yw yr achos fod neb yn amcanu gwneyd. Byddwch yn ddynion, ac yna chwi gewch lonydd. Ac wrth son am beidio goddef, y mae amryw bethau ag yr ydych wedi eu goddef yn rhy hir. Peidiwch goddef i weinidog boeni cynulleidfa o Gymry gyda haner awr o Seisneg, bob nos Sabboth, er mwyn un person. Dysged yr un siarad Cymraeg, neu arosed gartref. Os goddefwch beth fel hyn, yr ydych yn annheilwng i bobpeth ond i gael eich bwrw allan, a'ch sathru gan ddynion. Peidiwch â goddef i gefnder Dic Sion Dafydd, yr hwn sydd weinidog Cymreig, a'i ben wedi hollti, wthio ei hunan i bregethu Seisneg mewn cymanfa Gymreig, er mwyn i ffyliaid wybod ei fod yn gallu Seisneg. Os oes ysfa pregethu Seisneg arno, aed gyda'i gefnder Dic at y Seison. Nid oes angen Seisneg mewn cymanfaoedd Cymreig; ac nid yw yn bosibl y gallant wneuthur dim ond drwg. Peidiwch goddef i hogiau diddysg a diwybod wastraffu amser, a'ch annghymhwyso chwithau i addoli gan ysgafnder wedi ei godi ynoch trwy ymdrech ynfyd i ddarllen y testyn yn Seisneg. Nid oes angen ar y Cymry am glywed y testyn ond yn Gymraeg, ac ni ddylent oddef i ffyliaid ddefnyddio y pulpud i ddangos eu bod yn medru Seisneg. Peidiwch â goddef i'r Seisneg gael ei llusgo i Ysgolion Sul y Cymry. Os yw hi i mewn yn rhywle yn barod, bwriwch hi allan heb oedi. Yn Nghymru gofalwch am i'r iaith Gymraeg gael y lle cyntaf, a phenderfynwch na chaiff neb ei gwneyd yn stol-droed i'r Seisneg.

Dangoswch eu gwallgofrwydd i'r bobl. Siaradwch yn erbyn y drwg: mae pob drwg yn llwfr; nid all sefyll yn

Digitized by Google

ngwyneb ymosodiad. Mae anwladgarwch Cymry balch yn gallu byw am nad oes neb yn dyweyd yn ei erbyn. Sefwch dros eich gwlad a thros eich iaith. Siaradwch a gweithredwch hefyd yn erbyn pob un, waeth pwy fyddont, a geisiont wneuthur dim i ddifodi ein hiaith.

Ond yn benaf dim, gofalwch am gael capelydd Cymreig yn gyfryw yn mhob peth nad all capelydd Seisnig ragori arnynt. Os ceir gwell capel Seisnig na rhai Cymreig, mae y bobl yn sicr o fyned yno; gan hyny, gwnewch eich capelydd mor hardd fel y bydd yn anhawdd gwneyd eu harddach. Mae y Cymry mor deilwng o gapel da ag ydyw y Seison; gan hyny, mynwch eu cael. Cadwch y Cymry gyda chwi trwy ddarparu yn dda ar eu cyfer: ac wedi cael addoldai gwych a gweinidogaeth ddefnyddiol i'r Cymry, os bydd digon o Seison yn y gymydogaeth i wneyd cynulleidfa, ac awydd arnynt am addoldy i addoli yn eu hiaith eu hunain, rhoddwch bob cynorthwy a alloch iddynt i godi capel Seisnig.

---

## SUT I GAEL PRIF ATHROFA I GYMRU.

Mae llawer o siarad ac ysgrifenu wedi bod ar yr angenrheidrwydd o gael Prif Athrofa i Gymru, a'r rheswm a ddygir yn mlaen i ddangos yr angenrheidrwydd amdani yn y cyffredin ydyw, fod gan y Seison, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod rai, a'r Cymry heb yr un. Mae yr ystyriaeth hon yn deilwng o sylw, mae yn ddiau, oblegid dylai teimlad o hunan-barch a chariad at ein gwlad ein symbylu i beidio bod mewn dim sy dda ar ol ein cymydogion. Ond nid yw yr ystyriaeth yna y gryfaf a ellir gael. Mae rheswm llawer cryfach yn ein hymyl, a'r rheswm hwnw yw ein bod yn genedl wahanol, ac yn siarad iaith wahanol. Pe buasem wedi troi yn Seison o ran ein hiaith, neu pe buasai ein hiaith yn cael ei dysgu yn rhai o brif athrofeydd Lloegr, nid wyf yn gallu gweled y buasai rhyw angen mawr am brif athrofa yn Nghymru. Ond gan ein bod yn dal yn Gymry, ac yn penderfynu cynal ein hiaith yn fyw, ac nad oes noddfa i'n hiaith yn yr un o'r sefydl-

Digitized by Google

iadau presenol, y mae angen, ac angen mawr, am brif Athrofa yn ein gwlad. Ond os oes eisieu Prif Athrofa yn Nghymru, Prif Athrofa Gymreig sydd eisieu—sefydliad addysgiadol, lle byddo yr iaith Gymraeg yn brif iaith—lle i ddysgu pob iaith a gwybodaeth a ddysgir mewn Athrofeydd ereill; ond lle, yn benaf, i ddysgu Cymraeg a'i hanrhydeddu. Mae llawer iawn o bethau yn eisieu yn Nghymru, ond nid oes dim â mwy o'i eisieu na hwn. Mae digon o gyfleusderau yn mhob man i ddysgu pob-peth ond y Gymraeg a'r pethau perthynol iddi. Mae eisieu cael ysgrifau a llyfrau Cymru at eu gilydd—mae eisieu casglu adnoddau Cymru i bwynt—ac y mae eisieu rhyw gymdeithas o athrylith i gyfeirio ei thraed ar lwybrau dyrchafiad. Mewn gair, mae eisieu *Prif Athrofa Gymreig*; nid yn unig i fod yn fagwrfa i blant athrylith, ond hefyd i fod yn gynrychiolydd gweladwy a theimladwy dros Gymru, yn Eisteddfod fawr dysgeidiaeth y byd.

Ond pa fodd y ceir hi? Dyna yw y pwnc yn ymarferol ar ol y siarad a'r ysgrifenu i gyd. Peth hawdd yw dyweyd fod ei heisieu. Nid yw yn gofyn gwybodaeth helaeth i ddangos yr anfantais o fod hebddi. Peth hawdd yw ymhelaethu ar y lles a ddeilliai i Gymru oddiwrthi hefyd, ond dyweyd sut i'w chael sydd yn anhawdd. Mae dwy ochr yn perthyn i'r pwnc, y nacaol a'r gadarnhaol. Mae yr ochr nacaol yn lled eglur—yr ochr ymarferol sydd yn dywyll. Ond hwyrach y bydd golwg ar yr ochr nacaol yn help i ddeall yr ymarferol. Felly mi a gymeraf olwg arni yn y fan hyn.

Nid wrth siarad ac ysgrifenu yn unig y ceir Prif Athrofa i Gymru. Pe buasai siarad ac ysgrifenu yn gwneyd y tro, buasem wedi ei chael yn bell cyn hyn. Mae digon o siarad ac o ysgrifenu wedi bod i godi dwsin, pe buasai modd i'w codi yn y fordd hono. Os oes byrdra yn perthyn i'r Cymro, nid yw y byrdra yn hyd ei dafod, ac nid yw ei brinder yn gynwysedig o eiriau, inc, a phapur. Ond er yr holl siarad a'r ysgrifenu, mae yr Athrofa eto heb ei chael, a'r siarad mawr a'r ysgrifenu mawr heb effeithio dim ond dangos eu haneffeithiolrwydd eu hunain i gyraedd eu hamcan.

Nid trwy ofidio am ein bod hebddi y ceir hi. Yr wyf yn cyfaddef ei fod yn achos gofid. Mae galar oblegid ein diffygion yn naturiol a rhesymol; a llawer o ofidio sydd wedi bod, ond y cwbl yn ofer. Yr ydym eto heb ei

Digitized by Google

chael. Ac hebddi y byddwn byth, oni cheir rhywbeth heblaw dagrau gofid tuag at ei sefydlu.

Nid trwy feio a cheryddu ein gilydd y ceir hi. Mae bai arnom i gyd, mae yn ddiau. Nid oes neb wedi gwneyd yr hyn a allasai i'w chael. Fel y cyfryw yr ydym i gyd yn euog, ac yn haeddu cael ein ceryddu—ac ni byddai yn hawdd ceryddu gormod arnom am ein hesgeulusdod; ond nid trwy geryddu y naill y llall y ceir yr Athrofa.

Ac nid trwy ddysgwyl yn gysglyd a diwaith amdani y ceir hi. Mae calon y genedl yn dyheu am gael Prif Athrofa, a hono yn un Gymraeg iawn; ac y mae ei hawydd amdani yn cael ei ddangos ganddi mewn llawer dull—ond awydd diwaith ydyw. Awydd y diogyn am fod yn gyfoethog ydyw. Awydd y tlawd am olud o'r awyr ydyw. Mae y genedl yn dysgwyl amdani, ond y mae yn eithaf amlwg mai nid wrth ddysgwyl y daw.

Ond pa fodd y ceir hi? Pa foddion a raid i ni eu defnyddio mewn trefn i'w sefydlu? Mae fy meddwl fy hun yn tybied ei fod yn gweled atebiad eglur i'r gofyniadau hyn, ac am hyny mi a'u traethaf. Ac yn gyntaf, cyn byth y ceir Prif Athrofa i Gymru, mae yn rhaid i ryw ŵr cymhwys ymgymeryd â'r gwaith o'i sefydlu. Rhaid i rywun fabwysiadu y cynllun i fod yn blentyn iddo ei hun—i ofalu amdano fel ei dad. Rhaid i'r rhywun hwnw gysegru ei oes i ddwyn yr amcan yma i ben. Mae y gwaith yn fawr, a rhaid i'r neb a'i cymero o dan ei ofal fod yn ddyn cyflawn, gweithgar, a phenderfynol. Byddai raid iddo gael ewyllys da a chydweithrediad prif wŷr ein cenedl; ac o dan eu nodded, a thrwy eu cynorthwy, byddai raid iddo ymweled â Chymru i gyd, i gasglu rhoddion at ei gwaddoli. Fel hyn y cafwyd y Coleg Normalaidd yn Bangor; fel hyn y cafwyd arian i waddoli Coleg y Trefnyddion Calfinaidd yn y Bala; ac fel hyn y cafwyd yr holl Athrofeydd sydd yn ein gwlad. Fel hyn hefyd y rhaid cael y Brif Athrofa. Rhaid cael rhywun i gymeryd gofal y symudiad, a'r rhywun hwnw yn un cymhwys at y gwaith. Mae cyflawnder o'r cyfryw ddynion yn Nghymru. Mae gan bob enwad wŷr a fyddent yn sicr o lwyddo yn eu hymdrech, ond iddynt gysegru eu hoes at hyny. Ac y mae y gwaith yn deilwng o'r galluoedd penaf. Byddai yr Athrofa wedi ei chael yn goron anniflanedig o enwogrwydd i'w Sylfaenydd. Nid oes neb yn hollol ddideimlad i glod. Pe gwelai dyn ryw ffordd i anfarwoli ei enw,

Digitized by Google

byddai yn dra sicr o gerdded ar hyd-ddi—ond wele yma ffordd, a ffordd amlwg, âg anfarwoldeb sicr yn ei phen draw, heb neb yn ymgeisio amdano. Pwy gymer y pwnc i fyny? Pwy fydd yn dad i'r sefydliad? Pwy fydd yn arweinydd ac yn noddwr i'r symudiad? Hwyrach y dywedir wrthyf,—Gan eich bod chwi yn gweled y ffordd, paham na wnewch chwi y pethau hyn yn lle dysgu ereill i'w gwneuthur? Mi ddywedaf i chwi paham. Nid wyf yn gymhwys. Nid oes genyf ddigon o ddysg, o dalent, nac o amser, i ymgymeryd â'r gorchwyl, a ffolineb ynwyf fyddai cynyg gwneyd yr hyn nad allwn gyflawni. Ond y mae gan ein cenedl lawer o wŷr cymhwys o ran dysg a phobpeth i ymgymeryd â'r gorchwyl, ac y mae yn rhaid i rywun ohonynt neillduo ei hunan at y gwaith, neu ynte mae yn rhaid i Gymru fod heb Brif Athrofa.

Yn ail, cyn y ceir Prif Athrofa i Gymru, rhaid cael gwŷr mawr pob enwad i gydweithio er ei sefydlu. Nid allwn fforddio i golli gwasanaeth yr un ohonynt. Os eir i'w rhanu, bydd eu nifer yn rhy fach i'r gwaith. Rhaid eu cael allan fel Cymry, ac nid fel aelodau o unrhyw blaid. Rhaid i'r Athrofa fod yn anmhleidiol. Nid Prif Athrofa i'r Eglwyswyr, i'r Trefnyddion, i'r Annibynwyr, nac i'r Bedyddwyr sydd eisieu, ond un i bawb fel Cymry, heb ddim golwg ar blaid grefyddol, a rhaid cael talent pob enwad i gydweithio yn y symudiad cyn y gellir ei chael. Rhaid i ni anughofio y gwahaniaeth sydd rhyngom yn y mater yma. Rhaid i'r Eglwyswyr annghofio yr Eglwys, rhaid i'r Trefnydd ollwng ei Drefnyddiaeth o'r golwg, rhaid i'r Annibynwr roi ei Annibyniaeth o'r neilldu, a rhaid i'r Bedyddiwr beidio â son am ei fedydd yn y fan yma. A thybed nad oes digon o wladgarwch yn ein mysg i gydgyfarfod ar le canol fel hyn, gyda bwriad i lesau ein gwlad a'n cenedl? Os nad oes, oferedd fydd i ni ddysgwyl gweled sefydliad Mam-ysgol Gymreig yn ein hoes ni. Ond rhaid i hyn fel llawer o bethau ereill ddibynu ar ddoethineb y gŵr fydd wedi ymgymeryd â'r gwaith pwysig o'i sefydlu. Mae ambell ddyn â rhywbeth ynddo sydd yn gyru pawb oddiwrtho. Wnaiff un felly mo'r tro at y gwaith hwn. Mae ambell ddyn drachefn yn meddu ar gymhwysderau neillduol i enill pawb i'w garu; a dyna y fath ddyn a raid gael i ymgymeryd â'r gwaith o sefydlu Prif Athrofa yn ein gwlad.

Ond yn drydydd, rhaid cael y wlad yn gyffredinol i

Digitized by Google

gefnogi yr achos cyn y coronir ef â llwyddiant. Rhaid cael arian, ac arian lawer, a rhaid i'r wlad eu cyfranu. Nid oes dadl nad yw y Cymry yn ddigon cyfoethog i'w chael ond iddynt gael calon i gyfranu. Mae yn anhawdd genyf feddwl y gwrthodent gyfranu ond i'r achos gael ei osod gan wŷr cymhwys o'u blaen. Ac nid yn hawdd y gallai neb gael gwell achos i ddadleu drosto na'r angen am Urddysgol Gymreig. Yn yr achos hwn gallai dyn wynebu ar bawb yn ddiwahaniaeth; ac nid yn hawdd y gallai neb gael rheswm digonol dros ei wrthod. Yn wir, yr wyf yn meddwl y byddai pawb sydd yn caru eu gwlad yn falch o gael cyfle i wneyd eu rhan mewn achos mor deilwng ac mor angenrheidiol. Brysied y dyn godi i gymeryd yr achos mewn llaw. Casgled wŷr mawr ein cenedl o'i amgylch i'w gynorthwyo; rhodder yr achos yn deg o flaen y wlad; ac yna yr wyf yn dra sicr na fyddem yn hir heb feddu Prif Athrofa Gymreig.

Yn y cyfamser, tra byddom yn dysgwyl am y Fam-Ysgol, oni allai ein Hathrofeydd Enwadol wneyd rhan fawr o'r diffyg i fyny? Mae yn ymddangos i mi y gallent. Gellid myned gam yn mhellach, a dyweyd y dylent. Os i gymhwyso dynion i fod yn efengylwyr i'r Cymry y sefydlwyd ein Hathrofeydd, mae rheswm yn dyweyd y dylai iaith, hanes, a llenyddiaeth y Cymry gael lle mawr yn yr addysg a gyfrenir ynddynt. Mae rhywbeth yn wrthun yn y meddwl fod efrydwyr ein Colegau yn cael eu haddysgu fel pe byddent i gyd i fyned at y Seison, ac nid at y Cymry—fel pe na bae y Gymraeg yn cael ei siarad—fel pe bae y Cymry heb hanes na llenyddiaeth o gwbl. Dylai addysg Athrofeydd Cymru fod yn seiliedig ar y ffaith mai Cymraeg sydd yn cael ei siarad yn Nghymru, mai Cymraeg ddysgwylir i'r efrydwyr bregethu, a bod y Gymraeg hon yn meddu ar hanes a llenyddiaeth. Mae pob addysg sydd yn edrych heibio i'r ffeithiau hyn yn rhwym o fod yn ddiffygiol. Yr wyf yn tybied y dylai Colegwyr Cymru fod yn gwybod rhywbeth am eu gwlad—y dylent fod yn gyfarwydd yn llenyddiaeth eu gwlad—yn enwedig y dylent fod yn feistriaid ar iaith eu gwlad. Mae gyda ni hanes anrhydeddus ar y cyfan, ond anrhydeddus neu beidio, dylai Cymru, yn enwedig gweinidogion Cymru, fod yn gwybod rhywbeth amdano. Mae gyda ni lenyddiaeth hefyd gwerth i'w darllen; ac y mae yn resyn mawr gweled dynion yn d'od allan o'n

Digitized by Google

Hathrofeydd mor ddiwybod am bethau eu gwlad eu hunain a phe buasent yn estroniaid iddi. Nid pwnc o Seisneg neu Gymraeg yw hwn, ond pwnc o addasrwydd a rhesymoldeb pethau ynddynt eu hunain. Os ydym, fel Cymry, yn ormod o Seison i ddysgu pethau Cymreig yn Gymraeg, dysgwn bethau Cymreig yn Seisneg. Hyd yn nod a chaniatau yr aiff ein gwlad rywbryd yn Seisnig, ni ddylem esgeuluso ei hanes a'i llenyddiaeth; yn hytrach dylem eu cadw yn loew, a'u parotoi i dd'od yn Seison gyda ni pa bryd bynag yr awn yn Seison ein hunain. Yn ddiddadl, fe ddylai ein Hathrofeydd fod yn fwy teyrngarol i'n hiaith a'n llenyddiaeth. Cymered ein hathrawon yr awgrym. Gwneler ymdrech i gael llyfrau Cymreig at eu gilydd yn ein Hathrofeydd. Dysger iaith y Cymry i'r efrydwyr: bydd i hyny fagu gwladgarwch ynddynt; ac nid oes dim mwy effeithiol i symbylu dyn i geisio rhagori.

---

## DYSGU CYMRAEG.

Tra byddo yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad, ei phregethu, a'i hysgrifenu, dylai gael ei dysgu; nid ei dysgu yn ddamweiniol gan hwn ac arall, ond ei dysgu yn rheolaidd, wrth drefn. Peth digrif yw gweled cenedl o bobl yn siarad ac yn arfer iaith yr hon ni fynant ei dysgu. Mae y peth digrif yma i'w weled bob dydd yn Nghymru. Mae y genedl wedi colli ffydd ynddi ei hunan ac yn ei hiaith. Er ys canrifoedd bellach mae wedi rhoddi yr iaith i fyny i farw, ac oblegid hyny mae wedi ei gadael yn ddiamgeledd. Ond y mae yr iaith yn gwrthod marw. mae mor fyw yn awr ag ydoedd ganrifoedd lawer yn ol. Yn awr, gan fod yr iaith yn gwrthod marw, oni fyddai yn well i ni fel cenedl ddiwygio yn ein hymddygiad tuag ati? Mae ein hymddygiad tuag ati hyd yma yn seiliedig ar y dybiaeth fod ei hoes ar ben. Pe buasem wedi gweithredu ar y dybiaeth fod yr iaith i barhau, mae yn sicr y buasai golwg ardderchocach arni nag sydd arni yn awr. Buasai ein cyfoethogion yn ei siarad, a buasai ei siarad yn cael ei ystyried yn foneddigaidd; buasai

Digitized by Google

chwaneg o lenyddiaeth ynddi nag y sydd, a buasai chwaneg o ddarllen ar ei llyfrau; buasai nifer y rhai allasent ei siarad yn llawer mwy; buasai yn cael ei dysgu yn ein hysgolion, yn lle bod o dan draed o'r tu allan; buasai yn cael ei llefaru yn ein llysoedd cyfreithiol fel iaith â hawl ganddi i fod yno; a buasai yn cael rhyw gymaint o sylw yn ein Hathrofeydd. Ond nid felly y mae. Er hyny, mae yn fyw, ac yn debyg o fyw am ganrifoedd eto; ac felly, mae gyda ni gyfle i droi dalen, a diwygio yn ein hymddygiad tuag ati.

Tra byddom fel cenedl yn ei siarad ac yn ei harfer, dylem weithredu gyda hi fel pe byddai i fyw byth. Dylai gael ei dysgu genym. Mae yn beth syn i mi nad oes neb, hyd eithaf fy ngwybodaeth, yn gosod eu hunain allan fel PROFFESWYR O'R IAITH GYMRAEG. Mae llawer o Gymry yn ein gwlad ac allan ohoni, yn feibion a merched, yn Broffeswyr Ieithyddol, ac yn gallu Cymraeg; ond nid oes un ohonynt byth yn son am iaith eu mam. Mae yn bosibl amgyffred yr achos o hyn; ond nid oes modd i'w gyfiawnhau. Yr achos yw, fod y Cymry wedi colli ffydd ynddynt eu hunain ac yn eu hiaith, a'u tybiaeth ynfyd fod pawb arall wedi colli ffydd ynddi megys hwythau. Ond y gwir yw, fod llawer estron yn meddwl yn uwch am ein hiaith na'r Cymro ei hunan. O na bae yn bosibl cynysgaethu ein cenedl â ffydd ynddi ei hunan! Byddai yn anrhydedd i Gymru pe bae ei phlant, yn y linell hono, yn gosod eu hunain allan yn Broffeswyr o'r iaith Gymraeg yn gystal ag ieithoedd ereill. Mae yr iaith Gymraeg yn werth i'w dysgu; ac y mae yn sicr genyf y byddai llawer estron yn falch o gyfle i'w dysgu. Mae llawer o Gymry hefyd o waed, ac nid o iaith, a garent gael cyfarwyddyd i feistrioli iaith eu henafiaid. Yn sicr gallai llawer un chwanegu ei gyllid wrth ddysgu yr iaith Gymraeg yn broffesyddol.

Ond pa un bynag a ddylid ei dysgu yn ysgol y Proffeswr ai na ddylid, mae yn sicr y dylid ei dysgu ar yr aelwyd gartref, yn enwedig felly mewn lleoedd Seisnig. Mae yn hawdd i'w dysgu ar yr aelwyd. Ond i'r fam fod yn deyrngarol i'w hiaith, gall ddwyn ei phlant i fyny yn Gymry gyda'r hawsder mwyaf. Mae yn rhyfeddod gyda pha fath rwyddineb y gall plant feistroli dwy neu dair o ieithoedd ar yr un pryd. Byddai yn resyn i'r plant fod heb ddim Cymraeg ar lawer ystyr. Heb fedru Cymraeg,

bydd llyfrau Cymreig y tad yn ddiwerth iddynt; nid allant siarad â'u perthynasau Cymreig yn Nghymru. Gall fod yn golled fawr iddynt ar lawer achlysur. Byddai gallu siarad Cymraeg ynddo ei hun yn ffynonell o bleser ac adeiladaeth iddynt, a gallai fod yn foddion dyrchafiad i filoedd ohonynt. Ond y mae ystyriaeth arall lawer pwysicach nag un o'r rhai blaenorol. Gan fod y rhieni yn addoli Duw yn Gymraeg, dylent ddysgu Cymraeg i'w plant, fel y gallont addoli gyda hwy yn yr un iaith a hwythau. Mae cyflwr llawer o deuluoedd Cymreig mewn lleoedd Seisnig yn druenus, oblegid esgeulusdod y fam a'r tad i ddysgu Cymraeg i'w plant. Mae y plant yn d'od gyda hwy i'r capel Cymreig, ond nid ydynt yn deall dim a ddywedir yno; ac o ganlyniad, mae argraffiadau boreu oes yn cael eu colli ar eu meddyliau; a cholled fawr yw yn ddiddadl. Pan ddaw y plant dipyn yn fawr, maent yn blino d'od i'r capel Cymreig, ac yn gwasgaru at y Seison; a'r cwbl oblegid esgeulusdod eu rhieni i ddysgu eu hiaith iddynt. Mae hyn yn beth na ddylai fod. Dylai y teulu fod gyda'u gilydd yn addoli Duw. Os yw y plant i fyned at y Seison, aed y rhieni yno gyda hwy; ond os yw y rhieni am dd'od i'r capel Cymreig, dylent dd'od â'u plant yno hefyd; ac o ganlyniad, dylent eu dysgu i siarad eu hiaith, fel y gallont addoli Duw yn ddeallus. Braidd na ddywedwn i y byddai yn well troi ein capelydd Cymreig mewn lleoedd Seisnig yn gapelydd Seisnig, nag i'r Cymry gael eu gwasgaru; ond gwell na hyny ydyw i rieni Cymreig ofalu dysgu iaith eu gwlad i'w plant. Bydd ein plant yn ddig wrthym amser a ddaw, os esgeuluswn ddysgu ein hiaith iddynt. Yr wyf wedi cyfarfod â rhai felly amryw weithiau; ac y mae hyny yn resyn, gan fod y gwaith mor hawdd i'w gyflawni.

Yr wyf yn meddwl hefyd y dylid dysgu ein hiaith yn ein hysgolion dyddiol. Mae rhywbeth yn wrthun yn yr olwg ar genedl yn siarad y naill iaith heb ei dysgu, ac yn dysgu y llall heb ei siarad. Beth feddylid o'r Seison yn troi y Seisneg allan o'u holl ysgolion, gan ddwyn y Ffrancaeg i mewn yn ei lle—a dal felly am oesoedd i ddysgu Ffrancaeg a siarad Seisneg? Mae y Cymry yn gwneyd peth mor ffol a hyny. Yr wyf yn meddwl fod yn bryd rhoddi terfyn ar y fath ynfydrwydd. Pe buasai rhyw obaith i'r Gymraeg farw yn mhen yr oes neu ddwy, gallesid ymdawelu; ond nid yw y peth yn bosibl. Aiff rhai

Digitized by Google

oesau heibio cyn y gall y Gymraeg farw, hyd yn nod yn ein trefydd; ac os cymer oesoedd i farw yno, faint o amser a gymer hi i ddarfod yn Nghymru? Os bydd hi farw byth, mae yr amser hwnw yn bell iawn; gan hyny myner chwareu têg iddi yn ein hysgolion dyddiol. Dysger Cymraeg i'r plant yn ogystal ar Seisneg. Mae cyfiawnder â'n gwlad a'n hiaith—cyfiawnder â'r plant—a chyfiawnder â'n cymeriad yn galw am hyn. Mae cadw yr iaith a siaredir genym allan o'n hysgolion dyddiol yn warth arnom fel cenedl. Ond dyma beth mwy gwarthus na hyny—nid yn unig mae ein hiaith yn cael ei chadw allan, ond y mae ein hanes a phobpeth a berthyn i ni fel cenedl yn cael ei esgeuluso. Caneuon estronol sydd ar dafodau ein plant. Dygir hwy i fyny mewn dygn anwybodaeth o hanes eu cenedl eu hun. Pa ryfedd fod llawer ohonynt yn ein diystyru, a llawer yn ein gwadu! Mae ein cyfundrefn o addysg yn arwain yn naturiol at hyny. Dowch â'r Gymraeg i'r ysgolion, neu ynte dowch â rhai o ganeuon ein gwlad, a'r cwbl o hanes ein gwlad i'w dysgu yn Seisneg i'r ysgolheigion. Y ddwy, Cymraeg a Seisneg, sydd oreu. Ond pa un bynag ai Cymraeg, ai Seisneg, ai ynte y ddwy, gwnawn gyfiawnder â'n hanes ac â'n llenyddiaeth.

Ac os dylid dysgu Cymraeg ar yr aelwyd ac yn yr ysgol ddyddiol, mae yn canlyn y dylid ei dysgu yn yr Athrofeydd. Mae yn cael mwy o sylw yno nag a fu. Ond nid yw yn cael chwareu teg yn un man ond yn yr Ysgol Sul. Ond y mae amser gwell ar wawrio. Mae teimlad cryf yn codi o'i phlaid, a da yw hyny. Os bydd i'r iaith farw ryw bryd, mae yn sicr y dymunai pob Cymro gwladgarol iddi gael parhau yn iaith glasurol wedi hyny. Bydd yn hawddach cymodi â'r meddwl iddi farw fel iaith lafaredig, ar ol cael sail i obeithio y dysgir hi wedi hyny fel iaith ddysgedig. Ond pa le y dysgir hi os nad yn Athrofeydd Cymru? Mae yn fwy nag a ellir ddysgwyl iddi gael ei dysgu yn unman arall; ac ni ddysgir hi yn-ddynt hwythau chwaith heb iddi gael ei dwyn i mewn yn iaith fyw. Felly, er mwyn sicrhau efrydiaeth i'r Gymraeg ar ol iddi farw, fe ddylai gael lle yn mhob Athrofa Gymreig pan yn fyw. Mae cyfiawnder â'n hanes, cyfiawnder â'n llenyddiaeth, a chyfiawnder â'n cymeriad ein hunain erbyn yr oesau a ddaw, yn galw, ïe, yn hawlio i'r iaith Gymraeg, tra siaredir hi genym, gael lle yn ein sefydliadau addysgiadol, ac wedi iddi farw yn hawlio iddi efrydiaeth hyd byth yn ein Hathrofeydd.

Digitized by Google

## DYLEDSWYDD YR IEUAINC

**I YMDRECHU CYRAEDD SEFYLLFAOEDD O YMDDIRIED, DYLANWAD, A DEFNYDDIOLDEB; A'R MODDDION TEBYCAF I LWYDDO YN HYNY.**

Yr aelodau â mwyaf o ddyddordeb yn perthyn iddynt, yn y teulu dynol, yw y gwŷr ieuainc, a hyny ar lawer o ystyriaethau. Ynddynt hwy y mae gobeithion yr oes yn crynhoi. Mae sefyllfaoedd ac amgylchiadau amser yn dysgwyl yn y pellder gyda breichiau agored amdanynt. Hwy fyddant y colofnau a ddaliant gymdeithas i fyny yn mhen ychydig amser eto. Gellir darllen prif linellau bywyd y dyfodiant yn eu cymeriad hwy yn y presenol. Ymgilia yr hen oddiar y chwareufwrdd i roddi lle iddynt. Y gadair lywyddol yn y teulu, yr orsedd yn y masnachdy, yr awdurdodaeth yn y wladwriaeth, a'r areithfa yn ein haddoldai, a feddianir yn fuan ganddynt hwy. Teimlir dyddordeb neillduol ynddynt gan bob dosbarth arall o'r gymdeithas ddynol. Cymerir poen fawr yn eu haddysgiaeth. Mae llygaid y byd yn edrych yn barhaus arnynt; creffir ar eu holl ysgogiadau; dysgwylir pethau mawr oddiwrthynt. Mae eu holl weithrediadau yn achosi galar neu lawenydd i gymdeithas o amgylch iddynt.

Gan hyny, wŷr ieuainc, *goddefwch i mi, yn y lle cyntaf, erfyn arnoch gymeryd ychydig o ddyddordeb ynoch eich hunain.* Mae gan ereill ofal mawr amdanoch, ac fe ddylech chwithau feddu gofal amdanoch eich hunain. Mae gan bob un ohonoch ofal am rywbeth. Yr ydych wedi bod bob un yn efrydu rhyw ddysgeidiaeth neu wybodaeth, ond y mae y mwyrif ohonoch eto heb erioed efrydu eich hunain. A chwi eich hunain ddylai fod eich efrydiaeth benaf a blaenaf. Adnabyddwch eich hunain; trowch i mewn i chwi eich hunain, a darllenwch fraslun hanes eich bywyd yn ysgrifenedig ar ddalenau eich meddwl. Mae yn eich enaid arddangosiad o'r hyn a allwch fod yn eich bywyd, ond i chwi weithio allan eich galluoedd. Mynwch adnabod eich diffygion, er eu diwygio, a gochelyd y gwallau gofidus y gallech syrthio iddynt drwyddynt; a'ch galluoedd hefyd, er eu hymarfer, a thrwy eu harfer, gyraeddyd dyrchafiad. Nid oes gobaith am ddyrchafiad

Digitized by Google

nemawr ohonoch i sefyllfaoedd o ymddiried a dylanwad heb i chwi yn gyntaf gymeryd mwy o ddyddordeb ynoch eich hunain.

*Yn ail, cofiwch fod yn ddyledswydd arnoch ymdrechu gwella eich hunain a'ch amgylchiadau, neu, yn ngeiriau y testyn, ymdrechu cyraedd sefyllfaoedd o ymddiried, dylanwad, a defnyddioldeb.* Ar ryw olwg mae y gosodiad hwn mor hunan-amlwg fel mai gwastraff ar inc a phapur yw helaethu arno. Braidd y gellir ei wneyd yn fwy eglur nag ydyw ar yr olwg gyntaf; ond hwyrach y gellir ei wasgu yn ddwysach ar feddyliau y darllenwyr trwy ymhelaethu ychydig arno; ac os llwyddir i wneyd hyny, fe fydd yn ddigon o dâl am y drafferth. Mae y gosodiad yn cynwys dwy ran:—Yn gyntaf, dylech ymdrechu gymhwyso eich hunain i lenwi sefyllfaoedd o ymddiried. Mae annghymhwysder yn rhwystr anorfod i'w cyraeddyd. Ni feddylia un meistr am gymeryd, nac un cymwynaswr am gymeradwyo, yr annghymhwys i sefyllfa o ymddiried. Nid allai yntau ei hunan ofyn na gobeithio amdani. O ganlyniad, eich dyledswydd gyntaf yw cymhwyso eich hunain. Gwnewch eich hunain yn ddysgedig a gwybodus; dodrefnwch eich meddwl â phob gwybodaeth gyraeddadwy yn eich galwedigaethau; byddwch yn fedrus a meistrolgar yn eich gorchwylion; dangoswch eich bod yn fwy na'ch sefyllfa bresenol—yn gymhwys i lenwi sefyllfa uwch a phwysicach. Yn ail, dylech ymdrechu eu cyraeddyd. Arferwch foddion priodol i gael gafael arnynt. Ond y pwnc yn bresenol ydyw, eich dyledswydd i wneyd y pethau hyn. Mae eisieu i chwi nid yn unig ddeall fod hyn yn ddyledswydd arnoch, ond hefyd ddwys deimlo eich rhwymedigaeth i'w chyflawni. Os nad ydych yn teimlo ac yn deall hyn yn barod, fe fydd ystyried y pethau canlynol yn gynorthwy i chwi wneyd hyny:—

*Yn gyntaf, mae awydd am ddyrchafiad yn reddf yn eich meddwl.* Nid oes yr un ohonoch heb deimlo, ryw adeg neu gilydd, ddymuniad am fod yn fwy nag ydych. Nid ydych yn foddlawn i'ch sefyllfa bresenol. Dangosa yr awydd hwn ei hun yn y plentyn yn gystal a'r dyn. Mae yn deimlad cyffredin i ddyn yn mhob gwlad. Yr awydd hwn am ddyrchafiad sydd yn tynu dyn yn ei flaen, yn ei gynal yn ei lafur, yn ei wroli i wynebu anhawsderau, ac yn rhoddi iddo bleser yn y llafur caletaf. Awdwr eich natur a blanodd y duedd ynoch; ewyllys Duw ydyw yn

Digitized by Google

ysgrifenedig yn eich enaid. Dylech dalu sylw iddi fel y cyfryw; dylech ei derbyn fel gorchymyn y Nefoedd i fyned rhagoch. Meithrinwch y duedd; na roddwch eich traed arni, rhag eich cael yn euog o fathru deddf ysgrifenedig Duw yn eich meddwl. Mae Duw wedi bwriadu i ddyn fod yn fawr; gosododd ei ddelw arno ar y cyntaf: mae wedi darparu pethau mawr ar ei gyfer, ac wedi gosod tuedd i ymddyrchafu yn ei feddwl, i'w gymhell i ymdrechu ei gyraeddyd.

*Yn ail, yr ydych wedi eich cynysgaethu â gallu i ddyrchafiad.* Buasai deisyfiad mewnol yr enaid am ddyrchafiad, heb y gallu i'w gyraeddyd, yn gospedigaeth drom ar ddyn; ond nid felly y mae: mae yr awydd a'r gallu i'w ddiwallu yn eich meddiant. Mae genych allu i helaethu stôr eich gwybodaeth, ac i gynyddu mewn medrusrwydd yn eich galwedigaeth. Pe dywedid eich bod wedi dysgu a meistroli yr oll a allech, chwi ddigiech, a hyny nid heb achos. Mae y gallu a'ch gwnaeth yr hyn ydych genych eto, ac y mae hwnw yn fwy yn awr nag ydoedd un adeg arall o'ch bywyd; o ganlyniad, chwi ddylech ei ddefnyddio. Talent yw eich gallu wedi ei hymddiried i chwi gan eich Arglwydd, ac y mae yn dysgwyl i chwi farchnata gyda hi, fel y galloch, yn y diwedd, ei dychwelyd iddo gyda llog.

Mae hyn yn ddyledswydd amlwg arnoch. Dylech wneuthur yr oll ag ydych yn alluog ohono. Nifer fach, os neb, sydd wedi gwneuthur hyny, mae yn wir, ond nid yw hyny yn diddymu y ddyledswydd. Ni ddylech foddloni ar un sefyllfa îs na'r galluoedd sydd yn eich meddiant.

*Yn drydydd, mae cyfleusderau dyrchafiad yn eich cyraedd.*—Mae sefyllfaoedd o ymddiried yn lluosog ac yn lluosogi yn barhaus. Mae angeu, symudiad, oedran, methiant, camymddygiad, neu rywbeth arall yn gwaghau rhai ohonynt yn feunyddiol. Pwy ohonoch na chawsoch gyfle i wella eich sefyllfa pe buasech yn gymhwys i lenwi sefyllfa well? Mae drysau holl sefyllfaoedd ein gwlad yn agored o'ch blaen, a chroesaw i chwi i fyned i mewn os yn deilwng—ond heb deilyngdod nid oes gobaith. Mae yn ddyledswydd arnoch ymdrechu amdanynt. Mae rhagluniaeth yn eu taenu fel trysorau o amgylch i chwi, a'ch dyledswydd chwithau yw ymdrechu yn deilwng amdanynt.

*Yn bedwarydd, mae cyraedd sefyllfa o ymddiried yn beth dymunol ynddo ei hun.*—Pwy ohonoch nad yw wedi taflu

Digitized by Google

edrychiad awyddus lawer pryd ar y sefyllfa uwchlaw iddo? Ac y mae hyny yn ddigon naturiol. Mae sefyllfa o ymddiried yn godiad i'r dyn ei hun—wedi ei chael, bydd yn fwy dyn nag ydoedd o'r blaen. Bydd ei waith yn ysgafnach, a'i gyflog yn fwy. Bydd oriau ei lafur yn dra thebyg yn fyrach, a'i oriau hamddenol yn lluosocach. Bydd ei logell yn llawnach, a'i gob yn fwy gwerthfawr. Bydd ei dŷ yn helaethach a llawnach o ddodrefn, a'r dodrefn hyny yn well. Hulir ei fordd â mwy o ddanteithion. Cyfodir ef, a chyfodir ei deulu gydag ef. Bydd ei wraig a'i blant yn eiddigedd i'w cymydogion. Chwanegir ei fanteision yn mhob ystyr. Gall fynu mwy o lyfrau, a bydd ganddo fwy o amser i'w darllen. Gall roddi gwell addysg i'w blant, a'u cychwyn yn fwy ffafriol ar ffordd eu bywyd. Chwanegir ei barch yn mysg ei gydnabod. Telir mwy o sylw i'w eiriau. Fe fydd yn oracl bellach yn y cylch lle try. Hynod y gwahaniaeth a gymer le! Fe rydd enwogrwydd ar ei deulu. Pa mor ddinod bynag oedd ei dad a'i fam, ei frodyr a'i chwiorydd o'r blaen, fe gânt sylw bellach yn ei gysgod ef—Mae eu mab, neu mae eu brawd yn dal sefyllfa gyfrifol iawn, fydd sylw pob un wrth son amdano. Oblegid hyn, fe fydd eu dylanwad yn fwy. Bydd mwy o rym yn eu geiriau, a rhoddir iddynt fantais i fod yn fwy defnyddiol. Ac heblaw hyny fe fydd genych well mantais i ddyfod yn ddynion mawr, cyfoethog, a chyfrifol yn y wlad. Ac oni fyddai hyny yn beth dymunol? Peth hawdd mewn cymhariaeth yw cyraedd pen yr ysgol ar ol esgyn y ris gyntaf. Yn y gyntaf y mae mwyaf o bwys. Wedi cael y troed ar y gyntaf, fe fydd pob gris wedi hyny yn hawddach, hawddach, nes cyraedd yr uwchaf. Nid oes achos i chwi i ddigaloni. Mae digon o siamplau o'ch blaenau o rai wedi cyfodi o sefyllfaoedd mor isel a'r eiddoch chwithau i'r sefyllfaoedd uwchaf. O ganlyniad ymdrechwch. Gwnewch egni. Defnyddiwch bob moddion yn eich gafael, gan ystyried fod hyn yn ddyledswydd arbenig arnoch.

Ond meddych, Pa foddion a ddefnyddiwn i gyraeddyd sefyllfaoedd o ymddiried? Hawdd yw gorchymyn i ni ymdrechu, ond a ydyw mor hawdd cyflawni? Mae anhawsderau mawr ar ein ffordd, ac y mae ein manteision ninau yn fychain. Pa beth a wnawn? Pa foddion a ddefnyddiwn? At ba beth y trown ein sylw a'n hymdrech gyntaf? Dywedaf i chwi, dangosaf y ffordd i



Digitized by Google

ddyrchafiad, a rhoddaf y moddion angenrheidiol ac effeithiol yn eich dwylaw. Mae anhawsderau ar eich ffordd mae yn wir, ond nid ydynt yn anorfod. Mae miloedd o sefyllfaoedd mor isel a'r eiddoch chwithau wedi eu goddiweddyd. Rhaid i chwi wneuthur ffordd i chwi eich hunain. Mae o bwys i chwi gofio hyn. Y cwbl a allwn ni ei wneuthur ydyw dangos i chwi y moddion i wneuthur y ffordd hono. Ac wrth wneuthur hyn, byddwn mor eglur a phwrpasol ag sydd modd; a sicrhawn, ond i chwi ddylyn y cyfarwyddiadau a roddwn, y byddwch yn dra thebyg o gyraeddyd sefyllfaoedd o ymddiried yn dra buan.

Yn gyntaf, dewiswch i chwi eich hunain yr alwedigaeth addasaf i'ch galluoedd naturiol. Ychydig sydd yn meddu ar alluoedd i ragori yn mhob galwedigaeth; ond nid oes nemawr neb nad allai ragori mewn rhyw un. Gallech dreulio eich oes mewn llafur ofer, trwy ddewis galwedigaeth anaddas i'ch galluoedd. O ganlyniad, edrychwch i mewn i chwi eich hunain, a cheisiwch adnabod y gallu mawr a roddwyd i chwi, oblegid trwy ddefnyddio hwnw y gallwch ragori. Ac y mae yn hawdd i chwi adnabod eich hunain yn y peth hwn. Yn mha beth y mae genych y pleser mwyaf, at ba alwedigaeth y mae eich meddwl yn tueddu amlaf, ac yn mha un y gwnewch y cynydd cyflymaf, yn yr un hwnw gallwch benderfynu y gallech ragori—yno y mae eich mawr allu. Dewiswch y gyfryw alwedigaeth ag y byddoch ymwybodol y gallwch ragori ynddi.

Yn ail, gosodwch ryw sefyllfa o ymddiried yn eich galwedigaeth yn nod o'ch blaen i gyrchu ato. Mae rhai yn ymdrechu am ddyrchafiad fel rhai yn curo yr awyr. Nid oes ganddynt ddim yn neillduol mewn golwg ond rhyw feddyliau cymysglyd am fod yn fawr. Os cyraedda un o'r rhai hyn sefyllfaoedd o ymddiried, ni bydd hyny ddim ond dygwyddiad, nid ellir edrych ar eu dyrchafiad fel ffrwyth eu llafur hwy eu hunain. Na fyddwch yn debyg iddynt. Bydded genych ddyben mewn golwg—nod i gyrchu ato. Ac,

Yn drydydd, penderfynwch yn eich meddwl y mynwch afael ar y nod. Ac i'r dyben hyny, bydded genych ymddiried ynoch eich hunain. Credwch fod genych allu i'w gyraeddyd, a phenderfynwch ddefnyddio y gallu hwnw. Peidiwch â dysgwyl dyrchafiad o'r awyr. Llafuriwch amdano. Rhedwch tuag ato. Nac edrychwch ar yr

Digitized by Google

anhawsderau. Peidiwch â dychymygu fod yn bosibl i chwi fethu ei gael. Dringwch yn uwch na phob anhawsder. Edrychwch ar ddyrchafiad fel peth yn eich cyraedd. Gwnewch benderfyniad y mynwch fod yn fawr.

Yn bedwarydd, gwnewch eich hunain yn gymhwys i lenwi sefyllfaoedd o ymddiried. Nid allwch ddysgwyl amdanynt heb gymhwysder. Mewn sefyllfaoedd o ymddiried mae cryn waith i'r ysgrifell, ac y mae o bwys cael llaw ysgrifen dda a dealladwy. O ganlyniad, meistrolwch y gelfyddyd o ysgrifenu. Dysgwch ysgrifenu yn gyflym ac yn dda. Hwyrach y bydd eisieu gohebu, ond cyn y gellir gwneyd hyny yn briodol, rhaid dysgu sillebu a gramadegu yn gywir: dysgwch y pethau hyn. Nid oes neb mewn sefyllfaoedd o ymddiried na bydd yn rhaid iddo yn fynych wrth gymhorth rhifyddeg: meistrolwch rifyddeg yn drwyadl. Ond yn benaf oll, byddwch yn feistriaid perffaith ar eich galwedigaeth. Bydded genych adnabyddiaeth ohoni yn ei holl gysylltiadau. Byddwch yn fedrus gyda'ch gorchwylion. Gwnewch eich hunain yn alluog i lenwi y swydd uwchaf a berthyn i'ch galwedigaeth.

Yn bumed, chwiliwch am sefyllfaoedd o ymddiried. Ewch ar eu hol, ac na ddysgwyliwch iddynt hwy ddyfod ar eich ol chwi. Y neb sydd yn ceisio sydd yn cael, yn hyn fel mewn pethau ereill. Bydded eich llygaid a'ch clustiau yn agored. Edrychwch allan amdanynt, holwch eich cymydogion. Chwiliwch y newyddiaduron. Ac wedi i chwi gael gafael ar sefyllfa o ymddiried yn wag, gwnewch gais amdani. Os llwyddwch, dyna chwi wedi cyraedd eich amcan; ac os methwch, ni byddwch ronyn gwaeth. Na fyddwch yn ol o ddyrchafiad o eisieu ei ofyn. Gosodwch wroldeb gonest ar eich gwynebpryd. Dysgwch eich tafod i lefaru yn ddynol. Na fydded arnoch ofn na chywilydd i ofyn am ddyrchafiad yn eich sefyllfa. Mae llwfrdra calon a chywilydd gwyneb wedi cadw llawer un i lawr. Gwyliwch rhag iddo fod felly i chwithau. Os methwch dro ar ol tro, na ddigalonwch. Parhewch i geisio nes cael.

Ond nid yw y pethau a nodwyd yn barod yn ddigon. Mae ystyriaethau eto yn ol yn hawlio eich sylw—pethau bach ar ryw ystyron, ond pethau bach a phwys mawr yn perthyn iddynt.

Yn gyntaf, bydded eich cymeriad moesol yn loew.

Digitized by Google

Mae anfoesoldeb yn cau drws dyrchafiad yn wyneb y dyn, ac yn ei annghymhwyso hefyd i gael ei ddyrchafu. Ni feddyliai meistr byth am benodi dyn anfoesol i sefyllfa o ymddiried. Nid allai roddi ymddiried ynddo. Os ydych am sefyllfaoedd da, bydded eich ymddygiadau yn ddiargyhoedd. Byddwch yn ddynion sobr a geirwir; gochelwch hudoliaeth y gwpan feddwol; ymgedwch rhag pob rhith drygioni; bydded eich oriau yn rheolaidd; dangosed eich holl ymddygiadau eich bod yn ddynion y gellir ymddiried ynoch.

Yn ail, byddwch yn ddynion crefyddol. Mae crefydd wirioneddol yn codi dyn yn y byd hwn. Mae yn ris o dan ei draed—yn gam bwysig at ddyrchafiad. Elw mawr yw duwioldeb. Mae llawer gŵr ieuanc o Gymru, yn nhrefydd Lloegr, wedi taflu ei grefydd ymaith fel peth diwerth, a thrwy hyny wedi colli ei obeithion, a dyfetha ei hun. Gwyliwch rhag fod yn euog o hyn. Glynwch yn eich crefydd fel am eich bywyd. Fe fydd crefydd bur yn gymeriad i chwi lle bynag yr eloch. Fe'ch cymeradwya i bob cydwybod. Nid allwch byth gael gwell llythyr o gymeradwyaeth na chymeriad crefyddol. Fe feddylia pawb yn well ohonoch. Fe roddir mwy o ymddiried ynoch. Fe gymerir mwy o ddyddordeb yn eich achos. Byddwch yn fwy gwerthfawr gan eich meistriaid. Mewn gair, bydd gwybodaeth eich bod yn ddynion crefyddol yn drwydded i chwi i'r sefyllfaoedd mwyaf pwysig, os bydd genych y cymhwysder iddynt gyda hyny.

Yn drydydd, byddwch yn ofalus yn newisiad eich cymdeithion. Nid allwch gyfeillachu gyda dynion anfoesol heb dderbyn niwaid oddiwrthynt. Cofiwch fod pechod yn heintus. Na thwyller chwi, y mae ymddyddanion drwg yn llygru moesau da. Mae llygaid eich meistriaid a'ch uwchafiaid arnoch. Gwyddant fwy amdanoch nag y mae rhai ohonoch yn tybied. Os deuant i wybod eich bod yn cyfeillachu gyda dynion ofer, ni feddyliant byth am eich dyrchafu. Cauir drws dyrchafiad yn eich gwyneb. Ac nid oes rhyfeddod yn y byd yn hyn, oblegid y mae cymdeithion dyn yn arddangosiad o'i gymeriad. O ganlyniad, gofalwch am fod eich cymdeithion yn ddynion moesol a da, yn gyfryw rai ag y bydd eu gair drosoch yn ddigon o gymeradwyaeth i chwi gan bawb a'u hadwaenant.

4. Byddwch ofalus am fod yn rheolaidd ac amserol

Digitized by Google

gyda'ch gwaith. Codwch yn foreu, fel y galloch fod gyda'ch gorchwyl mewn pryd. Dangoswch gymaint o awydd am fod gyda'ch gorchwyl mewn amser, ag a ddangoswch am ei adael yn yr adeg benodedig. Mae meistriaid yn talu sylw mawr i hyn, ac yn sicr o wobrwyo y rhai mwyaf rheolaidd.

5. Byddwch bob amser yn ddiwyd a siriol gyda'ch gorchwylion. Llaw y diwyd a gyfoethoga. Mae rhai yn gweithio, fel pe am wystl i weithio a gwneuthur y lleiaf o waith. Ond nid oes gobaith i'r rhai hyn gael eu dyrchafu. Maent yn sicr o gael eu gweled, a derbyn hefyd y tal a haeddant. Mae ereill yn gweithio yn duchanllyd ac anfoddog, fel pe bae mynyddau y byd ar eu hysgwyddau. Gallech dyngu nad oes ganddynt bleser yn eu gwaith; gweithiant fel rhai â chasineb perffaith at waith yn llenwi eu calonau. Byddai yn annhegwch i'r cyfryw rai gael eu dyrchafu. O ganlyniad, os ydych am enill sefyllfaoedd o ymddiried, byddwch ddiwyd. Gweithiwch yn egniol. Gwnewch gymaint o waith ag a alloch, a gwnewch y cwbl yn y dull goreu ag y medroch. Gweithiwch yn siriol, fel rhai yn ymyfrydu mewn gweithio. Byddwch yn ewyllysgar i droi eich llaw at unrhyw beth a ofynir genych; ac fel hyn chwi enillwch serch y rhai a olygant drosoch—enillwch sylw eich meistriaid: ac os daw cyfle, chwi fydd y rhai a ddyrchefir ganddynt.

6. Talwch sylw priodol i'ch ymddangosiad personol: mae gan hyn ei ddylanwad yn nyrchafiad amgylchiadol dyn. Bydded eich gwisg yn drefnus, a'ch person yn lân. Nac esgeuluswch eich gwallt, eich danedd, na'ch ewinedd. Mae danedd ac ewinedd duon a budron yn anesgusodol pan y mae mor hawdd eu glanhau. Ac y mae aflerwch mewn gwisg, ac aflendid o unrhyw fath yn y person, yn sicr o fod yn rhwystr ar ffordd dyrchafiad. Ni charai neb weled y cyfryw rai mewn sefyllfa o ymddiried yn eu masnachdai. Gresyn na ddysgai mamau i'w plant gadw dwylaw a danedd glân yn gystal a gwyneb glân.

7. Dysgwch fod yn ddynol a rhydd yn eich ymddyddanion. Mae rhai yn mwngial â'u meistradoedd yn lle siarad â hwynt. Trwy boen y gallant ddeall pa beth a ddywedant. Pa fodd y gall meistriaid barchu na mawrygu y cyfryw rai? Nid yw eich meistriaid ond dynion fel chwithau. Mae yn weddid ynoch eu hofni. Edrychwch yn eu hwynebau, a siaradwch â hwynt fel cyd-ddyn.

Digitized by Google

Torwch eich geiriau yn groew—atebwch hwynt fel dynion. Nid oes achos i wrid godi i'ch gwynebau wrth wneuthur hyny. Bydd gan eich meistriaid well meddwl ohonoch felly nag wrth i chwi ddal eich penau i lawr a mwngial yn lle siarad â hwynt.

8. Cynilwch arian. Mae arian yn y llogell yn gymeradwyaeth uchel i ddyn gyda golwg ar sefyllfaoedd o ymddiried. Mae yn gwneyd dyn yn fwy annibynol. Dangosa fod y dyn yn ofalus; ac os bydd pob peth arall yn gyfartal, efe yw y tebycaf o gael ei ddyrchafu i sefyllfa o ymddiried.

9. Meistrolwch iaith ac arferion y Seison yn drwyadl. Gwnewch eich hunain yn alluog i siarad eu hiaith yn hyawdl, a'i hysgrifenu yn fanwl. Yn hyn o beth gwnewch eich hunain yn Seison. Mae synwyr cyffredin yn galw am hyn. Mae yn anmhosibl dal sefyllfaoedd o ymddiried heb fedrusrwydd yn yr iaith Seisnig; ond na wedwch eich Cymraeg. Arddelwch eich cenedl, coleddwch eich iaith eich hunain; ac fe fydd hyn yn fwy o gymeradwyaeth i chwi nag o annghlod yn ngolwg ein cymydogion.

10. Ymdrechwch enill cydnabyddiaeth a pharch dynion ag ydynt yn barod yn llenwi sefyllfaoedd o ymddiried a dylanwad. Fe fydd cydnabyddiaeth y cyfryw rai yn werth i'w gael ynddo ei hun, ac yn godiad i chwithau yn annibynol ar bob ystyriaeth arall. Ond mwy na hyny, fe fydd yn gymhorth i chwi i enill sefyllfaoedd o ymddiried i chwi eich hunain. Mae clust y meistriaid ganddynt, ac y mae eu cymeradwyaeth yn cario dylanwad arnynt. Fe gymerant ddyddordeb ynoch, ac os gwelant gyfle, fe'ch cymeradwyant i sefyllfaoedd gwell nag a lenwir genych yn bresenol. Edrychwch bob amser ar i fyny. Mae pob anifail yn gallu edrych i lawr. Ceisiwch bob amser gydnabyddiaeth dynion ag y bydd eu cymdeithas yn anrhydedd a lles i chwi.

11. Ar ben hyn oll, dysgwyliwch wrth Dduw am ei fendith ar y moddion a ddefnyddiwch. Cofiwch nad eiddo dyn ei ffordd. Dywedwch o hyd, Os yr Arglwydd a'i myn, mi a wnaf hyn neu hyny. Na feddyliwch fod Duw wedi gadael y byd a'i amgylchiadau i lywodraeth mympwy plant dynion. Na, mae awenau y llywodraeth yn ei law ei hun. Mae calonau meistriaid yn gystal a chalonau breninoedd yn ei law ef. Gall wneuthur fel y myno â llu'r nef ac â thrigolion y ddaear. Dysgwyliwch wrtho; gweddiwch

Digitized by Google

am ei fendith, gan fod yn sicr yn eich meddwl, nad allwch wneuthur dim hebddo ef.

Trysorwch y cyfarwyddiadau hyn yn eich cof, myfyriwch lawer arnynt, a phenderfynwch eu dylyn; ac ond i chwi wneuthur hyny, gallwch ddysgwyl yn lled hyderus y bydd i chwi lwyddo.

---

## CADWRAETH YR IAITH GYMRAEG.

Mae dosbarth o ddynion yn ein gwlad ag ydynt yn arfer synu fod neb hyd yn nod yn Nghymru yn siarad Cymraeg. Pan glywant ddau Gymro yn siarad Cymraeg gyda'u gilydd, agorant eu llygaid, eu cegau, a'u clustiau, i wrando arnynt. Ymddangosant fel rhai wedi eu taro. Maent yn rhyfeddu at y peth, fel pe byddai yn rhyfeddod fawr, yn rhywbeth anarferol a gwyrthiol. Pe clywent yr anifeiliaid ar y maes, neu y ceryg ar y ffordd, yn siarad â'u gilydd, nid allent synu mwy nag y maent wrth glywed Cymry yn siarad Cymraeg. Pa fodd i roddi cyfrif am y syndod hwn nis gwn; os na wna ystyriaethau fel hyn roddi eglurhâd ar y dirgelwch:—Yn gyntaf, hwyrach eu bod yn meddwl nad yw y Cymry yn siarad, ac am hyny yn synu wrth eu clywed yn siarad: neu yn ail, hwyrach eu bod yn arfer meddwl fod pawb trwy y byd yn siarad Seisneg yn unig; ac oblegid hyny yn synu wrth glywed y Cymry yn siarad Cymraeg: neu yn drydydd, hwyrach eu bod yn meddwl y dylai pawb siarad Seisneg, a dim ond Seisneg, ac am hyny synant wrth glywed y Cymry yn siarad Cymraeg. Ond pa fodd bynag yr eglurir y ffaith, mae y ffaith yn aros, fod dosbarth o ddynion yn ein gwlad yn synu fod y Cymry yn siarad Cymraeg.

Mae dosbarth arall yn ein beio yn llym am siarad Cymraeg. Ceryddant ni am siarad, gwaharddent ni i siarad, pe gallent; braidd na chospent ni oblegid ein siarad. Pe byddem yn troseddu deddfau ein gwlad, nid allent fod yn ddicach wrthym nag ydynt yn awr. Pe cyflawnem ryw bechod anfad yn erbyn y Nefoedd, nid allent ein beio yn fwy llym. Edrychant arnom fel rhai

Digitized by Google

ffol, ac ni phetrusant ddyweyd hyny. Maent yn ddigon eofn i'n dysgu y dylem beidio siarad Cymraeg, ac mai ein dyledswydd a'n lles ydyw siarad Seisneg. Mae gan y dosbarth yma ddigon o hunanymddiried beth bynag am briodoleddau ereill; oes, digon ohono i'w galluogi i ddyweyd yn ein clyw, ac yn ein cefnau, mai melldith Cymru yw yr iaith Gymraeg.

Ond y mae dosbarth arall o ddynion yn beiddio meddwl, ac yn beiddio dyweyd eu meddwl, nid yn unig fod yn rhesymol i'r Cymry siarad eu hiaith, ond fod yn ddyledswydd arnynt ei harfer a'i choleddu. Mae dynion dysgedig yn y cyffredin yn perthyn i'r dosbarth yma. Mae hefyd lawer o Seison yn ddigon pwyllog i gyfranogi o'r syniad hwn. Ac er mor lluosog ydyw hiliogaeth Dic Sion Dafydd, mae y nifer amlaf o'r Cymry yn credu ac yn arfer y meddwl yma.

Yn awr y mae genyf ychydig bethau i'w dyweyd wrth bob un o'r tri dosbarth a enwyd; sef, y dosbarth sydd yn synu, y dosbarth sydd yn beio, a'r dosbarth sydd yn cymeradwyo coleddiad yr iaith Gymraeg.

Ond gair i ddechreu wrth y dosbarth sydd yn synu fod Cymry yn siarad Cymraeg. Nid oes eisieu dyweyd llawer wrth y dosbarth hwn, oblegid yn y cyffredin rhai lled ddiniwaid ydynt. Hen wragedd, a dynion yr un fath a hwy, sydd yn gwneyd y dosbarth yma i fyny. Nid oes dim llawer i'w ofni oddiwrthynt. Nid yw eu gwawd na'u cerydd yn taro neb i lawr. Ac heblaw hyny, nid ydynt yma i wrando. Pe buasent yma i glywed, buasai yn werth treulio peth amser i'w goleuo ar y pwnc, a symud ymaith achos eu syndod yn llwyr ac am byth. Ond er nad ydynt yma, ni byddwn yn hir cyn cyfarfod â rhai ohonynt; a bydd yr ychydig sylwadau a wneir yma, yn gynorthwy i ni siarad i bwrpas gyda hwy, pan ddygwyddwn eu cyfarfod. Pan gyfarfyddwch â hwynt dywedwch wrthynt yn gyntaf fod eu syndod hwy yn syndod i ninau; ac y mae y syndod hwn yn syndod rhesymol. Mae eu syndod hwy yn afresymol. Mae mor naturiol i ni siarad Cymraeg, ag ydyw iddynt hwythau siarad Seisneg. Mae ein hawl yr un a'u hawl hwythau. A byddai cymaint o reswm i ni synu atynt hwy, ag sydd o reswm iddynt hwy synu atom ni. Ein hiaith ni ydyw hi—iaith ein mam—iaith ein hynafiaid—yr iaith a roddwyd i ni gan Dduw. Pan gyfarfyddwch â hwynt, dywedwch y pethau hyn wrthynt.

Digitized by Google

Dywedwch hefyd wrthynt fod yn syn ein bod ni heddyw yn siarad Cymraeg: ond nid yr hyn sydd yn eu synu hwy sydd yn elfen syndod yn y peth hwn. Yr ydym ni ein hunain yn synu uwchben y peth; ac nid heb achos. Wrth edrych yn ol ar y byd a gweled cenedloedd lluosog a chryfion yn poblogi y gwledydd; wrth glustfeinio a'u clywed yn siarad mewn ieithoedd wedi eu coethi a'u perffeithio; ac wrth gofio fod y cenedloedd hyny wedi ymgolli mewn cenedloedd ereill, a'u hiaith wedi marw er ys oesoedd lawer, mae yn syn genym fod y genedl Gymreig eto mewn bod, a'i hiaith eto yn cael ei llefaru ganddi. Wrth gofio am yr ymdrech a wnaed gan y Rhufeiniaid i ddifodi ein hiaith, ac i osod yr eiddynt eu hunain yn iaith i ni yn ei lle, pan welwn y Lladin wedi marw fel iaith lafaredig, a'r Gymraeg eto yn fyw, yr ydym yn synu uwchben y peth. Do, bu Seneddwyr Rhufain yn cynllunio i ddiddymu yr iaith Gymraeg; do, bu llywyddion a rhaglawiaid yn canmol y Lladin, fel y mae y Seison yn awr yn canmol y Seisneg; do, buont yn dirmygu yr iaith Gymraeg, ac yn dyweyd ei bod yn felldith i'r Cymry; do, gwnaethant bobpeth a allent er ei lladd: ond y mae yr holl rai hyny wedi pydru yn eu beddau, a'u henwau wedi eu hannghofio; ond y mae y Gymraeg eto yn fyw; ac yn hyn y mae defnydd syndod. Mae y Seison ar ol y Rhufeiniaid wedi gwneyd eu goreu i lethu ein hiaith: maent yn canmol y Seisneg, yn dirmygu y Gymraeg—yn gwgu ar rai, yn gwenu ar ereill; ond y mae eu holl ymdrech wedi bod yn ofer. Mae y Gymraeg eto yn fyw; ac am hyny, yr ydym ninau yn synu. A dywedwch wrth y Seison y caiff eu plant hwy, a phlant eu plant, achos i synu eto ar yr un peth hwn. Fe fydd y rhai sydd yn synu atom, ac yn ein beio, ie, hwy a'u plant, a phlant eu plant, wedi eu claddu yn y beddrod du cyn y gwelir angladd yr iaith Gymraeg.

Bellach trown i siarad ychydig â'r ail ddosbarth, sef y rhai sydd yn ein beio oblegid ein bod yn coleddu ein hiaith. Mae y dosbarth yma yn fwy lluosog, ac yn y cyffredin yn fwy galluog, ac felly yn teilyngu mwy o sylw. Ac heblaw hyny, os oes achos teg i'w cerydd, dylem wrando arnynt a diwygio; ond os ydynt yn ein beio heb achos, dylem fod yn barod i'w hargyhoeddi o flaen eu gwyneb, a rhoddi taw bythol ar eu baldordd ar y pwnc hwn. Y peth goreu i ni yn gyntaf, ydyw cael gwybod beth sydd

Digitized by Google

gan y cyfeillion hyn yn ein herbyn, a phaham y beiant ni am siarad yr iaith yn yr hon y'n ganed. Yr wyf wedi sylwi tipyn ar y pwnc hwn, ac yr wyf yn meddwl y gellir cynwys eu holl resymau yn yr ymadroddion canlynol:— 1. Mae yr iaith Gymraeg yn aflafar a barbaraidd. 2. Nid yw yr iaith Gymraeg yn werth i'w chadw. 3. Mae yr iaith Seisneg ar gynydd parhaus. 4. Mae yr iaith Gymraeg ar ffordd dyrchafiad y Cymry, ac felly yn felldith iddynt. 5. Mae yr iaith Gymraeg yn sicr o farw. Dyma gynwysiad gwrthwynebiad y Seison a theulu Dic Sion Dafydd i'r Cymry siarad Cymraeg; ac er mwyn gwybod y pwys sydd ynddynt, cymeraf sylw byr ohonynt bob un ar ei ben ei hun. Yr wrthddadl gyntaf yn erbyn ein hiaith gan ein gwrthwynebwyr ydyw,—ei bod yn aflafar a barbaraidd. I'r wrthddadl hon gellir ateb, ei bod yn ddisail. Nid yw ein hiaith yn aflafar nac yn farbaraidd. Os ydyw yn swnio yn aflafar yn eu clustiau hwy, mae yn swnio felly am nad ydynt yn ei deall. Yr oedd y Seisneg felly i minau cyn ei dysgu; ac y mae pob iaith felly ond i'r rhai sydd yn ei deall. Ond nid yw y Gymraeg yn aflafar; anwybodaeth neu ragfarn raid fod yn achosi i neb haeru ei bod. Ac hyd yn nod pe buasai yn aflafar, nid yw y Seison yn alluog i wybod hyny, am nad ydynt wedi ei dysgu. Yr wyf fi yn credu fod y Gymraeg yn llawer mwy perseiniol na'r Seisneg, ac yn sicr ei bod felly i fy nghlust i. A phe buasai yn aflafar, beth yw hyny i neb ond i ni? Os ydym ni yn ei hoffi fel y mae, yn enw rheswm gadawer i ni lonydd. Ac am y gair barbaraidd, yr wyf yn tybied mai goreu pa leiaf o ddefnydd a wneir ohono. Gan y Rhufeiniaid barbariaid oedd pawb ond hwy eu hunain; a barbariaid oeddent hwythau gan y rhai o'r tu allan iddynt. Yn amser y rhyfel â China, yr oeddem ni yn galw y Chineaid yn Farbariaid, a'r Chineaid yn galw yr un enw arnom ninau. Ac yn amser rhyfel y Crimea, yr oedd y wasg Seisnig wedi myned i alw hyd yn nod y Rwsiaid yn haner barbariaid. Ac i ba beth y galwent ein hiaith yn farbaraidd? Os yw hi yn farbaraidd, mae y Seisneg yn farbaraidd hefyd. Ond nid oes synwyr mewn syniadau fel hyn, ac oblegid hyny maent yn ddirym fel gwrthddadl yn erbyn ein hiaith. Yn awr dyna yr wrthddadl gyntaf wedi methu sefyll. Gan hyny trown i chwilio beth sydd yn yr ail wrthddadl; sef—

Digitized by Google

"Nid yw yr iaith Gymraeg yn werth i'w chadw." O bosibl mai eu meddwl yw, nad oes yn yr iaith Gymraeg ddim trysorau llenyddol, o ganlyniad ni ddylid ei harfer. Mae yr wrthddadl hon yn cynwys addefiad y buasai yn werth coleddu yr iaith Gymraeg, er gwaethed yw hi, pe buasai gweithiau o werth a phwys yn gynwysedig ynddi; a beth os oes ynddi y cyfryw drysorau? Wel os oes, mae yr wrthddadl yn bradychu anwybodaeth y rhai sydd yn ei harfer; ac y mae trysorau meddyliol lawer yn ein hen iaith. Nid yn unig y mae genym lenyddiaeth wreiddiol fel Cymry, ond y mae hufen meddyliau cenedloedd ereill hefyd yn gyfieithedig i'n hiaith. Ofer fyddai dechreu eu henwi. Mae y rhai sydd gymhwys i roddi barn ar y mater yn gwybod amdanynt; a byddai yn fwy gweddus i'n cyfeillion y Seison fod yn ddystaw ar bwnc nad ydynt yn gwybod dim amdano. Fel hyn syrthia yr ail wrthddadl i'r llawr i gadw cwmni i'w chwaer gyntaf. Awn ninau yn mlaen at y drydedd; sef,—

"Mae yr iaith Seisneg ar gynydd parhaus." Mae cryn dipyn o hunan Seisnig yn yr wrthddadl hon. Ei meddwl noeth ydyw hyn,—Mae y Seisneg ar gynydd; hi fydd iaith y byd yn fuan; gan hyny, ymwrthodwch â'r Gymraeg er mwyn ei mabwysiadu. Mae yr wrthddadl hon yn tybio fod cymysgiad yr ieithoedd yn felldith ar ein daear ni. Ond goreu pa gynilaf y byddom gyda'n haeriadau ar bwnc fel hwn. Yr ydym yn cael fod y ddynoliaeth ar y cyntaf i gyd o'r un iaith, mae yn wir; ond yr ydym yn cael hefyd ddarfod i Dduw beri cymysgedd yn ieithoedd dynion, a hyny i ateb dyben, a'r dyben hwnw yn un da. Nid melldith i gyd ydyw y gwahaniaeth tafodau sydd ar y ddaear. Mae rhyw ddyben da yn ddiddadl yn cael ei ateb drwyddynt; ond a chaniatau mai melldith ydoedd cymysgiad iaith dyn, ac y daw y byd eto rywbryd i gyd i lefaru yr un iaith, mae yn amheus iawn genyf a oes y tebygolrwydd lleiaf mai y Seisneg fydd yr iaith hono. Nid yw cynydd yr iaith, na lluosogrwydd y rhai sydd yn ei llefaru, yn profi dim o'r fath beth. Mae y Ffrancaeg ar gynydd, a'r Elmynaeg ar gynydd, ac y mae llawer yn eu siarad. Beth yw y Seisneg wrth y Chinaeg, y Japanaeg, a ieithoedd India? A ydyw y Sais yn meddwl fod y Seisneg i lyncu ieithoedd y byd iddi ei hun? Byddai mor resymol i'r Cymro feddwl am i Lyn Tegid lyncu y môr ag ydyw i'r Sais feddwl i'r Seisneg lyncu y byd iddi ei

Digitized by Google

hunan. Os yw y Seison yn meddwl rhywbeth fel hyn, bydded iddynt ddyweyd wrth y Ffrancwr, a'r Ellmynwr, a'r Russian, ac wrth holl genedloedd y byd, am ymwrthod â'u hieithoedd eu hunain a mabwysiadu y Seisneg; a phan welwn ninau rai ohonynt yn gwneyd hyny, dechreuwn ninau ystyried y priodoldeb o wneyd yr un peth. Nid oes genym ni ddim gwrthwynebiad i'r Seisneg gael bod yn iaith gyffredinol y byd; byddai cystal genym iddi gael bod ag un iaith arall ond ein hiaith ein hunain. Ond dywedwn wrth ein cyfeillion y Seison, ei bod yn rhy gynar ar y dydd iddynt eto ddechreu proffwydo beth gymer le tua'r nos. Pob parch iddynt, a phob llwydd iddynt; ond na fydded iddynt annghofio y cenedloedd ydynt wedi darfod, a'r ieithoedd ydynt wedi marw. Mae yn eithaf posibl i'r Seison eto beidio â bod yn genedl, ac yn bosibl i'r Seisneg beidio â bod yn iaith lafaredig. Ie, y mae o fewn cylch posibilrwydd i'r Cymry eto fod yn genedl gref, ac i'r iaith Gymraeg fod yn brif iaith y byd. Pwy a ŵyr nad yw yr iaith Gymraeg wedi cael ei chadw yn fyw gan Ragluniaeth y Nef i ateb rhyw ddyben mawr mewn cysylltiad â dynion; ond tewi sydd oreu. Mae y dyfodiant yn dywyll. Os byth y daw y byd i siarad yr un iaith, mae mor debyg a pheidio fod yr iaith hono heb ei geni y dyddiau hyn; modd bynag am y pethau hyny, mae yn eithaf amlwg nad yw cynydd yr iaith Seisneg yn profi y dylai y Cymry ymwrthod â'u Cymraeg.

Y bedwaredd wrthddadl ydyw, fod y Gymraeg ar ffordd dyrchafiad y Cymry, ac felly yn felldith iddynt. Mae yr wrthddadl hon wedi cael ei chyhoeddi o brif areithfa y wlad—o'r lle uwchaf, ond yr orsedd, yn ein teyrnas. Er hyny yr wyf yn beiddio gwadu ei gwirionedd; a dangosaf, mi hyderaf, i foddlonrwydd, nad all fod yn wirionedd. Ond dymunaf grybwyll yn y fan hon, rhag i neb fy nghamddeall, mai nid yn erbyn y Seisneg yr wyf yn siarad, ond dros y Gymraeg. Nid oes genyf ddim yn erbyn y Seisneg; a phe buasai genyf, peth hollol ddibwys fuasai hyny. Ond y mae genyf gariad at y Gymraeg, a gair i'w ddyweyd drosti; ac yr wyf am ddyweyd nad yw ein hiaith yn felldith i ni, nac ar ffordd ein dyrchafiad. Beth sydd amlycach na hyn? Mae llawer o Gymry wedi cyraedd dyrchafiad heb golli eu Cymraeg. Aeth llawer bachgen tlawd ar led y byd heb ddim ond Cymraeg ganddo, dysgodd Seisneg yn ngwlad ei fabwysiad, a

Digitized by Google

chododd i sefyllfa o bwys ac ymddiried. Dywedai un Cymro-Sais addolgar wrthyf, tra yn ceisio dangos fod y Gymraeg yn felldith i'r Cymry,—"Yr wyf fi," meddai, "yn dal sefyllfa yn awr nad allaswn ei dal oni buaswn yn Sais." "Yr wyf finau," atebais ef, "yn dal sefyllfa na fuaswn yn ei dal oni buasai fy mod yn Gymro." Mae y dynion hyn ag ydynt yn dadlu yn erbyn y Gymraeg yn siarad yn union fel rhai yn meddwl nad oes na dyrchafiad, na chyfoeth, nac enwogrwydd, na gwareiddiad, na dim sydd dda, yn bosibl ond yn Lloegr, a thrwy y Seisneg. Mae yn ddigon effeithiol bron i wneyd i geryg chwerthin eu clywed yn gosod allan wybodaeth, a dysg, a mwyniant, allan o gyraedd y Cymry, am na baent yn medru Seisneg. Yr ydym ni yn ddigon ffol i feddwl a chredu fod ychydig wybodaeth, a dysg, a chyfoeth, a dyrchafiad, yn gyraeddadwy eto hyd yn nod yn Nghymru, er lleied yw hi. Ac heblaw hyny, mae yn eithaf amlwg i'r neb a fyn weled, nad yw gwybodaeth, dysg, dyrchafiad, na chyfoeth, o angenrheidrwydd yn dylyn gwybodaeth o'r Seisneg. Yr ydwyf agos yn meddwl fod rhai yn dlawd, rhai yn anwybodus, a llawer iawn yn methu codi, er ceisio, ac er nad ydynt yn medru dim ond Seisneg. Rhyngoch chwi a minau, nid yw pawb yn dywysogion a mawrion, hyd yn nod yn Lloegr; ac y mae yn ryw fath o gysur i'r Cymro uniaith, nad efe yw yr unig un sydd yn dlawd ac yn isel yn y byd hwn. Beiddiaf fyned yn bellach eto, erbyn cymharu pobl gyffredin Lloegr â phobl gyffredin Cymru, mae y cyffredin yn Nghymru yn ymddangos llawn cystal allan a'r cyffredin yn Lloegr. Mae gweithwyr Cymru mor ddeallgar, mor wybodus, ac mor drefnus eu hymddangosiad ag ydyw ereill o'r un sefyllfa yn Lloegr.

Ond tybier fod y Cymry yn myned i gyd yn Seison, megys ar unwaith, dyweder yn deffro boreu fory yn Seison pur, heb fedru dim gair o Gymraeg; pa beth a enillent trwy hyny? a fyddai eu gwybodaeth yn fwy? a fyddai eu gwisg yn well? a fyddai ganddynt chwaneg o aur ac arian yn eu llogellau? Atebaf drosoch, Na fyddai ddim. Mae hyn yn hawdd i'w brofi: mae rhanau o Gymru wedi mabwysiadu y Seisneg, wedi annghofio eu Cymraeg; ond nid ydynt yn ddim gwell allan na'u brodyr sydd eto yn glynu wrth eu hiaith gynenid. Nid ydynt yn well eu moesau, nid ydynt yn uwch mewn

Digitized by Google

gwybodaeth a dysg. Nid yw eu hamgylchiadau allanol yn well, ac nid ydynt yn uwch mewn enwogrwydd. Yn wir, byddai yn ddrwg gan y manau Cymreig o Gymru newid sefyllfa â'r rhanau Seisnig, er cymaint ganmolir ar y Seisneg, ac a ddiystyrir ar y Gymraeg. Mae y casgliad yn naturiol; sef, nad yw yr iaith Gymraeg ddim yn felldith i Gymru, nac yn rhwystr i ddyrchafiad ei phlant.

Yn awr symudaf at yr wrthddadl olaf, sef, Mae yr iaith Gymraeg yn sicr o farw. Ystyr yr wrthddadl hon ydyw, Waeth i chwi heb lynu wrth eich iaith, fe fydd wedi darfod yn fuan iawn. Ond dywedaf wrth y rhai sydd yn ei harfer, Eich dymuniad ydyw tad y meddwl. Nid wyf yn ameu dim nad ydych yn ewyllysio iddi farw; nid wyf yn ameu dim na laddech chwi hi, pe gallech; ond yr wyf yn ameu eich gallu i wneyd hyny; ac yr wyf yn barod i ddiolch i Dduw nad ydyw wedi rhoddi iaith na bywyd cenedl yn llaw dyn. Mae llawer wedi bod yn proffwydo marwolaeth ein hiaith o'ch blaen chwi, ond y mae y proffwydi wedi marw, a'r iaith eto yn fyw. Nid peth hawdd yw proffwydo. Mae llygad dyn yn rhy wan i ganfod yn ddigon pell i'r dyfodiant i allu dweyd beth a ddygwydd ar ol hyn; ac yn rhy fach i allu cymeryd digon o'r eangderau i mewn er ffurfio golygiadau cywir hyd yn nod am y pethau a welir ganddo. Ond gan eich bod chwi yn proffwydo, ninau a broffwydwn hefyd; a dyma fydd ein proffwydoliaeth, "Oes y byd i'r iaith Gymraeg;" ac y mae genym sylfaen i'n proffwydoliaeth—sylfaen gadarn fel yr iaith sydd arni.

Ac yn *gyntaf*, mae bywyd a pharhâd ein hiaith yn ein dwylaw ni ein hunain. Mae fel y meddwl yn eiddo i ni, ac nid i neb arall. Nid yw yn ngallu neb arall beri i ni ei hannghofio na'i chasau. Tra byddo y Cymry eu hunain yn ei hoffi, y mae yr iaith yn ddiogel, dywed y Seison a fynont yn ei herbyn. Nid hwy sydd i benderfynu pa un ai byw ai marw a gaiff hi.

*Yn ail*, mae y cyffredinolrwydd o'r Cymry yn hoffi eu hiaith, ac yn penderfynu gwneyd a allant i'w chadw yn fyw. Mae Judasiaid yn ein mysg, mae yn wir, ond eithriad ydynt, ac nid y rheol; a beth yn ein byd ni sydd heb eithriad iddo? ond er lluosoced yr eithriadau, mae y lluaws yn aros yn deyrngarol i'w hiaith a'u cenedl. Maent wedi bod yn deyrngarol yn yr oesau a aethant

Digitized by Google

heibio; pe amgen, buasai ein hiaith wedi darfod er ys oesau. Maent yn parhau yn deyrngarol eto, yr hyn sydd yn sylfaen i ni gredu y parhânt felly rhagllaw; ac i broffwydo gyda hyny, Oes y byd i'r Iaith Gymraeg.

Yn *drydydd*, mae arwyddion iechyd a bywyd i'w gweled yn amlwg ar ein hiaith. Nid yn unig y mae hi yn fyw, ond y mae hi yn iach, ac yn gweithio. Mae ei phregethwyr yn pregethu, ei hareithwyr yn darlithio, ei beirdd yn mydru, ei chantorion yn canu, a'i llenorion yn ysgrifenu. Mae y wasg yn llwythog o dan ei beichiau, ac y mae yn ymddangos fel dyn cryf, ac nid fel hen wraig yn barod i farw. Lle bynag y mae Cymry yn myned, mae yno gapelydd Cymraeg yn cael eu codi, a llyfrau Cymraeg yn cael eu prynu a'u darllen; ac yr wyf yn tybied fod hyny yn arwyddo hir oes yn hytrach na darfodedigaeth buan.

Ac heblaw hyn oll, mae gyda ni resymau cedyrn dros ein hymlyniad wrth ein hiaith: ac yn gyntaf, Duw a roes ein hiaith i ni. Efe a roes gân i'r eos, ac y mae yr eos yn cadw ei chân. Efe a roes ei ruad i'r llew, ac nid yw y llew yn amlygu yr awydd lleiaf am ei newid am iaith rhyw greadur arall. Trwy holl natur, mae pob creadur yn foddlawn ar ei iaith ei hun; ac yn y cyffredin mae dynion yn dewis cadw yr iaith a roddwyd iddynt gan Dduw. Dynion gwael yw y rhai hyny a foddlonent i'w hiaith farw. I beth y rhoddai Duw annibyniaeth, awdurdod, nac enwogrwydd i genedl ag sydd yn rhy ddiofal i gadw eu hiaith rhag trengi? Gan mai Cymraeg yw yr iaith a roes Duw i ni, ni a'i siaradwn, ni a'i coleddwn, ac a wnawn ein goreu i ddangos ein hunain yn deilwng i dderbyn eto bethau mawr a gwerthfawr o law ein Duw.

Yn ail, iaith ein mam ac iaith ein henafiaid ydyw. Mae amser yn cysegru pob peth. Ni wnai neb ond dyn anwybodus, neu ddyn barbaraidd, sathru na dyfetha dim sydd yn hen iawn. Mae hen adeiladau, hen fathodau, hen ddodrefn, ac hen bob peth yn cael eu gwylio a'u cadw braidd gyda theimlad cysegredig. Mae dysg, gwybodaeth, a gwareiddiad, lle bynag y maent, yn tueddu bob amser i barchu a chadw yr hen. Mae ein hiaith ni yn hen. Mae oesau lawer wedi myned dros ei phen. Mae ysbryd boreu oes dyn wedi ysgrifenu ei ddysg ar ei mynwes, a byddai yn resyn iddi farw nes i rywun godi a gallu ganddo i ddarllen yr ysgrifen. Yn hon y meddyliodd

Digitized by Google

ein hathronwyr, y canodd ein beirdd, y gweddiodd ein rhieni duwiol, ac y maent wedi trosglwyddo ein hiaith a'u meddyliau ynddi i'n gofal a'n cadwraeth ni. Sarhâd ar ein henafiaid fyddai i ni, eu hiliogaeth, annghofio yr iaith a siaradent hwy, ac a ddysgasant i ninau.

Yn drydydd, mae ein hiaith yn cadw i ni ein personolrwydd gwahaniaethol fel cenedl. Pe collem ein hiaith, collem ein bodoldeb fel cenedl ar yr un pryd. Ymgollem yn y genedl a elwir yn Seison; ac ni byddai son mwyach amdanom fel Cymry, ond fel Seison; a hyny sydd ar y Seison eisieu; a hyny ddylem ninau ymdrechu ei ragflaenu. Nid oes neb fel unigoliaid a garai ymgolli yn modoldeb rhywun arall. Er nad wyf fi ond tlawd, a bychan fy nawn a fy nysg, mae yn well genyf fod fy hunan, na bod y mwyaf cyfoethog, dysgedig, a thalentog, a cholli fy mhersonolrwydd; ac er nad yw ein cenedl ond bychan, a dinod mewn cymhariaeth i ereill, mae rhyw fwynhâd a gogoniant yn y ffaith ein bod yn genedl wahanol cystal a'r Seison, er uched ynt; ond ein hiaith sydd yn ein cadw ni yn genedl wahanol, ac am hyny mae yn rhesymol i ninau gadw ein hiaith.

Yn awr mae amrywiol gasgliadau yn ymgynyg i'r meddwl oddiwrth ein sylwadau blaenorol. Yr wyf yn casglu,

Yn gyntaf, fod ymosodiad ein gelynion ar ein hiaith yn afresymol. Nid rheswm sydd yn eu cymhell i ymosod. Nid oes dim rheswm yn eu hymosodiad; ac nid ellir dwyn rheswm dros eu hymosodiad, Tywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth mae y nifer amlaf wrth siarad ar y pwnc hwn. Haerant fod ein hiaith yn aflafar, pan na wyddant ddim amdani. Dywedant nad oes yn ein hiaith lenyddiaeth gwerth i'w chadw, heb wybod dim am ein llenyddiaeth. Mewn anwybodaeth dybryd y llefarant: ac y mae pob ymosodiad a gwrthwynebiad sydd yn codi oddiar anwybodaeth yn rhwym o fod yn afresymol. Dywedwch wrth ein gelynion am ddysgu ein hiaith cyn ei chollfarnu; ac am ddarllen ein llyfrau cyn beiddio haeru, nad oes yn ein hiaith ddim llenyddiaeth gwerth i'w chadw.

Yr wyf yn casglu, yn ail, mai nid cariad atom ni sydd yn achosi eu gwrthwynebiad i'n hiaith ni Mae y dynion hyn yn y cyffredin yn gwneyd proffes uchel o'u teimlad o dosturi trosom, a'u cariad at ein llwyddiant. O'u rhan

Digitized by Google

eu hunain ni waeth ganddynt i ni siarad Cymraeg na rhyw iaith arall; ond y mae yn resyn mawr fod cenedl o bobl mor rhagorol a'r Cymry yn melldithio eu hunain a'u plant drwy lynu wrth eu hiaith; dyna sydd yn gwneyd iddynt hwy ei gwrthwynebu. Leied o hunan sydd yn y Sais, onidê? ond yr wyf yn gwrthod ei dosturi a'i gariad yn y peth hwn. Nid wyf yn credu ei broffes. Gallaf gyfrif am ei wrthwynebiad i'n hiaith ar dir arall. Tra byddo yr iaith Gymraeg yn fyw, mae yn adgoffa am y pethau fu. Mae gwaed ei phlant wedi ceulo ar ei dillad. Mae yn dal i fyny y trais a'r camwri a ddyoddefodd ein cenedl yn ngwyneb y Sais. Nid yw ryfedd ei fod am ei lladd. Pe cai ef ei ffordd, buan iawn y rhoddid taw bythol ar ei lleferydd. Eilwaith, mae y Sais yn hoffi ffordd ddirwystr i bob man. Nid oes ganddo amynedd i aros i'r llidiart gael ei hagor, nac i'r rhwystr gael ei symud oddiar y llwybr. Mae arno eisieu ffordd fel ffordd eryr yn yr awyr. Ond pan y daw i Gymru, mae yma lidiart ar y ffordd, a maen mawr ar y llwybr. Mae y bobl lle lletya yn siarad Cymraeg â'u gilydd, a beth ŵyr efe nad ei hunan yw testyn eu hymddyddan? Pan aiff allan i'r heol, mae y plant yn siarad Cymraeg; os try i addoldy, mae y pregethwr yn pregethu yn Gymraeg; mewn gair, mae efe yn aml mewn angen am gyfieithydd, fel pe mewn gwlad dramor, yn nghanol ei wlad ei hun. Nid yw y Sais yn caru peth fel hyn, yn enwedig gartref; mae arno eisieu llwybr rhydd: gan hyny, ewyllysiai gicio ein hiaith i ddifancoll, fel pe ciciai gareg oddiar ei lwybr. Drachefn, mae y Sais, fel y Rhufeiniwr o'i flaen, yn caru buddugoliaethu ar genedloedd ereill. Nid oes dim a rydd fwy o bleser iddo na gweled cenedl yn plygu o dan allu ei fraich; ond fel pawb arall, mae yn caru buddugoliaethu yn llwyr. Nid yw am adael dim heb ei ddarostwng—dim i ddangos bod terfyn hyd yn nod i allu Sais; ond yn Nghymru, mae yn cyfarfod â rhywbeth heb ei ddarostwng, oblegid mae iaith Cymru yn allu sydd wedi gwrthsefyll ei holl elyniaeth. Nid yw efe yn hoffi hyn. Ei ddymuniad ef fyddai, ein darostwng mor llwyr fel na byddai gyda ni ddim i ddangos ddarfod i ni erioed fod yn genedl annibynol: a dyna paham y mae efe am ddifodi ein hiaith. Yn olaf ar y mater hwn, mae y Sais yn caru ei iaith ei hunan yn fwy na'n hiaith ni. Mae yn naturiol iddo wneyd hyny. Mae yn hoffi ei gweled ar gynydd.



Digitized by Google

Nid oes dim yn rhoddi iddo fwy o foddhâd, na gweled cenedloedd a ieithoedd yn cael eu llyncu gan y Seison a'r Seisneg; ac y mae yn gweled y Gwyddelod a'r Scotiaid yn mabwysiadu y Seisneg, a phaham na wnai y Cymry yr un fath? Mae yn ddig wrthym am ein bod mor wrthnysig. Mae weithiau yn gwgu, weithiau yn gwenu; weithiau yn gwawdio, weithiau yn ymresymu; ond y cwbl yn ofer. Dal i siarad Cymraeg mae y Cymry, er gwaethaf ei wrthwynebiad i gyd. Ond yr achos o'i wrthwynebiad ydyw, ei gariad at ei iaith ei hunan, ac nid ei awydd am ein llesau ni.

Yr wyf yn casglu, yn drydydd, nad oes achos i neb gywilyddio wrth siarad Cymraeg. Mae yn gywilydd genyf addef fod rhai yn cywilyddio ei harddel. A'r gwarthrudd penaf arnom fel cenedl, ydyw lluosogrwydd teulu Dic Sion Dafydd. Nid oes dim rhith o reswm nac achos mewn cywilydd fel hwn. Mae gallu siarad dwy iaith yn well na gallu siarad un. A dylai dyn ymfalchio, yn hytrach na chywilyddio, yn ei allu i siarad iaith ei fam. Pe bae dyn yn gallu rhyw gamp neu gilydd, mae am i bawb wybod hyny. Pe bae yn myned i China neu i India, ac yno allu pigo ychydig eiriau o iaith y trigolion, fe ofalai i bawb gael gwybod hyny; ond y mae yn gwybod Cymraeg, ac ni wna ei siarad. Mae arno ofn i neb wybod fod gair ohoni wedi bod erioed ar ei dafod. O ffwl! aed i rywle o'n golwg. Gadawn i'r Seison ei gael. Ni bydd colli Dic yn golled yn y byd i ni, nac yn enill yn y byd iddynt hwythau.

Yr wyf yn casglu, yn bedwarydd, gan fod cymaint o elyniaeth i'n hiaith, mai ein dyledswydd ni fel Cymry ydyw caru ein hiaith, coleddu ein hiaith, ac amddiffyn ein hiaith: ac y mae y casgliad hwn yn fy arwain yn naturiol i siarad gair neu ddau â'r dosbarth olaf a nodais wrth ddechreu, sef y dosbarth sydd yn edmygu yr iaith, ac yn penderfynu ei choleddu. Mae yn hoff cael troi oddiwrth elynion at gyfeillion a brodyr. Gallwn bellach anadlu yn rhydd a siarad yn groew, oblegid siarad â'n gilydd yr ydym; a gallwn siarad yn blaen hefyd; a hyny a ddylem wneyd, ac a wnawn hefyd, mewn ychydig sylwadau angenrheidiol a phwrpasol ar y pwnc.

Efrydwch yr iaith. Ychydig o Gymry mewn cymhariaeth sydd yn dysgu yr iaith trwy ei myfyrio; a hyny yw yr achos yn ddiddadl fod cynifer ohonynt mor oer yn

Digitized by Google

eu cariad tuag ati. Mae yr esgeulusdod yma o'n hiaith yn warth i ni fel cenedl. Mae yn achos gwendid i ni wrth geisio amddiffyn ein hiaith, ac yn cael ei ddefnyddio yn rheswm dros ei llwyr ddifodiad. Gan hyny, os ydych yn caru yr iaith, efrydwch hi; os ydych am ei chadw, efrydwch hi; os nad yw yn werth i'w hefrydu, nid yw yn werth i'w chadw, nid yw yn werth dim. Os yw yn ormod genych efrydu yr iaith, ymaith â hi i annghof tragwyddol; peidiwch â son amdani—peidiwch â'i dysgu i'ch plant—peidiwch â gwneyd dim â hi: ond os ydych am ei chadw yn fyw, byddwch gyson, ac efrydwch hi yn drwyadl. Trwy ei hefrydu, daw ei rhagoriaethau i'r golwg, cynydda ein cariad tuag ati, byddwn yn alluog i'w hamddiffyn, a gwneir hi hefyd yn barhaus yn fwy coeth, grymus, a chyflawn. Ac nid yn unig efrydwch yr iaith, ond efrydwch ei hanes, a hanes y genedl sydd yn ei llefaru. Mae y Cymro yn gwybod hanes pawb ond ei genedl ei hun. Felly pan wneir ymosodiad ar ein hiaith ac ar ein cymeriad, nid oes ganddo ddim i'w ddyweyd yn eu herbyn. Rhodder terfyn ar y sefyllfa yma ar bethau. Byddwn Gymry trwyadl o ran yr iaith. Byddwn gyfarwydd yn hanes ein cenedl, ac yna gwaith hawdd fydd caru ein hiaith a'n cenedl, a gwaith hawdd fydd eu hamddiffyn rhag ymosodiadau ein gelynion.

Siaradwch yr iaith. Nid oes dim arall a'i ceidw hi yn fyw. Mae cariad rhai at y Gymraeg i gyd ar y tafod, ac ar y tafod yn Seisneg. Mae llawer iawn o'r rhai ddylent fod ffyddlonaf drosti y rhai parotaf i'w throi ymaith. Ceir Cymraeg gan ambell un yn y pulpud, a Seisneg oddidano; Cymraeg yn y cwrdd, a Seisneg ar y ffordd wrth fyned adref. Mae rhai yn siarad Cymraeg (yn unig) pan nad allant gael neb i siarad Seisneg gyda hwy. Mae yn rhyfedd fod y Gymraeg yn fyw yn nghanol y fath esgeulusdod. Os ydym am i'r iaith fyw, siaradwn hi fel rhai yn ei charu—fel rhai yn ymbleseru ynddi. Mae canmol y Gymraeg, heb ei siarad, yn ddirmyg arni. A chofied y rhai sydd am i'r Gymraeg fyw, fod siarad Seisneg, pan na bydd galwad am hyny, yn ergyd heb ei haeddu i'r iaith Gymraeg. Siaradwch Gymraeg yn y teulu; siaradwch hi gyda'ch gorchwylion; siaradwch hi ar eich ffordd yn ol ac yn mlaen; siaradwch hi oddicartref: mewn gair, bydded y Gymraeg yn iaith eich tafod lle bynag y byddoch, ac yna ni bydd perygl iddi farw.

Digitized by Google

Amddiffynwch yr iaith rhag pob ymosodiad a wneir arni. Ac i wneuthur hyn, chwi gewch ddigon o waith. Mae rhywun o hyd â'i ddyrnod iddi. Mewn tŷ tafarn, yn enwedig y tŷ tafarn mawr, ni chlywch fawr ddim ond rhywun yn baeddu yr iaith Gymraeg. Wrth y bwrdd, ar giniaw, mae rhywun yn sicr o gic i'r hen iaith. Ar ben y cerbyd mawr, mae rhywun ar hyd y ffordd yn dirdynu yr iaith Gymraeg. Can gynted ag y deallir eich bod yn Gymro, lle bynag y byddoch, ymosodir gan ryw un ar eich iaith. Ond er hyny, nid oes dim yn eisieu ar ein rhan ni ond yr un parodrwydd i'w hamddiffyn ag a ddangosir gan ei gelynion i ymosod arni. Wedi hyny byddai yn ddiogel. Mae yn ddrwg genyf addef fod y Cymry yn rhy llyweth a dystaw. Ar lawer achlysur, mae llarieidd-dra a dystawrwydd yn rhinweddau i'w canmol: ond pan y mae cymeriad a bywyd cenedl yn y glorian, maent yn warth ac yn bechod. Pan fyddo rhywun yn gwarthruddo ein cenedl, ac yn ymosod ar ein hiaith, nid oes genyf ddim petrusder i ddywedyd, fod yn warth ac yn bechod i Gymro wrando a pheidio â'u gwrthwynebu. Mae rhyw deimladrwydd yn mhob creadur byw: nid ellir cyffwrdd y pryf yn y llwch heb iddo wingo; ni oddef y mul lawer cnoc heb godi ei droed; ond y mae rhai Cymry allant wrando ar Seison diwybod a Chymry dallbleidiol yn baeddu y genedl a'r iaith, heb ddangos mwy o deimlad na'r gareg dan eu traed. Os ydym am i'r iaith fyw, amddiffynwn hi; byddwn yn darian iddi yn mhob man; taflwn y saethau yn eu hol; gwnawn benderfyniad na oddefwn i neb ein sarhau, na sarhau ein hiaith, heb eu gwrthwynebu. Yn y gwestty, wrth y bwrdd, ar y ffordd fawr, ar ben y cerbyd, ar y rheilffyrdd, lle bynag y byddom, byddwn barod i wrthsefyll pob ymosodiad a wneir arnom. Dangoswn fod genym deimlad; gadawn iddynt wybod mai nid mulod ydym. Ac yn y cyffredin, nid llawer o ymdrech fydd yn angenrheidiol: mae eu hymosodiad mor afresymol, fel nad all sefyll fawr o wrthwynebiad. Dystawrwydd mulaidd y Cymry yw yr achos fod yr ymosodiadau mor fynych. Mae y Seison wedi arfer ein gwarthruddo mor ddiberygl, fel y maent erbyn hyn yn ei gymeryd fel peth wrth gwrs. Gan hyny, safed y Cymry yn eu herbyn; siaraded pob un ei feddwl yn groew a difloesgni; ac yn fuan iawn rhoddir pen ar yr arferiad ddirmygus o sarhau iaith a chymeriad cenedl y Cymry.

Digitized by Google

Mynwch chwareu teg i'r iaith Gymraeg yn ei gwlad ei hun. Mae yn rhaid i ni ddyweyd nad yw yn cael chwareu teg. Nid yw yn cael chwareu teg yn y teulu, yn yr ysgol Sul, yn ein hysgolion dyddiol, nac yn ein hathrofeydd. Os rhoir yr ysgol ddyddiol i gyd i'r Seisneg, yn enw rheswm gadawer i'r Gymraeg gael yr ysgol Sul. Os yw yn ormod i ni ddysgwyl i'r Cymry ddysgu Cymraeg yn eu hysgolion eu hunain, yr wyf yn sicr nad yw yn ormod i bob athraw ddysgu ei ysgol yn hanes ei genedl, a hyfforddi ei ddysgybl-athrawon yn elfenau iaith eu gwlad eu hunain. Mae yn warth i ni fod yn esgeuluso ein gwlad ein hun. A beth feddylir o'n colegau, lle y cymhwysir dynion i bregethu i'r Cymry? Mae yr iaith Gymraeg yn cael ei chadw o'r tuallan, fel pe byddai ellyll. Gwneir ymdrech i wneyd y myfyrwyr yn Seison, ond ni wneir cymaint a sylw o'r hen iaith Gymraeg. Mae hyn yn gamchwareu â'r iaith yn ei gwlad ei hun. Pe bae ein hysgolion a'n hathrofeydd wedi cael eu sefydlu yn bwrpasol i ladd ein hiaith, nid allent fod yn fwy Seisnigaidd nag ydynt. Mae y Cymry, tra yn proffesu glynu yn eu hiaith, yn cyfranu at gynal sefydliadau i'w lladd. Rhodder pen ar annghysonder mor wrthun a hwn. Myner mwy o sylw i'n hiaith, i'n hanes, a'n llenyddiaeth yn yr ysgolion dyddiol; yn enwedig myner yr hen iaith i'n hathrofeydd, chwaneg o'n llyfrau ar y silffoedd, a chwaneg o efrydu ar ein llenyddiaeth. Mynwch attal gyrfa y rhai sydd â'u holl egni yn ceisio ein Seisnigo. Mae dynion felly yn ein plith. Dywedaf i chwi pwy ydynt—ambell berson balch analluog i bregethu yn Gymraeg; pobl yr aur a'r arian; dynion balch a chwyddedig yn ein cynulleidfaoedd; dynion bach, mawr yn eu golwg eu hunain, wedi dysgu tipyn o Seisneg, ac yn awyddus i ddangos eu dysg a'u medr i'r ychydig Seison a ddygwydd fod yn eu cymydogaeth, a rhai tebyg iddynt. Dyma'r dynion sydd am lusgo y Seisneg i'n hysgolion Sabbothol—am gau y Gymraeg allan yn llwyr o'n hysgolion dyddiol—am gael pregeth Seisneg i boeni torf o Gymry, er mwyn un Sais, a hwnw yn deall Cymraeg—am godi capel Seisneg lle na bydd ei eisieu mwy nag yn y lleuad—ac am ofalu dysgu pob peth i'n hefrydwyr ond yr iaith y maent i bregethu ynddi. Cadwer llygaid ar y dynion hyn, waeth pwy fyddont. Gwrthwyneber hwynt; na adawer iddynt gael

Digitized by Google

eu ffordd. Gymry, mynwch chwareu teg i'r iaith Gymraeg yn ei gwlad ei hun.

Hyd y mae ynoch, coethwch a helaethwch gylch yr iaith. Mae ieithoedd yn cael eu coethi trwy efrydu, trwy siarad, a thrwy ysgrifenu. Rhaid coethi yr iaith Gymraeg trwy yr un moddion. Trwy ei hefrydu y gwelir ei diffygion, a'r modd i'w gwneyd i fyny. Trwy ei siarad y cedwir hi yn ystwyth a gloew, fel erfyn mewn gwaith. A thrwy ysgrifenu ynddi y llenwir hi â'r trysorau hyny sydd yn gosod gwerth ar iaith. Dyma y ffordd i'w chadw yn fyw—ei gwneyd yn rhy werthfawr i gael marw. Gyda hyn helaethwch ei chylch. Mae yn bosibl gwneyd hyny ar lawer adeg. Os daw Sais i'r ardal i fyw, na adewch iddo ef eich gwneyd chwi yn Seison, ond gwnewch chwi ef yn Gymro. Os daw Sais i'ch tŷ i letya, dysgwch ef i siarad Cymraeg. Os prioda rhai o'n merched gyda Sais, dysged y fam iaith ei henafiaid i'w phlant. Lle bynag yr elo Cymro, rhodded golofn newydd o dan yr iaith Gymraeg.

Anrhydeddwch yr iaith Gymraeg yn weithredol, lle bynag y byddoch. Mae cariad llawer at yr iaith mewn gair yn unig: ond nid yw cariad felly yn werth dim. Anrhydeddwch yr iaith mewn gweithred ac mewn gwirionedd, neu peidiwch â son amdani. Byddwch yn deyrngarol i'r iaith, a dangoswch eich teyrngarwch mewn gweithred. Cefnogwch ysgrifenwyr Cymreig. Pan weloch dalent yn dangos ei hun, rhowch nawdd iddi. Mae rhy fach o gefnogaeth o lawer yn cael ei rhoddi i awduron Cymreig. Oni bae cariad at ein hiaith, pwy byth a ysgrifenai air ynddi? Rhoddwch chwi gefnogaeth briodol i'w hawduron, ac fe welir ei hawduron yn amlhau, a'u cynyrchion yn gwella ar yr un pryd. Prynwch lyfrau Cymreig. Nid wyf am eich gwahardd i brynu llyfrau Seisnig; ond pan nad allwch brynu ond rhai Cymreig neu Seisnig yn unig, dywedaf yn ddifloesgni y dylech roddi y flaenoriaeth i'r rhai Cymreig. Mae yn warth i ni fel cenedl fod mwy o lyfrau Seisnig nag o rai Cymreig ar hyd ein gwlad. Paham y rhaid cael llyfrau Seisnig ar bob testyn? A ydyw gwybodaeth yn well yn Seisneg nag yn Gymraeg? Os nad ydyw, pryned y Cymro lyfr Cymreig yn hytrach na Seisnig. Os bydd arnat eisieu esboniad, pryna esboniad Cymreig. Os bydd eisieu llyfr ar Hanesyddiaeth, pryna hanes Cymreig. Os bydd eis-

Digitized by Google

ieu llyfrau ar wahanol gangenau gwybodaeth, pryna hwy yn rhai Cymreig, os gellir eu cael. Gwna dy lyfrgell i fyny hyd y gelli gyda llyfrau yn dy iaith dy hun. Os byddi yn gallu cael newyddiadur a misolyn, myna hwy yn rhai Cymreig; oblegid mae yn sicr i ti y bydd y newyddion cystal yn Gymraeg ag a fyddent yn Seisneg. Os oes gyda thi dalent fel bardd, fel ysgrifenydd, fel dyfeisydd, neu mewn unrhyw gymeriad arall, dyro holl drysorau dy feddwl a dy fedr i gadw yn y Gymraeg. Mae pob chwanegiad at ein llenyddiaeth wreiddiol yn chwanegiad at oes ein hiaith; gan hyny, cychwyn allan i daith dy oes gydag amcan i osod anrhydedd ar dy iaith. Os gweli fwlch yn ein llenyddiaeth, gwna dy oreu i lenwi y bwlch i fyny. Os tybi fod cenedloedd ereill yn rhagori arnom mewn rhywbeth, ymegnia dithau i ragori arnynt hwy. Os gweli lwybr i gyflawni rhyw orchest a fyddai yn glod i ti a dy genedl, cymer galon, ymosod ar y gwaith, ac na ddyro i fyny nes ei gwbl orphen.

Dyro gefnogaeth i sefydliadau ac achosion Cymreig. Ysgolion Cymreig, capelydd Cymreig, colegau Cymreig, llyfrgelloedd Cymreig, a phob peth arall sydd yn dwyn cysylltiad â'n gwlad a'n hiaith, a gaffont dy nawdd a dy gefnogaeth gyntaf. Anrhydedda dy iaith nid yn unig yn y pethau mawr, ond yn y pethau bach hefyd. Yr ydym yn bellach yn ol, o bosibl, yn y pethau bach nag yn y pethau mawr. Rhywbeth bach yw enw, ond y mae enw yn fynych yn glod neu yn annghlod i'r gwrthddrych y mae arno. Yr wyf fi yn edrych ar Seisneg ar dalcen capel Cymraeg, a Seisneg ar gareg bedd Cymro, yn sarhâd ar y Gymraeg; ac os yw felly, mae ein gwarth yn aml ac yn fawr. Nid af mor bell a dyweyd, Taflwch y gwarth yna i ffwrdd; ond dywedaf, Na sarhewch eich hunain mwy. Anrhydeddwch eich iaith mewn pethau bach. Rhoddwch enw Cymreig ar eich plant. Os cynlluniwch chwi ryw gynllun newydd mewn unrhyw gelf neu wyddor, rhoddwch i'r cynllun enw Cymreig; os adeilwch chwi long, neu dŷ, neu felin, rhoddwch arnynt enwau Cymreig; os cyfodwch gapel, cerfiwch Gymraeg ar ei wyneb; os bydd eisieu enw ar heol, rhoddwch iddi enw Cymreig. A gwnaed y Cymry fel hyn nid yn unig yn Nghymru, ond hefyd ar led, lle bynag y byddont. Ond tra yr anrhydeddwch yr iaith mewn pethau bach, peidiwch âg annghofio amcanu pethau mawr. Pethau mawr

Digitized by Google

sydd yn tynu sylw y byd: gorchestion sydd yn ei synu. Gan hyny, gadawed beirdd ac ysgrifenwyr y Dywysogaeth eu teganau, i ddechreu ar eu gwaith. Amcanwn gyflawni gorchestion. A da chwi, cofiwch fod mor hawdd gwneyd gorchest yn Gymraeg ag ydyw ei gwneyd yn Seisneg, neu ryw iaith arall. Ac ond i fechgyn Cymru wneuthur gorchestion yn yr iaith Gymraeg, fe fydd y gorchestion hyny i'r iaith yn anfarwoldeb.

Glynwn yn ein hiaith. Penderfynwn ei chadw yn fyw. Mae ei bywyd yn ein llaw ni ein hunain. Nid oes neb all ei lladd ond y Cymry eu hunain. Ac os bydd y Cymry yn ffyddlon iddi, mae yn rhwym o fyned ar gynydd. A phwy a ŵyr na bydd Duw eto rywbryd yn trefnu amgylchiadau i ni fel cenedl i lywodraethu ein hunain yn yr iaith a garwn? Bydded serch ein calon, penderfyniad ein meddwl, a gweddi ein henaid beunydd am "oes y byd i'r iaith Gymraeg."

Ymlynwn wrth ein hiaith a'n gwlad,
A d'wedwn wrth bob gelyn,—
Boed oes y byd i'r iaith Gymraeg,
Ac oes y nefoedd wed'yn.

---

## YR EISTEDDFOD.

Yr wyf yn dynesu at bwnc yr Eisteddfod gyda gradd o ofn, a'r ofn hwnw yn tarddu oddiar y posibilrwydd i'm cyfeillion fy nghamddeall. Bydd rhai o'm sylwadau yn anffafriol i'r sefydliad, ac oblegid hyny mae yn ofnus genyf y bydd rhai yn dyweyd fy mod yn erbyn yr Eisteddfod. Ofnwyf hefyd y bydd yr achos o'r traethawd a'r dyben ohono yn cael eu camddarlunio. Hwyrach y tybia rhai mai siomedigaeth mewn cystadleuon ydyw cymhellydd y sylwadau; ond nid oes a fyno hyny ddim fel achos â'r pwnc. Bydd ereill o bosibl yn dychymygu mai fy nyben yn ysgrifenu ar y pwnc ydyw drygu yr Eisteddfod; ond gallaf eu sicrhau mai llesâd y sefydliad ei hun, a'n gwlad drwyddo, sydd genyf mewn golwg. Yr wyf yn caru fy ngwlad hyd at fai, os oes modd. Yr wyf yn caru yr Eisteddfod, oblegid mai sefydliad Cymreig yw. Mae cenedloldeb yr achos yn ddigon o reswm i mi

Digitized by Google

dros ei bleidio; o ganlyniad, gallaf sicrhau fy nghyfeillion mai nid gelyniaeth i'r Eisteddfod sydd wedi cynhyrfu y sylwadau dylynol. Yr wyf yn dymuno bod yn eglur a phenderfynol yn hyn o beth ar y dechreu, oblegid ni fynwn i neb fy nghamddeall. Yn wir, bu agos i'r ofnau hyn fy lluddias i ysgrifenu o gwbl ar y testyn yma; ac hwyrach y buasai yn dda pe buasent wedi llwyddo i'm hattal. Ond y mae rhai o'r ystyriaethau sydd i ddylyn wedi gafael mor ddwfn yn fy meddwl, fel nad allaf gael llonydd heb eu gosod i sylw ac ystyriaeth fy nghydwladwyr.

Yr elfen amlycaf mewn Eisteddfod ydyw yr un gystadleuol. Dyma yr elfen sydd yn ei gwahaniaethu oddiwrth bob sefydliad llenyddol arall. Yr elfen hon sydd yn gosod arbenigrwydd a nod arni. Ac y mae, o bosibl, lawer o fanteision yn nglŷn â'r elfen hon. Nid peth dibwys mewn ymdrech feddyliol ydyw ychydig o gyffroad iachus; ac y mae cydymdrech âg ereill am wobr yn dueddol i gyffroi. Peth angenrheidiol iawn mewn trefn i fod yn llwyddianus gydag unrhyw beth ydyw egni; ac y mae cystadleuaeth yn tueddu i dynu y dyn allan. Pwnc o bwys i lenor ydyw manylwch; ac y mae gwybodaeth y bydd i'w waith gael ei gymharu â gweithiau rhai ereill, a'i feirniadu gan arall, yn debyg o ddysgu dyn i fod yn fanwl. Mae rhywbeth yn foddhaol i galon dyn mewn bod yn alluog i ragori ar ddyn arall; ac y mae y boddhâd yma i'w gael mewn Eisteddfod. Mae golwg ar ddyn yn cael ei wobrwyo yn gyhoeddus am enill y gamp yn meddu atdyniad cryf i dynu ereill yn y blaen; ac y mae y fantais yma eto gan yr Eisteddfod. Mantais arall ag y dylid ei grybwyll ydyw y darllen, yr ymchwilio, a'r efrydu a achosir gan yr Eisteddfod. Ac nid y lleiaf o'i manteision ydyw y cymhellai a ddeil o flaen ein cydwladwyr i ysgrifenu. Mae manteision ereill o bosibl ag nad ydynt yn taro fy meddwl yn bresenol, ond er hyny ydynt yr un mor amlwg a'r rhai blaenorol. O ganlyniad, ofer yw ceisio gwadu fod yr elfen gystadleuol yn elfen o nerth a defnyddioldeb yn yr Eisteddfod.

Yr un pryd yr wyf yn meddwl fod yr elfen hon yn elfen o wendid ynddi hefyd, yn achos o ddrwg llawn cymaint a'r da, os nad mwy. Ystyriaeth o hyny sydd wedi fy nghymhell i ysgrifenu, a pha un bynag a lwyddaf i ddangos hyny ai na wnaf, caiff ereill farnu. Lleihau yr elfen

Digitized by Google

gystadleuol yn yr Eisteddfod, a dwyn elfenau ereill i mewn, a'i gwnai, yr wyf yn tybied, yn sefydliad y gallai pawb gyduno i'w chefnogi, ac yn sefydliad a fyddai yn sicr o effeithio daioni mawr, heb ei gymysgu â phethau y rhaid i bawb eu collfarnu. Ond chwaneg ar hyn yn y diwedd. Yn bresenol, yr wyf am dynu tipyn i lawr, ond yn y man mi geisiaf eu hailgodi mewn dull newydd, os bydd modd.

Yr anfantais a'r diffyg cyntaf mewn cysylltiad â'r Eisteddfod a gaf nodi ydyw y gwastraff mae yn achosi ar amser, ar lafur, a thalent ein cydwladwyr. Mae yr amser, a'r llafur, a'r dalent a aberthir ar allor cystadleuaeth yn ddirfawr. Cymerwch destyn y gadair yn engraff. Yn y cyffredin, mae o haner dwsin i ddwsin yn cystadlu ar y testyn hwn; a'r nifer mwyaf ohonynt yn alluog i gynyrchu gwaith darllenadwy. Treuliant fisoedd o amser i gyfansoddi—rhoddant swm mawr o yni meddyliol yn eu cyfansoddiadau—aberthant ran bwysig o'u hoes i'w cwblhau; ond y mae llafur unarddeg o'r deuddeg yn ofer. Un yn unig all gael y wobr. Ac wedi colli y wobr, nid oes gan y lleill, oddieithr yn achlysurol, galon i gyhoeddi eu cynyrchion. Rhaid cael rhywun a hyder mawr ynddo ei hun a'i waith i allu cyhoeddi ei waith, wedi cael ei nodi â gwarth siomedigaeth mewn Eisteddfod. Ond nid gyda thestyn y gadair yn unig y dygwydd y gwastraff yma, ond gyda phob testyn arall. Mae y gwastraff yn fawr, ac yr wyf yn meddwl yn fwy nag y gallwn ei fforddio. Mae arnom angen am wasanaeth pawb. Mae yn ein llenyddiaeth le i bawb weithio. Pe buasai y rhai sydd yn cystadlu am wobrwyon yn dewis bob un ei destyn, ac yn cyfansoddi arno, buasent, mae yn dra thebygol, yn gwneyd gwaith darllenadwy bob un ohonynt, a gwaith a fuasai yn cyfoethogi ein llenyddiaeth, ac yn dwyn enwogrwydd iddynt hwythau. Ond, a thybio fod amryw o'r cyfansoddiadau cystadleuol yn cael eu cyhoeddi, onid yw yn resyn gweled cynifer o gyfansoddiadau gan ddynion galluog ar yr un testyn? Onid gwell fuasai cael cynifer ar amrywiol destynau? Mae y cystadlu yma yn achlysuro gormod o unrhywiaeth yn ein llenyddiaeth; ac y mae yn gwneyd mwy na hyny—mae yn cynyrchu llawer iawn o glytwaith. Wedi i ddyn wneyd awdl neu bryddest, a cholli, nid yw bob amser yn foddlawn i'w waith fyned yn ofer: mae yn rhoi y cyfansoddiad heibio, gan

Digitized by Google

ddysgwyl cyfle i wneyd defnydd ohono eilwaith. Mae y cyfleustra yn d'od, ac y mae yr hen gyfansoddiad yn cael ei ddarnio, a'i ail osod wrth ei gilydd, a thestyn newydd wrth ei ben. Nid yw llawer o gyfansoddiadau Eisteddfodol ein hoes ond clytwaith o'r fath a ddarluniwyd; ac yn annibynol ar bob ystyriaeth arall, mae rhywbeth yn annymunol yn y meddwl o osod prif ddynion ein cenedl mewn cylch i ymladd â'u gilydd fel ceiliogod, er difyrwch i'r edrychwyr. Nid wyf yn meddwl fod ein prif ddynion yn enill dim mewn enwogrwydd na dylanwad wrth ymladd â'u gilydd am wobrwyon Eisteddfodol.

Mewn pob peth sydd yn hysbys i ni, mae y naill beth yn dylanwadu ar beth arall. Mae pob achos yn cynyrchu ei effaith; a'r effaith drachefn yn troi yn achos i rywbeth arall. Mae rhyw ddolen weledig neu anweledig yn cysylltu pob peth â'u gilydd. Felly gyda'r Eisteddfod. Mae y cystadlu a gymer le ynddi yn cynyrchu effaith, ac y mae yr effaith hwnw, yr wyf yn ofni, i ryw raddau o leiaf, yn niweidiol. Mae yn cynyrchu llawer iawn o waed drwg yn ein gwlad; mae yn creu oerfelgarwch a chasineb rhwng rhai a ddylent fod yn gyfeillion i'w gilydd. Gall pawb sydd yn adnabod llenorion ein gwlad alw i gof engreifftiau i brofi hyn. Dyn yw dyn o dan bob amgylchiad. Hwyrach y gallai angylion gystadlu â'u gilydd heb eiddigeddu wrth y llwyddianus, na theimlo wrth golli. Os gallent, mae ganddynt natur wahanol i ni. Gall cystadleuwyr gymeryd arnynt fod yn ddiofal iawn pwy gaiff y wobr, ond nid yw y diofalwch hwnw ond ffugiol. Nid all y dyn sydd â rhywfaint o athrylith ynddo beidio â theimlo. Mae y cariad yn oeri. Mae dyeithrwch yn gyru cyfeillgarwch ymaith. Lle bynag y mae dyn all golli heb deimlo, gallwch benderfynu fod gormod o'r anifail ynddo i fod yn angel. Ymddengys i mi, nad yw athrylith yn cael ei chydnabod yn Nghymru mor galonog ag y dylai. Mae cenedloedd ereill yn cyduno i fawrhau eu dynion mawr. Mae oes ar ol oes yn chwanegu at eu henwogrwydd. Nid yw pellder amser yn lleihau dim ar eu clod; yn hytrach, pa bellaf yr ant oddiwrthym, mwyaf yn y byd yr ymddangosant; ond tuedd i dynu i lawr sydd yn Nghymru. Mae gyda ni enwau a ddylent fod mor uchel ag unrhyw enw pa bynag, ond ychydig ohonom ni sydd yn eu cydnabod. Ac yr un modd yr ymddygwn at ein gilydd pan yn fyw. Anhawdd iawn genym gydnabod

Digitized by Google

fod dim teilyngdod yn ngwaith neb ond yr eiddom ein hunain. Mae rhai yn myned o amgylch ein gwlad, gan wneyd eu goreu i ddarbwyllo pawb i gredu mai rhai bychain iawn yw pawb ond hwy eu hunain. Nid ydynt yn gallu gweled dim yn ngwaith neb, a synant yn fawr fod ereill yn eu canmol. Os bydd rhyw un yn debyg o esgyn i ben yr ysgol, hwy ofalant ddweyd wrth bawb a wrandawant arnynt nad yw byth yn debyg o adael y trydydd dosbarth, heb son am godi i'r cyntaf. Ymddygant fel pe byddent yn credu y rhaid rhoddi pawb arall i lawr cyn y bydd yn bosibl iddynt hwy fod yn uchel. Os tueddir chwi i ameu yr haeriadau hyn, gwnewch brawf ar y pwnc. Gofynwch feddwl hwn ac arall am deilyngdod ein dynion cyhoeddus, ac yr wyf yn ofni yr argyhoeddir chwi yn fuan o'u gwirionedd; os na wneir, goreu oll fydd hyny. Ond yr wyf yn ofni fod yr ysbryd bychanu yma yn cael ei fagu gan yr Eisteddfod; nid fel achos ohono fe allai, ond fel achlysur. Os dygwydd i chwi enill y wobr fel un ymgeisydd o ddeg, byddwch ar yr un pryd wedi codi naw o ysbrydion i'ch poeni a'ch tynu i lawr. Ac ysbrydion peryglus fydd y rhai hyn. Bydd rhai yn credu eu bod wedi cael cam, ac am hyny yn bwrw eu digofaint ar y buddugwr. Bydd y lleill yn ddig wrtho am geisio, i'w rhwystro hwy i gael y wobr. Byddant i gyd yn elynion peryglus, oblegidbydd ganddynt dipyn o ddawn a dylanwad; a lle bynag y byddant, hwy a ofalant iselhau yr un gafodd y wobr uwch eu pen hwy. Os dygwydd dyn enill yn aml, bydd ganddo leng o elynion mewn ychydig amser. Mae y rhai siomedig yn digio wrth y beirniad am beidio rhoi y wobr iddynt hwy, ac yn digio wrth y buddugwr am ei henill. Mae yn resynus meddwl am y siarad mawr sydd yn y wlad yn erbyn ein beirniaid a'n llenorion heb ddim achos ohono ond eu cysylltiad â'r Eisteddfod. Nid cynt yr enillir y gamp, na bydd lluaws allan am y cyntaf i fwrw eu digofaint ar y beirniaid a'r buddugwyr. Pe buasai ein llenorion wedi gweithio yn annibynol ar yr Eisteddfod, mae yn anmhosibl credu y buasai cymaint o ymosod arnynt ag sydd yn awr. Mae yn hawdd genyf gredu fod buddugoliaethu mewn cystadleuaeth yn fwy o golled i rai nag ydyw o enill. Pe buasent wedi cadw draw o'r gystadleuaeth, buasai pawb yn cyduno i gydnabod eu hathrylith, a'u canmol am eu gwaith; ond gan iddynt

Digitized by Google

gystadlu ac enill, mae rhyw rai yn ameu eu talent, ac yn gwadu eu teilyngdod yn y fan.

Yn y cysylltiad yma eto yr wyf yn aml yn ofni fod yr Eisteddfod yn magu ysbryd amheus a drwgdybus mewn lluaws o'n llenorion. Ysbryd cas yw hwn. Nid all llawer o frawdgarwch a chydweithrediad byth fodoli lle mae drwgdybiau yn ffynu. Am gariad y dywedir, "Ni feddwl ddrwg." Lle bynag y mae dynion yn ameu eu gilydd, ac yn gwylio eu gilydd, fel pe byddent ladron ac ysbeilwyr, mae yn rhaid fod yno rywbeth o bwys allan o'i le. Gobeithio fy mod yn camgymeryd; ond tybied yr wyf fod llawer iawn o'r ameu a'r drwgdybio yma yn ein gwlad ni. Soniwch am y gystadleuaeth a fynoch, mae rhywun yn meddwl fod rhyw fudrwaith wedi cael neu ar gael ei gyflawni. Mae hyd yn nod ein dynion penaf yn cael eu hameu. Cymerir yn ganiataol fod ffafriaeth yn beth tebygol. Nid oes yr un ddedfryd Eisteddfodol yn cael ei derbyn gyda hyder diysgog. Mae rhyw syniad ar led yn wastadol nad yw gweithrediadau ein Heisteddfodau uwchlaw amheuaeth. Nid yw yn perthyn i fy mhwnc yn bresenol ymholi pa un a oes achos i'r amheuon hyn ai nad oes. Fy nyben yn awr ydyw nodi y ffaith. Nid wyf yn meddwl fod nemor Eisteddfod wedi myned heibio heb fod amheuon yn cael eu siarad am uniondeb eu gweithrediadau. Pa un bynag a oes achos i'r drwgdybiau hyn ai nad oes, mae yr effaith yr un. Dysgir ein cenedl i fod yn amheus a drwgdybus, ac yr wyf yn meddwl fod hyny yn beth y dylem ofidio yn fawr o'i herwydd.

Ac y mae annghyfiawnder bwriadol neu anfwriadol yn fynych wedi cael ei wneuthur yn yr Eisteddfodau a aethant heibio. Gellid meddwl yn aml fod beirniaid Eisteddfodol yn cael eu taro â dallineb barnol fel y byddo iddynt gyfeiliorni. Mae coron yr haul lawer gwaith wedi cael ei rhoddi i'r lleuad. Gwnaed camgymeriadau mor fawr mewn ambell Eisteddfod, fel y mae dynion yn sefyll mewn syndod uwch eu pen, heb wybod pa fodd yr oedd yn bosibl iddynt ddygwydd. Mae annghyfiawnder mor amlwg wedi cael ei wneuthur ar dro, fel y mae yn rhaid i ni gredu ei fod yn fwriadol. Mae yn anmhosibl rhoddi cyfrif am y peth ar yr un tir arall. Yr achos o hyn oedd dewis dynion diegwyddor yn feirniaid. Nid oes dim syndod yn eu gwaith hwy yn gwneyd cam, ond y mae yn syndod mawr fod neb erioed wedi meddwl am eu gwneyd

Digitized by Google

hwy yn feirniaid. Unwaith yn y swydd, maent yn alluog o bob camwri dichonadwy. Nid oes ganddynt na chymeriad nac egwyddor eu hunain, a beth yw rhoddi gwobr angel i ffwl gan ddynion felly? Os oes ganddynt ryw gydnabod gwaeth a mwy didalent na'u gilydd yn cystadlu, efe gaiff y wobr, waeth pwy fydd yn cydymdrechu âg ef. Mae yn sarhâd i ddyn da, heb son am ddyn athrylithgar, anfon eu cyfansoddiadau i gael eu beirniadu gan y cyfryw rai; er hyny, maent yn gwneyd, ac yn cael eu talu trwy gael eu sathru dan draed. Nid oes dim dadl nad oes annghyfiawnder mawr yn cael ei wneyd yn ein Heisteddfodau bychain a mawrion. Byddai yn well genyf gael gafael ar y pentyrau o gyfansoddiadau aflwyddianus, er mwyn cael gafael ar drysorau athrylith, nag ar y rhai buddugol, y rhai yn fynych ydynt mor amddifad o deilyngdod ag y mae yn bosibl i gyfansoddiadau fod. Mae llygaid yr Eisteddfod wedi bod yn hynod o anffodus i ganfod cynyrchion athrylith ar faes y gystadleuaeth. Rhyw un yn awr ac yn y man o'r rhai buddugol yn unig sydd yn ddarllenadwy, heb son am fod yn anfarwol. Er hyny, yr wyf yn meddwl fod yr annghyfiawnder yn cael ei wneyd yn ddygwyddiadol, yn hytrach nag yn fwriadol, cyn belled ag y mae y rheol yn myned. Gall fod eithriadau, ac y mae; ond y rheol yw gonestrwydd. Nis gallaf yn fy myw feddwl fod cynifer o'n gwŷr cyhoeddus yn gwneyd cam bwriadol: ymddengys hyny i mi yn anmhosibl. Gan hyny, pa fodd y gellir rhoddi cyfrif am yr holl gamgymeriadau a ddygwydd yn ein Heisteddfodau? Yr wyf yn tybied mai fel hyn:—Mae llawer iawn o rai annghymhwys yn cael eu dyrchafu i'r swydd feirniadol. Mewn gwlad mor fechan a Chymru, nid all nifer rhai cymhwys i feirniadu fod ond ychydig. Dylai cylch y beirniaid fod yn fach. Ond yn lle cyfyngu dewisiad i le bach, mae pwyllgorau Eisteddfodol yn gwneyd y cylch yn ddigon mawr i gymeryd yr holl genedl i mewn. Y canlyniad ydyw, dewis dynion yn feirniaid na wnaethant ddim eu hunain, ac na feddant allu i wneuthur dim chwaith. Rhaid cael athrylith i weled athrylith. Nid all dyn bach byth weled na gwerthfawrogi pethau mawr. Nid all beirniaid byth fawrhau pethau mwy na hwy eu hunain. Mae beirniaid bach yn rhoi gwobr i bethau bach, am eu bod hwy yn eu bychanrwydd, fel plant gyda'u teganau, yn meddwl mai pethau mawr

Digitized by Google

ydynt. Os dygwydd i blentyn athrylith gystadlu, mae yn sicr o golli, am fod ei gyfansoddiad yn rhy fawr i alluoedd y beirniaid. Gyda beirniaid fel hyn, y lleiaf o'r cystadleuwyr sydd yn gyffredin yn enill y gamp. Peth chwithig yw gweled ysgrifenwyr yn cael eu beirniadu gan rai llai na hwy eu hunain—plant yn barnu dynion. Mae eisieu troi y byrddau. Gadewch i ni gael ein dynion goreu i feirniadu, neu gadewch i ni fod heb feirniaid. Tra byddo rhai mor ddienaid a diallu yn cael eu codi i'r gadair feirniadol, nid ellir dysgwyl am ddim ond annghyfiawnder, yn codi oddiar anwybodaeth. Drachefn, nid yw goreuon ein cenedl, ymddengys i mi, yn talu digon o sylw i egwyddorion beirniadaeth. Gwaith anhawdd yw beirniadu, er cael cymhorth rheol a gwybodaeth fanwl o natur y gwaith i wneyd hyny. Ond y mae beirniadu ar antur yn annhraethol mwy anhawdd. Yr wyf yn ofni mai beirniadu ar antur a wneir yn rhy fynych yn ein Heisteddfodau. Er darllen llawer o feirniadaethau ein Heisteddfodau, ni welais egwyddorion beirniadaeth yn d'od i'r golwg ond mewn ychydig iawn ohonynt. Yn awr, nid yw beirniadu heb egwyddor a rheol beirniadaeth ond beirniadu ar antur; a damwain yn unig fyddai i'r goreu gael y wobr. Os oes gan ein beirniaid ryw egwyddor neu reol wrth farnu, dylai yr egwyddor a'r rheol fod yn amlwg yn y feirniadaeth. Hyd nes y delo beirniaid ein cenedl i efrydu beirniadaeth fel gwyddor, mae camgymeriadau gwrthun yn sicr o gymeryd lle: a diffyg profiad yn y gwaith ydyw yr achos mawr o'r camgymeriadau ddygwyddodd yr amser aeth heibio. Heblaw hynyna, ffynonell lawn o aflwydd ydyw adnabyddiaeth o'r cystadleuwyr—gwybod gwaith pwy a feirniadir ganddynt. Weithiau mae y rhai fyddant wedi codi yr Eisteddfod, fyddant yn brif lywodraethwyr yn yr Eisteddfod, ac, o ganlyniad, fyddant yn gohebu â'r beirniaid, yn cystadlu. Mae y beirniaid, wrth gwrs, yn adnabod eu llawysgrifen; ac am fod y naill wedi dewis un yn feirniad, mae y llall yn ei farnu yntau yn oreu, ac yn rhoddi y wobr iddo. Weithiau gwelir beirniad yn barnu y naill yn oreu, ac yn rhoi y wobr i'r llall, am fod y llall hwnw yn brif ŵr yr Eisteddfod. Mae ambell un yn ddigon digywilydd i hysbysu y beirniaid pa un yw eu cyfansoddiad. Dro arall mae y beirniaid yn gystadleuwyr ac yn feirniaid, ac felly yn gwobrwyo eu gilydd. Ac yn anni-

Digitized by Google

bynol ar hyny, mae y beirniaid, rywfodd neu gilydd, yn dyfod i wybod pwy yw y cystadleuwyr. Ni raid dyweyd fod hyny yn anfantais i feirniadu. Gellir myned yn bellach, a dyweyd fod braidd yn anmhosibl beirniadu yn ddiduedd dan y cyfryw amgylchiadau. Nid all y beirniad ddihatru ei hunan o'r meddwl oedd ganddo o'r blaen am y cystadleuwr. Os bydd eiddigedd ato, mae yr eiddigedd yn ei ddallu rhag iddo weled rhagoriaethau y cyfansoddiad; os bydd cariad, mae y cariad yn ei ddallu rhag iddo weled ei ddiffygion. Mewn amgylchiadau fel hyn, rhagfarn sydd yn penderfynu, ac nid barn. Mae gwybodaeth y beirniaid pwy fyddant yn feirniadu i'w weled yn amlwg yn lluaws o'u beirniadaethau. Ni buasent byth yn ysgrifenu fel y gwnaethant oni buasent yn gwybod am bwy yr ysgrifenent. Ac y mae lluaws o wobrwyon pwysig wedi cael eu rhoddi am gyfansoddiadau annarllenadwy, am fod y beirniaid yn gwybod pwy a'u hysgrifenodd. Mae llawer wedi colli y wobr pan y dylasent ei chael, oblegid yr un wybodaeth. Y gwirionedd yw, mae adnabyddiaeth o'r rhai sydd yn cystadlu, yn eu hanalluogi i farnu yn ddiduedd. Oferedd yw dysgwyl cyfiawnder ond ar ddamwain, tra byddo cystadleuwyr yn adnabyddus i'r beirniaid. Mae tipyn o fai ar y cystadleuwyr yn fynych, oblegid gadawant i bawb wybod eu bod yn cystadlu, darllenant eu gwaith i hwn ac i arall, fel pe byddent yn gwneyd o bwrpas i'r beirniaid gael gwybod, a chael moddion gyda hyny i'w adnabod. Cyn daw dydd yr Eisteddfod, mae pawb yn gwybod pwy fydd y buddugwyr, er dirfawr warth ar y sefydliad. Fel hyn, rhwng y naill beth a'r llall, mae llawer iawn o gamgymeriadau anffodus yn cael eu gwneyd, a da iawn fyddai cael gwaredigaeth ohonynt.

Nid oes dim yn fwy derbyniol na newydd-deb. Mae ein natur yn blino er ei gwaethaf wrth fod yn hir gyda'r un pethau. Braidd nad allem feddwl fod dylyn yr un llwybrau yn hir yn wir niweidiol. Edrychwch ar y ffordd fawr; os bydd i'r troliau a'r cerbydau ddylyn yr un linell yn barhaus, mae y ffordd yn cael ei gwneyd yn rhigolau mawrion, fel y bydd yn beryglus ei theithio. Y modd goreu i gadw ffordd y brenin bob amser yn dda, ydyw, i bob olwyn gymeryd llwybr newydd iddi ei hun, ac wedi hyny goreu oll fyddai y ffordd pa fwyaf deithid arni. Nid peth da ydyw i feddylwyr ddylyn gormod ar

Digitized by Google

eu gilydd. Mae yn eithaf posibl i feirdd ymdroi gyhyd gyda'r un pethau, a dylyn eu gilydd mor wasaidd, nes gwneyd barddoniaeth yn ddiflas ac yn ddiles. Peth peryglus iawn ydyw bod yn rhy lonydd. Mae llawer bywyd wedi ei golli wrth i rai ymwthio yn rhy agos i'w gilydd. Gwell yw gwasgaru tipyn na phentyru gormod yn yr un fan. Mae y dŵr rhedegog yn glanhau ei hunan, ac nid oes lawer o berygl oddiwrtho; ond gwae y rhai sydd yn byw ar lan y pwll a'r dwfr marw. Yr wyf yn ofni fod beirdd Cymru wedi aros cyhyd yn yr unfan, a dylyn eu gilydd am gyhyd o amser, nes yr oedd barddoniaeth bron colli ei bywyd. O ganlyniad, da iawn oedd gweled ychydig feirdd ieuainc yn gadael yr hen lwybrau, ac yn gwneyd ffyrdd newydd iddynt eu hunain. Ond bobl anwyl y dychryn a beri hyny i'n beirniaid uchel ddysgedig! Maent wedi arfer cymaint â'r hen ddull, a'r hen feddyliau, nes mae pob peth newydd yn edrych fel drychiolaeth iddynt. Dychrynir hwy allan o'u synwyrau gan bob gwyneb dyeithr. Nid cynt y gwelant ryw wyneb dyeithr yn mysg y cyfansoddiadau, nag y neidiant i'r casgliad mai ellyll ydyw, ac y rhaid ei ladd. Os daw bachgen o athrylith allan i gystadlu, gan anfon cyfansoddiad gwreiddiol a newydd i'r gystadleuaeth, mae yn sicr o golli gyda'n beirniaid presenol, o leiaf gyda'r rhan fwyaf ohonynt. Y ffordd i fod yn isaf yn y trydydd dosbarth ydyw, bod yn deilwng o'r lle blaenaf yn y cyntaf. Nid oes fawr iawn o obaith enill y wobr gyda dim newydd, oblegid rywfodd, mae y beirniaid fel pe baent dan adduned i'w collfarnu. Peth arall sydd yn dychrynu y beirniaid yn erwinol ydyw meithder. Mae bachgen ieuanc llawn o athrylith yn debygol iawn o ysgrifenu yn faith. Mae mor llawn o'i bwnc, fel y mae yn methu â gwybod pa bryd i dewi. Ond gwae y gŵr a anfono gyfansoddiad maith i gystadleuaeth. Waeth yn y byd faint fydd ei deilyngdod, mae yn sicr o golli. Pe bae gystal neu well a "Coll Gwynfa" Milton, mae yn sicr o gael ei gollfarnu cyn ei ddarllen. Bydd yn rhy faith, a chan ei fod yn faith, yn ol deddflyfr rhai o feirniaid Cymru, nid all fod yn dda. Beirniadir cyfansoddiadau meithion fel pe bae yn anmhosibl iddynt fod yn faith ac yn dda. Rhoir hwynt o'r neilldu, ac eir at gyfansoddiadau fydd yn gofyn llai o amser i'w darllen, a rhoir y wobr i'r cyfansoddiad rydd leiaf o drafferth i'r barnwr. Nid yw ryfedd fod y wlad wedi



Digitized by Google

colli ffydd yn mhenderfyniadau ein beirniaid. Mae digon o gamgymeriadau gwrthun wedi cael eu gwneyd i lenwi llyfr o gryn faintioli, ac wedi ei wneyd byddai yn brawf amlwg i bawb fod gwirionedd noeth yn aml yn fwy rhyfedd na dychymyg.

Mae llawer o bwys yn cael ei roddi ar y ffaith dybiedig, fod yr Eisteddfod yn foddion i godi dynion i sylw ac enwogrwydd. Nid oes angen gwadu y ffaith hon. Dylai yr Eisteddfod gael yr holl anrhydedd ag sydd yn bosibl oddiwrthi. Ond yr un pryd dylid cofio fod yr Eisteddfod yn taro i lawr yn gystal a chodi i fyny. Os yw yn bywhau, mae yn lladd hefyd. Mae yn eithaf posibl ei fod yn digaloni mwy trwy siomedigaeth nag y mae yn galonogi trwy eu gwobrwyo. Mae plentyn athrylith yn sicr braidd o gynyrchu cyfansoddiad gaiff ei gollfarnu gan y beirniad. Mae yr awdwr ieuanc yn dyner, yn bryderus, ac yn llawn o deimlad. Ychydig iawn a'i tery i lawr. Mae yr Eisteddfod yn d'od, mae yntau yn colli; ac y mae ei aflwyddiant yn gwneyd iddo benderfynu na ysgrifena gyfansoddiad mwy. Nid oes neb a ŵyr nifer y rhai a laddwyd gan siomedigaeth. Nid oes dadl nad yw wedi gyru rhai yn anamserol i'r bedd. Mae wedi chwerwi teimladau rhai ar wely angeu, mae ereill yn fyw a'u teimladau wedi eu suro gan aflwyddiant. Pa nifer bynag a godir ganddi i sylw ac enwogrwydd, mae lle cryf i ofni ei fod yn taro nifer mwy â siomedigaeth i lawr; ac y mae yn deilwng o sylw mai nid engyl yw pob un a godir ganddi. Mae rhai dynion yn llwyddo i enill gwobrwyon lawer heb enill enwogrwydd. Mae rhywbeth yn od yn hyn, ond y mae yn eithaf gwir. Mae dynion wedi cael gwobrwyon am gyfansoddiadau nad allent gael gan neb byth i'w prynu. Er enill llawer gwobr, nid ydynt wedi enill cymeriad. Pe cesglid eu gwaith yn nghyd, a phe ceid rhywun mor ffol a'u cyhoeddi, nid âi neb byth i'r drafferth o'u darllen. Mae yn wir fod llawer o gyfansoddiadau da wedi enill y gamp yn ein Heisteddfodau; ond yn y cyffredin mae cyfansoddiadau buddugol yn hynod o ddidalent a difyn'd. Mae ar y cyhoeddwyr ofn eu cyhoeddi; ac wedi eu cyhoeddi, mae ar y wlad ofn eu prynu. Nid yw fod cyfansoddiad wedi enill gwobr yn un help i'w werthu. Y rheswm am hyny yw, fod y wlad wedi cael ei siomi mewn cynyrchion gwobrwyedig. Cynyrchion athrylith sydd yn gwerthu, ac yn cael eu

Digitized by Google

darllen; ond eiddo celfyddyd y rhan amlaf sydd yn cael y gwobrau. Mae y dyn yn ddyn call, gwybodus, dysgedig, a medrus; mae yn gallu gosod rhes o feddyliau wrth eu gilydd yn drefnus; mae y cyfansoddiad wedi ei orphen yn hynod rydd oddiwrth feiau, ac fel cyfanwaith peirianol, mae bron yn berffaith: am hyny mae yn cael y wobr. Ond y mae yn hawdd i beth fod yn rhydd oddiwrth feiau, eto yn amddifad o deilyngdod. Nid amddifadrwydd o ddiffygion sydd yn gwneyd peth yn deilwng, ond meddiant o rinweddau pendant. Felly gyda golwg ar lawer o gyfansoddiadau buddugol, er nad ellir dyweyd llawer yn eu herbyn, nid ellir dyweyd dim trostynt. Mae y gelfyddyd ganddynt yn berffaith, neu yn agos i berffaith, ond y mae yr athrylith, y peth byw, ar ol; ac am fod y peth byw ar ol, er iddynt gael y gwobrwyon, mae y wlad yn gwrthod rhoi enwogrwydd iddynt, ac yn gwrthod prynu a darllen eu cyfansoddiadau. Ceir gwell cyfansoddiadau heb yr Eisteddfod nag a geir trwyddi. Nid yw yn anhawdd rhoddi rheswm tros hyny i ddangos yr achos ohono. Wrth ysgrifenu i Eisteddfod, mae yr ysgrifenydd yn ceisio ysbrydoli y testyn; ond wrth ysgrifenu yn annibynol, mae y testyn yn ysbrydoli yr ysgrifenydd. Mae gwahaniaeth dirfawr rhwng dyn yn ceisio cynhyrfu y testyn, a'r testyn yn cynhyrfu y dyn, ac fe fydd y gwahaniaeth yn amlwg yn y cynyrchion. Pan y mae y testyn yn cynhyrfu y dyn, mae y meddyliau yn naturiol yn addfed, ac yn flasus fel afalau ar y pren; ond pan y mae y dyn yn ceisio ysbrydoli ei destyn, mae ei feddyliau fel afalau ffugiol, wedi eu gosod ar y pren, ac nid wedi tyfu ohono. Maent yn dlos i edrych arnynt, ond nid oes ynddynt sawr, ac nid ellir eu bwyta. Rhywbeth fel yna yr wyf yn tybied yw yr achos fod cyfansoddiadau annibynol yn y cyffredin yn llawer gwell na rhai buddugol.

Edrychir ar yr Eisteddfod gan rai fel moddion effeithiol i gyflenwi ein gwlad â llenyddiaeth, ond prin yr wyf yn meddwl fod hyny yn wirionedd. Mae swm mawr o draethodau a barddoniaeth yn cael ei gynyrchu trwyddi, mae yn wir, ond pa nifer ohonynt a gyhoeddir? ac o'r nifer a gyhoeddir, pa nifer ohonynt a ddarllenir? Nid yw o un dyben llenwi y wlad â thraethodau a barddoniaeth na chânt byth eu darllen. Nid yw o un dyben ceisio celu y ffaith, mai methiant yw y cyfansoddiadau buddugol yn y cyffredin mewn ystyr lenyddol: nid oes dim myned

Digitized by Google

ynddynt: maent yn gorwedd yn farw ar hyd ein gwlad. Colled ydynt i'n cyhoeddwyr, a baich i brynwyr a darllenwyr llyfrau Cymreig. Ond os ydynt yn aneffeithiol i gyflenwi ein gwlad â llenyddiaeth, maent yn dra effeithiol i'w llenwi â chwydd a hunan. Mae rhywbeth yn rhyfedd yn y ffugenwau yma. Mae gyda finau un ohonynt. Cymerais ffugenw am fod ereill yn gwneyd hyny. Nid aethym i drafferth i ymholi a oedd rhyw briodoldeb yn y peth ai nad oedd. Os oes bai, ar y gymdeithas a'm dysgodd y mae y bai yn gorwedd; ond bai neu beidio, yr wyf yn meddwl mai rhywbeth heb ei eisieu ydyw. Er nad all fod dim niwaid ynddo fodd yn y byd, pe buasai modd i mi ail gychwyn ar fy ngyrfa lenyddol, buaswn yn ei chychwyn heb un ffugenw—heb enw yn y byd ond fy enw priodol. A phe bae rhyw fachgen ieuanc yn gofyn i mi, a fyddai yn ddoeth iddo gymeryd ffugenw ai peidio, mi a'i cynghorwn i arfer ei enw priodol yn unig, a'i wneyd yn enwog os gallai. Ond y mae rhai yn ymfalchïo cymaint mewn ffugenw, a phe byddai yn anfarwoldeb iddynt. Ac yn hyn y mae yn niweidiol—mae yn galluogi creaduriaid didalent i ddynwared beirdd a llenorion. Mae yn llenwi y wlad âg epaod a pharots. Ar bwys ffugenw yn unig siaradant fel pe byddent wedi gwneyd rhywbeth, a hwythau heb wneyd dim. Ac y mae y drwg yn cyraedd yn belläch: mae yn achlysuro i'r wlad dalu cymaint o warogaeth i'r dyn â ffugenw heb wneyd dim, ag a delir i'r hwn a wnaeth lawer. Mae ffugenw yn unig gyda rhyw fath o bobl yn dwyn cymaint o glod i'w berchenog, ag a ddygir i ereill gan orchestion diamheuol. Ffordd rad i glod ydyw mabwysiadu ffugenw; ond y ffordd i anfarwoldeb ydyw gwaith. Ond os yw ffugenw yn gwneyd i ddynion ddal eu penau i fyny, mae enill ddwywaith neu dair ar fân destynau yn chwyddo cymaint arnynt fel mae y byd braidd yn rhy fach i'w dal. Mae yn eu gwneyd yn annysgrifiadwy o hunanol. Edrychant a siaradant fel pe byddent wedi taflu holl feddylwyr y byd i'r cysgod. Dysgwyliant i bawb dalu gwarogaeth iddynt fel archlenyddwyr y bydysawd. Mae yr enill wedi troi eu hymenydd; ac yn sicr y mae hyny yn effaith tra annymunol. Heblaw hyny, mae llawer sydd wedi enill yn anrhydeddus yn gorphwys yn rhy fuan. Nid ydynt yn gwneyd digon i hawlio clod cenedl. Nid llawer o waith llenyddol a wneir gan ein prif-feirdd heblaw enill y gadair dro neu ddau, ar ol cael

Digitized by Google

oes lled hir; rhyw un gyfrol gwerth ychydig sylltau fydd yr oll a geir ar eu hol. Tybied yr wyf ei fod yn rhy fach o gynyrch. Nid yw ryfedd fod eu henwau yn cael eu hannghofio—gorphwysant yn rhy fuan: pe bae ein beirdd a'n llenorion yn cyfansoddi yn annibynol ar bob Eisteddfod, mae bron yn sicr y cyfansoddent chwaneg nag a wnant yn awr, ac mewn canlyniad, sicrhaent iddynt eu hunain fwy o enwogrwydd.

Un o brif elfenau llwyddiant llenyddol ydyw sefydlogrwydd. Dynion yr un pwnc yn y cyffredin sydd yn ymenwogi. Os gwelwch ddyn yn rhedeg o'r naill beth i'r llall, ac yn amcanu gormod, gallwch fod yn eithaf sicr y bydd iddo ddiweddu mewn methiant. Rhaid i ddyn aros gyda'i bwnc ei hun, a'i wneyd yn eiddo iddo ei hun, cyn y gall enill nemawr o enwogrwydd trwyddo: ond y mae yr Eisteddfod yn anffafriol i sefydlogrwydd. Mae hud y gwobrwyon yn tynu rhai oddiar eu llwybr. Mae y dyn yn rhedeg o bwnc i bwnc ar faes yr Eisteddfod, er mwyn y tlysau a'r gwobrwyon: iddo ef mae yr Eisteddfod fel canwyll y gors, yn ei hudo yma ac acw, ar ol y peth hwn a'r peth arall, ond yn y diwedd yn ei adael yn y llaid a'r budreddi heb ddim. Mae dynion yn ein gwlad wedi treulio amser, ac yni, a thalent lawer am flynyddau maith i geisio am wobrwyon heb eu cael. Buont yn ymyl y gadair droion, ond yn ei hymyl heb ei chael. Nid ydynt wedi enill dim trwy eu llafur dirfawr ond amheuaeth eu cydwladwyr am eu galluoedd i ragori. Y gwirionedd yw, mae yn anmhosibl i fethiant parhaus beidio â darostwng yr ymgeisydd yn nghyfrif y cyhoedd. Ond pe buasent wedi cysegru haner y llafur a aberthasant ar allor yr Eisteddfod ar waith arall, mae yn sicr y buasent wedi ymenwogi. Neu, pe buasent wedi crynhoi yr yni a roisant ar gynifer o destynau ar ryw un pwnc, buasent wedi cynyrchu gwaith gwerth i'w gadw. Ond trwy ddylyn yr Eisteddfod, maent wedi gwasgaru gormod ar eu nerth, ac wedi bod yn rhy ansefydlog i enill enwogrwydd. Heblaw hyny, mae y lle mawr a roir yn yr Eisteddfod i Farddoniaeth yn tynu dynion diawen i geisio bod yn Feirdd. Nid beirdd pawb. Mae tri neu bedwar o feirdd da mewn canrif yn gynifer ag y gellir ddysgwyl, ond gellid barnu oddiwrth yr Eisteddfod fod dau o bob tri yn feirdd. Y canlyniad yw, fod bron pawb yn Nghymru yn ceisio barddoni, a'r wlad yn cael ei llenwi â rhigymwyr

Digitized by Google

gwael, na allant byth ragori fel beirdd, ond a allasent fod yn enwog mewn rhyw wybodaeth neu wyddor arall. Mae yn hyn golled driphlyg:—Colled i'r dyn ei hunan, trwy geisio bod yn fardd: pan nad all, mae yn colli yr adeg i ymenwogi ar ryw lwybr arall. Colled i wybodaeth yn gyffredinol: mae gwybodaeth yn cael ei hesgeuluso oblegid awydd y lluaws i fod yn feirdd. A cholled hefyd i farddoniaeth, oblegid mae beirdd ffugiol a barddoniaeth gelfyddydol yn gwneyd beirdd gwirioneddol a barddoniaeth ddiledryw yn annerbyniol gan y wlad. Ac yn chwanegol eto, mae sylweddoliaeth llenyddiaeth i raddau pell yn cael ei golli mewn llenyddiaeth gystadleuol. Dylai llenyddiaeth, yn enwedig barddoniaeth, fod yn ddrych o'r oes, ac yn neillduol o'r awdwr. Ond mewn llenyddiaeth gystadleuol, mae pob peth rywfodd yn ffugiol ac arwynebol. Arall sydd yn dewis y testyn, a theimlad arall yn y cyffredin a roddir arno. Oferedd yw chwilio am hanes bywyd mewnol y bardd yn ngweithiau bardd Eisteddfodol. Ni cheir yma ond dynion mewn mwgwd, a rhaid tynu y mwgwd oddiar eu gwynebau cyn y gellir eu hadnabod. Mae y gwirionedd yma yn cael ei egluro yn amlwg iawn yn ein llenyddiaeth alarnadol. Mae llawer iawn o farddoniaeth alarnadol yn ein hiaith, ond ychydig ohoni mewn cymhariaeth sydd yn ddidwyll. Wedi gwneuthur ychydig o eithriadau, nid ellir dibynu ar y Marwnadau am ddim. Nid ydynt yn profi fod gwrthddrych y Farwnad yn barchus yn ei wlad nac yn ei ardal: nid ydynt yn profi mai cariad at ei goffadwriaeth fu yr achos o'r Farwnad: nid ydynt yn profi chwaith fod yr awdwr yn adnabod nac yn caru gwrthddrych ei gân. Y wobr yw yr achos ohoni, a rhywbeth heblaw parch yn y cyffredin sydd yn achos o'r wobr. Byddai yr un mor hawdd cael Marwnad i ddiafol ag i angel, ond i ryw un gynyg y wobr am un. Nid yw hyny yn dwyn nemawr glod i'r beirdd, mae yn wir; er hyny mae yn wir. Ffugiol yw y teimlad, a ffugiol yw y parch, ac o ganlyniad ffugiol yw y farddoniaeth. Ac yn y fan yma nid allaf beidio dadgan fy meddwl y dylid taflu y Marwnadau allan o'r Eisteddfod yn llwyr ac am byth. Mae rhywbeth yn chwithig mewn gwobrwyo rhai am udo ar ol y marw, boed ef enwog neu ddinod. Mae llawer o son am y waedd Wyddelig uwchben y bedd; ond byddai mwy o son am Alarnadau Cymreig, pe gwyddid am fynychrwydd y Marwnadau yn Nghymru. Yr unig bethau

a ddichon roddi gwerth ar Farwnad ydyw, adnabyddiaeth yr awdwr o'r gwrthddrych, ei gariad diffuant tuag ato, a galar dwys ar ei ol. Mae pob Marwnad, heb y pethau hyn, yn ddiwerth. Gan hyny, dylid gadael y Marwnadau yn ngofal cariad a galar, oblegid os rhaid cael gwobr cyn eu cael, nid ydynt o un gwerth ar ol eu cael. Methiant yw yr Eisteddfod yn sicr fel moddion i gynyrchu llenyddiaeth; a meddwl yr wyf, os rhaid cael gwobrwyon i gynyrchu llenyddiaeth, nad yw llenyddiaeth felly yn werth i'w chael.

Heblaw hyn oll, nid oes mewn Eisteddfod ddim sicrwydd y bydd i deilyngdod gael y wobr. Mae hanes yr holl Eisteddfodau yn profi yr haeriad yma. Anfoddlonrwydd a glywir ar ol pob un. Hyd nes y delo beirniaid i efrydu beirniadaeth fel gwyddor, ac i feirniadu wrth reol ac egwyddor, damwain fydd i'r goreu gael y wobr. Mae diamond a'r pridd yn glynu wrtho yn fwy o nerth na'r gareg, er ei bod wedi ei glanhau a'i thrin. Ni bydd gobaith i gynyrchion athrylith nes delo beirniaid i wybod ac i gydnabod hyn. Mae y gwirionedd yma mor amlwg fel y mae yn syndod fod neb heb ei weled: er hyny, mae beirniadaethau llawer o'n Heisteddfodau yn dangos fod eu hysgrifenwyr mewn anwybodaeth, neu mewn annghof ohono. Cydnabyddant yn fynych eu bod wedi cael diamond yn y gystadleuaeth, ond am fod ychydig bridd yn dal i lynu wrtho, rhoddant y wobr i garegwen, oddiar y traeth, am fod hono wedi ei golchi yn lân a'i thrwsio. Pa ddyben anfon diamond i feirniaid fel hyn? Mae yn sicr fod y fath beth ag anaddasrwydd ac analluogrwydd i feirniadu. Mae dynion yn cael eu gosod yn feirniaid heb fod ganddynt ddim dirnadaeth o'r pethau sydd yn cyfansoddi teilyngdod llenyddol: mae beirniaid felly yn sicr o wobrwyo y salaf. Mae yn sicr hefyd fod y fath beth a beirniaid annghyfiawn. Maent yn alluog i dderbyn gwyneb, ac nid yw ddim allan o'u ffordd roddi gwobr y goreu i'r gwaelaf, er gwybod eu bod yn gwneyd hyny. Siawns wan sydd i'r teilwng gyda beirniaid fel hyn eto. Ond o'r tuallan i'r ystyriaethau hyn, y mae amryw bethau yn dangos nad oes dim sicrwydd y caiff teilyngdod ei wobrwyo. Mae anhawsder mawr weithiau yn y gwaith o ddewis y goreu. Nid ellir pwyso cyfansoddiadau â phwysau, na'u mesur â llathen. Hwyrach fod y naill yn llawn teimlad, y llall yn llawn gwres, y trydydd yn llawn crebwyll, a'r olaf yn

Digitized by Google

llawn meddwl dwfn; a phwy all ddywedyd yn mha un ohonynt y mae mwyaf o nerth? Gall fod pob un yn rhagori ar y llall mewn rhyw elfen neu gilydd, a gwaith anhawdd lawer tro yw dyweyd pa un yw y rhagoraf. Ac onid oes gwahaniaeth mawr yn bodoli yn meddyliau dynion yn nghylch pa beth sydd yn deilwng. Yr hyn sydd dda iawn yn nghyfrif un, sydd ddrwg iawn yn nghyfrif arall. Newidier y beirniad, a newidir y ddedfryd ar yr un pryd. Er nad yw hyn yn collfarnu neb mwy na'u gilydd, mae yn dangos nad oes dim sicrwydd yr aiff teilyngdod â'r wobr; a thra byddo cyfiawnder mor ddamweiniol, yr wyf yn tybied mai camgymeriad mawr ydyw cystadlu o gwbl.

Ac y mae hyn yn fy arwain i sylwi fy mod yn meddwl mai yr unig ffordd i feddyginiaethu yr Eisteddfod, ydyw gwneyd i ffordd â'r cystadlu, neu ynte ei gyfyngu i le mor fach, fel nad all wneuthur nac achlysuro llawer o ddrwg. Y gystadleuaeth ydyw ffynonell y drwg; a thra byddo yn agored, yr wyf yn eithaf sicr mai llifo wnaiff drwg ohoni. Beth a wneir ohoni ynte ond ei chau? Os na fynwch ei chau yn llwyr, cyfyngwch arni, a gwnewch y gystadleuaeth yn yr Eisteddfod fel cystadleuaeth ysgol, yn rhyw gydymdrech rhwng yr ieuainc a'u gilydd am ragoriaeth. Os rhoir gwobr am farddoniaeth, boed yn wobr i'r ieuainc i gystadlu amdani, ac nid i rai mewn oedran. Os rhoir gwobr am gerddoriaeth, cyfynger hi i efrydwyr. Os bydd gwobr am draethawd, boed yn wobr i fechgyn a genethod. Os caiff yr ieuanc gam, mae yn gallu ei annghofio—mae yr hen yn methu. Os caiff yr ieuanc archoll, mae amser yn ei iachau; ond anfynych y mae yn gwella i rai mewn oed. Gwnaer i ffordd â'r cystadlu. Mae yn hawdd i ni fel cenedl hebgor y gystadleuaeth. Fel moddion i gyflenwi angenion llenyddol ein gwlad, mae wedi profi ei hun yn fethiant truenus. Ceir gwell llenyddiaeth o'r tuallan iddi, nag a geir o'r tumewn. Fel moddion i gynyrchu barddoniaeth, nid oes angen amdani, oblegid ceir digon o farddoniaeth hebddi. Nid all cynyrchu awdlau, arwrgerddi, pryddestau, a chaneuon wrth y canoedd yn flynyddol, wneyd dim ond diflasu y wlad â ffugfarddoniaeth. Bydd mwy o feirdd nag o ddarllenwyr yn fuan, os nad yw felly yn barod. Yn sicr, gellir gadael i Farddoniaeth y wlad ofalu amdani ei hunan. Mae yn ddigon hen, a'i phlant yn ddigon lluosog i'w

Digitized by Google

chadw, heb ei rhoddi i bwyso ar yr Eisteddfod, fel hen wraig ar y plwyf. Ac y mae yn hawdd i'r Eisteddfod gael rhywbeth gwell na chystadleuaeth yn ei lle. Peth gwell na chystadleuaeth fyddai amgeleddu ychydig ar weithiau ein prif feirdd a'n llenorion. Coder hwy o'r llwch. Dyger hwy i gyraedd y wlad. Gadawer i Gymru wybod fod genym lenyddiaeth gwerth ei darllen. Dangoser prydferthion a gogoniant ein hawduron, fel na byddo i neb mwyach feddwl, fel y gwna lluaws yn awr, nad oes genym na bardd na llenor a dâl i son amdano. Peth gwell na chystadleuaeth fyddai dewis dynion y gwyddir eu bod yn gymhwys i ysgrifenu cân, neu draethawd, neu gantawd, pan fernir fod eu heisieu, a thalu i'r ysgrifenwyr amdanynt. Byddai dewisiad fel hyn yn anrhydedd i'r awdwr, ac yn sicrhâd i'r Eisteddfod y ceid cyfansoddiad teilwng. Peth gwell na chystadlu hefyd fyddai troi yr Eisteddfod yn esgynlawr gyffredinol, neu fan cyfarfod i holl genedlgarwyr Cymru ddwyn eu dysg, a'u gwybodaeth, a'u dawn, i bwynt tuag at goethi a dyrchafu ein gwlad. Byddai wedi hyny yn gymanfa gyffredinol i drafod pethau a berthynant i'n gwlad, a byddai cymanfa felly yn eithaf teilwng i gael ei galw YR EISTEDDFOD. Yn y rhai hyn gellid trafod hanes ein cenedl, ei pherthynasau, ei hiaith, a'i chwaer ieithoedd; ei llenyddiaeth, ei moesau, a'i chrefydd; ei diffygion a'i rhagoriaethau, ei chyflwr presenol, a'i rhagolygon dyfodol, a phob peth arall perthynol iddi; a byddai ymdrafodaeth ddysgedig â'r pethau hyn yn llawer mwy buddiol i'r wlad na chystadleuaeth am wobrau. Gallai pawb yn ddiwahaniaeth gefnogi Eisteddfod fel hon. Mae llawer iawn yn cadw draw oddiwrthi yn bresenol. Ychydyg o'n prif ddynion sydd yn ei chefnogi. Manion gan mwyaf sydd yn cynal Eisteddfodau âg ambell seren yn eu mysg. Y gwir yw, mae ar lawer o'n gŵyr goreu, y rhai sydd yn perchen dysg, gwybodaeth, a thalent, ofn y gwaradwydd dibaid sydd yn nglŷn â hwy. Ond gwnaer i ffordd â'r cystadlu, ac fe dderfydd y gwaradwydd a'r ymryson, a gall y mwyaf ofnus eu cefnogi heb betruso dim.

Ond y pwnc yw, a wnai y wlad gefnogi Eisteddfod fel hon. Pe gwneid i ffordd â'r cystadlu, oddieithr rhyw ychydig, a wnai y bobl ddylifo wrth y miloedd i babell yr Eisteddfod, fel y gwnant yn awr? Mae rhai yn tybied mai y gystadleuaeth ydyw egwyddor yr atdyniad sydd

Digitized by Google

ynddi, ac y collai ei phoblogrwydd heb y gystadleuaeth; ond nid wyf yn credu hyny. Mae yr Eisteddfod yn boblogaidd, oblegid mai sefydliad Cymreig ydyw, ac oblegid mai hi ydyw yr unig gynulliad difyrol a deallol ar radd-eg fawr yn ein gwlad. Mae y cyngherddau yn tynu mwy na'r Eisteddfod ynddi ei hun, a byddai yr atdyniad yma yn yr Eisteddfod ddiwygiedig. Mae llawer yn cadw draw o'r Eisteddfodau presenol, am eu bod yn eu hannghymeradwyo. Ni byddai achos i neb gadw draw o'r rhai newydd. Yr unig beth angenrheidiol er sicrhau llwyddiant mewn Eisteddfod heb gystadleuaeth, fyddai cael gwasanaeth dynion adnabyddus i'r genedl yn gyffredinol. A fyddai dim modd gwneyd prawf arni? Mae yn bryd gwneyd rhywbeth, oblegid fel y maent achosant fwy o waradwydd na dim arall. Gobeithiaf y cymer cyfeillion yr Eisteddfod yr awgrymau hyn yn garedig, ac y'm credant mai awydd i'w gwneyd yn sefydliad gwir fuddiol sydd wedi fy nghymhell i'w hysgrifenu.

Mae yn bryd i mi derfynu, yr wyf yn gwybod; ond cyn i mi wneyd hyny, mae genyf air neu ddau eto i'w hysgrifenu. Ac yn gyntaf, os ydym i gael Eisteddfod o gwbl, gadewch i ni gael un Gymreig. Gellid meddwl wrth sylwi ar lawer Eisteddfod y dyddiau hyn, mai ei dyben ydyw cadw y Seisneg yn fyw, a rhoi tipyn o lenyddiaeth i'r Seison, a dangos mai y Cymry yn unig all wneyd hyny. Os oes ar y Seison a'n Cymry Seisnig eisieu Eisteddfod, gadawer iddynt barotoi un iddynt eu hunain. Os oes eu heisieu yn Nghymru o gwbl, mae eu heisieu yn Gymraeg. Ni wnaiff un hanerog y tro. Mae yn anmhosibl i'r Seisneg a'r Gymraeg gytuno â'u gilydd mewn Eisteddfod mwy nag mewn capel. Os dygir y Seisneg i mewn, mae y Gymraeg yn sicr o gael ei gwneyd yn stol droed iddi. A pha eisieu Seisneg mewn Eisteddfod? Paham y rhaid i'r Cymro yn mhob man ddangos a chyhoeddi ei fod yn medru Seisneg? Rhoddwch gyfle iddo unwaith yn ei oes i gyfansoddi pwt o feirniadaeth Gymreig, ac y mae yn sicr o ddefnyddio y cyfle hwnw i ddangos ei fod yn deall Seisneg. Yr achos o'r Seisnigrwydd yma i raddau ydyw, penodi Seison yn Llywyddion. Pa reswm sydd mewn penodi dynion ag ydynt yn ein gwadu ni a'n hiaith i lywyddu yn ein Heisteddfodau? Llyfu y troed sydd yn ein cicio yw peth fel yna. Ni ddylai neb gael ei benodi yn Llywydd mewn Eisteddfod, heb ei fod yn medru Cymraeg.

Digitized by Google

Dynion dysgedig o Gymry fyddai y rhai addasaf i fod yn llywyddion mewn Eisteddfod; os ydym yn analluog i gael y cyfryw, os yw Eisteddfod yn anmhosibl heb gynorthwy dynion nad ydynt yn caru ein hiaith na ninau, gadawer iddi farw, a pheidiwn mwy â son am ei henw. Yn ail, os ydym i gael Eisteddfod o gwbl, bydded lles y Cymry yn ddyben mawr ei gweithrediadau. Pe bae rhyw rai yn myned i ddyfalu dyben yr Eisteddfod oddiwrth yr Eisteddfod ei hun, hwy ddyfalent bob peth yn ddyben iddi o flaen lles y Cymry. Gellid dyfalu mai gwneyd arian fyddai ei dyben. Mae llawer iawn o swn pres yn ei chymydogaeth. Mae pris y tocynau hefyd mor uchel, fel y gellid tybio mai cael arian yn unig sydd mewn golwg. Eilwaith, gellid dyfalu mai dyben yr Eisteddfod ydyw Seisnigo y Cymry. Mae yr olwg arni mor Seisnigaidd, ac y mae cymaint o Seisneg ynddi, fel yr ymddangosai y dyfaliad yna yn berffaith naturiol. Ond y dyfaliad mwyaf tebygol fyddai, mai dyben yr Eisteddfod ydyw gwneyd *show* o'r Cymry i'r Seison. Braidd nad ellid dyweyd fod holl weithrediadau yr Eisteddfod yn cael eu cynllunio gyda golwg ar ddifyru a boddio y Seison. Nid yw cyfleustra na lles y Cymry ond ail ystyriaeth; ac os yw hyn yn wir, mae yn wir a ddylai beri i bob Cymro wrido hyd ei glustiau gan gywilydd. Tybiwch fod y Seison yn cadw Eisteddfod Seisnig, fel y mae y Cymry yn cadw Eisteddfod Gymreig. Mae yr Eisteddfod wedi cael ei chyhoeddi i gymeryd lle yn Llundain. Dyben yr Eisteddfod, yn ol cyhoeddiad yr Eisteddfodwyr, ydyw coethi y Seisneg, cyfoethogi llenyddiaeth Seisnig, a llesau y Seison. Mewn trefn i gwblhau y dybenion hyn, mae y testynau yn cael eu cyhoeddi yn y Ffrancaeg. Ac wedi i ddyddiau yr Eisteddfod ddyfod oddiamgylch, ac i'r lluaws ymgynull i'r babell, mae Ffrancwr yn cael ei arwain i'r gadair, ac y mae yntau yn agor yr Eisteddfod âg araeth yn y Ffrancaeg. Wrth edrych oddiamgylch, gwelir fod yr hysbysleni a'r arwyddeiriau, oddigerth ambell un, yn y Ffrancaeg. Mae y lle anrhydeddus, yn ddieithriad, yn cael ei roddi i'r Ffrancaeg. Erbyn gafael mewn papur newydd, ceir gweled fod yr hysbysiadau yno am yr Eisteddfod yn Ffrancaeg. Wedi galw am lyfr o'r geiriau a threfn y gweithrediadau, ceir gweled fod y rhai hyny hefyd yn Ffrancaeg. Daw y dadganwr yn mlaen, ac y mae hwnw yn canu yn Ffrancaeg. Cyfyd un o wŷr yr Eisteddfod i

Digitized by Google

draddodi araeth, ac y mae ei araeth yntau yn Ffrancaeg. Daw un o'r beirniaid yn mlaen i ddarllen ei feirniadaeth, ac y mae yntau yn gwneyd hyny yn Ffrancaeg. Ffrancaeg yw y cwbl, oddieithr ambell air yn awr ac yn y man, a'r geiriau hyny yn eiriau o ddirmyg ar y Seison. Os gofynwch i'r Eisteddfodwyr paham y maent yn rhoddi y fath anrhydedd i'r Ffrancod, a hwythau yn casau ac yn dirmygu y Seison, hwy a'ch atebant, fod llawer iawn o Ffrancod yn dyfod drosodd o Paris, a manau ereill, i'r Eisteddfod, a bod yn angenrheidiol parotoi ar eu cyfer. Wedi i'r Eisteddfod fyned drosodd, mae y Ffrancod yn dychwelyd adref; a'r dyddiau canlynol ceir hanes yr Eisteddfod yn holl bapurau newydd Ffrainc, a'r hanesion hyny yn cynwys y dirmyg mwyaf annyoddefol ar yr Eisteddfod, ac ar y Seison a'i cynalient. Beth dybiech chwi o Eisteddfod fel yna gan y Seison? Oni ddywedech chwi fod y bobl allai oddef y fath anfri yn fulod? Oni ddywedech chwi hefyd fod dirmyg y Ffrancod yn wobr deilwng iddynt am eu hynfydrwydd? Gwnaech, yn ddiau. Er hyny, yr ydych yn goddef peth fel hyn yn Nghymru. Fel yna yn union y mae y Cymry yn cynal Eisteddfod. Mae lles, cyfleustra, ac anrhydedd y Cymry yn cael eu rhoi o'r neilldu, er mwyn boddio y Sais. Gwneir yr Eisteddfod yn *show* i'r Seison, a dim arall. Ac wrth wneuthur hyn, mae y Cymry yn sarhau eu hunain yn waradwyddus, a pheth sydd waeth—maent yn dysgu y Seison i'n dirmygu. Mae cenedl all fod mor farw a hyn i'w hanrhydedd yn annheilwng o ddim ond dirmyg. Pa ryfedd fod y Seison yn ein dirmygu? Mae yn anmhosibl iddynt beidio. Mae yn rhaid ein bod yn anfeidrol o ddirmygus yn eu golwg. Y gwasanaeth goreu all y wasg Seisnig wneyd i Gymry a Chymraeg ydyw, parhau i'n baeddu a'n diystyru nes yr ymedy ein ffolineb mawr â ni. Os ydym i gael Eisteddfod, gadewch i ni gael Eisteddfod i'r Cymry, ac nid i'r Seison. Dylid trefnu Eisteddfod fel pe na byddai Sais mewn bod. Os oes eisieu Eisteddfod i'r Seison, gwnaer un Seisnig ar eu cyfer. Mae digon o Gymry i gynal Eisteddfod heb y Seison; o ganlyniad, na olyger dim wrth gynllunio Eisteddfod ond difyrwch a lles y Cymry sydd yn siarad Cymraeg. Ond mewn trefn i gael Eisteddfod fel hyn, mae yn rhaid i ni dori ein cysylltiad â'r bendefigaeth sydd yn ein gwadu ac yn ein diystyru. Gellir gwneyd o'r goreu hebddynt. Maent yn fwy o

Digitized by Google

rwystr o lawer nag o gynorthwy. Rhaid ein cael i ymddibynu yn gwbl arnom ein hunain, ac yr wyf yn sicr mai felly y gwnaem oreu. Rhaid cael llywyddion yr Eisteddfod hefyd yn Gymry, neu yn rhai fyddo wedi dysgu Cymraeg. Ac, yn olaf, rhaid cael pris y tocynau dipyn yn is; oblegid mae y prisiau yn bresenol yn gwneyd yr Eisteddfod i'r lluaws yn beth anmhosibl. Yn awr, cyflwynaf y sylwadau hyn i sylw fy nghydwladwyr, gan obeithio y byddant yn gynorthwy bychan i wneyd yr Eisteddfod yn sefydliad bendithiol i'r Cymry sydd yn siarad Cymraeg. Ac yr wyf yn arfer y geiriau hyn yn fwriadol, oblegid mae digon o fanteision llenyddol yn Seisneg, heb yr Eisteddfod, i'r Cymry hyny ag ydynt yn dewis gadael eu cenedl, a throi yn Seison.

---

## PAPUR NEWYDD DYDDIOL CYMREIG.

Un o brif ragoriaethau y Sais ydyw yr ymdrech a'r egni sydd yn perthyn iddo. Wedi parotoi rhywbeth ar gyfer y cyhoedd, nid yw yn eistedd i lawr i ddysgwyl y cyhoedd ato i'w prynu, ond yn hytrach aiff at y cyhoedd ei hunan a'i nwyddau gydag ef i'w cymhell iddynt. Yr egni yma yn y Sais ydyw un o ffynonellau ei fawredd. Ac yn hyn y mae y Cymry braidd yn ddiffygiol. Mae llawer man wedi myned yn Seisnig am fod y Cymry yn rhy barod i ildio, am eu bod yn rhy lonydd a llwfr i wrthwynebu, am fod arnynt ofn siarad eu meddwl. Pe buasai mwy o ysbryd anturiaethus ynom, a chwaneg o egni, buasem wedi gwneyd llawer mwy nag a wnaethom mewn llyfrau a newyddiaduron Cymreig. Mae digon o Gymry yn siarad Cymraeg i wneyd y fasnach mewn llyfrau a newyddiaduron Cymreig yn barchus ac yn enillgar. Gellid gwneyd y fasnach ddengwaith yn fwy nag yw hi. Un ffordd i gynyddu y fasnach, i werthu mwy o lyfrau a newyddiaduron nag a wneir, ydyw gwneyd y naill a'r llall dipyn yn fwy amlwg o ran lle. Mae eisieu gwell lle, a lle mwy cyhoeddus iddynt. Dylid gwneyd mwy o hysbysleni mewn llythyrenau amlwg i alw sylw atynt. Mae llawer iawn yn gwerthu llyfrau Cymreig fel pe

Digitized by Google

gwerthent rednwyddau. Mae y fasnach yn cael ei chario yn mlaen fel pe byddent yn eiddo annghyfreithlon. Ewch i'r maeldy, ac os bydd yno lyfrau Cymreig o gwbl, byddant yn rhywle o'r tucefn, rhag ofn i neb eu gweled. Mae masnach llyfrau Cymreig yn cael ei chario yn mlaen gan rai yn union fel pe byddai arnynt gywilydd ymwneyd dim â hi. Nid yw ryfedd fod y fasnach yn farw dan amgylchiadau fel hyn. Dylid rhoddi y lle blaenaf i lyfrau Cymreig yn Nghymru; a phe gwneid hyny, mae yn sicr y gwerthid mwy ohonynt. Ffordd arall i werthu mwy o lyfrau a newyddiaduron Cymreig ydyw myned oddiamgylch i'w cymhell ar y rhai sydd heb eu derbyn. Mae yn warth i ni fod mwy o lyfrau a newyddiaduron Seisnig yn cael eu prynu yn Nghymru nag o rai Cymreig. Yr achos o hyny i raddau ydyw peidio cymhell rhai Cymreig. Dylai newyddiadur Cymreig gael ei dderbyn gan bob gwestty, tafarn, a maeldy yn ein gwlad; a phe bae rhyw ddyn gweithgar a newyddiadur da ganddo yn myned atynt i'w gymhell arnynt, yr wyf yn tybied mai ychydig allent ei wrthod. Felly gyda llyfrau, os ydych am i'r Cymry brynu eich llyfrau, ewch â'ch llyfrau atynt. Mae y fasnach yn awr yn cael ei gadael yn ormodol i ofal damwain. Wedi cyhoeddi y papur newydd neu lyfr, eisteddir i lawr i ddysgwyl i'r bobl dd'od atynt i'w brynu. Ond nid felly yw y ffordd i lwyddo; os mynwch wneyd masnach fawr, cymerwch ddalen o lyfr y Sais, ac ewch oddiamgylch i gymhell eich newyddiaduron a'ch llyfrau, ac yna chwi werthwch ddengwaith mwy nag a wnewch yn bresenol. Gellid gwneyd tipyn o gymhorth hefyd i gynydd y fasnach, trwy gymhell y naill y llall i gefnogi llenyddiaeth y Cymry. Mae rhai yn cyfiawnhau eu hunain am brynu llyfrau a newyddiaduron Seisnig, trwy ddyweyd nad oes dim llenyddiaeth yn y Gymraeg. Wel, wel, beth nesaf tybed? Fod chwaneg o lyfrau yn Seisneg nag sydd yn Gymraeg sydd wir, ond y mae mor wir a hyny fod mwy o lyfrau, a llyfrau da yn Gymraeg nag y gall unrhyw ddyn cyffredin eu darllen. Mae ar yr ysgolor eisieu llyfrau pob gwlad, ond y mae llyfrau eu gwlad eu hunain yn hen ddigon i ddynion yn gyffredin. Llyfrau Cymreig hefyd wnaiff fwyaf o les i Gymry yn ddiddadl. Gan hyny, yn lle pwyso ar Gymry i ddysgu Seisneg, a darllen Seisneg, pwyswch arnynt i ddarllen Cymraeg. Ac yn lle prynu llyfrau Seisnig yn anrhegion i Gymry, prynu-

Digitized by Google

wch rai Cymreig iddynt Bydd llyfr Cymreig yn annhraethol debycach na llyfr Seisnig o gadw dylanwad da ar feddyliau eich plant ar ol iddynt eich gadael. Nid y peth lleiaf chwaith mewn trefn i gael cefnogaeth helaeth i lenyddiaeth Gymreig, ydyw gofalu am ddigon o lyfrau gwreiddiol a da ar gyfer darllenwyr Cymreig. Mae yn dda cael cyfieithiadau, ond gwell yw gweithiau gwreiddiol. Ac yr wyf yn meddwl yn aml fod rhai yn gwastraffu eu hoes i gyfieithu, pan allasent ei defnyddio i ddyben llawer uwch trwy gyfansoddi llyfrau gwreiddiol eu hunain. Ond wrth gofio, fy nhestyn ydyw NEWYDDIADUR DYDDIOL yn Gymraeg. Yr wyf yn meddwl y byddai cael newyddiadur dyddiol Cymreig yn beth dymunol i deimladau pob Cymro gwladgarol; ac yr wyf yn meddwl y byddai yn eithaf hawdd ei gael. Mae digon o Gymry yn siarad Cymraeg i gyfiawnhau cyhoeddiad newyddiadur dyddiol yn eu hiaith. Pe cymerai rhyw gyhoeddwr anturiaethus y peth mewn llaw, nid allai fethu â gwneyd i'r anturiaeth dalu; neu pe cymerai cwmni y gwaith mewn llaw, byddai ei lwyddiant braidd yn sicr. Mae yn rhyfedd na buasai rhyw un wedi gwneyd prawf ar un cyn yn awr; ond gwell yw hwyr na hwyrach, ac yn awr yw yr adeg neu byth.

Tri pheth sydd yn angenrheidiol er gwneyd i newyddiadur dyddiol Cymreig dalu ei ffordd:—Yn gyntaf, rhaid cael newyddiadur da, talentog, cywir, a rhad. Rhaid iddo ddal i'w gymharu â goreuon y Seison o'r un maint a phris ag ef. Byddai raid iddo gael ei newyddion mor gynarol a'r papurau Seisnig. Ni wnai newyddion wythnos oed mo'r tro. Ni wnai rhigymau dienaid bechgyn yn dechreu cyfansoddi mo'r tro i'w lenwi i fyny. Mae digon o dalent yn Nghymru, a medr i'w defnyddio, a byddai raid cael gafael arni i ysgrifenu i'n newyddiadur dyddiol. Yn ail, rhaid cael ymdrech a gweithgarwch i'w ledaenu. Dylid ei gymhell i bob gwestty, a thafarn, a maeldy yn Nghymru. Dylid ei gymhell hefyd i offeiriaid, a gweinidogion, a mawrion ein gwlad a'n trefydd, ac i bawb sydd mewn moddion i'w brynu, ac yn medru Cymraeg. Mae yn sicr y byddai i lawer wrthod, ond mae yn sicr hefyd y ceid nifer ddigonol i wneyd iddo dalu. Ond, yn olaf, rhaid cael cyhoeddwr anturiaethus i'w gyhoeddi. Dibynai ei lwyddiant yn fwy ar hyn na dim arall. Mae gyda ni yn awr amryw gyhoeddwyr anturiaethus, a phe cymerent

Digitized by Google

bwnc y newyddiadur dyddiol mewn llaw, nid allent lai na llwyddo. Pwy gymer y drychfeddwl yma i fyny? Ond i rywun cymhwys ymgymeryd âg ef, mae yn hyderus genyf y deuai miloedd allan i'w gynorthwyo: ac wedi ei gael, rhoddai daw am beth amser ar faldordd y rhai sydd beunydd yn proffwydo fod yr iaith Gymreig i farw.

---

## ENLLIBWYR EIN GWLAD.

PE buasai y fath beth a dewiniaeth yn bod, buaswn yn haeru yn gryf fod y Cymry wedi cael eu llygad-dynu neu eu rhegi; a buaswn yn haeru hyny oblegid eu bod wrth y miloedd yn ymhyfrydu yn y gwaith o sarhau ac enllibio eu gwlad a'u cenedl. Tybir yn gyffredin fod pob cenedl yn ddall i'w beiau ei hun; ond rhaid fod y cyfryw rai yn camgymeryd, oblegid mae cenedl y Cymry yn mynu cadw ei beiau bob amser yn noeth ac yn agored o flaen llygaid y byd. Mae yn cau ei llygaid rhag gweled ei rhinweddau, ond edrycha ar ei beiau gyda mwyadur. Os tueddir chwi i ameu yr haeriadau hyn, dangosaf i chwi y ffordd i symud yr amheuon ymaith. Siaradwch â'r dosbarth canol yn nghylch cymeriad y Cymry; gofynwch i'r Yswain a'r Offeiriad beth a dybiant hwy amdanom; crybwyllwch rywbeth yn ffafriol am y Cymry wrth y dosbarth sychfoneddig yn ein capelydd; neu ewch âg estron gyda chwi i wneyd ymofyniad yn ein cylch, a chwi gewch wybod yn dra buan, yn ol tystiolaeth y rhai hyn, nad oes dim da yn trigo yn Nghymru. Hwy a'n gosodant allan yn is ac yn waeth na phawb; ac os credech eu tystiolaeth amdanom, chwi gredwch nad oes yn anwn ei hun neb duach eu cymeriad na'r Cymry. Ac y mae yr arfer i'n henllibo mor hen ac mor gyffredin, nes y mae y bobl gyffredin yn Nghymru wedi myned i haner gredu fod rhyw ddrwg yn perthyn iddynt nad yw yn perthyn i neb arall.

Mae Cymry yn sarhau eu gwlad a'u cenedl mor fynych fel y gellid meddwl weithiau fod hunan-sarhâd yn reddf yn natur y Cymro. Anfonwch un o Gymro i gynrychioli rhyw gymdeithas Gymreig mewn cyfarfod o estroniaid,

a'r peth cyntaf a wnaiff, fydd archolli cymeriad y rhai a'i hanfonodd. Dyma ein cyfeillion y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig. Fel cyfundeb o grefyddwyr, maent yn wir anrhydeddus. Gweithiasant yn egnïol, a llwyddwyd hwy yn fawr. Maent wedi gwneyd eu hol ar Gymru. Byddai yn anhawdd iawn, os nad yn anmhosibl, nodi engraifft o unrhyw gorff o bobl mewn unrhyw wlad wedi gwneyd cymaint ag a wnaethant hwy mewn lleied o amser, ac yn ngwyneb cymaint o anhawsderau. Nid wyf yn Fethodist; er hyny, yr wyf fel Cymro yn falch o'r Methodistiaid. Maent yn gorff o grefyddwyr wedi hanu o'r genedl, ac fel un o'r genedl yr wyf yn eu mawrhau. Yn sicr yntau, dylai y Methodistiaid fod yn falch ohonynt eu hunain, a dylent adael i bawb wybod y gallant ddal eu pen i fyny. Ond edrychwch ar eu cynddrychiolydd yn Ysgotland. Gwrandewch beth sydd ganddo i'w ddyweyd. Mae wedi cael cyfleusdra rhagorol i ddyrchafu ei enwad a'i wlad, ac yr oedd ganddo enwad y gallasai anturio eu harddel, a dyweyd yn dda amdanynt. Buasech yn dysgwyl iddo fyned yno fel Methodist, a siarad fel un ohonynt, gan ystyried ei hunan yn gystal gŵr ag un Presbyteriad oedd yn ei gylch. Ond chwi gawsech eich siomi. Yr oedd arno gywilydd eu harddel, Dywedodd wrth y miloedd oedd yn ei wrando, mai ei arferiad ef oedd dyweyd yn Ffrainc ei fod yn perthyn fel crefyddwr i Bresbyteriaid Ysgotland, oblegid, meddai ef, nad oedd neb yn gwybod am y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig. Fel hyn chwi welwch iddo fyned yn gynddrychiolydd trostynt âg anwiredd ar ei dafod. Os na wyddent am y Methodistiaid yn Ffrainc, dylasai ef ddyweyd wrthynt. Yr un faint o drafferth fuasai iddo ddyweyd mai Methodist ydoedd a dyweyd mai Presbyterian ydoedd. Dylasai ddyweyd y gwir, beth bynag, a dylasai ofalu am anrhydedd y rhai a'i hanfonodd; ond collodd y cyfleusdra. Yr oedd ei sylwadau yn llawer mwy o warth i'w enwad nag o ddyrchafiad, ac y mae yn sicr i chwi fod yr Ysgotiaid yn ddigon llygadog i ganfod hyny. Pe buasai wedi myned yno yn unswydd i sarhau ei enwad, nid allasai ddefnyddio moddion mwy effeithiol i gyflawni hyny. Yr un pryd, mae yn sicr genyf fod y peth wedi cael ei wneyd yn anfwriadol, a hyny sydd yn fy nghadarnhau yn fy nhybiaeth fod y Cymry wedi arfer sarhau eu hunain mor hir, nes y mae hunan-sarhâd wedi myned bron yn reddf yn



Digitized by Google

eu natur. Edrychwch ar gynddrychiolwyr yr un enwad parchus yn myned i gyfarfod eu brodyr yn Llynlleifiad eto. Pan gawsant gyfleusdra i'w hanrhydeddu, eu sarhau a wnaethant. Baich eu hareithiau ydoedd, gobeithio y byddai undeb â'r Presbyteriaid yn foddion i ddyrchafu y weinidogaeth ac addysg yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd, ac yn foddion hefyd i gyflenwi eu pulpudau â phregethwyr Seisnig. Buasai rhywun heb fod yn Fethodist yn tybied, os oes rhywbeth yn fwy effeithiol na'i gilydd yn eu cyfundeb, mai y weinidogaeth yw y peth hwnw. Mae'r weinidogaeth Fethodistaidd wedi gwneyd yn Nghymru fwy nag a allodd Presbyteriaeth wneyd mewn unrhyw fan. Gallasem hefyd dybio fod corff o bobl mor lluosog a dysgedig ag yw y Methodistiaid yn gwbl alluog i lenwi eu pulpudau â phregethwyr Seisnig, pa bryd bynag y bydd eu hangen; o ganlyniad, buasem yn dysgwyl i gynddrychiolwyr yr enwad hwn gyfarfod y Presbyteriaid yn Llynlleifiad, a phob man arall, fel brodyr. Dylasent edrych arnynt eu hunain fel rhai cydradd. Gallasent ymddwyn fel rhai yn tybio fod yn gymaint anrhydedd i'r Presbyteriaid gael ymuno â hwy, ag yw iddynt hwythau gael ymuno â'r Presbyteriaid; ond na, rhaid iddynt gael myned yno fel cardotwyr. Y peth cyntaf a wnant ydyw diraddio eu henwad. Mae y weinidogaeth yn isel, ac addysg yn isel yn eu henwad, a rhaid cael y Presbyteriaid i'w codi a'u coethi. Mae y Methodistiaid wedi gallu gwneyd pethau mawr yn eu nerth eu hunain a'u Duw, a gŵyr pawb ŵyr rywbeth am y pwnc, eu bod yn eithaf galluog i wneyd yr hyn a berthyn iddynt yn y dyfodol. Ond anfonant gynddrychiolwyr i Lynlleifiad i ddyweyd wrth estroniaid fod eisieu cynorthwy y Presbyteriaid i gael gweinidogaeth Seisnig i'w pulpudau! Pa ryfedd fod ein cymydogion yn edrych yn fach arnom? Yr ydym yn eu dysgu i'n diystyru. Yr oedd yn anmhosibl i'r rhai a wrandawent ar y cynddrychiolwyr hyn, ac a'u credent, beidio â meddwl yn fach o'r Methodistiaid, a phob peth a berthynai iddynt. Tuedd uniongyrchol eu hareithiau ydoedd gwneyd i bawb gredu fod y Methodistiaid Calfinaidd yn annhraethol is mewn pobpeth na'r Presbyteriaid, ac o ganlyniad eu bod mewn angen mawr am eu cymhorth i'w codi i fyny. Hwyrach y gofynir, Beth yw hyn oll i mi? ac os gwneir, nid oes genyf ddim i'w wneyd ond ateb fod pobpeth sydd yn

Digitized by Google

perthyn i Gymru yn perthyn i mi; a pherthyn neu beidio i mi, mae yn perthyn i fy mhwnc, ac yn dangos fod rhyw ysfa ryfeddol ynom i sarhau ein hunain.

Mae yr ysfa yma i enllibio yn gryf iawn mewn ambell berson neu offeiriad yn yr Eglwys Wladol. Os dygwydd i'r offeiriad ddyfod i gyfarfod lle bydd naw cant nawdeg naw o Gymry, ac un Sais i'w gwneyd yn fil, os gofynir i'r offeiriad anerch y cyfarfod, mae braidd yn sicr o wneyd hyny yn Seisneg, a phrif bwnc ei anerchiad fydd enllibio cenedl y Cymry â'i holl egni, fel pe bae hyny yn fater bywyd iddo ef. Dechreua ei araeth Seisnig yn gyffredin trwy hysbysu yr un Sais, o dan yr esgus o anerch y Cymry, fod yr iaith Gymraeg yn sicr o farw—fod y ffordd haiarn yn sicr o'i lladd yn fuan iawn—ac na fydd neb yn ei siarad bron yn union ond yn rhai o gymoedd anghysbell ein gwlad. Os yw ein hen iaith anwyl i farw rywbryd, buasem yn dysgwyl i bob Cymro grybwyll am y dygwyddiad gyda gofid; ond y mae'r dosbarth yma o ddynion yn llawenhau yn yr olwg ar ei marwolaeth. Mae yn hawdd canfod eu bod yn cael gwledd i'w henaid wrth son am y peth. Ond mae rhywbeth hynod o annaturiol yn eu llawenydd, ac y mae yr olwg ar eu boddhâd yn awgrymu amryw feddyliau i mi o berthynas i'w casineb tuag at ein hiaith. Awgryma i mi mai pechod ein hiaith ydyw, fod y Cymry yn myned i'r Capel yn lle i'r Eglwys. Pe buasent yn dylifo i'r Eglwys fel y gwnant i'r Capelydd, mae yn sicr genyf y buasai llai o elyniaeth rhwng muriau y llan nag sydd yn erbyn eu hiaith. Awgryma hefyd fod y cyfeillion hyn yn tybied, ond i'r Cymry newid eu hiaith, y newidiant eu heglwys hefyd. Os nad ydynt yn dysgwyl i ryw gyfnewidiad o'r fath gymeryd lle, beth yw y brys mawr sydd arnynt am i'r Cymry fyned yn Seison? Mae yn ddigon tebygol fod rheswm yn eu dysgwyliad. Bryd bynag y gwelant ryw ymneillduwr yn myned yn ormod gŵr i fod yn Gymro, gwelant ef bron bob amser yn troi yn eglwyswr. Felly mae yn ddigon tebygol, pan dry y Cymry yn Seison, y troant hefyd yn eglwyswyr ar yr un pryd. Rhaid addef, o ganlyniad, os oes rhyw ddaioni mewn troi oddiwrth Ymneillduaeth at Eglwysyddiaeth, mai peth da hefyd fyddai i'r Cymry droi yn Seison mor fuan ag y gallont. Ond atolwg, beth yw yr achos fod y dynion hyn yn cyhoeddi yr haeriadau yma yn Seisneg wrth yr un Sais, yn lle wrth y canoedd Cymry fydd

Digitized by Google

yno yn gwrando? Ai eu dyben ydyw dangos i'r Sais y gallant siarad Seisneg? A ydynt yn meddwl yr enillant gymeradwyaeth y Sais wrth fradychu eu gwlad? Os ydynt, tybied yr wyf eu bod yn camgymeryd. Mae gormod o'r dyn yn y Sais i gymeradwyo bradychwr, er i hwnw fod mewn urddau. Da chwi, os rhaid i chwi gael cyhoeddi fod ein hiaith i farw; os oes rhyw les i ddeilliaw trwy gyhoeddi hyny; neu os ydych bob amser heb ddim arall i'w ddyweyd, dywedwch hyny wrth y Cymry eu hunain, yn lle gwneyd eich hunain a'ch gwlad yn ddirmygus yn ngolwg estroniaid. Chwithau Gymry, peidiwch â gwrando fel mulod ar ddynion sydd yn eich casau, yn eich enllibio wrth estroniaid o flaen eich gwyneb. Dangoswch eich annghymeradwyaeth ohonynt, oblegid yr ydych yn sarhau eich hunain wrth wrando ar unrhyw ddyn, waeth pwy fydd ef, yn eich enllibio. Wedi selio tynged yr iaith, y pwnc nesaf ddaw dan sylw yr areithiwr Parchedig fydd Llenyddiaeth y Cymry; neu, yn hytrach, yr amddifadrwydd ohoni; oblegid sicrhâ yn ddifrifol yn Seisneg wrth yr un Sais, nad oes gan y Cymry ddim llenyddiaeth oddigerth ychydig o farddoniaeth. Pa fodd y mae neb yn ei bwyll, a gofal ganddo am ei eirwiredd, yn gallu cyhoeddi y fath beth, nid wyf yn gwybod, oblegid ni chyhoeddwyd anwiredd mwy oddiar esgynlawr erioed. Mae gan y Cymry lenyddiaeth werthfawr, ond tra esgeulusedig. Mae llawer Cymro fel yr areithwyr hyn yn cau eu llygaid ar lenyddiaeth eu gwlad, ac yna fel plantos yn tybied nad yw yn bodoli. Llanwant eu llyfrgelloedd â sorod y Sais, a gadawant berlau eu gwlad eu hunain o'r tuallan. Mae y ffaith fod dynion yn gallu cyhoeddi y fath gableddau ar lenyddiaeth cenedl yn dangos eu bod wedi ei hesgeuluso, oblegid nid allai neb hyddysg ynddi feddwl am wneuthur haeriadau mor ddisail. Ac hyd yn nod pe buasai yn wir, gwir i'w ddyweyd wrth y Cymry eu hunain ydyw, ac nid wrth y Sais ddaeth ar ddamwain i'r cyfarfod i wrando. Gwneir areithiau y brodyr hyn i fyny, yn y cyffredin, o gyhuddiadau yn erbyn y Cymry. Yr wyf wedi nodi dau o'r cyhuddiadau yn barod, a dyma'r trydydd—Mewn canlyniad i'w Cymraeg, a'u hamddifadrwydd o lenyddiaeth, fod y Cymry yn anwybodus, yn annysgedig, ac yn anfoesol. Mae hyn yn ganlyniad naturiol i'r ail gyhuddiad; oblegid os yw yn wir fod y Cymry heb ddim llenyddiaeth, mae yn hawdd credu eu

Digitized by Google

bod yn anwybodus, yn annysgedig, ac yn anfoesol. Ond os yw yn wir, mae yn wir a ddylai beri i'r gŵr parchedig sydd yn ei gyhoeddi wrido at ei glustiau wrth wneyd hyny. Paham na wnai ef a'i frodyr eu dysgu a'u goleuo, a hwythau yn cael eu talu yn dda am wneyd hyny? Os ydynt heb lenyddiaeth, paham na wnaiff ef rywbeth tuag at gael llenyddiaeth iddynt? Ond pwnc y brawd ydyw cael y Cymry i fod yn Seison, ac oblegid hyny mae yn gosod allan mai anwybodus fydd y Cymry nes y dygir hwy o dan ddylanwad llenyddiaeth y Seison. Ac yn hyn eto mae yn hynod o anffodus; oblegid gŵyr, neu fe ddylai wybod, fod y llyfrau tebycaf o effeithio ar galon a moes y Cymry yn gyfieithedig i'r Gymraeg, ac yn cael eu darllen gan y Cymry. A ydyw y gŵr yn meddwl fod llyfr Seisnig yn alluog o fwy o ddylanwad ar galon Gymreig yn Seisneg nag a gai yr un llyfr yn Gymraeg? ynte meddwl y mae fod pawb ond ef ei hun yn ffyliaid? Mae amrywiaeth mawr ohonom yn y byd yma. Cyfarfyddais y dydd o'r blaen â gŵr yn Bangor Fawr yn Arfon, yr hwn a haerai y buasai y wybodaeth sydd gan y Cymry yn fwy yn Seisneg nag ydyw yn Gymraeg. Wedi llawer o siarad, dywedai,—"Yr wyf yn addef fod y Cymry yn darllen llawer yn Gymraeg, a'u bod yn gwybod llawn gymaint a neb o'r un dosbarth a hwy mewn unrhyw fan arall; ond yn Gymraeg y maent hwy yn gwybod y cwbl. Wyr y Seison ddim byd eu bod yn gwybod dim. A beth pe buasent yn gwybod cymaint yn Seisneg ag a wyddant yn Gymraeg, buasai son amdanynt yn mhob man." Yr oeddwn wedi ameu lawer tro fod dynion i'w cael yn tybio nad yw gwybodaeth ddim yn wybodaeth, na dysg ddim yn ddysg yn Gymraeg; mewn geiriau ereill, nad oes dim gwybodaeth na dysg ond yn Seisneg. Cadarnhäwyd fy amheuaeth pan gyfarfyddais â'r brawd yn Bangor. Er mwyn bod yn sicr o fy mhwnc, rhoddais iddo amryw ofyniadau, ac yn eu mysg y canlynol:—"A ydych chwi yn meddwl y buasai gwybodaeth pobl y chwareli, er engraifft, yn fwy yn Seisneg, heb chwanegu dim ati, nag ydyw yn awr yn Gymraeg?" "Wrth gwrs," atebai yntau, "buasai yn fwy o lawer, oblegid buasai y Seison yn gallu gwybod eu bod yn rhai gwybodus." Tyned y darllenydd ei gasgliad ei hunan oddiwrth y wybodaeth newydd hon. Rhag i neb dybied mai rhyw greadur diddysg a difenydd oedd y gŵr, sicrhâf iddynt yma ei fod, yn ol pob ym-

Digitized by Google

ddangosiad, yn ddyn call—mae wedi ei addysgu yn dda—mae yn Sais da ac yn Gymro da o ran iaith, a gallai basio am ŵr boneddig mewn unrhyw fan. Ond at hyn yr oeddwn yn cyfeirio—Nid yw syniadau y gŵr hwn ddim yn fwy ynfyd na haeriadau yr enllibwyr parchedig sydd yn dyweyd fod y Cymry yn anwybodus am eu bod yn siarad ac yn darllen Cymraeg. Ond yr hyn sydd yn gwneyd cyhuddiadau y brodyr hyn yn enllib ar Gymru ydyw, fod y cyhuddiadau yn anwiredd. O'u cymharu âg ereill o'r un dosbarth â hwy, nid yw y Cymry yn anwybodus, yn annysgedig, nac yn anfoesol. Beth bynag yw ffaeleddau y Cymry, nid ydynt, a dyweyd y lleiaf, ddim amlach na dim mwy nag eiddo eu cymydogion o'r un dosbarth a hwy.

Mae ambell fachgen o Gymro, ar ol cael dysgeidiaeth dda ar draul ei wlad ei hun, yn rhoi ei wasanaeth i'r Seison. Nid yw Cymru yn cwyno dim oblegid hyny; oherwydd, trwy drugaredd, mae ei bechgyn talentog mor lluosog, fel y gall, ar ol diwallu ei hangenion ei hunan, hebgor llawer ohonynt i'r Seison. Pan wêl hi rai o'i phlant yn enill bri gyda r Seison, mae yn llawenhau yn eu llwyddiant; ond mor anniolchgar yw llawer ohonynt i'r wlad a'u magodd! Esgeulusant eu gwlad eu hun yn llwyr. Nid oes na llyfr na newyddiadur Cymreig yn cael dyfod yn agos atynt. Annghofiant fod y fath beth a llenyddiaeth Gymreig mewn bod. Heneiddiant yn eu gwasanaeth gyda'r Seison; ond peth grymus iawn yw henaint at adfywio gwladgarwch. Mae yr hen ddaear yn tynu pawb ati ei hunan tua'r diwedd. Hoffai braidd i bawb gael myned i'w bro enedigol i gael eu claddu. Felly yntau; ar ol i'w wallt wynu, daw ar dro i Gymru. Caiff groesaw ganddi; a chroesaw Cymru ydyw gofyn iddo roi anerchiad iddi. Mae yntau ar ei draed yn y fan, a rhywbeth fel hyn fydd cynwys ei araeth:—"Ffyliaid ydych chwi i gyd, a ffyliaid fyddwch chwi nes y trowch yn Seison. Nid oes genych yr un Shakespeare na Milton. Rhai tlawd ac isel ydych chwi—cymynwyr coed a gwehynwyr dwfr; a rhai felly fyddwch chwi tra daliwch chwi i siarad Cymraeg." Mae y dyn yn siarad fel pe bae yn meddwl fod y Cymry heb weled, na chlywed, na meddwl dim er y dydd y troes ef ei gefn arnynt, ac fel pe bae yn meddwl nad allant wybod dim nes yr ânt fel yntau yn Sais. Ac nid oes ynwyf ddim petrusder i haeru fod siarad

Digitized by Google

fel hyn yn enllib cyhoeddus ar genedl y Cymry. A beth yw y sylw ffol yn nghylch Shakespeare a Milton a glywir beunydd gan y dosbarth yma? Gellir gwneyd yr un sylw am bob cenedl arall, cystal a'r Cymry. Gellir ei gymhwyso at Ysgotland, yr Iwerddon, Ffrainc, Germany, America, a phob gwlad arall. Y gwir yw, nid oes gan neb mohonynt ond y Seison. Ond er nad oes genym Shakespeare na Milton, mae genym rai ereill a ddylasent fod yr un mor enwog a hwythau. Mae gyda ni Dafydd ab Gwilym, a llawer ereill, ac nid oes gan y Seison na neb arall mohonynt hwythau. A dyma ddylem ni wneyd, nid dangos ein bod heb Shakespeare a Milton, ond yn hytrach dangos fod genym ninau rai mor deilwng a hwythau o enwogrwydd. Ac am y sylw arall, yn nghylch cymynu coed a gwehynu dwfr, mae yn hwyr glas iddo gael ei gladdu. Mae wedi marw er ys blynyddoedd. Mae ei ysgerbwd yn drewi lle bynag y dygir ef. Ynfydrwydd i gyd ydyw. Mae llawer o Gymry yn cymynu coed ac yn gwehynu dwfr, mae yn wir; ond y mae yn wir am y Seison hefyd. Mae cynifer o'r Seison, ar gyfartaledd, ag sydd o'r Cymry, yn gorfod gweithio i gael bwyd. A phe bae y Cymry yn colli eu Cymraeg i gyd, ac yn troi yn Seison megys ar unwaith, byddai raid iddynt gymynu coed a gwehynu dwfr wedi hyny fel yn awr. Byddai eisieu y crydd a'r teiliwr, y saer coed a'r saer maen, yr hwsmon a'r chwarelwr wedi hyny fel yn awr. Ac yr wyf yn methu â gweled y byddai ddim yn hawddach gwneyd esgid na chôb yn Seisneg mwy nag yw eu gwneyd yn Gymraeg. Da chwi, pan ddeuwch ar dro i ymweled â ni, a chael ohonoch gyfle i siarad, dywedwch synwyr wrthym, neu beidiwch â dyweyd dim.

Mae dylanwad golud ar ambell fenydd yn ddirfawr. Rhowch dipyn o ddysg i'r bachgen; gadewch iddo gael masnach fach, ac ychydig arian yn ei logell; cymered y gŵr boneddig sylw ohono, a galwed gwraig yr Yswain yn ei faeldy unwaith mewn pum mlynedd, a dyma fel y siarada wedi hyny ar hyd ei oes:—"Mae yr iaith Gymraeg yn ein melldithio ni. Mae Ysgotiaid mewn sefyllfaoedd da yn mhob man, a'r Cymry yn weision o danynt; a hyny i gyd am eu bod yn siarad Cymraeg. Ac os ydym am fod yn rhywbeth heblaw llafurwyr, rhaid i ni droi yn Seison, a pheidio â bod yn Gymry." Pa bryd bynag y clywaf y bodau hyn yn siarad—ac y mae hyny yn dy-

Digitized by Google

gwydd yn llawer rhy aml—dechreua fy nghalon lefaru fel hyn yn y fan:—Druan ohonot ti: os yw y Gymraeg yn rhwystr i'r Cymry godi, sut y codaist ti, was? Os wyt ti wedi gallu codi—ac y mae dy olwg a dy siarad yn rhoi ar ddeall i ni dy fod—yn sicr, mae dyrchafiad yn bosibl i'r gwanaf ei ddeall yn Nghymru mwy. Yr wyf yn aml yn meddwl fod yr angenrheidrwydd sydd ar lawer i ddysgu Seisneg yn brif ffynonell i'w llwyddiant. Yr orfodaeth yma, mewn ystyr, sydd wedi agor eu deall, a rhoi goleu yn eu llygaid i weled eu llwybr yn y blaen. Mae rhai yn Nghymru y dyddiau hyn yn esgeuluso dysgu Cymraeg i'w plant, gan feddwl y gwnant yn well hebddi; ond hwy gânt eu siomi. Mae Rhagluniaeth Duw yn mhob gwlad yn bendithio gwladgarwyr. Pwy bynag gaiff gyfle i weled, a welant y bechgyn Cymreig yn myned rhagddynt mewn gwybodaeth, mewn dysg, ac mewn sefyllfa, gan adael y Cymry Seisnig unieithog yn ddigon pell ar ol. Mae chwaneg o gyfleusderau dyrchafiad i'r hwn sydd yn gallu Seisneg gyda'i Gymraeg, rhaid cydnabod; ond mae chwaneg hefyd i'r hwn sydd yn gallu Cymraeg gyda'i Seisneg. Byddai yn golled i'r plant ar lawer ystyr fod heb Gymraeg; ac y mae elw arianol yn un ohonynt. Mae helynt mawr ar lawer o'r Cymry am gael myned yn Seison; ond pa beth a gaent gyda Seisneg nad yw ganddynt yn awr, Duw a ŵyr. Helynt mawr oedd ar yr Iuddewon am gael brenin i'w llywodraethu, fel y cenedloedd. Fe gawsant frenin yn ol eu dymuniad; ond brenin mewn barn ydoedd. Mae y Nefoedd wedi bendithio Cymru yn helaeth trwy gyfrwng y Gymraeg; er hyny, myn llawer ohonom ddyweyd fod yr iaith yn felldith i ni. Eu hawydd am fod yn Seison yw yr achos o hyny. Hwyrach y caiff Cymru Seisneg yn lle y Gymraeg ryw bryd; ond os cânt hi, hwy a'i cânt mewn barn, a gwae i'r genedl fydd gweled y dydd. Mae enw drwg yn byw yn hir iawn. Gall cenedl gael ei chyhuddo o bechod neillduol am oesau ar ol iddi ddiwygio oddiwrth y pechod: ac o'r ochr arall, mae yn bosibl i genedl gael clod am ryw rinwedd yn mhen oesau ar ol iddi ei golli. Mae cymeriad fel hyn, da neu ddrwg, yn byw yn hir iawn. Mae yn bosibl fod adeg wedi bod pan oedd ychydig iawn o Gymry yn dal sefyllfaoedd o ddylanwad ac ymddiried; ond y mae yn sicr nad yw yn bodoli yn awr. Mae ein cydgenedl wrth y miloedd yn dal sefyllfaoedd o ymddiried,

Digitized by Google

nid yn unig yn Nghymru, ond yn mhrif drefydd a gweithfeydd Lloegr, ac y mae lluaws mawr ohonynt yn brif fasnachwyr yn nghanol prif fasnachwyr Lloegr. Pe gellid cael ystadegau ar y peth, mae yn hyderus genyf y dangosent fod cynifer o'r Cymry, ar gyfartaledd, ag sydd o'r Seison neu yr Ysgotiaid, yn dal sefyllfaoedd o ymddiried yn ein gwlad, a chymeryd yr ynys i gyd i mewn i'r cyfrif. Mewn sefyllfaoedd o dan y llywodraeth mae mwy o Ysgotiaid o lawer nag sydd o Gymry; ond nid yw hyny yn profi nemawr ddim ond fod yr Ysgotiaid yn fwy cardotaidd na'r Cymry. Mae gormod o grefu yn angenrheidiol i gael y swyddau hyn i'w gwneyd yn dderbyniol gan y Cymry; a hyny sydd yn un achos fod can lleied o'r Cymry yn eu ceisio. Mae rheswm arall hefyd, a dyma fe:—Mae gwŷr mawr Ysgotland yn arddel eu cenedl, ac yn gwneyd eu goreu trostynt; ond y mae gwŷr mawr Cymru yn esgeuluso ac yn gwadu eu cenedl. Lle bynag y mae Ysgotiad yn myned, mae yn gofalu hyd y mae ynddo am rai o'i frodyr gydag ef. Os daw un ohonynt i Gymru, a chael swydd o awdurdod, mae yn sicr o roi y sefyllfaoedd goreu, hyd y gall, i Ysgotiaid. Yr un modd y gweithredai y Seison hefyd. Ond estron yn gyntaf i'r Cymro, a'r Cymro yn olaf o bawb. Hyd yn nod yn Nghymru, mae ein boneddigion yn rhoi y sefyllfaoedd goreu i estroniaid, nid am fod estroniaid yn fwy cymhwys, ond am fod y Cymry yn mhob man â'u holl egni yn sarhau eu cenedl eu hun. Mae yr Ysgotiaid yn wladgarwyr. Ymfalchïant yn eu perthynas â'u gwlad a'u cenedl. Lle bynag y byddant, gofalant i bawb gael gwybod mai Ysgotiaid ydynt. Nid oes yr un berthynas yn rhy bell iddynt ei harddel. Ond ar lawer o ystyriaethau, mae y Cymry yn *wladgaswyr*. Mae ar lawer ohonynt gywilydd arddel eu perthynas â'u gwlad. Os gallant guddio eu cenedl, hwy wnant hyny. Os bydd ganddynt enwau lled Gymreig, hwy a wnant eu goreu i'w dyeithrio, rhag i'w henwau eu bradychu. Fel hyn, tra mae gwladgarwch Ysgotiaid yn gwneyd iddynt yn mhob man anrhydeddu eu gwlad, mae *gwladgaswch* y Cymry yn ysbeilio ein gwlad o lawer iawn o anrhydedd ag sydd yn perthyn iddi.

Gwaith hoff iawn gan enllibwyr ein gwlad ydyw canmol y Seison am y peth hyn a'r peth arall. Nid oes genyf ddim yn erbyn canmol y Sais pan y mae yn teilyngu clod. Dyweded pawb yn dda amdano. Ffyned

Digitized by Google

brawdgarwch rhwng y Sais a'r Cymro hyd byth. Ond yr wyf yn erbyn troi canmoliaeth y Seison yn annghlod i'r Cymry; ac yr wyf hefyd yn erbyn canmol Sais mwy na Chymro am bethau nad ydynt yn teilyngu canmoliaeth. Mae ambell Gymro yn barod i syrthio i lawr o flaen Sais, a'i addoli, am ei fod yn gwario arian yn Nghymru mewn mŵnau a chwareli. Mae yn haeddianol o barch am hyn fel rhyw fasnachwr arall, ond nid ei ganmol. Nid i Gymru yn unig yr aiff y Seison; hwy ymwasgarant ar hyd yr holl fyd braidd i chwilio am leoedd manteisiol i wneyd arian, i edrych am fargeinion. Raid i chwi ddim diolch am arian y Seison yn Nghymru, oni buasent yn dysgwyl cael mwy allan ohoni nag a ddygent iddi. Ei logell ei hun sydd ganddo mewn golwg. Yr awydd i gael y cwbl iddo ei hun sydd yn ei dynu yma, fel i bob man arall. A phe bae yn bosibl iddo wneyd arian o'ch crwyn chwi, fel o'ch mŵnau, fe wnai hyny yn ddigon digyffro: ac nid wyf yn ameu na ro'i rhai ohonoch addoliad iddo am wneyd. Os rhaid i chwi gael canmol y Sais am fasnachu mewn anturiaethau, byddwch yn gyson, a rhowch glod i bob masnachwr yn ol eu teilyngdod, fel eu gilydd. Pan weloch chwi siopwr yn edrych am y siop oreu i wneyd masnach ac arian iddo ei hun, cyhoeddwch ei glod yn bell ac agos. Pan ddaw porthwr i ffair neu farchnad, a llon'd ei logell o arian i brynu moch, gwnewch dysteb gyhoeddus o barch iddo am hyny, a gwnewch fel hyn i bawb, neu ynte peidiwch â son am ganmol y Seison am ddyfod i'n gwlad i geisio gwneyd arian i'w llogellau eu hunain. Sylw a glywir gan rai ydyw, na buasai y peth hwn a'r peth arall yn Nghymru ddim yn bodoli oni buasai anturiaeth y Seison; ond y mae hyny yn bell oddiwrth fod yn sicr. Gall fod yn wir, a gall nad yw. Ond dyma beth sydd yn sicr—fuasai yr anturiaethau yn Nghymru ddim wedi cymeryd lle heb fod Cymru yn bodoli yn gyntaf.

Nid yw enllibwyr ein gwlad braidd byth yn son am ddim ond am feiau y Cymry. Nid oes dim a berthyn i'r Cymro yn iawn. Soniwch am enw'r Cymro, ac y mae yr enllibwr yn crychu ei drwyn yn y fan, fel pe bae yn arogli baw. Yn ol ei dystiolaeth ef, nid oes dim drwg nad yw y Cymro yn euog ohono. Gwyddom am greadur sydd wrth ei natur yn ymhyfrydu mewn budreddi. Pan welwn ef yn y domen yn gorwedd neu yn tirio, nid ydym yn synu, oblegid dyna ei natur; ond beth sydd yn achosi

Digitized by Google

i'r enllibwr ymhyfrydu cymaint yn ngwendidau ei genedl? A ydyw bai yn fwy swynol iddo na rhinwedd? Os nad yw, er mwyn cysondeb a rheswm, sonied weithiau am rinweddau y Cymry; oblegid y mae rhinweddau yn perthyn iddynt, er cymaint yw ymdrech rhai i'w cuddio o'r golwg. Mae diffygion yn perthyn i ni, mae yn wir; ond nid mwy nag sydd yn perthyn i ryw genedl arall; ac nid y ffordd i'n diwygio ydyw taflu ein beiau byth a hefyd i'n gwynebau. Os ewch i daflu diffygion dyn yn ddibaid i'w wyneb, chwi a wnewch ei adferiad yn beth anmhosibl. Gwell ffordd ydyw canmol tipyn arno yn awr ac yn y man, a dangos iddo ffordd fwy rhagorol, a'i gymhell yn garedig i rodio ar hyd-ddi. Wneir dim lles i Gymru wrth ei baeddu yn ddibaid. Os ydych am i'n gwlad fod yn enwog mewn pob daioni, magwch hunan-hyder yn y Cymry, cenedlwch ynddynt awydd am ragoriaeth, a gwnewch hyny trwy ddangos iddynt fod rhagoriaeth yn eu cyraedd, yn lle tori eu calon trwy ddangos yn barhaus mor bell ydynt oddiwrtho. Ond waeth tewi, mae y Cymry yn rhy dda i gael eu canmol gan ryw ddosbarth o bobl. Pe cefnogent y campau gwladaidd; pe deuent wrth y miloedd i weled ceffylau yn rhedeg; pe gwnaent fwy o gynhwrf mewn ffair a marchnad; pe codent chwareudy yn mhob tref, a dawns-gyngherddau yn mhob pentref; pe halogent y Sabboth, trwy fyned i rodiana neu rywbeth yn lle myned i'r capel; mewn gair, pe byddent yn byw fel y Seison—ffwrdd â hi—fe gaent lonydd, ac hwyrach eu canmol; ond gan eu bod yn dewis byw fel cenedl o grefyddwyr i raddau pell, rhaid iddynt oddef cael eu henllibio gan rai sydd yn llawer gwaeth na'r mwyrif ohonynt hwy.

Ond mewn difrif, gydwladwyr, a ydyw ddim yn bryd rhoddi taw ar dafodau yr enllibwyr hyn? Tybied yr wyf ei bod yn bryd, ac yn hen bryd. Mae yr enllibio parhaus yma ar ein gwlad a'n cenedl yn effeithio yn niweidiol ddwy ffordd. Mae yn achosi i'r Cymry golli hyder ynddynt eu hunain. Trwy glywed eu beiau byth a hefyd yn cael eu cyhoeddi, ânt i dybied nad oes dim ond beiau yn perthyn iddynt, ac o radd i radd, deuant i ymfoddloni yn eu beiau. Mae yn anmhosibl i genedl byth ragori heb feddu ffydd ynddi ei hun, ac y mae ffydd a hyder yn anmhosibl lle mae ymwybodolrwydd o lawer o ddiffygion. Ond gwaeth na hyna eto: mae yr enllibio parhaus yma

Digitized by Google

yn dysgu estroniaid i'n casau a'n diystyru. Bûm yn synu lawer gwaith paham y mae llawer o Seison yn meddwl lleied o'r Cymry, ac mor barod i'w dirmygu; ond nid wyf yn synu mwy. Mae clust y Sais gan yr enllibwyr, ac nid yw yn clywed dim am y Cymry ond drwg: o ganlyniad, mae yn anmhosibl i'r Sais ein caru na'n hanrhydeddu heb wneyd cam â'i gydwybod ei hun. Mae y Cymry yn ei ddysgu i'n ffieiddio; a rhaid i'r Cymry eu hunain gyfnewid yn eu hysbryd a'u hymddygiadau cyn y bydd yn bosibl i estroniaid eu parchu, yn ol eu dymuniad. Rhoddwn ben ar yr enllibio; peidiwn â gwrando ar enllib mewn cyfeillach nac mewn cyfarfod cyhoeddus. Benthyciwn ddalen o lyfr y Sais, a hysiwn bob enllibwr mewn gwaradwydd i lawr. Cadwn enwau yr enllibwyr yn fyw. Mae yn drosedd ar genedl wênu ar ddyn a geisiodd ei llofruddio. Mae parchu enllibwyr yn magu enllibwyr. Mae yn warth ar Gymru fod arwyr y Llyfrau Gleision yn gallu dangos eu gwynebau mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ein gwlad. Os ydych am gael gwaredigaeth rhag enllib, dirmygwch yr enllibwr, cadwch ei enw yn fyw, a gwnewch ei goffadwriaeth yn ddrewdod, er rhybudd ac addysg i'r oesau a ddêl.

---

## YR ANGENRHEIDRWYDD O RODDI ADDYSG GYFFREDINOL I FERCHED IEUAINC.

NID ydym yn meddwl y cyfeiliornem, pe dywedem fod mwy o ddyddordeb yn y merched ieuainc nag mewn un dosbarth arall o'r gymdeithas ddynol. Maent fel pe byddent yn ganolbwynt attyniad, oblegid y mae llygaid y byd yn gyfeiriedig atynt. Nid oes neb o gyraedd eu dylanwad. Y boneddwr yn ei balas, fel y tlawd yn ei fwthyn, a swynir ganddynt. Cynhyrfant serch y dysgedig yr un fath a'r anllythyrenog. Mae awen beirdd enwocaf y byd, yn mhob oes a gwlad, wedi gosod eu holl alluoedd ar waith i'w canmawl, ac i dynu darluniadau ohonynt; ac y mae athronyddion a doethion y ddaear wedi talu yn ewyllysgar deyrnged o barch i'w rhagoriaethau. Ond hyn sydd yn alarus i feddwl amdano, wedi y cwbl, er mor llawn ydynt o swynion a dyddordeb, nid

yw addysg a diwylliant meddwl yr un dosbarth yn cael ei esgeuluso gymaint a'r eiddynt hwy. Ymddygir yn rhy gyffredin tuag atynt fel pe na byddai arnynt angen am addysg, ïe, fel pe nad allent dderbyn un llesâd na budd trwyddo. Mae eithriadau i'w cael, mae yn wir. Ceir rhyw nifer fechan i addef fod addysg yn dda ac angenrheidiol, hyd yn nod i'r merched ieuainc; ond deg i un, wedi y cwbl, na bydd yr oll ohono yn gynwysedig mewn dysgu darllen ac ysgrifenu. Ni freuddwydir byth gan y lluaws o rieni yn Nghymru am eu hyfforddi mewn cymaint ag un o gangenau gwybodaeth. Tra y treulir arian lawer ar addysg y bechgyn, gadewir, yn ddigon mynych, i feddyliau y genethod dyfu fel anialwch. Nid allwn chwaith ddysgwyl y bydd i un cyfnewidiad gymeryd lle gyda golwg ar hyn, hyd nes y cyfnewidir, yn gyntaf, deimladau a syniadau y wlad yn drwyadl ar y pwnc: oblegid y mae yn amlwg fod y wlad, bron yn gyffredinol, heb ddyfod i weled, ac o ganlyniad, heb ddyfod i deimlo yr angenrheidrwydd o roddi addysg gyffredinol i'r merched ieuainc.

Beth, tybed, yw yr achos o'r esgeulusdod hwn? Pa fodd y rhoddir cyfrif amdano? Gadawer i'r pethau canlynol weini fel atebion:—

Mae meddyliau y cyffredin yn llawn o gamsyniadau niweidiol am alluoedd a chymhwysderau meddyliol y menywod. Ystyrir hwynt islaw y meibion, nid yn unig mewn nerth corfforol, ond hefyd mewn galluoedd eneidiol; ac y mae y camsyniad yma wedi gwreiddio mor ddwfn, nes y mae y wlad wedi ei llenwi âg ymadroddion diarebol yn gosod allan yr israddoldeb dychymygol hwn. Mor gyffredinol mae y camsyniad wedi myned, nes y mae y merched eu hunain wedi ei goleddu, ac y mae rhai ohonynt yn ddigon gwresog i ddadleu o blaid ei gywirdeb. Ond yr ydym yn meddwl fod yn ddigon hawdd profi, er hyny, fod y merched, o ran eu galluoedd meddyliol, yn gyfuwch a'r meibion. Dywedir yn yr ysgrythyr, mae yn wir, mai y "llestr gwanaf" ydynt. Mae hyny yn wir mor bell ag y cyfeiria at y corff; a hyny, yn ddiddadl, oedd gan yr apostol mewn golwg: ond nid yw hyn yn un sarhâd arnynt, nac yn tybied chwaith eu bod yn wanach mewn dealltwriaeth. Nid y dynion mwyaf cawraidd o ran eu cyrff yw y rhai sydd â'r galluoedd meddyliol mwyaf, yn gyffredin. Hwyrach mai anfynych, mewn cymhariaeth, y mae corff mawr a meddwl mawr yn cyd-

Digitized by Google

gyfarfod yn yr un person. Oferedd, fel rheol gyffredin, fuasai rhoddi corff cawraidd i ferch; oblegid nid yw ei dyledswyddau fel gwraig a mam, fel angeledd gymhwys i ddyn, yn gofyn amdano. Nid yw y ffaith ei bod y llestr gwanaf o ran ei chorff yn un prawf ei bod yn wanach ei galluoedd meddyliol.

Gellir dwyn amrywiol resymau yn mlaen i brofi cydraddoldeb y merched, o ran galluoedd eneidiol, â'r dynion. Mae genym hanes creadigaeth y wraig gyntaf, ac nid oes yn yr hanes hwn gysgod o sail i dybied mai yn un israddol y gwnaed hi; ond yn hytrach, y mae yr holl hanes yn tybied i'r gwrthwyneb. Nid ellir canfod un gwahaniaeth rhwng galluoedd y genethod a'r bechgyn yn nhymor eu plentyndod. Mae y genethod yn dysgu darllen, ysgrifenu, rhifo, ac unrhyw beth arall, mor rwydd a'r bechgyn. Mae eu hamgyffredion mor gyflym, a'u deall mor dreiddgar, a'r eiddynt hwythau. Pa fodd y gallai hyn fod, oni bae eu bod yn gydradd â hwy mewn galluoedd? Ac os oes unrhyw wahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd wedi tyfu i oedran, rhaid ei fod i'w briodoli i fanteision y naill, a diffyg manteision y lleill. Nid oes un gangen o wybodaeth nad yw wedi cael ei meistroli gan fenywod. Mewn barddoniaith a rhyddiaith, gwnaed cyfansoddiadau ganddynt nad ellir cael eu gwell gan neb. Pwy allasai ddyweyd mai menyw ydoedd awdures "Caban F' Ewythr Tomos," oni buasai i'r ffaith o hyny gael ei hysbysu? Ie, pwy a allasai gyfansoddi ei rhagorach? Ac nid ydyw hon yn rhyw un engraifft unigol, oblegid y mae cyflawnder ohonynt i'w cael yn mhlith pob cenedl wareiddiedig, o'r bron. Yn holl gangenau gwybodaeth, y mae miloedd ohonynt wedi rhagori. Nid allent fod yn angeledd gymhwys i ddyn, heb fod yn gydradd âg ef. Mae yn sarhâd ar ddoethineb y Creawdwr da a doeth dybied iddo wneyd y wraig, ar yr hon y mae cymaint o gysuron a dedwyddwch y mab yn ymddibynu, yn israddol iddo. Mae gwraig i fod i ddyn, nid yn unig yn forwyn i wasanaethu i'w angenrheidiau allanol, ond hefyd yn gydymaith iddo o ran ei ddeall, i ddal cyfeillach resymol âg ef, a bod yn gynghorwr a chynorthwyydd iddo yn ei holl amgylchiadau. Ond nid allai fod felly, pe yn israddol iddo o ran ei galluoedd meddyliol. Os dywedir fod llawer o feibion yn rhagori ar y merched mewn gwybodaeth a dysgeidiaeth, dywedwn ninau fod llawer o ferched yn rhagori ar feib-

Digitized by Google

ion hefyd. Gall pob un alw i gof chwiorydd callach a mwy gwybodus na'u brodyr; a gwragedd yr un modd, na'u gwŷr. Os dywedir, drachefn, fod y cyffredin o wrywaid uwchlaw y cyffredin o fenywod mewn deall ac enwogrwydd, dywedwn ninau fod yn hawdd rhoddi cyfrif am hyny;—yn gyffredin, mae y bechgyn yn cael llawer mwy o fanteision gwybodaeth na'r genethod. Twyllwyd y menywod, trwy hudoliaeth barn y cyffredin, i feddwl nad yw gwybodaeth yn perthyn ond y nesaf peth i ddim iddynt hwy. Yr athrofeydd a'r prifysgolion ag ydynt yn agored i'r dynion, ydynt yn gauedig rhagddynt hwy. Nid oes, chwaith, gynifer o gymhellion i'w symbylu hwy yn mlaen a'r dynion. Mae teitlau, gwybrwyon, a swyddi o anrhydedd, yn symbylu y gwŷr ieuainc i ddiwydrwydd; ond nid oes yr un ohonynt i symbylu y merched. Heblaw hyny, y mae chwaneg o rwystrau ac anfanteision, yn gyffredin, ar ffordd y merched na'r meibion i chwilio am wybodaeth. Yn mhlith y dosbarth isel, nid yw y forwyn yn cael dim amser bron i feddwl am wybodaeth, heb son am amser i chwilio amdani fel am drysorau cuddiedig. Ond nid oes un llanc, pa mor gaeth bynag ei sefyllfa, ac y mae yn gyffredin yn llawer rhy gaeth, yn enwedig yn y wlad, nad yw yn cael peth amser i ddiwyllio ei feddwl, os bydd ganddo duedd at hyny. Mae ganddynt, yn gyffredin, hefyd, lai o arian i brynu llyfrau; ac heb lyfrau, nid ellir gwneyd fawr ohoni mewn hunan-ddiwylliant. Ond efallai mai y rhwystr penaf ydyw y gwarth a'r dirmyg a deflir yn barhaus ar fenywod gwybodus a dysgedig. Gelwir hwynt gan ein cymydogion, "*The blue stocking.*" Osgöir eu cyfeillach, yn dra chyffredin, gan y llanciau, am eu bod, o bosibl, yn arswydo wrth feddwl am fenyw fwy gwybodus a challach na hwy eu hunain. Nid rhyfedd, gan hyny, wrth ystyried y camsyniadau, yr esgeulusdod, a'r anfanteision hyn, fod y merched ar ol y dynion mewn dysgeidiaeth a gwybodaeth; ac nid ellir dysgwyl iddynt fod yn amgen, hyd oni cheir diwygiad trwyadl a chyffredinol. Ond rhodder iddynt yr un manteision a chymhellion ag i'r meibion, a cheir gweled yn dra buan eu bod mor alluog i ragori mewn unrhyw wybodaeth a hwythau.

Peth arall sydd yn rhwystr yw, y dybiaeth yn meddyliau y cyffredin nad oes ar y merched angen am addysg gyffredinol, ac nad allai fod o nemawr lesâd iddynt. Ond

Digitized by Google

yr ydym yn hyderu y llwyddwn i ddangos yn eglur ac argyhoeddiadol fod yr angenrheidrwydd mwyaf i roddi addysg gyffredinol i'r merched ieuainc, ac y deilliai y budd mwyaf o hyny. Addefir gan bawb yn bresenol fod addysg mewn darllenyddiaeth ac ysgrifenyddiaeth yn angenrheidiol a buddiol iddynt. Ond y mae addysg gyffredinol yn eangach ei therfynau na hyny: mae yn cynwys hyfforddiad mewn rhifyddiaeth, gramadegiaeth, ieithyddiaeth, hanesiaeth yn ei gwahanol ranau, daearyddiaeth, daeareg (*geology*), seryddiaeth, gwiadyddiaeth, athroniaeth yn ei gwahanol ddosbarthiadau, celfyddydau teuluaidd, a duwinyddiaeth yn nglŷn wrth y cwbl, a lluaws o bethau ereill na chaniatâ ein terfynau i ni fanylu arnynt, nac hyd yn nod eu henwi. Nid ydym yn meddwl fod yn angenrheidiol, nac yn bosibl, i bob merch, mwy nag i bob mab, ddysgu yr oll o'r pethau hyn i berffeithrwydd; mae y maes yn rhy eang, ei drysorau yn rhy amrywiol, ac amser a moddion yn annigonol, i ganiatau hyny. Mae un neu ddau ohonynt yn ddigon o dasg i'r dynion mwyaf eu talentau a'u hathrylith, i wneyd cyfiawnder â hwynt mewn oes. Er hyny, fe ddylai y llen gael ei thynu oddiarnynt, fel y gallo pob un gael cipolwg, o leiaf, ar eu cynwysiad.

Ond a oes angenrheidrwydd ar y merched ieuainc am addysg gyffredinol o'r fath a ddarluniwyd? Atebwn, yn gadarnhaol, ac yn y modd mwyaf penderfynol, Oes! Ac er mwyn eglurdeb a rhwyddineb i gofio, ni a ddosbarthwn y prawfiadau yn fân sylwadau, yn y modd canlynol:

1. Mae addysg gyffredinol yn angenrheidiol iddynt er eu galluogi i fwynhau llawer o gysuron darparedig ar eu cyfer. Mae maesydd llenyddiaeth yn llwythog gan aeron pêr ac addfed. Ar fyrddau barddoniaeth a rhyddiaeth, mae cyflawnder o ddanteithion yn barotöedig, ac y mae miloedd yn ymborthi arnynt. Yma y cânt adfywiad i'w hysbrydoedd cystuddiedig, a balm i'w doluriau poenus. Ond mae y cwbl ohonynt yn ofer i'r anwybodus a'r diddysg. Nid oes ganddynt olwg i weled eu prydferthwch, nac archwaeth i brofi eu melysder; ac O! y fath golled a gânt! y fath drysorau a danteithion annghymharol a gollant yn feunyddiol! a hyny yn unig o ddiffyg addysg. Yn natur, drachefn, mae ffynonellau mwyniant yn afrifed. Mae hyd yn nod y glaswelltyn, ïe, y tywodyn mwyaf distadl, yn cynwys defnyddiau gwledd i enaid y deallgar.

Digitized by Google

Mae rhywbeth mwy ynddynt ac arnynt nag a ellir ganfod â'r llygaid o gnawd. Mae doethineb, gallu, a daioni Duw yn argraffedig mewn llythyrenau annileadwy ar bob un ohonynt. Mae pob gwrthddrych yn llawn o ryfeddodau, ac y maent oll, mewn un iaith gyffredinol, yn pregethu Duw i ddyn;—"Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw;" ac y mae y dyn deallgar yn gweled Duw yn mhob peth, yn clywed ei lais trwy bob peth, ac yn dysgu rhanau o'i ewyllys gan bob peth. Ond ni wêl yr anwybodus a'r diddysg ddim bron i'w ryfeddu yn holl gylch y cread. Mae yn gweled rhyfeddodau natur yn allanol, mae yn wir, ond nid yw ei welediad yn ddim amgen na gwelediad yr anifail a ddyfethir. Mae holl natur fel llyfr seliedig iddo ef. A phwy all draethu y cysuron a'r mwyniant y mae yn ei golli trwy hyn? Ni ddylai y pethau hyn fod felly. Mae y Creawdwr doeth a da wedi gosod trysorau anmhrisiadwy yn nghyraedd dyn, a gallu iddo i'w cael allan a'u mwynhau; ond heb wybodaeth ac addysg, maent yn aros yn guddiedig oddiwrtho.

2. Mae addysg gyffredinol yn angenrheidiol iddynt er eu galluogi i wrthsefyll hudoliaethau i bechod a thrueni. Lluosog a chryfion ydynt yr hudoliaethau ag y maent yn agored iddynt. Yn mhob ardal, bron, mae rhai ellyllôn mewn cnawd i'w cael sydd â'u hymddygiadau fel pe byddent wedi ymgynghreirio âg uffern i ddinystrio cymeriad, difa dedwyddwch, a dwyn gwarth a thrueni ar bob merch brydweddol yn eu cymydogaeth. Trwy edrychiad cariadlawn, a gwêniadau twyllodrus, denant eu serch; trwy ffyddlondeb ymddangosiadol, enillant eu hymddiried; a thrwy addewidion celwyddog, y rhai na fwriadwyd eu cyflawni byth, a llwon melldigedig, a dichellion dyfal-barhaus, hudant hwy i'r fagl; ac yna, gadawant hwy yn eu gwarth, gan chwerthin fel ellyllon y fall uwchben eu trueni. Mae yn resynus meddwl am y nifer mawr a syrthiant fel hyn yn ysglyfaeth i chwant mileiniaid yn ein gwlad hoff ein hunain: ond y mae yn fwy gresynus fyth fod teimlad y wlad mor galed wrth weled yr anrhaith a wneir, fel y gall yr anrheithiwr euog, wedi y cwbl, edrych yn eu llygaid heb ofni na gwrido. Brysied yr amser pan na chaffo twyllwyr a hudwyr merched wêniadau na chyfeillach neb ond rhai fel hwy eu hunain, wedi ymwerthu i bob drygioni. Ond beth sydd a fyno addysg gyffredinol â hyn? Llawer iawn, ddar-



Digitized by Google

llenydd; oblegid y mae anwybodaeth yn rhoddi mantais i'r hudwr osod ei faglau ar ffordd ei ysglyfaeth. Mae merched anwybodus (a meibion yr un fath) yn fwy ofergoelus, ac yn hawddach eu twyllo, nag ereill; maent yn fwy o dan lywodraeth eu nwydau cnawdol, ac yn llai teimladwy o'u perygl; oherwydd hyn, hwy, yn fynychaf o lawer, a welir yn syrthio. Ond y ferch sydd wedi derbyn addysg dda, a'i deall wedi ei lenwi â gwybodaeth, mae fel pe byddai yn byw mewn caerau; mae ar y dyhiryn ofn dynesu ati, ac y mae hithau, oddiar barch iddi ei hun, yn ymgilio oddiwrtho fel pe byddai ef wiber. Os llwydda, drwy ymrithio, i enill ei chymdeithas, mae hi wedi ei gwregysu âg arfau priodol i amddiffyn a diogelu ei rhinwedd. Bydd yn gwybod gwerth ei chymeriad, ac yn canfod y canlyniadau o'i golli; a rhydd hyn nerth ynddi i wrthsefyll pob ymosodiad ar ei rhinwedd. Y mae genym un sylw chwanegol i'w gynyg ar y pwnc hwn, a dymunem iddo gael ei argraffu ar galonau y Cymry yn gyffredinol, ac yn enwedig ar galon pob mam:—Mae lluaws o'n merched yn gadael eu gwlad enedigol yn ieuanc, i fyned i drefydd mawrion a llygredig Lloegr i fyw. Mae yn ddigon anhawdd gan eu rhieni, eu perthynasau, a'u cyfeillion, yn aml, ymadael â hwy; a dagrau, yn ddigon cyffredin, fydd yr unig ganu yn iach i'w gilydd ar yr ymadawiad. Ond pe gwyddai llawer mam a thad, brodyr a chwiorydd, a chyfeillion, am yr hudoliaethau annarluniadwy y byddant yn agored iddynt, fe fyddai yn ddeng mil mwy anhawdd ganddynt eu gollwng ymaith nag ydyw yn bresenol. Mae y trefydd mawrion yn gronfa o bob hudoliaeth llygredig, yn eu hagwedd mwyaf echryslawn a dengar hefyd. Degau o ferched ieuainc o Gymru a syrthiant yn ysglyfaeth iddynt bob blwyddyn, a meibion hefyd mor aml, ac amlach na hwythau. Yn Llundain, Manchester, a Liverpool, a threfydd ereill, mae miloedd lawer o Gymry, a fuont unwaith yn barchus eu henwau, yn hardd eu moesau, ac yn flodeuog gyda chrefydd, wedi syrthio i waelodion isaf anfoesoldeb a thrueni. Nid yn anfynych, chwaith, y gwelir merch o Gymru o dan ei gwarth, wedi cael ei thwyllo gan ryw ddyhiryn uffernol; ac yn nyfnderoedd anobaith, yn myned i fyw ar wobr anwiredd, mewn trueni annarluniadwy. O! famau duwiol yn Nghymru! dadau hefyd! esgyned eich gweddiau ddydd a nos at yr Hwn sydd yn

Digitized by Google

abl i gadw yn ddilwgr, hyd ddydd Crist, dros eich plant mewn gwledydd a threfydd estronol. Hyfforddwch y rhai sydd yn weddill yn mhen y ffordd; oblegid ni wyddoch pa bryd y byddwch yn eu colli hwythau. Rhoddwch addysg dda iddynt; llenwch eu deall â phob gwybodaeth, a dodrefnwch eu meddyliau â thrysorau penaf doethineb, fel y gallont wrthsefyll hudoliaethau chwant, a chadw eu cymeriad yn ddihalog, er yn nghanol gweithredwyr anwiredd.

3. Mae addysg gyffredinol yn angenrheidiol iddynt er eu galluogi i ateb dyben eu creadigaeth, trwy wasanaethu eu cenedlaeth, a gogoneddu enw Duw. Mae eisieu argraffu ar feddyliau y merched, yn gystal a'r meibion, fod ganddynt rywbeth i'w wneyd yn y byd. Y diffyg o'r argraff yma yw yr achos fod y byd yn myned rhagddo mor araf mewn gwybodaeth a rhinwedd. Mae Duw wedi rhoddi talent i bawb, ac y mae yn dysgwyl i bawb farchnata gyda hi; ac, fe ddichon, nad yw yn ormod dyweyd y gall pob un, trwy iawn ddefnyddiad o'r dalent sydd ganddo, ragori mewn rhywbeth ar bawb ereill. Bydd gan y merched, yn gystal a'r meibion, gyfrif i'w roddi i'r Barnwr cyfiawn am y defnydd a wnant o'r talentau a ymddiriedwyd i'w gofal. Gallant wneyd mwy o ddaioni, mewn llawer ystyr, na'r gwrywod; oblegid y mae ganddynt fwy o afael a dylanwad ar y galon, yr ewyllys, a'r serch—eisteddle y drwg moesol—nag sydd gan y meibion. Mae ganddynt fwy o ddawn i berswadio a denu na nyni; a phan fyddant hwy yn siarad, mae pawb yn methu peidio gwrandaw. A phan ddaw y merched i roddi eu dylanwad mawr o blaid gwybodaeth, moesoldeb, a chrefydd, fe enir cenedl ar unwaith, yn ol y broffwydoliaeth santaidd. Ond tra yn amddifad o addysg a gwybodaeth, mae rhwystrau anorfod ar eu ffordd i gyflawni yr hyn ag y mae ganddynt dalent naturiol i'w wneuthur. Er fod ganddynt ddylanwad mawr ar y byd, ni wyddant y ffordd i'w ddefnyddio er lles cymdeithas; ac heb hyn, nid allant fod yn ogoniant i enw Duw.

4. Mae addysg gyffredinol yn angenrheidiol iddynt er eu galluogi i fod yn amgeledd gymhwys i'w gwŷr. Dylent fod yn gymdeithion iddynt, ac yn alluog i ddal cyfeillach resymol â hwy. Heb hyn, nid all fod rhyw lawer o ddedwyddwch teuluaidd gartref. Os bydd gan ddyn deallgar wraig anwybodus a diddysg, rhaid iddo fyned i

Digitized by Google

ryw le oddicartref yn aml, neu fod heb neb i ddal cyfeillach resymol âg ef. Mae yn wir resynol na byddai addysg y merched ieuainc y fath ag a'u gwnai yn bob peth angenrheidiol er cysur a dedwyddwch eu gwŷr. Ond nid yw llawer ohonynt felly yn bresenol, a hyny o ddiffyg hyfforddiad ac addysg. Os bydd y gŵr yn ewyllysio ymddyddan ar unrhyw destyn buddiol, rhaid iddo fyned i dŷ cymydog, ymddyddan âg ef ei hun, neu fod yn fud; oblegid nid yw ei wraig yn gwybod dim amdano; ac os ymdrecha ei dwyn i'w ddeall, deg i un nad golwg anserchus, os nad tafod drwg, a fydd ei wobr. Pa gysur a all dyn deallgar gael yn nghwmni y fath wraig? Os dygwydd i ferched o'r fath fod mewn cwmni lle bydd dynion teilwng o'r enw, ac os ymddyddanant ar ryw destynau buddiol, byddant hwy yn fud, ac anfoddlonrwydd amlwg at yr ymddyddan yn argraffedig ar eu gwedd. Ac yn dra chyffredin, mewn cymdeithas o'r fath, rhag digio y chwiorydd, tröir yr ymddyddan ar destynau plant, fel y gallont hwy gymeryd rhan ynddo. Rhodder addysg briodol iddynt, ac yna fe fyddant yn alluog i ddal cyfeillach resymol, ac i ymddyddan ar ryw destyn buddiol gyda neb pwy bynag.

5. Mae addysg gyffredinol yn angenrheidiol iddynt er eu galluogi i gyflawni eu dyledswyddau fel mamau. Y rhai sydd yn awr yn ferched ieuainc fyddant yn mhen ychydig amser eto yn wragedd a mamau, a thynged eu plant, i raddau helaeth, yn dibynu arnynt. Mae gan y tad ei ddyledswyddau tuag atynt; ond mae dyledswyddau y fam, mewn llawer o ystyriaethau, yn fwy. Tra bydd ef oddicartref yn gweithio, er enill bywoliaeth i'w wraig a'i rai bach, mae hi gartref yn barhaus gyda hwy. Tyfant i fyny o amgylch ei gliniau, sylwant ar ei holl ysgogiadau, a cheisiant ei hefelychu. Nid yw edrychiad ei gwynebpryd yn dianc rhag eu sylw; mabwysiadant ei geiriau, a derbyniant argraff feunyddiol oddiwrth ei holl ymddygiadau; bydd ei delw ar eu tymerau, ar eu hymddyddanion, ac ar eu cymeriadau, trwy eu holl oes, ond odid. Ni ddichon neb gael y fath gyfleusderau a manteision i hyfforddi y plant yn mhen y ffordd ag sydd gan y fam. Os yn fam ddoeth, mae ganddi afael cryfach yn eu serch na neb arall. Mae yn cael cyfleusderau bob dydd, trwy siamplau, trwy gynghorion, cerydd, a chyfarwyddyd, fel y byddo amgylchiadau yn gofyn, i drin eu meddyliau

Digitized by Google

tyner. Gellir dyweyd am blentyn wedi cael ei hyfforddi yn briodol fel hyn, tra o dan ofal ei fam, yn ffordd rhinwedd a gwybodaeth, bron yn ddieithriad, "Pan heneiddio, nid ymedy â hi." Mae y rhan fwyaf o ddysgedigion a gwŷr rhagorol y ddaear, ag ydynt wedi talu sylw i'r pwnc hwn, yn priodoli eu llwyddiant i siamplau a chynghorion eu mamau. Gofynai Napoleon y Cyntaf i wraig ddoeth, beth oedd yn angenrheidiol er gwneyd y Ffrancod yn genedl fawr; a'r atebiad oedd,—"*Mamau.*" "Yna," meddai Napoleon, "mae ailenedigaeth Ffrainc yn gynwysedig mewn un gair."

Dylai pob mam fod yn athrawes i'w phlant. Mor fuan ag y dechreuant sylwi, dylai ddechreu eu haddysgu. Pan ddysgant siarad, bydd ganddynt luaws o ofyniadau bychain bob dydd, a dylai hithau eu hateb mewn dull cymhwys i'w deall, er eu calonogi. Dylai ymdrechu gwrteithio eu meddyliau â gwybodaeth fuddiol, ac yna derbyniant lawer mwy o les trwy eu hysgol nag y dichon iddynt wneyd heb hyny. Wedi i'r plant fyned i'r ysgol, a dechreu dysgu darllen, ysgrifenu, rhifo, a phethau ereill, a chael blas ar eu gwersi, bydd ganddynt lawer o bethau i'w dyweyd a'u gofyn i'w mam wedi myned adref. Bydd arnynt eisieu eglurhâd ar y peth hwn, a gwybod pa fodd i wneyd y peth arall. Ond y mae y fam anwybodus a diddysg yn analluog i roddi un cynorthwy iddynt. Rhyfedda at eu gwybodaeth a'u dysg, a thybia nad oes eu tebyg ar y ddaear; mae y plentyn yntau yn myned i dybied ei fod yn gwybod cymaint, a mwy na'i rieni; llenwir ei feddwl bach â hunanoldeb, ac uwchben ei ddigon colla ei archwaeth at ddysgu, a thrwy hyny dinystrir pob gobaith am ei gynydd a'i ddyrchafiad. Ond y fam a gafodd addysg gyffredinol, mae hi yn athrawes i'w phlant hyd yn nod pan y maent mewn ysgol; mae yn ateb eu gofyniadau, yn egluro geiriau ac ymadroddion anhawdd eu deall iddynt, ac yn eu cynorthwyo i ddysgu eu gwersi erbyn y dydd dyfodol. Fel hyn ceidw ei dylanwad arnynt, a gwna addysg yn bleser iddynt, ac nid yn faich: bydd gan y plant hefyd feddwl mawr amdani, a byddant yn barod i wrandaw ar ei llais yn wastadol, ac i gymeryd eu harwain ganddi. Mae yn anmhosibl i famau gyflawni eu dyledswydd tuag at eu plant yn briodol heb dderbyn addysg dda eu hunain yn gyntaf.

Hyderwn fod digon wedi ei ysgrifenu bellach i argy-

Digitized by Google

hoeddi pob meddwl o'r angenrheidrwydd mawr o roddi addysg gyffredinol i ferched ieuainc, a digon hefyd i roddi cynhyrfiad cyffredinol i ddwyn hyn oddiamgylch gyda phob brys galluadwy. Digon yw yr amser a aeth heibio i esgeuluso diwylliant eu meddwl; mae y dydd wedi cerdded yn mhell, ac y mae galwadau uchel arnom fel cenedl i brynu yr amser sydd eto yn ol.

Ond yn mhellach, pa fudd a llesâd a ddeillia o hyny? Llawer, yn mhob rhyw fodd. Mae yr angenrheidrwydd amdano, fel y dangoswyd, yn amlwg ddangos ei fuddioldeb. Ond yn chwanegol at hyn, gellir dwyn amrywiol ystyriaethau yn mlaen i ddangos, mewn modd mwy neillduol, y buddioldeb ohono, ac i gymhell yn wresocach ato.

1. Bydd yn sicr o symbylu y gwŷr ieuainc i fwy o ddiwydrwydd ac egni i gasglu gwybodaeth. Codai ymgystadleuaeth iachus rhwng y ddau ryw—ymdrechai y merched ragori ar y meibion, a'r meibion ar y merched. Ni bydd achos wedi hyny i gwyno fod ffyrdd gwybodaeth heb neb yn eu cyniweirio. Byddai y meibion ieuainc dan fath o angenrheidrwydd i gasglu gwybodaeth, oblegid byddai gwybodaeth a dysg yr unig drwydded ddiogel a chymeradwy i enill ffafr yr ystlen deg. Heblaw hyny, ni byddent yn foddlawn i'r merched ragori arnynt, a chreai hyn ysbryd ymchwilgar ac ymroad i ddysgu ynddynt.

2. Cymhwysir hwynt i wynebu y byd a'i helyntion. Gallant hwy gychwyn ar eu taith trwy anialwch y byd yn siriol, am eu bod wedi astudio y ffordd, ac wedi derbyn angenrheidiau y daith, ac addysg ganddynt fel arweinydd medrus i'w tywys yn mlaen. Os cymharwn eu bywyd i fordaith, mae gan y merched addysgiedig lyw a chwmpawd i gadw eu llestr yn barhaus yn yr iawn gyfeiriad. I ba le bynag yr ânt, byddant yn sicr o gyfarfod â rhywbeth ag oedd yn adnabyddus iddynt er pan yn blant; ac o ganlyniad, ni allant hwy fod, mewn cymhariaeth i ereill, yn ddyeithriaid ar y ddaear yn un man. Ac yn mha sefyllfa bynag y bydd i Ragluniaeth eu gosod ynddi yn y byd, mae allwedd trysorfa dedwyddwch pob sefyllfa yn eu meddiant. Os deuant i afael â chyfoeth ac anrhydedd, maent wedi eu cymhwyso i lenwi eu sefyllfa. Ac os yn wraig y llafurwr, bydd addysg yn taenu blodau ar hyd eu haneddau cyfyng, ac yn gwneyd eu haelwydydd yn ddiareb yn eu cymydogaethau. Gwna hwynt mor ddedwydd

Digitized by Google

ag un foneddiges yn ei phalas, a cheidw eu coffadwriaeth yn anwyl i'w plant ar eu hol.

3. Rhydd addysg iddynt ymddangosiad mwy dyrchafedig. Mae dysgeidiaeth a gwybodaeth yn ddigon effeithiol i newid ffurf ac agwedd y corff. Dacw ddyn ieuanc, sydd o ran ei ffurf bron yn afluniaidd, ac o ran ei symudiadau mae yn araf ac afrosgo, a hurtrwydd llo yn argraffedig ar ei wynebpryd. Ond anfonwch ef i'r ysgol, lle y caiff agoryd ei ddeall, a'i hyfforddi mewn gwybodaeth, a buan y ceir gweled cyfnewidiad yn ei ymddangosiad. Yn mhen ychydig o flynyddau bydd yr olwg arno mor wahanol i'r hyn ydoedd cyn myned i'r ysgol, fel mai prin y gall ei hen gyfeillion ei adnabod. Bydd ei aelodau yn fwy lluniaidd, ei symudiadau yn fwy bywiog, a dealltwriaeth yn pelydru trwy ei wynebpryd. O'r ochr arall, mae anfoesoldeb ac anwybodaeth yn dirywio ac yn hagru y corff; mae anonestrwydd ac anlladrwydd yn argraffu eu delw ar y wynebpryd. Edrychwch eto ar y Gwyddel anwybodus: mae ei war uchel a chwyddedig, a'i dalcen llechweddog ac isel, yn rhoddi iddo yn rhy fynych ymddangosiad mwnci. Ond y mae ymddangosiad Gwyddel gwybodus a dysgedig yn hollol wahanol; a phrin y gallem gredu, oni bae ein bod yn gorfod, fod y naill a'r llall yn perthyn i'r un genedl. Rhydd addysg ymddangosiad deallgar a dyrchafedig i fenywod ein gwlad, a rhydd hefyd deimlad dyrchafedig yn eu mynwesau. Dygir hwynt i deimlo eu dynoliaeth, a rhydd y teimlad yma nerth ynddynt i ymddwyn yn gydweddol â'u hurddas; wedi hyny ni chymerant eu trin fel anifeiliaid. Bydd gweled mab neu ferch, y pryd hyn, yn llusgo eu traed ar eu holau, ac yn edrych â'u llygaid, eu ffroenau, a'u geneuau ar unwaith, gan ryfeddu, fel plant, at bob peth a welant, yn olygfa dra annghyffredin. Pan ddaw addysg yn beth cyffredinol, daw y ddynoliaeth i wisgo ei mawrfrydigrwydd dechreuol.

4. Bydd yn foddion i ddwyn llawer o dalentau gwerthfawr i'r bwrdd cyfnewid, ag a fuasent heb hyny yn cael, mae yn dra thebyg, eu cuddio yn y ddaear. Mae hanes cenedloedd y ddaear yn amlwg ddangos fod doniau annghyffredinol yn cael eu hymddiried yn fynych i ferched. Nid llawer o enwau clodfawr sydd yn mhlith enwau merched Cymru, hen na diweddar, mae yn wir; ond tybygem mai nid diffyg talent ac athrylith yw yr achos o hyny, ond diffyg manteision i'w dwyn i weithrediad. Nid

yw yn annhebygol nad allai fod yn mhlith merched mynyddoedd Cymru y dydd heddyw rai a feddant athrylith ddigon galluog i gynhyrfu y byd, ie, heb iddynt hwy eu hunain wybod ei bod yn eu meddiant, ac heb angen am ddim ond cyffyrddiad dwylaw nefol gwybodaeth â hi i roddi bywyd ynddi, ac i'w dwyn allan yn ei gogoniant. Mae gwybodaeth i athrylith, fel ysbrydoliaeth i'r proffwydi gynt, yn ei galluogi i wneuthur gorchestion.

5. Bydd yn foddion i genedlu ysbryd cenedlgarol. Mae rhai i'w cael o ysbryd anwladgarol—rhai yn casau ein gwlad, yn ei dirmygu, ac yn gwneyd eu goreu i ddifodi ein hiaith a'n defodau, a ninau hefyd o fod yn genedl; ond yn gyffredin rhyw hen wrachod anwybodus a diddysg yw y rhai hyny. Mae ein hynafiaethwyr a'n dysgedigion, ein beirdd a'n duwinyddion, i gyd yn rhai selog dros barhâd ein hiaith a'n defodau cenedlaethol, a gallwn ddysgwyl y bydd i helaethiad addysg gynyrchu yr un ysbryd yn y wlad yn gyffredinol. Hwyrach mai peth dibwys yw hyn yn ngolwg rhai ag a ddywedant nad yw cenedlgarwch ddim yn y byd, ac mai dyngarwch yw pob peth; ond byddai yn werth i'r cyfryw rai gofio fod dyngarwch yn beth lled amheus lle bydd cenedlgarwch yn eisieu. Y dyn sydd yn caru ei wraig, ei blant, a'i berthynasau fwyaf, sydd yn gyffredin yn caru ei gymydogion fwyaf hefyd; a'r rhai mwyaf cenedlgarol, bron yn ddieithriad, yw y rhai sydd yn meddu mwyaf o ddyngarwch.

6. Chwanegir swynion a dedwyddwch teuluaidd wedi derbyn addysg briodol. Bydd y merched ieuainc yn alluog i fod yn wragedd teilwng o'r enw. Mae lle i ofni fod anwybodaeth y wraig wedi bod yn achos dechreuol o ddinystr llawer o deuluoedd. O ddiffyg cydymaith ynddi, âi y gŵr allan i'r dafarn, a thrôdd yn feddwyn sefydlog, a thrwy hyny dyfethwyd gobeithion a dedwyddwch y teulu am byth. Ond pan ddaw y gwragedd yn rhai gwybodus a da, bydd cartref y lle mwyaf anwyl gan y gwŷr o bob man, ac ni bydd gan y dafarn un swyn na dylanwad arnynt mwyach.

7. Bydd yn foddion i goethi ymddyddanion. Nid yw y gwahaniaeth rhwng y cyfiawn a'r drygionus, yr anwybodus a'r dysgedig, i'w ganfod mewn dim yn fwy nag yn eu hymddyddanion. Mae ymddyddanion y rhai anwybodus yn blentynaidd, iselwael, ffol, a disynwyr, yn gnawdol, ac yn dra chyffredin yn llygredig ac anfoesol.

Digitized by Google

Rhyw ymddyddanion fel hyn, yn gyffredin, a gymer le rhwng meibion a merched ieuainc canolradd a gwerin Cymru. Nid oes eisieu deall athronydd i wybod fod ymddyddanion o'r fath yn niweidiol i rinwedd. "Na thwyller chwi, mae ymddyddanion drwg yn llygru moesau da." Pe rhoddid addysg gyffredinol i'r ieuenctid, fe goethid eu chwaeth, galluogid hwy i ymddyddan â'u gilydd ar destynau buddiol, ac ni byddai ganddynt flas ar yr ymddyddanion plentynaidd presenol.

8. Bydd rhoddi addysg gyffredinol iddynt yn sicr o fod yn wasanaethgar i lwyddiant crefyddol. Symudid llawer o rwystrau oddiar ei ffordd, a gwneid lluaws o galonau fel tir braenaredig, yn barod i dderbyn yr hâd dwyfol. Ac nid hyny yn unig, ond byddent hefyd yn well aelodau yn yr eglwys, yn rhagorach athrawesau yn yr Ysgol Sabbothol, ac yn fwy defnyddiol yn eu holl gylchoedd.

Hyderwn fod digon wedi ei ysgrifenu bellach i ddangos mai nid gwaith anfuddiol ydyw rhoddi addysg gyffredinol i'r merched ieuainc; ond yn y gwrthwyneb, mai gwaith ydyw ag sydd yn sicr o ddwyn oddiamgylch y canlyniadau mwyaf cysurlawn. Gymry anwyl! ymgodwn fel un gŵr o blaid addysg y genedl sydd yn codi, ac na fydded i ni orphwys nes byddo moddion addysg gyffredinol yn nghyraedd pob mab a merch trwy y Dywysogaeth. Rhoddai hyn agwedd newydd ar ein gwlad mewn ychydig amser; codem ein pen fel cenedl, a deuem yn fuan i dderbyn parch a chymeradwyaeth holl genedloedd y ddaear.

---

## GWLADGARWCH Y CYMRY.

"YR wyf yn Gymro, mae yn wir; ond yr wyf yn rhywbeth mwy na Chymro," ydoedd sylw a wneid gan un o deulu Dic Sion Dafydd yn ddiweddar. Mae tuedd gref yn y teulu yma i gyd i son am ddyngarwch, fel pe bae gwladgarwch a dyngarwch yn groes i'w gilydd. Felly y brawd a wnai y sylw uchod; arferai y gair dyngarwch yn ol defod ei frodyr, yn gochl i guddio ei esgeulusdod o'i wlad a'i genedl ei hun. "Yr wyf yn rhywbeth mwy na Chymro;" o ganlyniad, caiff cenedl y Cymry farw o

newyn, o syched, o noethni, o afiechyd, o newyn, neu o'r cwbl yn nghyd, o'i ran ef. Mae efe yn caru pawb; o ganlyniad, mae yn rhydd i beidio cefnogi neb. Ond tybied yr wyf nad yw yr ymadrodd caru pawb ond enw arall am beidio caru neb. Felly, yr wyf yn meddwl mai rhywbeth llai na Chymro oedd y brawd, ac nid rhywbeth mwy. Mae Cymro yn caru gwlad y Cymry, iaith y Cymry, defodau y Cymry, llenyddiaeth y Cymry, a phob peth sydd â thuedd ynddo i ddyrchafu Cymru; ond ni wnai y brawd hwn yr un ohonynt, am ei fod, meddai ef, yn rhywbeth mwy na Chymro, ond ei fod, meddaf fi, yn rhywbeth llai na Chymro. Ac am ei fod yn llai na Chymro, nid anhawdd fyddai profi ei fod yn rhywbeth llai na dyn. Pan weloch chwi greadur ar ffurf dyn yn esgeuluso ei deulu, yn gwadu ei dad a'i fam, yn gwrthod cymhorth iddynt mewn cyfyngder, yn nacau siarad â hwy ar yr heol, yn cymeryd arno nad yw yn eu hadnabod, yn enwedig yn eu casau, a'u dirmygu, a'u baeddu heb ddim achos; a phan weloch yr un creadur yn ymddwyn gyda'r un esgeulusdod at ei deulu, ei wraig, a'i blant ei hun; pan welwch ef yn cario ymborth a dillad ei deulu i estroniaid, yn rhoi ei gwmni i gyd i ddyeithriaid, yn dirmygu ac yn enllibio ei deulu pa bryd bynag y sonia amdanynt; a pha bryd bynag y daw at ei deulu, daw yno fel llofrudd, i'w rhwygo a'u lladd;—pan weloch greadur fel hyn, meddaf, chwi gydnabyddwch ei fod yn llai na dyn; ac y mae yn llai na dyn, oblegid lle bynag y mae dyn, mae yn caru ei deulu, ac yn gofalu amdanynt. Os felly, mae ein cyfaill sydd yn galw ei hunan yn rhywbeth mwy na Chymro, nid yn unig yn llai na Chymro, ond hefyd yn llai na dyn; ydyw, yn sicr. Ganwyd ef yn Nghymru, a dysgodd siarad iaith y Cymry, ac felly, buasech yn dysgwyl iddo garu ei wlad a'i genedl, a'u mawrhau hefyd bob cyfleusdra gai. Buasech yn dysgwyl iddo hefyd ddangos ychydig ddyddordeb mewn pethau yn dwyn cysylltiad â'i wlad ei hunan; ond nid yw yn gwneyd hyny. Er ei waethaf y siarada iaith ei wlad. Esgeulusa ei llenyddiaeth. Nid oes na newyddiadur na llyfr Cymreig yn cael cefnogaeth ganddo. Mae wedi troi ei gefn ar ei genedl yn llwyr. Hyny o ddawn a dylanwad sydd ganddo ef, mae yn ei roddi i'r Seison. Nid yw yn gwneuthur dim i lesau a dyrchafu Cymru. Mae ei esgeulusdod yn llwyr a thrwyadl; mae yn anmhosibl camgymeryd ei

Digitized by Google

syniadau ef. A mwy na hyny, mae yn casau ei wlad: pe buasai yn caru ei genedl, nid allasai ymddwyn fel y gwna. Mae yn ymddwyn yn galed tuag ati. Dirmyga hi yn nghlyw estroniaid, ac nid yw yn son byth amdani ond i roi bonclust iddi, neu i roi ei henw dan ei droed. Nid ymddygiad dyn na Chymro yw hwn; yn hytrach, eiddo rhyw greadur sydd yn llai na dyn, a llai na Chymro hefyd.

Mae llawer iawn o ffolineb yn cael ei siarad wrth son am ddyngarwch. Siaradir fel pe byddai yn angenrheidiol bod yn genedlgaswyr cyn y gellir bod yn ddyngarwyr. Os dywedwch air ar y pwnc o genedlgarwch, hwy a'ch atebant yn y fan, nad yw cenedlgarwch ddim, ac na ddylid son am ddim yn awr ond dyngarwch; fel pe dywedent, "Os ydych am fod yn ddyngarwyr, rhaid i chwi enill hawl i'r enw trwy gasau a dirmygu eich gwlad a'ch cenedl eich hun." Ond ynfydrwydd mawr yw siarad fel yna; oblegid mae dyngarwch o angenrheidrwydd yn cynwys cenedlgarwch. Mae y blaenaf yn anmhosibl heb yr olaf; a'r olaf yw yr elfen benaf a'r ffaenaf yn y cyntaf. Nid all dyn byth fod yn ddyngarwr heb fod yn genedlgarwr. Mae graddeb cariad yn dechreu yn y dyn ei hunan, yna ei deulu, wedi hyny ei gymydog, drachefn ei genedl yn ol y cnawd, ac yn olaf, daw estroniaid, yn ol agosrwydd neu bellder eu cysylltiad âg ef. Peth annhebygol iawn ydyw fod dyn sydd yn casau ei deulu yn caru ei gymydog. Y mwyaf caredig i gymydog yw y mwyaf cariadus gartref. Felly yn y mater hwn; mae y dyn sydd yn casau ac yn esgeuluso ei wlad a'i genedl yn un annhebyg iawn o fod yn caru dyn mewn unrhyw wlad arall. Os nad yw yn caru y genedl mae yn adnabod, pa fodd y gall garu y rhai sydd yn anadnabyddus iddo? Y gŵr sydd yn caru dyn yn ei wlad ei hunan yw y tebycaf o garu dyn mewn gwlad arall. Nid yw cenedlgarwch yn un rhwystr i ddyngarwch; yn hytrach, mae yn gymhorth. Nid yw fy nghariad ataf fy hunan ac at fy nheulu yn fy rhwystro i garu fy nghymydog, yn hytrach mae yn fy nghynorthwyo i garu fy nghymydog fel fi fy hun. Felly, mae cenedlgarwch yn arwain yn naturiol i ddyngarwch. Mae rheswm yn dysgu y gwirionedd yma yn eglur ac amlwg iawn; ac yn chwanegol at hyny, mae ffeithiau a phrofiad yn ei gadarnhau. Mae dynion o feddwl bach a gwybodaeth arwynebol yn siarad fel pe byddai y rhai sydd yn caru eu

Digitized by Google

gwlad a'u cenedl yn casau a diystyru pob cenedl arall. Ond nid yw hyny yn wirionedd. Mae y rhai sydd yn enwog am eu cenedlgarwch yn enwog hefyd am ddyngarwch; a'r arwydd sicraf fod dyn yn feddianol ar yr olaf ydyw ei fod yn gyfoethog o'r cyntaf.

Tybir yn lled gyffredinol fod y Cymry yn genedlgarol hyd at fai; oblegid beiir hwy yn fynych am feddwl gormod o'u gwlad. Hwyrach eu bod; ond os ydynt, ffordd ryfedd iawn sydd ganddynt i ddangos eu cenedlgarwch. Fyddai ddim yn niweidiol i ni gael golwg am dro ar genedlgarwch yn dangos ei hun yn y Seison, ac wedi hyny yn y Cymry, fel y gallom farnu pa un o'r ddwy genedl yw y fwyaf gwladgarol. Os ceir fod y Cymry yn dal y prawf, canmoler hwy; ond os byddant yn fyr o bwysau, gadawer iddynt wybod, a dyweder wrthynt am wrido a diwygio.

Ond yn gyntaf, mae cenedlgarwch y Sais yn dangos ei hun yn y meddwl mawr sydd ganddo am ei wlad a'i genedl. Beth bynag feddylia ereill amdano, mae y Sais yn meddwl yn dda ohono ei hun. Mae ei hunan-barch yn pelydru yn ei lygaid, ac yn chwyddo yn ei lais. Mae ei edrychiad a'i ysgogiad yn dyweyd ei fod yn rhywun. Deil ei ben i fyny, cerdda fel cawr yn ymwybodol o'i nerth, a siarada fel dyn yn teimlo mai dyn ydyw. Meddylia yn fawr o'i wlad a'i genedl hefyd, a siarada amdanynt yn ol ei feddwl. Nid yw yn cymeryd arno fod yn bosibl i neb feddwl yn wahanol. Canmolwch ef, neu beiwch ef, mae yn rhaid i chwi gyfaddef fod ei wlad a'i genedl yn uchel yn ei olwg. Ond dangosa y Cymro ei genedlgarwch trwy fychanu ei wlad a'i genedl. Deil ei ben i lawr, siarada yn isel, a sonia yn ddibaid am ei ddiffygion. Nid oes ganddo ddim ffydd yn ei feddyliau, oddigerth fod rhyw estron yn meddwl yr un fath. Mae ei ymddyddanion yn dangos ei fod yn edrych ar y Cymry yn îs na phawb, ac ar bethau Cymreig yn waelach na phethau gwledydd ereill. Anfynych y clywir ef yn canmol neb ond estron, nac yn mawrygu dim ond pethau rhyw wlad arall. Dyna ei ffordd ef o ddangos ei genedlgarwch.

Yn ail, mae y Sais yn dangos ei genedlgarwch trwy ofalu am gynyrchion a choffadwriaeth enwogion ei genedl. Mae eu geiriau yn cael eu trysori, a'u hanes yn cael ei gadw. Gwae a ddywedo yn eu herbyn. Mae eu cyfrolau ar ei fwrdd. Dysgir y plant i feddwl yn fawr ohonynt. Codir colofnau o anrhydedd iddynt. Gadawir i bawb

Digitized by Google

wybod amdanynt. Ac nid yn unig ar ol iddynt farw y gofala amdanynt, ond anrhydedda hwy hefyd pan yn fyw. Gwrandewir arnynt yn barchus, a gwisgir eu henwau âg anrhydedd. Ond esgeuluso eu henwogion ymadawedig wna y Cymry. Maent yn gyfoethog mewn enwogion, ond y mae eu coffadwriaeth wedi darfod—nid oes gareg ar eu bedd! Nid oes nemor un yn gwybod amdanynt! Ewch i dai y Cymry, a holwch am weithiau beirdd a llenorion ein gwlad, ac ni fyddant yno, ac ni bydd yno neb yn gwybod dim amdanynt. Edrychwch ar y llyfrau fydd ar y bwrdd, a gwelwch mai Seisnig ydynt i gyd. Trowch at y llyfrgell, a llyfrau Seisnig sydd yno i gyd. Gofynwch i'r plant ganu, a chewch ganeuon Seisnig ganddynt yn y fan. Os ceir cyfeillach â'r gŵr a'r wraig, ac os soniant am ryw wŷr mawr, hwy soniant am wŷr mawr y Seison, neu ryw genedl estronol arall. Beth dybygech chwi o Sais a ddangosai ei genedlgarwch trwy hilio ei fwrdd, a llenwi ei lyfrgell â llyfrau Ellmynaidd, a ddysgai ganeuon estronol i'w blant, ac a soniai yn ddibaid am enwogion cenedloedd ereill? Os gwyddoch chwi am ryw enw cyfaddas i Sais felly, rhowch yr enw hwnw ar y Cymry; oblegid fel yna y maent hwy yn arfer gwneyd; dyna eu ffordd i ddangos eu cenedlgarwch. Cenedl yn gwneyd cam â'i henwogion pan yn fyw oedd yr Iuddewon: lladd y proffwydi oedd eu harfer; ond wedi eu lladd hwy, adeiladent eu beddau. Ond mae y Cymry yn esgeuluso eu proffwydi pan yn fyw, ac yn gadael eu beddau yn ddinod ar ol iddynt farw.

Yn drydydd, mae y Sais yn dangos ei genedlgarwch trwy ei ymdrech parhaus i Seisnigo pawb a phobpeth. Mae yn eiddigeddus dros iawnderau ei gydgenedl. Lle bynag yr aiff, cymera ei iaith a'i arferiadau gydag ef. Mae yn troi pob peth i anrhydeddu ei wlad a'i genedl. Mae yn rhoi enw Seisneg ar ei dŷ, ac nid enw Cymraeg. Welwyd erioed mohono yn codi capel, ac yn rhoi ei enw ar ei dalcen yn Gymraeg. Seisneg, ac nid Cymraeg, mae yn ei ddysgu i'w blant gartref ac yn yr ysgol. Yn yr Ysgol Sul, y Beibl Seisneg, ac nid y Beibl Cymraeg, sydd yn cael ei ddarllen. Sais yw ef gartref, a Sais oddicartref; ac felly, nid oes lle i neb ameu cenedlgarwch Sais. Ond trowch i Gymru, a gwelwch fel y mae cenedlgarwch yn dangos ei hun yno. Pan godant ysgoldy yn Nghymru, hwy a'i codant i ddysgu Seisneg, ac nid Cymraeg. Nid

Digitized by Google

oes eisieu dyweyd dim yn erbyn dysgu Seisneg; ond nid ellir byth ddyweyd gormod yn erbyn esgeuluso y Gymraeg. Os ydym i barhau yn Gymry, dylem, yn ein hysgolion dyddiol, cystal a Sabbothol, ddysgu y Gymraeg yn gyntaf, a Seisneg wedi hyny. Pan godant Athrofa yn Nghymru, hwy a'i codant i fod yn gareg fedd i iaith yr efrydwyr. Dysgant yno bob iaith, a darllenant bob llyfr yn hytrach nag eiddo eu gwlad. Mewn ambell Ysgol Sul Gymreig, dysgant Seisneg i'r plant, a peth llenant y Beibl Seisneg yn eu dosbarthiadau. Mae darfel hyn yn gaddedd ar y netfedd, ac yn sarhâd ar ddynion. Yn Nghymru, pan godant gapel ar ben y mynydd, lle na ddisgynodd erioed lygad Sais erioed, hwy gerfiant ei enw ar ei dalcen yn Seisneg. Os gwyddoch chwi am enw digon dirmygus i wisgo gweithred fel hon, rhoddwch yr enw ar y rhai sydd yn euog o wneyd peth mor ffel. Pan gyfyd Cymro dŷ ar ryw lanerch hyfryd yn agos i'r ddinas, mae yn rhoi enw Seisneg arno, er fod enwau ddigon yn ei iaith ei hunan. Mae rhy fach o genedlgarwch yn Nghymru i roi ychydig Gymraeg ar dafod careg yn mur y coleg, er anrhydedd a chof o'r amser gynt. Pan y mae Cymry yn codi cerbyd cyhoeddus i redeg am hûr, maent yn sicr o roi iddo enw Seisnig. Os bydd ar y Cymry eisieu enw ar un o'u heolydd, ânt i chwilio amdano yn gyntaf i'r Seisneg; ac os methant â chael un Seisneg, hwy gyfeithant ryw air Cymraeg i'r Seisneg at eu dyben. Mae y Cymry mor wladgarol, nad oes dim a berthyn i Gymry yn dderbyniol. Os oes rhywun yn Nghymru yn berchenog mul, os yw y mul yn Gymro, mae ei enw yn Seisneg. Pe bae gan rywun gi ac eisieu enw arno, byddai raid i enw'r ci fod yn Seisneg cyn y gwnai y tro. Enw Seisneg roir gan y Cymro ar ei faeldy mewn tref Gymreig. Mae cenedlgarwch y Cymro mor fawr fel y rhaid iddo gael pob peth yn Seisneg. Pe bae eisieu hysbysleni am ddarlith ar yr iaith Gymraeg, rhaid i'r Cymro gael argraffu yr hysbysleni a'r tocynau yn Seisneg. Fel yna y mae y Cymro yn dangos ei genedlgarwch; ac os oes rhyw glod yn perthyn i'r ymddygiad, mae y Cymro yn wir deilwng ohono.

Yn bedwarydd, mae y Sais yn dangos ei genedlgarwch trwy ei barodrwydd i amddiffyn ei wlad a'i genedl. Chaiff neb ymosod ar iawnderau nac ar gymeriad ei genedl yn ddiwrthwynebiad. Os ydych yn gwerthfawrogi cyfan-

rwydd eich croen, peidiwch â dyweyd dim yn erbyn Shakespeare na Milton yn nghlyw y Sais. Mae tafod, a dwrn, a gwaed y Sais yn barod at wasanaeth ei wlad pan fydd eu heisieu. Mae bywyd yn ei genedlgarwch ef, ac o ganlyniad, y mae ffrwyth arno. Ond y mae cenedlgarwch y Cymry wedi marw. Nid oes gair yn dyferu dros ei thafod o blaid ein gwlad. Nid yw yn teimlo dim pan ddirmygir y Dywysogaeth; a phan rydd estron ei droed mewn dirmyg ar ei phen, nid yw yn symud na llaw na throed. Diystyru eu gwlad a'u cenedl ydyw hoff waith llawer o Gymry. Yr wyf wedi sylwi fod y Seison yn hynod o barchus o'r Cymry pan ddeuant gyntaf i gysylltiad â hwy; ond pa bryd bynag y cyfarfyddwch â Sais wedi cymdeithasu llawer â'r Cymry, mae y cyntaf yn siarad yn ddirmygus iawn am yr olaf. Yr achos yw, fod y Cymry, â pha rai y mae yn cymdeithasu, yn ei ddysgu, trwy siampl a geiriau, i gasau a dirmygu ein gwlad a'n cenedl. Yn awr, os gellir, yn ngwyneb y cyhuddiadau hyn, alw y Cymry yn genedl wladgarol, boddlawn fi; ond rhaid i mi gael dyweyd mai cenedlgarwch rhyfedd iawn ydyw; a dyweyd hefyd mai y lleiaf o genedlgarwch fel hyn yw y goreu.

BETH A FYNECH CHWI? Pan oeddwn yn dyweyd fy nghwyn am y Cymry wrth gyfaill ryw dro, gofynai i mi y gofyniad uchod; a chan fod y gofyniad yn rhesymol, ac yn dwyn cysylltiad â gwladgarwch y Cymry, mi geisiaf ei ateb, fel diweddglo i'r traethawd hwn:—

Mynwn ddysgu y Cymry i feddwl yn dda ohonynt eu hunain, ac o'u gwlad a'u cenedl. Mae yn dda genyf fod yr elyniaeth yn erbyn y Seison wedi darfod yn Nghymru. Mae yn dda iawn genyf hefyd fod y Cymry yn meddwl mor uchel o'r Seison. Parhaed y brawdgarwch yn hir; ond yr un pryd, mae yn ddrwg genyf fod y Cymry wedi colli eu hunan-barch. Nid yw y Cymry yn awr rywfodd yn meddwl dim ohonynt eu hunain. Tybiant fod pawb yn well na hwy; ac y mae hyn yn golled i'n gwlad. Unwaith y tybia dyn nad oes dim ynddo, mae yn ymfoddloni ar ei gyflwr fel y mae, ac ni wnaiff byth geisio ymgodi. Mae yn myned yn ddiofal am ei gymeriad, ac yn ddiawydd am ragoriaeth. Gan hyny, os ydych am i'r Cymry barchu eu hunain, a'u gwlad, a'u cenedl, dysgwch hwy i feddwl yn fawr amdanynt. Os ydych am i'r Cymry ymgodi, a chystadlu â holl genedloedd y ddaear am ragoriaeth,

Digitized by Google

dysgwch hwy i feddwl yn dda amdanynt eu hunain. Carwn weled bechgyn a genethod Cymru wedi eu dysgu i feddwl fod Cymro a Chymraes wedi eu bendithio â chymaint o allu a thalent a neb pwy bynag. Cynysgaethwch hwy â hunan-barch. Dywedwch wrthynt, os na chodant yn y byd, mai arnynt hwy y bydd y bai. Dysgwch hwy i edrych arnynt eu hunain fel dynion, ac i edrych ar ereill fel brodyr. Dalied y Cymro ei ben i fyny. Siarаded yn groew ac yn ddiofn. Cerdded yn wrol. Teimled fod ganddo allu i wneyd gwrhydri, a gwnaed ef. Welir byth mo'r Cymry yn derbyn y sylw a'r parch a deilyngant, nes y dysgant, fel hyn, i feddwl yn dda ohonynt eu hunain.

Mynwn i'r Cymry anrhydeddu eu henwogion byw a marw. Os buoch yn euog o ladd eich proffwydi, adeiladwch eu beddau, fel yr ad-daliad goreu a ellwch wneyd iddynt. Mynwn i drigolion Sîr Fon, a Chymru i gyd eu cynorthwyo, i godi colofn o farmor y sîr i goffadwriaeth GORONWY OWEN, heb oedi dim yn hwy. Mynwn i bobl Sir Aberteifi frysio i gael colofn fawr, ardderchog i DAFYDD AB GWILYM. Mynwn i bobl Llangollen a'i hamgylchoedd feddwl am wneyd rhywbeth yn fuan i goffadwriaeth HUW MORRIS, a IOLO GOCH, ac OWEN GLYN DWR. Mynwn i'r Bala wneyd rhywbeth mwy nag a wnaed i goffadwriaeth CHARLES a LLWYD; ac i bobl Dolgellau wneyd rhywbeth i gofio am DAFYDD IONAWR. Mynwn i drigolion Eifionydd godi rhyw gofarwydd cyhoeddus i'w beirdd, DEWI WYN, a ROBERT AB GWILYM DDU. Mae rhywbeth yn cael ei wneyd i ANN GRIFFITHS, a gobeithiaf y bydd yn rhywbeth teilwng o'r awdures ac o'i gwlad; ond mynwn i rywbeth gael ei wneyd hefyd er anrhydedd i'r caniedydd o Bantycelyn. Mae llawer o son wedi bod am golofn i LLEWELYN, ein Llyw olaf. Mynwn i hono gael ei gwneyd bellach, a'i gwneyd yn gymesurol i'r amser y buwyd yn son amdani. Mae llawer o enwau ereill a ddylent gael eu hadgyfodi, ond gwasanaethed y rhai blaenorol i ddangos y modd y dylid eu hanrhydeddu. Ond mynwn, nid yn unig adeiladu eu beddau, ond dwyn cynyrchion eu hathrylith hefyd i oleu dydd. Mynwn weled gweithiau barddonol a rhyddieithol ein beirdd a'n hysgrifenwyr, hen a diweddar, mewn pob llyfrgell Gymreig; a phan y daw llyfr newydd Cymraeg allan, mynwn weled y Cymry yn mhob man yn ei brynu, er

Digitized by Google

cefnogaeth ac elw i'w awdwr. A phan ddaw y Cymry fel hyn i anrhydeddu eu henwogion, fydd raid i Gymro ddim gwrido mwy wrth feddwl, mewn anwybodaeth, nad oes genym enwogion gwerth son amdanynt.

Mynwn i'r Cymry anrhydeddu eu hiaith a'u gwlad yn weithredol mewn pob dim. Pan godir capel Cymreig, mynwn i'w enw fod yn Gymraeg arno. Mynwn roi enw pob ysgoldy ac athrofa ar eu gwyneb yn Gymraeg; ac os bydd eisieu Seisneg hefyd, mynwn roi y Gymraeg yn gyntaf, a'r Seisneg wedi hyny. Mewn tref Gymreig, mynwn roi enw pob heol yn Gymraeg. Mewn ysgol ac athrofa Gymreig, mynwn i'r iaith Gymraeg gael ei dysgu yn ogystal a'r Seisneg. Mynwn gael casgliad cyflawn o lyfrau Cymreig mewn pob athrofa Gymreig, a mynwn i'r efrydwyr eu darllen. Mynwn i hanes y Cymry a'u llenyddiaeth gael eu dysgu yn holl ysgolion Cymru. Beth bynag a wneir gan Gymro, mynwn i'r Cymro roi arno enw Cymreig. Os bydd i'r Cymry gyflwyno anerchiad i ryw estron anrhydeddus, mynwn i'r anerchiad fod yn Gymraeg, a chyfieithiad gydag ef, os bydd eisieu. Os ffurfir cymdeithas gorawl yn Nghymru, mynwn iddi gymeryd enw Cymreig, ac nid enw Seisnig, fel y gwneir gan rai yn awr, er gwaradwydd iddynt eu hunain a'u gwlad. Mynwn i'r plant ddysgu caneuon a cherddi eu gwlad eu hunain yn gyntaf, a rhai yr estron wedi hyny, os bydd amser yn caniatau. Mynwn i'r Cymry brynu a darllen llyfrau a newyddiaduron Cymreig, ac nid rhai Seisnig. Os bydd rhai Cymry yn dewis myned yn Seison, a chael capel Seisnig, mae'r ffordd yn rhydd iddynt fyned; ond mewn pob capel Seisnig i Gymry, mynwn gael BEIBL CYMRAEG mawr ar y pulpud gyda'r un Seisneg, yn goffadwriaeth o'r iaith siaradent gynt. Os yw'r Cymry am fyned yn Seison, mynwn iddynt gymeryd cymaint o Gymraeg gyda hwynt ag sydd bosibl i'w wneyd yn rhan o'r Seisneg, tra bo Seisneg yn cael ei siarad. Mae yn hawdd i ni gymeryd enwau dynion ac enwau ein hafonydd, a'n llynoedd, a'n mynyddoedd, fel y maent, a'u gwneyd yn Seison gyda ni. Gan hyny, peidiwch â'u cyfieithu i'r Seisneg, ond trosglwyddwch hwy fel y maent yn y Gymraeg i'r Seisneg. Gadewch i "Glan-y-môr" fod yn "Glan-y-môr, "Maes glas" yn "Maes glas," yn Seisneg fel yn Gymraeg. Pa bryd bynag yr ewch yn Seison, ewch â chymaint ag sydd bosibl o'r Gymraeg i'r Seisneg.



Digitized by Google

gyda chwi. Os rhaid i chwi gael myned yn Seison, ewch yn Seison rhagblaen, os mynwch; ond mynwn i chwi fyned yn Seison fel dynion, ac nid fel ffyliaid. Yr arwydd gyntaf yn awr fod rhyw un am adael y Cymry a throi at y Seison ydyw, ei glywed yn dechreu gwaradwyddo'r Cymry, a'u galw yn isel. Mae fel pe bae yn teimlo fod arno eisieu rhyw reswm cryf dros ei ymddygiad yn eu gadael, ac nid yw yn gallu cael un rheswm ond haeriad anwireddus fod y Cymry yn isel. Ar ol iddo wneyd ei feddwl i fyny i droi, ddaw dim ond enllib ar genedl y Cymry tros ei wefusau mwyach. Ond mynwn iddynt wybod fod yn bosibl iddynt fyned yn Seison o ran iaith, a pharhau yn Gymry o ran cariad a theimlad. Raid iddynt ddim casau y Cymry, na'u dirmygu, er mwyn gallu troi yn Seison. Gan hyny, mynwn i bawb sydd am fyned yn Seison fyned yn Seison Cymreig. Ewch â'ch cariad at eich gwlad a'ch cenedl gyda chwi; ac yn lle sarhau eich gwlad, anrhydeddwch hi yn nghlyw ein cymydogion. Gallai y Cymry Seisnig wneyd gwasanaeth mawr tros eu gwlad, pe ceisient. Gan eu bod wedi mabwysiadu y Seisneg yn lle hen iaith eu henafiaid, dylai fod ynddynt awydd i drosglwyddo llenyddiaeth eu henafiaid i'r Seisneg gyda hwy. Dylai Cymru fod yn alluog i wneyd mwy o gyfiawnder â'u llenyddiaeth na neb arall. Ond ni wneir cyfiawnder â'n llenyddiaeth byth ond gan rai sydd yn ei charu ac yn ei mawrhau. Nid allwn feddwl am anffawd fwy i lenyddiaeth ein gwlad nag i ryw un sydd yn meddwl yn fach ohoni fyned i'w chyfieithu. Pe buasai y Cymry Seisnig fel y dylasent fod, hwy fuasent y rhai priodol i droi ein llenyddiaeth i'r Seisneg. Gan hyny, mynwn i'r Cymry, er iddynt droi yn Seison, dalu sylw i'n llenyddiaeth, a gwneyd eu rhan i'w throi i'r Seisneg. Mynwn i'r Cymry, er iddynt droi yn Seison, gefnogi llenyddiaeth y Cymry. Tra byddo y Gymraeg yn cael ei siarad, cefnogwch ei llenyddiaeth, er mwyn eich brodyr. Wnaiff darllen llyfr neu newyddiadur Cymreig ddim niwaid i chwi: gall wneyd lles. Gall y Seison wneyd heboch yn burion; ond gellwch chwi fod yn llawer iawn o gymhorth i'ch brodyr Cymreig. Ond uwchlaw y cwbl,

Mynwn wneuthur yr iaith Gymraeg yn foddion dyrchafiad y Cymry. Gwnewch yr iaith Gymraeg i'r Cymry yr hyn yw yr iaith Seisneg i'r Seison. Beth dybiech chwi o'r Seison yn ceisio dysgu eu plant trwy gyfrwng yr

Digitized by Google

Hindwaeg? Mae y Cymry yn gwneyd peth mor ffol a hyna: ceisiant ddysgu a dyrchafu y Cymry trwy gyfrwng y Seisneg, yn lle y cyfrwng naturiol, sef y Gymraeg. Gwneir y Seison yn ddysgedig, yn wybodus, ac yn goeth trwy y Seisneg; ac felly dylem ninau wneyd trwy y Gymraeg. Rhowch wybodaeth, a dysg, a choethder i'r Cymry trwy y Gymraeg; ac os rhaid dysgu Seisneg i'r plant, dysger Seisneg hefyd trwy y Gymraeg. Mae y Gymraeg yr un mor alluog a'r Seisneg i gyfranu dysg a gwybodaeth; gan hyny, paham na wnaiff y gyntaf y tro cystal a'r olaf? Yn awr, gan y mynwn wneyd y Gymraeg yn gyfrwng dyrchafiad y Cymry, mynwn luosogi llyfrau Cymreig, a newyddiaduron Cymreig, a misolion a chwarterolion Cymreig, a gwneyd y cwbl yn dda—mor dda, fel nad ellid cael eu gwell hyd yn nod yn Seisneg. Mae digon o Gymry yn y byd eto i wneyd llenyddiaeth y Cymry yn bwysig, a'r iaith Gymraeg yn enwog; gan hyny, mynwn i'r Cymry barhau yn Gymry, a gwneyd cyfamod â'u gwlad y gwnant eu goreu i sicrhau oes y byd i'r iaith Gymraeg.

---

## PETHAU WNAWN PE BAE GENYF ARIAN.

Mae llawer o feddyliau dyn yn ddigon ffol, ond ffol neu beidio, ar ol eu meddwl, mae y nifer amlaf ohonom yn caru cael eu dyweyd. Yr wyf finau wedi bod yn meddwl llawer o bethau digrif; ac yn mysg pethau ereill, bûm yn meddwl ac yn ystyried, pe cawswn lawer o gyfoeth, beth a wnaethwn â'r arian. Mae yn eithaf sicr na chaf byth fy rhoddi ar brawf yn y mater yma; ac yn sicrach fyth yr ystyrir fi yn ffol am feddwl pethau mor blentynaidd; er hyny, nid allaf wrthsefyll yr awydd i ddyweyd wrth y byd Cymreig y pethau mae fy nghalon yn eu dyweyd a wnai pe buasai genyf arian.

Pe buasai genyf arian, buaswn yn adeiladu gweithdy mawr, ac yn sefydlu argraffwasg ynddo i argraffu pob ysgriflyfr Cymreig o werth ag sydd eto heb eu cyhoeddi, ac i ddwyn allan argraffiadau newyddion o rai sydd yn brin ac yn anhawdd i'w cael. Gresyn mawr yw fod un ysgrif a dim gwerth ynddi heb ei chyhoeddi; ac yr wyf

yn methu gweled fod achos iddynt fod chwaith. Mae newyddiaduron, misolion, a thrimisolion mor luosog erbyn hyn, fel y gellir cyhoeddi unrhyw swm o lenyddiaeth rhyngddynt. Os oes ysgrifau o deilyngdod i'w cael yn rhywle, byddai yn dda iawn cael gafael arnynt i lenwi dalenau y wasg, yn lle rhai o'r rhimynau dienaid sydd ynddynt ar dro yn bresenol. Ond yr un pryd, pe cawsid rhyw gymdeithas i argraffu llyfrau Cymraeg, a'u gwerthu am brisiau isel, gallai fod yn llawer o gymhorth i'w gwneyd yn boblogaidd.

Pe buasai genyf ddigon o arian, buaswn yn adeiladu ysgoldy yn mhob tref a phentref yn Nghymru, ac yn ei roi yn anrheg i Gymru ar yr amod fod yr iaith Gymraeg i gael ei dysgu ynddo tra rhedai dwfr. Cawsai ei enw ei gerfio mewn llythyrenau mawrion ar ei wyneb yn Gymraeg. Cawsai yr argraffdy argraffu llyfrau ysgol ar bob gwybodaeth yn Gymraeg, i ddysgu ac egwyddori y plant ynddynt. Cawsai y plant ddysgu darllen, a rhifo, ac ysgrifenu yn Gymraeg. Cawsent ddysgu Seisneg hefyd, ond trwy gyfrwng y Gymraeg. Cawsai y plant ddysgu canu tônau Cymraeg yn Gymraeg, a chawsent eu hegwyddori yn hanes a llenyddiaeth y Cymry. Buaswn yn gofalu am wneyd yr ysgolion i gyd i'r Cymry yr hyn yw ysgolion Seisnig i'r Seison.

Pe buasai genyf ddigon o arian, buaswn yn adeiladu dwy athrofa fawr; un yn y gogledd, a'r llall yn y deau; a'r ddwy i fod yn Fam-ysgol Gymreig: ac yn y ddwy buaswn yn ei wneyd yn fater o raid i'r iaith Gymraeg gael ei dysgu tra parhaai y colegau mewn bod. Ac nid yn unig cawsai yr iaith Gymraeg ei dysgu ynddynt, ond yr iaith Gymraeg gawsai fod yn iaith yr athrofa. Byddai raid dysgu pob iaith a phob gwybodaeth arall trwy y Gymraeg. Yn Gymraeg y byddai raid traddodi yr holl ddarlithiau, ac yn Gymraeg y byddai raid cadw yr adroddiadau o weithrediadau yr athrofa. Mynwn roi y pethau canlynol mewn lle priodol yn y sylfaen:—Beibl Cymraeg, Baner Cymru, a Seren Cymru; copi, o ran hyny, o bob greal sydd yn d'od allan yn bresenol yn Gymraeg; a chopi hefyd o Brâd y Llyfrau Gleision; yr olaf, hwyrach, i ddangos fy nghariad at fy ngwaith fy hun. Mynwn enw Cymreig arno, ac arwydd y ddraig goch uwch ei ben. Mynwn gael llyfrgell Gymreig berthynol i'r athrofa, ac eilun o bob llyfr Cymreig i'w gadw

Digitized by Google

ynddi. Fel hyn yn union y buaswn yn gwneyd i'r ddwy. Nid oes eisieu dywcyd, o ganlyniad, y buasai raid i'r proffeswyr i gyd fod yn Gymry dysgedig; oblegid gwneyd iaith y Cymry yn ddefnyddiol ac yn enwog fyddai y dyben.

Pe buasai genyf ddigon o arian, buaswn yn adeiladu arsyllfa ar rai o fryniau Sir Feirionydd, i fod yn Ysgol Seryddol i'r Cymry. Bu ein hynafiaid gynt yn edrych ar y nefoedd oddiar fryniau ein gwlad, ac yn galw y ser wrth enwau Cymreig; ond yr ydym ni, eu plant annheilwng, wedi myned bron yn rhy ffol i son am ddim yn ein hiaith ein hunain. Ond pe gallwn godi arsyllfa, mi fynwn seryddiaeth Gymreig i'r Cymry eto: cai llygaid Cymreig edrych ar y nefoedd, a geiriau Cymreig ddarlunio ei rhyfeddodau.

Pe buasai genyf ddigon o arian, buaswn yn codi ysgol gelfyddydol a gwyddonol i ddysgu gwyddoniaeth a chelfyddyd i'r Cymry yn Gymraeg. Eithaf peth fyddai hyfforddi y Cymry i *gynllunio*, i *liwio*, i *gerfio*, i *ganu*, ac i bob peth arall a ddysgir ac a ellir ei ddysgu mewn sefydliadau o'r fath; ac nid wyf yn meddwl y byddai gan y pethau eu hunain ddim gwrthwynebiad i'r Cymry eu dysgu yn eu hiaith eu hunain. Ond y gofyniad a roir yw hwn,—Pa les eu dysgu yn Gymraeg? Yr un lles yn union a'u dysgu yn Seisneg; a phe bae yr arian genyf, mi fynwn ddangos hyny yn weithredol.

Pe buasai genyf ddigon o arian, buaswn yn sefydlu llyfrgelloedd Cymreig yn mhob pentref a thref yn Nghymru, ac yn eu galw,

LLYFRGELLOEDD PENTREFOL CYMRU.

Byddai yn dda iawn eu cael. Nid rhyw lawer iawn o arian fydd eisieu i'w codi. Wedi cael ychydig o lyfrau Cymreig yn nghyd i ddechreu, y cwbl, wedi hyny, fyddai yn eisieu i'w gwneyd yn llyfrgell werthfawr fyddai, chwanegu ati eilun o bob llyfr newydd Cymreig ar ei ddyfodiad allan. Mor werthfawr fyddai llyfrgell fel hon mewn ardal wledig! Gallai bechgyn a genethod tlodion gael digon o lyfrau i'w darllen, a'r gweithiwr wrth ei ddiwrnod gwaith yr un modd. Yn nglŷn â'r llyfrgell mynwn ystafell gyhoeddus, lle gallai y neb ddewisai ddyfod iddi i ddarllen y newyddiaduron a'r grealau; ac yn yr ystafell hon mynwn gael eilun o bob cyhoeddiad Cymreig sydd yn dyfod allan.

Pe buasai genyf ddigon o arian, buaswn yn adeiladu

Digitized by Google

amgueddfa fawr Gymreig yn nyffryn hardd Edeyrnion, tuag ardal Llandderfel yn rhywle, i fod yn dderbynfa ac yn gadwrfa i bethau Cymreig henafol a diweddar. Mae llawer o weddillion Cymreig yn cael eu cadw yn yr amgueddfa Brydeinig, a manau ereill; a da yw hyny. O ran dim wnaiff y Cymry, buasai y cwbl wedi cael eu colli. Ond gresyn mawr na edrychai Cymru ar ol ei thrysorau ei hun. Gresyn na buasai genym gasgliad o weddillion Cymreig gwerth i'w ddangos, a gwerth edrych arno. O na wnai rhywun rywbeth yn fuan tuag at gael amgueddfa Gymreig. Bydd yn rhy ddiweddar yn fuan i feddwl am un. Os gofynir beth geid i roi ynddi, gallaf ateb, y ceid cyflawnder mewn ychydig amser. Dyma ein llyfrau i ddechreu. Byddai eisieu pob llyfr Cymraeg argraffedig ynddi, a phob ysgriflyfr, neu eilun ohono, hefyd. Byddai yn syn i galon Dic Sion Dafydd weled y llyfrgell arddercbog a ellid wneyd o lyfrau Cymraeg yn unig. Dyna yr hen fathodau wedi hyny,—rhai Cymreig, Rhufeinig, a Seisnig, ag sydd yn dwyn cysylltiad â Chymru. Byddai yn dda iawn cael casgliad o'r rhai hyn at eu gilydd. Dyna arfau milwrol a gwisgoedd milwrol Tywysogion Cymru wedi hyny. Mae yn sicr y gellid cael llawer ohonynt, er fod yr amser yn bell. Ac oni fyddai cael rhywbeth oedd yn perthyn i Llewelyn, neu Glyndwr, neu ryw ŵr mawr ac enwog arall, yn gaffaeliad gwerthfawr? Byddai, yn ddiddadl. Gellid cael lluniau rhai, hwyrach, i addurno muriau yr amgueddfa. Mae llawer iawn o weithiau y beirdd ar hyd y wlad, yn eu llawysgrifau eu hunain. Dylai y rhai hyn fod yn werthfawr yn ngolwg y genedl. Dylid eu cael i'r amgueddfa, i'w cadw yn ofalus, lle gallai llenorion gael y pleser o edrych arnynt, a'u darllen. Mae y wisg Gymreig a wisgid gan ein mamau bron wedi myned i fysg y pethau a fu; ond byddai raid cadw y rhai hyn hefyd yn yr amgueddfa. Dyna amrywiaeth mawr o fŵnau wedi hyny. Gellid cael engreifftiau o'r rhai hyny i egluro mŵnyddiaeth a daearyddiaeth. O ran hyny, ceid cyflawnder o bethau i'w llenwi, a hyny yn fuan. Mae rhyw fater bach wedi bod ar fy meddwl lawer gwaith, ac ni waeth ei roi ar lawr yma na rhywle arall; a dyma fe,—A fyddai ddim yn bosibl gosod tipyn o werth ar weddillion meibion athrylith yn Nghymru? Mae gwerth mawr yn perthyn iddynt mewn gwledydd ereill, a phaham y rhaid iddynt fod mor ddiwerth gyda ni? Byddai

Digitized by Google

llawysgrif Milton, Burns, neu ryw ŵr mawr arall, yn werth arian gan ein cymydogion, a byddai cystadleuaeth lem i'w meddianu. Ai llyfr a fu unwaith yn llyfrgell rhyw ddyn enwog i bris mawr wrth ei arwerthu. Byddai yn werth i rywun geisio gwneyd marchnad yn y pethau hyn yn Nghymru. Pe ceid ychydig bethau fu yn perthyn gynt i Dafydd ab Gwilym, megys ei lawysgrif, ac i feirdd ac enwogion ereill ein gwlad, i'w cynyg ar werth, mae yn ddigon tebygol y ceid prynwyr a roddent bris da amdanynt; a byddai peth fel hyn yn gynorthwy i gadw dyddordeb yn yr enwogion eu hunain. Fyddai ddim yn niwaid i ni, fel cenedl, dalu ychydig mwy o sylw i bethau bach fel hyn.

Pe buasai genyf ddigon o arian, buaswn yn cynorthwyo ymfudwyr i ffurfio Trefedigaeth Gymreig yn Patagonia, neu rywle arall. Gwawdied neb fyno y drychfeddwl, mae yn eithaf naturiol a rhesymol. Oddiar galon y genedl y mae yn tarddu. Mae y Cymry fel y Gwyddelod yn enwog am ymfudo. Braidd y gellid dyweyd fod gormod yn ymfudo; oblegid tra mae y Cymry yn ymfudo allan o Gymru, mae y Seison yn ymfudo i mewn iddi. Yn awr, pe gellid troi y ffrwd ymfudol o Gymru i ryw un Drefedigaeth, fe fyddai yno yn dra buan genedl gref o drigolion. A phaham nad allai Cymru gael Trefedigaeth gystal a'r Seison? Paham y rhaid sarhau yr awydd am barhâd yr iaith yn Nghymru, a'i ganmol mewn cenedloedd ereill? Mae y Seison yn cydymdeimlo â'r Groegiaid a'r Pwyliaid yn eu hawydd a'u hymdrech i barhau eu hiaith a'u hunain fel cenedl; paham gan hyny y rhaid lladd y Gymraeg? O ran hyny, nid y Seison sydd eisieu ei lladd, ond y Cymry eu hunain. Gallai fod ambell Sais hefyd yn elyniaethus i'n hiaith, ond nid llawer ohonynt: mae y nifer amlaf yn eithaf boddlawn iddi gael parhau byth. Ond y mae llawer o Gymry yn awyddus iddi farw, a dyma y peth mwyaf anesboniadwy ac annaturiol y gwn i amdano. Mae cenedl nad oes digon o hunan-barch ynddi i wneyd ei goreu i gadw ei hiaith yn fyw yn annhraethadwy o ddirmygus. Nid ellir byth daflu mwy o ddirmyg arni nag y mae yn ei haeddu. Hoff bwnc rhai Cymry y dyddiau hyn ydyw lladd yr iaith yn y trefydd, a gadael iddi fyw bywyd truenus yn y mynyddau; ond yr wyf fi am gynyg gwelliant ar y cynyg yna, a dyma fe,—Lladdwch hi yn mhob man ar unwaith,

Digitized by Google

neu codwch hi yn fyw yn mhob man. Os yw y trefydd i fyned yn Seison, aed y mynyddau hefyd; ond hyderu yr wyf y siomir bradychwyr a dirmygwyr ein gwlad yn eu gobeithion annaturiol am farwolaeth ein hiaith.

Braidd na thybiwn weithiau fod ysbryd newydd yn dechreu meddianu y Cymry, ysbryd a ddaw yn ddigon gwrol a beiddgar i ysgubo gelynion ein hiaith i ebargofiant. Ond y peth goreu at barhau yr iaith fyddai cael Trefedigaeth Gymreig. Cai hon ddylanwad grymus, nid yn unig ar yr ymfudwyr, ond ar y Cymry gartref yn ogystal.

Mae llawer iawn o bethau ereill a wnaethwn, pe buasai genyf arian; ond ofer yw ymhelaethu arnynt: nid yw yr arian genyf, ac nid yw yn debygol y bydd i mi byth eu cael. Ond y mae yr arian gan y wlad; a phe cai y genedl yr ewyllys, gallai wneyd yr holl bethau a enwais, heb lawer iawn o aberth nac ymdrech. Mae yn sicr y byddai yn dda iawn eu cael; a phe ceid hwynt, mae yn sicr y byddent yn dderbyniol. O na cheid dynion yn mhob ardal a'u bryd yn wastadol ar lesau eu gwlad a'u cenedl. Mor hawdd fyddai cael llyfrgell Gymreig a darllenfa yn mhob tref a phentref yn Nghymru ond cael rhywun i fod yn dad i ofalu amdani. Dyma sydd ar ol gyda ni—dynion i fod yn flaenoriaid yn symudiadau y genedl. Pe ceid dynion gwladgar i gymeryd symudiadau gwladgarol mewn llaw, byddent yn sicr o lwyddo. Gallai y genedl wneyd pethau mawr eto ond ei chael at ei gwaith, a'i chael hefyd i ddal at ei gwaith. Rhyw duedd blino sydd ynom gyda phobpeth. Dechreuwn yn wyllt a selog dros ben; gwnawn fôr a mynydd am ychydig fisoedd; llosgwn a goleuwn yr holl nefoedd am ryw dro bach: ond ni fydd ddim ond fflam yn y badell; derfydd yn union, a bydd yr oerni, wedi hyny, yn gyfatebol i'r gwres o'r blaen. Ond peidiwn â digaloni; yn hytrach, diwygiwn; a boed i'r Nefoedd ein bendithio âg ysbryd i weithio, ac â chalon i ddyfal-barhau.

---

## EISIEU DYNION MAWR.

Mae Cymru yn sâl o eisieu dynion mawr; mae calon y genedl yn dyheu am enwogion: ac os gellir barnu yr

Digitized by Google

awydd mewnol oddiwrth yr arwyddion allanol, mae ei hawydd am dduwiau llenyddol yn cynyddu yn barhaus. Mae arwyddion y clefyd i'w gweled yn amlwg iawn yn y cwyno parhaus sydd yn ein plith ein bod heb enwogion. Edrychir yn barhaus dros Glawdd Offa, a llygadir ar Milton a Shakespeare, a gresynir yn fawr na buasai genym ninau rai tebyg. Siaradir fel pe byddem heb un enw a dalai i'w glodfori, ac ocheneidir yn drwm oblegid hyny. Ac y mae yr arwydd i'w weled hefyd yn y dysgwyliad parhaus sydd yn ein mysg am ddynion mawr. Mae y genedl fel pe bae yn meddwl ei bod yn eu teilyngu, ac y dylai eu cael. Braidd nad allem feddwl fod y genedl yn ddig eu bod mor hir yn d'od. Ond y mae ganddi hyder y deuant rywbryd; oblegid y mae yn proffwydo yn aml eu bod yn d'od. Clywir rhai yn fynych yn cyhoeddi yn awdurdodol, fod beirdd mawr a llenorion mawr yn d'od, a hyny yn fuan; ac y mae hyny yn dangos fod calon y genedl yn sâl o eisieu dynion mawr.

Mae yr awydd yma am enwogion yn daroganu daioni i'n cenedl. Mae yn bosibl i wlad fod yn farw i bob teimlad o anrhydedd—mor farw, nad yw yn gofalu dim am glod, nac yn alluog i fwynhau gogoniant. Ond nid yw Cymru felly; mae yn gofidio oblegid ei thlodi, ac y mae yn dysgwyl yn awyddus am chwanegiad at ei chyfoeth yn y dyfodol. Ac heblaw hyny, mae y genedl sydd yn awyddus am enwogion yn debyg iawn o gynyrchu rhai. Uchelgais cenedlaethol yw y peth tebycaf o bob peth i gynhyrfu dynion i ragori; ac oblegid hyny, a chaniatau fod Cymru yn awr heb enwogion, ni bydd yn hir heb eu cael. Bydd yr awydd amdanynt yn sicr o'u cynyrchu; ac felly, mae salwch Cymru am enwogion yn ffynonell cysur ac yn sylfaen gobaith. Yr un pryd, y mae genyf sylw neu ddau y dymunwn eu gwneyd ar y mater yma:—

Mae gelynion Cymru wedi bod yn ei chyhuddo o fod yn ddiofal am gyfoeth a dyrchafiad. Dywedant ein bod yn llwfr fel masnachwyr; fod arnom ofn anturio gyda dim ag sydd â gradd o ansicrwydd ynddo. "Dyna hi," meddynt, "yn cwyno ei bod yn dlawd, ac y mae cyfoeth, faint a fynir, dan ei thraed. Mae aur yn ei chreigiau; mae ei cheryg yn llechi; mae glo, haiarn, pres, a phlwm, yn llanw ei chelloedd tanddaearol. Ond y mae Cymru yn byw mewn tlodi yn nghanol y cyfoeth mwyaf." Yn awr, os yw y cyhuddiad yn wirionedd, dylem wrido a

Digitized by Google

diwygio. Ond pa un bynag a yw yn wir mewn ystyr fasnachol ai nad yw, yr wyf yn ofni ei fod yn wir amdanom mewn ystyr lenyddol: yr ydym yn cwyno ein bod yn dlawd o enwogion, pan mewn gwirionedd yr ydym yn gyfoethog ohonynt. Mae Cymru yn cau ei llygaid ar ei henwogion, ac yna yn tybied nad ydynt yn bodoli. Mae bechgyn dibrofiad, a llenorion siomedig hefyd, yn gwneyd eu goreu i berswadio y wlad i gredu nad oes ganddi enwogion o gwbl. Myn y rhai hyn i ni gredu nad ellid cael gwerth swllt o farddoniaeth allan o gynyrchion ein beirdd, hen na diweddar, er lluosoced ydynt. Rhai enwog ydym am arogli beiau. Pe bae eisieu llwyth llong o ffaeleddau a diffygion, gallai yr ysgrifenwyr hyn eu cael rhagblaen. Ond y mae cyfeiliornad yn annghyson âg ef ei hun, ac â'r gwirionedd hefyd, a hyny bob amser: felly y dybiaeth gyfeiliornus fod Cymru yn dlawd o enwogion. Myn y rhai sydd yn coleddu y dybiaeth anwladgarol hon fod y Cymry yn genedl dalentog; a mynant hefyd, pe troai y Cymry yn Seison, y cynyrchent gynifer o enwogion ag unrhyw genedl arall. Ond am eu bod wedi parhau yn Gymry, a chyfansoddi yn Gymraeg, mynant i'r byd gredu nad yw y genedl eto wedi magu bardd na llenor gwerth son amdano. Ond y fath annghysondeb gwrthun sydd yn y syniadau hyn! Os yw cenedl o bobl heb gynyrchu bardd na llenor ar ol cael miloedd o flynyddau i wneyd hyny, lle mae ei thalent? Os yw heb gynyrchu gwaith anfarwol yn ei hiaith ei hunan, beth yw sylfaen eu dysgwyliad y bydd iddi wneyd mewn iaith estronol? A ydyw yn bosibl, mewn difrif yn awr, i ryw un gredu fod yn bosibl i genedl o bobl feddwl, ysgrifenu, a siarad, am filoedd o flynyddau, heb feddwl, na siarad, nac ysgrifenu dim yn deilwng o enwogrwydd? Mae yn fater o syndod i mi fod llawer o'm cydgenedl yn gallu meddwl, siarad, ac ysgrifenu ar y pwnc yma fel y gwnant. Nid allaf beidio â meddwl fod eu haeriadau anwladgar yn tarddu naill ai oddiar anwybodaeth o weithiau ein henwogion, neu oddiar syniadau annghywir am yr elfenau sydd yn cyfansoddi teilyngdod llenyddol; neu ynte oddiar siomedigaeth bersonol. Mae y tri yn bosibl, ond yr olaf yw y tebycaf o fod yn wir. Mae y tylwyth yn tybied eu bod yn feirdd mawr, a llenorion mawr; a dysgwyliant i bawb, yn enwedig y Cymry, eu cydnabod fel y rhai mwyaf a fagwyd erioed yn Nghymru. Ond y mae

Digitized by Google

Cymru yn gwrthod eu cydnabod fel y cyfryw; a pheth sydd waeth, mae yn gwrthod rhoi cefnogaeth i'w cynyrchion: ac yn hyn mae yn pechu yn anfaddeuol—mae yn gwneyd gelynion o rai fwriadent fod iddi yn dduwiau. Hwy dreuliant hyny o dalent sydd ganddynt, o hyny allan, i geisio darbwyllo darllenwyr i gredu y gellid cyhoeddi hyny o ddysg, a synwyr, a barddoniaeth, ag a gyhoeddwyd yn Gymraeg i gyd mewn llyfr swllt.

Mae yr awydd yma yn y Cymry am enwogion yn awydd naturiol a rhesymol; ond dylid dysgu y genedl i deimlo fod yn rhaid iddi wneyd cyfiawnder â'r rhai sydd ganddi cyn cael chwaneg. Yr wyf wedi dangos mewn traethawd arall fod genym enwogion lawer, ond eu bod yn cael eu hesgeuluso gan eu cenedl eu hun; o ganlyniad, dyledswydd gyntaf y Cymry ydyw anrhydeddu y duwiau llenyddol sydd ganddi; ac wedi gwneyd cyfiawnder â hwy, bydd ganddi ryw reswm dros ddysgwyl am rai ereill mwy a rhagorach. Pe buasai pob cenedl wedi ymddwyn at ei dynion mawr fel y gwnaeth Cymru, ni buasai cenedl yn unman allasai ymffrostio mewn enwogion. Mae cenedloedd ereill yn dangos rhagoriaethau eu hysgrifenwyr, ac yn cadw eu henwau yn fyw: mae oes ar ol oes yn chwanegu at eu henwogrwydd. Mae enwogrwydd dynion mawr mewn gwledydd ereill yn debyg i garnedd ar ben y mynydd, at yr hon y mae pob teithiwr, wrth fyned heibio, yn chwanegu careg; a'r garnedd, o ganlyniad, yn myned yn fwy o oes i oes. Fuasai dynion mawr Lloegr a'r Alban ddim mor enwog ag ydynt oni buasai fod miloedd eu gwlad yn cyduno i'w hanrhydeddu. Ond O! mor wahanol yw pethau yn Nghymru! Mae ysgrifenwyr bustlaidd Cymru yn cuddio prydferthion ein hysgrifenwyr, ein beirdd, a'n hawduron, ac yn gwneyd arddangosiad o'u gwendidau. Os edrychir ar enwogrwydd dynion mawr Cymru fel carnedd ar ben mynydd, gellir dyweyd fod ein beirniaid ni, yn lle chwanegu careg ati, a'i gwneyd yn fwy, yn cymeryd pob un ei gareg ymaith, nes yw y garnedd, oedd unwaith yn fawr ac amlwg, wedi myned bron yn ddim. Mae cenedl all ymddwyn fel hyn yn annheilwng o enwogion. Mae yn bosibl i'r nefoedd flino yn anfon angylion i'r ddaear i gael eu lladd a'u hanghofio. Wneir dim cyfiawnder byth â meddylwyr ein gwlad nes i'r anffyddlondeb bradwrus sydd yn ei phlant gael ei ladd. Pe gwnai bardd mawr ei

Digitized by Google

ymddangosiad yn Nghymru, pe byddai yn fwy bardd na Milton ac na Shakespeare; pe bae holl ragoriaethau holl feirdd y byd wedi cydgyfarfod ynddo; prin yr wyf yn meddwl y gwelai Cymru ddim mawredd na rhagoriaeth ynddo. Mae y dwymyn Seisnig wedi ei dallu, fel na wêl ddim prydferthwch yn y meddyliau mwyaf barddonol a goruchel yn hen iaith ein tadau. Pe deuai angel o'r nefoedd i lawr i Gymru âg un o feddyliau mwyaf tragwyddoldeb gydag ef, a'i lefaru neu ei ysgrifenu yn Gymraeg, mae braidd yn sicr genyf y gwelai Cymru, dan effaith y dwymyn Seisnig, fwy o ogoniant mewn ynfydrwydd ffwl yn Seisneg, nag a welai yn y meddwl mwyaf a fedd y Nefoedd o enau angel yn Gymraeg. Mae yn resyn meddwl fod yn bosibl i seraff meddyliol wneyd ei ymddangosiad mewn gwlad fel Cymru heb gael ei weled; ond pe gwelid ef gan ryw ychydig, mae yn ofnus genyf mai ei esgeuluso a gai wedi hyny. Gadewid iddo aredig a hau y tir, yn lle aredig a hau meddyliau y genedl. Esgeulusid ef gan bawb. Ni feddyliai neb am roi cymhorth iddo i gyhoeddi cynyrchion ei fyfyrdodau, na dim arall. Gallai ei wlad edrych arno yn was i ysgubwr simddai heb wrido. Ond mwy na hyny, nid yn unig cai ei esgeuluso, ond yr wyf yn ofni y cai ei erlid am ddyfod atom i ddangos fod yn bosibl i ddyn fod yn fawr fel Cymro yn ogystal ag fel Sais. Byddai i hyny o feirdd a llenorion sydd yn Nghymru, o leiaf byddai i luaws ohonynt, ymosod arno fel llewod rheibus ar eu hysglyfaeth gyda bwriad i'w ladd. Gwnaent arddangosiad parhaus o bob gwendid ymddangosiadol yn ei waith. Cuddient ei ogoniant o'r golwg, os byddai modd. Hwy lefarent yn ynfyd, a dywedent ei fod yn ffol fod yn ysgrifenu yn Gymraeg—y gallasai fod yn rywbeth pe buasai yn Sais. Fel hyn, a llawer fel arall, hwy wnaent eu goreu i'w guddio ef a'i waith o olwg y byd.

Yn awr, os ydym ni am enwogion, rhaid i ni fod yn wladgarol ac yn rhesymol yn ein hymddygiadau. Rhaid i ni gael chwaneg o ffydd ynom ein hunain ac yn ein hiaith. Ond i ni gael meddyliau anfarwol, ni fyddai genyf ddim ofn eu hysgrifenu yn Gymraeg. Rhoer y peth byw i mi, a dewiswn y Gymraeg o flaen pob iaith arall yn gyfrwng ei drosglwyddiad i'r byd, oblegid mai fy iaith fy hunan yw hi. Pe codai haul yn Nghymru, nid allai gwahanfur iaith byth attal i'w oleuni lewyrchu tros y byd. Byddai

Digitized by Google

yn well genyf fi gael codi yn gawr o feddyliwr Cymreig yn Gymraeg; a chwyddo, a chynyddu, ac ymenwogi, nes myned yn rhy fawr i Gymru; a thori tros derfynau ein gwlad a'n hiaith ein hunain, a llenwi amgylchedd cylch y Seisneg; a threiglo a chwyddo wedi hyny, nes llanw holl gylchoedd ieithoedd y byd, na chael myned yn ben ar holl enwogion y ddaear ar unwaith, a iaith fy nhadau o dan fy nhraed. Mae gyda ni ry fach o ffydd yn yr hen iaith. Raid dim diolch am gynyrchion rhai o'n hysgrifenwyr. Pe buasent yn galiu gwneyd argraff ar y Seison, Seison fuasent. Mae gyda hwy ddigon o Seisneg, a Seisneg da, ond ni fyn y Seison mohonynt; ac wedi cael eu gwrthod gan ein cymydogion, troant atom ni, a chymerant arnynt eu bod yn aberthu eu hunain ar allor eu gwlad. Mae y lleill, gyda'u bod wedi gorphen rhyw ddwsin o benillion yn Gymraeg, yn eu troi wedi hyny i'r Seisneg, gan feddwl, mae yn debyg, y byddant yn fwy tebyg o fyw yn Seisneg nag yn Gymraeg. Nid oes dim niwaid yn hyny, mae yn wir; ond y mae yn dangos diffyg ffydd yn yr hen iaith.

O na fyddai y Cymry yn fwy gwlagarol. Nid wyf yn credu fod gwlad dan haul mor llawn o lanerchi cysegredig ag yw Cymru. Nid oes nemawr lanerch o'i mewn nad yw wedi magu bardd, llenor, ysgolhaig, neu arwr; ac y mae llawer iawn o'u gweddillion ar gael, ac ystyried leied o ymdrech a wnaed i'w cadw. Os ydym am enwogion, gwnawn gyfiawnder â'r rhai hyn. Adeiladwn eu beddau, dangoswn eu rhagoriaethau, darllenwn eu hanes a'u gweithiau, dysgwn ein plant i'w gwerthfawrgoi, a gwnawn ein goreu i chwanegu ereill atynt. Pan welwn athrylith diamheuol yn codi, gwnawn a allom i'w gefnogi: prynwn ei lyfrau; ceisiwn hefyd ei osod mewn rhyw sefyllfa fanteisiol i gyfansoddi. Mae yn eithaf peth cydnabod awdwr yn ei henaint, ond gwell na hyny fyddai gwneuthur rhywbeth i'r ieuanc, a'i alluogi i gysegru ei oes i wasanaethu ei wlad. Gwnawn ni gyfiawnder â'r enwogion sydd genym, ac ni chawn achos byth i gwyno fod ein henwogion yn brin; oblegid "i'r hwn sydd ganddo y rhoddir iddo; ac oddiar yr hwn nid oes ganddo y dygir oddiarno, ïe, yr hyn sydd ganddo."

Digitized by Google

## CYFARWYDDIADAU I DDANGOS Y MODD GOREU I WARADWYDDO CYMRU.

Mae y gwaith o waradwyddo ein gwlad wedi myned erbyn hyn yn waith mawr iawn: mae llawer iawn yn gyflogedig ynddo: ac felly mae o gryn bwys i rywun eu dysgu sut i wneyd eu gorchwyl yn effeithiol. Gan nad wyf yn gwybod am neb all eu dysgu yn well na fy hunan, mi gymeraf y baich arnaf; ac ond i'r enllibwyr dalu sylw manwl i'r cyfarwyddiadau a roddaf, a'u cofio a'u gwneyd, maent yn sicr o lwyddo yn eu hamcan i wneyd ein gwlad a'n cenedl yn ddirmygedig gan holl genedloedd y ddaear.

Pan gewch gapel newydd, gofalwch am i'w enw fod arno yn Seisneg. Os bydd rhai o'r boblach mor ffol a dymuno cael adnod o dan yr enw, gofalwch am i hono hefyd fod yn Seisneg. Mewn gair, cymerwch ofal na chaiff un gair Cymreig fod yn weladwy ar ei wyneb, nac yn agos ato, os bydd yn eich gallu i attal drwg mor fawr.

Wrth godi ysgoldy yn Nghymru i ddysgu plant Cymreig, rhowch "*Times*" Llundain, a'r "*Spectator*," a llyfr neu ddau, yn Seisneg, mewn costrel seliedig o dan y sylfaen, a gofalwch na chaiff un gair o Gymraeg fod yno gyda hwy; ac fel gyda'r capel, rhowch yr enw arno yn Seisneg, wedi ei gerfio mewn careg ar ei wyneb.

Mewn pob ysgol Gymreig, gofalwch na chaiff yr iaith Gymraeg na'i siarad, na'i darllen, na'i dysgu: a gwnewch bob ymdrech i ddwyn y plant i fyny mewn perffaith anwybodaeth o hanes y Cymry a'u llenyddiaeth. Peidiwch gadael i'r plant ddysgu caneuon Cymreig. Hyfforddwch y plant i gasau a dirmygu y Cymry a'u gwlad. Yn enwedig yn yr athrofeydd, lle dysgir dynion ieuainc i fod yn Weinidogion Cymreig, gofalwch yn benaf dim am esgeuluso y Gymraeg. Dysgwch bob peth iddynt ond Cymraeg. Gwnewch hwynt yn Seison, os gellwch. Peidiwch â gadael iddynt ddarllen llyfr Cymraeg, na gwybod dim am y Cymry. Gwnewch hwynt o droi holl sefydliadau addysgiadol Cymru yn foddion grymus i yru y Gymraeg allan o fodolaeth.

Pan briodwch a chael plant, peidiwch â'u dysgu i siarad Cymraeg, dysgwch Seisneg yn unig iddynt, ac felly bydd i'r Gymraeg farw gyda chwi yn eich teulu chwi.

Os bydd capel Seisnig yn yr ardal, a Chymry yn addoli ynddo yn Seisneg, gadewch y capel Cymreig, ac ewch at

Digitized by Google

y Cymry i gymeryd arnoch addoli yn Seisneg. Nid yw o ddim pwys eich bod yn analluog i ddeall Seisneg, oblegid rhai yr un fath a chwi fydd eich cydaddolwyr. Cewch fel hyn gyfle i ddiystyru y weinidogaeth Gymreig, a'r Cymry hefyd yr un pryd.

Os na fydd capel Seisnig i'w gael, gwnewch a alloch i lusgo y Seisneg i'r ysgol Sul, a darbwyllwch y Gweinidog i roi darn o bregeth yn Seisneg mor aml ag y gellir. Gwnewch bob peth yn eich gallu i Seisnigo yr ardal, a pheidiwch âg ofni defnyddio hyd yn nod y cysegr a'r areithfa tuag at hyny.

Os sonir yn eich clyw am lenyddiaeth y Cymry, neu os cewch gyfle i anerch cyfarfod cyhoeddus, cofiwch am ddyweyd nad oes gan y Cymry ddim llenyddiaeth—y gellid cyhoeddi hyny o ddysg, a gwybodaeth, a barddoniaeth, ag a gyhoeddwyd yn Gymraeg, i gyd mewn llyfr swllt.

Os sonir mewn cyfeillach o Gymry am ryw lyfr neu lyfrau Cymreig, byddwch yn sicr o sylwi nad ydych byth yn darllen llyfrau Cymreig, nac yn eu prynu.

Pan holir chwi yn nghylch newyddiaduron Cymreig, dywedwch nad ydych byth yn eu darllen ond ar amser Eisteddfod.

Peidiwch cefnogi llenyddiaeth y Cymry. Gwrthodwch bob llyfr a phob newyddiadur Cymreig ddaw allan. Dywedwch wrth bawb fod yr iaith Gymraeg yn marw, a dywedwch wrth bawb hefyd mai siarad Cymraeg yw yr achos o dlodi, ac anwybodaeth, a phob drwg arall perthynol i'r Cymry.

Os bydd genych dŷ, neu heol, neu gerbyd, neu anifail, neu rywbeth arall âg eisieu enw arno, gofalwch am i'r enw fod yn Seisneg; ac os bydd yn anhawdd cael gair Seisnig cymhwys, cyfieithwch sir Cymreig i'r Seisneg, rhag i'r gair Cymreig gael ei gadw.

Os cyfodwch gareg neu golofn ar fedd rhai o'ch anwyliaid, gofalwch na chaiff dim gair o Gymraeg ymddangos arnynt. Bydd hyny yn gwneyd i'r bedd daflu dirmyg ar y Cymry a'u hiaith.

Os ffurfiwch Gymdeithas Gorawl neu Lenyddol, dewiswch i chwi enw a theitl Seisnig, i ddangos eich bod yn casau eich iaith, ac nad oes ynddi enw cyfaddas i chwi.

Os byddwch yn cael eich adnabod wrth ryw enw Cymreig, fel corff o grefyddwyr, yn enwedig enw fyddo wedi cael ei wneyd yn anrhydeddus trwy lafur mawr a llwydd-

Digitized by Google

iant rhyfeddol, newidiwch ef am enw Seisnig. Y mwyaf anrhydeddus fyddo yr enw Cymreig, y mwyaf oll o warth ar Gymru fydd ei newid am un Seisnig. Dangoswch, trwy ei newid, fod arnoch gywilydd o'ch enw Cymreig, a rhowch ar ddeall nad oedd dim anrhydedd yn perthyn iddo, a gwnewch i ddyeithriaid feddwl fod yr enw Cymreig oedd arnoch yn cario rhyw warth anarferol gydag ef. Gwnewch eich goreu o'r cyfarwyddyd yna, oblegid y mae yn anhawdd iawn i chwi gael dim arall mor effeithiol i sarhau eich gwlad.

Os meddyliwch rywbryd am gyhoeddi cylchgrawn neu newyddiadur Cymreig, byddwch yn sicr o roddi yn y lle mwyaf amlwg arno y geiriau Seisnig a ganlyn;—"*The National Welsh Magazine;*" neu, "*The Welsh National Newspaper*," fel y bo natur y cyhoeddiad yn galw; a thrwy hyny chwi ddangoswch fod genych ddigon o'r peth a eilw y Seison yn *foppishness.* Dim ond i chwi ystyried pa mor ddirmygus fyddai newyddiadur Seisnig gyda theitl yn Ffrancaeg, mewn llythyrenau mawrion ar ei wyneb, a chwi welwch ar unwaith y bydd y dull hwn eto yn un tra effeithiol i wneyd y Cymry a'u Cymraeg yn bertfaith ddirmygus yn ngolwg pawb.

Os cewch chwi ran i'w wneyd mewn trefnu Eisteddfod rywbryd, gwnewch a alloch i'w dwyn yn mlaen yn Seisneg, er anrhydedd i'r Gymraeg, ac adeiladaeth i'r Cymry uniaith. Chwi ddeallwch y geiriau, mi wn, er eu bod dipyn yn dywyll, oblegid yr ydych chwi, fel dosbarth, yn ddynion dysgedig. Rhowch y lle anrhydeddus i'r Seisneg; ac os gellir gwneyd heb ddim Cymraeg, goreu oll; ond os rhaid cael ychydig o arwyddeiriau Cymreig, er mwyn boddhau yr anwybodus, gofalwch am eu rhoi yn y lleoedd mwyaf diolwg yn y babell.

Os daw i'ch rhan yr anrhydedd o gael parotoi hanes yr Eisteddfod, a'r cyfansoddiadau buddugol ynddi, i'r wasg, ysgrifenwch yr hanes yn Seisneg, a gwnewch gymaint o'r gyfrol yn Seisneg ag a'i gwna yn ddiwerth i'r Cymry, ac yn destyn chwerthin i'r Seison. Ffordd ardderchog yw hon eto i waradwyddo y Cymry a'u Cymraeg.

Os dygwydd i chwi gyhoeddi llyfr yn Gymraeg er ateb rhyw ddyben o'ch eiddo, gwnewch y rhagymadrodd yn Seisneg, a chynwysiad y pennodau yn Seisneg, a'r nodiadau ar ymyl y dalenau yn Seisneg; ac os gellwch roi darnau Seisnig yma ac acw yn y llyfr, gwnewch hyny.

Digitized by Google

Pan fyddoch yn cael darlith Gymraeg ar ryw destyn, argraffwch yr hysbysleni a'r tocynau yn Seisneg; ac os gwnaiff rhywun sylw anffafriol ar hyny, gofynwch pa les fyddai eu hargraffu yn Gymraeg.

Pan ewch i gynal cyngherdd yn Nghymru, dewiswch ddarnau Seisnig yn unig i'w canu, os bydd hyny yn bosibl; ond os rhaid fydd cael darn Cymraeg neu ddau, byddwch yn ofalus am eu canu ar eiriau Seisneg. Cofiwch hyn hefyd yn barhaus, nad allwch fod byth yn rhy fanwl, oblegid trwy beth bach fel hyn y gwneir y gwaith yn fwyaf effeithiol.

Pan holir chwi yn nghylch gwŷr mawr Cymru, dywedwch wrth bawb nad oes genym ni ddim un dyn mawr; dywedwch mai plant, mewn ystyr, oedd ein beirdd a'n llenorion yn yr amser gynt; dywedwch hefyd mai hen wragedd anwybodus a diddawn ydyw ein pregethwyr a'n darlithwyr i gyd yn awr; a gofalwch am ddyweyd fod y Cymry yn îs na phawb arall yn mhob dim.

Pan ewch oddicartref i fyw, megys i Lynlleifiad neu ryw dref arall, ewch at y Seison i addoli, ac felly chwi daflwch ddirmyg ar y gynulleidfa Gymreig, a thrwyddi hi, ar Gymru i gyd. Neu, os byddwch yn methu â gwneyd eich cartref gyda'r Seison eich hun, anfonwch eich plant atynt, a bydd hyny yn dangos yn amlwg mor ddiwerth yw eich gwlad, a'ch cenedl, a'ch iaith yn eich golwg.

Os cynhyrfir chwi i godi Cymdeithas Gymreigyddol mewn bro estronol, gwyliwch fel rhai am eich bywyd na bydd i chwi siarad un gair o Gymraeg yn ei chyfarfodydd. Cofiwch mai dyben Cymdeithas Gymreigyddol yn yr oes oleu hon ydyw lladd y Gymraeg, a gwaradwyddo Cymru.

Lle bynag y byddoch, arferwch eich hunain i siarad yn wawdlyd am y Cymry a phob peth a berthyn iddynt; a pheidiwch â gadael i un cyfleustra fyned heibio heb daflu rhyw ddirmyg ar wlad eich genedigaeth.

A dyma y cyfarwyddyd olaf a roddaf i chwi yn bresenol;—Tra byddoch yn arfer yr hen ddulliau, chwiliwch allan am ryw ddull newydd yn barhaus i waradwyddo Cymru; ac ond i chwi arfer y moddion hyn a'u cyffelyb, yr ydych yn sicr o lwyddo i wneyd eich gwlad yn ddirmygus, a'i phlant yn rheg. Cewch ddigon i'ch cynorthwyo: gwnaiff y fall y ffordd yn rhydd i chwi; a chewch chwithau dâl, os nad yma, yn y dydd mawr pan adgyfodir yr anwir ddynion.



Digitized by Google

# TROI AT Y SEISON.

PWNC lled anhawdd i ymhela âg ef yw hwn; er hyny, mae yn destyn llawn o ddyddordeb i ni fel Cymry. Yr wyf yn meddwl hefyd fod yn angenrheidiol i ni ei drafod mewn trefn i wneyd y ffordd oddiwrth y Cymry at y Seison naill ai yn llawer llotach neu yn llawer culach. Beth fyddai i ni gael golwg, i ddechreu, ar y rhai sydd yn arfer troi; ac wedi deall pwy ydynt, a pha fath rai ydynt, bydd yn hawddach gwneyd rhyw sylw angenrheidiol ar y troi ynddo ei hun.

Dosbarth sydd yn gollwng llawer o'i aelodau at y Seison yw yr un pregethwrol. Mae llawer iawn o Gymry yn weinidogion Seisnig gyda phob enwad o grefyddwyr; ac nid wyf yn meddwl fod eisieu dyweyd dim yn orbyn hyny. Tra byddo Cymru yn cael digon o bregethwyr i gyfarfod angenion crefyddol y genedl, mae yn dda, mewn ystyr, gweled y gweddill yn troi i lenwi cylchoedd o ddefnyddioldeb gyda'r Seison. Os gall dyn gael mwy o gyflog fel gweinidog Seisneg, neu os gall fod yn fwy defnyddiol gyda'r Seison, ni ddylid ei feio am fyned atynt, oddigerth ei fod yn gadael ei genedl ei hun yn ddiamgeledd wrth wneyd hyny. Mae yn anrhydedd i Gymru fod llawer o'i phlant yn enill pulpudau pwysicaf y Seison. Ac yn mhlith y Seison gallai Cymry o'r iawn ryw roi llawer iawn o ogoniant ar eu gwlad a'u cenedl. Mae Richard Roberts, R. Kilsby Jones, ac ereill, fel gweinidogion Seisnig, yn dwyn llawn cymaint o anrhydedd i Gymru a phe buasent yn weinidogion urddasol gyda'r Cymry eu hunain. Ond y mae rhai pregethwyr yn Nghymru yn troi at y Seison mewn dull nad ellir byth ei gollfarnu yn ormodol. O ran hyny, mae llawer math o droi. Yr wyf yn gwybod am rai wedi troi at y Seison er's blynyddau o ran yr ysbryd, er eu bod mewn enw gyda'r Cymry eto. Gwn am bregethwyr sydd wedi treulio oes faith mewn ymdrech i droi y Cymry a'u gwasanaeth yn Seisnig. Mae eu hysbryd, eu cariad, mewn gair, maent hwy eu hunain gyda'r Seison er dyddiau eu hieuenctid, ac nid oes dim ond yr enw gwag gyda'r Cymry. Mae y rhai hyn yn bradychu eu gwlad a'u hiaith; a phe buasai y Cymry mor fyw i'w hanrhydedd ag y dylasent fod, buasent wedi gyru y Judasiaid hyn tros Glawdd Offa er ys llawer dydd. Ond

Digitized by Google

y mae ambell bregethwr a gweinidog yn waeth na'r rhai yna: ceisiant droi cynulleidfa o Gymry yn Seison er mwyn iddynt hwy gael pregethu Seisneg iddynt; ac wedi methu, codant gapel Seisneg i wrthwynebu y capel Cymraeg. Os nad yw hyn yn halogi pethau cysegredig y nefoedd, nid ellir eu halogi â dim. Mae yn dda, er mwyn anrhydedd y ddynoliaeth, fod dynion all wneyd peth fel hyn yn ychydig o nifer. Yr wyf o'r farn yn gydwybodol y dylid rhestru enwau y dynion hyn, bob un ohonynt, yn rhestr ddu bradychwyr eu gwlad.

Dosbarth arall sydd yn gollwng llawer at y Seison ydyw yr un goludog. Tra mae dynion yn dlawd ac yn isel, maent yn foddlawn ar y Gymraeg; ond wedi cael ychydig arian, thal dim ond y Seisneg. Nid wyf yn gwybod beth allai fod yr achos cynhyrfiol o symudiad y tylwyth yma; ac nid wyf yn meddwl y gwyddant eu hunain gyda dim sicrwydd. Yr esgus a ddefnyddir gan rai ydyw eu plant: mae arnynt ofn i'r Gymraeg fod yn rhwystr i ddyrchafiad eu teulu. Ond mae yr ofn yma yn ddiachos hollol. Os yw y rhieni y rhai a anwyd yn Nghymru, a'r rhai a addolasant eu Duw am flynyddau yn Gymraeg, wedi gallu codi i sefyllfa uchel ac urddasol, paham y rhaid iddynt ofni am eu plant oblegid eu bod yn medru Cymraeg? Peth sydd yn dychrynu rhai Cymry yn annghyffredin ydyw yr acen Gymreig. Mae arnynt ofn i'w plant siarad Cymraeg rhag ofn y bydd acen Gymreig ar eu Seisneg. Ond y mae yr acen Gymreig yma yn blino mwy ar y Cymry eu hunain nag ar neb arall o lawer. Paham y rhaid i'r Cymry ofalu am eu hacen mwy na rhyw genedl arall? Onid oes gan yr Ysgotiaid a'r Gwyddelod acen cystal a ninau? Mae yr Ysgotiaid yn fwy tueddol i ymffrostio ynddi nag i gywilyddio o'i phlegid. Son am yr acen Gymreig yn wir, soniwch yn hytrach am y rhai Seisnig; oblegid y mae Lloegr ei hun yn llawn ohonynt. Mae cymaint o wahaniaeth rhwng acen gwahanol Seison a'u gilydd ag sydd rhwng acen Cymro a Sais. O ran hyny, nid yw y Seison yn blino dim arnynt eu hunain yn nghylch acen neb; y Cymry sydd yn gwneyd hyny. Mae y Sais yn arfer gyda phob math o acenion; ac am y caiff ef Seisneg da wedi ei gynanu yn briodol, nid yw yn gofalu dim oll pa un ai Cymreig ai Seisnig fydd yr acen. Ond yr wyf yn ofni mai prif achos eu tröedigaeth Seisnig ydyw balchder; ac y mae y balchder yma, fel pob balch-

Digitized by Google

der arall, yn eithaf gwag o synwyr. Mae rhyw dybiaeth yn meddianu y brodyr hyn fod y Seisneg yn fwy parchus na'r Gymraeg, ac y byddant hwythau yn fwy anrhydeddus mewn cynulleidfa Seisnig nag mewn cynulleidfa o Gymry. Ond yn hyn y maent yn camgymeryd. Mae dynion parchus ac anrhydeddus yn gwneyd pob peth a gyflawnant yn anrhydeddus hefyd. Dynion sydd yn codi y gynulleidfa, ac nid y gynulleidfa y dynion. Yn y gynulleidfa Gymreig maent yn ddigon pwysig i'w gweled; mae eu presenoldeb yn codi y gynulleidfa; ond yn y lluaws Seisnig maent yn rhy fychan i fod yn weladwy, ac yn rhy ddinod i enill sylw. Yn y gynulleidfa Gymreig, maent hwy yn anrhydeddu y gynulleidfa; ond gyda'r Seison, y gynulleidfa sydd yn eu hanrhydeddu hwy. Os dywedir fod y cynulleidfaoedd Cymreig yn isel, gofynaf, pa fodd y gallant fod yn amgen tra byddo goreuon y gynulleidfa yn eu gadael? Ac os ydynt yn isel, pwy ddylai eu codi ond Cymry cyfoethog? Eich dyledswydd chwi fel Cymry cyfoethog ydyw aros gyda'ch cenedl i'w hanrhydeddu, a'i chodi gyda chwi i fyny. Pwy fydd yn siampl iddynt os ewch chwi oddiwrthynt? Pwy fydd yn blaid iddynt os bydd i chwi eu gadael? Pwy ofala amdanynt os na wnewch chwi? A golygu fod y Cymry yn îs na'r Seison, y mwyaf oll yw eich euogrwydd a'ch bai am droi eich cefn arnynt. Dylasech aros gyda'ch cenedl nes ei gosod mor uchel ag un genedl arall, ac yna ni buasai genych ddim rhith o reswm dros droi o gwbl. Gallasai y Seison wneyd heboch yn burion. Maent hwy mor lluosog ac mor gyfoethog, nad all eich tröad chwi atynt wneyd dim gwahaniaeth gweladwy na theimladwy yn eu heffeithiolrwydd. Ond gyda'ch cenedl eich hun gallasech fod o wasanaeth mawr; ac ar y gwasanaeth hwnw y mae gan eich cenedl hawl. Mae eich troad at y Seison yn cyhoeddi llawer iawn o bethau; a dyma un ohonynt, nid oes arnoch ofal am eich cenedl. Pe yr ymddyddenid â chwi, chwi ddywedech fod y Cymry mor bell ar ol, fel nad allech aros gyda hwy yn hwy; ac yr ydych yn myned at yr estron sydd yn ddigon cryf i ofalu amdano ei hun, ac yn gadael eich brawd gwan i drugaredd amgylchiadau na wyddoch chwi ddim amdanynt. Pe buasech yn caru eich cenedl, chwi arosasech gyda hi i'w llesau, yn lle ei gwadu, a throi eich cefn arni yn nydd ei chyfyngder. Mae yn eithaf sicr erbyn hyn nad oes un math o reswm dros i'r dosbarth yma, beth bynag, droi at y Seison.

Digitized by Google

Dosbarth arall sydd yn gollwng llawer at y Seison ydyw plant Seisnig rhieni Cymreig. Nid peth anfynych ydyw gweled tad a mam i deulu lluosog yn dyfod i gapel Cymreig heb un o'u plant gyda hwy. Os gofynir lle mae y plant, yr ateb fydd, eu bod yn y capel Seisnig. Os gofynir paham yr ant yno, atebir ni mai am nad ydynt yn deall Cymraeg. O ganlyniad, mae yn rhaid fod y rhieni wedi esgeuluso dysgu eu hiaith i'w plant. Mae sylw neu ddau ag y dylem ei wneyd ar y mater yma; a dyma un:—Mae yn berffaith hawdd i rieni Cymreig ddysgu Cymraeg i'w plant. Y cwbl sydd yn eisieu ydyw i'r rhieni siarad Cymraeg gyda hwy. Mae y plant yn rhwym o gael Seisneg: pe ceisiech eu rhwystro, nid allech. Ychydig iawn o drafferth gan blant ydyw dysgu iaith: gellir eu dwyn i fyny yn feistriaid ar ddwy neu dair mor rhwydd bron ag un. Gan hyny, mae rhieni yn feius iawn fod yn esgeuluso dwyn eu plant i fyny yn Gymry. Byddai yn lles i'r plant gael Cymraeg. Pe tarawent ar lyfr Cymreig, mor dda iddynt fyddai gallu ei ddarllen a'i ddeall! Pe ymwelent â Chymru, mor dda fyddai gallu siarad Cymraeg! Pe baent yn troi yn ieithyddwyr, mawr y fath foddhâd iddynt fyddai medru Cymraeg! Pe baent yn d'od yn haneswyr ryw dro, mor dda ganddynt fyddai gallu darllen defnyddiau yr hanes yn y croniclau Cymreig! Gallant golli llawer sefyllfa enillfawr o ddiffyg gwybodaeth o'r Gymraeg. Ac y mae yn syn i mi fod rhieni yn gallu teimlo lleied o ddyddordeb yn iaith a llenyddiaeth eu henafiaid. Pe na fuasai dim llesâd yn bosibl trwy y Gymraeg, buasid yn dysgwyl i Gymry fod yn awyddus i ddeall yr iaith er mwyn y trysorau meddyliol sydd ynddi. A gellwch chwi fod yn sicr y daw adegau yn mywyd eich plant pan y teimlant yn ddig wrthych am esgeuluso dysgu eich iaith iddynt. A dyma sylw arall: Dylai rhieni plant, heb ddim os, naill ai dysgu Cymraeg iddynt, neu fyned gyda hwy at y Seison. Mae yn gam mawr â'r plant eu cymeryd i addoliad nad ydynt yn ei ddeall; ac y mae yn gam â'r teulu ei wahanu ar ddydd yr Arglwydd. Dylai y plant fyned gyda'u rhieni, neu y rhieni gyda'u plant, yr hyn sydd yr un peth. Dyledswydd y rhieni ydyw edrych ar ol eu plant, ac nid eu gadael i fyned lle na fydd neb i ofalu yn neillduol amdanynt. Ac i ba beth y daw y rhieni i'r capel Cymreig, pan y mae yn ormod ganddynt ddysgu eu hiaith i'w plant?

Digitized by Google

Y gwirionedd yw, dylid dysgu y Cymry i ddysgu Cymraeg i'w plant, neu i fyned gyda'u plant i'r capel Seisnig. Ond wrth yru eu plant at y Seison, ac wrth fyned yno gyda hwy, maent yn taflu dianrhydedd ar eu gwlad a'u cenedl. Maent yn gwanychu yr achosion Cymreig, ac yn achosi i'r Seison feddwl y rhaid fod rhyw ddrwg mawr yn perthyn i'r Cymry, neu y rhaid fod y Cymry yn anffyddlawn a bradwrus i'w gilydd. Ond y mae ffordd i ragflaenu pob aflwydd a sarhad—ffordd i gadw y Cymry fel cenedl gyda'u gilydd; a dyma yw y ffordd,—dysgwch eich plant i siarad eich iaith.

At y rhai a enwyd, gellir crybwyll unigolion o'r ddau ryw ag ydynt yn troi at y Seison, heb unrhyw reswm tros eu hymddygiad. Dyna lanc o Gymro yn dyfod i Manchester. Mae yn cael lle. Gweithia ei ffordd yn mlaen. Daw yn ddyn. Ac yn y fan, mae yn cymeryd meddwl i'w ben am fyned yn Sais, ac at y Seison yr aiff. Rhaid i ni gydnabod fod ganddo hawl i fyned at y Seison, os dewisa: mae y ffordd yn rhydd, ac nid oes neb all ei attal. Ond y mae gyda ninau hawl i ddyweyd ein meddwl am ei ymddygiad; a fy meddwl i yw, fod y symudiad yn ddiachos. Cymerant arnynt mai yr achos o'u symudiad ydyw eu hawydd i fod yn Seison da. Mae yr awydd am fod yn Seison da yn awydd rhesymol: byddai yn ddymunol gweled mwy o ymdrech mewn llawer o'n hieuenctid i gyraedd perffeithrwydd yn y Seisneg. Ond y mae yn eithaf posibl bod yn Seison da heb adael y Cymry. Yn y cyffredin, y Cymry goreu ydynt y Seison goreu hefyd. Felly nid oes achos i neb adael y Cymry mewn trefn i gael digon o Seisneg da. Ac ni raid troi at y Seison i gael gweinidogaeth dda. Nid oes dim achos cwyno yn erbyn y pulpud Cymreig, o'i gymharu â'r un Seisnig. Mae ein gweinidogaeth mor bur, mor dalentog, ac mor ddylanwadol, a dyweyd y lleiaf amdani, ag yw eiddo y Seison. Ni raid troi at y Seison mewn trefn i gael llenyddiaeth chwaith. Mae digon o lyfrau da yn Gymraeg i'n gwŷr ieuainc a'n merched ieuainc eu darllen—mwy, mewn gwirionedd, nag y gall neb rhwym mewn masnach gael amser i'w darllen. Os ydym yn fyr o lyfrau mewn ambell gangen o ddysg a gwybodaeth, megys fferylliaeth, meddyginiaeth, &c., gellir sylwi nad yw pobl gyffredin yn arfer darllen llawer ar lyfrau felly. Llyfrau proffeswyr ydynt; ac i'r rhai sydd mewn angen amdanynt, maent

i'w cael yn Seisneg, Ac yma y gellir sylwi, fod yn ddigon hawdd cael llyfrau Seisnig, ac yn ddigon hawdd i bawb eu darllen a'u hefrydu, heb droi at y Seison. Yma y mae mantais y Cymry—gallant wneyd defnydd o lenyddiaeth y Seison, a llenyddiaeth eu gwlad eu hun, a pharhau yn Gymry yr un pryd. Gan hyny, paham y gadewch eich cenedl? y taflwch ddirmyg ar eich gwlad? Gallwn i dybied mai eich dyledswydd ydyw aros gyda'ch pobl eich hun, i wneyd a alloch i'w llesau. Os brys am fyned yn Seison sydd arnoch, ac oes rhyw les o fod yn Seison un-iaith yn lle Cymry dwyiaith, dylech chwi yn anad neb aros gyda'r Cymry nes llwyddo i'w darbwyllo i ddyfod yn Seison gyda chwi. A pha les a geir, yn dymorol nac yn ysbrydol, trwy adael y Cymry? O ran hyny, ofer yw son am les ysbrydol wrth y dosbarth yma: elw arianol yw pob peth gyda hwy. Ond pa elw arianol a geir gan y Cymry Seisnig mwy na'r Cymry Cymreig? Pe buasai modd cael mwy o arian neu fwy o rywbeth trwy fyned i addoli gyda'r Seison, buaswn yn gweled rhyw reswm tros adael y Cymry i fyned atynt; ond pa elw a geir nad ellir ei gael hefyd gyda'r Cymry? Yr wyf wedi gweled llawer o Gymry yn troi at y Seison, ond ychydig iawn ohonynt sydd yn gwneyd dim ohoni hi. Yr wyf yn eithaf sicr fod y Cymry sydd yn aros gyda'u cenedl i addoli eu Duw yn iaith eu tadau yn dyfod yn mlaen yn y byd llawn cystal a'r rhai hyny sydd yn troi at y Seison. Pe buasai raid colli rhywbeth wrth aros yn Gymry, buasai hyny yn reswm tros eu gwadu; ond ni raid colli dim. Gellir cael y cwbl sydd gan y Seison i'w roi, a pharhau yn Gymry yr un pryd; a dyna yw ein dyledswydd ni, gallwn dybied—gwneyd defnydd o'r Seisneg i bob peth sydd angenrheidiol, a pharhau yn Gymry hefyd.

Ond y mae eto ddosbarth lluosog wedi troi at y Seison yn mhob peth ond yr enw, a hyny yn Nghymru. Hyny o Gymraeg a glywant, a glywant yn y capel. Pe bae capel Seisnig i'w gael, yno yr aent. Maent wedi troi at y Seison yn eu siarad. Y Seisneg sydd ar eu tafod ac ar eu meddwl, gartref ac oddicartref. Er eu gwaethaf y siaradant Gymraeg. Ymddygant fel pe bae siarad Cymraeg yn drosedd. Mae yn ffaith ryfedd fod pobl yn gallu digio wrth eu hiaith. Gallwn weled rheswm tros fod ellyllon yn barod i newid eu hiaith fel llawer peth arall; ond nid allaf gredu y newidiai cenedl o angylion

eu hiaith byth heb gael eu gorfodi i wneyd hyny. Peth naturiol fyddai i genedl o bobl ymhyfrydu ac ymfalchio yn eu hiaith. Peth naturiol hefyd fyddai iddynt ymawyddu am ei chyfoethogi a'i chadw yn fyw; o ganlyniad, peth annaturiol ac afresymol ydyw i neb ei hesgeuluso a'i chasau, ac y mae y peth annaturiol yma i'w weled bob dydd yn Nghymru. Byddai yn werth y drafferth i ryw un chwilio i mewn i'r achosion sydd yn cynyrchu effeithiau mor rhyfeddol o annaturiol. Mae y tylwyth yma wedi troi oddiwrth lenyddiaeth yr iaith hefyd. Nid oes dim ond Seisneg yn dyfod i'w haneddau; ond ni wnai llyfr Cymreig ddim drwg iddynt. Gallent ddarllen newyddiadur Cymreig heb gael eu niweidio. Ac oni ddylent gefnogi llenyddiaeth eu gwlad er mwyn y rhai sydd mewn angen amdani? Byddai yn rhesymol i Gymry gefnogi llenyddiaeth Gymreig er mwyn yr amser gynt, ac anrhydedd ein cenedl; ond y mae sefyllfa y Cymry unieithog yn *hawlio* eu cefnogaeth. Nid wyf yn meddwl fod genym hawl i adael ein cenedl nes byddo yn ddigon galluog i wneyd hebom. Os myn rhai fod yn Seison o ran ymarferiad eu hunain, byddai yn dro brawd arnynt gefnogi llenyddiaeth Gymreig er mwyn y rhai nad allant ddefnyddio yr un arall.

Yn awr, yr wyf yn meddwl mai ein dyledswydd ydyw aros gyda'n cenedl. Trwy ei gadael, yr ydym yn ei gwanhau; a thrwy ei gwanhau, lleiheir ei pharch. Pa luosocaf fyddom, mwyaf oll fydd ein dylanwad a'n parch. Ac y mae yn fwy naturiol a rhesymol i ni roddi hyny o ddylanwad a feddwn o blaid ein cenedl ein hun. Mae yn hawdd i'r Seison wneyd hebom; ond mae yn anhawdd i Gymru allu fforddio ein colli.

Yr wyf yn meddwl hefyd y dylem wneyd cydwybod o gefnogi llenyddiaeth ein gwlad. Gan fod genym lenyddiaeth, gwnawn hi yn anrhydeddus ac yn effeithiol. Mae llenyddiaeth isel yn annghlod i Gymru; ond byddai un gyfoethog, amrywiol, a choethedig yn goron gogoniant ein gwlad. Ac y mae llenyddiaeth Gymreig yn awr wedi cyraedd y fath uwchder, nad oes dim yn eisieu i'w gwneyd yn effeithiol ac enillfawr ond cefnogaeth y Cymry yn gyffredinol iddi.

Ond, yn olaf, yr wyf yn meddwl, os nad ellir cadw y Cymry gyda'u gilydd trwy gyfrwng y Gymraeg, y dylid ei amcanu trwy y Seisneg. Yn hytrach nag i'r Cymry

Digitized by Google

ymwasgaru, a cholli eu cariad at eu gwlad a'u cenedl, gwell genyf fyddai codi capelydd Seisneg yn Lloegr i'r Cymry hyny a fynant fod yn Seison. Fel Cymry, neu fel Seison, ein harwyddair fyddo,

EIN GWLAD A'N CENEDL BYTH.

---

## PETHAU WNAWN PE GALLWN.

HWYRACH nad oes ar neb eisieu gwybod, hwyræch y chwerthir am fy mhen, hwyrach y cyfrifir fi yn ynfyd, am gymeryd y drafferth arnaf i ddyweyd y pethau a wnawn pe gallwn. Ond pa waeth os gwneir? Wnaiff gwawd yr ynfyd ddrwg i neb, tra gall y pethau hyn ddifyru rhyw rai. Gan hyny, mi a'u dywedaf, waeth beth fydd y canlyniad ohonynt.

Pe gallwn, yn gyntaf dim, mi dynwn iau gormes oddiar wàr fy nghenedl; ïe, gyfaill, oddiar wàr cenedl y Cymry. Mi welaf y wên yn codi ar dy wefusau, ac amheuaeth yn tremio yn dy lygaid; ond raid i ti ddim gwenu, nac ameu chwaith; oblegid ffaith yw fod cenedl y Cymry y dydd hwn yn llyffetheiriau gorthrwm. Mae y genedl wedi peidio cwyno, wedi blino yn gruddfanu, wedi anobeithio am ymwared; mewn gair, wedi ymdawelu yn ei sefyllfa. Ond er hyny, mae iau gormes ar ei hysgwyddau. Y gorthrwm penaf ar genedl orchfygedig ydyw gosod estroniaid nad ydynt yn deall ei hiaith yn fugeiliaid ysbrydol iddi; ac y mae y gorthrwm yma er ys canrifoedd yn pwyso yn drwm ar galon y genedl Gymreig. Penodir esgobion ac offeiriaid i Gymru ag ydynt yn analluog i siarad â'r bobl yn yr iaith a ddeallant; a gwaeth na hyny, dynion nad ydynt yn gallu cydymdeimlo â'r Cymry; a gwaeth eto fyth, dynion ag ydynt yn casau ac yn ffieiddio y bobl ag y daethant i arolygu trostynt. Mae yn anmhosibl llesau cenedl o bobl ond trwy gyfrwng eu hiaith eu hunain; a rhaid cael dyn all ei charu, a chydymdeimlo â hi, cyn y gellir gwneyd lles iddi hyd yn nod trwy hono. O ganlyniad, mae penodi esgobion ac offeiriaid estronol mewn iaith a theimlad, i arolygu yr Eglwys yn Nghymru, yn gabledd ar y nefoedd, ac yn orthrwm

Digitized by Google

annyoddefol ar genedl y Cymry. Nid yw y Cymry yn haeddu y sarhâd yma oddiar law ein llywodraeth: maent mor deyrngarol i'r goron ag yw y Seison eu hunain; ac y mae eu teyrngarwch yn hawlio iddynt gael mwy o gyfiawnder ganddi nag a gawsant hyd yma. Yn awr, pe gallwn, mi gynhyrfwn y genedl drwyddi yn erbyn y gorthrwm hwn. Mae yn anhawdd gwneyd, yr wyf yn gwybod; oblegid Eglwys Lôegr yw yr eglwys, ac nid Eglwys y Cymry. Mae y Cymry wedi gadael yr eglwys ag oedd yn eu sarhau ac yn eu gormesu. Erbyn hyn, mae ganddynt eglwysi iddynt eu hunain, ac nid hawdd yw cael ganddynt deimlo dyddordeb yn achosion eu brodyr esgobyddol. Ond, pe gallwn, mi ddarbwyllwn yr Ymneillduwyr, o bob enwad, i gydymdrechu â'r Eglwyswyr i daflu iau gormes a sarhâd oddiar eu hysgwyddau; agorwn eu llygaid i weled y dirmyg; dysgwn i'w calon deimlo y sarhâd; agorwn eu genau i siarad yn ei erbyn; rhown nerth yn eu breichiau, a hyder yn eu calon: mewn gair, gwnawn i Gymru oll ymysgwyd yn ddibaid, nes bwrw iau gormes a dirmyg yn llwyr ac am byth oddiar ei hysgwyddau. A fy meddwl yw, mai dystawrwydd y genedl yw yr achos na buasai wedi ei symud er ys llawer dydd.

Ond y nesaf mewn trymder i'r gorthrwm ysbrydol a ddarluniwyd ydyw gweinyddu y gyfraith mewn iaith nad yw y genedl yn ei deall. Dyma un o brif elfenau gormes y Rwsiaid yn Poland—rhoi iaith y Pwyliaid o dan draed. Yr oedd Iarll Russell yn gallu ysgrifenu yn wresog at Amherawdwr Rwsia am i'r Pwylaeg gael ei hadferu i'r eglwysi ac i'r llysoedd cyfreithiol, heb gofio, mae yn ddiau, na meddwl dim am y peth, fod Lloegr mor orthrymus at iaith y Cymry ag yw y Rwsiaid at iaith Poland. Mae Lloegr yn Nghymru yn gweinyddu y gyfraith mewn iaith nad yw y bobl yn ei deall; ac y mae hyn yn orthrwm o'r fath waethaf a thrymaf ar genedl o bobl. Hawdd yw dyweyd fod y Cymry yn gydwastad â'r Seison, fod yr un cyfreithiau i'r naill a'r llall, a bod pob gwahaniaeth wedi ei symud ymaith; ond lle mae deall y bobl sydd yn dyweyd hyny? Pe buasai y Cymry yn Seison, buasai rhyw wirionedd yn yr haeriad; ond tra byddo y Cymry yn Gymry, nid all yr haeriad fod yn wir. Pe bae y Pwyliaid yn dewis bod yn Rwsiaid; pe boddlonent i'w hiaith farw, ac i'w henw gael ei golli, gallent gael yr un rhagorfreintiau a rhyddid a'r Rwsiaid; ond gan y mynant fod yn Bwyl-

Digitized by Google

iaid, nid oes gan y llywodraeth ddim ond gormes iddynt. Felly y Cymry: pe byddent yn Seison, byddent ar yr un tir a'r Seison, a phob peth ganddynt yn gyffredin: ond nid ydynt yn Seison; ac o ganlyniad, mae ymddygiad y llywodraeth tuag atynt yn ormesol a sarhaus. Tra byddo y Gymraeg yn iaith Cymru, dylai y gyfraith yn Nghymru gael ei gweinyddu yn Gymraeg. Os byth y daw y Seisneg yn iaith y Dywysogaeth, bydd yn hawdd newid y gyfraith i ateb cyflwr newydd y genedl y pryd hwnw. Gormes ar y Cymry yw y Seisneg yn llysoedd barn y Dywysogaeth yn bresenol; gan hyny, pe gallwn, mi daflwn y gormes yma i ffordd; mi fynwn weinyddu y gyfraith i'r Cymry yn Gymraeg; ac mi ofalwn na chai estroniaith fod yn faich arnom mwy. Pe ceisiai y genedl yn wresog ac unfrydol gyfiawnder yn y peth hwn, nid wyf yn meddwl y gallai ein llywodraeth ei nacau; gan hyny, pe gallwn, mi gynhyrfwn y genedl i hawlio adferiad y Gymraeg i'n llysoedd cyfreithiol yn Nghymru. Raid i'r llywodraeth ddim ofni yr iaith Gymraeg. Gall y Cymry fod yn deyrngarol i'r goron ac i'r iaith Gymraeg yr un pryd. Gallant ddysgu Seisneg hefyd, a magu ysbryd gwrthryfel gyda'u gilydd. Pa fwyaf Seisnig o ran iaith yr aiff y Gwyddelod, y mwyaf gwrth-Seisnig yr ânt o ran teimlad. Pe buasent wedi glynu yn eu hiaith gynenid, mae yn amheus a fuasent mor elyniaethus i'r Seison ag ydynt yn awr. Mae y Cymry yn awr yn berffaith deyrngarol; maent hefyd yn frawdol i'r Seison: ond wrth geisio gwneyd Seison ohonynt trwy sathru eu hiaith o dan draed, mae yn eithaf posibl eu troi yn elynion. Y pethau goreu i'r Seison, ac i'r Cymry hefyd, ydyw gadael i'r olaf fod yn Gymry nes gwelont yn dda droi yn Seison ohonynt eu hunain; a thra byddont yn Gymry, dylai yr iaith Gymraeg fod yn gyfrwng gweinyddiad cyfiawnder iddynt.

Pe gallwn, mi ddysgwn bob Cymro a Chymraes i feddwl yn fawr o alluoedd meddyliol y Cymry. Mae y byd Cymreig wedi cael ei droi gan rywun neu rywbeth y tu gwrthwyneb allan. Mae pob peth gyda ni yn troi o chwith. Chwithig ryfeddol yw y siarad a glywir yn fynych rhyngom a'n gilydd. Os gwelir arwyddion o dalent mewn unrhyw un, rhyfeddir at y peth fel pe bae yn rhyfeddod, yn rhywbeth anarferol, ac yn beth nad ellid ei ddysgwyl. Os cyflawnir rhyw waith gan Gymro allan o'r ffordd gyffredin, mae miloedd o Gymry ar unwaith, am

Digitized by Google

y tro cyntaf erioed, yn darganfod y ffaith bwysig fod yn bosibl i Gymro ragori. Clywais rai yn cyhoeddi fel pe buasai yn rhywbeth anhygoel, fod rhyw Gymro neu gilydd wedi gwneyd arian, a chodi yn y byd. Clywais rai ereill yn haeru yn gymhwys fel pe buasai yn beth annghredadwy fod gyda ni rai pregethwyr da, fod genym rai yn meddu ar hyawdledd, ac y gallai rhai Cymry draddodi darlith gwerth i'w gwrando. Siaradir yn gyffredin yn Nghymru fel pe bae y Seison yn rhagori mewn galluoedd naturiol ar y Cymry, fel pe bae y Cymry yn mhob ystyr yn israddol. Ond y mae eisieu troi y byrddau. Mae siarad fel hyn yn sarhâd arnom fel cenedl. Pe gallwn, mi newidiwn dôn y genedl yn y peth yma. Dysgwn i Gymro ddysgwyl i Gymry ragori, a synu os na bydd iddynt wneyd. Gwnawn iddynt feddwl, os gall neb wneuthur rhywbeth, y gall Cymro ei wneyd. Mae yn rhaid cael y genedl i feddwl yn dda o'i galluoedd cyn byth y gwnaiff y gorchestion ag y mae yn alluog ohonynt.

Pe gallwn, mi ddysgwn bob mam yn Nghymru, a phob mam Gymreig allan o Gymru, i garu a noddi yr iaith Gymraeg. Gwnawn y fam yn fam wybodus a dysgedig yn mysg ei gwlad ei hun. Gwnawn hi yn gyfarwydd yn hanes ei chenedl, ac yn llenyddiaeth ei gwlad. Gwnawn ei llyfrgell i fyny â llyfrau Cymreig hyd y byddai yn bosibl. Dysgwn hi i fod yn ffyddlawn i'w gwlad a'i chenedl. Mae cadwraeth yr iaith Gymraeg, neu ei difodiad, yn dibynu ar ffyddlondeb neu anffyddlondeb y mamau. Os ceir y mamau yn ffyddlawn tros ein hiaith, mae ein hiaith yn sicr o barhau. Gall y fam ddysgu Cymraeg i'w phlant gyda hawsder, er yn nghanol y Seison. Gall beth mwy hefyd—gall drwytho eu calon mewn cariad at eu gwlad a'u cenedl. Famau Cymru, coleddwch iaith eich gwlad; dysgwch hi i'ch plant; ac argreffwch ar eu meddwl nad yw yn bosibl i neb fod yn euog o ddim mor ddirmygus ag esgeuluso iaith eu gwlad.

Pe gallwn, mi ddysgwn ein Cymry Seisnig fod yn bosibl iddynt fod yn Seison heb droi yn elynion i'r Gymraeg. Gellid meddwl ar ymddygiad llawer Dic Sion Dafydd yn Lloegr a Chymru, nad oes dim dewis i fod rhwng bod yn Gymro uniaith ac yn Sais uniaith. Can gynted ag y deallant eu bod yn medru Seisneg yn weddol dda, a chyn hyny weithiau, dechreuant ymosod yn llechwraidd ar iaith eu tadau. Difodi y Gymraeg fydd pwnc eu bywyd bell-

Digitized by Google

ach. Wrth gynal Eisteddfod, eu dyben fydd sathru y Gymraeg o dan draed. Os soniant am gael prif-ysgol i Gymru, eu hamcan yn hyny fydd Seisnigo y genedl Gymreig. Maent yn barod i wneyd pob peth er lledaenu y Seisneg a llenyddiaeth Seisnig yn mysg y Cymry, ond ni wnant ddim er lledaenu llenyddiaeth Gymreig, nac er coleddu yr iaith Gymraeg. Mae llawer o genedloedd heblaw y Cymry yn dysgu Seisneg, a llawer ohonynt yn byw yn Lloegr; ond a glywodd neb erioed son am rai ohonynt yn ymddwyn mor fradwrus i'w gwlad, i'w hiaith, a'u cenedl, ag y gwna Cymru? Dyna'r Groegiaid, cenedl fechan ydynt ar y goreu. Mae llawer ohonynt yn byw yn Lloegr, er mwyn cario masnach yn mlaen; ond a glywodd neb erioed son eu bod hwy yn troi yn elynion i'w hiaith eu hunain? yn gwneyd eu goreu i berswadio eu cydgenedl i newid eu hiaith am y Seisneg? yn gwasgaru llenyddiaeth Seisnig yn Groeg yn lle llenyddiaeth Groegaidd? A glywodd neb erioed eu bod hwy yn codi ysgolion a cholegau yn eu gwlad enedigol i ddysgu Seisneg i'w plant yn lle eu hiaith eu hunain? Naddo, erioed. Rhaid cael gafael ar rai o'r Celtiaid cyn byth y gwelir neb mor ffol. Y Cymry a'u perthynasau ynfyd sydd yn gwneyd peth fel yna. Ond pe gallwn, mi ddysgwn i'r Cymry y gallant fod yn Seison er mwyn masnach, fel cenedloedd ereill, a pharhau yn Gymry yr un pryd. Gallant garu, a dysgu, a choleddu eu hiaith yn nghanol y Seison; ie, gallent hefyd yn eithaf hawdd roi eu dylanwad a'u cymhorth i wneyd yr iaith Gymreig yn foddion grymus i ddyrchafu a choethi cenedl y Cymry.

Pe gallwn, mi wnawn yr iaith Gymraeg yn foddion grymus i ddyrchafu y Cymry. Ofer fydd yw son am iddi fyw heb hyny. Yr wyf yn foddlawn i gyfaddef, os nad ellir trwy y Gymraeg wneyd y Cymry yn bobl ddeallgar, gwybodus, a dysgedig, y dylid gadael iddi farw. Os rhaid i ni, trwy barhau yn Gymry, fod yn anwybodus, ac annysgedig, ac anwaraidd, ymaith â'r Gymraeg heb oedi: aed y Gymraeg i lawr, a dysgeidiaeth i fyny. Mae teulu Dic Sion Dafydd yn gosod allan y rhaid i'r Cymry fod yn haner barbariaid tra parhânt yn Gymry; oblegid hyny gwnant eu goreu i Seisnigo ein gwlad. Yr unig reswm tros newid iaith fyddai aneffeithiolrwydd yr iaith hono i wneyd ei phlant yn ddynion. Os yw y Gymraeg yn aneffeithiol i wareiddio a choethi y Cymry, mae gan Dic

Sion Dafydd reswm tros geisio ei newid. Ond gyda phob parch dyledus i bawb sydd yn meddwl yn wahanol, yr wyf fi yn meddwl yn gryf fod yn bosibl gwneyd dynion o'r Cymry trwy gyfrwng y Gymraeg; ac os gellir, nid oes rhith o reswm tros geisio ei newid. Mae yn bosibl cyfleu pob dysg a gwybodaeth i'r Cymry trwy gyfrwng y Gymraeg; ac o ganlyniad, dylem, yn lle ceisio lladd yr iaith, amcanu lluosogi moddion gwybodaeth a dysg ynddi. Lluosoger llyfrau, newyddiaduron, o chyfnodolion, a gwnaer y cwbl yn well. Os dywedir na fydd iddynt dalu, yr wyf yn dyweyd y gwnant, ond i'r Cymry fod yn ffyddlawn i'w hiaith a'u gwlad. Yr achos o wendid llenyddiaeth Gymreig, mewn ystyr fasnachol, ydyw anffyddlondeb y Cymry iddi.

Pe gallwn, mi ddysgwn i'r Cymry barchu eu gilydd, fel y parchant estron. Yr wyf yn ofni nad ydynt yn gwneyd hyny. Yr wyf yn ofni y caiff Sais fwy o barch ymddangosiadol nag a gaiff Cymro gan Gymry yn ei wlad ei hun. Ewch fel Cymro i ganol nifer o Gymry, a siaradwch Seisneg gyda hwy, a chwi gewch ateb gweddus a phriodol; ond siaradwch Gymraeg, a deg i un y sarhânt chwi, mewn rhyw ddull neu gilydd, yn y fan. Mae yn iawn i'r Sais gael parch priodol, ond y mae yn iawn i'r Cymro ei gael hefyd. Da chwi, Gymry, rhoddwch gymaint o barch i'ch gilydd ag a roddwch i estroniaid. Mae dull sarhaus llawer ohonoch at eich gilydd yn gwneyd i rai eich casau chwi a'ch iaith, ac yn gwneyd i lawer siarad Seisneg er mwyn cael ateb priodol genych. Peidiwch bod mor barod i droi i'ch Seisneg. Os cyferchir chwi yn Gymraeg, atebwch yn Gymraeg, a throwch i'ch Seisneg pan siaradir â chwi yn yr iaith hono.

Pe gallwn, mi ddysgwn eglwysi lluosog a chyfoethog Cymru i roi cyflogau da i'w gweinidogion. Mae llawer eglwys a allai wneyd dau cant neu dri o bunau i'w gweinidog heb ddrygu dim arni ei hun, yn boddloni ar roddi cyflog llafurwr iddo. Paham y rhaid i eglwysi Cymru roi llai o gyflog nag eglwysi Seisneg i'w gweinidogion? Byddai yn dda genyf weled eglwysi ein gwlad yn rhy falch i fod yn israddol. Os gall Seison wneyd, paham nad all Cymry? Y gwir yw, y mae yn rhaid i'r eglwysi Cymreig cryfion yn ein gwlad ddyblu a threblu y cyflog, neu fyw ar dalent ail a thrydydd radd. Mae dynion o dalent yn sicr o fyn'd lle cânt eu talu oreu. Y ffordd i

Digitized by Google

gadw talent i wasanaethu y Cymry ydyw ei thalu yn dda. Ofer fydd ceisio eu cadw gartref i fyw mewn tlodi; aiff ein dynion goreu at y Seison, os cânt eu talu yn well. Ac mor dda fyddai cael ychydig eglwysi i roddi cyflogau mawr i weinidogion o ddysg ac athrylith uchel a diamheuol! Effeithiai eglwysi felly yn rhyfeddol ar yr eglwysi yn gyffredinol, ac ar y pregethwyr. Byddai gofal eglwys fel hon yn wobr gwerth i ddyn wneyd ymdrech i'w chyrhaedd, ac felly effeithiai ar y pregethwyr i'w tynu allan, a gwneyd iddynt ymdrechu; ac effeithiai ar yr eglwysi hefyd i'w symbylu i weithgarwch a haelfrydedd, rhag iddynt golli eu pregethwyr poblogaidd. Nid oes dim dadl na ddylai ein gweinidogion gael eu talu yn well. Mae yn anmhosibl iddynt dalu y sylw a ddylent i'w hymddangosiad ar bwys y cyflogau a dderbyniant yn bresenol; ac yn anmhosibl hefyd iddynt gyflenwi eu llyfrgelloedd â'r llyfrau a ddylent gael.

Pe gallwn, mi roddwn attalfa ar yr arfer gwaeth na ffol sydd gan lawer o Gymry i wawdio a dynwared Cymry annysgedig yn siarad Seisneg. Cyfarfyddir â llawer o'r rhai hyn yn ein gwlad. Maent yn ymddifyru mewn dynwared rhyw fusgrellni mewn Seisneg. Os gofynir pa ddrwg sydd yn hyny, gellir ateb fod llawer iawn o ddrwg ac ynfydrwydd ynddo. Yn y lle cyntaf, mae yn gwneyd y Cymry yn ofnus wrth siarad Seisneg. Bydd arnynt ofn gwneyd rhyw gamgymeriad o hyd, a chael eu gwawdio am hyny. Os gwnant gamgymeriad, maent yn gwybod na chânt ddim trugaredd; oblegid arfer y Cymry ydyw dirmygu eu gilydd. Mae hyn yn anffodus i ni fel cenedl; oblegid os oes eisieu gwneyd ein cenedl yn Seison da o ran iaith, nid wrth godi ofn arnynt y gwneir hwy felly. Os mynwch wneyd Seison da ohonynt, dysgwch hwynt i siarad yn hyderus a chwbl ddiofn; ac er mwyn eu gwneyd yn ddiofn, peidiwch â'u dynwared hwynt yn siarad, a pheidiwch â gwawdio rhyw gamgymeriadau bach a wneir ganddynt hwy. Wedi hyny, mae y dyn, wrth barhau i ddynwared Seisneg gwallus yr annysgedig, yn syrthio i'r arfer o siarad yn wallus ei hunan, a hyny yn ddiarwybod iddo; ac y mae yn dysgu yr anwybodus i siarad fel yntau. Mae yn bosibl i lawer a'i clywent fod yn analluog i weled y gwall; ac yn lle diwygio, hwyrach mai efelychu y camgymeriad a wnant, a'i ledaenu yn mysg eu cydnabod. Heblaw hyny, mae

Digitized by Google

yr arfer anwladgar yma yn galw sylw estroniaid at wallau a chamgymeriadau y Cymry, ac yn eu dysgu i edrych yn fach arnynt a'u dirmygu. Faint bynag o wallau sydd yn ein Seisneg, mae llawn cymaint yn eiddo y Seison eu hunain. Ond pe buasai mwy o gamgymeriadau yn cael eu gwneyd genym nag a wneir gan neb arall, byddai yn gallach ynom adael i estroniaid eu canfod ohonynt eu hunain, na gwneyd arddangosiad parhaus ohonynt trwy eu dynwared. Os oes gan y Cymro ei acen a'i dôn, onid oes gan ereill eu neillduolion cystal ag yntau? Os yw ambell dro yn gwneyd camgymeriad, onid yw iaith y lluaws yn Lloegr ei hun yn llawn o wallau hefyd? Ac er addef y gallai rhyw fân feiau fod yn barod i'n hamgylchu, yr wyf yn sicr mai nid eu dynwared ydyw y ffordd i'w diwygio. Nid trwy regi y mae dysgu dyn i beidio rhegi. Nid trwy feddwi y mae sobri y meddwyn. Nid trwy ddynwared Seisneg gwallus chwaith y mae gwneyd y Cymry yn Seison da. Os gwelwch fod y Cymry yn euog o ryw wallau mewn acen, gramadeg, neu gynaniad, cywirwch hwy nid trwy eu dynwared a'u gwawdio, ond trwy siarad Seisneg cywir eich hunan yn eu clywedigaeth. Ac os rhaid i chwi gael dynwared musgrellni dynion anwybodus a diddysg, dynwaredwch bawb yn hytrach na'ch cenedl eich hun. Rhowch brawf ar eich galluoedd i ddynwared y Scot neu y Gwyddel; neu ynte cymerwch y Sais o Chawbent, neu y *Cockney* o Lundain mewn llaw; rhywun, mewn gair, yn hytrach na'r Cymro. Paham y rhaid i'r Cymro fod yn fwy anwladgar na neb arall? A glywodd neb y Gwyddel yn dirmygu ei genedl? A yw y Scot yn ymddifyru mewn arddangos gwendidau ei frodyr? A yw y Seison yn gwneyd pwynt o ddirmygu y Seison? Gellir ateb yn bendant a dyweyd, Nac ydynt ddim; eto mae Cymry yn fwriadol neu anfwriadol yn gwneyd peth fel yna holl ddyddiau eu hoes; ond pe gallwn, mi roddwn ben tragwyddol ar yr arferiad ynfyd, heb oedi un awr na munud yn hwy.

Pe gallwn, mi drown galon cyfoethogion Cymru i garu yr iaith Gymraeg. Maent wedi ei gwadu er ys oesoedd, ac wedi gadael y rhai sydd yn ei siarad i drugaredd amgylchiadau cyfnewidiol bywyd. O ran dim wnaeth ein cyfoethogion fel dosbarth, buasai ein hiaith heb lyfr argraffedig ynddi. Buasai trigolion ein gwlad mewn dygn anwybodaeth, a llygredigaeth hefyd. Gadawsant lestr

Digitized by Google

ein gwlad ar ganol y môr mawr i drugaredd y gwynt a'r tonau i suddo i ddinystr o ran dim ofalent hwy. Nid oes genyf ddim ofn cyhoeddi fod yn ddyledswydd ar gyfoethogion Cymru ofalu am foddion gwybodaeth, dysg, a dyrchafiad i'r rhai oedd yn ymddibynu arnynt, a hyny hefyd yn yr iaith a ddeallent. Dylasent ofalu am ysgolion Cymreig, a llyfrau Cymreig, a gweinidogaeth Gymreig i'r Cymry. Cyn y buasai yn bosibl rhoi dysg a gwybodaeth i'r Cymry trwy y Seisneg, buasai raid aberthu cenedlaethau o Gymry ar allor anwybodaeth a thrueni; ac yr wyf yn beiddio haeru, yn y modd mwyaf penderfynol, nad oedd gan ein cyfoethogion na neb arall hawl i aberthu cenedlaethau o Gymry er mwyn gwneyd y genedl yn Seison. Er hyny, can belled ag y gallent hwy, maent wedi gwneyd hyny. Er dim a wnaeth ein cyfoethogion i ddyrchafu y Cymry yn yr unig ffordd yr oedd yn bosibl eu dyrchafu, buasent wedi suddo i ddyfnderoedd anwybodaeth a llygredd. Iddynt eu hunain ac i'w Duw y mae y Cymry i ddiolch am hyny o wareiddiad sydd ganddynt. Nid yw ein cyfoethogion wedi cymeryd dim dyddordeb ynom, nac wedi gwneyd dim trosom; ac yr wyf yn meddwl fod eu hesgeulusdod o'u cenedl yn haeddu y cerydd trymaf. Ac os oes Rhagluniaeth Ddwyfol yn amgylchiadau dynion, (a phwy yn ei synwyr all ameu hyny?) mae y Rhagluniaeth fawr hono, ymddengys i mi, yn talu i'n cyfoethogion am eu hesgeulusdod o'u cenedl; oblegid mae tiroedd ein gwlad yn prysur ymadael o feddiant yr hen deuluoedd Cymreig. Ond eto, ar yr unfed awr ar ddeg, ar ol eu holl esgeulusdod, pe gallwn, mi drown eu calon at iaith eu gwlad a'u cenedl. Yr wyf yn gwybod am ddynion o Gymry a chwerthant am fy mhen, ac a'm gwawdiant, oblegid syniadau fel y rhai hyn. Ond pa bwys sydd yn hyny? hwy wawdiant bob peth heblaw aur a nwyd. Ond gwawdied neb wawdio, pe gallwn, mi drown galon holl gyfoethogion Cymru i garu iaith eu gwlad. Wedi iddynt ddyfod i garu yr iaith, hwy a'i dysgent. Wedi ei dysgu, hwy a brynent lyfrau Cymreig, ac a'u darllenent. Gwnai cydnabyddiaeth â chyflwr y Cymry, wedi hyny, gynyrchu teimlad ynddynt dros eu cydwladwyr, ac ni orphwysent nes cael cyflawnder o foddion addysg yn nghyraedd pawb, a'r moddion hyny yn yr iaith a ddeallir gan y trigolion.

Pe gallwn, mi roddwn ben ar bob arferiad yn mysg y



Digitized by Google

Cymry sydd â thuedd ynddi i'n diraddio. Nid wyf yn meddwl fod y Cymry yn waeth na rhyw genedl arall; er hyny, mae gyda ni ein gwendidau, fel ereill. Mae gyda ni, o bosibl, bechodau parod i'n hamgylchu; ond beth bynag yw eu nifer neu eu natur, mi garwn allu eu lladd bob un. Dywed rhai fod y Cymry yn mygu mwy na neb. Nis gwn a yw hyny yn wir ai nad yw—mae mygu mawr yn mhobman; ond hyn a wn, na wnai mygu tipyn llai ddim drwg i neb. Modd bynag, am y mygu, yr wyf yn ofni fod y Cymry yn cnoi mwy o dybaco o lawer na'n cymydogion. Mae yn sicr hefyd fod hon yn arfer fudr a ffiaidd iawn. Mae yr arogl ar anadl dyn fydd yn cnoi tybaco yn annyoddefol: o ganlyniad, dylid rhwystro i bawb ei gnoi mewn capel, ac mewn cyfeillach. Dylid dyweyd o'r pulpudau yn erbyn y cnoi a'r poeri yn y capel. Arfer gysylltedig â'r cnoi yw y poeri, ac arfer annyoddefol yw. Os rhaid i ddyn gael cnoi tybaco a phoeri, dylai ymneillduo i wneyd hyny, ac aros yno nes bydd y gwaith allan o gnoi a phoeri trosodd. Os yw yr arfer ddrwg a pheryglus o garu yn y nos yn ffynu mewn rhyw ran o'n gwlad, dylid codi i'w herbyn ar unwaith, a dal i'w gwrthwynebu, nes cael yr oruchafiaeth arni. Arferiad waradwyddus ofnadwy yw hon, a dylai holl genedlgarwyr Cymru gydymegnio yn ei herbyn. Os goddefir i'r arfer lechu mewn rhyw gonglau o'n gwlad, mae yn sicr o ddwyn gwaradwydd arnom eto yn hwyr neu hwyrach, fel y mae wedi gwneyd lawer gwaith o'r blaen. Dyweder yn ei herbyn o'r pulpudau. Dangoser ei pherygl yn yr ysgol Sul; ac yn y gyfeillach grefyddol gwasger yn ddifrifol ar feddwl pob aelod y pwys mawr o wrthwynebu yr arferiad. Cyn gadael y mater yma, nid allaf lai na dadgan fy meddwl y dylai y pulpud ddysgu moesau da i'r bobl, a'u codi mewn gwareiddiad, yn gystal a'u dysgu i fod yn aelodau eglwysig. Ffydd heb weithredoedd, marw yw. Mae pwys mawr mewn cael dynion i gredu yn Nghrist, a'i gyffesu; ond y mae pwys hefyd mewn dysgu dynion i ymwadu â chwantau bydol, a phob anghyfiawnder. Os bydd arferiadau drwg ac anweddus yn ffynu yn y wlad a'r pulpud yn ddystaw, mae cymaint o fai bron ar y pulpud ag sydd ar y gwrandawyr. Cadwed Duw lygaid ein gweinidogion nid yn unig ar yr athrawiaeth, ond ar yr arferiad hefyd: yna fe fydd y weinidogaeth, dan fendith Duw, yn foddion dyrchafiad yn y byd hwn, a bywyd tragwyddol yn yr hwn a ddaw.

Digitized by Google

Pe gallwn, mi godwn gymdeithas yn mhob ardal trwy Gymru a'i hamcan i fywiogi a dynoli ei haelodau. Mae rhyw farweidd-dra wedi dyfod trosom. Yr ydym wedi syrthio i ryw arfer o lusgo yn arafaidd gyda phethau, fel pe byddem wedi haner marw: ac wrth siarad, yr ydym naill ai fel rhai wedi colli eu llais, neu fel rhai yn ofni i neb ein clywed. Mae llawer yn siarad fel pe bae siarad yn annghyfreithlawn. Diwygio yr aelodau oddiwrth yr arferiadau hyn fyddai dyben y gymdeithas. Yn y gymdeithas hon, dysgem ein gilydd i fod yn rhydd a dynol yn ein hymddangosiad; i fod yn fywiog yn ein symudiadau; i fod yn barod gyda'n hatebion; ac i siarad yn uchel a chroew, heb ofni golwg nac atebiad neb. Tybied yr wyf y gallai cymdeithas fel hon wneuthur llawer iawn o les.

Pe gallwn, mi ddysgwn y Cymry i fod yn ddarllenwyr mawr. Y ffordd i wybod mesur neu rif gwlad, neu ran o wlad, mewn dysg, gwybodaeth, a gwareiddiad, ydyw mynu gwybod nifer a natur y llyfrau a ddarllenir yno. Lle nad oes llyfrau, nid oes dysg. Heb ddarllen, nid oes gynydd. Lle bynag y mae ardal nad oes yno nemawr un byth yn croesawi llyfr newydd, mae yn rhaid fod yr ardal hono yn isel mewn chwaeth, mewn dysg, a gwareiddiad; ac os oes ardal felly yn rhywle yn ein gwlad, mae bai ar rywun heblaw yr ardalwyr. Lle mae arweinwyr y bobl? Beth y maent hwy yn ei wneyd? Mae blaenoriaid y bobl i raddau pell yn gyfrifol am gyflwr y bobl. Fel y blaenoriaid, felly y bobl. Dylai y rhai sydd wrth eu swydd yn ddysgawdwyr i'r genedl, ddysgu y genedl i ddarllen. Dylent ddwyn llyfrau buddiol i sylw eu cynulleidfaoedd mewn rhyw fodd neu gilydd, a'u cymhell i'w prynu a'u darllen. Mae gormod o bethau yn y byd yma yn cael eu gadael i ofalu amdanynt eu hunain. Dyna yr achos fod cymaint o annhrefn ar ein daear ni. Un o'r pethau hyny ydyw llyfrau. Gadewir iddynt yn y cyffredin ofalu amdanynt eu hunain, a dyna pam y mae llawer ardal mor amddifad ohonynt. Ond dylai dysgawdwyr y genedl arwain ardaloedd ein gwlad yn y mater yma; oblegid y mae yn anmhosibl i ardal fod yn isel a dichwaeth at lyfrau heb fod, ar yr un pryd, yn dyst cyhoeddus o esgeulusdra yn y dysgawdwyr eu hunain.

Pe gallwn, mi sefydlwn gymdeithas o Gymry, dan yr enw,—

CYMDEITHAS AMDDIFFYNOL CYMRU.

Digitized by Google

Dyben y gymdeithas yma fyddai edrych ar ol iawnderau neillduol y Cymry, a defnyddio moddion i gael iddynt yr hyn fyddai ddyledus. Byddai yn geidwad i'n hanrhydedd, ac yn darian i'n hawliau. Dylem ni fel Cymry gael ystadegau gwladol ein Tywysogaeth ar eu penau eu hunain, ond nid ydym yn eu cael. Mae wedi myned yn arferiad bellach i gynwys ystadegau Cymru yn y rhai Seisnig. Pe bae arnom eisieu gwybod nifer yr ymfudwyr o'r Iwerddon neu o Ysgotland, gallem eu cael; ond pe ceisiem wybod nifer y Cymry, nid allem, oblegid cynwysir hwynt yn y rhifedi Seisnig. Mae hyn yn gam â ni, ac yn ddirmyg arnom. Mae y Seison am ein llyncu, fel na fyddo mwy o son amdanom. Buasai cymdeithas amddiffynol Cymru yn gyfrwng priodol i geisio cyfiawnder i ni yn y peth hwn. Pe ceisiai y llywodraeth wthio Sais trahaus yn esgob i un o esgobaethau Cymru, ychydig iawn allai personau unigol wneyd i attal y camwri a'r sarhâd; ond gallai cymdeithas o Gymry dylanwadol godi ei llais mor groew ac mor uchel fel na feiddiai y llywodraeth ei diystyru. Felly gwaith priodol i'r gymdeithas fyddai gwaredu yr eglwys rhag bleiddiaid estronol mewn crwyn defaid Cymreig. Pe gwneid ymosodiad ar gymeriad ein cenedl, fel ag y gwnaed lawer tro cyn yn awr, byddai y gymdeithas hon yn gyfrwng parod wrth law i'w hamddiffyn. Mewn gair, gallai y gymdeithas yma gymeryd pob camwri, yn wladol, moesol, a chrefyddol, mewn llaw, a thrwy hyny fod yn foddion i ddwyn llawer iawn o ddaioni i'r Cymry. Ac heblaw amddiffyn iawnderau sathredig y Cymry, gallai y gymdeithas hon amcanu at lesau a dyrchafu cenedl y Cymry, yn gymdeithasol a dealltwriaethol. Mae gyda ni lawer iawn o bethau ar ol ag yr ydym yn teimlo y dylem eu cael. Yr ydym yn falch fel Cymry o'n Tywysog; ond yr ydym yn teimlo yr un pryd nad yw efe yn gofalu ond ychydig iawn amdanom ni. Ar bob cyfrif, dylai Tywysog Cymru feddu palas yn Nghymru. Nid allai byth gael lle gwell, na phobl mwy teyrngarol i'w amgylchu. A phe gosodid y mater ger ei fron gan bersonau priodol, mae yn fwy na thebyg y llwyddid i'w gael i drigianu ar dro yn Nghymru. Gwaith priodol i'r gymdeithas fyddai hwna eto. Soniai Mr. Griffith Davies, Bangor, wrthyf yn ddiweddar y byddai yn dda iawn pe gellid cael URDD GYMREIG, i'w galw yn *Urdd Dewi Sant*, neu ryw enw cymhwys arall. Mae y drychfeddwl yn

Digitized by Google

ddedwydd, ac yr wyf yn meddwl y dylid cofio enw Mr. Davies mewn cysylltiad â hi. Mae yna urdd Wyddelig, Ysgotaidd, a Seisnig, a phaham na chaem ninau urdd Gymreig? Nid oes un paham amdani ond nad oes neb wedi ei cheisio. Yn awr yw yr adeg i'w chael. Ond pwy wnaiff y cais? Os na wnaiff pwyllgor yr EISTEDDFOD, nid oes genym un gymdeithas addas i'w wneyd. Gallai nifer o foneddwyr ffurfio eu hunain yn gymdeithas benodol i hyny, mae yn wir, a da fyddai pe gwnaent, a gwneyd yn union, rhag colli yr adeg. Ond pe buasai genym Gymdeithas Amddiffynol Cymru, syrthiai y gwaith yn naturiol i'w gofal hi. Pe gellid unwaith sefydlu cymdeithas o'r fath yna, mae yn sicr y cai ddigon o waith; ac yn absenoldeb brenin a llys, gallai fod i'r Cymry yn darian a noddfa yn eu lle.

Pe gallwn, mi sicrhawn oes y byd i'r iaith Gymraeg. Mae llawer iawn o bethau ereill a wnawn, pe gallwn; ond ni enwaf ragor ohonynt yn awr: hwn gaiff fod yn faen clo yn bresenol—Anfarwoldeb i'r iaith Gymraeg. Fod y Seison am i'r iaith Gymraeg farw nid yw syn; ond y mae yn syn fod Cymry am ei lladd! Ac yn wir, meddwl yr wyf mai y Cymry eu hunain sydd yn cadw y dymuniad am ei difodiad yn fyw. Os bu y Seison yn ei hofni, ac yn awyddus i'w difodi oblegid hyny, mae yr ofn hwnw wedi darfod, ac y maent hwythau yn ddigon boddlawn i'r iaith gael byw, o leiaf dyna yw teimlad y nifer luosocaf o'r Seison. Ond y mae y Cymry eu hunain yn rhygnu yn barhaus ar yr un tant o farwolaeth yr iaith Gymraeg. Rhaid eu bod yn dymuno iddi farw, neu ni phroffwydent mor aml fod ei hoes bron ar ben. Defnyddir llawer o resymau tros newid yr iaith, ond dyma y rheswm cyffredinol, y rheswm a ystyrir yn ddigon cryf i ddystewi pob tafod sydd yn ei phleidio,—Nid yw y Gymraeg o un lles i neb ond yn Nghymru: gan nad ellir ei defnyddio yn unman ond gartref, oferedd a ffolineb ydyw ceisio ei chadw yn fyw. Rhaid i mi gael dyweyd nad yw yr wrthddadl yn gwbl wirionedd; oblegid mae yr iaith Gymraeg o ddefnydd mawr yn Liverpool, Manchester, Llundain, a lleoedd ereill yn Lloegr. Gellid myned trosodd i America, a gwneyd defnydd mawr ohoni yno. Mae lle i'w defnyddio hefyd hyd yn nod yn Awstralia. Felly mae o werth i rai hyd yn nod oddicartref. Ond pe na chawsid cyfle i ddefnyddio gair ohoni byth ar ol croesi

Digitized by Google

y terfyn, nid yw hyny reswm yn y byd tros ei difodi. Yr oedd Dic Sion Dafydd yn byw mewn rhyw fath o dŷ yn Nghymru; ond ar ol iddo fyned i Lundain, nid oedd y tŷ hwnw o ddim gwerth iddo—yr oedd yn rhaid iddo gael tŷ arall yn Llundain. A fuasai efe, oblegid hyny, yn tynu yr hen dŷ yn Nghymru i lawr? Buasai tynu yr hen dŷ yn Nghymru i lawr am fod eisieu tŷ arall yn Llundain, yr un mor rhesymol a dadleu tros ddifodi y Gymraeg am fod eisieu Seisneg yn Lloegr. Pe cymerem daith i Ffrainc o Loegr drachefn, byddai arnom eisieu Ffrancaeg yno; ond a dybiai neb fod eisieu difodi y Seisneg o'r byd am y rhaid cael Ffrancaeg yn Ffrainc? Rhywbeth ffol fel yna ydyw siarad y rhai sydd am ddifodi y Gymraeg, oblegid fod ar lawer ohonom angen am Seisneg i gyflawni ein gorchwylion. Ond er yr holl siarad a'r proffwydo sydd am farwolaeth ein hiaith, mae yn sier o fyw am lawer o oesau eto. Mae yr areithfa, a'r ysgol Sul, a'r wasg, yn golofnau cedyrn o dani; ac yn chwanegol at hyny, mae cariad llawer heblaw fy hunan mor gryf tuag ati, fel yr anfarwolent hi, pe gallent: a thybied yr wyf y bydd i'r cariad sydd gan y Cymry ati yn debyg iawn o wneyd oes y byd yn rhan wirioneddol iddi. Felly bydded. Amen.

14 JY 90

J. MENDUS JONES, ARGRAFFYDD, BANGOR.

Digitized by Google

263

# LLYFRAU ERAILL YR AWDWR.

Rhosyn Meirion; Chwecheiniog.
Bardd Cristionogol; Chwecheiniog.
Brâd y Llyfrau Gleision; Dau Swllt.
Blaenffrwyth Ardudwy; sef Traethawd buddugol ar Ddiwylliad y Meddwl, &c.; Swllt.
Caneuon Min y Ffordd; Swllt.
Munudau Segur; Deunaw, a Dau Swllt.

*I'w cael gan H. Humphreys, Caernarfon; I. Clarke, Ruthin; Hughes & Son, Wrexham; a'r holl Lyfrwerthwyr.*

# LLYFRAU I'W CYHOEDDI YN FUAN.

## GEIRIAU MOLIANT;

Sef Cyfrol o Emynau gwreiddiol a newydd, at wasanaeth Ysgolion Sabbothol a phersonau unigol. Cyhoeddwr, I. Clarke, Ruthin.

## CYFROL O BREGETHAU.

I Danysgrifwyr, pan geir digon o enwau, pris 3/6.

## CANEUON GWLADGAROL CYMRU;

Sef *Cyfrol o Farddoniaeth;* y pris heb ei benderfynu eto.

Digitized by Google

## *Llyfrau Cyhoeddedig ac ar werth gan J. M. Jones, Argraffydd, Bangor.*

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Cydymaith yr Addolydd; yn cynwys tros Gant a Haner o Dônau, detholedig a gwreiddiol, yn nghyda Hyfforddiadau rhwydd i ddysgu darllen Cerddoriaeth | 3 | 6 |
| Gramadeg Cymreig Ymarferol. Gan J. Mendus Jones ........................................................ | 3 | 0 |
| Llawlyfr i Ferched Ieuainc; yn cynwys Hyfforddiadau buddiol i Fenywod Ieuainc, mewn dull o Lythyrau oddiwrth Modryb Marged i'w Nithoedd ... | 1 | 0 |
| Hyfforddiadau rhwydd i ddysgu darllen Cerddoriaeth. Gan J. M. Jones ................................ | 0 | 4 |
| Silliedydd. Gan Edw. Jones, Llandysilio .... | 0 | 4 |
| Yr Allor Deuluaidd, neu Weddiau Boreuol a Hwyrol, ac Achlysurol, at wasanaeth Teuluoedd. Dan olygiad y Parch. Henry Parry ...................... | 2 | 6 |

"AT Y PARCH. H. PARRY.—*Anwyl Frawd*,—Darllenais y gyfrol o *Weddiau Teuluaidd* a roisoch yn fy llaw y dydd o'r blaen, gyda llawer o bleser ac adeiladaeth. Y mae y Gweddiau oll yn hynod o ysgrythyrol a phwrpasol. Y mae y materion mor amrywiol a chyfaddasol, yr iaith mor ystwyth ac eglur, yr arddull mor bur ac ysgrythyrol, a'r ysbryd mor ddefosiynol, fel nas gall eu defnyddio yn briodol lai na bod o fudd a chynorthwy mawr yn yr addoliad teuluaidd. Gwn fod gwahanol opiniynau gan ddynion yn nghylch y priodoldeb o ddefnyddio Ffurf-weddiau yn ddirgelaidd a chyhoeddus. Y mae gan rai ragfarn gref yn erbyn defnyddio Ffurf-weddiau o un math mewn addoliad, tra yr arferant yn rhwydd ffurfiau o Hymnau a Thônau wrth ganu mawl. Ereill, drachefn, a ymlynant mor gaeth wrth ffurfiau fel mai prin y gallant gredu y gall neb addoli yn iawn mewn un dull arall. Ond heb fyned i mewn i'r ddadl hon yn bresenol, dymunwn ddyweyd wrth y dosbarth hwnw ag ydynt mewn angen am Ffurf-weddiau Teuluaidd, ac yn teimlo yn rhydd i'w defnyddio, nas gwn am un casgliad ag y gallwn ei argymhell yn fwy calonog a dibetrus i'm cyfeillion na'r un presenol. Cynwysa y gyfrol weddiau gwahanol ar gyfer y boreu a'r hwyr bob dydd am fis cyfan, yn nghyda Gweddiau Achlysurol ar 'Ddechreu a Diwedd Blwyddyn; Dydd Gwener y Groglith; Dydd Nadolig; Sabboth Cymundeb; Amser o Drallod; Cystudd yn y Teulu; Marwolaeth Perthynas; Genedigaeth Plentyn; Bedydd Plentyn; Tros Blentyn yn yr Ysgol; Tros Blentyn gyda'i Alwedigaeth; Ar Briodas un o'r Teulu; Tros un o'r Teulu fyddo ar y Môr; Ar Ddychweliad un o'r Teulu o Fordaith; Gweddi i'w harfer yn amser Rhyfel; yn amser Prinder a Drudaniaeth; yn amser Pla a Chlefydau Marwol; yn amser Llifeiriant ac Ystormydd; Gweddi am Wlaw; Diolch am y Cynauaf; Gweddi i'w harfer gan Fam gyda'i Phlant yn y Boreu, &c.'

Yn yr holl amrywiaeth hyn, y mae y gofal mwyaf wedi cael ei arferyd gyda'r cyfansoddiad, fel nad oes achos i neb betruso yn nghylch defnyddio pob gweddi yn yr holl gasgliad. Dylwn ddyweyd hefyd fod yr argraffwaith yn lân, yn eglur, ac yn foddhaol iawn.

Gyda dymuniad am i Dduw fendithio y gwaith, y gorphwysaf, yr eiddoch,"

*Pontfaen, Hyd.* 23, 1863. ISAAC JENKINS.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

89 Digitized by Google

Digitized by Google